

COFIANT A PHREGETHAU

Y PARCHEDIG

D. SAUNDERS, D.D.



DAN OLYGIAETH

W. JAMES, ABERDAR

A

J. M. JONES, CAERDYDD.

*W. Bowler
Cefn-y-waen*



THE LIBRARY
OF
THE UNIVERSITY
OF CALIFORNIA

BEQUEST
OF
MR. OWEN PRICE JONES


HUGH PRICE JONES
CASTELL GAERONWY
UPPER LLANDWROG




COFIANT A PHREGETHAU

Y PARCHEDIG

D. SAUNDERS, D.D.







for a copy of the
R. Saunders

From a Drawing by W. Arthur Smith
Swanwick, 1850





of citizens - resident
of Hamden

COFIANT A PHREGETHAU

Y PARCHEDIG

D. SAUNDERS, D.D.

DAN OLYGIAETH

W. JAMES, ABERDAR,

“ A ” A

J. M. JONES, CAERDYDD.

Aberfawc :

CYHOEDDEDIG GAN LEWIS EVANS,

13, CASTLE STREET.

—
1894.

~~XI39~~
~~132A~~

BV4254
W4S3
1894
MAIN

RHAGYMATRODD.


—:O:—

PAN yn dethol y Pregethau i'r gyfrol hon, ein rheol ydoedd cymeryd y rhai oedd wedi eu hysgrifenu lawngan gan Dr. Saunders ei hun, ac, er ein gofid, cawsom fod amryw o'r rhai a ystyrid y mwyaf rhagorol a phoblogaidd heb fod yn eu mysg. Myfyriai ei bregethau yn drwyadl iawn, ac ysgrifennai y meddyliau arweiniol oll, ond ymddiriedai fanylion y traddodiad braidd yn gwbl i ysprydoliaeth y foment; felly nid oes nemawr ar gael yn hollol fel y pregethid hwynt, oddieithr eu bod yn meddiant personau a'u hysgrifennodd mewn llaw fer wrth eu gwrando. Hyderwn, er hyny, fod y rhai hyn yn ddigon cyflawn a nodweddiadol o hono i'w gyfeillion ei adnabod ynddynt, ac i alluogi y rhai na chafodd y fantais o'i glywed, i ffurfio barn gymharol gywir am dano fel pregethwr. Mae yn ngweddill ddigon o ddefnyddiau cyfrol neu ddwy gyffelyb pe amlygid dymuniad am eu cyhoeddi.

Argraffwyd y Pregethau cyn dechreu ar y Cofiant, ac felly yr oeddem dan angenrheidrwydd i'w wneyd at hyd penodol, gan fod maint a phris y Gyfrol wedi eu penderfynu. Wrth fyned yn mlaen, gwelsom y byddai yn llawer hawddach ei wneyd yn ddau cymaint o hyd, ac nid ydym heb ofni fod ei gwtogi wedi ei waethygu yn fawr. Bellach nid oes genym ond ei gyflwyno i'n darllenwyr fel y mae, gan obeithio y bydd y Byr-Gofiant a'r Pregethau yn fwynhâd ac yn adeiladaeth ysprydol iddynt.

Y GOLYGWYR.

Mawrth 1af, 1894.



CYNWYSIAD.

—:O:—

COFIANT.

PENOD		TUDALEN
I.	EI RIENI	i
II.	EI ENEDIGAETH	v
III.	EI FEBYD	ix
IV.	DECHREU PREGETHU	xvi
V.	YN YR ATHROFA	xix
VI.	YN FUGAIL AC YN PRIODI	xxiv
VII.	YN ABERDAR	xxxii
VIII.	YN LIVERPOOL	liii
IX.	YN ABERCARN	lxxi
X.	YN ABERTAWE	lxxxii
XI.	NODWEDDION EI GYMERIAD	ci
XII.	NODWEDDION EI BREGETHU	cix
XIII.	EI GYSTUDD, EI ANGAU, A'I GLADDEDIGAETH	cxviii

PREGETHAU.

PREGETH		TUDALEN
I.	CODI Y TLAWD O'R LLWCH	1
II.	CRIST YN GADAEL TANGNEFEDD I'W DDYSGYBLION	18
III.	YSBRYD CRIST	36
IV.	HAU A. MEDI	51
V.	RHESYMAU DAFYDD AM EI HOFFDER O DY DDUW	68
VI.	CYNGOR I BREGETHWYR	85
VII.	YR YNIFYDRWYDD O YMRYSON A DUW	113
VIII.	YMLAWENHAU AC YMHYFRYDU YN NHRUGAREDD DUW	125
IX.	BYDDWCH BERFFAITH	144
X.	Y GWAS DA A FFYDDLAWN	163
XI.	YR ARGWYDD A'R ACHUBWR	175
XII.	GWASANAETHU DUW YN UNIG AMCAN BYWYD	190
XIII.	CREADIGAETH NEWYDD	204
XIV.	YR IESU BYW	217
XV.	ADNABYDDIAETH YR IESU O DDYN	233
XVI.	YR ANGENRHEIDRWYDD AM AIL-ENEDIGAETH	248
XVII.	DYDDANWCH DUW	261
XVIII.	CYNGOR I BREGETHWYR—PORTHWCH BRAIDD DUW	274
XIX.	ANERCHIAD—GWAITH Y WEINIDOGAETH YN EI GYS- YLLTIAD AG AMGYLCHIADAU PRESENOL Y CYFUNEDD	295



C O F I A N T .

PENOD I.

—:O:—

EI RIENI.

NID oes nemawr o hanes boreuol ei rieni ar gael, nac ond ychydig o berthynasau iddynt heddyw yn fyw. Ymddengys nad oedd un o honynt yn hanu o dylwyth hynod am eu hepiled, ac felly nad oes achyddiaeth eang i'w holrain. Yr oedd iddynt rai hynafiaid, bid sicr, ond cafodd coffawdwriaeth y rhai hyny berffaith lonyddwch ar ol eu marwolaeth; mewn rhan, fe ddichon, o herwydd nad oedd dim neillduol ynddynt yn eu gwahaniaethu oddiwrth ddynion eraill; ac mewn rhan am nad oedd croniclo achau ac amgylchiadau yn waith mor gyffredin yr amser hwnw ag ydyw yn bresenol. Oddiwrth enw ei dad, naturiol ydyw tybied nad oedd y teulu yn perthyn i hen frodorion y gymydogaeath, ac ni chlywsom ond am ychydig o'r enw hwn yn y parth yna o'r wlad. Yr oedd cyfnither iddo, o'r enw Mrs. Prichard, yn byw mewn sefyllfa dda yn agos i Hwlfordd, a bu gwrthddrych ein cofiant yn aros gyda hi am beth amser pan yn blentyn; ac yn ol a glywsom, gan ei dad yn bersonol, yr oedd y nifer mwyaf o'i gysylltiadau perthynasol yn gorwedd yn y cyfeiriad hwn. Yn agos i gydiad y tair Sir—Penfro, Aberteifi, a Chaerfyrddin—yr ydym yn cael yr olwg gyntaf ar ei dad a'i fam, ac y mae rhai perthynasau i'r olaf yn byw yn Nghastellnewydd-Emlyn a'r amgylchoedd hyd y dydd hwn. Rhywle yn y cyffiniau yma y daethant i gyfarfyddiad â'u gilydd gyntaf, ac y darfu iddynt, ar ol ymgyfathrachau yn weddus fel dynion ieuainc,

fyned i stâd anrhydeddus priodas. Yn y dref a enwyd y darfu iddynt ddechreu ymsefydlu yn y byd, ac y ganwyd eu hunig-anedig.

Yr oedd ei dad yn ddyn eithriadol fawr o gorffolaeth; prin hefyd y gallesid ei alw yn gawr, oblegid nid ydoedd yn ddigon nerthol a chadarn i wisgo y teitl hwnw. Safai yn chwe' troedfedd a dwy fodfedd a haner o daldra heb ei esgidiau, ac yr oedd o led a thrwch cyfartal, a'i gorff drosto yn lluniaidd a hoyw, ac o ymddangosiad a cherddediad gwir bendefigaidd. Yr oedd ei osgo a ffurf ei holl gorff, ac yn arbenig ei ddwy-law a'i fysedd, yn awgrymu ei fod yn disgyn o deulu nad oedd wedi ymarfer a chaledwaith; ac yr oedd ei foneddigeiddrwydd esmwyth a naturiol, yn gystal a'r gelfyddyd y gosodwyd ef ynddi, yn myned yn mhell i brofi fod ei rieni mewn amgylchiadau cysurus, os nad oeddynt yn dal cysylltiad â chyfoethogion a mawrion y tir. Medrai efe droi yn y gymdeithas uchaf, a chyfarch arglwyddi gyda'r un hawsder ag y siaradai â'r tlotaf a fyddai yn myned heibio ei ddrws; ac nid oedd neb yn cael pasio heb gael ei gyfarchiad siriol a charedig. Meddai lais clir a gwrteithiedig, a chawsom hyfrydwch lawer pryd i wrando arno, pan gryn bellder oddiwrtho, yn ymgomio yn hynaws â'r cymydogion y tro cyntaf y byddai yn eu gweled y diwrnod hwnw. Safai yn fynych ar ddrws ei fasnachdy, yn mwynhau ei hun gyda'i bibell hir, ac ni chai hyd y nod plentyn ddianc na buasai ganddo ef ryw air caredig i'w ddweyd wrtho.

Ni chafodd fanteision addysg uchel pan yn ieuanc, ond rhaid ei fod wedi cael ysgol dda ag ystyried cyfleusderau addysg yr oes hono. Darllennai lawer mwy na'r cyffredin o'i gyfoedion, yn enwedig ar bynciau cyhoeddus y dydd, a theimlai ddyddordeb dwfn yn yr holl symudiadau cymdeithasol a gwladol. Meddai chwaeth dra choethedig, yr oedd yn feirniad craffus ar waith celfyddyd, ac yn gerddor medrus. Nis gwyddom pa le y dysgodd egwyddorion cerddoriaeth, ond diau i'w arosiad yn Aberystwyth, lle yr oedd cerddoriaeth

yn uchel y pryd hwnw, fod yn fanteisiol iddo i ymberffeithio yn y gelfyddyd hon.

.. Fel gwleidyddwr, yr oedd yn Rhyddfrydwr goleuedig a chydwybodol, ac yn Ymneillduwr cryf. Darllenai y newyddiaduron goreu trwy ei oes, ac efrydai wleidyddiaeth yn fanwl cyn bod sôn am y deffroad cenedlaethol diweddar; a bu adeg arno pan yr oedd yn credu mewn "Eglwyswr rhyddfrydig" fel aelod seneddol cymhwys i Gymru. Tybiai unwaith fod gobaith i'r eglwys gael ei diwygio a'i dadgysylltu gan ei phlant ei hun, ac mai mwy anrhydeddus fuasai gadael y gorchwyl hwn iddynt. Ond darfu i ddadgysylltiad yr eglwys yn yr Iwerddon, ac etholiad y diweddar Mr. H. Richard yn aelod seneddol dros y fwrdeisdref yr oedd yn byw ynddi, yn nghyd â'r cyfnewidiadau pwysig a ddygwyd oddiamgylch yn mywyd cyhoeddus y Dywysogaeth yn yr ugain mlynedd diweddar o'i oes, beri iddo yntau newid ei farn ac ymuno a rheng flaenaf ei blaid; a dadleuai yn selog dros wladlywiaeth y Rhyddfrydwyr, yn gartrefol a thramor.

Safai yn gryf dros urddas gweinidogaeth yr efengyl, ac edmygai yn ddiderfyn brif bregethwyr y Cyfundeb a'r genedl. Nis gallasai oddef y masw, yr after, a'r isel mewn cyfansoddiad na thraddodiad; dywedai fod yr efengyl yn haeddu y ddysgeidiaeth a'r iaith oreu. Os byddai y bregeth yn ymylu ar yr anghysegregatedig ni fuasai y pregethwr yn sicr o ddianc rhag ei anghymeradwyaeth. Un tro, pan oeddym unwaith wedi ymdrin a rhyw fater na ystyriai efe yn ddigon cysegredig i wasanaeth crefyddol tŷ Dduw, cyfarfyddodd ni wrth ddisgyn â'r sylw: "Nid yw mater fel yna yn gweddu i chwi, machgen i, ewch yn ol i Efengyl Ioan."

Dynes o faintioli cyffredin oedd ei fam, ond yr oedd hithau o ymddangosiad boneddigaidd, o feddwl anarferol graffus a galluog, ac o synwyr cyffredin cryf, a barn yn ymylu ar fod yn ddifeth. Mewn amgylchiadau dyrus yn y gymydogoeth ac yn yr eglwys, yr oedd ei chyngorion yn wir werthfawr. Prif faes ei llafur hi ydoedd y Beibl a'r esbon-

iadau cyffredin arno, a llenyddiaeth y Cyfundeb; yr oedd wedi cyrhaedd gwybodaeth eang a chywir ar bynciau ysgrythyrol a duwinyddol; a theimlai ddyddordeb dwfn yn hanes a llwyddiant Methodistiaeth. Yr oedd gan ei mab olwg fawr ar farn ei fam, ac ymgynghorai â hi ar gwestiynau o bwys mewn cysylltiad â'i lafur fel gweinidog a bugail. Nodweddid hi gan grefyddolder dwfn, a bywyd diamheuol gywir a chydwybodol. Gyda'r fasnach a'r teulu yr oedd yn gynil a gofalus, ond nid mewn un modd yn gybyddlyd. Dyn agored, hael, ac eithafol garedig oedd ei dad; yr oedd ei fam felly hefyd, ond llywodraethid hi yn fwy gan reswm a barn a gofal am yr amgylchiadau. Darfu i'w hunig fab etifeddu prif nodweddion meddyliol a moesol y naill a'r llall—natur serchoglawn, unplygrwydd syml, urddas pendefigaidd, chwaeth goethedig, cydymdeimlad eang a thyner, meddwl galluog sychedig am wybodaeth, barn glir, gallu arbenig i adnabod y natur ddynol, a rhyddfrydedd a thegwch tuag at bob dyn.

PENOD II.

—:0:—

EI ENEDIGAETH.

NIS gwyddom fod dim neillduol yn ei enedigaeth a'i fabandod, oddigerth fod y ffaith y clywsom ei fam yn ei hadrodd yn deilwng o'i chofnodi fel mater o gywreinrwydd, sef mai baban bychan iawn, eiddil, ac anhebyg i fyw ydoedd. Eto mae y lle pwysig a lanwodd, a'r enwogrwydd a enillodd mewn oedran addfetach, yn adlewyrchu gogoniant ar flynyddoedd boreu ei oes, ac yn creu dyddordeb yn amgylchiadau ei enedigaeth. Ceir fod swyn arbenig mewn dilyn afon fawr fel y Mississippi yn ol i'w tharddiad cyntaf, a'i gweled yn ymwithio trwy yr hesg a'r brwyn i oleuni'r dydd, a byddai rhyw hyfrydwch neillduol mewn camu drosti yn ol ac yn mlaen pan yn nant fechan y mynydd. Er fod y dechreu yn fychan mewn gwirionedd, mae y ffaith mai cychwyniad afon fawr fordwyol ydyw yn cyfreithloni aros am enyd o amgylch ei tharddiad dinod. Felly am *fabandod* dyn mawr fel Dr. Saunders, ceir fod y lle a wnaeth iddo ei hun yn marn a theimlad cenedl y Cymry yn peri fod man ac adeg ei enedigaeth, a'r cryd y siglwyd ef ynddo, i ryw fesur yn gysegredig. Ganwyd ef Mai zofed, 1831, yn Nghastellnewydd-yn-Emlyn, ar lan yr afon Teifi. Neu yn fwy manwl, os clywsom yn gywir, yn y rhan o'r lle, ar ochr Sir Aberteifi i'r afon, a elwir Trefhedyn. Saif y Castell ar ochr Sir Gaerfyrddin i'r afon, ac y mae y Castell erbyn hyn wedi rhoddi ei enw i'r holl dref ar y ddau du i'r afon, yr hon sydd yn un o'r trefi prydferthaf yn Neheudir Cymru, ac y mae y dyffryn oddiyno i Aberteifi, pellder o ddeng milldir, yn un o'r rhai harddaf yn y Dywysogaeth.

Pe tynid cylch o ychydig filltiroedd o amgylch y dref hon,

ceid fod mwy o enwogion wedi codi o'i fewn nag y mae llawer wedi arfer meddwl. Yn ymyl y dref y saif Twrgwyn, cartref Dafydd ac Ebenezer Morris, fu yn ysgwyd Cymru à'u gweini-dogaeth; ac yn mynwent Llan gyfagos y mae tŵr o gofadail wedi ei godi ar eu bedd, ar yr hwn y mae yn argraffedig gryn lawer o hanes eu bywyd. Ystyriai y diweddar Barch. W. Evans, Tonyrefail, Eben, y pregethwr mwyaf a glywodd efe erioed. Hyd y nod yn ei gymydogoeth ei hun nid oedd neb fel efe am sicrhau cynulleidfa i "*launchio* llong." Yn yr oes hono ystyrid "*pregethwr launchio* llong" yn gyfystyr a phregethwr deg o'r gloch y gymanfa. Yn ei ddyddiau ef adeileddid amryw longau yn y gwahanol borthladdoedd ar lan culfor Aberteifi; ac ar y dydd penodedig i gludo y llestr i'r môr, cyhoeddid "*Eben Morris*" i bregethu; deuai yr holl wlad yn nghyd, a gwasanaethai y cyfarfod, heblaw cael dynion i wrando yr efengyl, yr amcan deublyg o gysegre y llong trwy Air Duw a gweddi, a gofyn bendith yr Hwn sydd yn llywodraethu ymchwydd y môr ar yr anturiaeth; a chael digon o ddwyllaw i'w gosod i nofio yn daclus yn ei helfen ei hun. Yn gyfagos y trigai "*Jones, Blaenanerch*," un o udgyrn arian efengyl hedd. Heb fod yn nepell, ar du arall y dref, y bu "*Christmas Evans*" yn was fferm, pan y dechreuodd bregethu, ac y bu efe a'i gyfaill yn yr ysgol gyda hen ysgolhaig enwog o'r enw "*Dafis, Castellhywel*." Yn nes eto i'r lle, y mae llanerch gysegredig Closygraig, lle y magwyd yr hynaws Dr. J. Harris Jones, diweddar Athraw yn Ngholeg Trefecca. Yno hefyd y gorwedd llwch yr ysgolor uchel a'r pregethwr poblogaidd. Un o heddychol ffyddloniaid Israel ydoedd efe. Nis gallasai neb oedd yn ei adnabod lai na theimlo yn garedig tuag ato; talp ydoedd o ddiniweidrwydd y plentyn, ac o natur dda. Nid oedd iddo elyn yn ei fywyd, a gresyn i neb ddychymygu fod ar ol iddo farw. Trwy ei ymroddiad cyrhaeddodd ben y rhes fel efrydydd yn ei athrofa; hynododd ei hun fel dyn dysgedig yn yr Almaen, a chyrhaeddodd y lle amlycaf fel pregethwr ar faes y gymanfa fawr. Bloeddiodd yr

efengyl i galonau miloedd o'i gydwladwyr, ac yr oedd yn un o hoff ddynion y bobl. Eler dros y gefnen gul sydd yn gwahanu dyffryn y Teifi oddiwrth ddyffryn y Tâf, yr hwn sydd agos mor brydferth, ond ar raddfa lai, a deuir i gymydogeath lle yr oedd "Dafis, Glandwr," Hebrewr enwog yn ei ddydd, yn byw ac yn gweinidogaethu. Cyfieithodd rai o'r prophwydi o'r Hebraeg, ac ysgrifennodd esboniad arnynt, ac y mae ar ei ol, mewn llawysgrif wedi ei harolygu y drydedd waith, gyfieithiad llawn o'r Testament Newydd o'r Groeg. Arholai mewn Hebraeg yn y gwahanol golegau, ac ystyrid ef yn awdurdod ar faterion cysylltiedig â'r iaith hono. Gwisgai fel gwladwr cyffredin, a marchogai geffyl bychan fel amaethwr neu felinydd, ond yr oedd yn ei ben ystorfa helaeth o wybodaeth ieithyddol a duwinyddol. Yn yr un dyffryn, ac yn agos i'r un man ynddo, y codwyd Dr. B. Davies, Athraw yn Ngoleg y Bedyddwyr yn Regent's Park, Llundain, ac aelod o Bwyllgor y Cyfieithiad Diwygiedig o'r Hen Destament, dyn gwir ddsygedig yn yr awduron hynafol yn y Lladin a'r Groeg, ac mewn Hebraeg. Golygodd a dygodd allan argraffiadau o rai o honynt. Cof genym fod Iliad Homer, wedi ei olygu ganddo ef, yn *text-book* yn Athrofa Trefecca un flwyddyn yr oeddem yno. Golygodd hefyd argraffiad o Eiriadur Hebraeg Gesenius. Yn ei ymyl yntau y codwyd y Parch. D. Griffith, Prif Athraw Coleg y Bedyddwyr yn Accrington. Dyn o alluoedd cryfion ac o ddylanwad anarferol yn ngogleddbarth Lloegr. Dygwyd ei gorff i'w le genedigol i'w gladdu, ac, ar ol oediad blin ac anhawsderau lawer, gosodwyd ei weddillion i orphwys yn ol ei ddymuniad yn "Ngardd Gladdu Bangor." Y Parch. J. Lewis, Henllan, hefyd ydoedd ŵr tra dysgedig, ac un a enwid unwaith fel dyn cymhwys i fod yn Brif Athraw Coleg y Presbyteriaid yn Nghaerfyrddin. Nid oes ond y Frenni Fawr rhwng Castellnewydd a lle magedig "Caleb Morris," un fu yn tynu sylw Llundain a'i weinidogaeth, ac yn attyniad mawr i ieuencyd mwyaf meddylgar y Brif-ddinas. I'r symbyliad a gafodd trwy ei bregethu ef, y priodolai y diweddar Dr. D.

Thomas, Stockwell, golygydd yr *Homilist*, lawer o'i lwyddiant yn y pulpud ac yn y wasg. Yr oedd Dr. Thomas ei hun hefyd yn frodor o'r parth yma o'r wlad, ac y mae ei berthynasau yn byw yno yn bresenol.

Os goddefir i ni enwi rhai sydd heddyw yn fyw, naturiol ydyw coffa Dr. Herber Evans, Caernarfon. O fewn i ddwy neu dair milldir i'r dref, mewn amaethdy o'r enw Pen yr Herber, y dygwyd i fyny y gwr parchedig hwn, sydd wedi eistedd yn y gadair uchaf fedd ei enwad. Yn y tŷ nesaf y magwyd y Parch. J. M. Gibbon, yr hwn a fu yn pregethu yn nghyfarfod yr Undeb Cynulleidfaol yn ddiweddar, ac a saif yn uchel yn Lloegr fel un o brif weinidogion ei oes. Yn ymyl drachefn y cododd y Parchn. Ossian Davies a T. Eynon Davies, ei frawd, goleuadau o'r maintioli mwyaf; y blaenaf unwaith yn un o brif bregethwyr y Brif-ddinas, ac felly yn awr mewn tref fawr arall yn Lloegr, a'r olaf yn yr Alban yn dal y cyffelyb safle. Ond er eu bod wedi symud o wlad eu genedigaeth y mae calonau gwir Gymreig yn curo yn eu mynwesau, a'r tân Cymreig yn ysu yn eu gweinidogaeth. Dichon fod amryw eraill, llawn mor deilwng o'u cofnodi, nad ydym yn digwydd cofio eu henwau yn bresenol, ond nac anghofier gweinidog y Methodistiaid Calфинаidd sydd ar hyn o bryd yn Nghastellnewydd, yr hwn a adnabyddir trwy holl Gymru, a threfydd Lloegr lle y mae Cymry, fel pregethwr galluog, a'r melusaf a'r byraf a fedd y Cyfundeb.

O fewn y cylch hwn y trefnodd Rhagluniaeth Duw i'r Parch. D. Saunders, D.D., weled goleuni dydd gyntaf erioed, ac, fel y clywsom un yn gwneyd y sylw unwaith, yr oedd yn brofedigaeth i'w fam, pan welodd ei chyntaf-anedig yn agor ei lygaid mawrion ar y byd y daethai iddo, i dybied fod dorau y wawr yn ymagor. Yn sicr efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, a bu cenedl y Cymry yn llawenychu yn ewyllysgar am ddeugain mlynedd yn ngoleuni ei weinidogaeth.

PENOD III.

—:0:—

EI FEBYD.

YN fuan ar ol ei enedigaeth symudodd ei rieni i Lanbedr Pont Stephan, ac yno y buont yn byw am rai blynydd-oedd. Tra yn trigianu yno, bu ei dad yn gweithio yn Aberystwyth; lledrwr ydoedd wrth ei alwedigaeth. Tynodd y ffaith ei fod yn gweithio yno, a'i deulu yn byw yn Llanbedr, sylw y gweinidog enwog a'r dysgyblwr manwl, y Parch. E. Jones, Aberystwyth, a darfu iddo fygwth gwneyd hyn yn fater seiati. Dichon mai hyn fu yn achlysur iddo adael y lle hwn a symud gyda'i deulu, pan oedd ei unig fab yn wyth mlwydd oed, i Dreforris, ger Abertawe. Clywsom frawd doniol yn gwneyd y sylw—"Os yn Sir Aberteifi y cafodd ddechreu bod, mai yn Sir Forganwg y dadblygwyd ei alluoedd." Nid oedd ond lled yr afon rhwng y tŷ y ganwyd ef ynddo a Sir Gaerfyrddin; ac, fel y dywedodd brawd arall ar yr un achlysur—"Os oedd y gwynt yn digwydd chwythu o'r de-orllewin ar adeg ei enedigaeth, fel y gwna am oddeutu naw mis o'r flwyddyn, awyr Sir Gaerfyrddin a dynodd i'w ysgyfaint pan yr anlododd gyntaf." Mae Sir Benfro o fewn i lai na thair milldir i'r fangre, ac yr oedd ei berthynasau o ochr ei dad, os nad o du ei fam hefyd, yn preswyllo yn y sir hono; felly gall pedair sir yn Neheudir Cymru hawlio cysylltiad pur agos â'r bachgen ddaeth wedi hyny i fod yn feddiant cyffredinol i holl siroedd y Dywysogaeth.

Ar eu dyfodiad i Dreforris darfu i'w rieni ymaelodi yn Philadelphia, yr unig eglwys Fethodistaidd yn y lle y pryd hwnw, ac ymroddasant i wasanaethu crefydd yn eu gwahanol gylchoedd. Gan fod ei dad yn hoff o ganu, ac yn gymharol hyddysg yn egwyddorion cerddoriaeth, daeth yn fuan iawn

yn amlwg gyda y rhan hon o waith y cysegr, a bu o wasanaeth mawr i'r eglwys a'r gymydogeaeth. Llafuriai ei fam yr un mor ymroddgar yn ei chylch hithau, a daeth yn fuan yn adnabyddus yn Nhrefforis ac Abertawe fel dynes grefyddol, gall, a defnyddiol iawn yn yr ysgol Sabbothol a'r cyfarfodydd eglwysig. Yn fuan tynodd y mab sylw yr eglwys, yn gyntaf, o bosibl, fel cerddor ieuanc a datganwr heb ei fath. Pan yn blentyn canai ddigon o *alto* i lonaid capel o gantorion. Arweinai ei dad yr ysgol ganu, a chymerai yntau y rhan fwyaf blaenllaw yn yr adran y perthynai iddi. Hynododd ei hun fel dysgwr diail. Pan ymroddai ati nid oedd neb o'i gyfoedion fedrai gystadlu ag ef. Ni chawsom ei oedran pan y derbyniwyd ef yn gyflawn aelod i gymundeb yr eglwys, ond gwyddom iddo ymuno yn bur ieuanc.

Pan yr oedd efe yn fachgenyn, yr oedd Abertawe, er nad oedd ond tref fechan, yn sefyll braidd ar y blaen i unrhyw le yn y deheubarth, os nad yn y gogledd hefyd, fel eisteddle addysg a diwylliant. Dichon yr ystyrir fod lleoedd eraill yn blaenori erbyn heddyw, gan i'r dref hon, ar ol ymdrech wir ganmoladwy, fethu gael Coleg y Brif Ysgol i ymsefydlu ynddi. Yn yr ornest hono Caerdydd fu yn fuddugoliaethus. Ond os daw i ben y cwbl a ragfynegai y presenol Arglwydd Abertawe, yn ei araeth tra galluog gerbron y Cyngor Addysg ar yr achlysur hwnw, mae dyfodol dysglaer o'i blaen eto. Fodd bynag am hyny, iddi hi y perthyn yr anrhydedd o fod wedi arloesi ffordd cerbyd addysg, ac amryw o'r diwygiadau diweddar sydd wedi cyrhaedd ein gwlad. Yr ydoedd hi y pryd hwnw yn brif ganolbwynt sefydliadau llenyddol, yn gystal a bywyd a gweithgarwch meddyliol y wlad.

I ddangos hyn, gellir enwi y ffaith ddarfod i'r *British Association* gynnal un o'i chyfarfodydd blynyddol yma mor foreu a'r flwyddyn 1847. Yr oedd yma ddynion y pryd hwnw, nid yn unig fedrai werthfawrogi llafur Cymdeithas o'r fath, ond amryw hefyd fedrai gymeryd rhan yn ei gweithrediadau, megis Syr William Grove, un o farnwyr ei Mawrhydi wedi hyny.

Efe oedd y cyntaf i roddi cyhoeddusrwydd i'r athrawiaeth o "Gydberthynas Galluoedd Naturiol y Greadigaeth." Nid ydym yn cofio ar hyn o bryd ai yn nghyfarfod y Gymdeithas yn Abertawe, ynte mewn cyfarfod arall yn fuan ar ol hyny, y darllenodd bapyr ar y testyn hwn, a dynodd sylw holl wyddonwyr y byd. Myntumiai efe, yr amser hwnw, fod cysylltiad rhwng y naill allu a'r llall yn y greadigaeth faterol, a bod yn bosibl i'r naill gydweithredu a chynorthwyo y llall pan y byddai angen am hyny. Erbyn hyn mae darganfyddiadau diweddar wedi profi a chadarnhau yn mhellach y dybiaeth hono. Yr oedd y Parch. W. Howells, diweddar Brif Athraw Trefecca, yn weinidog eglwys Bethany, Abertawe, ar y pryd, ac yn bresenol yn nghyfarfodydd y Gymdeithas. Cof genym ei glywed yn adrodd am Dr. R. Owen, wedi hyny Syr R. Owen, un a ystyrir yn ei ddydd y blaenaf fel difyniwr, yn sefyll uwchben darn o graig ar y bwrdd. Yr oedd rhyw wyddonydd ieuanc wedi profi, i foddlonrwydd iddo ei hun, fod y graig yn cynwys gweddillion rhyw anifail; ac mor sicr ydoedd yn ei feddwl ei hun fel yr oedd yn medru disgrifio lle a nodwedd pob asgwrn a chymal perthynol iddo. Codai Syr R. Owen, y gwyddonydd profiadol, ar ei ol, ac mewn yspryd gwylaidd, dangosai i'r cyfarfod nad oedd y dyn ieuanc wedi profi dim a ddywedodd, ac nad oedd gwyddonwyr ar y pryd wedi cyrhaedd y fath raddau o wybodaeth fel i gyfreithloni casgliadau o'r fath. "Ond," meddai, "dichon y cyrhaedda y wyddor rywbyrd y sefyllfa hono o berffeithrwydd, fel ag i'n galluogi i benderfynu pa un a fu cymal braich yn y fan hon, ac asgwrn coes yn y fan yma, ai naddo, a pha un a oes gweddillion anifail yn y graig hon ai nad oes. Gadewch i ni aros nes y dël goleuni pellach."

Yn yr un dref hefyd yr oedd amgueddfa gymharol gyfoethog, a llyfrgell eang, ag ystyried amgylchiadau y dyddiau hyny; cartrefa y sefydliad hwn heddyw mewn adeilad hardd a elwir *The Royal Institution*. Yma y byddai llenorion y dref a'r gymydogeath yn cyrchu, yn darllen y llyfrau, yn ymglydna-

byddu a chynwys yr amgueddfa, yn cael dadleuon a darlithiau dyddorol ar wahanol ganghenau gwybodaeth. Yr oedd sefydliad arall a elwid "*The People's Institute,*" yn *Oxford Street*, yr hwn sydd bellach wedi peidio a bod, a'r adeilad lle y cynhelid ef wedi ei droi yn fasnachdai. Yma y byddai dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn y nos i addysgu y sawl a ddelai yn nghyd. Yn ysgol y nos yr hen sefydliad hwn y bu gwrthddrych ein sylwadau yn cael y gwersi cyntaf a gafodd erioed mewn addysg uwchraddol. Yr adeg hono yr oedd gramadeg a meidroniaeth yn gyfyngedig i ddysgedigion, ond rywfodd, trwy y cyfryngau hyn cafodd efe gipdrem arnynt, nes yr oedd ei enaid yn ysu am eu deall. Cynghorwyd ef gan yr athraw i brynu *Pott's Euclid* ar gyfer y dosbarth. Ar ol casglu yn nghyd ddigon i'w bwrcasu, aeth i fasnachdy llyfr-werthwr i roi gorchymyn am dano. Un canol-ddydd, ar yr awr ginio, aeth yn ei frys i'w gyrchu, yn ei ddillad gwaith, a'i arffedog wedi ei throï am ei ganol. Digwyddodd fod yn y faelfa ar y pryd foneddwr a elwid "*Raleigh Mansel,*" cymeriad hynod, aelod o un o'r teuluoedd anrhydeddusaf yn y dref, a pherthynas i'r diweddar Mr. C. R. Mansel Talbot, A.S. dros Forganwg, ac fel yntau yn un o'r *mathematicians* blaenaf. Synodd wrth weled bachgen cyffredin yr olwg arno yn prynu y fath lyfr, a gofynodd: "I bwy yr ydych yn prynu y llyfr yna, machgen i?" "I mi fy hun, syr," oedd yr ateb. "Fedrwch chwi ei ddeall?" gofynai drachefn. "Yr wyf yn meddwl y medraf, syr," ebai y llanc. "Ydych chwi wedi bod yn ceisio?" meddai. "Ydwyf," meddai yntau. "Wnewch chwi fyned trwy *problem* yn y man yma yn awr?" "Mi cynygiaf hi, syr," meddai y bachgen. Aeth drwyddi yn llwyddianus. "Gaf fi dalu am y llyfr yna i chwi?" ebe y boneddwr. "Diolch yn fawr i chwi am wneyd," ebai yntau. Aeth ffwrdd ar garlam i hysbysu ei hen feistr a'i noddydd, Mr. T. Phillips, Y.H. (hynaf), fod y llyfr wedi dod, a chyda llawenydd mwy fod y boneddwr wedi talu am dano. Yr oedd yn gwrando, weinidog, sydd bellach yn bur adnabyddus trwy Gymru,

yr hwn a ofynodd mewn tòn, rhwng cellwair a gwawd o uchelgais y dyn ieuanc—"Euclid, beth yw hyny, ai rhywbeth i'w fwyta ydyw?" Doluriwyd teimlad y bachgen yn ddirfawr, a dywedai mewn oedran addfetach, gyda chyfeiriad at yr amgylchiad hwn, iddo weled ar unwaith y gwahaniaeth rhwng gŵr boneddig ac un heb fod felly.

Yr oedd Ysgol Ramadegol Waddoledig Abertawe mewn bod y pryd hwnw, a phlant mawrion y wlad yn dod iddi. Os ydym yn iawn gofio, yma y bu Arglwydd Aberdar ac Arglwydd Abertawe yn cael eu haddysg foreuol. Ond oddeutu yr amser hwn agorwyd ysgol dra rhagorol yn y dref gan y Parch. G. P. Evans, a'r Normal College, sefydliad o'r dosbarth blaenaf, gan y Dr. Evan Davies. I'r ysgol olaf y cyrchai ieuencyd y dalaeth ddeheuol am addysg uwchraddol. Heblaw y cwrs cyffredin, addysgid yma yn y gwyddonau, ac yr oedd ynddi fferyllfa i weinyddu addysg yn y wyddor hono. Gan fod Abertawe yn cynwys cynifer math o weithfeydd, megis haiarn, dur, copr, arian, ac amryw eraill, yr oedd gwybodaeth wyddonol yn dyfod yn dra phwysig; ac yn yr ysgol hon codwyd ysgolheigion i lanw lleoedd o ymddiried fel profwyr meteloedd ac arolygwyr gweithfeydd dan y gwahanol gwmnïau a than y Llywodraeth. Nid oedd bath Dr. Davies am adnabod talent a'i dadblygu. Gwelai ar unwaith os byddai rywbeth yn yr ysgolor gwerth cymeryd trafferth wrtho; ac os celai afael ar un gwir alluog, cefnogai ef i'r eithaf mewn addysg, ac, hyd y gallai, mewn cynhaliaeth hefyd, os byddai angen.

I ganol y deffroad meddyliol hwn yr arweiniwyd ein gwrth-ddrych, gan law Rhagluniaeth ddoeth, pan yr oedd ei feddwl yntau yn deffro ar foreuddydd bywyd, ac ymaffodd ynddo y fath asbri am wybodaeth ac addysg nas gollyngodd ef hyd ei fedd.

Yn yr eglwys y magwyd ef, ac yn y cylch crefyddol yn y gymydogeaeth, cafodd llawer o fanteision. Saif capel Treforris ar ymyl y brif ffordd o'r gorllewin i'r dwyrain—y brif dramwyfa y bu arni draed llawer o'r rhai oedd yn efengylu, ac

yn cyhoeddi iachawdwriaeth Duw i'r Cymry. Aml i oedfa fythgofiadwy gafwyd yn yr hen gapel hwn, gan bregethwyr nad anfonodd Duw mo'u gwell i'r un wlad er dyddiau yr Apostol Paul; yr oedd yntau yn llanc ieuanc yn eu gwranddo, a'i enaid yn ysu gan wres eu gweinidogaeth, a'r meddyliau am fod yn bregethwr ei hun yn ymgodi o'i fewn. Nid rhyfedd fod pregethu yn rhan mor hanfodol o waith y cysegr yn ei olwg, ar ol cael ei fagu yn sŵn y fath weinidogaeth. Dros bont Treforris, yn groes i'r afon Tawe, y ceir y plwyf mwyaf Methodistaidd yn Neheudir Cymru, lle y mae rhywogaeth o grefyddwyr mor neillduol, fel y byddai yn werth eu portreadu mewn hanesyddiaeth i'r oesau dyfodol. Cydunai yr eglwysi hyn yn Abertawe, Llansamlet, a Threforris, yn y prif gyfarfodydd pregethu a'r cymanfaoedd ysgolion, i adrodd pynciau a chanu; gwasgerid goleuni yr efengyl ac enynid teimladau crefyddol trwy yr holl fro. Ymdaflai yntau i'r gwaith gyda'r holl yni oedd ei natur yn alluog o hono. Ei gyfeillion mwyaf mynwesol oedd y bobl ddarllengar, a chlywsom ef yn sŵn llawer am "David Jones, y Siop," darllenwr mawr, y bu ei gymdeithas a'i gynghorion yn lles arbenig iddo.

Tebyg yw iddo gael manteision yr ysgol elfenol oreu oedd i'w chael yn y gymydogoeth; ond pan yn bur ieuanc aeth i'r masnachdy at Mr. T. Phillips, Y.H. (hynaf), Abertawe. Yr oedd Mr. Phillips ei hun yn fasnachwr ieuanc y pryd hwnw; ac wedi codi o ddosbarth tlawd anrhydeddus, ond, trwy ei ymroddiad a'i ddyfalbarhad, daeth yn fuan i gael ei ystyried yn un o'r dinasyddion mwyaf parchus; a chyrhaeddodd, cyn bod yn ganol oed, y gadair uchaf fedrai ei gyd-drefwyr gynyg iddo. Nid oes angen dyweyd nad oedd efe yn amddifad o uchelgais, ond ei bod o natur ganmoladwy. Ei awyddfryd penaf oedd bod yn flaenor gyda'r Corph ac yn Faer Abertawe. Cafodd y naill a'r llall yn gynar iawn mewn bywyd. Naturiol fuasai disgwyl i uchelgais y dyn ieuanc osodwyd dan ei ofal redeg yn yr un cyfeiriad, ond nid felly y bu. Arosodd yno oddeutu blwyddyn a haner i geisio dyfod yn fasnachwr, ond

buan y darganfyddwyd nad oedd ei athrylith yn ei helpen ei hun wrth drafod bwydydd y corff. Nid oedd ymgyfoethogi fel ei feistr, nac ymddyrchafu o ris i ris yn y Cyngor Trefol fel efe, yn cynwys y swyn lleiaf iddo. Trwy ymdrech gwnelai ei waith yn debyg i ryw fachgen cyffredin arall, a dyna yr eithaf; nid oedd yn debyg y rhagorai byth yn y masnachdy. Symudwyd ef oddiyno i weithdy dodrefn, a rhwymwyd ef yn freintwas saer. Yr oedd y gwaith hwn ychydig yn fwy cydnaws â'i dueddiadau, a chlywsom ef yn haner ymffrostio y gwnelai "saer da" pe y dalasai ati. Nid ydym yn amheu hyn, oblegid meddai ddwyllaw a bysedd y crefftwr, a thrafodai hwynt bob amser yn gelfyddus. Yn y pulpud, nid oedd nac ystum na symudiad yn ymylu ar y trwsgl. Dysgyblodd ei lygaid hefyd i ganfod y prydfferth, neu y diffyg o hono, mewn ffurf, gyda threiddgarwch a chraffder anarferol. Nid oedd yn proffesu bod yn gystal beirniad ar liwiau, ond am harddwch neu hagrwch mewn *ffurf*, nid mynych y ceid awdurdod uwch a mwy diogel. Eto, nid yma ychwaith y bwriadwyd iddo ef wasanaethu ei genhedlaeth. Bu y gallu i farnu cymhesuredd a phrydfferthwch mewn amlinelliad, yn gystal a'i chwaeth at gelfyddyd rhif a mesur, o wasanaeth mawr iddo mewn cylch uwch, ond rhagbarotoawl ac is-wasanaethgar iddo ef oedd yr holl ddysgyblaeth hon. At waith arall y galwyd ef, a phan oddeutu deunaw mlwydd oed, ymryddhaodd oddiwrth holl alwedigaethau a negeseuau y bywyd hwn, i ymroddi yn hollol i waith mawr ei fywyd.

PENOD IV.

—:0:—

DECHREU PREGETHU.

YR oedd ei gyflymder anarferol gyda phynciau addysg, ei gymeriad moesol prydfferth, ei barabl a'i ddawn ymadroddi, ar unwaith yn ei nodi allan fel un cymhwys i weinidogaeth yr efengyl, a phan oddeutu deunaw mlwydd oed dechreuodd bregethu. Cychwynodd dyn ieuanc arall, o'r enw David Grey, yr un pryd ag ef yn yr un eglwys, sef eglwys Treforris, ac o'r ddau, Grey oedd y mwyaf disglair fel pregethwr, er mai David Saunders ydoedd y galluocaf fel meddyliwr, a'r ysgolhaig goreu.

Nid oedd Jonathan a Dafydd yn fwy cyfeillion na David Grey a David Saunders. Gwelsom lygaid yr olaf yn llawn o ddagrau droion wrth sôn am enw Grey. Darfu i'r ddau gyd-ddechreu yn yr un eglwys, ac y mae coffadwriaeth y ddau yn anwyl gan yr eglwys hono hyd heddyw. Philadelphia, Treforris, oedd un o'r eglwysi cyntaf i basio penderfyniad yn datgan teimlad o'r golled a gafodd y Cyfundeb yn marwolaeth Dr. Saunders, a chydymdeimlad a'i weddw a'i mab, a phe buasai amser, buasai y llythyr wedi ei ddarllen yn ngwasanaeth y claddedigaeth yn Aberdar. Aeth y ddau i mewn gyda'i gilydd i Athrofa Trefecca yn y flwyddyn 1851, ac o'r rhai dderbyniwyd y flwyddyn hono nid oes ond tri heddyw yn fyw, sef y Parchn. G. Davies, Aberteifi; D. Thorne Evans, Abertawe; a Thomas John, yn awr yn offeiriad yn Llanrug. Bu yr anwyl Grey farw cyn gorphen ei yrfa athrofaol.

Bu yn yr Ysgol Rhagbarotoawl gyda Mr. G. P. Evans, ac yn y Normal College gyda Dr. Evan Davies, wedi hyny. Pan yn yr ysgol flaenaf darfu iddo ddysgu yr Ail Lyfr yn *Euclid* i gyd mewn un noswaith. Ymddengys hyn, i rai, yn

anghredadwy, ond clywsom ef yn dweyd hyn fwy nag unwaith, a sicrhaodd ni y flwyddyn y bu farw o'i wirionedd. Nid yw hyn ychwaith yn hollol anghredadwy pan gofion mai yr ail lyfr a ddywedai; buasai myned trwy y cyntaf yn anmhosibl-rwydd naturiol, gan y cynwysa wyth-a-deugain o osodiadau, a'r prawf o rai o honynt yn bur faith; ond nid yw yr ail ond rhyw un ran o dair o hyny. I'r rhai a welodd Dr. Saunders yn gweithio, pan yr oedd yr hwyl wedi disgyn arno, a'r rhai wyddant am ei fawr hoffder o *mathematics*, yn yr hyn yr oedd cuddiad ei gryfder, nid yw yr ystori mewn un modd yn anhygoel. Pan y cofiwn hefyd ddarfod iddo brynu *Pott's Euclid* pan yn ysgol y nos yn y *People's Institute*, ac felly, o bosibl nad oedd y llyfr yn gwbl ddyeithr iddo pan aeth i'r ysgol, daw y chwedl yn hawddach ei chredu. O leiaf, dywedai ef hyn pan yn Aberdar, o fewn deng mlynedd i'r adeg am yr hon y soniai; yr oedd yn anmhosibl iddo adrodd yr hyn nad oedd wir, a phrin y credwn ddarfod iddo gamsynied. Ystyriai ei hun yn wir alluog yn y gangen hon o wybodaeth, a dywedai na welodd neb erioed fedrai wneyd cymaint o waith ag ef. Pan yn Nhrefecca yr oedd yn gymharol ddiotal gyda'i *Euclid*, a'r nos cyn yr arholiad clywodd fod efrydydd arall pur alluog wedi bod yn darparu yn ddirgelaidd, ac yn penderfynu ei guro dranoeth. Treuliodd y nos hono i edrych dros y llafur, a dranoeth darfu i'r arholydd, y Parch. D. C. Davies, M.A., yr hwn oedd newydd hynodi ei hun yn fawr yn Mhrifysgol Llundain mewn meintoniaeth, roddi iddynt gwestiynau ar y pwnc nad oeddynt yn uniongyrchol yn y llyfr; aeth drwyddynt oll fel chwareu, ac nid oedd un arall yn yr athrofa fedrai eu cyffwrdd o gwbl.

Bu am ddwy flynedd yn y Normal College, o dan lywyddiaeth Dr. Evan Davies; yma daeth i gyffyrddiad ag amryw o ddynion ieuaic blaenaf y dywysogaeth, ac yn eu plith rai o weinidogion y Cyfundeb, y rhai nad aethant oddiyno i Drefecca fel y gwnaeth efe. Dechreuodd ar yr awduron clasurol yn y Groeg a'r Lladin yn gystal a *mathematics*; a thrwy fod

yr athraw yn un da am yru yr ysgolheigion yn y blaen, a'i fod yntau yn aiddgar am ddysgu, gwnaeth gynydd dirfawr. Yr oedd yr anwyl Grey gydag ef yn yr ysgol; ac yr oedd y cydymgais iachus oedd rhyngddynt yn symbyliad ychwanegol iddynt i waith, fel pan yr aethant i mewn i Athrofa Trefecca yr oedd ganddynt fantais ar amryw o'u cydefrydwyr yno.

Nid oes fawr o hanes ei gychwyniad gyda phregethu, ond fod y ddau ddyng ieuanc o eglwys Treforris yn dra addawol a chymeradwy; ac fel y bydd bob amser, yr oedd y bobl yn amrywio yn eu barn am danynt; rhai yn dweyd mai Grey oedd y dyn goreu, ac eraill mai Saunders oedd y mwyaf addawol. Yr oedd hyd y nod yr eglwys lle y codwyd hwy, a blaenoriaid yr eglwys hono, yn gwahaniaethu yn eu barn; Mr. Daniel ac eraill yn ffafriol i Grey, a Mr. David Jones, y siop, a'r rhai o'r un feddwl ag ef o blaid rhoddi y flaenoriaeth i Saunders. Dywedai y diweddar Barch. J. Evans, Llwynffortun, ei bod yn lys barn ar y pregethwyr bob dydd; a phan y dywedodd rhywun, mewn atebiad iddo, fod perygl iddynt gael eu condemnio a'u crogi, atebodd: "O, na, 'does berygl yn y byd, *my dear sir*, oblegid chytuna y rheithwyr byth ar ein hachos ni." Felly nid oedd y rheithwyr yn medru cytuno ar achos y ddau bregethwr yma; ond os clywsom yn gywir, yr oedd y mwyafrif yn rhoi y flaenoriaeth i Grey fel y pregethwr disgleiriaf, ac i Saunders fel y meddylwr galluocaf.

PENOD V.

—:0:—

YN YR ATHROFA.

AM amryw o'r ffeithiau mewn cysylltiad â'i fywyd athrofaol yr ydym yn ddyledus i'w gydefrydwyr sydd yn awr yn fyw. Gwir fod traddodiadau am lawer o'r hen efrydwyr yn aros o gwmpas yr athrofa am flynyddoedd lawer, ond nid yw y rhai hyny bob amser yn gyfryw ag y gellir ymddiried yn eu dilyrwydd. Cawsom yr adgofion canlynol gan ei gyfeillion fu yn llygad dystion o'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau.

Yr wythnos gyntaf yn mis Awst, 1851, yr aeth i mewn i Athrofa Trefecca. Derbyniwyd chwech o fyfyrwyr newyddion i mewn ar yr un adeg, sef Griffith Davies, D. Thorne Evans, Thomas Rees, Thomas John, David Grey, a David Saunders. Yr oedd y tri blaenaf wedi cyrhaedd y lle ychydig oriau o'i flaen ef. Yn mrig yr hwyr cyrhaeddodd yntau mewn cerbyd gyda'i dad, a Thomas John. Ni ddaeth David Grey cyn dranoeth. Yn ol deddf, mor anghyfnewidiol a chyfraith y Mediaid a'r Persiaid, yr oedd yr olaf yn dyfod i mewn i'r Athrofa i gael y lle isaf wrth y bwrdd, a'r un modd yn y dosparthiadau; felly darfu i'r ffaith mai Saunders a Grey oedd yr olaf i gyrhaedd yno benderfynu mai hwy oedd i gymeryd y lle isaf yn mhlith eu cydefrydwyr bob amser. Yr oedd hyn braidd yn ddarostyngiad ar eu hurddas personol, ond nis gellid newid dim yn eu ffafr, ac yr oedd rhai gryn lawer llai na hwynt yn ymogoneddu arnynt ar gyfrif eu dyfodiad i'r lle o'u blaen. Gwnaeth ymddangosiad Mr. Saunders hynaf i'r efrydwyr deimlo nad oeddynt ond ceiliogod rhedyn yn ei wydd. Nid oedd yr athraw na'i deulu gartref yr wythnos hono, felly yr oedd yr hen efrydwyr a'r newydd ddyfodiaid at eu rhyddid i wneuthur fel y gwelent yn oreu. Yr oedd David

Saunders mor llawen a dyddan a'r un o honynt yn y dechreu, ond dywedir ei fod cyn diwedd yr wythnos yn awgrymu, gyda difrifoldeb, y dylai rhai o honynt ymddwyn yn fwy teilwng o urddas eu swydd. Perthynai iddo y pryd hwnw bresenoldeb urddasol, ac ymddangosai, gyda'i farf fawr, ddu, a thrwchus, yn llawer henach nag ydoedd mewn gwirionedd; ac yr oedd rhyw ddirgel ymwybyddiaeth yn ymwthio o fewn yr efrydwy ei fod o'i ysgwyddau i fyny yn uwch na'r un o honynt. Y Sabboth cyntaf ar ol eu dyfodiad yr oedd yr efrydwyr newydd i gyd yn nghapel Talgarth, ac un o honynt yn pregethu. Ofnai y pregethwr feirniadaeth ei gydefrydwyr, yn enwedig y bachgen â'r farf ddu a'r llygaid mawrion, er fod y ddau wedi bod ar delerau pur gyfeillgar trwy yr wythnos flaenorol. Ni chafwyd rhyw hwyl fawr ar bregethu; ond nos Sul aeth yr un a ofnid fwyaf at y pregethwr a dywedodd fod y bregeth, fel cyfansoddiad, yn dda iawn, ond y dylasai fod mwy o yni yn y traddodiad, ac mai arno ef ei hunan y byddai y bai os na chyrrhaeddai safle o enwogrwydd yn y pulpud.

Gan fod David Grey ac yntau wedi dysgu cryn lawer o Roeg a Lladin cyn dod yno; a Griffith Davies yr un modd wedi cael manteision ysgol ramadegol yn Aberteifi, cawsant hwy ymuno a'r dosbarth henaf yn y *classics*. Llafuriodd y flwyddyn gyntaf yn y dosbarthiadau, ac yr oedd Grey yn ymdrechgu yn anarferol i fod yn gyfochrog ag ef. Dywed y Parch. G. Davies am dano: "Nid yw yn ormod dweyd y byddai Grey a minau yn darparu ein gwersi yn bur ofalus; treuliai ein cyfaill Saunders ei amser, gan mwyaf, i ddarllen y llyfrau goreu a'r cylchgronau yn y llyfrgell, ac eto elai yn mlaen yn rhwydd yn y *lecture-room*, yn enwedig mewn *mathematics*, heb barotoi dim; ond byddai yn cyfarfod ag anhawsderau yn aml yn yr awdwyrs clasurol. Nid anfynych y parai ei gwestiynau yn y *lecture* ar dduwinyddiaeth fod yr ymdriniaeth yn troi allan yn fantais fawr i'r dosbarth. O'r ddau, Grey oedd y mwyaf disglair fel pregethwr; eto, Saunders oedd y galluocaf o ddigon; ac yr wyf yn meddwl fod pawb

o honom yn ei ystyried y galluocaf yn yr athrofa ar y pryd hwnw. Tymhor hynod o gysurus ar yr athrofa oedd y blynyddoedd hyny." A hyn y cytuna y Parch. D. Thorne Evans, yr hwn a ddywed: "Yr wyf yn meddwl iddo ymroddi yn egniol i'w efrydiau y flwyddyn gyntaf, ac mi a wn fod Grey wrthi â'i holl egni, nos a dydd, am fod yn ei fryd fod yn gyfochrog a'i gyfaill Saunders fel ysgolhaig a phregethwr. Yr wyf yn tybied na fyddai efe yr ail flwyddyn yn talu fawr o sylw i barotôad ei wersi, ond y treuliai ei amser i ddarllen y cylchgronau, ac yn arbenig y llyfrau ar ddeonglyddiaeth Ysgrhythol. Yr oedd *Foreign Theological Library* Clark y pryd hwnw yn dyfod allan, ac anrhegodd ei dad Dafydd a'r gyfres o'r dechreuad. Bwytaodd yntau amryw gyfrolau fel gŵr ar newynu. Yn y cyfarfod eglwysig deuai ei ragoriaeth i'r golwg fel siaradwr byrfyfyr; siaradai gyda'r fath feistrolaeth, addfedrwydd, ac eneiniad, nes synu pawb. Nid oedd neb o honom o fewn milltiroedd iddo. Ymdrechai *poor* Grey fod yn gyfochrog ag ef, ond nid oedd o un pwrpas iddo geisio; efe oedd y tywysog o ddigon o'r nos gyntaf yr agorodd ei enau. Coleddai syniad uchel y pryd hwnw am bregethu; diamheu ei fod wedi gosod ei fryd ar ddyfod yn bregethwr o'r dosbarth blaenaf; a dywedai gyda difrifwch neillduol fod cyfrifoldeb pregethwyr i ddynion yn fawr heb sôn am gyfrifoldeb i Dduw, ac y dylent wneuthur eu goreu i ymberffeithio. Yr oedd wedi darllen, pan yn llanc yn Nhreforris, *Athroniaeth Trefn yr Iachawdwriaeth* gan Walker, yn drwyadl, ac yr oedd yn hoff pan yn Nhrefecca o weithiau Vinet. Addefai ei ddyled iddynt, ac mewn modd caruaid annogai ei gydefrydwyr i ymglydnabyddu â hwynt os oeddynt am wresogi eu hysbrydoedd.

"Nid oedd efe wedi darllen dim ar athroniaeth feddyliol nac athroniaeth foesol, cyn myned i Drefecca. Yr wythnosau cyntaf ar ol ei fynediad yno, cafwyd darlithiau pur dda gan Dr. Charles, ar 'Ryddid yr Ewyllys,' a phynciau cyffelyb. Cymerodd efe y dyddordeb mwyaf mewn chwilio i mewn i'r

pynciau hyn. Tua yr un adeg cymerwyd Plato ac Aristotle a dylanwad eu cyfundrefnau athronyddol yn destynau yn y cyfarfodydd dadleuol. Bu hyn yn foddion i agoryd llygaid rhai o'r efrydwyr ar fyd oedd yn ddeieithr iddynt o'r blaen. Yn y dadleuon yma deuai ei allu fel ymadroddwr parod i'r golwg yn amlwg iawn. Mewn dadl, nid oedd ei ragoriaeth y pryd hwn yn gymaint fel ymresymwr ag fel siaradwr; nid am na feddai ar feddwl *logical*, ond am nad oedd mor wyliadwrus a rhai i gau y bylchau ar ei ol wrth fyned yn mlaen. Am araeth yr oedd yn ddaiil."

Wedi bod yn Nhrefecca am ddwy flynedd, derbyniodd llythyr oddiwrth y diweddar Dr. J. Harris Jones, yr hwn oedd ar orphen ei efrydiau yn Glasgow, yn ei hysbysu fod nifer o Gymry gerllaw y lle hwnw, ac yn ei gymhell i fyned i Glasgow, am y cai gyfle i bregethu i'r Cymry, a mwynhau rhagorfreintiau y Brif-ysgol yr un pryd. Daeth llythyr wedi hyny oddiwrth y Cymry eu hunain, a chyflwynwyd ef i Gymdeithasfa y Gorwydd, yn Mai, 1853, ac yn y Cylchlythyr cawn y nodiad canlynol:—"Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd o Airdrie, yn Scotland, yn deisyf ar Mr. D. Saunders, un o efrydwyr yr Athrofa, i fyned yno i weinidogaethu. Y mae y Cyfeisteddfod, yn nghyd â'r Gymdeithasfa yn ei ryddhau o'r ddwy flynedd sydd yn ol o'i dymhor athrofaol, os bydd caniatad yn cael ei roddi iddo i fyned gan Gyfarfod Misol Sir Forganwg, i'r hwn y mae yn perthyn." Cafodd ganiatad ei Gyfarfod Misol; ymadawodd a Threfecca ac aeth i Glasgow, ddiwedd yr haf hwnw. Teilwng o'i gofnodi, fe ddichon, ydyw iddo gael pregethu yn y Gymdeithasfa hon, nid mewn lle amlwg mae yn wir, ond mewn tŷ fferm o'r enw Glandulas, yn agos i'r fan lle y saif capel Hermon yn bresenol, a hyny fel cyfaill i'r Parch. C. Bowen, Penclawdd; ond yr oedd cael pregethu o gwbl yn arwydd nodedig o gymeradwyaeth i laslanc o efrydydd. I'r Gymdeithasfa hon y daeth y Parch. J. Hughes, Borth—yr hwn ydym o dan yr angenrheidrwydd poenus o'i alw bellach y diweddar Dr.

Hughes—i'r Deheudir **gyntaf**. Daeth yn ddiau fel cynrychiolydd Cyfarfod Misol Môn, yn ol y drefn a ffynai yr adeg hono. Digwyddiad dyddorol ydoedd i Dr. Hughes a Dr. Saunders, y **rhai** a fuont y fath gyfeillion mynwesol am ran fawr o'u hoes, gyfarfod a'u gilydd am y tro cyntaf yn y **Gorwydd**, ac mai dyma y waith gyntaf i'r ddau bregethu mewn **Cymdeithasfa**, o leiaf, yn y De. Cafodd Dr. Hughes, bid sicr, bregethu mewn lle mwy amlwg, ond nid oes genym ddim o hanes yr oedfa i'w roddi.

Arosodd yn y Brif-ysgol yn Glasgow am un flwyddyn, gan bregethu ar y Sabbothau i'r Cymry yn Airdrie, ac ymweled â hwy yn achlysurol yn nghyfarfodydd yr wythnos, a phan yn ymadael ar derfyn y tymhor, llwyr fwriadai ddychwelyd ac aros nes graddio, ond lluddiwyd ef gan dwymyn boeth, a gwendid maith ar ei hol, i ddychwelyd drachefn. Pe buasai wedi aros yr amser priodol yno, diau y buasai yn graddio yn anrhydeddus; oblegid yr oedd yn ymroddi i'w efrydiau yno, ac yr oedd athroniaeth yn cael sylw arbenig ganddo. Darllenodd, cyn gadael Trefecca, hanes athroniaeth yn fanwl iawn. Ond yr oedd sefyllfa ei iechyd, am adeg hirfaith ar ol y dwymyn, y fath ag i beri pryder mawr i'w rieni a'i gyfeillion, ac yn gwneuthur caled-waith meddyliol yn beryglus i'w fywyd. Felly daeth ei gwrs athrofaol i ben megis yn anamserol, ac o'r amser hwnw yn mlaen ymroddodd i waith y weinidogaeth.

PENOD VI.

—:0:—

YN FUGAIL AC YN PRIODI.

EI ofal cyntaf fel bugail ydoedd eglwys Penclawdd, yn y Bröwyr, Morganwg. Penrhyn ydyw y rhandir hwn, yn ymestyn allan i fôr Hafren, ac yn cael ei derfynu ar dri tu gan y môr hwnw, ac ar y pedwerydd gan Abertawe a'r linell reilffordd sydd yn arwain o'r dref i Casllwchwr. Poblogir ef gan bobl yn preswyllo eu hunain, ac heb gael eu cyfrif gyda'r cenhedloedd. Hyd yn ddiweddar yr oedd yr orynys hon yn fangre neillduedig nad oedd dyeithriad tramwy ar hyd-ddi. Ond erbyn hyn y mae yr "ymwelwyr hâf," sydd yn dyfal chwilio am bob congl dawel, wedi ei darganfod, ac y mae yr arfordir, o Mumbles i Wormshead, yr hwn sydd yn un o'r rhai mwyaf cyfoethog ac amrywiol mewn prydfferthwch, yn denu ychwaneg o flwyddyn i flwyddyn. Un boreu Sabbath, mewn capel Methodistaidd ar y terfyn eithaf, yr oedd Matthew Arnold yn cydaddoli a'r gynulleidfa wledig, ac yn gwrandao ar y diweddar Barch. Samuel Price yn pregethu, gan fawr fwynhau ei weinidogaeth, ac arosodd ar ol i gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Perthyna i'r trigolion, y rhai nid ydynt o frodorion boreuaf yr ynys hon, eu nodweddion neillduol fel gwladwyr a chrefyddwyr. Yn eu mysg y treuliodd yr Hybarch "W. Griffiths, y Bröwyr," ei oes; a thywysog Duw yn wir a fu efe yn eu plith. Efe oedd eu harchoffeiriad a'u brenin, ac y maent yn haner addoli ei goffadwriaeth hyd y dydd hwn. Arolygai yr achos mewn pump neu chwech o eglwysi; ac un o'r eglwysi hyn, a'r agosaf i derfynau y byd allanol, ydyw Penclawdd. Côf gan ein darllenwyr, fe ddichon, mai fel "Williams, Penclawdd," yr adnabyddid y Parch. W. Williams, Abertawe, pan y daeth

gyntaf i sylw fel pregethwr, ac i'r un eglwys yr aeth Dr. Saunders yn fugail gyntaf. Saif y lle ar gyfer Casllwchwr, ac, hyd y nod ar y llanw, nid oes ond braich fechan o fôr rhyngddynt. Cysylltir ef gan linell fer a'r prif reilffyrdd yn Gowerton; ac yn ychwanegol at fod yn bysgodle, mae yno weithfeydd alcan at gynhaliaeth y preswylwyr. Cynelir yr achos yn y ddwy iaith, a phregethai efe yn Saesonaeg ac yn Gymraeg. Teimlodd ei hun yn gartrefol yn fuan; yr oedd undeb agos rhyngddo a'r brodorion; anwylai yr hen gymeriadau crefyddol oedd yno, ac ymddigrifai mewn sôn am danynt hyd ei fedd.

Cawsom ddesgrifiad o hono, gan gyfaill iddo, pan yr oedd newydd fyned i'r lle, yn llafurio i adeiladu yr eglwys, ac ar yr un pryd yn darpar y tŷ i dderbyn Miss Howell, yr hon a briododd yn fuan ar ol hyny. Cynelid cyfarfodydd pregethu yno, pan yr oedd yn cymeryd rhan ynddynt y diwedd ar D. Roberts, Pontfaen, T. Levi, a D. Thorne Evans. Eisteddai y tri hyn ac yntau i lawr i ymddyddan am bregethu a phregethwyr, a phob math o helyntion perthynol i'r Cyfundeb hyd oriau y boreu, a difyr fuasai cael adroddiad o'u cyfeillach. Y Parch. R. Lumley ydoedd un o'i hoff bregethwyr. Yr oedd ei urddasolrwydd yn y pulpud mewn ymddangosiad personol, ystum a thraddodiad, yn ei swyno yn fawr. Pan y dywedai rhywrai wrtho nad oedd yn feddyliwr gwreiddiol iawn, atebai, "Gwreiddiol neu beidio, y mae efe yn bregethwr." Nid oedd efe wedi clywed Jones, Talsarn, na Dr. Owen Thomas yr amser yr aeth i Drefecca, a'r tro cyntaf y clywodd yr olaf oedd yn Nghymdeithasfa Abertawe, yn 1853. Pregethodd yno bedair gwaith, a dywedir na fu erioed yn uwch. Dyma y tro y daeth yn adnabyddus i'r Deheudir fel pregethwr nerthol a phoblogaidd iawn. Gwahoddwyd ef yn fuan ar ol hyny i Gymdeithasfa Tyddewi, lle y cafodd odfaon anarferol yn eu dylanwad. Yr oedd J. Phillips, Bangor, ac E. Morgan, Dyffryn, yn y Gymdeithasfa yn Abertawe, ill dau yn eu llawn hwyliau. Aeth ein gwrthddrych a chyfaill iddo i

gapel Llwynbrwydrau dranoeth y Gymdeithasfa i wrando E. Morgan, ac efe a fu yn rhoddi y degwm iddo; ychydig a wyddai y pregethwr pwy oedd y degymwr y tro hwn. Angerddolai hyn oll yr asbri sanctaidd am fod yn bregethwr da oedd yn enyn ei fynwes, a hawdd genym ddychymygu fod yr ymddyddanion rhwng y tri brawd ieuanc a'r hybarch dad o Bontfaen, yn yr ystafell yn Mhenclawdd, yn benaf yn rhedeg yn y cyfeiriad hwn. Ar ol agos i ddeugain mlynedd o amser elai ein cyfaill i hwyliau wrth adrodd yr adgofion yma, nes tori allan, gan ddywedyd, "O adeg fendigedig!" Tebyg fod y priodas oedd yn ymyl hefyd yn fater o ddyddordeb dwfn.

Priododd yn fuan ar ol hyn â Miss M. Howell, merch Mr. J. Howell, Pencoed, bardd o gryn enwogrwydd, ond blaenor o enwogrwydd mwy, ac ysgrifenydd Cyfarfod Misol Morganwg, pan yr oedd yr holl sir yn un, am lawn deugain mlynedd. Yn agos i derfyn tymhor ei ysgrifenyddiaeth cyflwynwyd tysteb ddrudfawr iddo, yn arwydd o barch a rhwymedigaeth am ei wasanaeth gwerthfawr a ffyddlon, ac oll yn rhad. Cynhelid y cyfarfodydd bob mis am y deugain mlynedd hyn; amrywiai y ffordd i'w theithio iddynt hyd ddeng-milldir-ar-hugain, a thros hyny, heb nemawr o gyfleusderau gyda'r trên; ac yr ydym yn meddwl ein bod yn cofio ei glywed yn dweyd, wrth dderbyn y dysteb, na fethodd fod yn bresenol, ond unwaith neu ddwy, yn ystod yr holl amser. Dywedai ei fab-ynghyfraith am dano, fod ei allu i hunan-aberthu, a gwneyd gwasanaeth cyson, heb ymofyn cael ei weled na'i gydnabod am hyny, yn ymylu ar fod yn ddiderfyn; a bod yr un nodwedd ag oedd mor amlwg yn ei thad yr un mor amlwg yn ei wraig ef ei hun, a'i fod yn gallu deall ei thad a'i brodyr ynddi hi. Heblaw hyn, yr oedd efe yn ŵr o gyngor i'r cyfarfod misol, ac i'w gymydogion, ar braidd bob mater pwysig, yn gymdeithasol a chrefyddol; yr oedd yn gyfreithiwr i'w cyfarwyddo a'u cynorthwyo; yn farnwr i derfynu eu holl ddadleuon a'u hanghydfod; ac yn henuriad crefyddol i weini arnynt yn y pethau sanctaidd. Mab iddo, fel y gŵyr pawb, a brawd i

Mrs. Saunders, ydyw yr hybarch Archddiacon Howell, yr hwn sydd hefyd yn un o ganoniaid eglwys gadeiriol Llanelwy. Er ei fod ef yn offeiriad yn Eglwys Loegr, a'i frawd-yn-nghyfraith yn ymneillduwr o'r ymneillduwyr, yr oedd cyfeillgarwch agos, a'r cydymdeimlad dyfnaf yn bodoli rhyngddynt. Nid yw yspryd-olrwydd aruchel yn cydnabod mân ffiniau yr eglwys ar y ddaear. Nis gallwn byth anghofio ei ymweliad olaf a'i frawd-yn-nghyfraith, a'r weddi ryfedd yn ystafell cystudd yn Leamington; yr oeddem oll, a'r claf yn arbenig, wedi ein dyrchafu i ryw diriogaeth gysegredig a nefol, nes yr oeddem yn barod i ddywedyd fel Petr—gwnawn i ni dair pabell i gael aros yma byth. Brawd arall ydyw y blaenor-bregethwr, W. Howell, Pencoed, olynnydd ei dad, fel un o brif golofnau yr achos yn yr eglwys lle y magwyd ef, a dyn gwir ddefnyddiol yn y gymydogiaeth ac yn y cyfarfod misol fel yntau. I'r teulu hwn y darfu iddo briodi, nid gyda chydsyniad hollol tad y briodferch ar y pryd, ond daeth yntau gydag amser, fel pawb eraill, i weled cymhwysder yr uniad, ac nad hawdd oedd cael ieuad mwy cymharus. Gwyddai pawb a'u hadwaenai, a theimlent hwy eu hunain, ar derfyn agos i ddeunaw-mlynedd-ar-hugain o fywyd priodasol, fod yr undeb hwn wedi profi yn ddedwyddwch eu bywyd iddynt hwy, ac yn wir wasanaeth i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Mae yr un sydd ar ol yn wylo ei cholled yn ddwfn ymwybodol o hyn, ac am hyny teimla fod holl ddyfnderoedd ei natur yn gysegredig i goffadwriaeth ei hanwyl briod, tra bo anadl yn ei ffroen; a'i dymuniad penaf yw ar i'r adgof am dano yn nghalonau ei hen wrandawyr fod yn foddion iachawdwriaeth i'w heneidiau, ac yn ras i'w chyfaddasu hi a hwythau i'w ail gyfarfod mewn byd lle na bydd raid ymadael mwy.

Er mai byr fu ei arosiad yn y lle hwn, enillodd amryw brofiadau newyddion, y naill ar ol y llall, gyda chyflymdra anarferol. Heblaw y profiad amrywiol a enillodd fel bugail eglwys o nodwedd braidd yn wahanol i'r eglwysi yn gyffredin, yma y daeth i sylweddoli beth ydoedd bod yn briod ac yn dad;

ac ni wnaeth efe a'i deulu bychan ond prin ymadael oddiyma cyn iddo ef a'i anwyl wraig gyrhaedd y profiad chwerw o golli, trwy angau, eu mab cyntaf-anedig. Teimlai yr efrydwyr cyntaf fu yn Athrofa Trefecca, ar ol ei hail-agoriad, yn fawr pan y darfu un o'u nifer, ar ol myned allan, gael eglwys, gwraig, a bedd, yn yr un flwyddyn. Diangodd efe rhag myned i'r bedd ei hun, ond am y ddwy neu dair blynedd cyntaf o ddechreuad ei weinidogaeth dilynai amgylchiadau mawrion bywyd eu gilydd gyda phrysurdeb difrifol. Clywsom ef yn dweyd, mewn gwasanaeth claddu yn fuan ar ol hyn, fod marwolaeth yn y teulu yn gymhorth mawr i sylweddoli pwysigrwydd bywyd, ac i beri i'r galon ymserchu yn fwy yn y pethau sydd uchod. Tebyg ei fod yn llefaru ar y pryd o helaethrwydd ei galon ei hun.

Mae yn brofedigaeth i ni aros yn hir gyda Phenclawdd a'i neillduolion, a'i drigiad yntau yno, ond y mae nifer y tudalenau ydym wedi benodi ar gyfer y byr-gofiant hwn yn galw arnom i symud yn y blaen. Am ddesgrifiadau byw o'r Bröwyr, a'i drigolion, a gweithrediadau ein Cyfundeb yno, dymunem gyfeirio ein darllenwyr at hanes bywyd y Parch. W. Griffith, ac erthygl yn y *Traethodydd*, ar "Penclawdd a'i neillduolion," gan y Parch. W. Williams, Abertawe. Boddlonwn yn bresenol ar ddweyd fod ei fywyd yn y lle hwn wedi bod yn eithriadol hapus, a'i weinidogaeth yn dra llwyddianus. Adeg ydoedd o ymddedwyddu yn nghanol cysuron a mwynderau y bywyd priodasol, a'r cartref newydd, a'i holl enaid yn ymroddi i waith yr efengyl, gwaith y dywedai ei fod yn cael y fath fwynhad ynddo, fel na newidiai ei sefyllfa a'r un pen-coronog ar wyneb yr holl ddaear. Yr oedd ei ymddiried hefyd mor drylwyr yn ngofal tyner a manwl rhagluniaeth y nef am dano ef a'i deulu, fel nad oedd yn pryderu am ddim, nac yn malio gymaint a chloi drws ei dŷ dros y nôs. Nid oedd ei gyflog yn fawr; clywsom ef yn dweyd, yn mhresenoldeb amryw gyfeillion, yn nhŷ capel Bethania, Aberdar, iddo ddechreu ei fyd ar ddeugain punt y

flwyddyn, gyda Mr. R. Roberts, Aberystwyth, yn *gaffer* arno; a chan droi at ei wraig, dywedai, “yr oeddem yn byw yn *noble* y pryd hwnw, Mary, ar lai nag un-swllt-ar-bymtheg yr wythnos.” Felly yr oeddent, nid oedd dim mewn byd nac eglwys y pryd hwnw yn eu blino.

Daeth i'r amlwg yn bur fuan fel pregethwr cymeradwy a galluog yn y ddwy iaith; o leiaf, gwelid ef gan y rhai mwyafraffus, a chredent fod ynddo ddefnyddiau a sicrhaent iddo y lle blaenaf ynmysg ei frodyr. Yn niwedd y flwyddyn 1856, cafodd alwad o eglwys Bethania, Aberdar, i ddyfod i'w bugeilio. Cof genym am y tro cyntaf erioed i ni ei weled. Yr oedd hyn yn y capel uchod, mewn cyfarfod egwyddorol a gynhelid foreu Sul, ar ol iddo dderbyn yr alwad hon, ond cyn ei symudiad i'r lle. Math o ddsbarth duwinyddol ydoedd i fyned trwy bynciau y *Cyffes Ffydd*, a llawer dadl ddyddorol, ac weithiau eithafol, a gafwyd ynddo. Y boreu hwnw yr oedd y pregethwr ieuanc oedd yn gwasanaethu am y dydd wedi dyfod iddo, a chymerodd ran yn yr ymdriniaeth. Wrth fyned o'r cyfarfod ymfrostiai un, sydd yn awr yn America os ydyw yn fyw, ei fod ef wedi beiddio croesi cledd â bugail dyfodol yr eglwys. Nis gwyddem yn y byd pwy ydoedd bugail yr eglwys i fod, na bod un yn cael ei ddisgwyl o gwbl, nes i ni glywed yr ymadrodd hwn, ac ni ddarfu dim yn ei bregethu y Sabboth hwnw dynu ein sylw bachgenaidd.

Nid oedd fawr o dŵr yn cael ei gynal am yr alwad chwaith; yn hytrach yn llechwraidd y rhoddyd hi. Aeth ychydig o ddynion ieuainc dan y cyfrifoldeb arianol o bum'punt-ar-hugain y flwyddyn, a chafodd bachgenyn oedd newydd ddyfod i'r lle y fraint o gyduno yn ddirgel â hwynt yn mhen ychydig. Nid oedd caniatad na chyfarfod dosbarth na chyfarfod misol yn cael ei ofyn, a phe gofynid yr oedd yn bur amheus a gelid cydsyniad. Yr oedd arferiad, a'r ffaith ei bod yn eglwys haner Saesneg, wedi gwneyd Penclawdd yn eithriad, ac yr oedd yr Hybarch W. Griffith, y Brŵyr, uwchlaw deddf, os nad oedd y Parch. D.

Howell, Abertawe, felly hefyd; neu, edrychid ar bob un fyddai yn beiddio myned tu hwnt i hyn gydag anghymeradwyaeth. Yr oedd ieuencyd Aberdar a Dowlais, er hyny, yn ddigon anturiaethus i fyned yn mlaen, ond yn ddistaw iawn, rhag gwneyd mwy nag oedd raid i ddolurio teimladau, a herfeiddio barn gweinidogion a barchent mor fawr, y rhai nad oeddent yn gweled eu ffordd yn glir i symud gyda'r fugeiliaeth. Teg ydyw addef na phroffesent wrthwynebiad iddi fel pwnc o athrawiaeth, oblegid yr oedd rhai o honynt wedi bod yn ei hamddiffyn yn llysoedd uchaf y Cyfundeb, ac yn ei phregethu yn ngwasanaeth yr ordeinio; fel mater ymarferol, neu yn hytrach y modd ei dygid i ymarferiad, yr anghymeradwyent hi. Eu prif reswm dros ei gwrthwynebu, os iawn glywsom, ydoedd, fod gwaith yr eglwysi lliosocaf a chyfoethocaf yn dewis y dynion goreu, yn amddifadu yr eglwysi llai a thlotach o'u gwasanaeth; ac am nad oedd yr holl Gorff yn barod i gyd-gychwyn gyda'r fugeiliaeth, y buasai yr eglwysi bychain yn newynu ac yn marw. Addefent fod bugeiliaeth yn dda yn yr *abstract*; ond am nad oedd yr amgylchiadau yn ffafriol i'w gwneyd yn ffaith, y buasai ei sefydlu yn fwy o niwed nag o les; felly safent yn ei herbyn yn benderfynol; ac oblegid i ychydig o eglwysi unigol, gan ddilyn argyhoeddiad eu cydwybod, ryfygu rhoddi galwad i fugeiliaid, digiasant yn aruthr, ac ni ddaethant yn agos i'r capeli hyny i bregethu yr efengyl nes y symudodd y bugeiliaid. Daethant yn achlysurol ar ol eu hymadawiad, ond nid oedd teimladau cyfeillgar yn cael rhydd-weithrediad hollol tuag at yr eglwysi hyn na'u bugeiliaid am flynyddoedd lawer, os adferwyd hwynt yn hollol hyd y dydd hwn. Yr oedd eu barn a'u hawdurdod fel arweinwyr y Cyfundeb yn anuniongyrchol wedi eu diystyru, ac am hyny teimlent yn ddirfawr. Medrai yr eglwysi llygadgraff ragweled hyn, ac am hyny elent yn mlaen mor ddistaw a didramgwydd ag oedd yn ddichonadwy, rhag aflonyddu arnynt, ac nid oedd ond teimlad dwfn o rwymedig-

aeth i'r efengyl barai iddynt fyned rhagddynt o gwbl. O herwydd hyn nid oedd yr "alwad unfrydol" na'r "atebiad cadarnhaol" y pryd hwnw yn cael eu cyhoeddu trwy y wasg, ac nid oedd "cais am genhadau i edrych unfrydedd yr eglwys yn y dewisiad," na chadarnâd i'r alwad un amser yn cael ei wneyd; ni chynhelid cyfarfod sefydlu o gwbl; ac mewn un amgylchiad y gwyddom am dano, ni feiddiwyd pasio penderfyniad yn yr eglwys parthed cyflog y gweinidog. Dan amgylchiadau o'r fath yma y gadawodd gwrthddrych ein sylwadau Benclawdd ac yr ymsefydlodd yn Aberdar.

PENOD VII.

—:0:—

YN ABERDAR.

Y mis Chwefror, 1857, symudodd o Benclawdd i Aberdar. Cyfnod pwysig iawn yn hanes bywyd Dr. Saunders ydoedd y pum' mlynedd a dreuliodd yn Aberdar, o 1857 hyd 1862. Daeth i eglwys ieuanc, wedi ei sefydlu o ddwy i dair blynedd cyn hyny, a'r diaconiaid ac agos ei holl aelodau yn ddynion ieuainc a gweithgar. Am y pum' mlynedd cyntaf o'i hanes ni wnaeth angau yr un bwlch ynddi. Yr oedd yntau yn ieuanc ac yn llawn gwaith. Yn ychwanegol at ei waith gweinidogaethol ymgymerodd a golygu newyddiadur—*Y Gwladgarwr*. Ysgrifennai y prif erthyglau a'r rhanau pwysicaf o'r papyr ei hun, a golygai y cwbl gyda gofal a medrusrwydd mawr; a'r adeg y bu o dan ei olygiaeth ef ydoedd y cyfnod mwyaf llwyddianus yn hanes y papyr hwnw. Cafodd cwestiynau y gymydogaeath a phrif bynciau y dydd sylw manwl a thrafodaeth drwyadl, ond nid ar draul esgeuluso ei brif waith, sef gweinidogaeth yr efengyl yn ei holl gylchoedd. Yn y dosbarth Beiblaidd awd yn bur fanwl trwy yr Epistolau at yr Hebreaid a'r Rhufeiniaid, a dechreuwyd ar *Gysondeb y Pedair Efengyl*. Yn ychwanegol at hyn cynhaliai ddosbarthiadau llenyddol eraill.

Y flwyddyn gyntaf o'i arosiad yn y lle hwn cymerodd dau amgylchiad pwysig le, y cyntaf ydoedd ei ordeiniad yn Awst y flwyddyn hono yn Mhontfaen, Morganwg. Yr oedd wyth wedi eu hordeinio yn y Gymdeithasfa flaenorol yn Nhrefin, a neillduwyd saith drachefn yn y Gymdeithasfa hon. Yma y daethpwyd i benderfyniad terfynol ar y cynllun newydd o arholiad mewn cysylltiad ag ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, yr hwn a gynwysai chwech o bynciau.

Gosodwyd ef, ac efe yn unig, yn ol y Cylchlythyr, i fyned drwyddo, a'r Parch. Dr. Charles yn arholydd iddo. Am gyfarfod y Cynrychiolwyr dywedir :—" Yn y cyfarfod hwn bu arholiad ar Mr. David Saunders, Morganwg, yn ol y rheol newydd o dderbyn i'r Gymdeithasfa, a neillduad at waith cyflawn y weinidogaeth. Cytunwyd yn unfrydol ar ei dderbyniad a'i ordeiniad yn y Gymdeithasfa hon." Ordeiniwyd yr un pryd ag ef Rees Davies, Gorwydd; Lewis Davies, Rhaiadr; David Anthony, Abertawe; Ezeziel Thomas, Llan-samlet; Thomas Levi, Ystradgynlais; a Watkin Williams, Penclawdd. O'r saithwyr hyn, nid oes ond un heddyw yn fyw, sef y Parch. T. Levi. Dechreuwyd y gwasanaeth trwy weddi gan y Parch. B. Jones, Bagillt; darllenwyd y gyfran o'r Ysgrythyrau gan y Parch. R. Williams, Aberdyfi. Traethwyd ar "Ddysgyblaeth Eglwysig" gan y Parch. Enoch Lewis, Abergwaun. Gofynwyd yr holiadau arferol o'r *Cyffes Ffydd* gan y Parch. R. Edwards, Wyddgrug. Rhoddwyd y Cyngor gan y Parch. J. Jones, Blaenanerch, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. John Hughes, Liverpool. Nid Dr. Hughes, ond J. Hughes, hynaf, ydoedd, yr hwn a fu yr adeg hon ar daith trwy Forganwg. Yn y gyfres uchod a neillduwyd i gyflawn waith y weinidogaeth, yr ydym yn canfod amryw o enwau sydd wedi gadael eu nod ar y Cyfundeb, a chof genym fod disgwyliad mawr wrthynt ar y pryd. Adwaenem rai o honynt yn bur dda. Gorfodwyd y Parch. Watkin Williams, yr hwn a fu yn olynydd ein gwrthddrych yn Mhenclawdd, i ymneillduo yn foreu oddiar y maes o herwydd afiechyd, ond bu fyw amryw flynyddoedd, a pheraroglodd gymydogaeth gyfan a pherarogl Crist. Teimlem bob amser mewn perthynas iddo ef, fel y dywedir am Charles o'r Bala, fod yr awyrgylch yn sanctaidd am filltiroedd o gwmpas ei dŷ. Pan fu farw yr oedd yn addfed i'r nef.

Yr amgylchiad arall ydoedd marwolaeth William Howell, eu cyntaf-anedig. Er nad oedd ond baban bychan, teimlent fod etifedd anfarwoldeb wedi ei ymddiried i'w gofal, ac wedi ei

gymeryd oddiwrthynt. Effeithiodd hyn yn fawr ar natur dyner serchoglawn ein cyfaill. Teimlai ei fod bellach yn dad i un o breswylwyr y nef, ac yr oedd y byd tragywyddol yn llawer mwy sylweddol iddo nag y bu erioed o'r blaen. Ni thynodd ei farwolaeth nemawr o sylw, fel y gwnaeth ymadawiad ei blant eraill. O herwydd nad oedd un gladdfa arall yn gyfleus y pryd hwnw, gosodwyd ef i orphwys yn ddistaw yn mynwent Eglwys Plwyf Aberdar, a chodwyd bedd-adaill i ddynodi man fechan ei fedd, er mai efe yn unig o'r holl berthynasau a gladdwyd yno. Pan fu farw ei ferch hynaf, yn mhen amryw flynyddoedd yn Abercarn, yr oedd y fynwent hon wedi ei chau, ond mynodd le beddrod y teulu yn y gladdfa gyhoeddus agosaf, lle y gosodwyd i orphwys, o bryd i bryd, dri o'u plant—dwyr ferch a mab—ei dad a'i fam, a lle, bellach, y gorphwys ei weddillion yntau. Mangre bur gysegredig i Fethodistiaeth. Er mai distaw yr aeth heibio y farwolaeth gyntaf yn y teulu, dylanwadodd yn sicr ar ei weinidogaeth i'w gwneyd yn fwy tyner a thoddedig. Cyhuddid ef ar y cyntaf o fod yn bregethwr, wel, nid hollol sychlyd, ond y peth nesaf i hyny; pregethwr athronyddol, a phell oddiwrth y bobl gyffredin; ond daeth yn nes ar ol hyn, ac yr oedd ei bregeth yn fwy cyfoethog o deimlad. Dywedir fod yr ÷os yn canu yn fwy effeithiol pan y byddo draen yn ei bron. Bu y draen hwn, er mai cymharol fychan ydoedd, yn achlysur dwyn i mewn nodau mwy swynol a threiddiol i'w weinidogaeth yntau. Gwasgodd yr amgylchiad ef yn nes at Dduw, ac at sylweddau y byd ysprydol, fel y daeth yn gyfrwng cryfach o gymundeb rhwng ei wrandawyr a sylweddau tragywyddoldeb, ac a Duw.

Dechreu cyfnod newydd yn hanes Methodistiaid Aberdar gyda'i ddyfodiad ef i'r lle. Cyn hyny nid oedd yno neb wrth ei swydd i gynrychioli y Cyfundeb, tra yr oedd gan yr enwadau eraill eu gweinidogion i sefyll i fynu drostynt gyda phob symudiad lleol, a chan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yr oedd hen weinidogion o ddylanwad, wedi bod yn ddinasyddion

gweithgar ac amlwg am ddeg-mlynedd-ar-hugain; ond am danom ni, gan nad oedd genym yr un gweinidog mewn cysylltiad swyddol ag eglwys, nid oedd genym safle o gwbl ar y llwyfan gyhoeddus. Ond yn fuan ar ol ei ddyfodiad daeth i fod yn amlwg iawn, a chydabyddid ef mewn unrhyw gyfarfod fel arweinydd gwirioneddol, a chaffai yr enwad i ba un y perthynai safle ynddo. Yn ffodus, cafodd gyfleusderau lawer i hyn. Cafwyd etholiad seneddol, ac yn y frwydr galed a gymerodd le yr oedd efe yn un o'r cadlywyddion. Fel siaradwr ar gwestiynau gwleidyddol y dydd, nid oedd y rhai a ystyrid o'r blaen yn feistriaid y gynulleidfa yn gallu cystadlu ag ef. Trwy ei lafur ef i fesur helaeth yr adeiladwyd Neuadd Ddirwestol y dref, ac yr agorwyd darllenfa yn un o'i hystafelloedd. Yn y cyfarfodydd a gynhelid i ddadleu yr achos hwn eto, safai efe yn mlaenaf o bawb; ac yn un o honynt clywsom ef yn herfeiddio y blaidd wrthwynebol i'w wrthsefyll mewn cyfarfod cyhoeddus, neu yn y wasg. Bu dadl fawr hefyd ar gwestiwn y drel-gampiau yn y lle. Cynygid gan bobl grefyddol i'r ysgolion Sabbothol fyned allan i gae yn ymyl cae y campiau i gystadlu a hwynt, a thrwy hyny wrthweithio eu dylanwad. Ystyrid hyn gan eraill, yn rhy debyg i ymladd y Diafol a'i arfau ei hun. Cymerodd ef yr olwg yma ar y cwestiwn, ac ar ol treulio amryw bwyllgorau, cynrychioledig o'r holl enwadau crefyddol, i siarad ar y naill ochr a'r llall, penderfynwyd yn erbyn myned allan, a phriodolid y fuddugoliaeth braidd yn hollol idd ei fedr ef i ddadleu y cwestiwn; ac mor gryf oedd y teimlad, fel y mynai rhai ei gario ar eu hysgwyddau trwy y dref i ddathlu y fuddugoliaeth.

Yn y Dosbarth Beiblaidd yr oedd yn ei elfen ei hun. Enillai ei sirioldeb a'i hawddgarwch galonau pawb, ac yr oedd ei naturioldeb diymhongar yn dileu pob pellder rhyngddo a'i ddysgyblion, tra yr oedd treiddgarwch ei feddwl a'i ddawn anarferol i egluro pynciau dyrus, yn gwneyd y cyfarfodydd yn ddeniadol ac adeiladol dros ben. Ni siaradai lawer ei hun,

ond taflai olwg dros ei ysgolheigion i weled beth fedrai pob un wneuthur. Holai hwynt i'w tynu allan, ac yna rhoddai faterion neillduol i'r naill a'r llall i'w hefrydu a'u hegluro trwy ddarllen papyrau arnynt. Y cyntaf oll i'w nodi allan ganddo oedd y Parch. J. Wyndham Lewis, yr hwn oedd yn ddyr pur ieuanc ar y pryd, ac yn cael ei gymeryd gan bawb fel ymgeisydd am y pulpud. Yr Epistol at yr Hebreaid ydoedd y maes llafur, a phan ddaethpwyd yn mlaen at yr ymadrodd "Fy Mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais di," cafodd efe yn destyn, "Yn mha ystyr y gelwid yr Ail Berson yn Fab"—pa un ai enw *swyddol* ynte *hanfodol* arno yw Mab? Yn y papyr dadleuwyd mai swyddol ydyw, gan ddilyn, os ydym yn iawn gofio, syniadau Dr. Wardlaw, ac eraill o gyffelyb olygiadau iddo ar y mater. Pan yr oedd Mr. Lewis yn myned oddiamgylch fel pregethwr ar brawf, daeth sylwedd y papyr hwn yn gyfleus iddo fel pregeth. Camsyniwyd daliadau y pregethwr ieuanc, gan rai o geidwaid yr athrawiaeth, am *Sabeliaeth*. Un boreu ar ol hyny, gwelid mam yn Israel yn cyfeirio ei chamrau tua thŷ yr athraw i'w rybuddio yn ddirifrol i ofalu am iachusrwydd ffydd ei ddysgyblion, ac i osod ger ei fron y dygn gyfeiliornad ar Berson yr Arglwydd Iesu a glywodd gan un o honynt. Er ei mawr siomedigaeth, cafodd ar ddeall ganddo, beth bynag am uniongredaeth y pregethwr ieuanc, ei bod hi wedi camddeall yn enbyd yr hyn a ddywedwyd ganddo, ac nad oedd dim a fynai Sabeliaeth a'r bregeth. Nad oedd y Sabeliaid yn credu mewn Tri Pherson o gwbl, ond mewn Un Person Dwyfol mewn gwahanol gymeriadau; pan yn creu ac yn ethol, Tad oedd yr enw roddent ar y Person hwn; pan yn prynu ac yn eiriol, Mab y galwent Ef; a phan y byddai yr un a'r unrhyw Berson yn sancteiddio, Ysbryd Glân oedd yr enw cyfaddas arno ganddynt; tra yr oedd ei ddysgybl ef yn pregethu Trindod o Bersonau mor groëw a neb pwy bynag, ac yn credu mewn Tri Pherson o gyhyd tragwyddol a gogyfuwch, ond ei fod yn dal na wyddai neb beth oedd natur y berthynas wreiddiol a hanfodol rhwng y Tri Pherson hyn

a'u gilydd, am nad oedd, yn ol ei farn ef, wedi ei datguddio. Ond daliai mai Duw yn Drindod o Bersonau yn Ei berthynas â'i greadigaeth, ac yn benaf â dyn, sydd yn y Beibl, a bod y Tad yn enw ar y Person fu yn creu ac yn ethol, a bod y Mab yno yn enw ar y Person arall fu farw ac sydd yn awr yn eiriol; ac mai Ysbryd Glân a eilw y Beibl ar y Trydydd Person, yr Hwn sydd yn argyhoeddi ac yn sancteiddio. Ac, am ddim a wyddom ni, mai enwau cyfaddas i ddynodi eu gwaith a'u perthynas â chreadigaeth, rhagluniaeth, a iachawdwriaeth y byd ydyw y rhai hyn. Gwir ei bod yn bosibl i'r berthynas swyddol, a ddynoda yr enwau hyn, fod yn seiliedig ar y berthynas wreiddiol a thragywyddol sydd yn bodoli rhwng Tri yn Un yn yr Hanfod Dwyfol, ond nad yw hyn, yn ol barn y pregethwr ieuanc a'r rhai oedd yn credu yr un fath ag ef, wedi ei ddatguddio i ni yn y Beibl. Nid ydym yn proffesu rhoddi ei eiriau, ond, o ran sylwedd, tebyg i hyn ydoedd yr atebiad a roddodd efe i'r fam bryderus hon; pa un a allodd efe beri iddi ddeall y gwahaniaeth rhwng Sabeliaeth a syniadau y bregeth ai peidio. Yr ydym braidd yn amheus, oblegid gwelsom lawer yn syrthio i'r un amryfusedd a hithau, ac yn methu dyfod o hono.

Creodd y digwyddiad bychan hwn yn y Dosbarth Beiblaidd yn Aberdar ryw gymaint o ragfarn, nid yn unig yn erbyn y dysgybl, ond yn erbyn yr athraw hefyd, fel yr oedd rhai o hynny allan yn fwy beirniadol a gofalus o'r athrawiaeth wrth ei wrando yntau yn pregethu, ac nid bob amser y byddai yn seinio eu shibboleth hwy yn ddigon croew wrth eu bodd. Rhaid addef ei fod yn tueddu i wrthod ambell syniad a goleddid gan rai o'r hen bobl, ac i fabwysiadu rhai gwahanol. Perthynai i'r un ysgol dduwinyddol a'r Parchn. W. Evans, Tonyrefail, ac E. Matthews, er nad elai mor bell dros derfynau yr hyn a elwid yn uniongreddaeth, a'r un o honynt; ond yr oedd y ddau hyn yn fwy cyfrwys-ddoeth nag efe i ddweyd eu golygiadau mewn ffurf na fyddai yn cynhyrfu amheuaeth. Ni chlywsom neb mwy medrus yn hyn na'r blaenaf, ac yr

oedd nerth a beiddgarwch yr olaf yn diarfogi pob beirniadaeth.

Cof genym am ddadl arall ddyddorol a gymerodd le yn y cyfarfod darllen, sydd yn arddangosiad o'i gymeriad. Gwedi myned trwy yr Epistolau at yr Hebreaid a'r Rhufeiniaid, aethpwyd yn ol i'r Efengylau, gan gymeryd cysondeb y pedair Efengyl. Cafwyd mordaith dëg, oddigerth rhyw chwa fechan yn awr a phryd arall, nes dod yn mlaen at y temtiad. Un noson ar y mater hwn yr oedd wedi myned yn ddirifol. Yr oedd yno amryw o esbonwyr profiadol, a duwinyddion galluog, dros haner cant oed, a'r mwyafrif o lawer yn esbonio pob digwyddiad yn hollol lythyrenol; ond yr oedd yno un llanc ieuanc iawn yn dal yn ystyfnig nad oedd raid gwneyd hyny. Nad oedd yn rhaid fod y Diafol wedi ymrithio mewn ffurf weledig i lygad o gnawd o gwbl, ac nad oedd raid ei fod wedi cipio yr Iesu yn gorfforol a'i gludo trwy yr awyr a'i osod, yn llythyrenol, ar ben pinacl y deml, a'i fod wedi ehedeg oddiyno â'r Iesu yn ei grafangau a'i osod ar ben mynydd uchel i weled a llygaid Ei gorff holl deyrnaoedd y byd a'u gogoniant, am y byddai cyflwyno y drychfeddyliau gerbron Ei feddwl yn llawn cystal. Disgynai y fath awgrym ar glustiau amryw fel cyfeiliornad damniol, ac ymosodent yn ddirugaredd ar y dyn ieuanc a'i hawgrymodd. Ar ol bod yn ddistaw am gryn amser daeth yntau allan i amddiffyn, a dywedai ei bod yn bosibl fod mwy yn awgrym y gŵr ieuanc nad oedd rhai o honynt wedi arfer meddwl, a bod yn rhaid i'r temtiad, cyn bod yn demtiad, ddyfod i gyffyrddiad â meddwl sanctaidd y Gwarddwr, ac ymadroddion cyffelyb. Os drwg o'r blaen gwaeth wedi hyn. Maes o law, cyfryngodd un oedd am osgoi pob peth tebyg i ddfilasod mewn dadl, trwy geisio gan yr athraw i symud yn y blaen at yr adnod nesaf. Gyda'r gair hwn dyma un hen ddadleuydd yn taro y bwrdd a'i ddwrn, ac yn dweyd gyda'r fath deimlad, nas gallwn byth ei anghofio—"Dim cam o'r man yma nes y caf ar ddeall pa un ai Mr. Saunders ynte yr Ysbryd Glân ydym ni yn myned i gredu." Gydag ysmiciad i'w lygad a gwên ddireidus ar ei wyneb, dygodd y cyfarfod i

derfyniad buan. Pan ar ei daith yn yr Unol Daleithiau cyfarfyddodd a'r hen frawd hwn, a chawsant ymgom ddfyrus gyda'u gilydd, ac yn mhlith pethau eraill gofynodd iddo a ydoedd yn dadleu llawer yn awr. "Ydwyf," meddai yr hen frawd, "yn dadleu goreu y gallaf, ond 'does fawr o bleser i ddadleu yma, oblegid y llaw dragywyddol sydd yn penderfynu pob dadl yn y wlad hon. Nid ymresymu sydd yn myned a hi yma, ond pleidlais." Meddai allu arbenig i oddef dyn anhywaeth, os cai le i gredu ei fod yn onest, a medrai gydymddwyn â'r byraf ei amgyffredion. Cawsom enghreifftiau lawer o hyn wrth fyned trwy y Gramadeg Cymraeg. Pan y byddai rhai o honom yn gwneyd camsyniadau digrifol wrth fyned trwy y treigliadau, chwaddai mor iachus a naturiol a neb o honom, ac nid oedd un amser yn draws nac yn galed wrth neb.

Amheua rhai fod ynddo allu mawr i adnabod y natur ddynol; ac feallai fod enghreifftiau i'w cael y byddai yn anhawdd eu cysoni â threiddgarwch mawr i hanfodion cymeriad. Dichon fod ei natur serchoglawn a'i deimladau cyfeillgar, weithiau, yn dylanwadu yn ormodol ar ei farn, ond rhaid fod ganddo dalent i ragori yn y cyfeiriad hwn. Clywsom ef yn adrodd, pan yn byw yn Aberdar, am ddau amgylchiad sydd yn profi hyny. Mewn lle dyeithr, wrth ymddyddan â dyn ar ei ddyfodiad i'r seiat, gwelodd oddiwrth ei wynebpryd a'i atebion ei fod yn agored i anwadalwch, a gofynodd iddo dros ba cyhyd yr oedd yn bwriadu bod yn grefyddol. Gyda hyny gwelai y bobl yn gwenu, oblegid yr oedd y dyn wedi bod yn dyfod i mewn i'r eglwys ac yn myned allan o honi drwy ei fywyd. Gofynodd i ymgeisydd arall yn yr un cyfarfod, a ydoedd yn gallu byw crefydd yn ei deulu, gan ei fod yn gweled anniddigrwydd a chreulondeb yn ei wedd. Torodd y bobl allan i chwertthin am hyn drachefn, o herwydd yr oedd y dyn wedi ei ddiaelodi ychydig cyn hyny am guro ei wraig. Nid hir y byddai mewn cymdeithas heb fod ganddo farn bur gywir am nodweddion gwahaniaethol y rhan fwyaf o'r aelodau.

Darllenai aelodau ei ddosbarth, a'r nifer luosocaf o aelodau yr eglwys, drwyddynt; ond, bid sicr, nid oedd yn anffaeledig.

Darllenai amgylchiadau hefyd, ac yr oedd digwyddiadau cyffredin bywyd yn datguddio egwyddorion iddo. Gwelai wersi moesol hyd y nod yn y defnyddiau a gaffai i lanw y papyr newydd oedd dan ei olygiaeth. "Cerddwch i'r fyfyrgell i ddarllen ac i feddwl, Dafydd," meddai ei dad wrtho. "Nid wyf yn croesi yr heol heb feddwl, nhad," oedd ei ateb; ac yr oedd pob peth yn peri iddo feddwl. Un tro pan yr aethom at ei dŷ yr oedd ar y drws yn edrych ar ddydd yn ceisio gyru ceffyl a llwyth trwm ar ei ol i fyny y rhiw. Teimlai gymaint o ddyddordeb yn yr amgylchiad fel nad oedd ganddo hamdden i'n cyfarch. Gwnai y gyrwr bob peth fedrai i geisio cael y ceffyl i fyned yn ei flaen, ond y cwbl yn ofer; yn ol yn hytrach nag yn mlaen yr ydoedd y llwyth ac yntau yn myned. Ar ol rhoddi i fyny bob gobaith, dyma ddau lŵr yn dyfod heibio wrth ddyfod gartref o'u gwaith, un o honynt wedi bod yn arfer gyru ceffylau dan y ddaear; aeth hwn at yr anifail, canmolodd ef, gwnaeth rhyw swm a'i enau na fedr neb ond y cyfarwydd ei wneyd, curodd wddf y creadur yn dyner ac yn garedig a'i law, a cheisiodd gan y gyrwr roi ei ysgwydd wrth yr olwyn, yna aeth y ceffyl i ffwrdd a'i lwyth gydag ef. "Dyna wers mewn athroniaeth foesol," ebe efe, ac yna trodd atom i'n derbyn yn garedig i'w dŷ.

Yn mhen blwyddyn neu ddwy ar ol ei ddyfodiad i Aberdar cyrhaeddodd boblogrwydd mawr fel pregethwr, a gelwid am dano i bregethu yn lleoedd amlaf y bobloedd. Yr oedd rhyw ireidd-dra, a thynnerwch, a gwres angerddol yn ei ysbryd oedd yn gyru ei bregethau adref i galonau ei wrandawyr. Llawer-gwaith y gwelsom ef wrth weddio ar y dechreu yn methu myned rhagddo gan deimlad; methai ddweyd yr un gair am amryw eiliadau gan wylo, ac ar ol ail gynyg methai drachefn a thrachefn; ac yr oeddym yn gallu barnu yn bur agos wrth y weddi pa fath bregeth fyddai yn canlyn. Nid oedd yn darparu yn fanwl iawn ar gyfer y Sabboth y byddai gartref,

nac yn ysgrifenu ond rhyw ddau neu dri tudalen o bapyr o faintioli cyffredin. Ond codai y prif wirionedd yn glir iawn i'w feddwl. Hyn ydoedd ei hynodrwydd; gafaelai yn y gwirionedd a ddysgid yn yr adnod neu y *paragraph* gyda meistrolaeth na welsom ei chyffelyb, ac wrth wneuthur hyn tafiai oleuni ar haner penod weithiau, a delai yr holl fanylion is-wasanaethgar i'r gwirionedd hwnw i'r amlwg yn eu perthynas ag ef. Ei hoff ymadrodd yr adeg hon ydoedd, "Dyma wirionedd *mawr* yr adnod;" a chyda'r gair deuai ei benelin i lawr ar y Beibl gydag awdurdod, a'i ddwrn yn gauad yr un pryd. Clywsom am edmygydd iddo yn codi yn ei eistedd yn ei gwsg yn y gwely, yn taro ei fraich yn yr un modd gyda nerth, er anghysur difrifol i'r un fyddai yn cydgyssu ag ef. Nis gall neb a'i clywodd yn mlynnyddoedd ei weinidogaeth yn Aberdar anghofio y neillduolrwydd hwn; ac yr oedd hwyl y bregeth mewn cyfartaedd i'r yni gyda pha un y disgynai cefn ei fraich ar y Llyfr neu yr ystyllen oedd yn ei ddal.

Gan nad oedd yn rhwym i'r bregeth ysgrifenedig, a'r fath ddawn ymadroddi parod, rhwydd, a chyfoethog ganddo, yr oedd yn gallu ymollwng i'r môr gyda'i bwnc; a llawer gwaith y gwelsom ef yn marchog y tonau gyda mawredd a phrydferthwch. Pan y byddai wedi ymgolli yn ei bregeth, a chydymdeimlad byw rhyngddo a'i wrandawyr, yr oedd yn wir hyawdl. Clywsom ef yn adrodd yr hyn a ddywedodd y diweddar Dr. Parry, o'r Bala, wrtho y tro cyntaf y clywodd ef erioed; yr oedd hyn yn yr adeg hon o'i fywyd. Aeth ato yn addfwyn a charedig ar ol yr odfa, a dywedodd wrtho ei fod yn ei ystyried y pregethwr mwyaf hyawdl a glywodd nemawr erioed, a datganai ei obaith na fyddai dweyd hyn yrtho yn ei yru yn falch. Yna aeth yn mlaen i egluro beth ydoedd yn feddwl wrth hyawdledd (*eloquence*). Dywedai fod Dr. Edwards yn bregethwr heb ei fath braidd yn ei ffordd, ond nid yn hyawdl; a Dr. Thomas yn nerthol ac areithyddol dros ben, ond nid yn hyawdl; a bod Henry Rees, er ei fod yn ei ystyried yn dywysog y pulpud Cymreig, yn rhy

glymedig wrth y bregeth ysgrifenedig i'w alw yn bregethwr byawdl; fod y pregethwr mewn rhyw sefyllfa *abandoned* mewn gwir hyawdledd, yn ymdafu gyda rhyddid bendigedig i'w bwnc nes ei fod wedi ymgolli ynddo, a hyny heb gael ei amddifadu, i'r gradd lleiaf, o hunan-feddiant o ran gallu i'w egluro, iaith, llais, a thraddodiad. Yr oedd efe i fyny a'r desgriafiad hwn. Dywedai cerddor am dano ar ol ei wrando yn pregethu ar y maes yn un o'i hwyliau goreu, fod nodau ei lais yn berffaith gerddorol, heb wall na diffyg pan yr ydoedd yn bloeddio uchaf, ac o dan y cynhyrfaid mwyaf; ac yr oedd mater y bregeth, a'r dull o'i osod allan y fath nad oedd yn hawdd eu gwella. Cyrhaeddodd hyn mewn rhan, ac ar rai adegau yn ystod ei arosiad yn Aberdar; ond fel y cawn sylwi eto, yr ydym yn barnu iddo ymberffeithio yn fwy wedi iddo symud oddiyno i Liverpool. Cafodd rai o'r odfaon goreu a gafodd yn ei fywyd yn y cyfnod hwn. Bu arddeliad rhyfedd ar ei weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Abergwaen, yn 1859, ac yn Nghastellnewydd-yn-Emlyn, yn 1861, pryd y gwnaeth y gynulleidfa yn nghapel yr Annibynwyr yn foddfa o ddagrau. Ar nos Sabboth gartref weithiau, yr oedd yn anorchfygol, a'i apeliadau at hen wrandawyr efengyl yn anarferol o ddylanwadol. Daeth llawer i'r eglwys fel ffrwyth "pregeth y rhaff," a'i *swing* yn myned yn llai bob tro, a'r *tide* yn treio ac yn gadael y llong ar ol. I bechadur, y cyfleu cyntaf ydoedd y goreu, a bu y bregeth dan fendith i beri i amryw yn ei gynulleidfa gartref ddal gafael arno.

Yn y flwyddyn 1858, dymunwyd arno gan Gyfarfod Misol Morganwg fyned i Gymdeithasfa y Gogledd, yr hon a gynhelid yn Mhwlheli, Mai 8fed, 9fed, a'r 10fed y flwyddyn hono. Cydsyniodd yntau a'r cais, ar yr amod ei fod yn cael dewis ei gyfaill. Caniatawyd hyn iddo, a dewisodd yntau y Parch. W. John, yn awr o Benybont. Cychwynodd y ddau ddyn ieuanc yn llawn brwdfrydedd, ond mor llawn a hyny o bryder ac ofn, oblegid nad oedd y naill na'r llall wedi bod ar daith gyffelyb o'r blaen. Calonogwyd hwynt yn fawr yn y

cyfarfod cyntaf o'r daith yn Nghaerlleon. Aethant oddiyno i Rhyl, Bangor, Bethesda, a Chaernarfon, ac erbyn iddynt gyraedd Pwllheli yr oedd y swm ar led fod doniau newyddion yn y wlad. Cafodd efe bregethu dair gwaith yn y Gymdeithasfa, a gwasgwyd arno ef a'i gyfaill i aros yno dros y Sabboth dilynol, er eu bod wedi addaw dychwelyd i Bangor. Odfa i'w chofio ydoedd yr un am ddau o'r gloch yn y Gymdeithasfa hon. Gosodwyd ef i bregethu gyda brawd, sydd heddyw wedi cyraedd enwogrwydd, yr hwn a gafodd odfa galed ac eithafol o anhapus, a chlywsom ef yn dweyd na chododd i bregethu o dan deimladau mwy dwysion. Ond os ydoedd yn dywyll ar y cyntaf, pelydrodd y gogoniant mewn modd anarferol o ddisglaer ar yr ail, ac yr oedd y cyferbyniad rhwng y ddau yn gymhorth ychwanegol i'r olaf, a dywedai y Parch. R. Edwards na welodd y fath wahaniaeth rhwng dwy bregeth mewn un cyfarfod erioed. Nid oedd y Parch. O. Thomas, D.D., yn y Gymdeithasfa hon, ond dywedai iddo gael llythyr i Lundain, lle yr oedd yn gweinidogaethu ar y pryd, yn disgrifio y Sassiwn, ac yn dweyd fod dyn ieuanc o'r enw D. Saunders, o Forganwg, wedi swyno pawb, a'i fod yn bregethwr heb ei fath. "Dyna y pryd y gwelais i ei enw gyntaf erioed," meddai yr hybarch ddoctor. Yma y daeth i gyffyrddiad a chyfeillion yn y weinidogaeth a fu yn ffyddlawm iddo hyd ei fedd. Yma hefyd rhoddodd gyhoeddiad i fyned i Liverpool, a'r cyntaf erioed i Manchester. Ar wahoddiad Mr. Roger Evans, aeth efe a'i gyfaill am daith o naw diwrnod i Sir Fon, a chawsant yno dderbyniad croesawgar. Pregethai y ddau gydag arddeliad mawr, a mynych y darfu iddynt ymddifyru wrth fyned dros helyntion y daith hon, ei throion cyffrous, a'i hadgofion melus. Ffuriasant gyfeillgarwch a'u gilydd na chafodd dim ei gymylu ar hyd eu hoes, ac na fedrodd hyd yn nod angau ei hun mo'i dori.

Darfu i'w boblogrwydd mawr fel pregethwr, a'r mynych alwadau am dano i gyfarfodydd neillduol, yn mhell ac yn agos, ei orfodi i roddi i fyny olygyddiaeth y *Gwladgarwr*. Er fod y

gollod trwy y wasg yn fawr, yr ydym yn meddwl fod yr enill yn y pulpud yn fwy. Daeth yn olynedd iddo, fel golygydd, y diweddar Barch. J. Roberts (Ieuan Gwyllt). Yr oedd efe oddeutu rhoddi i fyny golygu yr *Amserau*, yn Liverpool, ac wedi dechreu pregethu. Lletyai y drws nesaf i Dr. Saunders, yn nhŷ Mr. William Morgan (y Bardd); yno y priododd ac y bu fyw am beth amser wedi hyny; tri theulu mewn dau dŷ, a'r tri yn fynych yn yr un tŷ; o leiaf, yr oeddynt oll fel un teulu. Ar gwestiynau mewn cysylltiad â barddoniaeth yr oedd "William" yn awdurdod, oblegid yr oedd yn wir fardd, ac yn meddu ar neillduolion yr awen. Pan y byddai cerddoriaeth yn bwnc y ddadl, John oedd yn cael ei phenderfynu; ond mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth Dafydd oedd y tywysog. Ychwanegwyd nifer o gyfeillion atynt i ffurfio cylch bychan cysegredig. Bu llawer mater pwysig dan sylw ganddynt. Yma y ganwyd y gymanfa ganu gynulleidfaol, ac ar y 10fed o Ionawr, 1859, yn y Neuadd Ddirwestol, Aberdar, y cynaliwyd y gyntaf, pan yr oedd amryw o gynulleidfaoedd o'r cymydogeaethau hyn wedi ymuno, a Mr. Roberts yn arweinydd arnynt. Yr oedd y Llyfr Tônau ar waith, ond yma y detholwyd y rhan fwyaf o'r tônau, ac y darparwyd hwy i'r wasg, a chyn penderfynu yn hollol deilyngdod y dôn yr oedd yn cael ei chanu drosodd gan y cwmni oedd yn cyfansoddi y cylch hwn. Cynhelid cyfarfodydd canu o dan arweiniad Mr. Roberts yn y capel yr oedd yn aelod ynddo, a daeth y canu yno i gael ei ystyried y blaenaf yn y gymydogeaeth. Cyrhaeddodd dafnau o gawod fawr y Diwygiad yn 1859 y lle hwn, ac ireiddiwyd y ddau bregethwr—Saunders a Roberts—i ryw fesur drwyddi. Yn y cyfarfodydd unol a gynhelid llefarai y ddau gydag arddeliad mawr, ac ychwanegodd hyn at nerth a dylanwad eu gweinidogaeth. Nid ydym yn deall i hyn newid dim ar nodwedd ei bregethu ef, oddigerth iddo ei wneyd yn fwy cynhes ac apeliadol at y gwrandawyr.

Yn y pulpud y canolbwyntiai ei holl alluoedd a'i adnoddau. Yr oedd asbri pregethu yr efengyl yn ysu ei holl natur.

Dygai bob peth dan deyrnged i'w waith mawr. Tra yn yr athrofa darllenodd y llyfrau goreu ar athroniaeth a'i hanes, ac yr oedd hyn wedi agor byd eang o'i flaen. Y pryd hwnw yr oedd prif weithiau duwinyddion ac athronwyr y Cyfandir yn dechreu dyfod allan yn yr iaith Saesneg. Bwytaai hwynt yn llwyr fel y deuent allan o'r wasg. Er nad oedd yn cytuno â llawer a ddywedent, yr oedd yn eu mawrhau ar gyfrif eu rhyddid barn a'u hymgysegriad i wirionedd. "Nid oes ganddynt hwy yr un gyfundrefn dduwinyddol i'w hamddiffyn," meddai. Ei hoff esboniad, er hyny, ydoedd eiddo yr Esgob Ellicott, yr hwn oedd yn dyfod allan y pryd hwnw. Dywedai fod ei esboniadau ef ar y cynllun goreu o gwbl i bregethwr cyfarwydd a'r iaith wreiddiol, am nad ydoedd yn pregethu, ond yn rhoddi ystyr y geiriau a'r gystrawen yn glir, ac ar y cyfan yn bur gywir, ac ar ol cael hyny, cymharol hawdd ydoedd cyfansoddi y bregeth. Darllenai y Beibl yn ngoleuni darganfyddiadau gwyddoniaeth. Cafodd ei symblu i hyn gan Brif-athraw Trefecca ar y pryd, y Parch. Dr. Charles, yr hwn oedd wyddonydd o radd uchel, ac yn arfer darlithio yn nghapelau y wlad ar "ddaeareg" a phynciau gwyddonol eraill. Prif destyn ei efrydiaeth a'i weinidogaeth y pryd hwnw ydoedd "Crist, gallu Duw a doethineb Duw." Dangosai fod yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist yr amlygiad mwyaf o allu Duw, ac o ddoethineb yr unig ddoeth Dduw, yn gystal ag o'i gariad a'i ras. Ni ddiystyrai yr amlygiad o dragywyddol allu a Duwdod yn y greadigaeth, eithr yn hytrach dyrchafai natur trwy ei gwneyd yn ddameg i egluro y datguddiad uwch sydd yn yr efengyl. Trwy gyfatebiaeth rhwng y naturiol a'r ysbrydol—y gweledig a'r anweledig—yr oedd yn egluro gras Duw yn achubiaeth pechaduriaid. Ar ol darllen Llyfr rhagorol Proffeswr Drummond ar *Natural Law in the Spiritual World*, cyflwynasom ef i gyfaill tra galluog a deallus, fu yn gwranddo Dr. Saunders yn Bethania, Aberdar, yr holl amser y bu yno, ac yr oeddym ein dau yn cydsynio nad oedd yn y Llyfr galluog hwnw yr un syniad pwysig nad oedd wedi ei bregethu

gan Dr. Saunders o 1857—62, neu cyn bod yr awdwr yn ddeng mlwydd oed. Ceir fod rhyw gymaint o newydd-deb bid sicr yn y ffurf wyddonol, ac yn yr iaith a'r termau a ddefnyddir; ond am y gwirioneddau, a'r rhan fwyaf o'r cymhariaethau, yr oeddym wedi dyfod yn gyfarwydd hollol â hwy trwy ei weinidogaeth ef. Ni chawsom ar ddeall iddo ef ddarllen y Llyfr hwnw o gwbl, ac nid oedd angen iddo wneuthur chwaith, oblegid fod ei egwyddorion yn ei feddwl oddeutu deng mlynedd ar hugain cyn iddo gael ei gyhoeddi. Nodir y ffaith hon nid yn gymaint i brofi gallu a gwreiddiolder ei feddwl, ond er rhoddi agoriad i natur ei weinidogaeth yn y cyfnod hwn, ac yn wir i'w nodwedd i fesur helaeth drwy ei oes. Yn y byd ysprydol mae y sylweddau y dylanwadir arnynt o angenrheidrwydd yn wahanol i sylweddau y byd naturiol—mor wahanol eu natur ag ydyw enaid a chorff. Yr un modd gwahaniaetha y galluoedd; gallu ysprydol ydyw y naill, a gallu naturiol ydyw y llall. Nid y sylwedd na'r gallu ydyw y ddeddf. Dywedir weithiau fod deddf fawr disgyrchiant yn dal y greadigaeth wrth eu gilydd; mwy priodol fuasai dweyd fod gallu neu nerth disgyrchiant yn ei dal. Nis gall y ddeddf ddal, nid ydyw hi yn ddim amgen na'r rheol ddiwyro yn ol pa un mae y gallu yn dal, neu yn gweithredu. Trefn y byd naturiol ydyw deddf, a'r un modd trefn gweithrediadau galluoedd y byd ysprydol ydyw deddf. Duw sydd yn gweithio yn y naill a'r llall, ac yn gweithio yn ol trefn. Cof genym ei glywed yn egluro nad yr un fath allu ydyw "rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai ydym yn credu," a'r gallu dwyfol daenodd y gogledd ar y gwagle, ac a grogodd y ddaear ar ddiddim, ond eto fod y naill allu fel y llall yn gweithredu yn ol deddf neu reol achos ac effaith. Iachawdwriaeth rad i bechadur wedi haeddu ei ddamnio, a hyny yn unol â threfn ysprydol ac ag egwyddorion anghyfnewidiol a thragywyddol, ydoedd baich ei bregethau. Iddo ef yr oedd deddf Duw yn dra eang, mor eang a digyfnewid a natur y Jehofah Ei Hun, a Iawn i'r ddeddf hon ydoedd aberth Calfaria fryn. Credai yn mhen-

arglwyddiaethol ras Duw, ond yn ol ei farn ef nid mympwy dwyfol ydoedd yn myned yn groes i drefn, eithr penarglwyddiaeth yr anfeidrol ddoeth Dduw, yr Hwn sydd yn gweithredu yn ol cyngor Ei ewyllys Ei Hun. Dyma nodwedd ei weinidogaeth, pregethai deyrnas gras yn cael ei llywodraethu, nid yn ol chwim, ond yn unol â deddf a threfn yn codi o angenrheidrwydd natur Duw, a natur dyn, ac o natur y berthynas rhwng Duw â dyn, ac o herwydd hyny yn ddi-eithriad ac anghyfnewidiol. O ran ffurf yr oedd yn hollol newydd, o ran sylwedd yr oedd yn cynwys yr un gwirionedd tragwyddol am fywyd y byd ag a bregethwyd gan y Tadau Methodistaidd, y Puritaniaid, a'r Diwygwyr, a chan Iesu Grist Ei Hun a'i Apostolion. Tyrai y bobl i'w wrando; aeth y capel yn rhy fychan i'w cynwys, ac adeiladwyd capel arall yn ngwr y dref, ac y mae y ddwy eglwys mewn sefyllfa lwyddianus hyd y dydd hwn.

Medrai wneuthur llawer o waith, a hwnw yn waith oedd yn gofyn egni meddwl mawr mewn ychydig iawn o amser, ac ni welsom ei fath i fyned trwy unrhyw gyfwng y delai iddo yn sydyn a dirybudd. O dan amgylchiadau o'r fath, deffrōai ei holl enaid, nes yr oedd ei feddwl yn gweithredu gyda chyflymdra a threiddgarwch oedd braidd yn anghredadwy i'r sawl nad oedd yn ei adnabod. Gwelsom ef weithiau, wedi ei ddwyn wyneb yn wyneb a gwirionedd mawr a dwfn, a'i holl natur yn ysu am ei ddeall drwyddo. Daillenai yn aiddgar bob peth oedd ganddo yn ei lyfrgell yn uniongyrchol arno; ymaflai gyda nerth a sicrwydd yn ei hanfodion, gan fyned heibio yn ddisylw yr hyn nad oedd yn hanfodol; ffurfiai ei farn bersonol mewn perthynas iddo, a thynai amlinelliad o'r gwirionedd fyddai yn gyfaddas i'w feddwl ef ei hun, a chymerai feddiant hollol o hono yn etifeddiaeth dros byth; dilynai ei amrywiol ymraniau, a thynai allan ei gynllun i'w wneuthur yn ddealladwy i eraill, a hyn oll mewn llai o amser nag a gymerai ambell un i wneyd rhagdreffiadau, a hwylio i gychwyn yr ymchwil. Yn hyn yr oedd cuddiad ei gryfder

fel siaradwr byrfyfyr. Nid myned rhagddo i ddweyd rhywbeth fyddai ar achlysuron o'r fath, eithr ei feddwl ydoedd mor gyflym a chllir ag ydoedd ei ddawn ymadrodd. Pan yr oedd efe yn weinidog yn Aberdar, yr oedd yn arferiad yn y lle i draddodi pregeth fer mewn claddedigaeth, a hyny yn y tŷ cyn cychwyn allan. Un tro, pan yn myned i ddechreu gwasanaeth angladd, daeth mab yr ymadawedig yn mlaen i sibrwd yn ei glust fod ei fam wrth farw wedi dymuno am iddo bregethu ar y geiriau hyny : " Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Darllenodd y benod sydd yn cynwys yr ymadrodd, gan sylwi yn graffus arni wrth fyned yn mlaen, dywedodd fod yn ddrwg ganddo na wyddai yn gynt am ddymuniad diweddf ei anwyl chwaer, ond nad oedd cais olaf dynes dduwiol i'w ddiystyru, ac aeth rhagddo i bregethu ar y testyn gyda rhwyddineb ac eneiniaid mawr. Rhedai y syniadau a'r geiriau i'w lle mor naturiol a hawdd ag y llifai y fetel doddedig i'w rhedwelyau yn y gwaith haiarn oedd yn ymyl y tŷ y pregethai ynddo, ac yr ydym yn meddwl mai y sylwadau a ddaeth i'w feddwl o dan gynhyrfiad y foment y pryd hwnw, fu yn sail y bregeth dra rhagorol a gorphenedig a gyfansoddodd ar y testyn yn mhen blynyddoedd ar ol hyny.

Clywsom am achlysur arall, sydd yn dangos y nodwedd hwn yn fwy tarawiadol fyth. Yr ydym wedi methu cael y manylion, gan mai yn Liverpool y cymerodd le, ond yr ydym yn hollol sicr am y prif ffeithiau, gan i ni eu cael oddiwrtho ef ei hun. Yr oedd cyfarfod cymharol bwysig i'w gynal yn hen gapel Pall Mall. Pa un ai efe neu rhywun arall a ddisgwylid i siarad ynddo, nid ydym yn sicr. Os un arall, methodd hwnw ddyfod, ac anfonwyd am dano ef ar y funyd ddiweddf i lanw y bwlch goreu y gallai dan yr amgylchiadau. Os efe oedd yn cael ei ddisgwyl, yr oedd wedi llwyr anghofio hyny, nes yr oedd yr adeg wedi dyfod iddo i gychwyn. Fodd bynag am yr apwyntiad, aeth efe i gerbyd gyda'i fod yn dechreu meddwl am yr araeth, ond meddyliodd mor ddwys ac angerddol ag y gallai oddiyno i'r capel, ac ar ol cyraedd,

gofynodd i'r diweddar Dr. Gee, yr hwn oedd yn gadeirydd, i ymhelaethu gymaint ag oedd yn bosibl yn yr araeth agoriadol; ond nid yn y ddawn hono yr oedd rhagoriaeth benaf y cadeirydd, fel y gorfu i'r areithydd sefyll ar ei draed yn bur fuan, a siaradodd gyda nerth a hyawdledd anarferol am oddeutu dwy awr; ac ar ddiwedd y cyfarfod daeth dirprwyaeth ato i ddymuno arno argraffu yr anerchiad.

Un amgylchiad arall a nodwn, i ddangos y cyfoeth o adnoddau oedd yn ystor ganddo i gyfarfod ag anhawsderau ei fywyd gweinidogaethol. Nid yw hwn yn hollol o'r un natur, ac eto y mae yn debyg. Yr oedd hyn eto ar gladdedigaeth un o'i hen wrandawyr yn Bethania, Aberdar, ond gwrandawr yn unig, a dyn anghymedrol yn ei arferion, a'i wraig yn bur debyg iddo. Ond rhaid oedd myned i'r tŷ i gynnal gwasanaeth crefyddol, ac yr oedd rhai o'r blaenoriaid yn pryderu hyd at chwysu, wrth feddwl pa fodd yr oedd yn bosibl iddo fyned trwy y gwaith. Nid dawn parod yn gymaint oedd eisiau y tro hwn, a barn, ac ysprydolrwydd meddwl a theimlad. Profodd ei hun yn gwbl alluog i fyned trwy yr holl anhawsderau. Cyn pen ychydig fynyddau yr oedd wedi ymddyrchafu uwchlaw pob gwrthglawdd, ac wedi codi pawb oedd yn bresenol i sefyllfa o ddifrifwch, ac i gymundeb agos a'r byd mawr ysprydol, a hyny heb wneyd cyfeiriad at y marw o gwbl. Pan y byddai y diweddar Mr. Lewis Griffiths, Aberdar, yn son am ei fawredd fel gweinidog yr efengyl, at yr amgylchiad hwn y byddai ei feddwl yn rhedeg bob amser. Ei dystiolaeth ef, ac amryw oedd yn bresenol ar y pryd, ydoedd na ddarfu iddo erioed eu hargyhoeddi yn fwy trwyadl o'i allu meddyliol ac ysprydol, ac o gyfoeth ei adnoddau fel gweinidog cymhwys y Testament Newydd, nag ar yr achlysur hwn.

Deuai ei ragoriaeth i'r golwg yn amlwg iawn wrth ymdrin a materion duwinyddol dyrus. Mewn Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Hirwaen yn ystod ei arosiad yn Aberdar, y pwnc yn y seiat gyffredinol ydoedd: "Yr angenrheidrwydd am yr Ysbryd Glân gyda'r efengyl." Eisteddai y diweddar

Barch. D. Howells yn y gadair, ac nid llywydd mewn enw ydoedd efe. Codai i fynu ar ol pob un i gywiro yr hyn oedd yn wallus, ac i egluro yn mhellach yr hyn oedd yn dywyll. Yr oedd efe yn mhell o fod yn foddllawn i'r sylwadau oedd yn cael eu gwneyd, am nad oeddynt yn dangos *paham* yr oedd yn rhaid cael yr Ysbryd Glân i egluro yr efengyl mwy nag i egluro gwirionedd yn gyffredinol. Ar ol i amryw siarad, a'r hen dad yn methu cael ei foddloni ynddynt, cododd ein cyfaill, dan rhyw gymaint o gynhyrriad oddiwrth y gwirionedd ei hun, a dull eraill yn ei esbonio, a dangosodd fod yr efengyl yn wirionedd moesol ac ysprydol, a bod dyn trwy bechod wedi colli y cymhwysder moesol ac ysprydol i'w hamgyffred, a'i fod yn ei berthynas a'r efengyl yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd yn ei berthynas a gwirionedd naturiol, ac nad oedd yr un angen am yr Ysbryd Glân i gynorthwyo dyn i ddirnad gosodiad yn *Euclid*, neu egwyddorion rhifyddiaeth, &c., &c.; a phan eisteddodd i lawr gorfu i Mr. Howells ddatgan ei fod yn berffaith foddllawn i'r sylwadau, a thynodd y cyfarfod i derfyniad.

Dro arall, mewn Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Mhanttywyll, Merthyr, pan ydoedd y diweddar Barch. J. Roberts (Ieuan Gwyllt) yn cael ei holi ar ei dderbyniad yn aelod o'r Cyfarfod Misol fel un yn dechreu pregethu, aeth yn wrthdarawiad rhwng rhai o'r brodyr ar bwynt yn yr athrawiaeth am Berson yr Arglwydd Iesu. Nid oedd Mr. Roberts yn ateb yn y geiriau uniongred cyffredin, a chlustfeiniau rhai o'r brodyr gyda rhyw gymaint o ddrwgdybiaeth. O'r diwedd, dyma y prawf ofyniad yn cael ei roddi iddo, sef: "A ydoedd yr Iesu yn berson dynol." Atebodd yntau ei fod yn credu ei fod. Cynyrchodd yr ateb gyffro trwy yr holl wersyll, a bid sicr nid oedd yr hwn oedd yn dal y fath heresi i gael ei dderbyn i bregethu yr efengyl gyda'r Corph; yn wir, yr oedd bychan a mawr mewn amrantiad dan arfau, ac yn barod i ymlid y gelyn i ffwrdd. Gwelodd Dr. Saunders, ac un neu ddau arall, nad oedd yno ddim ond ymryson yn nghylch geiriau, heb ddim gwahaniaeth mewn syniad, a cheisiodd gan

yr holydd i egluro beth oedd efe yn feddwl wrth ddyweyd fod Iesu Grist yn wir ddyn. Gwmaeth hyny yn bur gywir a chryno. Yna gofynodd i Mr. Roberts, a ydoedd efe yn tybied rhywbeth gwahanol i hyna wrth ddyweyd ei fod yn berson dynol? "Nac oeddwn, ddim yn amgen," oedd yr ateb. Felly, y mae y cwbl yn ymddibynu ar yr hyn a feddylir wrth y gair *person*. Yn ol deffiniad yr ymgeisydd, y mae "person dynol" yn hollol gyfystyr a "bod yn ddyn," ac felly mae pawb yma yn credu yn hollol yr un peth. Tawelodd y cythrwfl; derbyniwyd yr ymgeisydd yn aelod o'r Cyfarfod Misol, a rhoddodd ceidwaid yr athrawiaeth oll iddo ddeheu-ddwyllaw cymdeithas, ac ni chafodd neb achos byth i edifarhau am y weithred.

Enill poblogrwydd ydoedd o ddydd i ddydd, a'r rhwymau oedd yn ei gysylltu ag eglwysi ei ofal, a'r Cyfarfod Misol ac a holl eglwysi y Sir, yn myned yn gadarnach ac yn dynach; ond yr oedd y galwadau diatal o Liverpool yn aflonyddu ar yr heddwch. Gwrthododd un alwad, a chafodd godiad sylweddol yn ei gyflog, er ei fod wedi cael ychwanegiadau amryw yn y gydnabyddiaeth arianol cyn hyny. Clywodd y Cyfarfod Misol ei fod yn debyg o ymadael, a chynhaliwyd cyfarfod yn Aberdar, i ystyried pa drefniadau fedrid wneuthur i'w gadw yn y Sir. Daeth llawer o'r prif weinidogion a'r blaenoriaid yn nghyd, a phasiwyd amryw benderfyniadau ar gydnabod ein gweinidogion yn deilwng. Enwyd swm penodol y dylai eglwysi cymharol luosog ei roddi yn gydnabyddiaeth am wasanaeth Sabbothol i ddyinion teilwng. Gofynai rhywrai yn y gynhadledd hono am ddeffiniad o ddyn teilwng o'r swm a nodid, ac atebai un pur ffraeth, sydd eto yn fyw, ei bod yn ddigon hawdd penderfynu y mater yna, ac nad oedd bod yn bregethwr da yn unig yn ddigon i dd'od i fynu a'r desgrifiad, oherwydd ei fod ef y dydd o'r blaen yn cydbregethu a Dr. Saunders, ac yn pregethu yn llawn cystal ag yntau; ond nad oedd yn disgwyl cael cymaint o dâl, oblegid ei fod "yn cadw pedlin," hyny yw, ei fod mewn masnach, ac

y dylai y rhai oedd yn llwyr ymgysegru i waith yr efengyl gael eu cydnabod yn wahanol iddo ef a'r dosparth y perthynai iddo, er fod rhai o honynt yn pregethu yn achlysurol yn bur dda. Arhosodd yn Aberdar oddeutu blwyddyn ar ol hyn.

Ond yr oedd eglwysi Liverpool wedi rhoddi eu bryd arno, ac ni chymerent ball. Cawsant eu prif weinidogion, ac yn eu plith yr hybarch Henry Rees, i ategu yr alwad; tueddodd hyn oll ei feddwl yntau i gredu fod rhagluniaeth ddwyfol yn ei arwain i'r maes pwysig hwnw i lafurio. Cynyrchodd ei benderfyniad i ymadael siomedigaeth a galar dwys yn eglwysi Aberdar a'r gymydogiaeth, ac yr oedd yn rhaid iddo, cyn myned, draddodi pregeth ymadawol yn y rhan fwyaf o gapeli y cylch. Clywsom amryw o'r pregethau hyn; un o honynt ydoedd "Yr Arglwydd a'r Achubwr," sydd yn argraffedig yn y gyfrol hon; ond yr oedd y weddi ar y diwedd braidd yn fwy effeithiol ar deimladau y bobl na'r bregeth. Un frawddeg ynddi ydoedd—"Bendithia ni ar ein hymadawiad, ymadawiad mwy pwysig nag arferol;" a chyda'r gair olaf yr oedd y gynulleidfa ag yntau yn ymdagu gan deimlad, a'r brawddegau diweddol, os yn cael eu dweyd o gwbl, yn cael eu hadrodd mewn llais drylliedig, a'r cyfarfod yn dibenu gyda chawod o ddagrau. Cynhaliwyd y cyfarfod ymadawol Chwefror 17eg, 1862, y Parch. R. Lumley, Abertawe, yn y gadair, yn yr hwn yr oedd amryw o brif bregethwyr a diaconiaid y Cyfarfod Misol yn bresenol. Cyflwynwyd Tysteb anrhydeddus iddo, cynwysedig o swm o arian a ystyrid y pryd hwnw yn swm mawr, ynghyd ag Anerchiad hardd, yn datgan gwerthfawrogiad o'i lafur, a hiraeth dwys wrth feddwl am ei golli. Wrth ddarllen yr Anerchiad darfu i Mr. W. Morgan—y Bardd, fel ei gelwid—dori allan i wylo a llefain yn uchel dros y capel, a chyfranogodd y dorf fawr oll o'r un teimlad. Eithr yr hyn a ysgrifenyd a ysgrifenyd; er yr holl deimladau, ymadael oedd raid; ac ar ben y pum' mlynedd o'i weinidogaeth yn y lle, symudodd o Aberdar i Liverpool.

PENOD VIII.

—:O:—

YN LIVERPOOL.

MEWN cydsyniad ag ail alwad a dderbyniodd o Liverpool, symudodd yno i fyw yn niwedd Chwefror, 1862. Ffurfiar holl eglwysi y dref y pryd hwnw un undeb gweinidogaethol, a thrysorfa gyffredinol yn perthyn iddo, ac felly yr ydoedd wedi bod er pan yr oedd y Parchn. H. Rees a J. Hughes (hynaf) yn cydlafurio. Gan hyny, yr oedd galwad i Liverpool yn golygu gwahoddiad oddiwrth holl eglwysi yr undeb hwn, a chafodd efe yr alwad hon gydag unfrydedd hollol; ac ar ol iddo fyned yno yr oedd i wasanaethu yr holl eglwysi. Yr oedd i'r cynllun hwn ei fanteision a'i anfanteision; dywedai. y diweddar Dr. Hughes mai anfantais ydoedd mewn ystyr arianol, oblegid ddarfod i'r eglwysi gyfranu yn llawer helaethach tuag at gynnal eu gweinidogion, ar ol i'r undeb gael ei dori, ac i'r gweinidogion gael eu penodi yn fugeiliaid ar eglwysi arbenig, a phob eglwys yn cael ei gosod yn gyfrifol am gyflog ei gweinidog ei hun.

Cyn ei symudiad, yr oedd wedi dyfod yn bur adnabyddus trwy yr holl gynulleidfaoedd, o herwydd yr oedd wedi bod yn pregethu cryn lawer trwy y nifer luosocaf o honynt. Bu yno am rai wythnosau yn mis Tachwedd, 1856, ac yn pregethu llawer yn yr wythnos, heblaw ar y Sabbothau, a hyny gyda'r Saeson yn benaf. Yn ystod yr amser hwnw bu droion yn nhy y Parch. J. Hughes, ac yn ei lythyr sydd ger ein bron, dywed iddo gyfarfod yno a'r Parchn. Josiah Thomas a Daniel Evans, ar eu ffordd i Edinburgh. Canmola y ddau yn fawr fel dynion ieuainc addawol iawn, a dywed fod y canu a chwareu y berdoneg yn nhy Mr. Hughes wedi ei swyno yn anarferol.

Canlyniad yr ymweliad hwn, yn ddiau, oedd y daith a gymerodd Mr. Hughes i Forganwg yr haf dilynol, ac i Gymdeithasfa Pontfaen, pan yr oedd gwrthddrych ein sylwadau yn cael ei ordeinio. Bu efe hefyd yn gyfaill ac yn arweinydd iddo ar hyd y daith hono. Ar ol hyn, ymwelodd ag amryw o gymanfaoedd y Sulgwyn. Dyma gofnod am un o honynt, sef 1861, ac am gyfarfod yn Bedford Street, pryd y pregethai gyda'r diweddar Barch. L. Edwards, D.D., i gynulleidfa orlawn, ac y cafodd yr olaf un o brif odfaon ei fywyd.

Yr oedd disgwyliad mawr am dano i'r dref, ac yr oedd papyrâu y Deheudir, y rhai oeddynt wedi cyraedd o'i flaen, yn rhoddi hanes y cyfarfod ymadawol yn Aberdar, wedi cynyrchu awydd ychwanegol am ei glywed. Teimlai amryw o ddynion ieuainc ryw gywreinrwydd hefyd i wrando y bregeth gyntaf oddiwrth y gweinidog newydd, ac aethant o'r capeli ereill i Gapel Chatham Street i'w wrando boreu Sabboth. Ei destyn ydoedd, Ioan xv. 15. Testyn pur nodweddiadol o hono fel cyfaill serchoglawn a charuaid. Odfa galed iawn ydoedd iddo ef ar gyfrif anhwylysdod gan anwyd, ond dywedir fod y bregeth yn rhagorol. Y nos, yn Bedford Street, yr oedd yn myned trwy y gwaith yn fwy rhwydd, a'i destyn oedd, Gen. iii. 15. Dyma y Sabboth cyntaf iddo fel gweinidog sefydlog yn Liverpool. Cyrhaeddodd boblogrwydd mawr yn fuan. Edrychai y bobl ieuainc arno fel anfonedig Duw atynt hwy. Cydnabyddent, bid sicr, nad oedd yn bosibl cael un uwch na Mr. Rees, a bod Dr. Hughes yn un o brif bregethwyr yr enwad a'r genedl; ond hawlient Dr. Saunders fel yr eiddynt hwy, ar gyfrif rhyw gyfaddasder arbenig oeddent yn weled ynddo ar eu cyfer. Ond buan y gwelsant fod ynddo gymhwysder, nid yn unig i'w hymgeleddu hwy, ond hefyd i siarad a'r hen bobl, ac i dynu allan eu profiadau yn y cyfarfodydd eglwysig. Cyn hir, yr oedd cymaint o son am y seiadau oedd yn gynol, ag ydoedd am ei bregethau, ac ymddifyra yr hen bobl hyd y dydd hwn mewn

adgofion melus am yr ymddiddanion cysegredig hyn yn y gymdeithas eglwysig.

Fel yr awgrymwyd eisoes, cymerodd ychydig gyfnewidiad le yn ei bregethu, ac nid cyfnewidiad chwaith, eithr yn hytrach ymberffeithiad yn ei arddull. Pan yr ydoedd yn Aberdar, yn cyfansoddi ac yn pregethu oddeutu haner cant o bregethau newyddion bob blwyddyn, neu oddeutu dau cant a haner yn ystod y pum' mlynedd y bu yno, nid oedd ganddo hamdden i dalu sylw i bethau bychain; ac fel y dywed un o brif feirniaid yr oes yn y celfau cain, y mae perffeithrwydd yn gwnwysedig mewn pethau bychain. Cyffyrddiadau ysgafn o eiddo y cerflunydd a'r gerf-ddelw sydd yn dynodi gwaith meistr yn y gelfyddyd oddiwrth waith un heb fod yn feistr. Felly gwna yr addurniadau diweddaf, pa mor fychain bynag, os yn wir gelfydd, y pregethau yn ragorach o ran cyfansoddiad a thraddodiad. Heblaw bod agos pob peth pregethwr wedi cyd-gyfarfod yn naturiol ynddo, yr oedd yn *artist* gwirioneddol, i ddysgyblu a gwrteithio natur, ac i'w ddefnyddio i'r fantais oreu. Gyda'i fod yn meddu llais da, yr oedd ganddo glust y cerddor, a gwybodaeth o'r wyddor, trwy yr hyn y medrai ei berffeithio a'i wneuthur yn hollol ufudd i ddatgan amrywiaeth syniadau ei feddwl a theimladau ei galon. Yr oedd yn fardd wrth naturiaeth, yn gymaint felly fel y dywedai y rhai hyny sydd yn cymeryd arnynt ddarllen cymhwysderau naturiol eu cyd-ddynion, mai cyfansoddi barddoniaeth ddylasai fod prif orchwyl ei fywyd; ond, yn ychwanegol at gyfranogi o reddf yr awen bur, yr oedd yn deall y gelfyddyd o'i gweithio allan yn bortrëadau barddonol byw yn ei bregethau. Dywedai un, cymhwys i roddi barn ar fater o'r fath, pe bai efe wedi ysgrifenu ei farddoniaeth mewn mydryddiaeth yn yr iaith Saesneg, mai ofer fuasai i rai a enwir fel olynwyr teilwng i'r diweddar Fardd Breiniol obeithio am yr anrhydedd hono. Meddai athrylith yr athronydd a'r gwir dduwinydd, ond ni foddlonai heb ddysgu y gelfyddyd o ymresymu, dadansoddi, a chydgrynhoi, ac olrhain effeithiau

yn ol i'w hachosion. Dysgyblodd ei feddwl i fyned trwy yr ymchwiliadau hyn, ac i gynllunio y modd goreu i wneuthur ffurwyth y llafur yn ddealladwy i'r bobl gyffredin. Ymberffeithio yn y gelfyddyd o bregethu yr efengyl, os goddefir yr ymadrodd, ydoedd un o'r gorchwylion yr ymgwymerodd o ddifrif ag ef ar ei fynediad i Liverpool. Cafodd hamdden i hyn. Yr oedd defnyddiau lawer ganddo wrth law yn y canoedd pregethau oeddynt oll yn newydd i bobl Liverpool, ac nid oedd ganddo ond eu gosod mewn ffurf fwy perffeithiedig; a phan yn cyfansoddi pregeth newydd yr oedd ganddo ddigon o amser i gaboli pob brawddeg, ac i brydfurthu pob ffugr. Hefyd, yr oedd ganddo siamplau rhagorol i'w hefydu. Erbyn hyn, yr ydoedd wedi gwrandaw prif bregethwyr ei genedl, ac onid yw hyn yn golygu prif bregethwyr ei oes yn mhob gwlad? Ymwelai prif areithwyr y deyrnas a'r byd yn achlysurol a'r ddinas, a gwrandawai yntau hwynt yn ewyllysgar, gyda'r amcan o ddwyn pob rhagoriaeth dan deyrnged i efengyl Crist. Safai ei gydweinigion yn y dref yn y dosbarth blaenaf, ac yn arbenig edmygid yr Hybarch Henry Rees ganddo ef a'r gweinigion eraill fel tywysog pregethwyr ei oes, ac fel y dyn mwyaf ar y cyfan a adnabyddasant erioed. Pan y disgynai yr eneniad oddiwrth y sanctaidd hwnw yn helaeth ar ei bregethu, nid oedd neb fel efe. Effeithiai y gwahanol ddylanwadau hyny arno yntau i'w symbylu i lwyr gysegre ei holl alluoedd, a hyny ar eu goreu, i wasanaeth ei Arglwydd; a bu yn hynod lwyddianus. Ymroddodd i bregethu. Pan yr oedd hiraeth angerddol arno ar ol yr hen gyfeillion a'r hen gysylltiadau yn y Deheudir, a phan yn teimlo diethrwrch yr amgylchiadau newyddion, yr oedd pregethu yr efengyl yn rhyddhad i'w ysbryd, ac yn peri iddo anghofio pob gofid.

Nid yw ein gofod yn caniatáu i ni fanylu ar ei drigiad yn y lle hwn, ond nodwn rai amgylchiadau pwysig gymerodd le tua'r flwyddyn 1865, canol amser ei weinidogaeth yno. Y

peth cyntaf sydd yn tynu ein sylw ydyw y cyfnewidiad a gymerodd le yn nghysylltiad y gweinidogion a'r eglwysi. Hyd hyn yr oeddynt oll yn cael eu hystyried fel yn perthyn i holl eglwysi yr undeb. Fel hyn yr ysgrifena yn nechreu mis Ionawr, y flwyddyn grybwyllledig: "Yr ydym ni yn y dref hon yn symud yn araf at ffurfio cysylltiad neillduol rhwng pob gweinidog ag eglwys benodol, yr un fath ag sydd yn awr rhwng eglwys Birkenhead a'i gweinidog, ac a fydd rhwng eglwys Bootle a'i gweinidog, a Mr. O. Thomas a Netherfield Road. Fe ofynir caniatad yr eglwysi eraill i'r ddau olaf ymsefydlu yn ein plith, nos Lun nesaf, a'r un ganlynol. Yna, tebygol y bydd Mr. Rees yn Chatham, Mr. Hughes yn Rose Place, J. Ogwen Jones yn Pall Mall, a minau yn Bedford." Cymerodd y cyfnewidiad hwn le yn fuan ar ol hyn, ac o hyny allan yr oedd pob eglwys at ei rhyddid i roddi y gyflog a farnai yn briodol i'w gweinidog, heb un ymyraeth allanol; y canlyniad fu i'r cyfraniadau at y weinidogaeth ychwanegu yn fawr.

Yr oedd dyfodiad Dr. O. Thomas o Lundain i Liverpool yn amgylchiad o ddyddordeb arbenig, ac yn gyfnerthiad pwysig i'r pwlpudd yn y dref, a chyfeiria ein cyfaill ato gyda theimlad yn un o'i lythyrau. Yr oedd y si ar led fod y Deheudir yn myned i wneyd cynyg am Dr. Thomas fel athraw duwinyddol i Drefecca. Yr oedd yr athrofa yno yn gauedig ar y pryd; ac yn ei lythyr yn cydsynio a chais yr eglwys yn Liverpool, ysgrifena Dr. Thomas fel y canlyn: "Ac nis gwn paham y mae yn rhaid i mi gelu, y mae rhai cyfeillion o'r Deheudir yn dymuno arnaf yn y modd taeraf beidio ymrwymo myned i un lle am rai misoedd, nes y caffont hwy y cyfleusdra i'm gwahodd i Drefecca. Dybygid fod siroedd Aberteifi a Phenfro wedi cytuno ar hyny, ac y maent hwy yn sicrhau mai felly y gwneir mewn siroedd eraill. Yr ydwyf wedi anfon atynt i'w hysbysu nad oes ynof fi yr un duedd i feddwl am fyned yno—nas gallaf roddi y peth fel tybiaeth i'm cydwybod, a'm bod yn gobeithio y cedwid fi rhag byth cael

profedigaeth i hyny." Darllenwyd y llythyr oedd yn cynwys y difyniad hwn yr wythnos gyntaf yn Ionawr, 1865, ac y mae yn gosod allan sefyllfa meddwl y parchedig ddoctor gydag eglurder digonol.

Oddeutu yr un amser ag y darllenwyd y llythyr uchod, yr oedd meddwl ein cyfaill hefyd yn cael ei aflonyddu gan lythyrau o'r Deheudir ar gwestiwn yr athrofa. Dyma gyfeiriad at un o honynt: "Oddeutu deng niwrnod yn ol derbyniais lythyr oddiwrth y Parch. T. Rees, Crughywel, dros Gyfarfod Misol Brycheiniog, yn gofyn caniatad i fy enwi ganddynt hwy yn athraw duwinyddol i Drefecca. Ni chymerwn ag ateb mewn byrbwylltra." I ddangos sefyllfa ei feddwl yntau gyda golwg ar y cwestiwn hwn, goddefer i mi roddi difyniad o lythyr arall o'i eiddo: "Gyda golwg ar Drefecca, nid ydwyf rywffodd yn gallu ei roddi yn ddifrifol i ystyriaeth fy meddwl. Y rheswm am hyny, hwyrach, ydyw fy mod yn teimlo nad oes nemawr o debygolrwydd y rhoddir y fath gynygiad i mi. Pe bawn yn sicr fod ynwyf y cymhwysderau angenrheidiol, ac y gallwn wasanaethu fy nghenedl yn y llwybr hwnw yn fwy effeithiol nag a allaf yn y cysylltiad presenol, yr wyf yn credu fod ynof ryw gymaint o barodrwydd i wneyd aberth er mwyn hyny. Byddai myned i Drefecca o Liverpool yn aberth i mi a'm teulu o lawer o gysuron. Gwyddoch fod genyf fi dipyn i'w gollu, oblegid yr wyf wedi bod yn dra ffortunus hyd yma. Y mae y Brenin Mawr wedi bod yn dyner iawn tuag ataf. Nid oedd genyf ddim cynorthwy i'w ddisgwyl oddiwrth berthynasau dylanwadol; eto, trwy ffafr yr Hwn sydd yn fwy na phawb, yr wyf wedi llwyddo i ddringo i safle anrhydeddus. Anhawdd fyddai genyf ollwng fy ngafael yn yr hyn sydd genyf. Ond pe gwelwn unfrydedd cymedrol gyda golwg ar hyn, a bod y cynyg yn cael ei roddi gan gyfeillion a fyddent yn gwybod fy mod yn anghymwys, ond yn disgwyl y gwnawn lafurio i ymgymhwyso i'r sefyllfa newydd, rhaid i mi gyfaddef y byddai hyny yn demtasiwn gref. Y mae geiriau Mr. Price, y cenhadwr, yn Sassiwn

Abergele, yn swnio yn fynych yn fy nghlustiau: 'Nid yw fawr pwys genyf pa un ai byr ai hir a fydd fy hoedl, pa un ai tlawd ai cyfoethog a fyddaf yn y byd hwn, ond i'm bywyd gael bod yn llawn o ddyledswydd.' Pe gwyddwn inau pa beth a fyddai fy nyledswydd tuag at y Meistr anwyl yr wyf yn Ei wasanaethu, ni phetruswn wedi hyny." Rhydd y darn llythyr uchod gipdrem ar ei deimlad gyda golwg ar Drefecca, a hefyd ar y cymhellion uchel oeddynt bob amser yn ei lywodraethu gyda gwaith yr Arglwydd. Gwyr ein darllenywyr yn dda, ddarfod i'r gwahoddiad i ddyfod yn llywydd ac athraw duwinyddol gael ei anfon, nid iddo ef, ond i'r Parch. W. Howells, Windsor Street, Liverpool, yn haf y flwyddyn hono, iddo yntau gydsynio i ddyfod, ac iddo wasanaethu y Cyfundeb yn y cylch hwnw hyd ei fedd. Yn yr un llythyr ag y gwnaed y difyniad uchod o hono, dywed: "Daeth yma ddirprwyaeth o Manchester i'm gwahodd yno. Cynygient i mi 300*o*. y flwyddyn, ac *insurance policy* o 1000*o*. Cynygiad da, onide? Dywedais hyn wrth rai cyfeillion yma, ac y maent yn anfoddlon i mi fyned yno. Dywedant y bydd fy sefyllfa yma ar fyr amser yn llawn cystal. Yn ol y drefn newydd, hefyd, bydd gan eglwys Prince's Road allu i roddi i mi faint a fynant heb ofyn caniatad yr eglwysi eraill. Nid oes yn Manchester fwy o atyniad nag sydd yn Liverpool. Am hyny, yr wyf yn bwriadu ysgrifenu y prydnawn hwn (Chwefror 7fed), i wrthod yn ddiolchgar y cynygiad." Aros a wnaeth, ac ymroddi braidd yn fwy nag erioed i bregethu a bugeilio yr eglwys a benodwyd iddo i ofalu am dani.

Yr oedd y flwyddyn hon, hefyd, yn ganol adeg adeiladu a helaethu capeli. Yr oedd Capel Chatham Street wedi ei orphen a'i agor, Capel Fitzclarence Street yn cael ei agor dechreu y flwyddyn, a dyma'r pryd y dechreuwyd gwneyd trefniadau i adeiladu Capel Prince's Road, yr hwn nid oedd ond newydd ei orphen pan yr ymadawodd efe a'r dref yn 1868. Costiodd dros 20,000*o*., heb gyfrif gwerth y tir, ac y maë yn un o'r rhai harddaf a fedd y Cyfundeb; y pigdwr

sydd iddo, yn ddiau, yw y mwyaf lluniaidd yn yr holl ddinas, a'r heol lle y saif y letaf a'r brydferthaf yn y dref; ac nid mynych, os o gwbl, y gwelir ei rhagorach yn y deyrnas. Am y gweddill o'r amser y bu yma, mewn cysylltiad a'r eglwys a adeiladodd y capel hwn y bu yn llafurio; ac i fesur helaeth ei boblogrwydd ef fel pregethwr a bugail yr eglwys a alwai am adeiladu capel o'r fath. Nid oedd ychwaith mewn un modd yn llai poblogaidd yn y cynulleidfaoedd ereill.

Mewn cysylltiad ag adeiladu ac agor y capel hwn, gellir gweld eto ddau nodwedd oedd yn perthyn iddo; un ydoedd ei gyfarwydd-der a'r Beibl. Nid oedd corph yr eglwys ar y cyntaf yn orffafriol i faint, ffurf, na phris y capel newydd; yr oedd yn rhy fawr, addurnedig, a drudfawr i'r bobl gyffredin. Ond o'r holl gynlluniau a anfonwyd i mewn, yn nghyfrif yr uchelradd, nid oedd yr un o'r lleill i'w gymharu a'r un fabwysiadwyd, fel yr oedd yr argraff yn lled gyffredinol mai capel o ddewisiad y cyfoethogion ydoedd, ond fod yr iselradd o'r braidd yn cydsynio. Cafwyd darlun hardd o'r capel newydd i'w grogi mewn lle amlwg, ac yr oedd eisiau arwyddair mewn llythyrenau breision uwch ei ben. Gosodwyd ar y gweinidog i chwilio am un cyfaddas, a'r ymadrodd ddewisodd ydoedd: "Canys nid i ddyn y mae y llys, ond i'r Arglwydd Dduw." O dan yr amgylchiadau nid oedd bosibl cael adnod mwy cymhwys. Boddwyd pleidwyr y cynllun yn fawr iawn; dygwyd y ddwyblaidd i undeb agosach a chydweithrediad mwy calonog; ac addefai llawer o honynt na wyddent o'r blaen fod y fath ymadrodd yn y Beibl. Amlygwyd y llall ar agoriad y capel newydd. Gweinidog yr eglwys drefnwyd i draddodi y bregeth gyntaf ynddo. Un o'i ddiffygion yntau ydoedd esgeuluso darparu lawer o amser yn mlaen llaw. Ar foreu dydd cyntaf yr agoriad, pan yr ydoedd yn ymosod o ddifrif i ddarparu y bregeth erbyn yr hwyr, pwy ddelai i mewn i'r tŷ ond ei gymydog a'i hoff gyfaill, y Parch. Noah Stephens, gweinidog yr Annibynwyr, un o'r ymgomwyr mwyaf diddan, ac yr oedd mewn hwyl y

boreu hwnw. Ar adegau hamddenol yr oedd ei gymdeithas yn wledd o'r fath oreu i'n cyfaill, a buasai felly y tro hwn, oni bai fod y bregeth ar waith, a'r amser ati mor brin. Parhau i siarad yn mlaen yn ddidaw a wnaeth hyd giniaw, er cael awgrymiadau oedd yn ymylu ar geisio ganddo fyned i ffwrdd. Tynodd hyn amser darparu y bregeth i lawr i'r haner, ac nid oedd dim i'w wneyd ond ymroddi ati a'i holl egni am yr amser oedd yn ol. Awd i'r capel, ac yr oedd Mr. Stephens yno yn brydlon, yn cynal breichiau y pregethwr gyda ffyddlondeb mawr. Cafodd yntau odfa eithriadol o nerthol a hwylus. Ar y diwedd daeth Mr. Stephens yn mlaen ato i'w hysbysu ei fod wedi cyraedd ei amcan, ac addefodd ei fod wedi dyfod i'w dŷ i'w rwystro y boreu hwnw, gyda'r pwrpas i'w gynhyrfu i dynu allan ei holl adnoddau ar y fath achlysur pwysig, a bod y dyben wedi ei gyraedd yn ogoneddus. Dyma engraifft eto o'i allu arbenig i ganolbwyntio ei holl alluoedd, ac i gyflawni gwaith mawr mewn ychydig amser, pan fyddai yn cael ei gyffroi i hyny.

Cyfarfyddai yr holl weinidogion a'u gilydd yn gyson yn fath o ddosbarth duwinyddol ac athronyddol. Yr oedd nifer o honynt yn ieuainc ac yn llawn asbri am wybodaeth. Gwir fod y Parch. H. Rees yn oedranus o ran dyddiau, ond yr oedd mor ieuanc ei ysbryd a'r un. Ymunai a hwy gyda holl hoenusrwydd ac ystwythder llanc. Cymerai ran yn eu dadleuon, a chyfranogai o'u difyrwch diniwed gyda chymaint o barodrwydd ac ymroddiad a'r un o honynt. Gwnaeth cymdeithas ei frodyr ieuainc les iddo ef, a gadawodd yntau ddylanwad er daioni arnynt hwythau. Cyn hyn, nid oedd wedi darllen Shakspeare drwyddo, a synai beth oeddynt yn weled ynddo. "Ddarfu i chwi ei ddarllen, Mr. Rees?" meddai un o honynt. "Do, mi ddarllenais y *Merry Wives of Windsor*, ac yr oedd hyny yn llawn digon i mi o hono fo," oedd yr ateb. "Wnewch chwi ddarllen *Hamlet*?" ebe un o honynt. Gwnaeth hyny, ac erbyn y cyfarfod nesaf yr oedd efe yn gymaint edmygydd

o Shakspere a neb. Ystyrïai Dr. Hughes a Dr. Saunders Mr. Rees y dyn mwyaf a adnabyddasant erioed: nid yn unig mewn sancteiddrwydd a duwiolfrydedd aruchel, ond hefyd mewn gallu naturiol fel duwinydd, athronydd, bardd, pregethwr, ac arweinydd y Cyfundeb; a chredent, pe bai wedi astudio gwleidyddiaeth, fod ynddo ddigon o dalent i gyraedd y safle uchaf yn y wladwriaeth. "Y mwyaf a adnabyddais erioed oedd Mr. Rees; yr wyf yn gosod Dr. Saunders y nesaf ato," ebai Dr. Hughes, y tro diweddfaf y cawsom ni y fraint o'i weled. Yr oedd hyny yn ei dŷ ei hun nos olaf Cymdeithasfa ddiweddfaf Caernarfon. Wedi i'r teulu a'r dieithriaid eraill oll fyned i orphwys, eisteddodd am adeg faith i rydd-ymgomio, ac i ddatgan ei farn am ein cyfaill ymadawedig, mewn atebiad i'n cais am ychydig ddefnydd, i'w osod yn y cofiant hwn. Mewn gallu a threiddgarwch meddwl i fyned trwy bynciau dyrus, yr oedd yn addef ei fod yn tra rhagori ar Mr. Rees. Priodolai hyn i fesur i'r ffaith ei fod ef wedi cael addysg athrofaol, a Mr. Rees heb gael y ddysgyblaeth feddyliol hono. Pan yr oedd y gwahaniaeth rhwng athroniaeth Syr W. Hamilton a J. Stuart Mill yn destyn beirniadaeth yn nghyfarfod undeb y gweinidogion, cymerai Dr. Saunders ochr Hamilton i'r cwestiwn, a synent oll fel yr ydoedd yn medru cyfarfod ac ateb gwrthddadleuon Mill. Hefyd, pan y byddai anhawserau yn codi na fedrai neb o'r aelodau eraill weled trwyddynt, byddai efe yn gallu eu clirio a'u symud gyda hawsder mawr. Dywed Dr. Hughes i'r un perwyl yn ei lythyr a gyhoeddwyd yn hanes y claddedigaeth. Addawodd i ni ysgrifenu penod ar ei brif nodweddion, ond hunodd yntau yn yr Iesu cyn gwneyd hyny; a chan nad oes ond y llythyr hwnw ar gael, goddefer i ni ddifynu o hono: "Gwnaeth argraff arnaf yn fuan ei fod yn ddyn o feddwl cryf a threiddgar dros ben; yr oedd ynddo hoffder at gwestiynau anhawdd mewn athroniaeth a duwinyddiaeth, a chymhwysder arbenig i'w deall a'u hegluro. Ni ddaethum i

gyffyrddiad a neb yn fy nydd oedd yn fwy felly. Ac ni raid dyweyd pa mor hylithr a swynol oedd ei ymadrodd. Safai ar ei ben ei hun ymhlith ei frodyr yn y peth hwn. Ni fu neb erioed yn mhwlpu dau Cymru yn llefaru yn fwy naturiol ac yn fwy hyfryd; a'r hyn a wnai y naturioldeb hwn yn fwy clodfawr oedd, ei fod mewn undeb a difrifwch, ac a dwysder, mewn meddwl a theimlad. Yr wyf wedi gallu galw i gof amryw o'i bregethau—a'r rhai hyny mewn capeli bychain—pan oedd rhyw ddylanwad nefol, hyfryd—y math goreu ac uchaf o ddylanwad—yn cydfyned a'u traddodiad, pan oedd meddyliau y gwrandawyr ar unwaith yn cael eu heangu, eu dyrchafu, a'u puro. Yr oedd yr Arglwydd Dduw yn ddiau wedi rhoddi i David Saunders dafod y dysgedig, i fedru llefaru gair mewn pryd wrth y diffygiol; a pha ddawn ragorach ellir ei rhoddi i ddyn? Bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig yn Nghymru am ddyddiau lawer, ac y mae yn sicr yr ystyrir ef ymysg prif bregethwyr y ganrif. Ond yr oedd yn berchen ar beth uwch nag athrylith ac ymadrodd,—yr oedd yn ŵr o yspryd uniawn; meddai yn naturiol ar galon eang, ac yr oedd dwyfol ras wedi gwneuthur y galon eang hono yn galon bur. Dwfn iawn oedd ei gariad at yr Arglwydd Iesu, a mawr oedd ei edmygedd o'i gymeriad. Yr oedd yn addoli yr Iesu, ac yn gweddïo llawer arno; ac oddiar ei brofiad personol yn rhoddi y lle mwyaf iddo yn ei weinidogaeth. Nid oes neb sydd yn fyw—ac yr wyf yn tybied nad oedd neb o'r rhai sydd yn huno—wedi traethu yn rhagorach ar hynawsedd, gostyngeiddrwydd, a hunanymwadiad yr Iesu, nac mewn gwell yspryd, nag efe; a hawdd oedd gweled fod y gwrandawyr yn *caru* ac yn *credu* pan fyddai Dr. Saunders yn pregethu. Byth er pan y clywais am ei farwolaeth, yr wyf mewn myfyr dwys, ac yn rhoddi ffrwyn i'm meddwl i redeg yn ol at ddigwyddiadau y blynyddoedd y byddai ein hen gyfaill cu a minau mewn cyfarfyddiad mynych a'n gilydd, un ai yn cydefrydu rhyw lyfrau neillduol mewn athroniaeth, neu yn cydweithio ar negeseuau dros y

Cyfarfod Misol, neu yn cydbregethu mewn cyfarfodydd yn siroedd Fflint a Dinbych. Y mae pum'-mlynedd-ar-hugain neu fwy, bellach, er hyny; ond y mae yr adgofion yn fyw ac yn hyfryd-bruddaidd. Y mae arnaf hiraeth gwirioneddol a dwys am dano. Nis gallaf lai na cholli dagrau am na chaf weled ei wyneb mwy. Yr oedd yn 'wr mawr yn Israel,' ac yn 'wr anwyl' hefyd, yr hyn nid ellir ei ddweyd am bob 'gwr mawr,'—yn anwyl gan ddynion, am ei fod yn anwyl gan Dduw.

“Tra yn dwys alaru am y golled ar ol y fath wr, yr ydym hefyd dan ddyled i ogoneddu Duw am ei godi, am ei ddal cyhyd fel seren yn ei ddeheulaw, ac am fendithio ei weinidogaeth i'r fath raddau i'w gydgenedl. Dylem hefyd anog ein gilydd, yn ngwyneb y colledion diweddar a gawsom fel Cyfundeb, a'r golled olaf yn llawn cymaint ag un o'i blaen, i atolygu ar Arglwydd y cynhauaf i anfon gweithwyr i'w gynhauaf. Ni allasai neb llai na Phen yr Eglwys wneuthur pregethwr mor gyflawn a phrydferth ag oedd D. Saunders.”

Cawsom hanes y Cyfarfod Darllen, neu y Gymdeithas Lenyddol, a sefydlodd i'r gwŷr ieuainc, gan bedwar o'r hen aelodau, a chaniatawn iddynt ei roddi yn eu geiriau eu hunain:—

“Caem gyfleusdra yn awr a phryd arall i wrando prif areithwyr y deyrnas, a phregethwyr blaenaf y dref, yn mysg y Saeson. Yr ydym yn credu fod ein barn y pryd hwnw am y Parch. D. Saunders yn hollol gywir, sef, ei fod yn tra rhagori arnynt oll fel gwir areithiwr. Tybiem ar yr un pryd fod cuddiad ei gryfder fel y cyfryw yn ei allu digyffelyb i feddianu y pwnc fyddai ganddo mewn llaw, nes y byddai y pwnc yn ei feddianu yntau. Er ei fod wedi dysgyblu ei hun, ac yn parotoi, gwyddem nad oedd yn cyfyngu ei hun i'r hyn a ddarparai, ac arferai ddweyd ei fod yn hoff o'r ymdeimlad o fod mewn rhyddid gogoneddus. Wrth ein cynghori ni, ei ddysgybllion, rhoddai bwys ar ddau

beth : ystorio y meddwl, a gosod y defnyddiau yn y cof yn drefnus, fel y gallem gael gafael yn hwylus arnynt pan fyddai eu heisiau. Cawsom gyfleusdra amryw weithiau i'w glywed yn llefaru yn ddirybudd, a synem at ei fedr i dynu ar ei adnoddau. Yr ydym yn cofio yn dda un noson waith yn Bedford Street, fod gwr dyeithr oedd i bregethu yno heb gyrhaedd erbyn yr adeg, a'r gynulleidfa yn disgwyl. Nid oedd dim i'w wneyd ond gofyn iddo ef anerch y gynulleidfa, yr hyn a wnaeth am haner awr, pryd y daeth y pregethwr i mewn, ac yr oeddym erbyn hyn wedi myned i obeithio na ddeuai, gan mor fiasus oedd anerchiad ein gweinidog.

“ Yn y dosbarth, sef Cyfarfod Llenyddol y gwŷr ieuainc, y barnem ni ei fod yn ei ogoniant. Gofalai efe fod y cyfarfodydd yn cael eu dechreu a'u diweddu trwy weddi. Nodweddid ei gysylltiad a ni gan ryw ddylanwad anweledig, dystaw, treiddgar, arosol, nas gellir ei ddesgrifio. Yr oedd efe ar y pryd yn ieuangaidd iawn ei yspryd, a ninau yn y cyfnod pwysig hwnw ar fywyd pan y ffurfir y cymeriad; yr oedd y cydgyfarfyddiad felly yn hynod o hapus, ac yn fanteisiol iawn i ni. Deuai fel rheol o ddeugain i driugain ynghyd i'r cyfarfodydd, ond rai prydiau byddai y nifer yn llawer mwy. Byddai amrywiaeth mawr ynglyn a hwynt. Weithiau darllenai un o'r aelodau draethawd ar ryw fater, neu rhoddid anerchiad, yna ceid sylwadau gan yr aelodau. Nid oedd neb yn teimlo unrhyw anhawsder oddiwrth bresenoldeb yr athraw. Yna clōai yntau y drafodaeth. Bryd arall ceid dadl ar bwnc buddiol, un bob ochr yn agor; yna cymerid y ddadl i fynu gan eraill, a therfynid eto trwy iddo ef symio i fynu. Yr oedd y symio i fynu yn mhlith y pethau goreu a glywsom erioed. Wele rai o'r materion: ‘Rhagluniaeth.’ ‘A ydyw dyn yn fod crefyddol?’ ‘A oes cydwybod?’ ‘Prydferthwch—pa un ai yn meddwl yr edrychyd ai yn y gwrthddrych y mae?’ Dadl fawr y gymdeithas oedd dadl yr organ, yr oedd hyn ychydig amser cyn y symudiad o Bedford Street i Prince's Road; parhaodd y ddadl am

bump neu chwech wythnos, a chafwyd y mwyafrif yn erbyn dwyn yr organ i mewn i'r capeli; ond ni chafwyd barn y llywydd, gwyddai efe pryd i dewi. Hynod fel mae pethau wedi newid. Erbyn hyn, sef Ionawr, 1894, y mae organ a gostia lawn 1,400*l.* yn ei lle yn ein haddoldy yn Prince's Road, a'r rhai hynny sydd yn fyw o hen aelodau y Gymdeithas Lenyddol, oeddynt y pryd hynny yn gwrthwynebu yr organ, erbyn heddyw yn gweithio yn egniol o'i phlaid. Yr oedd ei bresenoldeb ef yn sicrhau y teimladau goreu tuag at ein gilydd, ac yn ein gosod ar ein gwyliadwriaeth rhag defnyddio ymadroddion fuasai yn clwyfo teimladau neb. Mewn rhai dadleuon byddai cryn frwdfrydedd yn cael ei ddangos, ac oni bai am ei bresenoldeb, buasai pethau yn cael eu cario i eithafion.

“Adegau eraill ceid Dosbarth Beiblaidd. Buom yn y Rhufeiniaid a'r Hebreaid. Hefyd bu '*Christian Evidences*,' '*Butler's Analogy*,' ac '*Athrawiaeth yr Iawn*' genym. Y cyfarfodydd y derbyniasom fwyaf o fudd o honynt oedd y rhai a gynhaliwyd o Medi, 1865, hyd Ebrill, 1866, pryd yr oedd '*Outlines of Mental and Moral Science*,' by David Stuart, D.D., yn *Text Book*. Dyma gyfnod euraidd y cyfarfodydd hyn. Y materion fu dan sylw oeddynt: (1) Synwraeth neu ganfyddiad, (2) Adfeddwl trwy ymwybyddiaeth, (3) Cof, (4) Barn, (5) Ymresymu, (6) Sylwad-aeth, (7) Dirnadaeth, (8) Cymdeithasiad. Caem ffrwyth ymchwyliad a darlleniadaeth Dr. Saunders, a'i farn ar syniadau Hamilton, Mansel, Reid, Brown, Locke, a Stewart. Byddai yn fynych yn egluro y materion trwy enghreifftiau yn ei hanes ei hun ac eraill. Yr ydym yn cofio ei fod yn adrodd am dano ei hun pan yn llanc yn astudio yn bur hwyr, ac wedi ei lyncu i fynu gymaint gan y pwnc, fel, er iddo fwyta tafell o'r dorth yn ol ei arfer cyn ymneillduo, eto iddo gymeryd y ganwyll a'i rhoddi yn y cwpbwrdd, a chymeryd y dorth yn ei law yn lle y canhwylbren, ac ni ddeallodd ei gangymeriad hyd nes yr oedd wedi myned i fynu y grisiau at

ei ystafell wely, pryd y dychwelodd mewn pryd i rwystro y cwpbwrdd fyned ar dan. Dro arall crybwyllai am dano ei hun wedi bod am oriau yn ei fyfyr-gell, ac yn dyfod i lawr at y teulu i gyfranogi gyda hwy o'r pryd bwyd, wedi ei feddianu mor llwyr gan y pwnc oedd ganddo, fel yr edrychai fel dyn hurt yn nghanol ei deulu. Ymddangosai i ninau yn fynych yn y dosbarth fel un wedi ymgolli yn y mater. Byddai edrychiad ei lygad, goslef ei lais, ac ymagoriad ei law, yr oll wedi eu cysegru i egluro y pwnc fyddai ger bron. Yr oedd pob peth yr ymaflai ynddo yn ymagor yn ei ddwyllaw. Weithiau taflai ofyniad i'r bwrdd er mwyn egluro geiriau neu ymadroddion ystrydebol a arferyd yn fynych gan rai heb feddu ond syniad pur aneglur o'u hystyr. Yr ydym fel pe yn ei weled, pan oedd 'Rhagluniaeth' yn fater trafodaeth, a rhywun wedi dweyd 'fod Duw uwchlaw amser a lle,' yn gofyn y cwestiwn: 'Beth ydych yn feddwl wrth fod Duw uwchlaw amser a lle?' Eglurai mai yr hyn sydd yn rhoddi i ni y syniad o amser yw olyniad—y naill ddrychfeddwl yn dilyn y llall. Ond nis gellir priodoli olyniad i Dduw. Un *idea* fawr yw yr oll iddo ef. Pan y mae dyn wedi ei lyncu i fynu gan un *idea* fawr, mae yn difodi amser; gall awr fyned heibio heb iddo deimlo na gwybod ei bod fwy na moment. Fel hyn, gallem gael rhyw syniad am Dduw fel uwchlaw amser. I ni, ar y pryd, yr oedd ei ddull o egluro y mater yn ddarganfyddiad byd newydd.

"Rhoddai bob chwareu teg i'r gwan. Os byddai brawd wedi gwneyd sylw a rhywbeth ynddo, er na fyddai yn gallu gwneyd ei feddwl yn eglur, byddai efe yn sicr o gymeryd gafael ynddo, a'i wisgo mewn diwyg, a'i osod allan i'r fantais oreu, fel y byddai rhai o honom yn methu bron adnabod ein plant ein hunain. Er hyny, nid ydym yn cofio iddo erioed wneyd hyny i weniethio i neb, nag i borthi balchder a hunan-dyb. Gofalai am ddangos gwerth priodol pob sylw, ac nid anfynych y bu rhai o honom yn gorfod teimlo wrth wrando arno, mai digon prin yr oeddem wedi agor

ein llygaid ar anhawsderau y pynciau y byddem yn eu trafod.

“Byddai yn berffaith onest a theg gyda phawb, a sicrhâi ein hymddiried a'n parch. Edrychem i fynu ato fel yr edrychai y dysgyblion at yr Arglwydd Iesu; ac yr ydym yn tueddu i feddwl y buasai llawer o honom yn barod ar y pryd i beryglu ein bywyd er ei fwyn, gan fel yr oeddem yn teimlo ymlyniad wrtho. Wrth ddyfod allan o un o'r cyfarfodydd, gwelem dyrfa fawr, a chlywem waeddi; yr oedd dau Wyddel yn ymladd. Yr oedd dau neu dri o honom yn gwneyd ein goreu i berswadio Dr. Saunders i gadw yn glir a hwynt. Ond ymwithodd trwy y bobl at y ddau ddyn, a llwyddodd i'w gwahanu. Nid anghofiwn ein pryder ar y foment rhag iddynt ei daro. Yr oedd genym berffaith ymddiried yn ei onestrwydd a'i degwch. Credem ei fod yn cashau pob ffug a rhodres a chas cyflawn, ac yn caru y gwirionedd a charu ein lles. Nid anghofiwn ef byth un tro yn yr hen seler yn Bedford Street ar ei liniau yn diweddu un o gyfarfodydd y gwyr ieuainc, yn erfyn am i ni gael ein meddianu a chariad at wirionedd, gwirionedd yn mhob cyfeiriad, gwirionedd yn mhob ffurf, gwirionedd yn mhawb. Teimlem ein henaid yn ymeangu yn ei gwmni. Yr oedd ynddo y fath gyfuniad o elfenau gwir fawredd. Mor dyner ydoedd wrthym, ac eto, mor onest—mor onest, ac eto, mor dyner. Yr oedd yn wr o bresenoldeb mawr. Teimlem pan fyddai rhyw alwadau yn ei luddias i fod yn y dosbarth, fod yno wagle mawr. Y mae yn hysbys i bawb pa mor gymeradwy oedd gweinidogaeth Dr. Saunders i'r eglwys, ac i holl gynulleidfaoedd y dref; ond yr oeddem ni yn arfer meddwl fod mwy o gydymdeimlad a mwy o agosrwydd rhyngddo ag aelodau y Gymdeithas Lenyddol na neb arall; eu bod yn wrthddrychau arbenig ei ofal. Yr oedd yn anhawdd gwybod pa un ai ei ofal ef am danynt, ynte eu hoffder hwy o hono ef, a'u hymddiried trwyadl ynddo, oedd amlycaf. Byddai yn cyflawni gorchymyn Iesu Grist i Petr yn llythyrenol: 'Portha fy ŵyn.' Wyn oeddym, ac yntau yn fugail arnom. Byddai bob amser yn ngyfarfodydd y Gymdeithas os yn y dref.”

Bu ei ddylanwad yn fawr ar y dynion ieuainc hyn, a darfu iddynt agos oll droi allan yn ddyinion da a defnyddiol. Mae amryw o honynt heddyw yn weinidogion, rhai yn genhadon, a lliaws yn flaenoriaid blaenllaw ac ymroddgar yn y Cyfundeb. Pan yr ymadawodd a'r dref i ddychwelyd i'r Deheudir, cyflwynasant iddo Anerchiad addurnedig ar ran y Gyndeithas, ac ystyriai efe yr Anerchiad hwn yn un o'i drysorau penaf hyd ddydd ei farwolaeth.

Bu llawer o afiechyd yn eu deulu yn ystod y blynyddoedd diweddaf y bu yn byw yn Liverpool. Parodd hyn iddo efrynu llawer ar feddyginiaeth. Yr oedd *Homœopathy* y pryd hwnw yn wyddor gymharol newydd, a'i llenyddiaeth felly heb fod yn eang iawn; ac yr ydym yn meddwl na cham-syniem pe dywedem iddo ddarllen y cwbl o werth a gyhoeddwyd arni, o'i phlaid, ac yn ei herbyn, ac iddo barhau i fwyta y cwbl yn llwyr fel yr ydoedd yn dyfod allan trwy y wasg. Yn ei lyfrgell ceir dros dri chant o gyfrolau ar feddyginiaeth, y rhai a ddarllenodd yn fanwl, a darfu iddo ysgrifenu nodiadau helaeth ar o leiaf gant o'r cyfrolau hyn. Yn yr adran o'r gelfyddyd feddygol, sydd yn ymwneyd a natur a dylanwad cyfferiau, anfynych y cyfarfyddai a meddyg fedrai gystadlu ag ef mewn eangder na manyldra gwybodaeth. Dywedai meddyg enwog, ddaeth i'w dŷ i ymgynghori a meddyg arall ar sefyllfa ei anwyl ferch, na fu ef dan arholiad mor dreiddiol nemawr erioed a'r un gafodd gan ein cyfaiili y diwrnod hwnw. Dywedai meddyg, y bu yn ymgynghori ag ef yn Chicago, wrth Dr. Harris, ei fod yn synu na fuasai wedi clywed am dano o'r blaen, gan ei fod yn sicr yn un o'r meddygon galluocaf y daeth efe erioed i gyffyrddiad a hwy. Nid oedd mor hyddysg yn y ganghen hono o'r wybodaeth feddygol sydd yn archwilio y cyfansoddiad dynol, a'r gwahanol anhwylderau y mae yn agored iddynt, ac nid oedd, bid sicr, wedi cael cymaint profiad mewn adnabod y gwahanol glefydau. Darfu i sefyllfa ddifrifol iechyd Mrs. Saunders beri iddynt ddyfod i'r

penderfyniad didroi-yn-ol i adael y dref, a myned i'r wlad i fyw. Pan ddeallodd yr eglwys hyn, gwnaeth bob ymdrech ddichonadwy i'w gadw. Un noson, ar ol iddo fod yn pregethu yn y capel newydd—ar adeg yr agoriad, os cawsom ein hysbysu yn gywir—cyhoeddwyd cyfarfod y brodyr i aros ar ol, i ystyried y mater. Gwarafunodd yntau yn gyhoeddus iddynt wneyd, a hysbysodd hwynt nad oedd arian yn y byd a'i tentiai i aros, ar ol iddo ddeall fod ei arosiad yn peryglu bywyd ei anwyl briod, ac yn anfanteisiol i iechyd ei blant. Penderfynodd Eglwys Moriah, Caernarfon, roddi galwad iddo, a daeth dirprwyaeth yr holl ffordd i Liverpool i atolygu arno ei derbyn, ond dewisodd yn hytrach gymeryd gofal Eglwys Henaduriaethol Arglwydd Llanofar, yn Abercarn. Yr oedd y tŷ helaeth, a'r tyddyn cysylltiedig ag ef, a'r wlad iach, fel y tybiai y pryd hwnw, oedd o'i amgylch, a chryn lawer o ryddid i wasanaethu y Cyfundeb yn y gymydogeath ac yn y Deheubarth, yn brofedigaeth iddo; ac ar ol oddeutu chwech mlynedd o lafur gyda'r weinidogaeth yn Liverpool, symudodd i Abercarn yn 1868.

PENOD IX.

—:0:—

YN ABERCARN.

ADEILADWYD Eglwys Abercarn yn y flwyddyn 1854, gan Syr Benjamin Hall, wedi hyny Arglwydd Llanofwr, enw sydd yn hollol adnabyddus ac yn glodfawr trwy y Dywysogaeth. Fel gwleidyddwr galluog, ac aelod o weinyddiaeth Arglwydd Palmerston, mae i'w enw safon anrhydeddus ar gofystyfrau y deyrnas. Dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi dan y teitl uchod yn 1859. Bu farw yn 1867. Yn Arglwyddes Llanofwr (Gwenynen Gwent), yr hon sydd eto yn fyw, ond yn oedranus iawn, cafodd briod, a chydweithydd teilwng yn mhob ystyr o'r gair. Coleddai ein cyfaill y syniadau uchaf am dani, ac yr oedd ganddo y parch dyfnaf iddi. Amcan adeiladu yr eglwys ydoedd parhau gwasanaeth i'r Goruchaf, a rhoddi cyfleusdra i'r bobl i'w addoli yn yr iaith Gymraeg, a gelwir hi hyd heddyw yn "Eglwys Henaduriaethol Gymraeg Arglwydd Llanofwr," ac wrth yr enw hwn y mae i'w hadnabod gan yr oesoedd dilynol. Aeth y draul i'w hadeiladu, ynghyd a'r persondy eang a phrydferth, a'i holl gyfleusderau, yn amryw filoedd o bunoedd, heb gyfrif gwerth y tir y maent wedi eu hadeiladu arno, a bernir fod gwerth blyneddol, yr hyn a dderbynia y gweinidog, yn ddau gant o bunoedd, ac y mae yr eglwys at ei rhyddid i ychwanegu faint a fyddo at y gyflog hon.

Bu yr eglwys a'r eiddo perthynol iddi yn meddiant yr Eglwys Sefydledig am oddeutu wyth mlynedd. Gan nad oedd yr offeiriad yn gallu cydweled ag Arglwydd ac Arglwyddes Llanofwr am yr iaith, a chan ei bod hwy yn teimlo parch arbenig i Gyfundeb y Methodistiaid, daethant i'r penderfyniad yn y flwyddyn 1862 i'w chyflwyno i'r Corph;

ac yn Hydref y flwyddyn hono bu y diweddar Barchn. Dr. Phillips, Henffordd, a Dr. Charles, Trefecca, yn cynal cyfarfodydd pregethu ynddi i'w hagog fel eglwys y Methodistiaid yn y lle. Yn fuan ar ol hyn ymsefydlodd Dr. Charles yn weinidog arni, a'i olynydd ef ydoedd Dr. Saunders. Yma y daeth o Liverpool yn y flwyddyn 1868. Nid oedd efe yn ystyried fod gwaddoli eglwys mwy na gwaddoli athrofa, o dan bob amgylchiad, yn groes i egwyddorion Cristionogaeth, ac ni thymbiai fod gwaddoli gan berson unigol yn wahanol mewn egwyddor i waddoli gan gyfundeb o bobl, neu ni fuasai byth yn ymgymeryd a'r swydd o fod yn weinidog arni. Edrychai ar y safle fel un fanteisiol i ddyn o allu a thalent i wneyd daioni, ac i fod yn ffynonell dylanwad mewn cymydogaeth lle yr oedd Methodistiaid yn anaml, ac yn mysg pobl gymharol dlodion. Cynygiodd ei wasanaeth yn rhad i eglwysi bychain y gymydogaeth, tra na byddai hyny yn ymyraeth a'i rwymedigaeth i wasanaethu yr efengyl yn mysg pobl ei ofal; ond, oherwydd rhyw resymau na pherthyn i ni eu rhoddi, ni dderbyniwyd y cynyg hwn i'r graddau yr oedd efe yn ddisgwyl.

Ymdrechodd ar unwaith i wneuthur yr eglwys yn un hollol Fethodistaidd, mewn ffaith yn gystal ag mewn enw. Etholwyd blaenoriaid ynddi fel pob eglwys arall berthynol i'r Cyfundeb. Cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi, a chyfarfodydd eglwysig yn rheolaidd bob wythnos. Gwahoddodd brif weinidogion yr enwad yno i bregethu yn achlysurol, rhoddodd ryddid i'r eglwys i ddewis y gweinidogion a fynent i'w gwasanaethu ar y Sabbothau y byddai efe yn absenol, a threfnodd fod y casgliadau Cyfundebol yn cael eu gwneuthur yn rheolaidd ganddi, ac yn benaf oll byrhaodd a chyfnewidiodd yr adran o wasanaeth yr Eglwys Sefydledig a ddefnyddid. Gyda hyn o orchwyl, cafodd ganiatad a chymorth parod Arglwyddes Llanofar ei hun. Llauer noswaith bu y ddau, hyd oriau y boreu, yn cydymgyngori ar y cyfnewidiadau hyn, yn tynu allan ac yn gosod i mewn, ac yn cyfnewid

brawddeg am frawddeg o'r Llyfr Gweddi Cyffredin, er mwyn cael ffurf-wasanaeth byr fyddai yn hollol gymeradwy gan y gynulleidfa, ac na fuasai yn gormesu ar farn na theimlad y Cyfarfod Misol na'r Gymdeithasfa; a llwyddasant i wneyd llyfryn bychan o weddïau cyhoeddus, nas gallesid codi gwrthwynebiad iddynt, oddieithr bod y ffaith eu bod wedi eu cymeryd o wasanaeth eglwys arall yn ddigon o reswm dros wneuthur hyny; neu fod gwrthwynebiad i ffurf-wasanaeth o gwbl.

O dan ei ofal a'i arweiniad ef yr oedd yr achos yn llwyddo, a'r eglwys yn hollol ddedwydd. Cerid ef yn fawr gan yr aelodau, a chan bawb yn gyffredinol; ie, gan y rhai mwyaf annuwiol. Un noswaith, fel yr ydoedd yn dod adref i'w dŷ trwy y tywyllwch, mewn man unig tarawodd yn erbyn dyn meddw yn gorwedd ar y ffordd. Dihunodd ef, a mynodd wybod pwy ydoedd, a pha le yr ydoedd yn byw. Pan ddaeth y dyn meddw ato ei hun, a deall pwy oedd yn ei ysgwyd, gwaeddodd allan mewn syndod diolchgar: "Chwi, Mr. Saunders, sydd yma; pe buasai un o'm cydweithwyr yn fy ngweled yn eich lle chwi, gadawsent fi i gysgu yn mlaen, ac o bosibl y byddai rhywbeth yn gyru dros of a'm lladd. Diolch yn fawr i chwi." Ar ol cael ei osod ar y ffordd adref, aeth i'w dŷ a'i barch yn ddyfnach nag erioed i'w gymwyn-aswr. Cyfarfyddodd ag amgylchiadau hefyd, fel y cawn nod eto, y cafodd yr holl gymydogeath gyfleusderau i amlygu eu parch a'u cydymdeimlad tuag ato ef a'i deulu.

Trwyddo ef, hefyd, y cafodd yr eglwys a'r meddianau perthynol iddi eu trosglwyddo drosodd yn eiddo, mewn cyfraith, i'r Cyfundeb. Yr oedd hwn yn orchwyl mawr ac anhawdd. I bob amcan ymarferol, tra y byddai efe yno, a thra y byddai yr Arglwyddes yn fyw, yr oedd y cwbl yn hollol at wasanaeth y Corph, ond nid oedd darpariaeth ddigonol i'w sicrhau yn feddiant gwastadol i'r Cyfundeb ar ol ei marwolaeth. Crëai hyn oll lawer o bryder yn ei feddwl gyda golwg ar ddyfodol yr eglwys, a'i chysylltiad a'r

Enwad a garai mor fawr. Llafuriodd yn galed, a chafodd gynorthwy sylweddol gan Mr. R. G. Williams, Baryfreithiwr y Frenines, a blaenor yn Eglwys Jewin Crescent, Llundain, i gael gweithred gyfreithiol sicr ar y meddianau oll, fel y gallai y Gymdeithasfa gael perffaith dawelwch ar y mater. Ar ol trafodaeth faith a chymharol ddyrus, llwyddodd yn ei amcan, a throsglwyddwyd y cwbl, trwy ymddiriedolwyr, yn eiddo i'r Methodistiaid Calffaidd dros byth. Cynwysa ddwy erw o dir, a'r eglwys sydd wedi ei hadeiladu arno, deuddeg erw a haner o dir pori da, ynghyd a'r persondy, a'r adeiladau a'r gerddi perthynol iddo, oddeutu chwarter milldir o rodfa hardd, rhwng coed, yn arwain o'r persondy i'r eglwys, a chant ac ugain o bunoedd yn flynyddol yn ychwaneg at gyflog y gweinidog; ac y mae y cwbl oll wedi eu sicrhau dros byth yn feddiant hollol i'r Cyfundeb, i gynnal achos yr efengyl yn Eglwys Henaduriaethol Gymraeg Arglwydd Llanofar, yn Abercarn. Gorwedd copi o'r weithred hon ar y bwrdd o'n blaen, a'r ymddiriedolwyr cyntaf ynddi ydynt Robert Griffith Williams, Thomas Phillips, a David Saunders; a pha faint bynag o werth sydd yn y trosglwyddiad hwn, i'r olaf o honynt y mae yr enwad yn ddyledus am dano.

Calan y flwyddyn 1871, ymsaethodd y newydd fel trydan trwy y wlad ei fod wedi tori ei goes yn Hwlfordd, ar ei daith i Gyfarfod Misol Abergwaen. Yr ydoedd yn dywydd rhew, ac ychydig eira ar y ddaear. Llithrodd ei droed dros ymylfaen y llwybr, a chyn teimlo nemawr, gwelodd ei goes wedi plygu, ac ochr ei droed ar y llawr yn lle ei gwadn. Cludwyd ef i'r gwesty oedd ar ei gyfer, ac yno y bu yn gorwedd am agos wythnos. Dranoeth, aethom i lawr i'w weled, a chawsom ef yn gysurus ar ei wely, ac wedi gwneuthur lle braf a helaeth iddo ei hun yn nghalon yr hen foneddiges dyner oedd yn cadw y tŷ, yr hon a ymddangosai yn bur siomedig fod ei wraig wedi dyfod i gymeryd y gorchwyl o weini arno o'i llaw. Dydd Sadwrn, y diwrnod marchnad, braidd na thybiem fod holl Fethodistiaid Sir Benfro, fel un gosgorddlu, wedi myned

heibio erchwyn ei wely; gwenai yntau yn garedig arnynt oll. Treuliasom y Sabboth yn ein hen gartref, yr hwn sydd un-filtir-ar-bymtheg o bellder o Hwlffordd; ac am dri o'r gloch boreu Llun, yr oeddem ar ein ffordd yn ol ato, a chyfarchodd ni yn siriol y boreu hwnw fel Mr. Ffyddlon. Y cynllun fabwysiadwyd i'w symud adref ydoedd cael cerbyd cauedig wrth y drws, i'w osod ef a'i briod ynddo, a holl angenrheidiau y daith, o naw o'r gloch y boreu hyd bump y prydawn, i mew'n gyda hwynt, gosod y cerbyd hwn ar gerbyd y rheilffordd, a chael ceffyl yn Nghasnewydd-ar-Wysg, i'w gludo am y deg milldir olaf o'r daith ar hyd y ffordd fawr; ac yr ydym yn ddi'frifol yn rhybyddio pawb i beidio mabwysiadu cynllun o'r fath byth mwy. Yr oedd y gerbydres yn un gyflym, ac ysgydwadau y cerbyd fel eiddo cwch ar gefn y tonau, nes yr oeddym yn ofni bob mynud ei weled wedi ymryddhau, ac yn ehedfan i fwrdd. Taith araf iawn, hefyd, gafwyd o Gasnewydd i Abercarn. Yr oedd amryw fodfeddi o eira ar y ddaear, yr hwn oedd yn gwasanaethu i wneyd y cerbyd yn fwy esmwyth iddo. Wrth ddrws ei dŷ yr oedd dau feddyg yn ein cyfarfod, a'r cyfeillion yn ddirif yn gwneyd ymholiadau pryderus, ac yn gwenu a wylo bob yn ail. Teg yw hysbysu, hefyd, fod y cyfeillion yn Abergwaen wedi ymddwyn yn anrhydeddus yn yr amgylchiad, trwy fynu bod yn gyfranog o'r draul, ac amlygu eu teimladau caredig ym mhob modd. Bu saith wythnos ar ei gefn yn y gwely, a llawer syniad difrifol fu yn pasio trwy ei feddwl gyda golwg ar yr adeg pan y byddai yn gorwedd ar ei wely y tro diweddf; ac yma y cyfansoddodd y bregeth nodedig a adnabyddid fel "Pregeth tori y goes." Y Grogolith a'r Pasc dilynol oedd yr adeg gyntaf iddo bregethu, ac ar haner eistedd yn unig y medrai wneyd, a'i ffyn baglau yn ei ymyl yn y pulpud. Cafodd odfaon i'w cofio byth yn Nghyfarfodydd Pregethu Bethania, Aberdar, ac yn Nghymdeithasfa Hirwaen yr wythnos ganlynol i'r Pasc. Yn cyd-bregethu ag ef yn y ddau le yr oedd ei gyfaill anwyl a hoff, y diweddar Barch. Dr.

Hughes. Nid oedd wedi gallu tafu y ffyn baglau y Sulgwyn, pan y gwnaeth ei ymddangosiad yn y Seiat Fawr yn Liverpool, yn hercian ar ei ffyn, nes peri i'r gynulleidfa golli pob hunan-feddiant, a churo traed a dwylaw o lawenydd ei weled, er fod hyny yn groes i reolau moesgarwch a gydnabyddid ganddynt.

“A dychwelyd y cymylau ar ol y gwlaw.” O hyn allan yr ydym yn cael cymylau duon rhagluniaeth o'i gwmpas ef a'i deulu; nid osgôai yntau y tywyllwch, ond edrychai iddo gyda holl aiddgarwch ei ganfyddiad treiddgar. Ië, edrychai nes canfod y goleuni disglaer oedd yn y cymylau, ac ewyllys ac amcanion ei Dad nefol oedd yn eu goreuro. Bu farw Mary, ei ferch hynaf, Awst, 1873; Catherine, Mehefin, 1882; a David Howell, yn Ionawr, 1883—y blaenaf yn bymtheg mlwydd oed, yr ail yn ddwy-ar-ugain, a'r olaf yn ei ugeinfed flwyddyn. Ni chaniateir i ni aros ar bob un o honynt. Buasai desgrifiad o hono gyda'i deulu yn ddigon o ddefnydd cyfrol fechan. Gosodai ei holl natur fawr serchoglawn yn agored oll i'w wraig a'i blant. Yr oedd awyrgylch y teulu yn iachus, yn bur, ac yn sanctaidd. Cyflenwai y plant a llyfrau cyfaddas i'w hoedran o'r cryd i fynu, a chawsant o'u blaen esiamplau o ddynoliaeth ar ei goreu wedi ei thrwytho yn yspryd crefydd ein Harglwydd Iesu Crist, a thyfasant i fynu bob un yn bur ac yn gywir, ac yn wir foneddigaidd, gan adael ar eu holau, mewn iaith hynod dirodres, lawn sicrwydd gobaith eu bod yn myned yn mlaen i ogoniant. Edrycher arno yn frysiog yn myned trwy y cyntaf o'r amgylchiadau mawrion uchod, yr hwn sydd i fesur yn rhag-gynllun o'r lleill.

Ei hoff blentyn, a dymuniant ei lygaid, ydoedd Mary. Yr oedd yn brydferth iawn, gyda phryd rhwng bod yn oleu a thywyll, gwallt a llygaid gwineu, yr olaf yn fawr ac yn llawn nwyf, talcen llydan deallus, gwefusau fel y cwrel, perffaith luniaidd, yn llawn serch a theimlad, a'r holl wyneb yn rhoddi mynegiant cryf i'r meddwl a'r galon oedd o'r tu ol. Pan yn un fechan gyda'i theganau yr oedd yn hytrach yn freuddwyd-

iol ac afer, ond yn effro iawn pan gynhyrfid ei sylw, ac yn gyflym iawn i ddysgu. Fel yr oedd yn dyfod yn mlaen mewn dyddiau, ymagorai fel blodeuyn y glaswelltyn. I'r rhai fyddai heb ei gweled am ychydig o fisoedd yr oedd y cyfnewidiad yn rhyfedd; ymgryfhâi mewn hunan-ymddiried; yr oedd ei hurddas yn mhell tu hwnt i'w hoedran, ac yn ddigonol i'w hamddiffyn rhag pob ymosodiad. Yr oedd natur fel pe am ddangos beth fuasai pe yn cael byw i gyraedd ngain oed. Yn y flwyddyn 1872, aeth i Goleg sydd i ferched yn Clifton, ac enillodd iddi ei hun radd dda yn yr oll o'r gwahanol ganghenau a gymerodd i fynu. Ei hoff gangen oedd cerddoriaeth, a dywedai un cerddor am dani y gwelodd lawer yn chwareu yn fwy manwl gywir, ond na welodd neb mor ieuanc yn medru myned i mewn i syniad yr awdwr, a rhoddi mynegiant iddo. Tybiai yn ei chystudd olaf y byddai offerynau cerdd yn y nefoedd. "Sonia y Beibl," meddai, "am aur delynau, ac os telynau, paham nad pob offeryn arall hefyd? Ond, bid sicr, byddant hwy fel pob peth y nefoedd yn tra rhagori ar offerynau cerdd y ddaear." Ymaflodd y darfodedigaeth ynddi, a chafodd gystudd caled; ond yn ei ganol, yr oedd yn cael llawer iawn o feddyliau o rywle oedd yn ei denu allan o honi ei hun, ac yn peri iddi enill nerth meddwl a chymeriad yn ei phoenau mwyaf. Dychymygyai lawer am y nefoedd. Prin yr oedd yn hoffi syniad y *Gates Ajar* am y nefoedd; yr oedd yn rhy leol, rhy fychan, a rhy ddaearol. Credai hi fod y nefoedd yn ddiderfyn mewn eangder, yn ddi-hysbydd mewn ffynonhellau dedwyddwch, ac mor ogoneddus mewn purdeb a phob prydfferthwch, fel yr arswydai weithiau fyned yno. Dywedai mai gwan ydyw hapusrwydd y ddaear, a bod yr ansicrwydd sydd yn ei ordoi yn taflu diflasdod arno; ond am ddedwyddwch y nefoedd, ei fod mor berffaith, fel nad oes yno gyfrif amser. "Byddai yn fantais i mi gael gwybod y gwaethaf," meddai, "er cael ymddarpar ar ei gyfer." Dywedai hyn yn gryf a thawel. Dywedai mai naturiol iddi hi oedd gobeithio gwella, o herwydd

ei bod yn ieuanc, a gobeithion bywyd yn ddisglaer iawn o'i blaen; na chafodd hi brofi dim o ofidiau bywyd, ond rhieni tyner i ofalu am dani, eto, nad oedd hi yn teimlo rhyw werth mawr mewn dim o bethau y byd; mai gollwng ei gafael o'i thad a'i mam a'i chyfeillion oedd yn anhawdd iddi. Nad oedd yn teimlo dim pryder, am ei bod yn dra diogel. Un diwrnod, gwelai ei hun yn cerdded ar hyd dibyn serth, a Iesu Grist yn ei chyfarfod, fel brawd henach na hi, ac yn gafael yn ei llaw, ac yn dweyd, "Dewch yn mlaen, Mary." Ni bu yn ofnus ar ol hyn. Y boreu bu farw, trôai at ei mam, a dywedai: "Wnewch chwi ddim fy ngadael i heddyw, wnewch chwi, Mami?" Rhywbeth tebyg i hyn ydoedd y ferch bymtheg oed, y bu ein cyfaill, fel tad tyner, yn sefyll am fisoedd wrth erchwyn ei gwely angau, ac yn y diwedd yn gorfod ffarwelio a hi. Gwelsom ef lawer gwaith yn ymgreinio mewn ing, ond yn hytrach nag i ni geisio disgrifio ei deimladau, caiff ddweyd ei deimladau ei hun yn y llythyr canlynol a ysgrifennodd at gyfaill ar y pryd:—

" . . . Wel, waeth i mi ddywedyd fy helynt wrthyhch ar unwaith, yn ddiymdroi. Y mae fy anwyl ferch—fy anwyl Mary—ar fin trancedigaeth! O eiriau ofnadwy! Y mae eu hysgrifenu yn gyru y dur oer drwy fy nghalon. Ac eto yr ydwyf fel pe bawn yn methu a'u credu! Yn wahanol i'r dysgyblion, y rhai oeddynt 'heb gredu gan lawenydd,' yr ydwyf fi yn gwrthod credu gan angerddoldeb fy ing a'm trallod. Yr ydwyf 'fel un yn breuddwydio.' Ac eto nid breuddwyd ydyw. O nage, nid oes ond ychydig o amser er pan welais hi yn ei gwely, wedi myned yn sypyn bychan eiddil, rhy eiddil braidd i siarad nac i anadlu. Ond rhyfedd byth! yr oedd yr un anghrediniaeth yn fy nilyn i'r fan hono; prin yr oeddwn yn medru coelio fy llygaid mai Mary oedd yno. Ond pa ynfydrwydd ydyw hyn? Rhaid mai Mary ydyw; i.e. fy anwyl Mary, hoffder fy llygaid, a'm trysor penaf ar y ddaear, yr hon yr oedd fy serchiadau a'm gobeithion, a'm dychymygion yn ymgrynhoi o'i chwmpas; er mor fywiog

oedd ei chorff, ac er mor gyflym a chryf oedd ei henaid, dyma hi, *dyma hi*, yn dusw bychan truenus, digon truenus i enyn tosturi yn mynwes estron; pa fath, feddyliech, ydyw teimladau ei thad a'i mam wrth edrych arni? O gyfaill anwyl, dyma dywydd garw! Dyma 'ddydd dwyreinwynt!' Braidd na ddywedwn, 'blinais ar fy einioes, gwell i mi farw na byw;' neu ynte, 'mi a gerddaf yn araf fy holl flynyddoedd yn chwerwedd fy enaid.' Ond ofni yr ydwyf nad oes i mi flynyddoedd lawer mwy, gan fod fy 'hoedl i yn nglyn wrth ei hoedl hi,' ac am hyny mai disgyn yn ddiau a wnaif yn alarus gyda fy merch i'r beddrod. Y mae fy iechyd wedi gwaelu yn ddirfawr, ac nid ydwyf heb arwyddion annymunol a bygythiol.

"Beth, meddwch, 'Onid oes driagl yn Gilead? Onid oes yno physygr?' Oes, fy anwyl gyfaill, ac oni buasai hyny, darfuasai am danaf. Yr wyf wedi cael dyddanwch dirfawr yn y 'gobaith gwynfydedig' y mae yr Efengyl yn ei osod o'n blaen; ac wedi cael gollyngdod a mynegiad i'm teimlad hefyd yn llawer o ymadroddion Llyfr Job a'r Salmau. Yr ydwyf wedi bod yn cyd-alaru â Jacob ar ol Joseph, â Dafydd ar ol Absalom; i.e. yr ydwyf braidd fel John Bunyan, yn ngharchar Bedford, pan yn ffarwelio a'i eneth ddall, ac wedi bod yn cydymdeimlo a'r buchod blithion oedd yn dwyn yr arch o wlad y Philistiaid, 'dan gerdded a brefu' ar ol eu lloi. Ar yr un pryd rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi teimlo rhyw dlodi (maddeuwch y gair) yn nghyfeiriadau y Beibl at y perthynasau a'r teimladau naturiol, y rhai sydd ar lawer pryd yn ofnadwy o nerthol. Hwyrach fod hyny i'w briodoli i'r dyeithrwch ag sydd rhwng y penteulu yn y Dwyrain a'i deulu. Fel rheol, nid ydynt hwy yn caru eu gilydd mor angerddol ag ydym ni. Heblaw hyny, amcan mawr y Beibl ydyw ein dyrchafu at y moesol a'r ysprydol, gan y gwyddai ei Awdwr yn dda fod y naturiol yn ddigon cryf ynom i ofalu am dano ei hun. O herwydd y rhesymau digonol hyn, nid rhyfedd fy mod wedi teimlo yr hen Lyfr anwyl yn ddiweddar braidd yn

oer. Fel y gellwch yn hawdd ddeall, yr ydwyf wedi chwilio llawer i'r awgrymiadau Ysgrythyrol am y stâd ddyfodol, ac nid rhaid i mi ddywedyd wrthyh eu bod, yn ystâd bresenol fy nheimlad, braidd yn *provoking* o aneglur ac anmhenodol; ond yr wyf drachefn yn ceisio ymdawelu yn y syniad mai nid ein gwneuthur yn ddedwydd, ond yn sanctaidd, ydyw amcan y Beibl; ac nid datguddio y dyfodol, ond datguddio 'Duw yn Nghrist, a'r dyfodol drwy hyny, yn gymaint a'i fod yn addaw i rywrai y cânt fod yn 'debyg iddo Ef.' Wrth chwilio i mewn i'r pethau hyn, braidd nad oes amheuaeth wedi ei genedlu ynof fod yr hen Ddiwygwyr Protestanaidd, yn eu zêl yn erbyn Pabyddiaeth, wrth ysgubo allan y purdan o gredo yr eglwys wedi tynu allan Hades hefyd—yr Hades y cyfeirir ati yn y Testament Newydd, a'r Hades ag yr oedd y tadau cyntaf, cyn son am burdan, yn credu ynddi. Yn ol ein syniadau ni yn bresenol, y mae'r Cristion, ar ei ymadawiad a'r corph, ar unwaith yn myned i nef y nefoedd, heb un fantais ychwanegol byth mwy i'w dysgwyl, ond—rywle draw yn mhell—adgyfodiad y corph, os yn fantais hefyd. Mewn gair, mae y nefoedd y dysgwyliwn fyned iddi mor berffaith, mor wahanol i bob peth sydd yn bod yn awr; mewn gair, mor bell oddi-wrthym, fel nad oes ganddi, ac nas gall fod ganddi, ryw lawer o allu sugn-dynol. Heblaw hyny, mae y cyfnewidiad a wneir yn angau, yn ol y syniad cyffredin, mor ofnadwy o fawr, ac mor sydyn, fel y mae heb ei gyffelyb yn holl weithredoedd Duw. Y mae yn groes i bob cyfatebiaeth. Fe ddywed rhyw athronydd 'nad ydyw natur yn rhoddi llam,' ond mai graddol ymddadblygiad a chynydd ydyw ei rheol hi. Ond pa lam cyffelyb i'r llam, yn ol ein tyb ni, o fod yn haner anifail i fod yn berffaith angel? Onid ydyw y cyfnewidiad yn ormodol i ddyn gadw y teimlad o'i *identity*? Pa wrthwynebiad a fyddai genych i ryw sefyllfa ganol, lle y cai dyn ail-gychwyn bywyd yn y fan lle y gadawodd yn y byd hwn, gyda llawer o fanteision ychwanegol, ac anfanteision wedi eu cymeryd ymaith, a'c felly gynyddu iddo Ef hyd foreu

y farn, pryd y bydd rhyw gyfnewidiad pwysig drachefn yn cymeryd lle? &c. Pe y dywedwch fy mod yn dechreu myned yn *soft*, ni fyddwn yn awyddus iawn i'ch gwrthwynebu, 'Canys Duw a feddalhaodd fy nghalon.' 'Fel dwfr y'm tywalltwyd, fy nghalon sydd fel cwyr, hi a doddodd yn nghanol, fy ymsegaroedd.' Ni byddai ryfedd pe bawn yn dechreu ymddyrsu. Os ydwyf felly, mi a wn y gwnewch gydymddwyn.

"Ond mi a'ch clywaf yn gofyn, 'Pa fodd y mae yr eneth?' Wel, y mae yn barod i ddywedyd, 'Pob peth yn dda.' Y mae yn mhob ystyr yn addfed i'r cyfnewidiad, ac yn awyddus iddo gymeryd lle yn fuan, yr hyn yn ddiau a gymer le. Mae ei geiriau yn ei chystudd, a'r tangnefedd bendigedig a ddangosir ganddi, yn fwy yn fy ngholwg na'r perlau gwerthfawrocaf. O, diolch byth am hyn! Wel, gan mai ymadael sydd raid, 'Ffarwel, ffarwel, fy anwyl blentyn! dros enyd fechan ni ymadawn.' Ond 'henffych i'r dydd cawn eto gwrdd!' oblegid ni fedraf gredu yn y posibilrwydd i mi byth fod yn ddedwydd ond yn dy gwmni di. . . ."

Bu agos iddo fyned i'r bedd ar ei hol; yr oedd ei hiraeth yn annesgrifiadwy ddwys. Yr hyn ddarfu iddo ef hau mewn dagrau a fedwyd mewn llawenydd gan ei wrandawyr mewn gweinidogaeth fwy fwy ysprydol a nefol. Yr oedd yn alluog o ehediadau uwch o lawer mewn ysprydolrwydd meddwl a theimlad ar ol yr amgylchiad hwn. Gwelwn hefyd fel yr oedd yn cael trem i'r byd ysprydol yn ei dywydd garw; yr oedd y cwestiynau, oeddynt yn awgrymu eu hunain iddo yn awr y brofedigaeth, yn agoriadau mawrion i wirioneddau yr efengyl. Dwyshawyd yr argraffiadau drachefn gan farwolaeth ei fab a'i ferch arall, yr unig un oedd ar ol, fel na adawyd iddynt, o'r holl blant a fagasant, ond un mab, sef y Parch. J. M. Saunders, M.A., gweinidog Eglwys Saesneg y Cyfundeb yn Mhenarth, ger Caerdydd. Gyda'r amgylchiad hwn rhaid i ni adael Abercarn, a symud yn mlaen at ei ymsefydliad yn Abertawe, lle y treuliodd y gweddi o'i oes ar y ddaear.

PENOD X.

—:0:—

YN ABERTAWE.

AR ol marwolaeth ei anwyl ferch, yr oedd symud o Abercarn yn fath o angenrheidrwydd iddo, oblegid byddai aros yn y tŷ y bu farw ynddo yn cadw yr amgylchiad yn wastadol o flaen ei feddwl; o leiaf, dyna oedd ei brofiad ef ar y pryd, a phenderfynodd ymadael. Bu dirprwyaeth o Aberystwyth gydag ef yn gofyn am iddo ddyfod yn fugail ar Eglwys Shiloh, ond tueddwyd ef i fyned i Abertawe, a'r fam-eglwys yno yn y Trinity gafodd ei wasanaeth o'r flwyddyn 1873 hyd ei farwolaeth. Yr oedd yr eglwys hon yn meddu swyn arbenig iddo ef. Yr oedd iddo fel ail gartref er yn blentyn, ac yno yr oedd rhai o'i gyfeillion anwylaf yn gwneuthur eu cartref crefyddol. Atdynai y dref a'i hamgylchoedd ei galon yn fawr, ac agorai yma gylch eangach o ddefnyddioldeb iddo nag oedd o fewn ei gyraedd yn Abercarn. Nid oes achos i ni ddweyd ddarfod iddo ei lanw, a mwy na'i lanw. Edrychid arno gan ei gyd-drefwyr o bob enwad fel addurn penaf y pwlpud yn y dref, ac fel arweinydd mewn duwinyddiaeth a chrefydd, yn gystal ac mewn materion trefol a gwladol. Nid oedd ei uchelgais yn myned i gyfeiriad swyddogaethau gwladol, neu gallasai yn hawdd gael sedd ar amryw fyrddau. Pregethwr ydoedd, a chario dylanwad y pwlpud a'r efengyl i holl gylchoedd cymdeithas oedd ei nod uchaf. Teimlai ddyddordeb arbenig yn y Coleg Normalaidd i Ysgolfeistresi, yn y Bwrdd Ysgol a'i waith, ac yn yr Ysbytty eang a gwerthfawr sydd yn y dref. Talai ei gydwainidogion ac awdurdodau y dref barch cyfatebol iddo yntau.

Bu yn bleidiwr selog a chydwybodol i Addysg Uwchraddol trwy ei oes, a llafuriodd mewn amser ac allan o amser i

ddyrchafu addysg ei Genedl a'r Cyfundeb y perthynai iddo. Astudiodd gyfundrefnau addysg y gwahanol wledydd ar gyfandir Ewrop, y wlad hon, ac America, ac yr oedd yn amcan ganddo wrth dalu ymweliad a'r wlad olaf a enwyd, yn ychwanegol at amryw o bethau eraill, i ymgynabyddu a'i hathrofeydd a'i phrif-ysgolion, ac yn arbenig eu dull o ddarparu ymgeiswyr i'r weinidogaeth. Cymerodd ran flaenllaw o'r dechreu yn sefydliad y Colegau Cenedlaethol. Methodd fod yn bresenol yn y Gynhadledd a gyfarfu yn Aberystwyth yn 1870, ac a gawsai ei chynull gan y Parch. D. Charles, D.D. Ond bu iddo ran bwysig mewn cysylltiad a'r Gynhadledd a gyfarfu yn yr un dref, Medi 22ain a'r 23ain, 1880. Yr hyn a achlysuroidd y Gynhadledd hon oedd gwaith Mr. Gladstone, Prif-weinidog y Deyrnas y pryd hwnw, yn penodi dirprwyaeth, gydag Arglwydd Aberdar yn gadeirydd, i wneyd ymchwiliad i ansawdd Addysg Uwchraddol yn Nghymru. Teimlai yr Ymneillduwyr ei fod yn bwysig iddynt ddeall eu gilydd, a chyduno ar y pethau a gyflwynent gerbron y ddirprwyaeth fel anghenion anhebor. Cyfarfu nifer o wladgarwyr o bob rhan o Gymru, a ddigwyddai fod ar ymweliad a Llandrindod, a ffurfiasant benderfyniad yn datgan y cyfryw deimlad. Aeth y Parch. J. A. Morris, Aberystwyth, o Landrindod i Undeb y Bedyddwyr Cymreig oedd yn cyfarfod yn Nghaerdydd, a chynygiodd fod anogaeth yn cael ei roddi i'r holl Enwadau Ymneillduol Cymreig i gyfarfod mewn Cynhadledd gyffredinol i ymdrafod a'r holl fater, yr hyn a basiwyd gyda brwdfrydedd. Pasiwyd y cyffelyb benderfyniad yn Nghymdeithasfa Methodistiaid y Deheudir, a gynhelid yn Aberystwyth. Mewn canlyniad, ymgymerodd Dr. Saunders, mewn undeb a'r Parchn. T. E. Williams a J. A. Morris, gweinidogion y Bedyddwyr yn Aberystwyth, a chynull y Gynhadledd. Gofalwyd gwahodd yr Annibynwyr, y Wesleyaid, ac hyd y nod yr Undodiaid, yn gystal a'r Methodistiaid a'r Bedyddwyr. Ond ffromodd Mr. Johnstone, Golygydd y *South Wales Daily News*, yn aruthr. Ysgrifonodd

amryw erthyglau chwerw yn erbyn y Gynhadledd, gan haeru nad oedd yn genedlaethol, nad oedd prif ddynion y Dywysogaeth wedi cael eu gwahodd iddi, ac nad oedd yr Eglwyswyr Rhyddfrydig wedi eu gwahodd, er eu bod yn barod i gydweithio. Braidd na awgrymai fod yr Annibynwyr wedi cael eu hangofio. Eithr deallodd yn fuan ddarfod i'r gwahoddiad i'r Annibynwyr gael ei anfon i Bwyllgor Coleg Aberhonddu, ac os nad oedd prif ddynion yr enwad wedi cael eu penodi fel cynrychiolwyr, mai ar y pwyllgor hwnw y gorphwysai y cyfrifoldeb. Cyfarfu y Gynhadledd mewn ystafell eang yn y Queen's Hotel. Yr oedd amryw o aelodau seneddol yn bresenol: Syr W. Davies, yr aelod dros Penfro; C. H. James, tros Ferthyr; D. Davies, Llandinam, dros Fwrdeisdrefi Aberteifi; a L. P. Pugh dros Sir Aberteifi. Yr oedd nifer o brif ddynion y gwahanol enwadau wedi ymgasglu yno, ond tri o fysg yr Annibynwyr yn unig a ddaeth. Dewiswyd Syr W. Davies, A.S., i lywyddu y cyfarfod cyntaf. Gwnaeth Dr. Saunders araeth effeithiol yn yr iaith Saesneg, yn egluro y llinellau yn ol pa rai y gweithredai efe a'i gyfeillion wrth gynull y Gynhadledd, ac yn dangos pa mor ryddfrydig ac anenwadol yr oeddynt wedi ymddwyn, nes cario yr holl Gynhadledd gydag ef. Dywed cyfaill mewn llythyr sydd yn awr ger ein bron fod yr araeth yn nodedig o argyhoeddiadol, ac iddi gynyrchu dylanwad dwfn. Yr oedd Golygydd y *South Wales Daily News* yn gwranddo, ond ni feiddiodd agor ei enau mewn atebiad, yr oedd y tir wedi cael ei gymeryd o dan ei draed, ac yr oedd y Cymry yn adnabod Dr. Saunders.

Pwnc cyfarfod y boreu oedd Addysg Ganolraddol. Cyflwynai y cynullwyr yr awgrymiadau canlynol ar y mater i'r Gynhadledd: (1) Fod yr holl ysgolion gramadegol a a fodolant yn awr yn cael eu rhyddhau yn hollol oddiwrth lyfetheiriau crefyddol mewn penodiadau ac ysgoloriaethau. (2) Y dylid cael cynllun i droi yr ysgolion gramadegol preifat yn rhai tan ymddiriedolwyr. (3) Fod eisiau ysgolion canolraddol ar gyfer bechgyn a merched, ac y dylid cael

cymaint ag sydd yn bosibl o'r gwaddol sydd yn awr mewn bod tuag at eu cynal. (4) Fod mawr angen am ysgolion canolraddol ar gyfer merched, tebyg i'r Ysgol Waddoleidig yn Nolgellau. (5) Y dylid cael cynllun i alluogi bechgyn a merched talentog i fyned o'r ysgolion elfenol i'r ysgolion canolraddol, ac oddiyno i'r colegau cenedlaethol. Pasiwyd yr oll o'r awgrymiadau hyn gydag ychydig gyfnewidiadau. Yr ail ddiwrnod llywyddai Mr. L. Pugh, A.S. Penderfynwyd (1) Y dylai Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth gael swm o arian oddiwrth y llywodraeth i orphen yr adeilad. (2) Fod eisiau coleg cenedlaethol ychwanegol yn Morganwg neu Fynwy. (3) Y dylai y colegau cenedlaethol feddu hawl i gyfranu graddau, gan fod Coleg Llanbedr yn meddu y cyfryw fraint yn bresenol. (4) Mai doeth fyddai cael cynllun i roddi manteision y colegau cenedlaethol i efrydwy'r y colegau enwadol. Yn nghyfarfod yr hwyr llywyddid gan Mr. C. H. James, A.S., a nodwyd nifer o bersonau yn mhob Sir yn Nghymru i gasglu ffeithiau, ac i ddwyn tystiolaeth gerbron y ddirprwyaeth.

Ymdrechodd lawer ymhob dull posibl i ddyrchafu addysg y weinidogaeth. Dadleuai rhai, oddiar yr amcanion goreu yn ddiau, yn erbyn rhoddi addysg uchel i'n pregethwyr, oblegid y buasai eglwysi tlodion Cymru yn ganlyniad i hynny mewn perygl o golli eu gwasanaeth, am nas gallent gyfranu yn ddigonol at eu cynhaliaeth, &c. Coleg tebyg i goleg Mr. Spurgeon, i gymhwyso dynion da, cymharol annysgedig, i fod yn bregethwyr at "*use gwlad*" oedd eu syniad hwy am addysg y weinidogaeth, ac am athrofeydd i'r Cyfundeb, a dyma oedd swm eu dadl yn y Cymdeithasfaoedd. Safai yntau bob amser o blaid rhoddi yr addysg uwchaf sydd yn bosibl i weinidogion yr efengyl, gan ei fod yn gweled cenllif dysgeidiaeth yn dyfod dros y wlad, ac nad oedd ffordd i gadw i fynu urddas a dylanwad gweinidogaeth y gair ond trwy gyfaddasu ein pregethwyr i fod yn *ddysgawdwy'r* i'w hoes. Credai y dylent yn gyntaf oll fyned trwy gwrs o addysg mewn

ysgolion rhagbarotoawl da, fel sydd genym erbyn hyn yn mhob rhan o'r wlad, yna gorphen eu haddysg gyffredin yn y colegau cenedlaethol, cyn cymeryd y cwrs terfynol mewn pynciau yn dwyn cysylltiad uniongyrchol a phrif waith eu bywyd mewn athrofa dduwinyddol o'r radd flaenaf.

Cynhyrfai yn fawr weithiau pan ddywedid mai enwad o bobl druain, dlodion, anwybodus iawn, ydoedd ein Cyfundeb, ac mai gwŷr anllythyrenog oedd ei sylfaenwyr. Gwir fod ein tadau wedi cael ein cenedl mewn sefyllfa isel, anghrefyddol, a haner barbaraid; ond darfu iddynt ei dyrchafu trwy bregethu gwirioneddau yr efengyl i'r bobl, a gweinyddu addysg wirioneddol yn y seiat breifat ac yn yr Ysgol Sul. Nis gallasai oddef i neb lechu mewn anwybodaeth dan gysgod y fath enwau a Howel Harris, Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a Charles o'r Bala. Cawsent oll addysg dda, os ystyrir amgylchiadau eu hoes. Yr oedd Harris yn ysgolhaig rhagorol, ac yn feddyliwr cryf a dwfn, ac y mae ei lythrau yn gyfansoddiadau apostolaidd. Nid duwinydd cyffredin oedd Daniel Rowland, ac yr oedd dysgeidiaeth Williams yn eang ac amrywiol. Fel Solomon, llefarodd hefyd am brenau o'r cedrwydd sydd yn Libanus hyd yr isop a dyf allan o'r pared, ac efe a lefarodd am anifeiliaid, ac am ehediaid, am ymlusgiaid, ac am bysgod. Ac os nad oedd ei ganiadau yn fil a phump, yr oeddynt yn lluosog ac yn amrywiol a chyfoethog iawn. Safai Charles o'r Bala yn uchel yn mhlith ysgolheigion graddedig ei ddydd. Gwir fod Duw wedi gwneyd defnydd rhyfeddol a gogoneddus o rai pregethwyr nad oeddynt wedi cael addysg, am nad oedd yn gyrhaeddadwy iddynt, ond daliai efe nad oedd hyn yn un rheswm dros i bregethwyr yr oes hon ym-egsodi mewn anwybodaeth.

Un o brif ddymuniadau ei galon, ac un o brif amcanion ei fywyd, ydoedd uno Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, yn y Gogledd a'r Dê, mewn un Athrofa Dduwinyddol gref, a chael prif ddynion yr enwad mewn dysg a gallu yn athrawon ynddi, fel y byddai y cyfryw sefydliad yn ffynhonell nerth

meddyliol a moesol yn Nghymru, ac yn gwllwm undeb rhwng Methodistiaid y ddwy dalaeth. Gorfu iddo gau ei lygaid yn yr angau cyn gweled hyn wedi ei sylweddoli; ond bu farw a chydwybod dawel ddarfod iddo ef wneuthur ei oreu i'w ddwyn oddiamgylch, a hyderwn nad â ei lafur gyda hyn yn ofer.

Buan y daeth sefyllfa iechyd Catherine, eu hail ferch, yn ffynhonell pryder iddynt. Yn gyntaf, cafodd dwymyn y cryd-gymalau, wedi hyny, yn 1878, y *typhoid fever*, yr hyn a roes ergyd trwm i'w chyfansoddiad tuag i lawr, ac ni bu fawr hamdden ar ol hyny, ond ymlid i chwilio am ymwared ac adnewyddiad. Yn niwedd y flwyddyn aeth ei mham a hi i Ddeheudir Ffrainc, lle y buont hyd ddechreu yr haf canlynol; ond enill y dydd yr oedd yr afiechyd, a hithau yn myned i fwy fwy o wendid. Aeth ein cyfaill i'w cyrchu adref, ac wrth ddychwelyd bu yn ymgynghori ar ei rhan a meddyg yn Llundain, o dan ofal yr hwn y bu, fwy neu lai, hyd ddydd ei marwolaeth. Pan yr oeddynt yn dyfod yn ol, bu farw Mr. J. Howell, Pencoed, tad Mrs. Saunders, a gadawodd ei dŷ i'w unig ferch. Er mwyn iechyd Catherine symudasant iddo i fyw, heb dori y cysylltiad a'r eglwys yn Abertawe. Daeth hithau yn well; enillodd nerth ac adfywiodd ei hyspryd, fel y coleddid gobeithion am estyniad oes iddi. Ond yn nechreu 1882 ail-ymsododd yr afiechyd arni, ac aeth i lawr yn gyflym i'w bedd. Mae o'n blaen benod faith o'i dywediadau ar ei gwely angau, sydd yn werth eu hargraffu mewn aur, ond rhaid ymatal. Yr oedd ei phrofiad wrth farw yn falm gwerthfawr i'r archoll wnaeth yr ysgariad i deimlad ei rhieni a'i brodyr. Gyda bod y bedd yn cael ei gau arni hi, gwelwyd arwyddion y byddai yn rhaid ei agor yn fuan i dderbyn corph ei brawd ieuangaf, David Howell. Yn nechreu 1883 ymollyngodd yntau i freichiau ei Waredwr.

Nis gallasai hyn oll lai nag effeithio ar natur dyner deimladwy gwrthddrych y cofiant hwn. Yn ngwanwyn y flwyddyn hon penderfynodd roi mewn gweithrediad ei hen fwrriad o dalu ymweliad ag America. Yr oedd ynddo

ddymuniad cryf am gael gweled ei gyd-genedl yn ngwlad fawr y Gorllewin, ac yr oeddynt hwythau wedi amlygu dymuniad droion am ei weled yntau. Tybiodd hefyd y buasai y daith yn lles i'w iechyd ef yn gystal a'u mab, ac yn adnewyddiad gwerthfawr i'w briod. Cychwynodd y tri ar nawn Sadwrn, Ebrill 28ain, gyda'r "Alaska," y llong gyflymaf ar y Werydd y pryd hwnw. Collwyd golwg ar dir Iwerddon prydnewn Sabboth, y 29ain, a daeth tir y Gorllewin i'r golwg gyda gwawr boreu y Sabboth canlynol. Yr oedd hyny yn gyflymdra anhygoel braidd y pryd hwnw, a mynych y dywedai efe wrth ei gyd-genedl yn America, gyda gwen siriol, ei fod wedi dyfod atynt o'r "Hen Wlad" yn gynt na neb o'i flaen. Gan fod Mri. Moody a Sankey yn mysy y teithwyr, bu llawer o ganu ar emynau a thônau yr olaf ar fwrdd y llong, yn enwedig gan tua chant o Norwegiaid, cantorion aflafar iawn, ac yn canu cryn lawer trwy eu trwynau. Daeth oddeutu ugain o Gymry at eu gilydd un prydnewn, pan yr oedd y Norwegiaid hyn yn canu, a Mr. Sankey yn eu harwain, ac wedi iddynt hwy orphen, dyma'r Cymry yn dechreu canu hen emynau a thônau Cymru, a dywedwyd fod golwg fawreddog ac urddasol ar ein cyfaill ar y *deck* uchaf yn gwranddo; bob yn ychydig clywid ef yn chwyddo'r gân gyda'i lais llawn a soniarus, a chyd-nabyddai Mr. Sankey wrtho mai gyda'r Cymry yr oedd y canu defosiynol rhagoraf o unrhyw genedl y gwyddai am dani. Brydnawn arall, aeth yr ymddiddan am y gallu oedd mewn rhai dynion i orphwys, gan nad beth y cynhyrriad blaenorol, gyda chyfeiriad at allu Mr. Gladstone, ac yn ystod yr ymddiddan dywedai yntau ei fod wedi pregethu mewn 50 o gyfarfodydd pregethu, yn ychwanegol at y weinidogaeth Sabbothol, bob blwyddyn am o leiaf y 25 mlynedd diweddaf, ac y gallai gysgu bob nos ar ol yr odfaon mwyaf nerthol, hyd nes y colodd ei ferch hoff.

Glaniodd y cwmni yn New York foreu Sabboth am naw o'r gloch. Cyfarfyddwyd hwy gan y diweddar Mr. J. Roberts,

un o hen aelodau eglwys ein cyfaill yn Liverpool. Dangosodd efe a Mrs. Roberts garedigrwydd mawr iddynt yn ystod eu harosiad yn y ddinas. Pan yn myned i fynu tua phreswylfod Mr. Roberts, ysgytid yr oll yn erwin gan waith y cerbyd yn disgyn yn awr a phryd arall i'r tyllau oedd yn yr heolydd. Dywedai yntau iddo glywed llawer am heolydd New York, ond cyn iddo orphen y frawddeg, dyma olwyn y cerbyd yn rhydd, a gorfu iddynt gymeryd cerbyd arall. Cydgyfarfyddiad rhyfedd ydoedd i'r cerbyd oedd yn eu danfon at yr ager-long yn Liverpool, dori i lawr yr un modd, fel y gorfuwyd cael un arall. Ond yn y naill amgylchiad a'r llall, cyrhaeddwyd pen y daith yn ddiogel. Y prydawn hwnw aethant i wrando y Parch. J. Hall yn pregethu, ac yn yr hwyr pregethodd yntau yn Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, yn felus a swynol. Pregethodd yno drachefn y Sabboth dilynol yn y prydawn a'r hwyr, ac yr oedd yr odfa y prydawn yn anarferol o effeithiol. Y testun oedd, Ioan xvii; y weddi arch-offeiriadol. Nid oedd un gwyneb sych yn y gynulleidfa, ac yr oedd rhai wedi colli pob llywodraeth ar eu teimladau. Yn ystod yr wythnos cydrhwng y ddau Sabboth, bu yn gweled golygfeydd y ddinas a'r cymydogathau; talodd ymweliad a Philadelphia, ac yr oedd yn teimlo dydd-ordeb nodedig yn llanerchau ac adeiladau hanesyddol y ddinas hono. Yr oedd wedi darllen llawer am yr America cyn ac yn ystod y fordaith, fel ag yr oedd yn gwybod, bron yn mhob man yr ymwelodd ag ef, pa beth i edrych am dano, ac i holi yn ei gylch. Bu hefyd yn gwrandaw boreu yr ail Sul ar y Parch. Henry Ward Beecher; Beecher a Hall oeddynt yr unig enwogion y cafodd gyfleusdra i'w clywed. Yr oedd yn siarad yn uchel am y ddau wr enwog hyn; am hyawdledd y cyntaf, ac ysprydolrwydd y diweddaf.

Boreu Llun, Mai 14eg, gadawodd New York, ac yr oedd yn pregethu y noswaith hono yn Wilkesbarre, Pennsylvania. Teithiodd a phregethodd yn y dalaeth hono am bythefnos, a daeth i fynu i dalaeth Vermont, i Fairhaven, erbyn y Sabboth,

Mai 27ain. Oddiyno aeth i Utica a'r cylchoedd, gan gymeryd rhan mewn cyfarfodydd pregethu, cyfarfod sefydliad y Parch. G. Lamb yn Remsen, nos Lun, Mehefin 4edd; yn Nghymanfa Remsen, Mawrth a Mercher, Mehefin 5ed a'r 6fed. Pregethodd dair gwaith yn y Gymanfa hon, a chwedi pregethu nos Fercher, cychwynodd am y Gorllewin. Y noson hono oedd y gyntaf iddo fyned i'w wely yn y *train*. Erbyn naw o'r gloch boreu Iau yr oedd wedi cyrhaedd y *Niagara Falls*. Dywed y rhai a'i gwelodd nad anghofiant byth yr olwg syn-fyfyriol oedd arno ar y grog-bont yn edrych i fynu at y "codwm erchyll" o ddyfroedd, fel pe wedi ymgolli yn yr olwg arnynt. Mae gwedd Dr. Saunders a mawredd Rhaiadr y *Niagara* yn un darlun yn meddwl y rhai fu yn edrych arnynt hyd y dydd hwn. Yn y prydawn aeth yn mlaen i Detroit, at feibion y diweddar Barch. W. Williams, Tŷ Calch, Sir Fôn. Nid oedd achos Cymraeg yn Detroit, ond casglodd y Mri. Williams gynulleidfa, a gorfu iddo yntau bregethu iddynt. Dranoeth aeth yn mlaen i Chicago, gan gyraedd y ddinas hono foreu Sadwrn, Mehefin 9fed. Daeth y Parch. Dr. Harries i'w gyfarfod i'r orsaf, ac yn ei ddisgwyl yn awchus yn y tŷ yr oedd y Parch. Thomas Job, Conwil, a dyna gyfarfyddiad rhwng y ddau! Nid oedd dinâs barhaus iddo pa fodd bynag yn Chicago, ac yn ei flaen ag ef y prydawn hwnw i Racine, yn Nhalaeth Wisconsin, lle y cynhelid Cyfarfod Dosbarth ar y Sul a'r Llun, Mehefin 10fed a'r 11eg. Nos Lun yr oedd yn pregethu yn Milwaukee; a dydd Mawrth, Mehefin 12fed, aeth yn nghwmni llu y ffyddloniaid i Gymanfa Wisconsin, yr hon a gynhelid yn Nghapel Bethesda, gerllaw Oshkosh, Mehefin 10fed-14eg. Pregethodd ddwywaith yn y Gymanfa hono, a'r nos Wener dilynol yn nhref Oshkosh. Gwnaed taith fanwl iddo drwy Wisconsin, a bu yntau yn ffyddlawn i'r trefniad, gan bregethu bob dydd ddwy waith, a thair gwaith ambell i ddiwrnod. Aeth oddiyno i Dalaeth Minnesota, gan fod yn bresenol yn Nghymanfa Mankato, a dyna'r Gymanfa fwyn-

hawyd fwyaf ganddo ef ei hun yn ystod y daith. Talodd ymweliad brysiog a Dakota, gan ddyfod yn ol i Chicago erbyn y dyddiau cyntaf o Awst. Ar ddydd Llun, y 6ed o Awst, cychwynodd gyda'r mab tua'r Gorllewin, gan adael Mrs. Saunders gyda chyfeillion yn Wisconsin. Yr oeddynt wedi trefnu i'r mab auafu yn Colorado.

Wedi ffarwelio a'r mab am ysbaid yno, trodd ei wyneb yn ol. Ymunodd Mrs. Saunders ag ef yn Chicago, gan deithio drwy dalaeth Ohio, a phregethu yn Nghymanfa'r dalaeth yn Palmyra. Cafodd beth anhwylysdod yno o herwydd afiechyd—yr unig anhwylysdod a deimlodd yn ystod y daith—ond daeth yn holliach yn fuan. Cymerodd ran yn y Gymanfa Gyffredinol, yr hon a gynhelid y flwyddyn hono yn Oak Hill, Ohio. Aeth oddiyno yn mlaen i dalaeth Pennsylvania, ac oddiyno i Utica, i Gymanfa talaeth New York, yr hon a gynhelid Medi 25-27, pryd hefyd yr agorid eu capel newydd gwych. Ar ol pregethu Nos Iau, y 27ain, aeth gyda'r gerbydres i New York, ac erbyn hyn yr oedd yn gallu cysgu mor dawel yn y trên a phe buasai gartref. Cyrhaeddodd New York boreu Gwener, yr 28ain o Fedi, ac wedi mwynhau boreufwyd yn nhŷ Mr. Roberts aeth yn mlaen i dalu ymweliad â choleg Princetown, talaeth New Jersey. Yn y cwmni yr oedd ei letywr, a'r diweddar Mr. Robert Lewis, diacon yn eglwys New York, a boneddwr wedi cyrhaedd diwylliant uchel, yn ogystal a d'od i gyfoeth mawr. Cawsant y derbyniad mwyaf anrhydeddus. Gwnaeth y Parch. W. H. Roberts, D.D., llyfrgellydd y *Theological Seminary* bobpeth yn ei ran i ddangos y parch mwyaf i'n cyfaill. Arweiniwyd ef drwy y Coleg Duwinyddol gan y Parchn. A. A. Hodge, D.D., a C. A. Hodge, D.D., athrawon yn y Coleg, a meibion nid anenwog y diweddar Barch. Charles Hodge, D.D., awdwr y "*Systematic Theology*." Danghosodd y meibion i Dr. Saunders ystafell breifat eu tad; rhoddwyd ef i eistedd yn y gadair lle yr eisteddai Dr. Hodge i gyfansoddi y cyfrolau a nodwyd, a dodwyd yn ei law y pin aur â pha un yr oedd yr awdwr wedi

ysgrifenu holl gynwys y cyfrolau hyny. Edrychai y meibion ar y pethau hyn fel trysorau mwyaf cysegredig eu tad; yn ystyriaeth hono y gwnaed hyn ganddynt â Dr. Saunders, a theimlai yntau fod y parch a dalent iddo yn fawr iawn. Oddiyno awd yn mlaen i dŷ Prif-Athraw yr Athrofa, y Parch. James M'Cosh, D.D., un o'r meddylwyr cryfaf yn yr Unol Daleithiau; henafgwr erbyn hyn dros 70 mlwydd oed; tal, syth, lled deneu, a llygaid treiddgar ganddo. Arweiniwyd y cwmni i'r llyfrgell, a chyn i Dr. M'Cosh dd'od i mewn, cafwyd cyfle i edrych dros gyfran fechan o honi. Yr oedd yn llyfrgell nodedig o fawr, yn fwy tebyg i lyfrgell athrofa nag i un breifat. Wedi i'r Prif-Athraw ddyfod i mewn, ac i Dr. Saunders gael ei gyflwyno iddo fel gweinidog o Gymru ar ymweliad a'i gyd-genedl yn yr America, "*Ah,*" meddai y Prif-Athraw, "*the Welsh are born preachers.*" Aeth yn mlaen i adrodd hanes ei ymweliad â Chymru, a'r argraff wnaed ar ei feddwl gan y rhai y daethai i gyffyrddiad â hwy. Yna gofynai beth oedd syniad Dr. Saunders am America; aeth yntau yn mlaen i ddatgan ei syniadau am yr hyn a welodd ac a glywodd, ac yr oedd yn ddyddorol edrych ar symudiadau wynebpryd M'Cosh pan oedd Dr. Saunders yn traethu ei len. Agorai ei lygaid, syllai arno, cyfodai ei amrantaau; a chafodd y rhai oedd yn bresenol y wledd o wrando ar ddau ymddiddanwr digymhar, dau feddwl mawr, yn cymharu syniadau am arferion, llenyddiaeth, athroniaeth, duwinyddiaeth, a gwleidyddiaeth Lloegr a'r America. Yr oedd gan y rhai oedd yn gwtrando feddwl mawr o'r blaen am alluoedd amrywiol Dr. Saunders, ond dywedir na sylweddolodd yr un o honynt mor eang oedd cylch ei ddarlleniadaeth, mor drwyadl ydoedd ei gydnabyddiaeth a'r hyn a ddarllenasai, mor barod oedd ei gôf, ac mor gyfoethog ei eiriaduriaeth yn yr iaith Saesneg. Yr oedd yn hawdd canfod fod Dr. Saunders wedi gwneuthur argraff ddofn ar Dr. M'Cosh. Gofidus meddwl nad oes ond *un* o'r cwmni oedd yn llyfrgell Dr. M'Cosh y prydawn hwnw yn awr yn fyw. Dychwelodd

Dr. Saunders i New York y noswaith hono, wedi mwynhau yr ymweliad â Princetown yn fawr. Y Sabboth dilynol, Medi 30ain, pregethodd ddwywaith yn Nghapel 13th Street, New York.

Dranoeth yr oedd yn ffarwelio a'r wlad, ac a'r cyfeillion yn New York. Daeth nifer luosog ynghyd i dŷ Mr Roberts nos Lun, Hydref 1af, i gyflwyno iddo anrheg o awrlais bychan hardd. Yr oedd yn flaenorol i hyn wedi derbyn gan y cyfeillion yn Denver, Colorado, anrheg o ffon gyda phen aur. Gan fod yr ager-long yn cychwyn am bump o'r gloch y boreu, rhaid oedd myned ar ei bwrdd y noswaith hono, a daeth y cwmni i lawr yn un llu i'w hebrwng ar fwrdd yr "Alaska," ae ymwahanwyd gyda theimladau drylliog ar bob tu yn ystod oriau mân y boreu. Fel yna, treuliodd Dr. Saunders o foreu Sul, Mai 6fed, hyd foreu Mawrth, Hydref 2il, 1883, ar Gyfandir America. Cafodd dderbyniad tywysogaidd yn mhob man, a theimlai pawb fod tywysog yn eu mysg. Yn ystod yr amser yna teithiodd rhwng 8000 a 9000 o filldroedd yn y Taleithiau. Pregethodd tua 150 o weithiau, gan gynnwys 7 o Gymanfaoedd, 1 Gymanfa Gyffredinol, lliaws o Gyfarfodydd Dosbarth, ac amryw o Gyfarfodydd Pregethu. Ei brif bregethau oeddynt y rhai canlynol: Ioan xvii; "Canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon" (Matt. xi. 28-30); "Yn amllder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenycha fy enaid" (Ps. xciv. 19). Byddai y rhai yna bob amser yn hynod o effeithiol. Y bregeth yn New York ar y weddi arch-offeiriadol, fe ddichon, oedd y fwyaf doddedig, yn ystod y daith. Yr odfa fwyaf grymus o bosibl oedd y noswaith gyntaf, yn Nghymanfa Remsen, ar y geiriau hyny: "Canys gweddus oedd iddo ef . . . berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddiodef-iadau" (Heb. ii. 10). Disgynodd rhyw ddylanwadau rhyfedd ar y pregethwr a'r gynulleidfa, ac aeth yn mlaen i ddesgrifio gogoniant y Tywysog wedi Ei berffeithio—un perffaith wedi Ei berffeithio—ôl yr hoelion yn Ei ddwyllaw a'i draed, ôl y

bicell yn Ei ystlys, nid yn *scars* i anurddo Ei Berson hawddgar, ond yn ogoniant i'w berffeithio, &c. Yna trodd i draethu ar ddedwyddwch y saint, cael bod gyda Hwn—Tywysog wedi Ei berffeithio—Ei weled fel ag y mae, bod yn debyg iddo am byth yn berffeithrwydd dedwyddwch y saint, &c. Gwelid amryw yn y gynulleidfa yn codi ar eu traed, ac yn syllu ar y pregethwr, fel pe yn cael rhyw gipdrem ar y gogoniant y llefarai efe am dano. Dywed y rhai fu yn ei wrando yn traddodi y bregeth hon droion, na chlywsant na chynt na chwedi hyny y sylwadau draethwyd ganddo yn ystod y chwarter awr diweddaf o'r bregeth y waith hon. Nis anghofir y nerthoedd oedd yn cyd-fyned a hi gan y rhai oedd yo yn gwrando. Ond mae'n debyg mai y bregeth fwyaf nodedig drwy y daith oll oedd yr un yn Nghymanfa Mankato. Yr oedd pob peth yn yr amgylchiadau yn ffafriol. Diwrnod dymunol, heb fod yn rhy boeth, y moddion yn cael eu cynal yn yr awyr agored yn y *grove*, ac yntau ei hun mewn yspryd hynod o dyner. Dywedir fod y dylanwad yn annesgrifiadwy, y gynulleidfa yn hollol yn ei law, weithiau yn plygu o'i flaen, bryd arall ar flaenau eu traed, y deigr yn a'r wên yn ymdoddi i'w gilydd, a'r pregethwr a'r gynulleidfa wedi llwyr ymgolli yn y gwirioneddau mawrion a draethid ganddo. Parheir i son am yr odfa hon hyd heddyw. Yr oedd yr holl odfaon yn ystod y daith ar y cyfan yn hynod ddymunol, ac yn rhoddi boddlonrwydd digyffelyb i'r gwranda-wyr. Dywedir iddo gael ychydig o odfaon marwaidd a diafael, ond mae yn debyg na bu yr un ymwelydd a'r wlad a adawodd argraff gyffredinol mwy dymunol ar y cynulleidfaoedd na Dr. Saunders.

Ar ol glanio yn Liverpool, ysgrifennodd y llythyr canlynol, i gydnabod y derbyniad tywysogaidd a roddwyd iddo, ac y mae mor nodweddiadol o hono, fel yr ydym yn ei ddodi i mewn yma:—"Liverpool, Hydref 12fed.—Gyda theimlad cynhes a serchog yr ydwyf, trwy gyfrwng y *Drych*, yn dymuno cyflwyno diolchgarwch diffuant i'r nifer mawr o garedigion a gyfranasant mor siriol i'm cyfreidiau i a'm teulu yn ystod ein

taith drwy ranau helaeth o'r Taleithiau Unedig, yn gystal ag am y caredigrwydd a'r parch cyffredinol a dieithriad a ddanghoswyd tuag atom. Ofer fyddai i mi ddechreu desgrifio dim ar y caredigrwydd hwn, oblegid pe gwnawn hyny, ni wyddwn pa fodd na pha bryd i derfynu. Digon yn bresenol ydyw dweyd ei fod yn llawer mwy nag a ddarfu i ni ei ddychymygu na'i ddisgwyl; ac nis gallwn braidd synio'r posiblwrwydd iddo fod yn fwy. Diolch yn fawr am y cwbl.

“Os darfu i minau, yn ol fy nymuniad, siriolï rhyw gymaint ar ‘fy nghig a'm gwaed fy hun,’ y rhai sydd megis ‘dyeithriaid ar wasgar’ ar hyd y Gorllewin pell; ac yn arbenig, os bu fy ngweinidogaeth yn gyfrwng bendithion ysprydol i rywrai, bydd amcan eithaf fy ymweliad wedi ei gyrhaeddyd; am yr hyn yr wyf yn barod i rodïi yr holl glod i'r Hwn a'i pia. ‘I Dduw y byddo'r diolch.’

“Wrth ddychwelyd ein diolchgarwch i'r anwyl gyfeillion y tu'draw i'r môr, nid ydwyf yn anghofio ein cyfeillion yr ochr hon, y rhai y gwyddai ein calon eu bod yn gweddïo drosom; oblegid i weddïau ein cyfeillion o bob tu i'r môr y priodolem y ffaith na ddygwyddodd dim anghysurus i ni yn ystod ein holl deithiau ar fôr a thir, yn gystal a phob llonder a llwyddiant a'n dilynodd.

“Gan y bydd ein syniad o hyn allan yn llawer mwy byw am fyd mawr y Gorllewin a'i boblogaeth gyflym-gynyddol; a chan ein bod wedi adnabod cynifer o honoch, bydd ein dyddordeb yn llawer mwy dwfn yn hanes America, a'n gweddïau yn daerach ar i'w dyfodol pwysig fod y cyfryw ag a fydd yn fendith i'r byd. ‘Nawdd Duw a'i dangnef’ fyddo drosoch ac yn och hyd fyth. Os gallaf, mewn modd yn y byd, weini er lleshad rhyw rai a ymfudasant yna eisïoes, neu a ymfudant yna drachefn, bydd yn f faint genyf gael bod at eu gwasanaeth.—Yr eiddoch, yn dra diolchgar,

D. SAUNDERS.”

Glanïodd yn Liverpool foreu Mercher, Hydref 10fed, wedi mordaith dipyn yn ystormus. Yn fuan ar ol ei ddychweliad,

anrhydeddwyd ef a'r teitl o D.D. gan Brif-Athrofa Beloit, Wisconsin. Mae hon yn Athrofa gymharol ieuanc, ac yn neillduol o ofalus a cheidwadol gydag anrhydeddu neb â theitlau. I ychydig o brif dduwinyddion America y mae y teitl wedi ei roddi gan yr Athrofa hon, ac os nad ydym yn camgymeryd, Dr. Saunders ydoedd y Cymro cyntaf a anrhydeddwyd ganddi. Gwnaed hyn ar gais *unedig* yr holl weinidogion yn nghylch Cymanfa Wisconsin, a rhoddwyd y teitl ar gyfrif gallu a dawn pregethwrol eithriadol Dr. Saunders. Yr oedd Prifysgol Princetown hefyd yn trefnu rhoddi iddo yr anrhydedd hon, ond Beloit a'i rhagflaenodd, ac ar gyfrif sail y cyflwyniad y darbwyllwyd ef, wedi cryn betrusder, i'w derbyn.

Yr ydym yn ddyledus, ac yn dra diolchgar, am y ffeithiau a'r argraffiadau uchod, i'r rhai fu yn cyd-deithio ag ef, ac i frodyr yn America a'u clywodd yn pregethu yn y wlad hono lawer o weithiau. Mor bell ag y gallem ddeall, cydunent oll a'r adroddiad byr ac amherffaith uchod o'r daith.

Ar ei ddychweliad adref rhoddwyd derbyniad tywysogaidd iddo gan ei gynulleidfa a'r dref; cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus i'w groesawi, a chyflwynwyd Anerchiad iddo, yn y ffurf o Gofeb-lyfr harddwych, gwerth o 21*p.* i 25*p.*, i roddi arbenigrwydd ar ei ymweliad ag America, a'r nawdd dwyfol fu drosto ef a'i deulu yn ystod eu holl deithiau.

Amlygai chwaeth a gallu neillduol at gerddoriaeth er yn blentyn. Rywbryd, cyn ei fod ef yn wyth oed, pan yr oedd y Parch. J. Evans, New Inn, yn pregethu yn Llanbedr, soniwyd wrtho am dŵn newydd a ddygasid i'r lle, gan wr oedd ar y pryd i ffwrdd yn dilyn ei alwedigaeth yn Aberystwyth. Gofynai Mr. Evans iddynt ei chanu, ond ni fedrai neb wneyd; dywedent fod gan y gwr fachgen bychan allai ei chanu; gyrodd hwynt i'w gyrchu ar unwaith, a chanodd y bachgenyn iddo y dŵn. Cofiai ein cyfaill yn dda am yr amgylchiad, ac am sirioldeb y pregethwr mawr hwn tuag ato. Pan oedd ei dad yn arweinydd y canu yn Nhreforis, yr oedd

yntau yn arwain yr *alto*, a dywedir y canai ddigon o'r llais hwnw i gyfateb llon'd capel o gantorion. Yn neillduaeth ei fywyd yn Abercarn, talodd sylw mawr iddi. Symudodd Mr. W. T. Rees (Alaw Ddu) i'r lle, ac efe oedd arweinydd y canu yn yr eglwys. Llawer o amser a dreuliodd ein cyfaill ac yntau i gyd-efrydu cerddoriaeth, ac i hyfforddi y naill y llall yn egwyddorion a gweithiad allan y gelfyddyd. Dichon, hefyd, i'r rhan gymerodd yn nadblygiad athrylith gerddorol ei ferch henaf ail enyn y ddawn hon ynddo; yr oedd ei gwrando hi yn myned trwy rai o ddarnau gorchestol y prif-feistri, ar y berdoneg, yn ei yru i lesmair o fwynhad. Dilynodd yr efrydiaeth hon yn bur gyson hyd y diwedd. Gadawodd ar ei ol yn ei lyfrgell dros 60 o gyfrolau safonol ar gerddoriaeth, yn y ffurf o ramadegau, rheolau cyfansoddiad, a chynghanedd, gweithiau y prif gerddorion, megis Richler, Spencer, Hullah, Hiles, Stainer, Ouseley, Alberchtsperger, Cherubini, Marx, a Webber, a llu o rai cyffelyb. Gadawodd hefyd 112 o Lyfrau Tŷnau Cynulleidfaol a chyfansoddiadau cyffelyb, ac y mae ar agos y rhai hyn oll ôl astudiaeth fanwl. Dywedai ei fod wedi mwngialganu oddeutu haner cant o'r cyfrolau hyn drosodd a throsodd drachefn; dyna oedd ei fwynhad am awr neu ddwy nos Sabboth ar ol gorphen llafur cyhoeddus y dydd. Mae ger ein brŷn yn awr lyfr ysgrifenedig yn cynwys detholiad o ganoedd lawer o dŷnau, a nodiadau helaeth arnynt, a ddarparodd ar gyfer Llyfr Tŷnau Newydd y Cyfundeb, ac nid yw y llyfr hwn ond detholiad o lyfrau eraill a ysgrifenydd ganddo ar yr un pwnc. Nid oedd yn proffesu bod yn alluog mewn dim ond Meintoniaeth, nac yn wybodus mewn dim ond Physigwriaeth a Cherddoriaeth, ond barnai ei fod yn meddu talent at y canghenau hyn, ai fod wedi meistrolï y ddwy olaf yn bur drwyadl. Yr oedd yn hollol gyfarwydd a deddfau ac a *mathematics* cerddoriaeth, ac a holl fanylion y gelfyddyd.

Cafodd Pabyddiaeth, yn gyferbyniol i Brotestaniaeth, hefyd lawer o'i sylw. Un o'r Darlithiau cyntaf a draddododd oedd ar "Lywodraeth Dymhorol y Pab." Gwir fod y grefydd

hon, neu yn hytrach yr anferthlun hwn o Gristionogaeth, yn dyfod ar ei ffordd wrth efrydu hanes yr eglwys, a hanes ddblygiad athrawiaethau duwinyddol yr oesau, yr hyn a wnaeth yn bur drwyadl. Ond darfu iddo archwilio yn fwy manwl yspryd ac egwyddorion yr Eglwys Babaidd yn eu perthynas a'r oes bresenol, ac a'r symudiadau a'r daliadau diweddaraf sydd yn anrheithio Protestaniaeth Eglwys Loegr. Cynhyrfai ei enaid ynddo wrth weled yr eglwys gafodd ei rhyddhau mor wyrthiol a gogoneddus, trwy y Diwygiad Protestanaidd, oddiwrth ormes a gorthrwm traddodiadau a defodaeth baganaidd, yn cael ei dal eto dan yr un iau caethiwed; a gofidiai yn nyfnder ei yspryd wrth weled Ymneillduwyr Cymru mor farw i'w perygl, mor ddifater wrth weled eu plant yn cael eu hud-ddenu oddiwrth ffydd eu tadau, ac yn cilio yn ol i ofergoeledd a ffurfioldeb yr oesoedd tywyll. Hyn oedd yn benaf wrth wraidd ei zêl ef dros Ddadgysylltiad. Credai, bid sicr, fod y cysylltiad rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth yn anachaid a pheryglus o dan bob amgylchiad, ac mai yr undeb hwn oedd wedi bod yn fraich i erledigaeth a merthyr-dod saint Duw yn mhob oes. Ond yr oedd y ffaith fod arian y wlad, gafodd brofi blynyddoedd deheulaw y Goruchaf yn y diwygiadau nerthol fu yn ei hysgwyd, yn myned i gynal eglwys sydd yn dirmygu y diwygiadau hyn, ac yn gwneuthur ei goreu i gymylu gwirionedd syml yr efengyl, a gwthio offeiriadaeth ryfygus o honiadol rhwng y bobl a'r unig Arch-offeiriad fedr wneyd cymod drostynt ger bron Duw, yn annyoddefol ganddo. *Protest* o ymyl tragwyddoldeb yn erbyn hyn oedd y pamphledyn diweddaf a ysgrifennodd: "Pabyddiaeth dan Orchudd yn yr Eglwys Sefydledig; neu, Ddefodaeth yn Hanfodol Babaidd." Nid zêl heb wybodaeth ydoedd chwaith. Yr oedd ganddo 250 o gyfrolau ar Babyddiaeth yn unig, ac ar ol eu darllen yn fanwl y codai ei lef. Gwyddai agos y cwbl oedd i'w ddweyd dros ac yn erbyn, ac fel prophwyd Duw, yn ymyl y byd mawr, rhybuddiai ei wlad gyda'r holl ddifrifoldeb yr oedd ei enaid yn alluog o hono.

Cefnogai y *Forward Movement*, ac efe oedd llywydd y symudiad hwn pan y bu farw. Yr oedd yn ddigon eang ei gydymdeimlad i gymeryd i mewn bob gwedd ar wir lafur Cristionogol. Ceir yn ein mysg un dosbarth na fedr gymeradwyo y dull newydd a dieithriol hwn o ddwyn y gwaith yn mlaen. Gwell ganddynt hwy ydyw cadw at yr hen gynllun o bregethu gwirioneddau mawrion sylweddol yr efengyl na myned i ganol y miloedd sydd yn marw yn eu pechodau, a "gwaeddi w̄b w̄b," fel y dywedai y diweddar W. Evans, Tonyrefail. Mae yn ein plith ddosbarth arall, na fedr ond prin gydnabod fod daioni yn cael ei wneyd o gwbl gan neb ond yr efengylwyr hyn. Clywsom fod un o'r dosbarth olaf yn codi i fynu mewn cyfarfod eglwysig i gondeinio "pregethu athrawiaethol sychlyd" y dyddiau hyn, a hōni nad oedd neb yn gwneyd gwaith yr efengyl ond y merched oedd yn pregethu a'r diwygwyr yma. Cododd ar ei draed yn gyffrous, a dywedodd, "Dyma fi yn myned adref i losgi fy llyfrau, mae genyf rai miloedd o honynt, yr wyf wedi treulio fy oes i'w darllen, ac wedi rhoddi canoedd lawer o bunoedd am danynt. Ond os yw yr hyn a ddywedir yma yn gywir, yr wyf wedi gwneyd camsynied damniol. Os nad oes un gwaith yn gymeradwy gan Dduw, nac yn cael ei arddel ganddo, ond y pregethu apeliadol a'r rhybuddio personol y soniwch am dano, mae fy holl fywyd i wedi bod yn gamsynied, a gwell i mi fyned gartref i roddi tân yn y cwbl sydd genyf, a dechreu byd o newydd ar gynllun dipyn yn rhatach." Trodd yr araeth hon y byrddau yn hollol. Gwelai efe fawredd, gogoniant, a gras yr efengyl yn y bregeth alluog, orphenedig, a medrai hefyd ddywedyd Amen o galon gydag ymdrechion y dosbarth o efengylwyr ymroddgar sydd wedi codi yn ein plith yn ddiweddar, y rhai sydd yn gwneyd eu goreu i gipio pentewynion o'r gyneuedig dân; i.e., cyfunai yn ei berson ei hun y duwinydd a'r pregethwr mwyaf gwrteithiedig a'r cenadwr mwyaf ymroddedig i achub y colledig yn mhlith y colledigion. Yr oedd yn ddigon eang ei yspryd

i gydnabod pob gwirionedd yn yr "Uwch-feirniadaeth," er nad oedd yn cymeradwyo ei hyspryd, a medrai fyned braidd yn agosach na neb arall at yr anllythyrenog a'r anwybodus.

Nesaodd ei ddyddiau i farw. Da i'r oesoedd dilynol pe buasai wedi ysgrifenu mwy. Nid oes lawer ar ei ol yn y ffurf yma; ceir ei Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid a'i Erthyglau ar Fedydd yn y "Drysorfa." Yr ydym yn meddwl y deil y ddau waith hyn eu cymharu a dim a ysgrifenydd ar y materion. Gadawodd hefyd amryw bampbledau a thraethodau, a rhai canoedd o bregethau, heb fod yn gyflawn. Casglodd lyfrgell o oddeutu 4,000 o gyfrolau. Soniwyd yn barod am 172 ar Gerddoriaeth, 250 ar Babyddiaeth, dros 300 ar Feddyginiaeth, a'r gweddill, sef ychydig dros 3,000, ar Dduwinyddiaeth, &c. Bu yn pregethu am oddeutu 42 o flynyddau, ac yn ol yr amcan gyfrif a roddwyd o'i enau ef ei hun am 25 mlynedd o'i weinidogaeth, pregethodd oddeutu 10,000 o weithiau. Heblaw hyny, areithiodd lawer ar Wleidyddiaeth, Dadgysylltiad, a Dirwest, &c. Yn y Cyfarfodydd Eglwysig, fel bugail, am yn agos i 40 mlynedd, yr oedd ei lafur yn ddirfawr, ac yn y Cyfarfodydd Darllen a Chymdeithas y Dynion Ieuainc, bu ei wasanaeth yn wir werthfawr. Dywedai meddyg galluog, wrth ei weled yn myned i'r trê am y tro diweddaf yn ngorsaf Abertawe: "Mae ei lafur ar ben, ond y mae wedi gwneyd diwrnod da o waith." Do, gweithiodd ei ddydd i'r pen. Yr oedd yn ymwybodol yn ei flynyddoedd olaf nad oedd yn pregethu gyda'r un yni a chynt, a phe buasai yn ystyried ei boblogrwydd gynt fel rhywbeth i ddal gafael arno, dichon y buasai yn ymneillduo; ond mwy pwysig ganddo ef oedd gwneyd rhyw fath o wasanaeth i'w Arglwydd ac i'w gyd-ddynion, ac nid gwerthfawr oedd ganddo ei einioes ei hun, os gallai orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniodd gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw.

PENOD XI.

—:0:—

NODWEDDION EI GYMERIAD.

NID ydym wedi gallu rhoddi amlinelliad o hanes ei fywyd, heb nodi yn achlysurol rai o nodweddion ei gymeriad, a bydd yn anhawdd i'r darlennydd fyned trwy y pregethau heb ganfod amryw o honynt; er hyny goddefei i ni roddi arbenig-rwydd ar rai o brif nodau ei gymeriad hawddgar, teithi ei feddwl, a phriod-ddull ei bregethu.

Didwylledd. Yr oedd yn ddyrn unplyg, a'i gymeriad yn hawdd ei ddarllen, a'i natur mor dryloew a'r wybr las. Nid oedd cyfrwystra yn perthyn iddo; a'i gasbeth oedd hyn mewn arall. Meddai ffydd ddiderfyn yn ngallu y gwir; tybiai ond i'r gwirionedd ar unrhyw fater gael ei egluro yn llawn, a'i ategu a'r rhesymau priodol, y rhaid i bawb ei ganfod yn yr un golau ag efe ei hun; felly cyhoeddai ei syniadau yn ddi-floesgni, heb amcanu celu na darnguddio. Yn y dyb hon credwn ei fod yn methu i raddau, ac nad oedd yn rhoddi y llawn werth ar allu rhagfarn a phleidgarwch. Nid oedd yn *strategist*. Gallai ymladd; i'e ymdrechu hyd at waed yn erbyn cyfeiliornad; ond rhaid iddo gael gwneyd hyny ar y maes agored, gyda'i gleddyf noeth yn ei law; ni fedrai saethu o'r tu ol i'r llwyn. Dichon y buasai yn ysgoi llawer profedigaeth, ac yn arbed aml i deimlad dolurus, pe yr ymostyngasai i fod yn ffals ac yn llechwraidd, gan redeg ei lestr ar y pryd yn unol a'r awel boblogaidd oedd yn digwydd bod yn chwythu. Ond nid oedd hyn yn ei natur; rhaid oedd iddo gael ymddangos y peth ydoedd gerbron pawb. Nid gormod dweyd ei fod mor onest a diragrith a'r plentyn yn sugno ar y fron. Yr oedd yn hynod am ei allu i adnabod dynion da, ond yr oedd ei onestrwydd yn ei wneyd yn analluog i adnabod dynion drwg, a chyfrifai yr anallu hwn yn fantais fawr i fyw yn grefyddol. Yr oedd yn credu pob dim, ac ymddygai at bawb fel dynion gonest, nes y byddai raid iddo gredu yn wahanol.

Anhunangaredd. Nis gwelsom neb llai awyddus am wagogoniant. Nid oedd y wanc anniwall am safle ac am fod yn rhyw eilun i'r cyhoedd ymgrymu ger ei fron, ag sydd wedi meddianu rhai, yn ei flino ef o gwbl. O hyn yr ydym ni ein hunain yn dystion. Cawsom y fraint o gymdeithasu llawer ag ef yn ystod y chwarter canrif olaf o'i oes; buom yn ei gwmni yn ei oriau mwyaf cysegredig, pan y taflai i fwrdd yr ychydig *restraint* ag oedd yn rhaid hyd yn nod iddo ef ei osod arno ei hun gerbron y cyhoedd, ac yr ymollyngai i ddatguddio ei feddyliau dyfnaf a dwysaf; ac y mae yn rhydd i ni fynegu na welsom ddim tebyg i myfiaeth nac awydd am glod yn ymgripio i'r golwg. Mewn undeb a chyfeillion cynlluniodd a gweithiodd lawer o blaid dyrchafiad ei wlad, a llwyddiant crefydd, ac eangiad terfynau y Cyfundeb i ba un y perthynai, a'r hwn a garai mor fawr; ymdaflai gydag holl yni ac angerddolrwydd ei natur i'r cynlluniau hyn; ond nid oedd ei ymrôad yn dibynu ar iddo ef gael y flaenoriaeth. Cawn engrhaifft o hyny ynglyn a'i ymdrechion o blaid addysg uwchraddol yn Nghymru. Ni wnaeth neb fwy dros addysgiant ei gydgenedl; efe, ar gais rhai o brif ddynion y Dywysogaeth, a alwodd ynghyd y gynadledd a gyfarfu ar y mater yn Aberystwyth; ond yn y gynhadledd boddlonai efe ar fod o'r golwg yn gwasanaethu fel ysgrifenydd. Y tâl a dderbyniodd am ei ymdrechion oedd cael ei adael allan o Gyngor Coleg Prifysgol Deheudir Cymru pan ei ffurfiwyd; ni chlywsom iddo ef ei hun achwyn oblegid hyny; ond cyffrôdd y wlad o'r herwydd i'r fath raddau fel y bu raid i'r awdurdodau ei osod i mewn y cyfleustra cyntaf a gafwyd. Cawn engrhaifft o'r un anhunangaredd ynglyn ag Athrofa Trefecca. Pan fu farw y Parch. W. Howells, Prifathraw y Coleg, yn y flwyddyn 1889, edrychai dosbarth helaeth ar Dr. Saunders fel y cymhwysaf o bawb i eistedd yn y brigadair; yr oedd ei gydnabyddiaeth helaeth a llenyddiaeth hen a diweddar, ei olygiadau rhyddfrydig ar bynciau duwinyddol, ei gydymdeimlad dwfn a phregethwyr ieuainc ac a Gweinidog-

aeth y Gair, ynghyd a'i ddoniau gweinidogaethol dysglaer, fel yn ei nodi allan i hyn; yn wir, yr oedd un Cyfarfod Misol wedi ei ddewis i'r swydd flynyddodd lawer yn flaenorol; a sicr yw y buasai yntau yn ei elfen wrth arwain dynion ieuainc ymchwilgar i feusydd gwybodaeth. Ond tybiai ei fod yn canfod gwr mwy cymhwys yn mherson y Parch. David Charles Davies, M.A., ac y byddai efe yn debycach o uno yr holl Gyfundeb yn y Deheudir ynghyd; felly, gwnaeth aberth o bob uchelgais personol, ac arferodd ei holl ddylanwad gyda Mr. Davies er ei ddwyn i gydsynio a galwad y Pwyllgor; a chredwn mai i hyny yn fwy na dim arall y rhaid priodoli ymnediad Mr. Davies i Drefecca.

Eangder cydymdeimlad. Meddai ddynoliaeth lydan, aml-ochrog; fel y Rhufeiniwr hwnw, gallai ddweyd nad oedd yn cyfrif dim dynol fel estronbeth iddo. Efallai mai yr hyn a gyffrōai ei yspryd gyntaf fyddai canfod pregethwr ieuanc tlawd, yn dangos arwyddion talent, ac yn dyheu am addysg, ond yn cael ei lesteirio yn ei amcan gan amgylchiadau. Cynorthwyodd lawer o'r cyfryw trwy dalu am eu hysgol o'i logell, a thrwy eu hanrhegu a llyfrau. Ni wyddai am gulni yspryd a chrebachrwydd. Os darganfyddai bregethwr ieuanc addawol, ni theimlai ddim tebyg i eiddigedd; yn hytrach llawenychai a llawenydd mawr dros ben, a gwnai ei oreu i'w ddwyn i amlygrwydd. Ni fu gwell cyfaill i bregethwyr ieuainc mewn byd. Gwyddom am dano wedi ei drefnu i bregethu ar faes y Gymdeithasfa gyda gweinidog ieuanc llawer ieuangach a llai adnabyddus, yn mynu pregethu o'i flaen, ac yn gwneyd hyny yn nodedig o fyr, er mwyn i'w gyfaill gael cyflawn chwareu teg i enill goruchafiaeth ar y dorf, ac i ddangos y ddawn ddysglaer a feddai. Toddai ei galon fawr yn llyn dwfr pan y deuai i gyffyrddiad a thrueni. Pan yr oedd yn preswyllo yn Liverpool ac yn Abertawe, peth peryglus fyddai ei adael i fyned allan gyda llogell lawn; byddai y begeriaid yn sicr o'i adwaen, ac o dynu oddiarno yr oll a feddai, gan ei adael i ddychwelyd i'r tŷ gyda phoced

wag. Fel yr Athraw Mawr Ei Hun, yr oedd yn gartrefol mewn gwledd priodas ac yn nhŷ galar; medrai yn wirioneddol lawenhau gyda y rhai oedd lawen, ac wylo gyda y rhai oedd yn wylo. O'r ddau, braidd nad oedd yn fwy cartrefol yn mysg y galarwyr; gwnai eu gofid yn eiddo iddo ei hunan; cydgyfranogai a hwy yn eu hiraeth a'u colled, fel y gwnai ei ddyfodiad symud rhyw gyfran o'r baich yn ddiarwybod iddynt.

Boneddigeiddrwydd. Nid oedd dim a nodweddi Dr. Saunders yn fwy nag urddas; yr oedd ei symudiadau, a'i edrychiad, a'i holl osgo yn urddasol; ac yr oedd urddas boneddigaidd yn un o brif deithi ei gymeriad. Pan yn dweyd ei fod yn foneddwr, golygwn ragor na'i fod yn gydnabyddus a mân ddeddfau moesgarwch cymdeithasol fel eu dysgir gan Arglwydd Chesterfield, ac felly yn medru troi mewn cylchoedd uchel yn ddiramgwydd iddo ei hun ac yn ddiddolur i eraill; y mae hyn yn bosibl i ddyn hollol anfoneddigaidd o ran yspryd; yr oedd ef o natur foneddigaidd, ac yn gyfryw nas gallai er mwyn achub ei fywyd gyflawni tro brwnt iselwael a neb. Ymddygai at bawb yn foneddigaidd; parchai y tlotaf fel y pendefig; ac nid *polish* allanol oedd hyn, ond argyhoeddiad dwfn ei feddwl o'r anrhydedd sydd yn deilwng i ddyn fel dyn. Wrth deithio y wlad i bregethu lletyai mewn pob math o dai; ond yr oedd ef lawn mor gartrefol yn nhŷ y gweithiwr ag yn mhalas y cyfoethog; a gwnai i holl aelodau y teulu deimlo yn gartrefol yn ei gymdeithas. Meddai ceidwad tŷ capel wrthym y nos cyn ei gladdedigaeth: "Yr wyf yn ei gofio yn dda yn dyfod yma y tro cyntaf; yr oeddym mewn pryder dwfn gyda golwg ar ei dderbyn; ofnem nas gallem roesawu gwr mor enwog yn deilwng; ond ni fu bum' mynudd yn y tŷ cyn gosod ein meddyliau yn hollol dawel; ac mi a gollaf ddiwrnod i fyned i'w angladd yfory beth bynag a ddaw o'r byd." Teimlai i'r byw yn ngwyneb ymddygiad anfoneddigaidd. Un tro, yn ei bresenoldeb, cyfarchai gweinidog cyfoethog a rhodresgar weinidog arall llawer galluocach, ond wedi cael ei ddwyn i fynu yn y gymydoggaeth hono yn fachgen tlawd, mewn dull

trahaus, oedd yn sawru yn gryf o uwchafiaeth; fflamiodd holl natur Dr. Saunders; ac yr oedd yn dda i'r pregethwr cyfoethog mai ar drothwy yr ystafell wrth fyned allan y gwnaeth hyn, onide derbyniasai wers nad anghofiai trwy ei holl fywyd. Clywsom ef droiau yn condemnio offeirïaid Eglwys Loegr am eu dull trahaus o ymddwyn; dywedai eu bod yn dyfod i orsaf ffordd haiarn, gan dasu y fath ucheldrem o gwmpas a phe byddai yr holl le yn eiddo iddynt, ac fel pe na byddai yr holl swyddogion ond llwch o dan eu traed. Ni fu neb mwy rhydd nag efe oddiwrt y cyfryw ymddygiad; rhoddai y parch priodol i bob dyn, ac nid oedd un gradd o ragrith na ffuantrwydd yn yr hyn a wnai.

Serchogrwydd a thynnerwch. Yr oedd ei natur yn llawn o'r serchogrwydd mwyaf chwareus. Llifai ei holl enaid allan mewn serch at blant bach; mawr hoffai chwareu â hwynt a'u hanwylo; sefydlai ddealltwriaeth dda rhyngddo â hwynt mewn byr amser, a byddent hwythau, gyda'r cywirdeb greddfól difeth sydd yn nodweddiadol o honynt, yn rhoddi eu holl ymddiried ynddo yntau ar unwaith. Dangosai yr un carueidd-dra mewn dull gweddus at blant wedi tyfu i gyflawn oed. Nid gormod dweyd na fu gan y Cyfundeb o'r cychwyn yr un gweinigdog yn fwy o anwyl-ddyn y bobl, yn cael ei garu yn fwy cyffredinol, na chyda theimladau mwy angerddol. Dyma ei hanes yn mhob man lle y bu; yn Penclawdd, Aberdar, Liverpool, Abercarn, ac Abertawe, sef fod calon y bobl yn ymglymu am dano. Yr oedd y rheswm am hyny yn ddiâu yn mwynedd-dra a serchogrwydd ei natur ef ei hun. Pan y gofynwyd i eneth fechan paham yr oedd pawb yn ei charu, atebai nas gwyddai, os nad am y rheswm ei bod hi yn caru pawb. Yn ddiarwybod iddi rhoddodd yr eneth fynegiant i wir-air llawn o athroniaeth ddofn. Am yr un rheswm y teimlid y fath anwyldeb at Dr. Saunders, sef ei fod ef yn ŵr mor anwyl. Byddai ei ddyfodiad i dŷ fel ymweliad pelydr o haul, llanwai y lle a dysgleirdeb ei wynebpryd; ymgomiaï a'r teulu mor ddifyr, hynaws, a serchog, nes y teimlid

gwagder ei ymadawiad. Gallwn gyfeirio at y Seiat Fawr yn Liverpool y Sulgwyn cyntaf wedi iddo dori ei goes, fel prawf o'r modd y teimlid ato. Yr oedd yr hen frodyr duwiol, yn eu heiddigedd am gadw i fynu nodwedd grefyddol y cyfarfod, wedi rhybuddio y gynulleidfa trosodd a throsodd, na byddai iddynt ddangos eu teimlad trwy guro dwylaw. Ufuddhawyd i'r gorchymyn am y rhan gyntaf o'r cyfarfod; ond pan yr ymlusgai Dr. Saunders i'r ffrynt, gan bwysu ar ei ffyn baglau am gymorth, ac arwyddion amlwg o lesgedd arno, torodd y bobl dros bob *restraint*, a churasant ddwylaw yn y modd mwyaf calonog. Mor bell ag y clywsom, ni ddangosodd neb deimlad o anfoddlonrwydd; ac nid ydym yn sicr nad oedd yr hen flaenoriaid duwiolfrydig yn ymuno.

Mae y ddau hanesyn canlynol yn dangos y dylanwad oedd gan serchawgrwydd a thynnerwch ei natur ar bawb a ddelai i gyffyrddiad ag ef. Llun ar ol iddo fod yn aros mewn teulu parchus dros y Sabbath, ac yn pregethu yn y capel, digwyddodd y wers o'r Ysgrythyr yn ysgol y teulu fod "Iesu Grist yn derbyn plant bychain ac yn eu bendithio;" dywedodd y ferch fach wrth yr athrawes fod y dysgyblion yn anhebyg iawn i Mr. Saunders, Abercarn, ei bod hi yn sicr na fuasai efe yn rhwystro iddynt ddyfod, ond yn hytrach yn gwthio y dynion mawr oddiar eu ffordd, iddynt gael lle rhydd i ddyfod at yr Iesu. Ystyriai yr athrawes y fath ddywedriad yn rhy hyf ac amherthynasol, a chafodd y fechan ddwyn ei phenyd o sefyll yn y gongl am gryn amser am iddi feiddio gwneyd y fath sylw. Darfu i'r gosb beri iddi gofio am yr amgylchiad, ac y mae heddyw yn medru darllen ynndo un o brif nodweddion cymeriad ein cyfaill. Yr oedd yn yr un gymydogeaeth ddynes wedi arwain bywyd mor anheilwng, fel yr oedd ei henw yn ysgymunedig gan bawb, er nad oedd diweirdeb yn un o brif rinweddau yr ardal. Daeth y Parch. J. R. Hughes, Sir Fôn, yno i bregethu, ac o dan ei weinidogaeth teimlodd y ddynes mor ddwys am ei chyflwr, fel nad oedd yn cael gorphwysdra na dydd na nos; ofnai fod ei hanwiredd yn fwy nas gellid ei

faddeu. Nis gwyddai swyddogion yr eglwys chwaith beth i wneyd gyda golwg ar ei derbyn yn aelod, gan mor isel yr ydoedd wedi syrthio. Yn mhen rhai misoedd daeth Dr. Saunders yno i bregethu, a'i thystiolaeth ydoedd ddarfod i ryw-beth, yn ei ddull ac yn ei wynebpryd, beri iddi gredu y buasai Iesu Grist yn maddeu ei holl bechodau. Gwyddai yn sicr y buasai Dr. Saunders yn maddeu iddi pe gallasai, a barnai fod ei Feistr yn debyg iddo. Cafodd olwg achubol ar drugaredd faddeuol Duw, nid yn gymaint trwy ddim a ddywedodd, ond trwy ei yspryd caredig a'i wynebpryd hynaws, a phrofodd dangnefedd yr efengyl, a'i gwnaeth yn ddynes wahanol byth ar ol hyny. Gallasai ei gyfeillion fyned mor agos ato ag y mynent gan mor anwyl ydoedd. Yr oedd yn peri i'r rhai a'i hadwaenent oreu ei anwylo yn ormodol yn ngolwg y rhai nad oedd yn ei adnabod cystal.

Dyfnnder argyhoeddiad. Yr ydym yn ofni fod rhai yn tueddu i gasglu oddiwrth ein sylwadau blaenorol mai cymeriad gwlanenaidd, amddifad o asgrwn cefn, oedd Dr. Saunders, yn cael ei gludo ar gefn y llanw i ba le bynag y byddai yn cyfeirio. Nis gellid gwneyd camsynied llwyrach. Yr oedd ei argyhoeddiadau wedi treiddio i lawr i ddyfnnder ei fodolaeth, ac wedi ymblethu ac ymdroellu am ei reddfau dyfnaf a mwyaf ysprydol. Araf y byddai yn dyfod i benderfyniad; dyfal chwiliai y rhesymau o blaid ac yn erbyn; ond wedi iddo gael ei argyhoeddi o wirionedd unrhyw bwnc, neu unrhyw symudiad, safai o'i blaid beth bynag a fyddai y canlyniad. Pan yn ieuanc darllenodd gryn lawer o lyfrau anffyddol; efallai na fuasai hyn yn ddiberygl i bregethwr ieuanc cyffredin, ond yr oedd yn gwbl ddiberygl iddo ef; a chlywsom ef yn dweyd droiau ei fod yn codi oddiwrth y llyfrau hyn a'i holl natur wedi ei chyffroi wrth weled eu gwenwyn at Gristionogaeth, a theimlai y gallai eu cyfrgoli oll i ddystryw. Credai yn ngwirioneddau y Beibl gydag argyhoeddiad angerddol. Credai hefyd yn yr athrawiaeth efengylaidd fel ei pregethir gan y Methodistaidd. Nid ydym

yn sicr ei fod yn cydweled a phob dull o eirio yn y *Cyffes Ffydd*; ond ni wyddai am well crynodeb yn un man o'r wir athrawiaeth. Carai y Cyfundeb Methodistaidd, llawenychai ac ymorfoleddai yn ei hanes, bendithiai y nefoedd am y pregethwyr dysglaer oedd wedi codi o'i fewn, a diolchai am iddo gael ei arwain i fwrw ei goelbren ynddo. Ni olyga hyn ei fod yn gul at gyfundebau eraill. Dywedai gweinidog Annibynol enwog yn ei gladdedigaeth, pan yr oedd rhywrai wedi pwysleisio ar mai Methodist ydoedd, ei fod yn cydnabod gwirionedd y dywediad, ond mai nid fel Methodist y darfu iddo ef adnabod Dr. Saunders, eithr fel Cristion; a bod y Cristion yn ddigon mawr i foddi y Methodist unrhyw ddydd. Y dystiolaeth hon sydd wir. Ond gyda Dr. Saunders, fel pawb arall, nês elin nag arddwrn, a chredai ef yn y Cyfundeb Methodistaidd fel un wedi cynyrchu chwildroad yn y Dywysogaeth, ac fel un galluog i gyflawni gwrhydri eto.

Cyfuniad rhinweddau. Yn ychwanegol at y rhinweddau unigol oedd mor amlwg yn ei fywyd, yr oedd ynddo ryw ansawdd foesol, neu ddaioni cyffredinol, yn codi o'r oll ynghyd. Nid lliwiau unigol yr enfys ydyw ei holl brydferthwch, eithr y mae eu cymhlethiad yn eu gilydd yn elfen ychwanegol o harddwch; felly yn ei gymeriad yntau, ceid rhyw arucheled moesol annesgrifiadwy yn ganlyniad meddu y fath nodweddion ag a nodwyd, a'u meddu i'r fath raddau. Hawdd oedd canfod a theimlo y cyfuniad gogoneddus hwn, ond y mae braidd yn amhosibl ei ddarnodi. Ni ddeil ddadan-soddiad; y mae fel bywyd ei hun, yr hwn sydd iddo elfenau, ond nid yr elfenau ydyw wedi y cwbl, eithr y mae ei ddadelfenu yn ddinistr iddo. Felly am berffeithrwydd y bywyd ysprydol uchaf, cyfuniad o'r holl rasmusau ydyw. Cyfuniad o'r holl bethau a nodwyd, a llawer ychwaneg, oedd gogoniant penaf cymeriad ein cyfaill. Rhywbeth ydoedd oedd yn peri i bawb deimlo eu bod yn mhresenoldeb dyn da iawn pan yn ei gwmni ef. Yr oedd mor dda, fel yr oedd yn anhawdd i'w gyfeillion agosaf ei adnabod yn hollol, a sylweddoli pa mor dda ydoedd.

PENOD XII.

—:0:—

NODWEDDION EI BREGETHU.

GELLIR dweyd am ein brawd ymadawedig, fel y dywedodd un arall am dano ei hun, ddarfod iddo gael ei neillduo gan Dduw o groth ei fam, a'i alw ganddo trwy Ei ras, i ddatguddio Ei Fab ynddo fel y pregethai Ef ymhlith y cenedloedd. Dywedai un am yr Apostol Paul ei fod wedi ei ffurfio gan Dduw i bregethu yr efengyl fel y mae gwahanol ranau yr awrlais wedi eu rhoddi wrth eu gilydd i'r amcan o gadw amser. Felly y dywedwn ninau am wrthddrych ein cofiant, mai i hyn yma y crëwyd ac y lluniwyd ef; yr oedd fel ei Athraw Mawr Ei Hun wedi ei wneuthur yn bregethwr, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, ond yn ol nerth bywyd annherfynol. Gofyniad cyntaf un o'r rhai mwyaf llygadgraff o'r tadau o berthynas i ymgeisydd am y weinidogaeth ydoedd —pa fath ddynoliaeth oedd ganddo; nid oedd ei ymddangosiad corfforol yn ei olwg islaw gwneyd ymholiad yn ei gylch, ac os na chaffai ateb boddhaol i'r gofyniad hwn, nid oedd yn awyddus iawn i wneuthur un ymholiad pellach. Hawliai bob amser ddyn, a dyn cymhwys, i fod yn sylfaen i'r pregethwr. Ceir natur ddynol weithiau wedi ei hanffurfio a'i handwyo i'r fath raddau, fel, er ei bod mewn modd arbenig yn wrthddrych gras achubol Duw, nad yw yn gyfaddas i dderbyn gras y weinidogaeth. Nacaodd yr Iesu i'r cythreulig a iachawyd ganddo i'w ganlyn fel dysgybl. Bydd ambell i ddyn yn rhy eiddil o ran meddwl a chalon i fod yn bregethwr; ac ambell i un arall, tra yn meddu cryn lawer o allu, yn rhy ystyfnig a sur wrth naturiaeth i Dduw ei gymhwysu i gynrychioli addfwynder, gostyngaidrwydd, ac anfeidrol dynerwch y Gwarecwr nawr ger bron y byd. Ond am ein hanwyl

frawd, cyfaddaswyd ef gan Awdwr natur, a galwyd ef gan Dduw pob gras, i fod yn weinidog cymhwys y Testament Newydd. Fel y mae cyfansoddiad meddwl y gwir athronydd yn ei dueddu i olrhain perthynas achos ac effaith; fel y mae enaid y gwir fardd yn barod i dderbyn ysprydoliaeth yr awen, ac y mae yr hwn a anwyd i fod yn areithiwr yn cyfranogi o'r athrylith hono, felly yr oedd yntau yn llestr etholedig i Dduw i'w lanw âg anchwiliadwy olud Crist i'w efengylu yn mysg ei gydgenedl.

Dichon nad oes adeg o'r un hyd yn hanes ein Cyfundeb y darfu i ychwaneg o'r cewri syrthio ynddi na'r blynyddoedd diweddfaf hyn—Dr. L. Edwards, Roger Edwards, Joseph Thomas, William Howells, Dr. O. Thomas, D. C. Davies, M.A., Dr. D. Saunders, E. Matthews, ac yn ddiweddfaf oll, Dr. J. Hughes. Nid ydym yn teimlo awydd, pe medrem, i osod ein llinyn mesur ar un o honynt, na'u cymharu â'u gilydd mewn un modd; yr oedd pob un o honynt yn fawr, ac yn fwyaf, yn ei le a'i ddull ei hun, ac nid lle bychan a lanwodd pob un o honynt; a'r Duw a'u cododd hwy a drugarhao wrthym trwy anfon eraill cyffelyb iddynt mewn gallu a dylanwad. Feallai y goddefir i ni ddweyd nad oedd Dr. Saunders yn ol i'r penaf o honynt mewn cyfuno holl doniau y weinidogaeth; dyna a'n tarawai gyntaf wrth wrandaw arno, sef fod pob peth pregethwr wedi cydgyfarfod ynddo—meddwl galluog, treiddgar, a chlr, a hwnw wedi ei ddysgyblu yn dda; calon fawr yn orlawn o hawddgarwch a serchogrywydd, ac mewn cydymdeimlad byw a thyner â'r efengyl ac â'i gwrthddrychau; cydwybod bur na fedrai oddef dim isel ac anheilwng mewn ymddygiad nac amcan; ewyllys fywiog ond mewn cydgordiad â'r ewyllys ddwyfol ei hun; côf, pan yn anterth ei nerth, oedd yn ymylu ar fod yn ddifeth yn y pwlpudd; traddodiad llithrig a swynol, a'r iaith a'r cymhar-iaethau goreu yn barod at ei wasanaeth; llais cyfoethog, ystwyth, mwyn, a soniarus, yn hollol o dan lywodraeth ei berchenog, ac yn medru datgan holl deimladau amrywiol ei

fynwes; a braidd bob amser yr oedd ganddo destyn a phregeth fyddai yn cynwys mēr a brasder y grefydd Gristionogol. Pan y disgynai yr eneniad oddiwrth y Sanctaidd Hwnw ar ei holl enaid, ac ar y gwirionedd a bregethai, yr oedd y dylanwad y mwyaf dyrchafedig a nefol a deimlasom erioed.

Yr ydym wedi cyfeirio yn barod wrth fyned yn mlaen at amryw o neillduolion Dr. Saunders fel pregethwr yr efengyl; ond efallai, er mwyn y darlennydd, mai buddiol fyddai casglu ynghyd y rhai amlycaf.

Cydgysfarfyddai ymddo holl anhebgorion y gwir arcithydd. Fel y darfu i ni nodi yn barod, meddai lais o'r fath oreu; llais cyfoethog, llawn, nodedig o berseiniol a melus, yr hwn oedd yn ystwyth ac yn gyfangwbl dan ei reolaeth, fel y gallai ei ddefnyddio i gyflwyno i'r gynulleidfa unrhyw deimlad a brofai yn ei fynwes ei hun. Clywsom Dr. O. Thomas yn dweyd droiau y byddai efe yn fynych wrth ei wrando yn pregethu yn ceisio cau allan o'i feddwl y syniadau a draethid, fel y gallai ymbleseru ac ymfwynhau yn melusder ei acenion. Prin efallai y medd y rhai na chlywsant ein cyfaill, ond yn mlynnyddoedd olaf ei weinidogaeth, syniad cyflawn am felusder ei draddodiad pan yr oedd yn anterth ei nerth. Ryw bymtheg mlynedd cyn ei farwolaeth goddiweddwyd ef gan anhwylder poenus yn ei wddf, yn codi, meddai y meddygon, o ammhariad ar y gŵiau (*nervous exhaustion*), yr hyn am dymhor a'i hanalluogodd i bregethu. Medrai siarad yn hyglyw a didrafferth mewn tōn isel; ond unwaith y ceisiai ymddyrchafu i gyweirnod uwch, collai ei lais yn hollol. Nid hir y parhaodd yr anhwylder hwn, trwy drugaredd; ond am rai blynnyddoedd deuai arno yn awr ac eilwaith, a gorchfygai ef fel gwr arfog, nes ei orfodi weithiau, er mawr siomedigaeth iddo ei hun a siomedigaeth fwy i'r gynulleidfa, i roddi i fynu gyda'i fod yn cychwyn ar ei bregeth. Cofus genym am dano, yn Nghymdeithasfa Aberporth, Mawrth, 1879, yn cael ei orchfygu fel hyn. Pregethid ar y maes er fod yr hin yn oer, ymgasglasai torf fawr yn nghyd, fel y mae yr arfer yn

Sir Aberteifi, ac er fod brodyr dyeithr a galluog yn bresenol, efe oedd hoff-ddyn y lliaws. Yr oedd wedi pregethu gyda nerth ac arddeliad mawr y nos gyntaf. Yr oedd i bregethu drachefn am ddeg o'r gloch ar ddydd mawr yr wyl. A gwnaeth ymgais; darllenodd ei destyn—un o'i hoff destynau—a dywedodd ychydig frawddegau mewn llais isel; ond gwelodd fod myned yn mlaen yn hollol amhosibl iddo; bu raid iddo gilio y naill du, a chymerwyd ei le gan ei gyfaill, y Parch. W. Williams, Abertawe. Clywsom am yr un peth yn digwydd cyn a chwedi hyn mewn cyfarfodydd pregethu, er mawr brofedigaeth iddo ef a'i wrandawyr. Yn mhen blyn-yddoedd ciliodd yr afiechyd, fel na ddeuai y cyfryw rwystr ar ei ffordd; ond credai ef ei hun, a thybiem ninau yr un fath, na fu ei lais byth cystal, ac na fu yn alhuog mwy i gyrhaedd rhai o'i nodau mwyaf tyner a melus. Ond pan yn nghanol ei nerth meddai lais cyfoethog, tyner ac ystwyth, a thynai sylw y cerddor ar unwaith, fel un yn medru gwneyd amrywiaeth diderfyn o nodau, ac un â chanddo enau siaradwr. Sylwid yn arbenig arno yn amrywio ei lais nifer anghredadwy o weithiau mewn un bregeth. Safai yn naturiol ac urddasol yn y pwlpud, ac yr oedd pob symudiad yn weddaidd o'r dechreu i'r diwedd, a'i holl ymddangosiad yn bendefigaidd. Yr oedd yn berffaith rydd, a'i areithyddiaeth y fath nas galleid yn hawdd ei gwella. O ddechreu ei bregeth llifai, gyda gras dros ei wefusau, mewn seiniau tyner a melus, y brawddegau mwyaf cyfoethog a gorphenedig. Fel y byddai ei yspryd yn cynhesu cynyddai y ffrwd, a chodid y llais yn uwch, ond ar ei uchel-fan yr oedd yn hollol soniarus, ac o dan lywodraeth ei berchenog. Neidiai y geiriau i'w lle, fel dan ddylanwad y rhiniwr, i ffurfio y brawddegau mwyaf tlws a phriodol i'r mater, a dygid y cwbl dan deyrnged i'r amcan mwyaf goruchel, sef pregethu yr efengyl yn deilwng. Galwai un beirniad ei bregeth yn gyfansoddiad cerddorol cysegredig. Yr oedd iaith yn rhodd naturiol iddo, gwelid hyn ar unwaith yn llawnder y llygad; yr oedd ei gyfoeth mewn geiriau yn

mron yn ddihysbydd, ac ni fethai unrhyw amser ddewis y gair llawnaf o fynegiant er egluro ei fater. Byddai ei frawddegau yn llawn, a'r gwahanol gymalau perthynol iddynt heb ddim cloffni, ac yn meddu cymhesuredd prydfferth. Defnyddiai air weithiau fyddai yn goleuo yr holl frawddeg, ynghyd a'r brawddegau o gwmpas; byddai yn cysylltu y cwbl ynghyd ac yn ei sicrhau fel careg glo yn mwa pont.

Yn mhellach, cyffroid ei holl natur, a derbyniai ysprydoliaeth angerddol oddiwrth bresenoldeb cynulleidfa. Ychydig o siaradwyr cyhoeddus sydd mor ddideimlad fel nad yw presenoldeb torfi, gyda llygaid a chlustiau agored cyfeiriedig atynt, yn dylanwadu arnynt ac yn eu cyffroi. Pâr hyn i rai gollu eu hunanfeddiant ac ymddyrysu; â eu syniadau yn anrhefnus, a chollant eu gafael ar y llinyn oedd yn dal y meddyddrychau wrth eu gilydd, nes y maent yn syrthio yn llawer is na hwy eu hunain. Ond fel arall yn hollol yr oedd gyda Dr. Saunders. Teimlai yntau i'r byw bresenoldeb y dorf oedd ger ei fron, eithr dylanwadau y cyffro er ei wneyd yn fwy o feistr ar ei adnoddau; rhoddai iddo afael sicrach yn ei bwnc a dirnadaeth lawnach o hono, gwelai yn gyflymach ac yn gliriach y cymhariaethau mwyaf priodol i'w egluro; a pharai ei fod yn fwy medrus yn ei ddewisiad o eiriau. Sefydlai gydymdeimlad rhyngddo a'i wrandawyr mewn byr amser; deuai ef a hwythau i ddeall eu gilydd yn mron ar unwaith; ac oddiynod hyd ddiwedd y bregeth byddai y ddau yn llewyrchu ac yn adlewyrchu goleuni a gwres ar eu gilydd. Gwnai hyn, cofier, yn hollol ddiymgais. Clywsom ef yn dweyd lawer gwaith na thalodd fynud o sylw erioed i draddodiad; astudiaai yn ddyfal er d'od o hyd i'r gwirionedd; ond wedi ei gael gadawai y modd i'w draddodi i ysprydoliaeth y foment. Clywsom am rai, gyda mwy o feiddgarwch nac o fedrusrwydd, pan yn ceisio dadansoddi ei nodweddion fel pregethwr, yn gosod ei brif ragoriaeth i orwedd mewn perffeithrwydd celfyddyd (*art*). Y mae yn sicr na ddarfu i'r cyfryw ddeall yn mha le yr oedd cuddiad ei gryfder. Fel y sylwasom eisioes, astudiodd bob

celfyddyd braidd oedd yn is-wasanaethgar i'w weinidogaeth, ond pan yn pregethu ni feddyliai am un o honynt, nac am ddim ond ei bwnc, a'r gwrandawyr y byddai yn ei egluro iddynt a'i gymhwyso atynt. Ni fu yr un gweinidog yn Nghymru a llai o *art* o'i gwmpas na Dr. Saunders, yn yr ystyr arferol o'r gair. Perffeithrwydd natur oedd ei eiddo ef; cawsai ei gynysgaeddu yn helaeth a phob dawn anhebgor er ei wneyd yn feistr y gynulleidfa; ac yr oedd ei areithyddiaeth mor naturiol a'r dwfr yn llifo.

Nodweddid ei weinidogaeth gan eglurdeb anarferol. Byddai ei lwybr, o ddechreu y bregeth hyd ei diwedd, fel y goleuni; yn wir goleuni ydoedd; oblegid pa beth bynag sydd yn egluro goleuni yw. Ni fyddai un amser yn cael ei golli mewn cwmwl, nac yn ymguddio mewn niwl. Nid oedd ei eglurder yn cyfodi oblegid ei fod yn arwynebol, ac yn cilio oddiwrth yr hyn sydd yn anhawdd ac yn ddwfn. Fel y tystiolaetha ei gyfeillion, hoffai ymgodymu ag anhawsderau; ymosodai arnynt gyda holl yni ei natur, a chafodd floeddio concwest uwchben aml i Goliath o anhawsder, yr hwn a gawsai ei lorio gan gareg oddiar ei ffon-dafll. Gorweddai yr achos o'i eglurdeb mewn dwy elfen. Yn un peth, yr oedd yn feddyliwr trwyadl. Ni ymfoddlonai ar gael cipolwg ar egwyddor; mynai ei holrain yn ei holl gysylltiadau; dilynai hi i bob byd ac i bob cylch, a cheisiai ddeall ei therfynau a'i pherthynas ag egwyddorion eraill. Peth arall, adnabyddai, ymron gydag anffaeledigrwydd greddf, y ffin sydd yn gwahanu yr hyn sydd wedi ei ddatguddio a'r hyn sydd yn bosibl i ddyn ar y ddaear ei ddirnad, oddiwrth yr hyn na ddatguddiwyd a'r hyn sydd anamgyffredadwy. O fewn cylch yr hyn sydd bosibl ei wybod, byddai yn feiddgar; synai rhai at ei feiddgarwch, ac ni phetrusent ei alw yn rhyfyg. Ond unwaith y deuai wyneb yn wyneb a dirgelwch dwyfol adnabyddai ef ar unwaith; tynai ei het yn wylaidd, ac ymostyngai yn addolgar yn ei bresenoldeb, a phwyntiai ef allan i'r gynulleidfa, gan geisio ganddi hithau beidio llygadrythu mewn cywreinerwydd

crawdol, ond yn hytrach synu ac addoli. Gan ei fod mor glir, methai rhai a chanfod ei fawredd fel meddylwr; tybient fod dyfnder yn golygu o angenrheidrwydd aneglurder a thywyllwch; a phriodolent ei boblogrwydd i swyn ei areithyddiaeth. Clywsom am engrhaifft nodedig o hyn pan oedd ar ymweliad ag America. Mawr oedd y disgwyliad am ei ddyfodiad, a'r sôn am dano yn mysg y Cymry fel prif bregethwr y genedl. Daeth i'r Gymanfa Gyffredinol a gynhelid yn Oak Hill, ac yr oedd y cynulliad yn fawr, tyrfa-oedd wedi dyfod ugeiniau a chanoedd o filldiroedd er mwyn ei glywed. Pregethodd yntau yn dra rhagorol, nes yr oedd y dosparth goreu o wrandawyr wedi cael gwledd o'r fath a garent. Ond yr oedd un hen wraig a ddaethai o bellder mawr, ac oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr, wedi cael ei siomi. "Ai dyna eich pregethwr mawr chwi?" meddai wrth un o flaenoriaid y Methodistiaid. "Ië," meddai yntau, "ac yr ydym yn falch iawn o hono." "Wn i yn y byd pwy fawredd ydych yn weled ynddo," meddai; "yr oeddwn i yn gallu ei ddeall o'r dechreu i'r diwedd." Y mae llawer yn Nghymru, fel yr hen Annibynwraig, yn tybio fod mawredd yn anwahanol gysylltiedig a thywyllwch. Yr oedd efe yn un o'r meddylwyr mwyaf; y mae yn amheus genym a wthiodd neb lawer yn mhellach i'r dwfn; ond yr oedd ei ddyfroedd bob amser yn loewon ac yn glir. Gan fod ei lais mor gyfoethog a soniarus, a'i ddawn traddodi mor rhwydd a swynol, a'i gymhariaethau mor fyw ac agos, ystyrid ef gan rai yn bregethwr arwynebol. Yn ein barn ni, anhawdd fusasai syrthio i gamgymeriad mwy. Nid oedd neb mwy medrus i dreiddio i'r dyfnderoedd, na neb yn gwneyd yn fwy mynych; cynwysai agos bob pregeth wirioneddau dyfnion wedi eu gwneyd yn syml ac eglur. Nodweddid ef gan eglurder yn anad dim, ac am fod y dwfr mor glir tybid nad oedd mor ddwfn ag ydoedd. Wrth efrydu y Beibl, gwelai ar unwaith y gwirionedd mawr arweiniol, mewn adnod neu baragraph, ac ymaflai ynddo gyda nerth a hawsder anarferol;

olrheiniai ei ystyr, a'i berthynas â'r gwirioneddau llai, ac o dan ddylanwad rhin ei athrylith, ymddangosai y cyfan fel gweledigaeth swynol a gogoneddus ger bron ei wrandawyr.

Rhoddei arbenigrwydd yn ei bregethau ar yr ochr ddynol i'r efengyl. Efallai mae efe oedd y pregethwr mwyaf dynol a welodd Cymru. Wrth ddweyd hyn nid ydym am awgrymu ei fod yn ddibris o'r dwyfol, nac yn ddiffygiol mewn gosod yr arbenigrwydd priodol arno yn ei weinidogaeth. I'r gwrthwyneb yn hollol. Yr oedd tragywyddol Dduwdod y Gwardwr bendigedig; dwyfoldeb yr oll o drefn yr iachawdwriaeth; yr angenrheidrwydd am weithrediadau yr Yspryd Glân i aileni a sancteiddio pechadur; yn nghyd a bod yr holl Ysgrythyr wedi cael ei rhoddi trwy ysprydoliaeth. Duw, yn erthyglau diamwys yn ei gredo; a phwysleisiai arnynt yn ei bregethau. Ond ni anghofiai yr ochr arall, ochr ddynol yr efengyl, fel yr ydym yn credu y gwneid yn ormodol yn Nghymru yn flaenorol i'w ddyddiau ef. Y peth mawr yn ngolwg y tadau oedd fod Iesu Grist yn Dduw. Gwir yr addefid ei fod yn wir ddyn, ond anaml y cyfeirid at hyny o gwbl yn y pwlpud; ni roddent y lle priodol i'r gwirionedd hwn yn eu gweinidogaeth, ac ni ddeallent y canlyniadau gogoneddus a ddeilliant oddiwrtho. I'n cyfaill yr oedd swyn diderfyn yn y ffaith fod Iesu Grist yn ddyn, yn ddyn perffaith, a'i alluoedd corphorol ac eneidol wedi eu dadblygu mewn modd heb fod yn anghyffelyb i'r eiddom ni, wedi cael Ei brofi gan y cyffelyb demtasiynau a ninau, ac wedi myned trwy yr un gofidiau. Ar y gwirionedd mawr hwn y seiliai gydymdeimlad tyner yr Arglwydd Iesu a'i frodyr ar y ddaear, Ei allu i'w cysuro ac i dywallt olew a gwin i'w harchollion. Teimlai fod rhyw gymhwysder arbenig ynddo i fod yn Farnwr am Ei fod yn Fab y Dyn. Hoffai olrhain gweithrediadau meddwl sanctaidd y Gwardwr yn ol deddfau ei feddwl ef ei hunan; dangosai Ef yn meddu yr unrhyw deimlad addolgar a'r saint yn y byd hwn, gyda'r eithriad o'r gwahaniaeth perthynas a fodolai rhyngddo Ef a'i Dad; yn gweddio ar Dduw fel ninau; yn gweithredu ffydd

arno; ac yn yr awr gyfyngaf erioed yn ymdafu ar Dduw yn nhywyllwch Calfaria, gan ddywedyd: "I'th ddwyllaw di, O Dad, y gorchymynaf fy yspryd." Ar y cyntaf, byddai rhywrai yn ei ameu am ei fod yn pregethu efengyl mor ddynol; drwgdybid ef o fod yn tueddu at Undodiaeth; ond gwelwyd yn fuan ei fod yn cyhoeddi yr ochr ddwyfol lawn mor ddiamwys; ac yr oedd pob drwgdybiaeth gyda golwg ar iachusrwydd ei gred wedi llwyr ddiffianu chwarter canrif cyn ei farw.

Hoffai feddwl am y nefoedd fel yn meddu elfenau mwy dynol nag a dybir yn gyffredin. Myfyriodd lawer ar y nefoedd, yn arbenig ar ol marwolaeth ei anwyl Mary. Dyfalai am natur y lle, ac am yr agwedd sydd yno ar "ysprydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd." Gofynai gwestiynau dwys gyda golwg ar eu dull o hanfodi yno, am eu gwaith, eu perthynas a'u gilydd, ac yn enwedig eu perthynas a'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc. Ni ryfygai dybio ei fod wedi dyfod o hyd i atebion ar y materion hyn; ond credai fod y gymdeithas yn fwy dynol nag y tybir gan lawer. Yn arbenig teimlai wrthnaws at y syniad mai lle o ddiogi yw y nef, ac mai bywyd o segurddod diwaith fydd yn cael ei fyw yno; maentymiai y bydd yno waith i bob gallu, yn gystal a mwynhad i bob awyddfryd; nad oes yr un creadur segur o fewn y llywodraeth ddwyfol; fod Duw Ei Hun yn gweithio hyd yn hyn, ac na bydd y saint yn y nef yn eithriad.

Credai yn drwyadl yn ysprydoliaeth y Beibl; tynai ei dduwinyddiaeth allan o hono, ac anogai bawb, yn arbenig pregethwyr ieuainc, i wneyd yr un peth. Byddai adnod yn derfyn iddo ar bob ymryson. Ond yr un pryd hoffai olrhain a darganfod yr egwyddorion a ddatguddir yn Ngair Duw y tu fewn i gylch ei natur foesol ei hunan; a'u cael yn *echo* i'r Ysgrhythyr yno. Clywsom ef yn condemnio un gweinidog galluog ac enwog, am ei fod yn ddiffygiol mewn gallu i wireddu (*verify*) gwirioneddau mawrion yr Ysgrhythyr yn ei gydwybod a'i galon ei hun.

Medrai ddwyn holl drysorau ei wybodaeth dan deyrnged i'w weinidogaeth. Yr oedd ei wybodaeth yn eang ac yn dra amrywiol. Efallai mai prin y gellir dweyd ei fod yn ddyn dysgedig, nac yn ysgolhaig mawr, yn yr ystyr gyffredin o'r gair; ni chafodd flas erioed ar olrhain gwreiddiau yr iaith Roeg; yr oedd yn orchwyl rhy sych ganddo; ac nis gallai ddarllen yr awdwyr hynafol yn yr ieithoedd clasurol. Er hyny, llafuriodd yn galed am wybodaeth mewn gwahanol gyfeiriadau ac mewn amrywiol gylchoedd, a bu yn llwyddianus iawn yn ei ymdrechion. Nid oedd nemawr o wybodaethau nad oedd i ryw raddau yn gydnabyddus a hwynt. A dygai yr oll a wyddai i wasanaethu y bregeth. Tynai ei gymhar-iaethau oddiwrth hanesiaeth henafol, oddiwrth gelf a gwyddor, o fywgraffiadau, ac allan o farddoniaeth hen a diweddar. Yr oedd yn medru dwyn athroniaeth yn gaeth i weinidogaeth Crist. Nid oedd dim tebyg i rodres neu arddangosiad o ysgolheigod yn ei weinidogaeth, eto yr oedd ei bregeth bob amser yn seiliedig ar ystyr mwyaf manwl a chywir o'r testyn yn yr iaith wreiddiol, ac yr oedd ei gweithiad allan a'i thraddodiad mor drwyadl ddysgedig a choeth, fel y daliai feirniad-aeth y glust a'r meddwl mwyaf gwrteithiedig, ac eto yn ddigon syml a phlaen i'r mwyaf anwybodus ac anwrteithiedig. Dygai efe ei holl addysg a'i wybodaeth o dan deyrnged i'w weinidogaeth; bedyddiai y cwbl yn yspryd yr efengyl, nes yr oedd ei bregethau, fel y traddodid hwynt ganddo ar rai prydiau, y cyfansoddiadau mwyaf gwirioneddol ddysgedig, a mwyaf prydferth a gorphenedig, a wrandawsom erioed; a dyma un elfen yn ei bregethu oedd yn ei wneuthur yn un o brif bregethwyr ei oes.

Yr oedd ei deyrngarwch i wirionedd yn ddiderfyn. Canfyddai y gwirionedd, credai y gwirionedd, ac am hyny pregethai y gwirionedd—y gwirionedd noeth digymysg yn y cariad o hono. Elai bob amser i lygad y ffynon am ddwfr y bywyd. Nid oes dim yn hynodi yr oes bresenol yn fwy nag ymchwil am wirionedd. “Beth yw gwirionedd?” ydyw y gofyniad

mawr mewn hanesiaeth a natur, mewn gwlad ac eglwys, mewn athroniaeth ac mewn duwinyddiaeth a chrefydd. Bu amser pan yr oedd *awdurdod* yn llywodraethu yn myd y meddwl, ond bellach y mae wedi gorfod trosglwyddo ei gorsedd a'i theyrnwialen drosodd i *wirionedd*. Ni chydnebydd yspryd yr oes unrhyw hawl ond yr hon sydd yn dyfod o uchel lys gwirionedd. Bu fel arall; condemniwyd Galileo am ddyweyd fod y ddaear yn troi, er ei bod yn troi mewn gwirionedd y pryd hwnw fel y mae yn bresenol. Ond erbyn hyn yr ymboliad yw nid beth ddywed Ptolemy, na Kepler, na'r Pab, ond beth yw y ffaith mewn seryddiaeth. Mewn duwinyddiaeth yr un fath, nid beth ddywed Athanasius, Awstin, Aquinas nac Anselm, ond beth ydyw gwirionedd. Gynt yr oedd gair Luther, Calvin, a Dr. Owen yn derfyn ar bob ymryson, ond bellach gofynir, hyd yn nod wrth ddarllen yr awdwyr tra galluog hyn, "a ydyw y pethau hyn felly?" Os ydynt, pob peth yn dda; os nad ydynt, nid yw yr awdurdod bersonol uchaf i'w chydabod yn wrthwynebol i eiddo gwirionedd. Nodweddid ei weinidogaeth yntau gan barch dwfn i wirionedd; ni chydnabyddai un awdurdod arall; pan y ceisid ei rwymo â chadwynau traddodiad ac awdurdod eglwysig a duwinyddol, drylliai hwynt fel y torai Samson raffau y Philistiaid.

Medrai wahaniaethu rhwng y gwirionedd ei hun a'r ffurf yn yr hon y cyflwynid ef; adnabyddai ef ar ol ei ddiosg o'i wisg arferol a'i wisgo a newid dillad. Clywsom ddiweddar Brif-athraw Trefecca yn dweyd unwaith fod llawer wedi dysgu'r "Hyfforddwr" ar dafod nad oeddynt yn ei ddeall o gwbl, a'r ffordd y daethai efe i wybod hynny oedd trwy ofyn y cwestiynau mewn geiriau gwahanol i eiddo y llyfr, ac ar ol gofyn felly nis gwyddent beth i ateb. Yr oeddynt yn adnabod yr ymadroddion, ond yr oedd eu cynwys yn ddyeithr hollol iddynt. Tybia llawer eu bod yn deall athrawiaeth mewn duwinyddiaeth am eu bod yn cofio y geiriau a'r termau arferol, a phe clywent yr un athrawiaeth

mewn ymadroddion a chymhariaethau eraill, dywedent mai cyfeiliornad ydyw. Ni syrthiai efe un amser i'r amryfusedd hwn. Rhaid i rai gael yr Iawn yn y ffurf o foddlonrwydd i ddeddf, a'r ddeddf hono yn ddim amgen na chyfraith wladol yn gofyn troseddwr yn llys barn y wladwriaeth, cyn y bydd yn Iawn iddynt hwy. Medrai efe weled yr Iawn yn y gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear a marw, er mwyn dwyn ffrwyth lawer, yn gystal ag mewn erlyniad gwladol; ac yn y weithred gymwynasgar o un yn rhoddi ei einioes dros ei gyfeillion, ac ni wnaeth neb fwy tuag at gadw hanfod gwirionedd yr efengyl yn ei burdeb yn y pwlpudd Cymreig, er colli llawer o'r hen ffurfiau yn y rhai yr adnabyddid ef gynt. Nis gwyddom pa gyfnewidiadau sydd o'n blaen yn y dyfodol, ond os cawn ddyinion wedi eu hanfon gan Dduw a chenadwri yr efengyl at eu hoes eu hunain, fel yr anfonwyd Dr. Saunders, nid ydym yn anobeithio am grefydd a duwinyddiaeth ein cenedl.

Perthyna i waith dysgawdwyr crefyddol ddangos y gwahaniaeth rhwng y cyfnewidiol a'r anghynewidiol, rhwng y cysgod a'r sylwedd, rhwng y trysor anmhrisiadwy a'r blwch fyddo am dano, rhwng hanfod ac enaid y datguddiad dwyfol a'r corff yn yr hwn y mae yn preswyllo, rhwng y ddameg a'r gwirionedd sydd i'w ddysgu drwyddi, rhwng y gwirionedd yr hwn sydd yn aros yr un, a'r wedd arno, yr hon sydd yn cyfnewid yn barhaus. A phan y dêl hanes crefydd yn Nghymru yn ein hoes ni i gael ei ysgrifenu, yr ydym yn credu na fydd un yn fwy amlwg yn hyn na'n hanwyl gyfaill, y Parch. D. Saunders, D.D. Yr oedd ei deyrngarwch i wirionedd yr efengyl yn ddiderfyn; llafuriodd yn galet ac yn onest i'w ddeall, ac i'w bregethu i eraill, a chollai ei fywyd drosto. Nid oedd poblogrwydd na chymeradwyaeth dynion ond llai na dim ac na gwegi yn ei olwg mewn cymhariaeth i ffyddlondeb i'r efengyl yr anfonwyd ef gan Dduw i'w phregethu i genedl y Cymry.

Gosodai wedd ymarferol a phrofiadol ar y gwirionedd. Rhaid oedd iddo ef allu canfod y gwirionedd fel ffaith sylweddol yn y

byd ysprydol cyn y gallasai ei bregethu yn sylfaen bywyd i bechadur. Astudiaid nid yn unig y gwirioneddau ond dyn hefyd, a'r gwirioneddau mewn cysylltiad â dyn, ac yn y Dyn â'r Duwdod ynddo yn trigo. Cyn eu cyhoeddi i eraill hefyd, mynai eu sylweddoli yn ei brofiad mewn cymundeb personol â Duw. Ni welsom neb erioed a'i bregethau yn fwy o ran o hono ei hun. Yr ydoedd yn un o'r cymeriadau mwyaf uniawn a hawddgar a phrydferth, a tharddai prydfferthwch a hawddgarwch ei gymeriad o'r ffaith ei fod yn rhodio yn wastadol mewn cymundeb â Duw anfeidrol hawddgar, ac yn edrych ar brydferthwch yr Arglwydd. Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra y Gwaredwr oedd yn ei swyno ef, ac â hyn y swynai yntau y cynulleidfaoedd. Dywedai Dr. Charles Edwards, yn ei bregeth angladdol iddo yn Aberdar, fod yn rhaid cael cymeriad Dr. Saunders i draddodi ei bregethau a'u cyfansoddi hefyd. Ni ddywedwyd erioed ddim mwy cywir, oblegid yr oedd ei holl enaid yn ei bregethau, a thywalltai ei yspryd ei hun drwyddynt i ysprydoedd ei wrandawyr. Fel Moses ar ben Sinai, cyn ymddangos ger bron cynulleidfa Israel, elai i mewn i'r presenoldeb Dwyfol i ddal cymundeb â'r anweledig, ac yno byddai ei holl enaid a'i gorff hefyd yn cael eu mwytho gan hedd ac uniondeb y Jehofah tragwyddol, a chan Ei gariad a'i ras yn Iesu Grist; o dan y dylanwad hwn y byddai yn cyfansoddi y bregeth, ac yn ei chyfoethogi â gwirioneddau yr efengyl; a'i brofiad personol ef o'r gwirioneddau, yn cael ei lefaru dan yr un eneniad, ydoedd y bregeth. Byddai mor hawdd ysgar ei dduwioldeb oddiwrth ei berson ag ysgar ei bregeth oddiwrth ei gymeriad duwiolfrydig. Gosodai hyn o angenrheidrwydd wedd ymarferol a phrofiadol ar ei holl bregethau; clywsom un gwrandawr craffus yn dweyd na wyddai efe i ba beth yr oedd llawer o athrawiaethau yr efengyl da, nes clywed Dr. Saunders yn eu pregethu, ond trwy ei weinidogaeth ef cafodd ar ddeall fod iddynt eu hamcan ymarferol, a bod iddynt wasanaethgarwch gogoneddus.

Puredd ac arucheidd ei amcanion. Ar ol ceisio desgrifio ei

ddull o feddwl ac o egluro gwirioneddau mawrion yr efengyl i'r deall, yr ydym yn awr am gynyg darlunio, pe gallem, wedd foesol ac ysprydol ei gymeriad fel pregethwr. Hwn ydyw y cysegr sancteiddiolaf, a chyda gwylder y dymunem anturio iddo. Yn y cysegr cyntaf y mae y galluoedd meddyliol, fel eu gelwir, yn gwasanaethu, ac ni chaniateir iddynt hwy fyned y tu fewn i'r wahanlen; y galluoedd moesol yn unig sydd yn meddu hawl i weini yn nghysegr sancteiddiolaf yr enaid. Yn hwn y mae y drugareddfa a'r Shechinah, arwyddlun presenoldeb y Jehofah anweledig; yma hefyd y mae teyrngadair yr yspryd. Galwai rhai o'r hen athronwyr yr adran yma o'n natur yn alluoedd gweithredol a moesol, oblegid mai hwy sydd yn rhoddi y galluoedd meddyliol ar waith, ac i fesur yn llywodraethu eu holl weithrediadau. Oddiyma hefyd y mae y cymhellion a'r amcanion oll yn deilliaw. Pe caem olwg deg a chlr ar ochr foesol cymeriad gweinidogaethol ein cyfaill, byddai yn hawdd cyfrif am ei lwyddiant gyda gwaith mawr yr efengyl, o herwydd yma yn ddiâu yr oedd cuddiad ei gryfder, sef yn y cydnawsedd a fodolai rhwng holl gynheddfau ei enaid a'r gwaith mawr yr ymgyflwynasai iddo. Fel y mae cyfuniad gwahanol fathau o nwy yn yr un fflam yn ei gwneuthur yn anarferol danbaid, felly yr oedd cydweithrediad ei alluoedd meddyliol a moesol ef yn ei bregeth yn cynyrchu goleuni eithriadol ddisglaer a gogoneddus. Anmhosibl ydoedd aros am amser yn ei gymdeithas heb deimlo puredd ac archeledd ei amcanion. Yr oedd cariad hunan-aberthol ei Arglwydd, a gras anfeidrol Duw ynddo, wedi darostwng ei holl natur, wedi lladd pob hunan-gais, wedi gosod ei ewyllys mewn cydgorriad hollol âg ewyllys Duw, ac wedi traddodi holl gynheddfau ei enaid a synwrau ei gorff i ffurf yr athrawiaeth a bregethai. Yr oedd ei ffydd gref—ffydd oedd yn ganfyddiad ysprydol o'r anweledig a'r tragywyddol, yn ei sylwedd a'i bwysigrwydd—a'i ddybenion grasol ac aruchel, yn ysprydoli ei feddwl treiddgar, cwmpasog, tywysogaidd, i draddodi y

gwirioneddau oeddynt wedi cael eu datguddio iddo mewn cymundeb agos a Duw.

Gan fod iachawdwriaeth y byd yn sylfaenedig ar aberth iawnol Mab Duw, mae yn anheborol angenrheidiol i bregethwr, er bod yn wir lwyddianus, ymlaen pob peth, i gyfranogi o'r meddwl yma, yr hwn hefyd oedd yn Nghrist Iesu, a'r olygfa fwyaf alaethus dan y nef ydyw gweinidog efengyl hollol amddifad o hono. Dichon fod y cyfryw yn cael ei orfoli gan lu o rai cnawdol a hunanol fel efe ei hun, ond y mae y fath olygfa yn ddigon i beri i angylion wylu. Pregetha hunan-ymwadiad yr Hwn a ddiodefodd gyfryw ddywedyd yn Ei erbyn gan bechaduriaid, ond gwae yr hwn a ddywedo air yn ei erbyn ef. Ceidw ddigofaint, a gwylia am gyfleusdra i ad-dalu am flynyddoedd, ac yn ei syched am anrhydedd ac awdurdod, ysbeilia Duw Ei Hun o'i ogoniant. Dyma hanfod pechod—y pechod gwreiddiol a phob pechod arall—a'r anhawddaf i'w ddiwreiddio o'n natur o bob pechod. Nid a y rywogaeth hwn allan ond trwy weddi ac ympryd. Nid oes dim yn ddigon nerthol i orchfygu hunan-gais calon falch dyn ond profiad o gariad hunan-aberthol Iesu Grist, ac ymgysegriad gwastadol a gonest i Dduw yn y dirgel. Ymroddodd Dr. Saunders i hyn gyda chydwybodol-rydd a dyfalbarhad nes cael buddugoliaeth pur lwyr ar elyn mawr y weinidogaeth. Costiodd yr ymdrech yn ddrud iddo, ond trwy nerth Duw, ymdrechodd nes gorchfygu. Hunan-glod oedd y gelyn a alwai y diweddar Barch. Morgan Howell yn "gythraul gwyn," yr hwn oedd yn ei boeni weithiau yn y pwlpudd trwy guro ei gefn, a dweyd, "*Well done, Morgan,*" wrtho, ac nid oes un dylanwad ddaw o uffern ag sydd yn fwy llwyddianus i ddifa gwir nerth y pregethwr. I'r dyn hunan-geisiol nis gall fod ystyr dwfn, os ystyr o gwbl, i'r efengyl sydd a'i sail mewn hunan-aberth. Iddo ef nid yw angau y groes yn ddim amgen nag ymadrodd prydfferth, neu i'r eithaf yn ddim ond drychfeddwl ardderchog a phoblogaidd mewn pregeth, heb fod ganddo fwy o ddylanwad ffaith ar ei fuchedd

nag oedd gan brophwydoliaeth odidog Balaam am Grist ar ei galon ef i'w rwystro i garu gwobr anghyfiawnder. Ond i'r dyn nad yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ond yn ymgysegru yn hollol i Dduw megis y sancteiddiodd Crist Ei Hun, mae aberth Calfaria fryn y sylwedd mwyaf sydd mewn bod, a'r gallu cryfaf ar ei galon a'i ymarweddiad.

Myn calon hunanol weithiau bregethu ei syniadau ei hun i mewn i aberth y groes, ac edrycha ar wasanaeth dwyfol y Gwarddwr yn rhoddi Ei einioes yn bridwerth dros lawer, fel mwy o wasanaeth iddo Ef Ei Hun nag i neb arall. Peryglus ydyw gweled neb nad ydyw wedi ei fedyddio yn drwyadl ag yspryd hunan-ymwadol y grefydd Gristionogol yn ymaflyd yn y fath adnod a Heb. xii. 2: "Gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a pherffeithydd ein ffydd ni, yr hwn yn lle," neu am "y llawenydd a osodwyd iddo a ddiodefodd y groes gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorsedd-fainc Duw." Esbonir yr adnod hon weithiau yn rhy debyg i anturiaeth feiddgar, gyfrwysgall, lwyddianus, ar y *Stock Exchange*, trwy yr hon y mae yr anturiaethwr ei hun yn fwy o enillwr na neb arall. Gwir fod dioddefaint y groes yn anturiaeth feiddgar, i.e. dwyfol feiddgar, ddoeth a llwyddianus, ac yn ddiau fe fydd y llawenydd a osodwyd iddo, pan y sylweddolir ef yn llawn, yn fwy na digon fel cyfnewid am y dioddefaint a'r gwaradwydd i gyd, ond y mae natur foesol yr anturiaeth hon yn ymddibynu ar natur foesol "y llawenydd a osodwyd iddo." Yn ol Dr. Saunders, yn ei bregeth angladdol i Dr. L. Edwards, Bala, ni fydd y llawenydd hwn yn ddim amgen na'r "*luxury* o achub colledigion." Difyna ddychymyg un ysgrifenydd am y Creawdwr, sef Ei fod wedi gwneyd un aderyn anfarwol, a'i ollwng i fyned ar dragywyddol hynt trwy yr eangder, bod rhywun wedi gollwng saeth oddiar fwa at yr aderyn anfarwol hwn, a bod y saeth wedi glynu dan ei fron. Y mae o hyd yn fyw, ac eto yn marw, ac i fod felly byth. Pwy na roddai y geiniog ddiweddf ar ei elw i dynu'r saeth o fron yr aderyn anfarwol yn hytrach nag iddo gael ei boeni

ganddi am dragywyddoldeb? Os ydyw tynu saeth o fron yr aderyn anfarwol yn rhoddi y fath fwynhad i galon dyner, beth fydd y llawenydd dwyfol o gael tynu y pryf na bydd marw a'r tân na ddiffydd o fynwes dyn—dyn sydd yn blentyn Duw, yn greadur galluog iawn, yn anfarwol, ac yn ddiodefydd—ac nid o fynwes un dyn, ond o fynwesau torf na ddichon neb eu rhifo, o bob cenedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd. Rhaid y bydd y llawenydd hwn yn wledd dragywyddol i'r Duw sydd yn anfeidrol mewn gras. Dyma wobwr hunan-aberth Mab Duw. Hwn oedd y meddwl oedd yn Nghrist Iesu, pan yn ymwadu a chydaddoldeb a Duw ac yn cymeryd arno agwedd gwas. Hwn oedd bwriad grasol Duw yn anfon Ei Fab i'r byd i gadw pechaduriaid, a chymeradwyaeth benaf y Tad i'r Mab fydd cydlawenhau ag Ef fod y bwriad hwn wedi ei sylweddoli. Gwir y

“Bydd miloedd o saint ac angylion, yn dorf ogoneddus yn nghyd,
Yn canu rhyw anthem dragywyddol o foliant i Brynwr y byd.”

Ond ni bydd eu cân hwy ond adsain wan o orfoledd a llawenydd y digrêedig Dri yn Un yn achubiaeth colledigion. Gwir na fydd Duw uwchlaw derbyn eu cân gyda boddhad, ond tybiaeth annheilwng am yr Anfeidrol ydyw y bydd Efe yn byw yn dragywyddol ar ganmoliaeth a diolchgarwch Ei greaduriaid. Y ffaith o'u hachub fydd yn fythol wledd iddo Ef. Dyma syniad mawr bywyd a gweinidogaeth Dr. Saunders, hwn oedd canolbwynt ei dduwinyddiaeth, yr agoriad i holl drysorau yr efengyl, yr allwedd i ddatgloi y dirgeledigaethau oll, a hwn oedd yn rhoddi ystyr a chyfeiriad i'w holl lafur gyda gwaith mawr yr efengyl.

Prif destyn ei weinidogaeth am yr ugain mlynedd diweddfar ydoedd rhwymedigaeth y saint i fyw, nid iddynt eu hunain, ond i'r Hwn a fu farw drostynt. I hyn y dylai pob Cristion fyw. Mynai efe sylweddoli marwolaeth y groes fel dwyfol ffaith yn nyfnderoedd ei ymwybyddiaeth. Gwyliai arno ei hun, profai ei amcanion gyda'r gofal a'r manyldra mwyaf, a barnai ei ddybenion gyda phob gonestrywydd ag yr oedd ei

enaid yn alluog o hono, ni arbedai deimladau hunanol ei galon, pan y caffai afael arnynt, ac ni orphwysai nes y byddai ei holl natur wedi ei darostwng i ufudd-dod Crist. Arosai yn ngwres Ei gariad anfeidrol Ef, ac yn nghymdeithas Ei ddioddefiadau, nes cael ei gydffurfio a'i farwolaeth Ef. Yr oedd yr yspryd hwn yn anadlu bywyd dwyfol i'w holl gyflawniadau crefyddol, ac i'w deimlo, gan y rhai a fedrai gyfranogi o hono, ymhob cylch y byddai yn troi ynddo. Yn ei gystudd diweddfaf, cyfansoddodd bregeth ar y testyn: "Pa fodd y gallwch chwi gredu, y rhai ydych yn ceisio gogoniant gan eich gilydd, ac heb geisio y gogoniant sydd oddiwrth Dduw yn unig?" (Ioan v. 44), a'r mater oedd, "Anallu dynion sydd yn ceisio eu gogoniant eu hunain i ddeall efengyl Crist." Pan ddywedid wrtho fod yn anhawdd i ddyn ddeall ei gymhellion ei hun, "Nac ydyw," meddai, "ddim yn anhawdd iddo ddeall pa un ai ei lais ef ei hun, ynte llais Duw y mae am i'r bobl glywed."

Pan yr oedd y byd hwn yn cilio, a thragywyddoldeb yn agoshau, yr oedd yn berffaith dawel gyda golwg ar ei achos ysprydol ei hun; nid oedd hwnw yn pryderu dim arno, oblegid yr oedd yn cymeryd yn ganiataol mai i'r nefoedd yr ydoedd yn myned, ac yr oedd wedi ymgymodi a phob ffurf bosibl ar y tragywyddoldeb mawr, er ei feithder diddiweddfaf, yn Iesu Grist; ond yr oedd dyrchafu ei Geidwad, ac achub ei gyd-ddynion, yn ddymuniad angerddol yn ei galon nos a dydd. Gweddïai ar ei Dad nefol, gydag ymostyngiad gwylaidd, am hamdden i gael ysgrifenu ychydig am Ei Fab Ef, er cynorthwyo y byd i'w adnabod, ar ol iddo ef ddistewi yn angau. Ofnai fod rhai yn pregethu Crist heb Ei adnabod, o leiaf heb weled y nodweddion mwyaf prydferth yn Ei gymeriad. "Maent wedi cael gafael ar ryw hen ddarlun aneglur o Iesu Grist," meddai, "ac yna yn llanw y manylion i mewn eu hunain, yn lle y gwir Iesu o Nazareth. Gall pob gwir bregethwr ddweyd—angenrhaid a osodwyd arnaf, a gwae fi oni phregethaf yr efengyl." Yna gofynai, "Paham

yr wyf fi wedi cael fy nghau i fynu yn y fan yma? Beth fedraf wneuthur yn y fan hon? Dysgu dy gydnabod Di yn well, a geudeb y syniadau anghywir y mae dyn yn dueddol iawn i lynu wrthynt." Ar ol hyny torai allan i weddio yn y geiriau canlynol: "O! Arglwydd, ti wyddost fy mod i wedi ymdrechu bob amser i ddal y goleu fel y byddai i'r bobl Dy weled Di, yn lle hyny y maent yn edrych arnaf fi, ac yn dywedyd, dyna bregethwr! dyna lais! Os nad oes ffordd arall i'w dwyn i'th weled Di, O! Arglwydd, tafi fi i lawr yn hollol, ond i Ti, Arglwydd, Dy Hunan fy nghodi drachefn." Carai ei wrandawyr yn angerddol. Achos gwrandawyr yr efengyl yn Nghymru oedd yn pwysu drymaf ar ei feddwl y dyddiau diweddfaf y bu byw. Ychydig cyn i'r trymder angeuol diweddfaf ei orchfygu, mynai gymorth i droi ar ei liniau i weddio drostynt: "Dilyn hwy, Arglwydd," meddai, "dilyn hwy a dylanwadau Dy Ysryd. Na âd hwyl, O Dduw!" Ei gariad angerddol tuag at Dduw a dynion oedd ffynhonell fawr y serchogrwydd oedd yn llanw ei natur bob amser. Hawddgarwch a mwynder Duw oedd yn denu ei galon ef ei hun, a hyn oedd yn peri ei fod yntau yn medru denu pawb a'i weinidogaeth. Medrai yru yr efengyl i'n calon yn fwy effeithiol nag y gwnai nemawr o bregethwyr blaenaf ein cenedl, ac yr ydym wrth ysgrifenu y nodiadau coffadwriaethol hyn yn cael cryn drafferth i gadw teimlad o fewn terfynau. Byddai yn hawddach o lawer i ni ddefnyddio iaith fwy eithafol heb droseddu argyhoeddiad y gydwybod; ond gan fod yn bosibl yr ystyriai rhai hyny yn organmoliaeth, dewisasom ymatal er ysgrifenu yr ychydig linellau hyn fel beirniaid yn fwy nag fel edmygwyr; ond goddefer i ni ddweyd wrth derfynu, ein bod yn teimlo yn fwy dyledus iddo ef fel dysgawdwr crefyddol nag un arall y daethom i gyffyrddiad ag ef erioed, a dymunem fawrhau Duw ynddo! a'r Duw a'i cododd a godo eraill tebyg iddo.

PENOD XIII.

—:O:—

EI GYSTUDD, EI ANGAU, A'I GLADDEDIGAETH.

CŒIR fod rhyw swyn nefolaidd hyd yn nod yn ngwely angau y fath anwyl-ddyn sanctaidd, aruchel ei fyfyrdodau a'i brofiad, a'r Parch. David Saunders, D.D., a bu calon cenedl y Cymry, mewn cymysg deimlad o bryder a gobaith, yn hofran o'i amgylch am chwech mis. Er deall fod llwyr adferiad yn annichonadwy, yr oeddynt yn parhau i hyderu y caffai aros am ychydig yn ein plith, i wasanaethu fel cyfrwng cymundeb rhyngom a'r byd mawr ysprydol yr ydym yn ddeiliaid o hono, ac mor dueddol i'w anghofio; ond bellach, y mae efe wedi myned drosodd yn llwyr i'r wlad yr oedd ei ymarweddiad ynddi drwy ei oes. Iddo ef ei hun, nid oedd y cyfnewidiad yn annisgwyladwy er's amser maith. Gwelsom, mewn llythyr a ysgrifennodd oddeutu tair blynedd cyn ei farwolaeth, at ei anwyl gyfaill, a blaenor hynaf eglwys ei ofal, sef Mr. T. Phillips, hynaf, Y.H., Abertawe, y frawddeg ganlynol: "Dyma ddechreu y diwedd, ac y mae bellach yn y golwg." Yr oedd ar y pryd wedi myned am gyfnewidiad a gorphwysfa i Malvern, ac wedi bod yn ymgynghori a Dr. Blake, Birmingham, meddyg tra enwog, ag sydd wedi gwneuthur anhwylderau yr arenau yn un o brif destynau ei efrydiaeth; ffrwyth yr ymgynghoriad oedd y llythyr uchod, a'r sylw difrifol oedd ynddo. Ar ol dychwelyd adref y tro hwnw, dywedai wrth ei gyfeillion mwyaf mynwesol, y byddai efe yn ei fedd yn mhen oddeutu dwy flynedd. Yr oedd ei wybodaeth fanwl o'r corff dynol, a'r clefydau y mae yn agored iddynt, yn peri fod celu y perygl rhagddo yn anmhosibl.

Er mynych wendid glynodd wrth ei waith—ei hoff waith, sef pregethu yr efengyl—hyd y Sabbath cyntaf yn Ebrill, 1892,

ac nid oedd yn hawdd ganddo roddi i fyny y pryd hwnw. Gartref yr oedd i bregethu, a darfu i'r eglwys yn garedig fynu brodyr i'w gynorthwyo, neu, yn hytrach, i bregethu yn ei le y Sabboth hwnw, ac yntau yn cael eistedd i lawr i wrando, a dyma y tro diweddfaf yr ymddangosodd yn mysge pobl ei ofal. Dydd Mawrth canlynol, ar ddymuniad yr eglwys, yr hon a roddodd swm anrhydeddus yn ei logell, cychwynodd am gyfnewidiad, a seibiant i orphwys, yn y gobaith y cai ychydig adnewyddiad drachefn. Yn gyntaf oll, aeth i ymgynghori a Dr. Blake, gan benderfynu myned i'r lle y byddai yn ei gynghori i fyned iddo. Leamington ydoedd y lle hwnw, ac yno cymerwyd ef yn glaf iawn, gan enynfa yr ysgyfaint. Ciliodd y dolur hwnw yn fuan, ond nid cyn cynhyrfu yn enbyd yr hen afiechyd. Pan yr ydoedd i bob ymddangosiad yn marw, cafodd feddyginiaeth gan feddyg a chyfaill o Abertawe, a roddodd iddo ryddhad, ac a wnaeth rywbeth tebyg iawn i estyn ei einioes o ddiwedd mis Mai hyd Hydref 19eg, pryd yr ymadawodd a'r fuchedd hon, er pob dyfais feddygol. Hwyllo teg iawn a gafodd am y pum' mis diweddfaf. Yr oedd mewn tangnefedd heddychol, a'i sirioldeb-gynt, a'i wen ddenol, wedi eu llwyr adferu. Yr oedd braidd yn hollol ddiben, ac yn berffaith ddedwydd. Teimlai ddyddordeb yn yr holl ddigwyddiadau gwladol ac eglwysig, ond yr oedd ei wedd dawel synfyfyrgar yn ein hadgofio yn fynych am y ffugr brydferth sydd gan Goldsmith am gymeriad cyffelyb—y mynydd uchel yn canu yn iach i'r ystormydd oll oddeutu haner eu uchder, a'i ben mewn tawelwch tragwyddol. Felly yntau, yr oedd ei brif fyfyrnodau a'i obeithion oll yn tawel artrefu yn y nefoedd.

Ni soniai am farw, ac nid oedd yn meddwl nemawr am dano. Syn-syllai yn barhaus i dragwyddoldeb, yno yr ydoedd yn byw, ond dibwys ganddo ydoedd y cyfnewidiadau oedd rhyngddo a'r byd hwnw. Un nos Sabboth, yn Aberdar, pan oedd nifer o frodyr a chwiorydd wedi yngynull i'r tŷ i gyd-addoli ag ef, cododd gwr y llen, a chawsom gipdrem ar ei brofiad crefyddol. "Diolch yn

fawr i chwi am ddyfod," meddai, "ond ni ddaethoch a dim newydd i mi, nid ydych wedi gwneyd dim yma heno nad ydwyf wedi wneyd ganwaith fy hun, ac yn parhau i'w wneyd yn gyson. Mae yn dda genyf eich hysbysu nad wyf yn byw yn dlawd. Nid wyf mewn un modd dan draed amheuon ac ofnau; yr wyf yn byw mewn awyr glir, ddigymylau hollol, uwchlaw iddynt oll, ac yn cymeryd yn ganiataol mai i'r nefoedd yr ydwyf yn myned, a gobeithio nad wyf yn camsynied. Yr ydwyf yn rhyw haner cysgu mewn diofalwch perffaith. Bum am wythnosau yn methu cysgu o ran fy nghorff, ond yn awr yr ydwyf yn medru cysgu yn rhagorol, cysgu gormod o bosibl, cysgu o ran fy nghorff, a chysgu hefyd o ran fy meddwl, heb ofalu am ddim. Yr ydwyf wedi bod yn pryderu dipyn ac yn meddwl llawer am dragywyddoldeb, ac am lawer gwedd bosibl ar dragywyddoldeb. Nid wyf heb dybied y posibilrwydd i ni fyned trwy gyfnewidiadau lawer yn y byd hwnw; cyfnewidiadau ddichon fod yn gymaint a marw—nid yn hollol yr un fath o bosibl, ond eto yn gymaint *cyfnewidiad* a marw—marw unwaith, dwy waith, tair gwaith, a phedair gwaith, ac o bosibl ganwaith; mae tragywyddoldeb yn faith iawn. Dichon y bydd llawer ffurf ar fodolaeth yn y byd hwnw, gan y byddwn ynddo yn ddiddiwedd, ond yr wyf bellach wedi gallu ymgymodi a thragywyddoldeb ar ei hyd, ac a phob ffurf ddichonadwy arno, yn Iesu Grist. Yr wyf yn meddwl ei mentro hi yn *right* dawel heb ofni dim; gobeithio nad wyf yn twyllo fy hun." Nid ydym yn gallu ysgrifenu ond y geiriau. Yr oedd rhywbeth yn y llefariad o honynt nas gallwn anghofio byth.

Naturioldeb dirodres a serchogrwydd a'i hynodai yn ei fywyd; hyn hefyd a'i nodweddi yn ei farwolaeth. Yr oedd y fath hawddgarwch yn llanw ei enaid fel yr oedd cymdeithas ei frodyr mewn Cyfarfod Misol neu Gymdeithasfa yn wledd a garai yn fawr. Pan y cynhelid Cyfarfod Misol yn Aberdar, ac yntau yn rhy wan i dderbyn llawer i'r tŷ, mynai osod ei gadair mewn man cyfleus wrth y ffenestr iddo gael eu gweled yn cerdded yr heol yn ol ac ymlaen i'r capel, a

dywedai y chwenychai yn fawr fod gyda hwy a chyda'r gwaith. Rhaid oedd iddo gael anfon gair i'r Gymdeithasfa yn Llanfairmuallt, ac i'r Gymanfa Gyffredinol yn Machynlleth. Pan y taenwyd y newydd, chwe' diwrnod cyn ei farwolaeth, ei fod lawer yn wanach, aeth llu o gyfeillion o Abertawe ac Aberdar i Benarth i'w weled. Erbyn iddynt gyraedd yr oedd yn well. Ysgydwai law yn siriol, a gwenai yn nefolaidd ar bob un o honynt, yn frodyr a chworydd; "Mae y rhai hyn oll yn werth eu pwysau o aur," meddai. Ni welsom ei wynebpryd erioed yn ymddangos yn fwy hawddgar a gwirioneddol hardd a gogoneddus na'r tro hwn.

Mor bell ag y gallesid deall, symudwyd ef heb iddo brofi marwolaeth. Haner cysgu yr ydoedd am rai diwrnodau cyn ei ymddatodiad, ac eto yn ymwybodol hyd y diwedd. Atebai ofyniadau a roddid iddo, ei fod yn hollol ddiboen, yn berffaith ddedwydd, ond yn wan. Cerddai yr anadl yn rhydd, esmwyth, a distaw, a safodd heb fod y rhai oedd yn yr ystafell yn gwybod yn gywir pa bryd. Yr oedd ei anwyl briod, yr hon a'i gwylasai fel angel gwarcheidiol nos a dydd, braidd yn ddidor, wedi troi ei chefn, ac erbyn iddi ddychwelyd i'r ystafell, deallwyd fod ei yspryd wedi cymeryd ei aden. Ymddangosai yn naturiol wedi iddo farw. Yn mhen deuddeg awr ar ol ei ymadawiad, safai nifer o gyfeillion uwchben ei babel ddaearol, ac amheuent a ydoedd y preswlydd wedi ymadael, a mynodd un o honynt ddal y drych, er profi a oedd yn anadlu ai nad oedd, ond yr oedd y peirianau oll wedi sefyll, a'r pregethwr fu'n swyno cenedl gyfan a'i hyawdledd, wedi teui yn nistawrwydd marwolaeth.

Cafodd gladdedigaeth tywysog. Mwynhaodd yn ei fywyd bob anrhydedd fedrai y Cyfundeb gyflwyno iddo. Safodd yn urddasol yn ffrynt ei bwlpudd am yn agos i ddeugain mlynedd, ac yn y Cyfarfodydd pregethu a'r Cymdeithasfaoedd, nid oedd neb a geisid yn fynychach. Bu yn Ysgrifenydd yr Athrofa, a'r Gymanfa Gyffredinol, yn Arholydd yr Athrofa, ac yn Arholydd Ymgeiswyr am Ordeiniad yn y ddwy dalaeth; yn traethu ar "Natur Eglwys" yn y Dê, ac yn "traddodi y Cyngor" yn

y Dê a'r Gogledd; ac yn yr olaf pan yr oedd yn byw yn y Deheudir, yr hyn sydd yn bur eithriadol. Bu yn Llywydd y Gymdeithasfa, ac etholwyd ef i gadair y Gymanfa Gyffredinol yn 1876, pan yn 46 mlwydd oed, oedran ieuangach na neb arall o'i flaen, nac ar ei ol chwaith hyd yn hyn. Yr oedd ei gladdedigaeth mewn cydgoriad a hyn oll, ac yn goron yr anrhydedd a gafodd yn ei fywyd. Bernid fod yn bresenol o chwech i saith mil, dywed rhai ddeng mil. Gosodasid yr arch yn Nghapel Bethania, Aberdar, y nos flaenorol, ac yn y boreu, agorwyd y drysau, i roddi cyfleu i bawb a garai fyned heibio i syllu mewn distawrwydd arni. Ar gauad yr arch yr oedd yn gerfiedig: "*David Saunders, Born May 20, 1831; Died October 19, 1892.*" Bu miloedd yn syllu ar yr arch, a thywalltwyd llawer deigrin o hiraeth yno. Wylai y pregethwr hybarch yn y pwlpudd nes methu tori geiriau, a wylai pawb gydag ef o *hiraeth*. "Fu Dr. Saunders erioed yn gryfach na heddyw," ebai un wrth edrych ar y miloedd; naddo, yn sicr, a chryfder tynerwch oedd y cryfder hwnw. Ond fel gyda'i weinidogaeth ef, yr oedd adsain goruchafiaeth i'w glywed yn amlwg uwchlaw yr holl dynerwch. Pan y deuai swn addewid neu obaith i mewn i'r geiriau a genid, yr oedd y lleisiau yn trawsnewid, yn llenwi, ac yn lloni, a mynai y gynulleidfa ddyblu a threblu ar draws pob rheol, nes yr oeddynt fel yn mwynhau cyflawniad llawn o'r hyn y canent am dano.

Cynhaliwyd gwasanaeth crefyddol mewn dau gapel, ac ar y fynwent, a phregethwyd mewn dau gapel yn yr hwyr. Cymerwyd rhan gan y gweinidogion canlynol; Prif-athraw O. Prys, M.A.; W. James, B.A., Llywydd y Gymanfa Gyffredinol; W. M. Lewis, Llywydd Cymdeithasfa y Dê; T. Levi; W. Williams, Abertawe; J. Wyndham Lewis; Moses Thomas; Morris Morgan; J. Gomer Lewis, D.D. (B.); F. Samuel (A.); Y Prif-athraw T. C. Edwards, D.D.; R. Thomas (A.); W. Jones, Treforris; G. Ellis, M.A.; a W. John. Ymunodd canoedd lawer o weinidogion y Cyfundeb, ac o'r enwadau eraill, i dalu teyrnged o barch i Wr Duw ar ddiwrnod ei gladdedigaeth.

PREGETHAU.

PREGETH I.

—:O:—

CODI Y TLAWD O'R LLWCH.

SALM CXIII. 7, 8.—“*Efe sydd yn codi y tlawd o'r llwch, ac yn dyrchafu yr anghenus o'r domen, i'w osod gyda phendefigion, ie, gyda phendefigion ei bobl.*”

MYNYCH y cawn salmyddion yr Hen Destament yn mawrygu ac yn ymfrostio yn eu Duw. Adroddant Ei fawrion weithredoedd, a chanant Ei glod. Ac yna, naturiol y dilyn y byrdwn, sydd bob amser yn ddeall-edig—“Pa Dduw sydd fel tydi?” O holl bobl y byd, plant yr Israel yn unig a addolent y Duw hwn. Duwiau eraill ac amryw oedd gan y Cenhedloedd. Eithr “Clyw, O Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd;” ac y mae hwnw yn holl-ddigonol i bawb yn mhob ryw amgylchiadau. Dyma “y Bendigedig a'r Unig Benaeth,” yr “Hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb,” yr Hwn sydd erioed a byth o angenheidrwydd Ei natur Ei Hun, ac yn ffynonell pob angenheidrwydd a phob bod arall. Meirw a diallu i wneuthur dim erddynt ydyw duwiau y Cenhedloedd. Er meddu genau a llygaid, clustiau a ffroenau, dwylaw a thraed, y maent “megis pe byddent hebddynt;” “Y rhai a'u gwnant ydynt fel hwythau,”—yn ehud a diddim—“a phob un a ymddiriedo ynddynt.” “Eithr yr Arglwydd ydyw y gwir

Dduw, efe yw y Duw *byw*;" oblegid y mae Ei fywiogrwydd a'i deimladrwydd yn ogymaint a'i hanfod. Tra y mae Efe yn treiddio trwy yr holl greadigaeth, ac yn ei llenwi a'i bresenoldeb, gwna hyny heb ymgymysgu nac ymgolli ynddi; oblegid, fel y dywed yr Ysgrythyr, y mae Efe "goruwch oll," er Ei fod "drwy oll." Nid y greadigaeth sydd yn cynwys Duw, ond Efe sydd yn cynwys y greadigaeth. Amlwg hefyd ydyw fod y salmyddion wedi cael trem ber-lewygol ar "brydferthwch yr Arglwydd;" sef gogoniant moesol Ei gymeriad, oblegid y maent yn ymddigrifu ynddo, ac yn dotio ar eu Duw. Yn wahanol i'r holl dduwiau, "mewn sancteiddrwydd y mae efe yn ogoneddus;" ac y mae Ei sancteiddrwydd yn cynwys Ei drugaredd. Wrth ganu mawl Ei drugaredd ymfrostia y salmydd, oblegid Ei fod yn ymostwng i sylwi ar bob peth yn mhob man. "Pwy sydd" (meddai yn adn. 5) "fel yr Arglwydd ein Duw ni, yr hwn sydd yn preswyllo yn uche!;" oblegid nid yn unig y mae "goruwch yr holl genhedloedd," ond y mae "ei ogoniant goruwch y nefoedd" (adn. 4). Ac eto, o uchder Ei breswyl, "efe a ymddarostwng i edrych y pethau yn y nefoedd, ac yn y ddaear" (adn. 6). Perffeithrwydd perthynol i Dduw ydyw Ei fod yn medru sylwi ar y pethau lleiaf, yr un pryd a chyda'r un hawsder, ag a sylwa ar y pethau mwyaf. Nid oes dim mor fychan, fel ag i ddianc Ei sylw oblegid ei fychander. Ond am dduwiau'r Cenhedloedd, yn ol tyb eu haddolwyr, ymfwynhau yr oeddynt yn y pellder-oedd mewn difaterwch dirmygus. Gyda mawr drafferth yr oedd prophwydi Baal yn ceisio deffro ei sylw ac enyn ei gydymdeimlad tra yr oeddynt yn llefain arno ar ben Carmel, gan dori eu hunain a chyllill, a llamu o gylch ei allor. Ond "nid oedd llef, na neb yn ateb nac yn ystyried." Ond y "Duw byw" ydyw Duw Israel; y mae yn llygaid ac yn glustiau i gyd; Ei lygaid sydd yn cyniwair trwy'r holl ddaear, a'i glustiau sydd bob amser yn agored i lefain Ei blant.

Nid yn unig y mae yn sylwi, ac wrth sylwi yn tosturio, ond y mae'n "codi'r gwan i fynu." A dyna'r sôn sydd am dano yn mhob man—"Efe sydd yn codi'r tlawd o'r llwch, ac yn dyrchafu'r anghenus o'r domen." Haws ydyw gwaredu na dyrchafu; ond y mae pob gwaredigaeth o eiddo Duw yn ddyrchafiad. Fel arall y disgrifiai y Cenhedloedd eu duwiau hwy—fel rhai eiddigus o anrhydedd dynion, a'u holl awydd-fryd ar eu cadw i lawr. Ond mae'r Duw hwn mor fawr ac uchel fel y gall fforddio bod yn haelfrydig. Dyma ogwydd Ei lywodraeth foesol, codi pawb a gymerant eu codi ganddo. "Nid oes a lwydda yn y byd hwn," medd Byron annuwiol, gan ei regu ar yr un pryd, "ond bywyd rhinweddol."

Mewn modd arbenig, dyma amcan eithaf iachawdwriaeth Duw. Dichon mai y duedd gyffredin ydyw sylwi arni fel y mae yn waredigaeth, gan anghofio fod Duw yn dyrchafu pob un a wareda. Y gwirionedd sydd "yn dechreu rhai yn Nghrist" ydyw y waredigaeth. Ein hamcan yn bresenol ydyw "rhoddi heibio" y gwirionedd hwn,—heb sylwi ond ychydig arno, a hyny ar y ffordd wrth fyned ymlaen at "berffeithrwydd," sef yr iachawdwriaeth fel y mae yn ddyrchafiad. Y mae y wedd hon yn ymddangos i mi yn brydferth ac yn iachusol. Dyna fydd dan ein sylw—

AMCAN A DYLANWAD DYRCHAFOL IACHAWDWRIAETH DUW.

Bid sicr, y peth cyntaf sydd i'w wneuthur erddynt ydyw rhoddi iddynt ollyngdod oddiwrth bechod, yn ei ddrwg haeddiant ac yn ei arglwyddiaeth. Y mae iddynt "brynedigaeth trwy *ei waed ef*, sef maddeuant pechodau." Derbyniant ollyngdod drwy'r "aberth mawr fu ar y groes, a'r iawn a roes yr Iesu." Nid amcanwn ddywedyd pa beth ydyw hanfod yr iawn; oblegid, yn ol Coleridge, y mae hyny, hyd yn hyn beth bynag, tu hwnt i'n dirnadaeth—ei effeithiau amrywiol yn unig a ganfyddwn ni. Bu dadleu brwd a maith yn y canol oesau,—a ddechreuodd yn amser Anselm ac Abelard, ond a barhaodd am ganrifoedd—pa un ai taledigaeth

(*satisfactio*) ynte haeddiant (*meritum*) ydyw'r iawn. Brwydr yn mhlith cewri, yn ddiau, ydoedd hon; ni ryfygwn gymeryd rhan ynddi. Y mae Dr. Edwards yn ddiweddar wedi gwneyd ei ran i'w chario ymlaen, trwy ddatgan ei syniad, mewn modd tra galluog, yn ffafr haeddiant. Ond yr ydwyf fi yn methu penderfynu rhyngddynt, fel ag i allu ymwrthod a'r naill syniad wrth goledd y llall. Gwell genyf gyfaddef fy anwybodaeth gyda Coleridge, ac aros i weled a oes modd heddychu y ddwy blaid, trwy gyfuno eu syniadau, mewn syniad uwch ac eangach fyth, a chredu yn ddiddadl fod yr iawn yn *haeddiant ac yn daledigaeth*. I bob amcan ymarferol, digon boddhaol yw dywedyd fod yr iawn yn ddigonol reswm i natur foesol Duw am ollwng pechadur yn rhydd oedd yn haeddu ei ddamnio; ac y mae yr hyn oedd yn ddigonol i natur foesol Duw, yn foddhaol i natur foesol y credadyn; fel pan y mae yn derbyn rhyddhad yn llys y nef, ar sail yr iawn, y mae hefyd yn cael gollyngdod yn llys ei gydwybod ei hun. Ac y mae cymundeb rhwng y naill lys a'r llall. Adsain dedfryd y nef ydyw cyhuddiad cydwybod y credadyn, ac arwydd o ryddhad ger bron yr orsedd fry ydyw y profiad o heddwch Duw yn yr enaid. Bellach y mae'r ffordd yn rhydd iddo i ddringo i anrhydedd; oblegid y mae wedi derbyn gollyngdod anrhydeddus.

Y peth nesaf sydd yn eisiau arno, yn ol geiriad y tadau, ydyw ei olchi oddiwrth ei bechod; ac y mae'r golygiad yn ddigon cywir, fel na raid aflonyddu arno. Ond pa fodd y mae ei olchi, a pha beth a olygir wrth hyn? Cyn ateb y cwestiynau hyn, goddefer i mi ofyn un arall—Pa beth ydyw pechod? Ar ol cryn ymchwiliad, rhaid i mi ateb *mai* hunan-gais ydyw. Y mae dyn wedi tori yn rhydd oddiwrth y dwyfol ganolbwynt, ac yn ceisio gosod ei hun i fynu yn ganolbwynt iddo ei hun yn lle Duw. Dyma hanfod ei ddrygioni—"yr ysbryd sydd yn gweithio yn mhlant anufudd-dod," ac sydd yn rhoddi bod i holl ffurfiau pechodau y byd. Ond yn mha le, dyweder, y mae pechadur yn cael yr

olchfa? Atebaf yn hyf, yn yr un fan ag y cafodd yr iawn. Yr un cariad anfeidrol a hunan-gynhyrfiol ag a draddododd drosom ni "yr unig-anedig Fab" sydd yn gyru cywilydd difaol ar ein hunan-gais, ac yn cynesu ein calonau, fel yn yr olwg arno, ac wrth gyfranogi o'i wres, y mae'r credadyn yn anghofio ei hun yn hollol, ac yn myned yn eiddo i'r Hwn fu farw drosto. Yn y trosglwyddiad hwn o hono ei hun a'r cwbl a fedd i Grist, y mae yn myned yn dragywyddol rydd oddiwrth bechod. O ryfedd ddoethineb Duw! O fendigedig ddarpariaeth!

Wedi i'r pechadur gael ei brynu a'i olchi, y mae'r ffordd yn rhydd, bellach, i wneuthur boneddwr o hono, fel y gellir "ei osod gyda phendefigion, ie, gyda phendefigion pobl Dduw." I'w cymhwyso i hyny, y mae o leiaf dri pheth yn angenrheidiol.

I. *Rhaid cynyrchu a meithrin meddylgarwch.* Tebygol mai a'r meddwl y gwasanaethwn Dduw yn benaf yn y nefoedd, gan fod yn fwy annibynol ar y corph nag ydym yma. Heb feddylgarwch, gan hyny, ni fyddwn yn gymhwys o gwbl at waith, nac yn alluog i iawn-dreulio ein hamser. Dyma un o hanfodion gwir bendefigaeth y byd ysbrydol. O wrandawyr daearol, ac ysbrydol anfeddylgar, pa fodd y dysgwylwch dreulio eich maith dragywyddoldeb! Hawdd gwaled fod Duw wedi bwriadu ein deffro i feddwl, oblegid y mae wedi datguddio trefn yr iachawdwriaeth i holl oesoedd y ddaear mewn llyfr, fel y byddo i bob un i'w ddarllen a'i feddwl drosto ei hun. Dyma'r drysorfa rhyfeddaf o feddyliau a fedd y byd! Gwylwch rhag i'ch cynefindra a llyfr Duw arwain i ddibrisod anystyriol, ac iddo fod i chwi, megis "gwerth yn nwyllaw ffyliaid." Da fyddai i chwi ei ddarllen a'i efrydu yn ol trefn amseryddol y datguddiad, i chwi gael cyfle i graffu yn wylidwrus ar enedigaeth gwirioneddau dwyfol. Dyma beth inwy na genedigaeth personau; ie, holl bersonau yr hiliogaeth ddynol, *oddigerth un.* Wrth efrydu felly y datguddiadau blaenörol, chwi gyrhaeddwch addfedrwydd i dderbyn a

meddianu y datguddiad dilynol, ac yn eich gradd i gyd-dyfu gydag eglwys Dduw drwy yr holl genedlaethau, a dringo i ben “bryn gweledigaeth,” nid yn unig i weled toriad y wawr, ond gwyneb yr haul pan yr ymwelodd Duw “a ni godiad haul o'r uchelder” yn ymddangosiad Ei Fab. Ni rodiwch mewn tywyllwch, “eithr chwi a gewch oleuni y bywyd.” Od oes neb wedi gwneuthur felly, “gwyn ei fyd.” Y mae wedi myned arno eisioes yn “dragywyddol ddydd.”

Y mae genym fwy na llyfr, er rhagored ydyw, sef Person anghymharol hawddgar. Gellwch feistrolï a dihybyddu y llyfr cyfoethocaf, gydag ychydig ddarlleniadau; ond y mae person, yn enwedig os bydd dyfnder ynddo, yn cynwys rhyfeddodau diddarfod. Y mae fel y telaidwelyr (*kaleidoscope*), pob tro arno yn dangos prydfertion newyddion. Ond yn ein Iachawdwr bendigedig, y mae “tegwch mawr y byd, a thegwch pena'r nef” yn cyd-gyfarfod; oblegid “gwyn a gwridog” ydyw, neu fel y dywedai hen bregethwr poblogaidd, y mae “gwyni'r nef a chochni'r ddaear” yn ymliwio yn ogoneddus yn Ei wedd. Oni fyddwch yn syllu, ac wrth syllu yn dotio ar Ei hawddgarwch digyffelyb? Braint genyf fydd cael darlun dychymyngol da o hono, er mai ychydig o ddarluniau o hono Ef fydd yn fy moddio; oblegid nid wyf yn deall paham nad yw yn gyfreithlawn i ni edrych arno trwy ddarlun yr arlunydd, yn gystal a thrwy benill y bardd. Y darlun yw mawl-emyn yr *artist*. Y mae “*Christ leaving the Prætorium*,” gan Doré, i mi fel un o benillion y Per-ganiedydd o Bantycelyn. Bum drwyddo, fwy nag unwaith, yn ceisio tremio i ddyfnderoedd diwaelod y Person rhyfeddaf erioed, ac ar yr un pryd hefyd yn ceisio Ei addoli. Dywed Coleridge, yn rhywle—nid wyf yn cofio ei eiriau—fod yn rhaid i berson sydd yn gofyn serch cyneasaf calon dyn, a hyny byth i barhau, feddu adnoddau diball o ryfeddodau diddarfod yn ei gymeriad gogoneddus, oblegid pan mae'r meddwl yn peidio canfod pethau newyddion, y mae'r galon yn oeri mewn cariad.

Yma nid rhaid i hyny fod, oblegid

“'Nol edrych ar ol edrych,
 O gwmpas i mi mae
 Rhyw fyrdd o ryfeddodau
 Newyddion yn parhau:
 Pan bwy'n rhyfeddu unpeth,
 Un arall ddaw i'm bryd;
 O! iachawdwriaeth rasol,
 Rhyfeddol wyt i gyd.”

Peidied neb o honoch a thybied eich bod yn talu i ffwrdd eich holl rwymedigaethau i Hwn, trwy addef mewn geiriau sydd yn fwy sionc-lafar na dwysedig “ei fod wedi byw a marw drosoch.” Agorwch yn frwdfrydig ryw gymaint ar y sypyn mawr yna, i chwi gael synu yn addolgar wrth fanylu ar ei gynwys rhyfedd.

Ac nid yn unig y mae genym lyfr rhyfedd a Pherson hynod, ond fel y mae yn naturiol yn canlyn, y mae pob ymarferiad crefyddol yn galw allan yn ddiorphwys feddylgarwch sydd o uchel ryw. Dywed yr un Coleridge, mewn lle arall, fod awr o gymdeithas a Duw mewn gweddi daer, neu goncwest ar un chwant llygredig yn y galon, yn dysgu dyn i feddwl yn well a blwyddyn yn yr ysgolion goreu hebddynt. Rhaid i ddyn feddwl ei hun allan a thrwy y greadigaeth weledig cyn y medr osod ei hun gerbron y Duw anweledig; ac ar ol gwneyd hyny, y mae aros yn y cwmni goruchel hwn, gan ddal ei hun yn ddibaid o dan y ŵwyfol lygad yn orchest o'r fath anhawddaf. A wnaethoch chwi hyny rywdro am awr gyfan, neu haner awr, neu chwarter awr? A fuoch chwi o dan lygad Duw am bum' munyd erioed? Meddyliwch am funyd eto am fraich arall brawddeg Coleridge—concro un chwant llygredig yn y galon. Y mae i ddyn droi ei feddwl i fyned tu fewn iddo ei hun, y gorchwyl braidd anhawddaf. Gwell gan ddyn bob amser edrych allan nac i fewn iddo ei hun. Y lle mwyaf tywyll, blin, a dyrus iddo i'w deithio ydyw trwy ei galon ei hun. Ond nid gwib-daith drwyddi sydd raid i Gristion wneyd, ond y mae i drigo ynddi, a hyny er mwyn gwyllo ac

adnabod holl ddichellion y fall, fel y gallo wrthsefyll holl gynllwynion y diafol. Rhaid i Gristionogion fod yn feddylgar iawn; a gwelsom lawer o bobl druain dlodion, heb fanteision o gwbl, ond oeddynt i'w cael yn moddion gras, wedi awchlymu eu meddyliau, ac wedi treiddio yn ddwfn i'r penaf o ryfeddodau Duw, nes yr oedd eu holl natur foesol ac ysbrydol wedi cael ei dyrchafu i'r fath raddau, fel yr ymddangosent yn gymhwys i ddechreu ar efrydiau'r nef.

II. *Rhaid i bendefigion, yn cnwedig "pendefigion ei bobl ef," feddu ar chwaeth dda, fel y gallont "brofi y pethau sydd a rhagoriaeth ynddynt."* Ffynonell pob hawddgarwch ydyw Duw, ac y mae yn rhaid ei fod Ef "oll yn ogoneddus o fewn," gan Ei fod wedi gwisgo holl weithredoedd Ei ddwyllaw a'r fath brydferthwch a gogoniant. "Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd, wedi eu ceisio gan bawb a'i hoffant." Wrth olrheinio cywrain feddyliau Duw yn ei gyfansoddiad ei hun, y mae mawl y salmydd i Dduw yn cael ei enyn gan y myfyrdod, "Clodforaf di, canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed." "Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! mor fawr yw eu swm hwynt." Crefftwr digyffelyb yw Duw, ac y mae Ei blant oll yn ymhyfrydu yn Ei waith, ac yn dymuno am allu ychwanegol i ymhyfrydu mwy. Y prydferthwch cyntaf a'i swynodd ydoedd pryferthwch digymhar eu Ceidwad. Gyda llawenydd canfyddasent fod y Pen-cymwynaswr yr harddaf o bawb hefyd; ac y mae eu cariad ato "yn amlhau mewn pob gwybodaeth a synwyr," tra ar yr un pryd y maent yn cael eu cyfnewid i'r unrhyw ddelw, "o ogoniant i ogoniant, gan Ysbryd yr Arglwydd." O'r fan yma y mae'r ffordd yn rhydd-agored i holl diriogaethau creadigaeth Duw, ac at holl ffurfiau pryderthwch. Nid wyf yn coelio fod ffordd at brydferthwch sancteiddrwydd trwy feddu gallu i ganfod unrhyw ffurf arall ar brydferthwch yn gyntaf, a bod yr holl ffurfiau yn berthynasau agos i'w gilydd, ac y ceir rhydd-fynediad oddiwrth y naill at y llall. Yr oedd pen-celfyddydwy Groeg, gynt yn arian eu moesau, fel y

mae llawer o'u holynwyr yn ein dyddiau ni. Am hyny y maent yn ddeillion ysbrydol i harddwch sancteiddrwydd. Ond os dechreuir yn y pen arall, trwy dderbyn gallu ysbrydol i adnabod "yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist," fe geir ffordd freiniol a didoll i ororau pellaf Ei ymerodraeth, ar hyd yr hon y teithia'r saint i dragywyddoldeb, gan folianu byth "Dad y trugareddau i gyd;" oblegid "yr Oen yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfainc a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynonau bywiol o ddyfroedd," lle yr yfant ysbrydoliaeth a dedwyddwch wrth bob ffynon. Ychydig o wrtaith feddyliol yr *artist* mae llawer o honom wedi ei gael, hyd yn hyn, ond yr ydym wedi *matriculatio* yma, ac yr wyf yn dirgel obeithio y cawn "ddigrifwch yn dragywydd" ar ddeheulaw ein Prynwr wrth dreiddio i fewn byth i "ryfeddodau Duw," a gweled ei hawddgarwch digymhar.

III. *Mewn pendefigion rhaid enyn a meithrin y syniad a'r teimlad o anrhydedd.* Anhawdd ydyw ymgeleddu tlodion heb eu darostwng a'u diffrywytho wrth eu hymgeleddu. Ond y mae'r anfeidrol ddoeth Dduw, "yr hwn yn ein hisel radd a'n cofiodd ni," wedi darganfod ffordd i'n dyrchafu wrth ein hachub, ac i feithrin y teimlad o anrhydedd wrth ein hymgeleddu. Ceir fod amryw weddau ar drefn yr efengyl yn dangos hyn.

1. *Meithrina y teimlad o anrhydedd trwy ein gwneuthur yn weithgar yn ein hiachawdwriaeth ein hunain.* Mae Efe ar yr un pryd yn cuddio balchder oddiwrthym, ac yn cau allan bob gorfoledd. Rhaid oedd cau allan bob ymfrost dynol a chnawdol (1 Cor. i. 21-31; Rhuf. iii. 27). Ond y mae'r teimlad o rwymedigaeth i gymwynaswr digyffelyb yn gorfodi'r credadyn edifeiriol i ofyn—"Arglwydd, beth a fyndi di i mi ei wneuthur," ac ar yr un pryd ddywedyd—"Nid i ni, ond i'th enw dy hun dod y gogoniant." Os na fuoch chwi, fy ngwrandawyr, yn gofyn am waith gan Fab Duw, y mae yn fwy nag amheus genyf a fuoch yn derbyn pardwn o'i law;

oblegid felly y'n cymhellir—"gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn." Ac y mae pawb sydd wedi eu deffro a'u galw gan Dduw, yn rhoddi cwbl ddiwydrwydd i hynyma. Am hyny, nid da genyf feddwl am y drefn o iachawdwriaeth a gynygir gan y Pabyddion, oblegid nid oes le ynddi i ddiwydrwydd iachus a sancteiddiol, ond i orchestion ewyllys-grefydd sydd yn borthiant i lygredigaeth, oblegid y mae'r cwbl a enillir yn troi yn gyfiawnder ac yn ymffrost. I'r werin-bobl nid ydyw yn ddim amgen na pheiriant o sacramentau swyn-gyfareddol, yn yr hwn nid rhaid i'r truan ond gorwedd, tra mae efe, mewn modd nas gŵyr efe, yn cael ei gludo a'i gymhwyso i ogoniant. Na, "nid felly y dysgasom Grist,"—a diolch i Dduw am hyny.

2. *Wrth dori gwaith, y mae yn rhoddi ymddiried yn Ei bobl.* Nid oes dim yn dyrchafu dynion yn fwy nag ymddiried, megis nad oes dim yn eu darostwng yn fwy nag anymddiried. Y mae yn apelio at yr hunan-barch ag sydd yn rhan o naturiaeth pob dyn, ac sydd yn sicr o'i symbylu i fod yn deilwng o hono. Os ydych am brawf fod ein Ceidwad yn ymddwyn tuag atom mewn dull ymddiriedol, edrychwch ar eangder anfarwol Ei orchymynion—"Nid ydwyf yn eich galw yn weision; oblegid y gwas ni wŷr beth y mae ei arglwydd yn ei wneuthur; ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion; oblegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi." Nid ydyw y meist'r yn egluro ei holl gynlluniau a'i fwriadau i'w gaethion; ni pherthyn iddynt hwy wybod ond yn syml eu dyledswyddau. Ond y mae Crist wedi hysbysu "pob peth a glywodd gan ei Dad" gan eu dyrchafu i'r ddwyfol gyfrinach. Wedi cael hyny nid rhaid iddynt wrth reolau manwl a gorchymynion pendant caethweision; cyfeillion mwyach ydynt wedi cael gwybod y gyfrinach. Crefydd y cyfaill ac nid y caethwas ydyw crefydd y Testament Newydd. Eglurhad llydan yn hytrach na manwl sydd ar ffurf-lywodraeth yr eglwys, a holl ddefodau ei gwasanaeth. Y mae wedi ymddiried llawer iawn i gyfeill-

garwch. Yn debyg fel y gwnaeth Abraham i'w was wrth ei anfon i geisio gwraig i'w fab. Isaac yn ddiau ddylasai fyned ar y neges hono, ond gan nad ai efe pwy cystal yn ei le a hen was y teulu. Ymddyga Abraham mewn modd *noble* wrth ei anfon. Ar un pwnc yn unig y mae yn gofyn iddo osod ei law dan ei forddwyd, a thyngu iddo, sef na wnai geisio un o ferched y Canaanaeid. Y mae yn cychwyn i'r daith gyda deg o gamelod a gweision eraill, yn ol ei angen, ac yn cyrhaedd Mesopotamia erbyn yr amser y byddai y merched yn dyfod allan i dynu dwfr. Pan welodd hwynt yn dyfod, y mae yn troi i weddio yn daer—"O Arglwydd Dduw fy meistr Abraham, atolwg, pâr i mi lwyddiant heddyw, a gwna drugaredd a'm meistr Abraham. Bydded mai y llances y dywedwyf wrthi, Gogwydda, atolwg dy ysten, fel yr yfwyf; os dywed hi, Yf, a mi a ddiodaf dy gamelod di hefyd—hono a ddarparaist i'th was Isaac." Marciau go dda, onide? Nid y llances gyntaf a ganfu, ond "y llances y dywedwyf fi wrthi, Gogwydda dy ysten." Yr oedd yn rhaid iddi ganmol ei hun wrth lygad yr hen was, cyn y gwnai y cais-brawf arni. Gyda hyn y mae Rebeccah yn ymddangos, "a'i hysten ar ei hysgwydd, a'r llances oedd deg odiaeth yr olwg." Y mae yr hen was yn hoffi yn ddirfawr yr olwg arni, yn rhedeg i'w chyfarfod, ac yn dywedyd—"Atolwg, gad i mi yfed ychydig ddwfr o'th ysten." "Yf, fy meistr," medd hithâu, ac y mae gyda phob brys yn ei ddiodi, ac yna yn gofyn am ganiatad i ddiodi ei gamelod, ac wedi ei gael y mae yn eu diodi hwythau rhag blaen gyda pharodrwydd a deheurwydd mawr. "Dyma hi," medd yr hen was, "un iawn yw hon." Gyda hyny y mae yn tynu allan glust-dlws aur, haner cân siel o bwys, a dwy freichled, yn ddeg siel yr un, yn holi am ei thylwyth a lle i letya, ac wedi cael pob hysbysrwydd a pharodrwydd—y mae yr hen was yn tori allan mewn gorfoledd—"Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw fy meistr—*yr ydwyf fi ar y ffordd*; dug yr Arglwydd fi i dŷ brodyr fy meistr." Ond heb i mi fanylu yn mhellach, gwyddoch ddiwedd yr helynt, y mae Rebeccah yn

myned gyda gwas Abraham yn wraig i Isaac, i fod yn rhagorach gwraig braidd nag oedd Isaac fel gwr. Credu 'rwyf fod llawenydd y dydd priodasol yn un anghyffredin; ond wedi i hwnw fyned heibio, os gallodd Abraham aros iddo fyned heibio, cai ymholi gyda'r hen was pa fodd y bu, a holl drefniadau y daith. Wedi cael gwybod yr holl fanylion—oblegid yr oedd yn sicr o fod yn hoff o'i ferch-yn-nghyfraith, yn enwedig wedi iddo wybod pwy ydoedd—nid oedd dim yn boddio Abraham yn fwy na ffyddlondeb a dyfeisgarwch ei hen was. O, fy ngwrandawyr anwyl, treiwch ddeall y modd y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch chwithau—y mae Ei ymddiried yn fawr ynoch, canys y mae wedi gadael digon o le i ddyfeisgarwch eich ffyddlondeb ymddadbygu yn ddiderfynau. Dringwch i fynu i fod yn deilwng o hono. Rhaid i chwi dyngu llw o ffyddlondeb iddo ar ychydig o bynciau mawrion a chyffredinol, ond wedi i chwi wneuthur hyny, ymddirieda bob peth arall i'ch ffyddlondeb. Ac y mae dylanwad yr ymddiriedaeth ddwyfol hon yn anfesurrol ar gymeriad i'w ddyrchafu, ac i'w wneyd yn deilwng o'r safle oruchel yn mysg pendefigion pobl Dduw.

3. *Dyrchafa hwynt i fod yn rhanog yn y gwaith ag y mae Efe Ei hun yn teimlo y dyddordeb penaf ynddo.* Un amcan mawr oedd gan ein Hiachawdwr yn Ei fywyd, sef gwneuthur ewyllys Ei Dad, ac yr oedd yr ewyllys hono iddo Ef yn un neillduol, yn waith penodol. Ar derfyn Ei fywyd, y mae yn ymlawenyachu yn ddiolchgar yn nghorpheniad Ei waith, ac yn gofyn am nawdd Ei Dad i ddringo yn iawn i'r groes fel pwynt uchaf Ei ogoneddiad. Ac yna fe ddywed y geiriau rhyfedd hyny—"A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy." Y mae mewn ysbryd diolch i'w Dad am ymddiried y gorchwyl o achub y byd i'w ofal, ac yn cydnabod mai dyma'r gogoniant mwyaf a gafodd erioed ganddo; ond tra yn diolch am y fath ymddiried ynddo Ei hun, y mae yn ymlawenhau wrth ei ranu rhwng Ei ddysgyblion—"Fel yr anfonais fi i'r byd; felly yr anfonais inau hwythau i'r byd." Fel y bydd

ambell i gwmni anrhydeddus ar y ddaear, yn ein prif drefydd, yn anrhydeddu hen was fydd wedi eu gwasanaethu yn ffyddlawn am faith flynyddoedd, trwy ei ddirchafu i fod yn aelod o'r cwmni, ac felly yn rhanog yn y cyfrifoldeb a'r gofal, yr anrhydedd a'r enillion hefyd. Da genyf allu dywedyd fod ein Duw ni yn dirchafu Ei hen weision oll i mewn i'r cwmni—"Ffyddlawn yw Duw, trwy yr hwn y'ch galwyd i gymdeithas ei Fab ef," sef i bartneriaeth mewn cwmni, yn ol ystyr y gair a gyfieithir yma, ac mewn manau eraill, yn "gymdeithas." Dyna enw'r *firm*, "Cymdeithas Ei Fab Ef," ond y mae'r Drindod fendigaid yn *managing directors* yn y *firm*.

Yr amcan a'r gwaith ydyw achub y byd. O anrhydedd digyffelyb! Cewch chwi a minau y fraint o daflu llafur ein bywyd i'r un amcan ag oedd i'r dwyfol ymgnawdoliad a'r iawn! Gyda gwyliaidwriaeth ac eiddigedd, f'anwyl wrandawyr, gofawlch mai dyma'r ysbrydiaeth fydd yn rhedeg trwy eich bywydau oll. Gwastraff ar fywyd, ac oferedd mewn amcan, fydd pob peth arall. Ond gwna ymdeimlad dwys a gostyngedig a'r anrhydedd hon ni yn bendefigion mewn gwirionedd.

4. *Y mae yn ffurfio cyfathrack mewn ysbryd yn awr a'r rhai y byddwn byth yn eu cymdeithas, ac y cyfranogwn yn eu gwasanaeth.*" "Chwi a ddaethoch i fynydd Seion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angelion; i gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenydd yn y nefoedd." Yr ydych wedi sylwi mai traethu hanes peth sydd wedi digwydd eisioes, ac nid addaw braint ddyfodol y mae'r apostol—"Chwi a ddaethoch." Y mae rhyddid y mynydd hwn gan bob Cristion, o'r funyd y credo yn Mab Duw; ac y mae ambell un yn gwneyd defnydd helaeth o'i ryddid, gan gerdded yn rhydd ar hyd ei lwybrau ac ar draws ei lethrau. Tueddir fi i'ch cymhell i fyned yn aml i ymrodio ar hyd mynydd Seion, pan eloch "allan i fyfyrion yn y maes, yn min yr hwyr." Dyma lle y mae rhodfeydd ardderchog, lle y gellwch daro ar gymdeithion gogoneddus. Ni ryfeddwn os

oes rhai o honoch eisioes wedi bod yn ymddiddan ag Abraham, tad y ffyddloniaid, eraill wedi cael syniadau ar lyfr Job gan Job ei hun, ac eraill wedi clywed per-ganiedydd Israel yn canu rhai o'i Salmau ei hunan. Clywais hen löwr mewn cyfarfod misol yn ddiweddar yn adrodd hanes ddifyr am noswaith gyfan wedi ei threulio yn nghwmni "ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd," pryd y traethodd mewn modd rhyfedd yn nghanol dagrau a gwenau cymysgedig, yr ymgom felus oedd wedi bod rhyngddo a llu o'r saint—saint yr Hen Destament a'r Newydd. A chyn bo hir, cyn myned atynt i fyw, pan fydd colofnau eich tai yn cael eu datod, a'r muriau yn dechreu cracio, chwi a gewch eu gweled trwy dyllau'r mur, a'u cyfarch cyn rhoddi'r tabernacl hwn heibio. Yna chwi fyddwch yn addfed i'r cwmni ac i'r gwaith byth; yn cymeryd eich lleoedd yn naturiol gyda "phendefigion, ië, gyda phendefigion ei bobl."

Wrandawyr hawddgar! a garech oll fyned i fynu? A oes uchelgais yn eich ysbrydoedd? Dichon fod rhai oddiar ffug-ostyngeddwrwydd am wadu pob tueddfryd o'r fath. Medd y rhai hyny, "Digon i mi fydd cael diangfa, heb ddychmygu o gwbl am ddyrchafiad!" Am hyny, chwi synwch pan ddywedaf fod holl bobl Dduw yn rhai uchelgeisiol. Yr oedd Paul yn dyheu am berffeithrwydd, y gwyddai na chyrhaeddai mo hono cyn yr adgyfodiad oddiwrth y meirw. "Y neb y mae'r gobaith hwn-ganddo," medd Ioan, sef y gobaith o fod yn debyg i Fab Duw, tra y mae eisioes yn ymlawenychu yn sicrwydd ei fod yn mhlith y "meibion i Dduw," "y mae yn ei buro ei hun, megis y mae yntau yn bur." Y mae pob Cristion yn bendefig, a pha ryfedd?—"etifedd i Dduw ydyw." Dichon fod rhai o honoch yn ymrwystro gyda'r ffaith fod llawer o honynt yn dlodion; ond nid oes perthynas rhwng y bendefigaeth a chyfoeth daearol. "Gallaf fi wneyd arglwyddi," medd y brenin Iago 1., "ond Duw yn unig a'll wneyd boneddigion."

Boneddwr oedd yr Apostol Paul, er mai gwneuthurwr

pebyll oedd wrth ei orchwyl. Edrychwch ar yr urddas haelfrydig gyda pha un y mae yn diolch i'r Philippiaid am eu caredigrwydd ato—"Mi a lawenychais yn yr Arglwydd yn fawr, oblegid i'ch gofal chwi am danaf fi yr awrhon o'r diwedd adnewyddu; yn yr hyn y buoch ofalus hefyd, ond eisiau amser cyfaddas oedd arnoch. Nid am fy mod yn dywedyd oherwydd eisiau; canys myfi a ddysgais, yn mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddllawn iddo." Am hyny, y mae yn medru ychwanegu—"nid oherwydd fy mod i yn ceisio rhodd," er ei fod ar y pryd "yn garcharor mewn cadwyn," yn^{*}byw yn ei dŷ ardrethol, a digon tebygol mai haelioni'r saint oedd yn ei alluogi i dalu'r ardreth, ac felly yn ei gadw allan o'r carchar. Ond tra y mae uwchlaw "ceisio rhodd," y mae'n derbyn "y pethau a ddaethant" oddiwrth eglwys Philippi gyda llawenydd fel "arogl peraidd, aberth cymeradwy," oblegid y mae "*yn ceisio ffrwyth yn amlhau erbyn eich cyfrif chwi.*" O hunan-anghof braidd digyffelyb! Y mae yn edrych ar haelioni'r Philippiaid, nid yn ei berthynas ag ef ei hun, er mai blin a thruenus oedd ei gyflwr, ond yn ei berthynas a'u cyfrif hwynt.

Boneddwr oedd Dafydd, nid am ei fod yn frenin, oblegid, ysywaeth, nid ydyw pob brenin yn foneddwr; ond y mae'r prawf o hyn i'w gael yn y ffaith na wnai "offrymu i'r Arglwydd ei Dduw boeth-offrymau rhad." Nid oedd raid iddo brynu llawr-dyrnu Arafnah'r Jebusiad i gael lle i adeiladu allor i Dduw, oblegid yr oedd Arafnah yn foddllawn ei roddi iddo, "fel brenin i frenin." Ac "wele'r ychain yn boeth-offrwm, a'r ffustiau, ac offer yr ychain yn lle cynnud." "Nage," medd Dafydd, "eithr gan brynu y prynaf ef mewn pris genyt."

Pendefig ydoedd Abraham, "eu tad hwynt oll." Ni fynai efe gladdu ei hoff Sarah mewn bedd heb dalu yn llawn am dano. "Clyw ni, fy Arglwydd," medd meibion Heth wrtho, "tywysog Duw wyt ti yn ein plith ni; cladd dy farw yn dy ddewis o'n beddau ni; ni rwystr neb o honom ni ei fedd i ti

i gladdu dy farw." Y mae yn rhaid ei fod yn "dywysog Duw yn eu plith," gan eu bod yn foddlon rhoddi ei ddewis iddo o'u beddau hwy, oblegid y peth diweddaf y bydd dyn yn foddlon ei roddi yn fenthyg ydyw bedd; ac fe brofodd Abraham gywirdeb eu syniad am dano, mai tywysog Duw mewn gwirionedd ydoedd, trwy wrthod cymeryd meddiant beddrod, ond "am ei lawn werth o arian." Pendefigion fydd byth yn amgylchu gorsedd Duw. Boneddigion a boneddigesau ydyw holl deulu'r nef. Gellwch fod yn sicr mai nid yn mhlith haid o bechaduriaid anwar, dianrhydeddus a dilywodraeth, y mae Duw yn myned i dreulio Ei dragywyddoldeb, ond yn mhlith pendefigion, er iddo orfod eu codi o'r llwch, a'u dyrchafu o'r domen.

"Onid oes arnoch ofn niweidio y bobl, trwy borthi eu gwagedd?" medd rhywun, fe ddichon, yma yn awr. Nac oes ddim, oblegid nid ydyw dyrchafiadau gras Duw yn porthi gwagedd neb. Dyrchafiadau'r byd hwn sydd yn porthi balchder dynion, ond y mae y rhai a ddyrchefir gan ras y nef, yn gwyleiddio ar y ffordd i fynu. Po uchaf y dyrchefir hwynt, mwyaf gwylaidd yr ânt. "Pwy wyf fi, a pha beth ydyw tŷ fy nhad i?"

Mae fy nghalon yn llosgi gan lawenydd a chariad wrth feddwl am y dyrchafiad uchel a buan sydd yn aros rhai—ie, tyrfa fawr o honoch, gobeithio. Ond goddefwch air y cynghor. A ydych yn ymdeimlo yn briodol a'r rhwymedig-aeth sydd arnoch i ymddarpar ar gyfer y fath anrhydedd? Clywais un o hen weinidogion Morganwg yn adrodd hanes ymweliad o'i eiddo a Bristol, pan y gwnaeth y maer etholedig am y flwyddyn hono giniaw neu swper cyffredinol, i'r hon y gwahoddid holl weinidogion crefydd y dref. Yn gymaint ag mai'r hen weinidog o Tonyrefail oedd ar y pryd yn gwasanaethu yr achos Cymraeg, daeth gwahoddiad i'w law yntau. Penderfynodd fyned, gan dybied ei fod yn mhell oddicartref, ac na byddai yno neb yn ei adnabod, pe digwyddasai fod yn dipyn yn chwithig arno. Ond prin yr

ydoedd wedi cymeryd ei le wrth y bwrdd cyn y dechreuodd edifarhau; a phan ganfu y cyllill a'r ffyrç a'r llwyau dirif oedd o'i flaen, a'r amrywiol ddanteith-fwyd—na wyddai pa beth ydoedd—yn cael ei gludo o gwmpas gan weision a ymddangosent iddo ef yn debyg i foneddigion, aeth megis un wedi ei haner-barlysu, heb fedru symud llaw na throed. Ond yn fuan fe ddeallodd fod y gwr a eisteddai gyferbyn ag ef yn ymddangos yn hamddenol, fel un wedi gweled peth felly o'r blaen, a phenderfynodd mai'r peth goreu fyddai iddo ef ddyngwared hwnw mor agos ag y medrai, gan addunedu, os cai fyned allan, nad ai ar gyfer y fath le drachefn. Eithr buan yr aeth y swper hwnw heibio; ac wedi iddo ddychwelyd i'w wlad ei hun, ac adolygu ei brofiad anghysurus yn Bristol, tarawodd yn sydyn a nerthol i'w feddwl ei fod yn coleddu gobaith er ys blynyddoedd lawer am gael eistedd wrth fwrdd llawer anrhydeddusach, Arglwydd arglwyddi a Brenin breninoedd yn llywydd y wledd, ac angelion y gogoniant yn weision lifrai yn gweini ar yr achlysur. "A'm gwaith yn awr," medd yr hen weinidog anwyl, ydyw "dysgu pa fodd i *behavio* gyda'r cwmni fry." Pan feddylion at bwy y gobeithiwn fyned, pa ryfedd ein bod yn ddiwyd yn ymddarpar? *Pendefigion Ei bobl Ef*, a ninau'n cael bod byth yn y fath gwmni!

Cofiwch, bobl anwyl, cofiwch!—rhodded yr Arglwydd i mi ddirifwch wrth ei ddweyd, ac i chwithau wrth ei wrando—y mae yn rhaid i bawb o honom naill ai dringo i fynu byth, neu ynte syrthio i lawr yn oes oesoedd! Gwyliwch rhag troi yr ysgol a roddwyd yn eich gafael, i ddringo i fynu drosti hyd uchder "nef y nef," a'i phen tuag i waered, nes cyrhaedd dyfnderoedd, na fwriadwyd i neb ei gyrhaedd, ond "diafol a'i angelion!"

PREGETH II.

—:O:—

CRIST YN GADAEL TANGNEFEDD I'W DDYSGYBLION.

IOAN XIV. 27.—“*Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi: nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon, ac nac ofned.*”

OEIRIAU rhyfedd! Y Gwr gofidus, Gwr y gofidiau, pan yn gwynebu yr adeg fwyaf ofidus arno, yn addaw tangnefedd i'w ganlynwyr, ac yn galw y tangnefedd hwnw “Fy nhangnefedd!” Ac eto, pan feddylion yn helaethach, y mae y fendith addawedig yn hollol nodweddiadol o hono, ac yn briodol iddo. Nid oedd dim yn hynodi Ei fywyd yn fwy na'i dangnefedd. Yr oedd yn gweithio mewn tangnefedd, ac yn dyoddef mewn tangnefedd. Gweithgarwch dibaid ydoedd yr eiddo Ef; mewn amser ac allan o amser; yn mhob man, yn mhrif-leoedd y dyrfa, ac yn yr anialwch unig, yn y deml, yn y synagogau, ar y ffordd, mewn tai anedd, ac ar y môr. Ei fwyd oedd gwneuthur ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd; arwyddair Ei fywyd oedd gweithio tra y mae hi yn ddydd, “oblegid y mae y nos yn dyfod yn yr hon nid all neb weithio.” Mewn tair blynedd a haner cyflawnodd waith sydd i fod yn destyn syndod ddyddiau y ddaear, i.e., ddyddiau tragwyddoldeb. Ac eto gweithia mewn tangnefedd, heb ddim *fuss*, ac heb ddim trwst. Y mae yn dysgu ac yn pregethu mewn tangnefedd, yn hysbysu dirgeledigaethau oeddynt guddiedig er ys oesoedd a chenhedaethau, ac a fuasent guddiedig byth oni buasai iddo Ef eu datguddio, mewn tangnefedd. Y mae yn taflu allan lewyrchiadau ysbrydol mor naturiol ag y mae yr haul yn gwasgar goleuni yn ei ymdaith, heb ymgais nac ymdrech, gyda *majestic ease*.

Gwelwn Ef hefyd yn tosturio ac yn ymgeleddu y trueiniaid a'i hamgylchent mewn tangnefedd. Yn gyffredin nid oes dim yn cythryblu holl natur dyn yn fwy na golwg ar drueni, ac nid oes dim yn cyfreithloni ffwdan a brys yn fwy na'r ymgais i leddfu y trueni hwnw. Ond mewn tangnefedd y gwnelai'r Iesu hyny. Nid dideimladrwydd y meddyg na'r *relieving officer* mo hono ychwaith, y swyddog taledig, yr hwn, er mwyn ei gysur personol sydd wedi disgyblu ei hun i ddideimladrwydd, neu yr hwn yn ddiamcan sydd wedi llwyddo i gyrhaedd hyny trwy ymgynffino a thrueni, a thrwy gael allan oddiar fynych brofiad fod drygioni yn gyffredin wrth wraidd ac yn gymysgedig a'r trueni. Na, nid dideimladrwydd felly oedd eiddo yr Iesu, oblegid yr oedd yn berffaith *sensitive* a thyner, ac eto yn dangnefyddus, heb ddim ffwdan na brys. Yr oedd yn ymwybodol o'i hollalluawgrwydd. Rhaid i feddyg gyrhaedd y tŷ o leiaf cyn marw y claf; gwell fyddai iddo fod yno gryn dipyn cyn fod arwyddion o hyny. Ond nid felly yr Iesu. Daeth Jairus ato, ac a fawr ymbiliodd ag Ef, gan ddywedyd, "Y mae fy merch fechan ar dranc, yn ymyl marw; atolwg i ti ddyfod a dodi dy law arni, fel yr iachaer hi." Diau fod Jairus mewn brys mawr. Ond cawn yr Iesu yn ymdroi ar y ffordd gyda'r wraig a'r diferlif gwaed, yn ymholi yn ei chylch, ac yn ymddiddan a'r wraig ei hun, yn hollol hamddenol. "Ac efe eto yn llefaru, daeth rhai o dŷ penaeth y synagog, gan ddywedyd, bu farw dy ferch; i ba beth eto yr aflonyddu yr Athraw?" Ond meddai yr Iesu, "Nac ofna, cred yn unig." A chawn Ef yn myned i mewn i dŷ y penaeth, yn adfer yr eneth yn ol i fywyd, ac yn ei chyflwyno i'w thad. Mewn tangnefedd y dyoddefai. Meddai lywodraeth ar Ei deimladau Ei hun; medrai ymbwylo ac edrych yn mlaen; "Pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn." Trosglwyddodd yr achos i lŷs uwch, ac am hyny meddianodd Ei enaid mewn tangnefedd. Yr oedd Efe yn

medru gweled trwy Ei holl ddyoddefiadau; canfyddai eu pen draw, ynghyd a'r canlyniadau bendigedig a'u dilynent.

Yn awr, fel Tywysog tangnefedd, ni a'i cawn yn gadael tangnefedd; i.e., yn rhoddi Ei dangnefedd i'w ganlynwyr. "Nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi." Rhoddi yr hyn a elwir ganddo yn hapusrwydd a wna y byd, ond tangnefedd yw rhodd Crist. Esmwythyd a rydd y byd; rhyddhad oddiwrth waith, a llawenydd hawddfyd; ond nid yw Iesu Grist yn addaw rhyddhad oddiwrth waith nac oddiwrth brofedigaethau; eithr rhydd yr hyn a gymer y blinder ymaith oddiar waith, ac a felusa y profedigaethau, sef tangnefedd. Nis gall y byd rod di hwn. Geill rod di cyfoeth; ond beth yw ei werth heb dangnefedd? Medr rod di anrhydedd a dyrchafiad; ond pa faint o werth sydd ynddynt heb dangnefedd? Rhyw *feverish excitement*; rhyw gyffrôadau cymysgedig o boen ac o bleser, yw llawenydd goreu y byd hwn; ond yma tangnefedd, heddwch fel yr afon, ac yn glir fel y grisial i'w waelod. Gadawer i ni ymofyn, beth ydyw

ELFENAU Y TANGNEFEDD A DDYRY CRIST I'W GANLYNWYR.

I. *Ymwybyddiaeth o ffafr Duw.* Meddai yr Iesu ymwybyddiaeth felly yn wastadol; gwyddai fod Ei Dad yn Ei garu, Ei fod yn aros yn Ei gariad Ef, a'i fod yn Ei wrando bob amser. Os nad oedd dynion yn Ei ogoneddu, medrai ddywedyd—"Fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i;" ac ymgysurai yn y syniad nad oedd Ei Dad yn ddiystyr o'r modd yr ymddygai dynion tuag ato. "Nid wyf yn ceisio fy ngogoriant fy hun," meddai; "a mae a'i cais ac a farn." Mwynhâi gymdeithas gwastadol Ei Dad, oblegid medrai ddywedyd—"Yr hwn a'm hanfonodd i sydd gyda myfi; ni adawodd y Tad fi yn unig, oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sydd foddolawn ganddo ef." Y sicrwydd o hyn a'i cynhaliai wrth feddwl am y tywydd mawr oedd o'i flaen, pryd y byddai iddo gael Ei adael gan hyd yn nod y rhai a broffesent fod yn anwyl o hono. "Y

mae yr awr yn dyfod, ac yr awrhon hi a ddaeth, y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadewch fi yn unig, ac nid wyf yn unig, oblegid y mae y Tad gyda myfi." Ar ddau achlysur nodedig fe amlygodd Ei Dad Ei gymeradwyaeth o hono mewn modd cyhoeddus, trwy lef o'r nef—"Hwn yw fy anwyl Fab." Os oedd yn helbulus ar yr Iesu yn Ei berthynas a'r ddaear, yr oedd yn glir rhyngddo a'r nefoedd; os ydoedd dynion yn Ei erlid, gwnaent hyny tra yr ydoedd Ef dan siriol wenau Ei Dad; am hyny yr oedd mewn tangnefedd heddychol, a dynion yn analluog i'w gythryblu.

Sylfaen ein tangnefedd ninau, os ydym byth i'w feddianu, fydd heddwch tuag at Dduw. Os bydd ymwybyddiaeth yn y fynwes nad yw yn dda rhyngom a Duw, y mae yn amhosibl bod yn dawel. Eler i'r gyfeillach lawen; i'r gyfeddach a'r diota; i'r cyngherdd a'r ddawns a'r chwareudy; ymgoller mewn bydolrwydd, yn ei gyfoeth a'i foethau a'i anrhydedd; crwydrer yn barhaus ar hyd wyneb y ddaear, er cadw i fynu amrywiaeth yn y golygfeydd arddunol a phrydferth, fel na byddo hamdden i'r teimlad heneiddio na diflasu; i'e, gwneler pob peth sydd yn tueddu i droi sylw y meddwl oddiwrtho ei hun a'i gysylltiadau mwyaf pwysig; ni thycia dim, ac ni thycia yr oll, os bydd *suspicion* yn llechu yn y fynwes fod Duw yn ddigllawn wrthym. Amhosibl yw i blentyn mewn teulu fod yn dawel, na mwynhau ei hun, os bydd anghydfod rhyngddo a'i dad heb gael ei setlo. Rhaid setlo y cweryl yn gyntaf mewn ymheddychiad a'i dad. Dyna y fath rai yw trigolion y byd, plant drwg wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn eu Tad sydd yn y nefoedd, yn gwneyd eu goreu i ymddifyru, ac i anghofio y cweryl sydd rhwng y Tad a hwythau. Ond ofer yw yr ymgais, a gwaeth nag ofer. Y mae'r amgylchiadau mwyaf dibwys yn abl eu hafionyddu, fel y mae y cyffro a'r swm lleiaf yn abl deffro y gwyllydydd sydd wedi ymollwng i gysgu yn lle gwylio, a dwyn ofnau dychrynlyd arno. "Trwst deilen yn ysgwyd a'u herlid hwynt;" fel plentyn yn cael ei ddychrynu gan y cyffro lleiaf

wrth deithio lle unig yn y tywyllwch. Ie, “yr euog a ffy heb neb yn ei erlid.” Y mae cydwybod euog yn deongli pethau, ac weithiau yn gwneyd hyny yn gyfeiliornus; “Hwn yw yr Ioan y torais i ei ben ef,” meddai Herod am Iesu Grist. Rhaid tawelu y gydwybod, ac ymheddychu a Duw, cyn cael tangnefedd. Medr Crist wneyd hyny. Aeth y Cyfiawn hwn i le yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw. Y nos gyntaf ar ol yr adgyfodiad, a’r dysgyblion wedi ymgasglu ynghyd rhag ofn yr Iuddewon, “daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, tangnefedd i chwi; ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangosodd iddynt ei ddwyllaw a’i ystlys,” er arwyddo nad gair ofer ydoedd hwn; fod yr hyn a aeth trwy Ei ddwyllaw a’i ystlys Ef yn abl fforddio iddynt hwy dangnefedd. Pan fyddo yr Iesu yn dyfod eto i fynwes pechadur, ac yn llefaru tangnefedd, y mae yn dangos Ei ddwyllaw a’i ystlys; ac yn yr olwg arnynt bydd y baich o bechod yn diflanu, a thyr yntau allan i ganu—

“Mi dafla’ maich oddiar fy ngwar
Wrth gofio dwyfol loes;
Euogrwydd fel mynyddau’r byd
Dry’n ganu wrth dy groes.”

II. *Llywodraeth ar holl nwydau a dymuniadau y galon.* Nerthoedd i ysgogi dyn, ac i’w gyfnerthu, ydyw holl deimladau y galon; oer ac eiddil, ië, dim, fyddai dyn hebddynt. Dyma yr ager sydd i weithio y peiriant. Eto galluoedd ydynt sydd yn gofyn am eu llywodraethu; onide fe a y cwbl i anrhefn. Beth a fyddai cymdeithas heb awydd mewn dynion am wybodaeth, am gyfoeth, am glod ac anrhydedd, ac heb allu i garu a chashau? Yn wir, ni fyddai cymdeithas fel y cyfryw yn bodoli; tragywyddol auaf mewn oerni a diffrwythdra a fyddai yn teyrnasu. Ond oherwydd y pethau hyn, y nwydau a’r chwantau yma, y mae y byd yn llawn gwaith; ië, ac oblegid eu hafreolaeth yn llawn trueni yn ogystal. Ceir pob nwyd a chwant am fod yn oruchaf, am enill yr orsedd, ac yn gofyn am foddhad uniongyrchol, a hyny

yn ddiystyr o bob canlyniadau. Rhaid i ddyn gan hyny wrth ryw *regulating power*, onide dinystr ac aflwydd a'i goddiweddant. Bydd holl deimladau y galon, pan yn myned yn eithafol, a phan yn tori yn rhydd oddiwrth bob awdurdod, yn troi yn ddefnydd anghysur pwysig. Meddylier am yr awydd i ragori, i gyrhaedd clod ac anrhydedd. Teimlad ydyw hwn ynddo ei hun wedi ei osod ynom gan y Creawdwr, ac efe mewn rhan sydd yn rhoddi cyfrif am gynydd dynolryw yn mhob oes a gwlad. Ond pan fyddo yn myned yn anghymedrol, nid yn unig try yn afiachus a phechadurus, ond hefyd yn boenus. Y mae ei feddianydd yn boreu-godi, yn myned yn hwyr i gysgu, ac yn bwyta bara gofidiau. Y mae ei uchelgais yn bwyta ei holl gysur. Meddylier drachefn am yr awydd am gyfoeth. Nid ydyw hwn mewn un modd i'w ddiystyru. Trwy fod rhai yn trysori; trwy *accumulation of capital* y cyflawnir gorchest-weithiau y byd. Y mae cyfoeth nid yn unig yn ychwanegu at allu i fwynhau, ond yn allu pwysig er daioni; ac os bydd hyny mewn golwg, sef gwneuthur daioni a'r cyfoeth, y mae ei chwenychu yn gyfreithlon. Ac eto, "gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch, yr hon a rhai yn chwanog iddi, hwy a'u gwânasant eu hunain a llawer o ofidiau." Gan awydd ychwanegu at yr hyn sydd eiddynt, a chan ofn colli yr hyn sydd ganddynt, nid ydynt yn cael gorphwysdra un amser. "Y neb a garo arian ni ddigonir ag arian." A mawr yw trueni y cybyddion. Duw dosturio wrth eu heneidiau culion. Nid ydyw hyd yn nod digllonedd bob amser yn annymunol; ond i'r gwrthwyneb, yn beth i'w gymeradwyo. Meddai yr apostol—"Digiwch, ac na phechwch; na fachluded yr haul ar eich digofaint." Prawf yr hwn a fedr deimlo digllonedd yngwyneb camwri fod ei natur foesol heb ei llwyr golli; ond pan fyddo y digllonedd yn parhau yn hir, a thrwy hir-barhad yn dirywio i fod yn ddialgarwch, y mae yn myned yn bechadurus ac yn boenus yr un pryd. Yn wir, gwna y digllonedd hwn fwy o wirioneddol niwed i'r dyn, a difetha fwy ar ei gysur, na'r

camwedd a'i hachlysuorodd. Am y teimladau cas, sydd bob amser ac yn mhob gradd yn bechadurus, nid oes dim ond poen heb bleser ynglyn a hwynt. Cenfigen a bydra yr esgyrn; ië, a ladd ei pherchenog. Felly y mae holl deimladau y galon, pan elont yn orchfygol, yn brofedigaeth. Y maent felly ar wahan; ac y maent yn fwy felly oherwydd y ffræ sydd rhyngddynt a'u gilydd; pob un am ymladd ei ffordd i orsedd ei galon, a'r lleill am ei rwystro. Teyrnas heb frenin yw mynwes dyn heb Grist; *anarchy*, aflywodraeth sydd yno; yr holl nwydau a'r chwantau mewn ymryson a'u gilydd. "Ni bydd heddwch, medd fy Nuw, i'r rhai annuwiol." Ond y maent fel y môr, yn dygyfor.

Ond yr oedd yr Iesu yn meddu y tangnefedd sydd yn codi o hunan-lywodraethiad. Profodd hyny yn nechreu Ei fywyd cyhoeddus, pan, trwy *self-restraint*, y diffoddodd holl bicellau tanllyd y fall. Yn Ei fedydd disgynodd yr Ysbryd Glân arno yn gymhwysder arbenig i gyflawni Ei waith, a daeth llef galonogol o'r nefoedd;" "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Ond y lle nesaf y cawn Ef yw mewn anialwch, yn cael Ei demtio gan ddiabol, gwedi ymprydio o hono ddeugain niwrnod. Nis gallasai lai na bod yn ymwybodol o ddisgyniad yr Ysbryd arno yn gymhwysder at waith; ac nid oedd dim yn fwy naturiol nag iddo chwenychu gosod y gallu mewn gweithrediad, fel y mae pob dyn yn awyddus i osod mewn gweithrediad allu a fyddo newydd dderbyn. Cenfydd Satan ei fantais, sef newyn trwm gwedi deugain niwrnod o ympryd. "Os Mab Duw wyt ti," meddai, "arch i'r cerig hyn fod yn fara." Teimla yr Iesu y newyn, a rhydd hwnw fin ar demtasiwn y diafol; ymdeimla hefyd a'r gallu a fedd i dori y newyn yn ol yr awgrym a roddir iddo; ond y mae, er hyny, yn gwrthsefyll y demtasiwn trwy ddweyd—"Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw." Cawn Ef ar derfyn Ei flwyddyn weinidogaethol yn Galilea yn gadael y wlad, gan deimlo mai aflywyddianus a fu; nad oedd anrhydedd i brophwyd yn ei

wlad ei hun. Ar ganol y daith, pan yn myned trwy Samaria, enfyn allan ddeg-a-thriugain o ddysgyblion ar hyd y cyffiniau; yna cyhoedda y gwaeau ofnadwy uwchben dinasoedd Galilea. Ond nid teimlad sur a siomedig a'i cynhyrfai, oblegid cawn Ef yn llawenhau am lwyddiant gweinidogaeth y deg-a-thriugain, ac yn gwahodd y blinderog ato Ei hun. Drachefn yn Judea, triniaeth waeth sydd yn Ei aros. Pan yn athrawiaethu yn y deml, hwy a godasant gerig i'w taflu ato. "A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml, gan fyned trwy eu canol hwynt; ac felly yr aeth efe heibio." "Ac wrth fyned heibio (yn mhorth y deml) efe a ganfu ddydd dall o'i enedigaeth." Ni chythryblwyd Ei ysbryd gan y driniaeth, ac nis dychrynwyd ychwaith; eithr gan hysbysu y ddysgyblion fod yn rhaid iddo weithio gwaith yr Hwn a'i hanfonodd tra yr ydyw hi yn ddydd, poera ar y llawr, gwna glai yn hamddenol o'r poeryn, ac ira lygaid y dall ag ef, gan ei anfon i ymolchi i lyn Siloam, a thrwy hynny adfer ei olygon iddo. Amser a ballai i mi i fynegu ond ychydig iawn o'r pethau am yr Iesu.

Dyma Ei dangnefedd. Hwn hefyd y mae yn gyfranu, trwy ddangos Ei hun. O fewn holl glych y teimladau nid oes dim mor effeithiol ag esiampl. Gan hynny, rhedwch yr yrfa a osodwyd o'ch blaen, "gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni." "Ystyriwch yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid, fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau." Pan yn teimlo tuedd i gael eich dyrchafu gan glod a phoblogrwydd, edrychwch ar yr Iesu; pan y ceisid Ef i'w wneuthur yn frenin, treuliodd yr holl nos hono mewn cymundeb a'i Dduw. Pan yn llwfrhau ac yn digaloni oblegid amboblogrwydd, edrychwch ar yr Iesu, yr Hwn pan yr oedd y dyrfa yn cefnu arno a ofynai i'r deuddeg—"A fynwch chwithau hefyd fyned ymaith?" Cawn amryw o'r merthyron yn ymdawelu ynghanol eu poenau wrth gofio am Ei ddyoddefadau Ef. Gellid meddwl fod tangnefedd yr Iesu yn

cael ei drosglwyddo iddynt trwy edrych arno. Darllenais am rywun yn ngwledydd y Dwyrain fyddai, pan mewn cythrwfl ysbryd, yn edrych i'r nefoedd wybrenol. Y mae yr wybren yn dawel iawn yn y Dwyrain; y mae felly yma weithiau; "Y mae efe yn gwneuthur heddwch yn ei uchel-fanau." Ac yr oedd yr hen athronydd yn cyfranogi o dangnefedd yr wybren wrth edrych arni. Pa faint mwy y cyfranoga y Cristion o dangnefedd yr Iesu, wrth edrych a llygad ffydd nes sylweddoli ei wrthrych? Nid yn unig y mae yno ddylanwad y weithred o edrych ar dangnefedd, ond hefyd credaf nad yw Tywysog tangnefedd yn segur ar achlysuron o'r fath; **either** Ei fod yn llefaru tangnefedd wrth yr hwn sydd yn edrych tuag ato.

III. *Ymwybyddiaeth fod y bywyd yn ei iawn gwrs; fod y dyledswyddau yn cael eu cyflawni.* Y mae i bob bywyd ei gwrs priodol; y mae yn gorphwys ar bob dyn ddyledswyddau; ac nid yw yn bosibl i neb feddianu tangnefedd yn ei fynwes oni fydd yn credu fod ei fywyd yn rhedeg yn yr iawn gyfeiriad, a bod y prif ddyledswyddau gorphwysedig arno yn cael eu cwblhau. Ofer ceisio tangnefedd heb hyn. Medd pob dyn ei le, a medd pob dyn ei waith, ac nis geill fod mewn heddwch oni fydd yn llanw ei le, ac yn cyflawni ei waith. "Y mae pob peth yn llawn gwaith," medd y Pregethwr. Y maent felly ar y ddaear isod, ac yn y nefoedd uchod. Y mae holl elfenau natur, holl anifeiliaid y maes, ehediaid y nefoedd, ymlusgiaid y ddaear, a physgod y môr yn llawn cyffro a gweithgarwch. A beth drachefn am ddyinion y byd? Oh, nid yw y cwch gwenyn, na thwmpath y morgrug, ond arddangosiadau egwan o'r cyffro a'r gweithgarwch sydd yn mhllith meibion dynion. Y mae ein daear fechan ni, a'i chrynswth o fywyd a gweithgarwch, yn ei lle ei hun, ac mewn undeb ag aneirif fydoedd eraill, yn olwyno yn gyson yn entrych y nefoedd. Ac nid yw y peiriant anferthol hwn, sydd yn abl syfrdanu dyn wrth geisio amgyffred ei eangder a rhifo ei ranau, byth am eiliad yn sefyll yn llonydd. Ie, nid yn

unig y mae y greadigaeth yn llawn gwaith, ond y mae y Creawdwr Ei hunan yn gweithio o hyd. "Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn," meddai yr anfeidrol Fab am yr anfeidrol Dad. Felly, priodol dweyd fod gwaith yn angenrheidrwydd natur yn Nuw, ac yn ddeddf yn Ei greadigaeth. Ofer ydyw i neb mewn seguryd ddisgwyl bod yn ddedwydd tu fewn i'r greadigaeth hon. Er hyny ceir llawer yn ddigon ffol i dybio mai mewn segurddod y cyfanedda dedwyddwch, ac i ymofyn am dano iddynt eu hunain trwy arwain bywyd segur a diddim. Dywedir fod canoedd o filoedd yn Mhrydain Fawr yn wir druenus, ac mai prif ffynhonell eu truenu yw eu segurddod. Oh ynfydrwydd! Fel y mae y felin sydd yn troi heb ddim ynddi yn malu ei hunan oblegid ei gwagder, felly y mae y diog a'r diffwrwyth yn y diwedd yn sicr o ddyfod yn rhy ymwybodol o honynt eu hunain, ac o droi i gystuddio a chystwyo eu hunain. Adroddir am ryw Aiphtiwr a gafodd ei ddychwelyd at Gristionogaeth yn y canol-oesau, yr hwn, oblegid ~~fod~~ mynachaeth yn cael ei gymeradwyo yn yr oes hono fel y ffurf uchaf ar grefydd, a ymgymherodd a'r cyfryw fywyd. Crwydrodd yn mhell ar hyd yr anial garw, a dewisodd ryw ogof ddigysur yn drigle iddo ei hun, gan ymgynal ar wreiddiau a ffrwythau prinion yr anialwch. Yno y bu am ryw ysbaid yn darllen, yn myfyrio, ac yn gweddio, gan geisio disgyblu ei hun i dduwioldeb. Ond nid hir y bu cyn i'w drueno gynyddu arno, nes gwneyd ei fywyd braidd yn ormod o faich i'w ddwyn. Mewn gweddi dywedodd fod yn well ganddo farw na byw, ac felly ei fod yn dymuno, i'e, yn crefu am gael ei symud. Pan yn nghanol ei dristwch syrthiodd trwmgwsg arno, ac yn ei freuddwyd efe a welai angel, yr hwn a ddywedodd wrtho: "Tor y balmwydden sydd yn tyfu wrth y ffynon acw, a gwna raff o'i chyhyrau." Gwedi deffro, penderfynodd wneyd arch yr angel; ond nid oedd ganddo yr un fwyell at dori y pren. Rhaid gan hyny oedd iddo deithio ymhell i fysg dynion drachefn i gael benthg bwyell; ac felly y gwnaeth, a dychwelodd yr holl ffordd yn

ganlynol a'r fwyell ganddo. Yna ymroddodd i dori y pren, i ddatod ei gyhyrau, ac i'w plethu drachefn yn gwden o raff, nes yr oedd ganddo dorch fawr o raff daclus. Gwedi iddo orphen, ymddangosodd yr un angel iddo drachefn mewn breuddwyd, ac wedi ei alw erbyn ei enw a'i longyfarch oherwydd y cysur oedd wedi ei adfeddianu tra y bu yn llafurio i wneyd y rhaff, ychwanegodd: "Gwybydd bellach fod dyn wedi ei ordeinio i waith ac nid i segurdd; dychwel dithau i fysg dynion megis cynt, gan wregysu dy lwynau at waith a'r rhaff a blethaist yn yr anialwch; ond cofia gysegru y cyflawniad o bob dyledswydd a gweddi, ac felly y byddi dedwydd." Gwers go dda mewn breuddwyd, onide? Nid yn aml y ceir cystal gwersi mewn breuddwydion. Y mae yn amhosibl i'r hwn sydd yn teimlo nad yw ei fywyd yn dda i ddim fod yn ddedwydd, tra y mae yr hwn sydd yn gweithio yn meddu y boddhad bendigedig sydd yn codi oddiar ymwybyddiaeth fod ei fywyd yn ateb rhyw bwrpas. Cyfyd tangnefedd o orpheniad gwaith, o gyflawniad dyledswydd, er efallai na fydd y syniad o ddyledswydd yn un uchel, na'r teimlad o rwymedigaeth yn cyrhaedd yn mhellach na dynion. Felly y desgrifia Longfellow y "*Village Blacksmith*"—

"Each morning sees some task begun,
Each evening sees its close;
Something attempted, something done,
Has earned a night's repose."

Gôf y pentref ydyw hwn, a gôf angrefyddol fe ddichon, eithr y mae wedi enill iddo ei hun dawelwch i gysgu trwy gyflawniad gonest o waith. Ond os nad yw y gôf, y gweithiwr, yn ddyn crefyddol ac yn gweithio dros Dduw, rhyw haner peth, a llai na hyny, yw ei dawelwch. Oblegid y mae i ddyn gysylltiadau eangach na'r byd hwn, a chyfrifoldeb uwch nag i ddynion, ac ni fedr gael gwir dangnefedd os na fydd trwy gyflawniad gonest o'i ddyledswydd tuag at Dduw, wedi gosod ei hun yn *right* yn y cysylltiadau eangaf.

Hwn ydoedd tangnefedd Crist. Gweithiwr diffino ydoedd Ef. Dyma Ei deimlad a'i amcan wrth ddyfod i'r byd. Pan

yn eistedd yn lluddedig wrth ffynon Jacob, cawn Ef yn colli Ei ludded, a'i newyn, a'i syched, wrth ymddiddan a'r wraig o Samaria. A phan ddychwelodd y dysgyblion wedi bod yn y ddinas yn prynu bwyd, a phan yr atolygent arno i fwyta, cawn Ef yn dangos difaterwch at y bwyd a brynwyd ganddynt, gan ddywedyd—"Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef." Ar achlysur arall dywedai, "Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd tra yr ydyw hi yn ddydd; y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio." A phan y mae y nos yn dynesu, y mae yn medru dywedyd yn ngwyneb y neshad hwnw, "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear, mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur." Ac wedi i'r nos ddyfod, y nos dywyllaf yn nghreadigaeth Duw, nos o dywyllwch naturiol ac ysbrydol, pan yr oedd Ei gyfeillion wedi Ei adael, a'i Dad wedi Ei adael, ynghanol yr unigrwydd a'r tywyllwch digyffelyb hwnw, y mae yn medru marw mewn tangnefedd, gan ddywedyd, "I'th ddwylaw di, o Dad, y gorchymynaf fy ysbryd." Medrodd hyn oblegid Ei fod wedi gallu dywedyd, "Gorphenwyd." Tangnefedd yn codi oddiar orpheniad gwaith wedi ei gyflawni dros Ei Dad oedd Ei dangnefedd Ef. Hwn hefyd a gyfrenir ganddo. Y mae yn codi dyn i fyw i Dduw, i wneuthur gwaith Duw, sef i Dduw a thros Dduw, nes y mae y dyn yn myned yn ddyw Duw. Felly, bydd pethau daearol bywyd yn cael eu nefoleiddio, a'r pethau cyffredin yn cael eu hurddasoli. Y mae y dyn bellach yn teimlo rhyw foddhad yn ei fywyd ei hun, gan ei fod yn byw i amcan ei greadigaeth, ac y mae gan hyny yn byw ac yn marw mewn tangnefedd.

IV. *Boddlonrwydd i'r amgylchiadau presenol.* Tuag at fod mewn tangnefedd, rhaid bod yn ddiddig. Nid rhaid manylu llawer i ddangos fod yr Iesu yn ddiddig a boddlawn. Dyma un o'r pethau cyntaf a deimlwn wrth ddarllen Ei hanes. Tlawd oedd Ei amgylchiadau; gwael oedd Ei gyflwr; ond eto cawn Ef yn berffaith ddiddig. Nid ydyw yn ymddangos

fel pe wedi āgor Ei lygaid ar ogoniant daearol, fel ag i'w chwenychu o gwbl. Nid ydyw yn ei ddiystyru, fel y gwna rhai, mewn chwerwder ysbryd siomedig, chwerwder sydd yn dangos fod rhywbeth dyfnach o tano, sef awydd ei feddianu. Wrth ddarllen hanes Iesu Grist yr ydym yn colli ein golwg yn llwyr ar ogoniant daearol; nid ydyw mewn bod. Nid ydyw gorseddfenciau; coronau, a theyrnwial mân deyrnas-oedd y ddaear ond gwael-gelfi dirmygedig i Un oedd wedi Ei eni i fod yn Etifedd y byd; iē, yn Etifedd creadigaeth Duw. Nid yw yn sylwi arnynt o gwbl. A phan yn rhodio ar hyd ffordd arw diystyrwch ac erledigaeth, y mae yn ymgysuro mai Ei ffordd i'r orsedd ydoedd hono. "Yr hwn yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd." Unwaith y gwnaeth grybwylliad am Ei dlodi, ac nid achwyn yr oedd y pryd hwnw, ond rhybuddio canlynwr anystyriol i fwrw y draul. Wrth hwnw y dywedodd, "Y mae ffauau gan y llwynogod, a chan ehediaid y nefoedd nythod, ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr." Ond wrth Petr, pan dorodd ymaith glust gwas yr archoffeiriad, efe a ddywedodd, "Dychwel dy gleddyf i'w le. A ydwyd ti yn tybied nas gallaf yr awrhon ddeisyf ar fy Nhad, ac efe a rydd yn y fan i mi fwy na deuddeg lleng o angylion?" Nid o raid, Petr, ond o ddewisiad yr ydwyf wedi dyfod i'r cyflwr hwn. "Y cwpan a roddodd y Tad i mi, onid yfaf ef."

Y mae efe yn abl cynyrchu boddlonrwydd cyffelyb yn Ei ganlynwyr, a thrwy hyny roddi tangnefedd iddynt. I'r gwir gredadyn nid ydyw ei amgylchiadau daearol ond ail beth yn ei olwg; ei lwyddiant ysbrydol, a'i dynged dragywyddol mewn byd arall sydd yn bwysig. Ond am yr annuwiol, y mae ei ran yn y bywyd hwn; derbynia ei wynfyd yn ei fywyd; a pha ryfedd ei fod yn fawr ei ffwdan am gael ei gyfran. Eithr pererin yw y Cristion; ymdeithydd ac alltud ar y ddaear; bydd yn canu yn aml wrth deithio:

"Nid fy nef yw ar y ddaear,
Pe goreu man dan gwmpas haul."

Y mae ei bethau mawr, a'i bethau goreu, oll yn mlaen; ei drysor yn y nefoedd, a'i gartref fry. Gan hyny, nid yw yn orawyddus am rodio ar uchelderau y ddaear, na bwyta ei melusion ychwaith. A phe y digwyddai iddo gyfarfod a thywydd garw, fel y bydd yn sicr o wneuthur, naill ai yn y boreu, neu yn y prydawn, neu ynte ganol dydd, nid yw yn gofalu cymaint, gan ei fod ar ei daith, ac yn disgwyl pethau gwell ar ben ei siwrnau. Ar y noswaith oer, pan rewodd bys Mr. Charles o'r Bala, yr oedd yn dywedyd wrth groesi mynydd y Berwyn, "Y mae'r Berwyn yn burion le i'w groesi wrth fyned adref." Cysuron clyd yr aelwyd yn y Bala oedd yn dyddanu ei feddwl ar ben y mynydd oer. Ac felly y teimla'r duwiol mewn adfyd a thlodi a chystudd; purion le ar ei daith adref. Ac

"Ni phery ddim yn hir
'Mor ddu dymhestlog nos."

Y mae yr holl bethau blinion hefyd dan reolaeth Tad anffaeledig mewn doethineb, ac anfeidrol mewn daioni. Ac am hyny y cân gyda bachgen y cadben, wrth forio tonau tymhestlog y byd—

"Fy Nhad sydd wrth y llyw."

Dyma foddlonrwydd bendigedig sydd yn wir dangnefedd.

V. *Rhyddhad oddiwrth ddychryn y dyfodol.* Nis gall dyn meddylgar lai na theimlo ei hun yn cael ei lethu yn fynych gan bryder am y dyfodol tywyll sydd o'i flaen, a bydd ei fod yn methu cael atebiad boddhaol i'w gwestiynau yn aml yn gyru iasau o ddychryn trwy ei holl natur. Yn mlaen y mae ein pethau mawr ni i gyd. Meddai Southey y bardd—"Nid wyf yn teimlo nemawr bwys na dyddordeb yn yr hyn a fu yn yr amser a aeth heibio; yr ymlaen ofnadwy sydd yn bwysig i mi." Dywedai Henry Ward Beecher nad oedd efe yn prisio llawer pe byddai yn wir fod dyn wedi hânu o'r epa; y byddai cystal ganddo hyny a deilliaw o ambell ddyn; ond mai pa beth a pha fodd y byddai am y maith dragywyddoldeb oedd yn bwysig yn ei olwg ef. Afon sydd yn raid ei chroesi yw'r

Iorddonen. Ond y mae aml un wedi dweyd gyda'r bardd wrth edrych ar rym y dwr, a'i thonog genlli, a'r mynych rymus wr a suddodd ynddi—

“Oh! na bai modd i mi
Ysgoi ei hymehwydd hi,
A hedfan uwch ei lli'
I'r Ganaan hyfryd.”

Ond rhaid myned trwyddi. Brwydr sydd raid ei hymladd yw y frwydr ag angau; ac nid oes bwrw arfau—dim lle i roddi i fynu—yn y rhyfel hwn. Medr y meddyg ddesgrifio y *stages* y bydd y corph yn myned trwyddynt, hyd nes y byddo'r galon yn peidio curo, a'r gwaed yn dechreu rhewi; ond pa feddyg a fedr ddesgrifio agwedd y meddwl, a pherthynas yr amgylchiad a'r enaid byw sydd ar gymeryd ei aden o'r telpyn pridd a adewir ar ol? Gwedi ymadaw, i ba le a pha fodd yr â yr ysbryd anfarwol? A ydyw yn cael ei wysio yn uniongyrchol i bresenoldeb personol y Duw anfarwol, gan deimlo llygad craff a phur yr Hollwybodol yn treiddio trwy ei holl natur a thrwy ei holl hanes, ac yna gerbron y dwyfol lys yn gwrando ar ei dynged am byth? Neu ynte, a fydd yr enaid yn driffio i'w le ei hun, yn cael ei gludo gan ei gyffelyb, angelion neu gythreuliaid, yn ol yr attyniad sydd gan y cyffelyb ar eu gilydd? Pa fodd y teimla yr enaid pan fydd yn dechreu syllu o'i gwmpas, ac yn sylweddoli y ffaith ei fod yn ei gartref newydd a thragywyddol? Pa gyfrwng cymundeb fydd rhyngddo a'r greadigaeth oddi allan, wedi iddo golli y corph a'i synwyrâu? Wedi iddo gael y corph a fydd, ai yr un rhyw a'r un nifer fydd synwyrâu hwnw a'r corph presenol; neu ynte, a fydd wedi ei ddodrefnu a synwyrâu newyddion, i agor dorau i ryfeddodau newyddion yn yr hen greadigaeth? Beth fydd ein gwaith ni yno? Nid wyf yn son am uffern yn awr. Gwareded Duw ni rhag myned yno. Y mae meddwl fod tebygolrwydd, i.e. posiblwrwydd, i fyned yno, yn abl llethu a lladd pob dyn ystyriol. Na, am y nefoedd yr wyf yn siarad. Y mae y dyeithrwch a'r tywyllwch sydd yn gor-

chuddio y nefoedd yn abl dwyn pruddglwyfni arnom. Ai syn-syllu y byddwn ar y gogoniant dwyfol, mewn rhyw syfrdandod nefolaidd, fydd yn ein hanalluogi i wneuthur dim ond gollwng allan fawl diddiwedd i Dduw a'r Oen; neu ynte, a fydd yno waith i bob gallu, a boddhad i bob teimlad a fedd y ddynoliaeth, a lle i weithgarwch amrywiol a dedwydd yn ein perthynas a'n gilydd megis ar y ddaear? Pwy hefyd fydd ein cwmpeini? A amgylchynir ni gan ein hen gyd-nabod a'n perthynasau yn y byd hwn; neu ynte, a fyddwn yn ymgymysgu a phreswylwyr tragwyddoldeb fel pe na buasem wedi bod yn trigo ar y ddaear o gwbl, yr hen gysylltiadau nid yn unig wedi eu dattod ond wedi myned yn anghof, a ninau wedi myned yn aelodau o gymdeithasau newyddion yn ol neillduolion ein cymeriadau? Ai preswylwyr y ddaear yn unig a'n hamgylchant; neu ynte, a fyddwn yn ymgyfathrachu ag angelion ac archangelion y drydedd nef y rhai sydd yn fil myrddiwn, ac a phreswylwyr aneirif y miliwnau bydoedd, sydd filoedd o weithiau yn fwy na'n daear ni, a boblogant yr eangder diderfyn? Draw, draw, draw, yn nhragwyddoldeb, ai diystyr yn ein golwg a fydd y ffaith fod rhywrai wedi bod i ni yn dad ac yn fam, yn briod ac yn blant, ac yn hen gymdeithion ein hieuenctyd, pan oeddym yn trigo ar y ddaear yn mabandod ein bodolaeth; i'e, ai diystyr a fydd y rhai hyn yn ein golwg, a ninau wedi cael ein llyncu i fynu gan ein cysylltiadau a'n perthynasau newyddion, fel pe na buasai ond hwy erioed wedi bodoli? Neu ynte, a fydd yna ryw gysegr-edigaeth ac anwyldeb yn codi oddiar hen gofion y ddaear fydd yn cydreddeg ymlaen a'n bodolaeth am byth, ac yn peri y bydd ein hen anwyliaid ar y ddaear yn parhau yn anwyliaid neillduol i ni, hyd yn nod yn nghanol cwmpeini y nefoedd am dragwyddoldeb? O, pwy a fedr ateb? Ni a garem gael gwybod. A fydd amser yn y byd a ddaw? A fydd bysedd a ffigyrau yn dweyd beth fydd hi ar gloch tragwyddoldeb, ac a fydd cysgod yn disgyn ar ei ddeial? Ai olwyniad y byd-oedd mawrion yn yr entrych fydd yn rhanu amser yn rhan-

iadau cyfartal, a thrwy hyny wneuthur trafndiaeth a chymdeithas yn beth posibl a dymunol; neu ynte, a fydd pob un yn cael ei adael i fesur amser, os bydd yn dewis, drosto ei hun, yr hwn fydd yn amrywio yn ol cyflymder neu arafwch gweithrediad ei feddyliau a'i deimladau? Pwy fedr ateb? Ai ystad ddiweddaf a digyfnawid dyn fydd yr un gyntaf yr â iddi ar ei fynediad i'r byd ysbrydol; neu ynte, a fydd cyfnodau, ac esgyniad uwch yn y naill gyfnod ar ol y llall yn y bywyd tragywyddol, nes cyrhaedd yn y diwedd ystad o ysbrydolrwydd pur a digorph, tebyg i'r Duwdod Ei hunan, fel y tybia rhai? Oh, pwy eill ateb? Oh, gwestiynau difrifol ofnadwy i bob dyn meddylgar! Oh, ddyeithrwrch; oh, dywyllwch ofnadwy sydd ar yr ymlaen tragywyddol! A oes neb a fedr dangnefeddu y meddwl yn ngwyneb y dy-eithrwrch a'r tywyllwch hyn? Oes, trwy drugaredd, y mae Un, a dim ond Un. A oes eisiau Ei enwi? Iesu Grist. Oh, diolch am dano! "Ni a wyddom pan ymddangoso efe y byddwn gyffelyb iddo, canys ni a gawn ei weled megis ag y mae." Dyna ddigon; ni a fentrwn dragywyddoldeb yn y goleuni hwn, gan foddloni bod mewn anwybodaeth am bob peth arall. Nid yw o un pwys i ni gael eu gwybod; pe amgen, buasai Efe wedi dweyd wrthym. Ni a ymddiriedwn ar Ei anrhydedd Ef am bob peth arall. Y mae wedi dyweyd, "Yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda mi." Dyna ddigon. Ie, yn enwedig gan Ei fod, trwy enau Ei sanctaidd apostol, Paul, wedi awgrymu y cawn ail-ymuno a'n hanwyliaid y rhai a hunasant yn yr Iesu. Gyda'r Iesu, a chyda hwy, ni a fyddwn yn dragywyddol ddedwydd; ie, ac yn ddiiddig yn awr wrth feddwl am hyny. Trwy adael y cwbl yn Ei law Ef yr oedd Dr. Watts yn medru diolch i Dduw, ei fod yn medru myned i gysgu bob nos mewn tangnefedd, heb deimlo pryder ai yn y byd hwn neu yn y byd arall y gwnai ddeffro. Oh, gyfoethogion byd, pa faint a roddech am y tangnefedd yma? Ai yn y pellder oddiwrth angau a byd arall! y maent yn dweyd ac yn teimlo felly? O

nage. Y mae brodyr a chwirydd i ni wedi myned o'r blaen, ac wedi canu buddugoliaeth yn y llif; i.e., yn y llif; wedi dweyd wrth angau yn ei wyneb, "O angau, pa le mae dy golyn?" "Gyrwch am fy mab-yn-ghyfraith," meddai Addison—ac yr oedd ei fab-yn-ghyfraith, *my lord Halifax*, yn ddyn gwyllt, annuwiol ac anffyddol—"iddo gael gweled pa fodd y medr Cristion farw." Ie, y mae angelion yn chwenych edrych ar yr olygfa hon. Dacw ef druan, wedi diflanu bron yn ddim yn ei wely! Y mae yn marw o wendid. Y mae einioes yn rhy wan i gyffro na bys na llaw; i.e., yn rhy wan i lyncu y dyferyn dwr sydd yn cael ei ollwng i'w enau dros y plyfyn; yn rhy wan i feddwl; yn rhy wan i weddio; yn rhy wan i bob peth ond credu. Dan gredu mewn Ceidwad anweledig—nage, yn wir, y mae Efe yn debyg o fod wedi dyfod i'r golwg erbyn hyn—y mae yn mentro yr *entry* dywyll am y byd dyeithr, tragywyddol, yn dawel. Mewn tangnefedd y mae yn ymadael; i dangnefedd tragywyddol y mae yn myned. Maddeuer i mi am weddio yn ngeiriau Balaam—"Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd i fel yr eiddo yntau."

PREGETH III.

—:O:—

YSBRYD CRIST.

RHUF. VIII. 9.—“*Ac od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef.*”

CYFFELYBAI Spener, un o hen dduwinyddion duwiol-frydig y Cyfandir, yr Ysgrythyrâu Sanctaidd i fodrwy aur ardderchog, yr Epistol at y Rhufeiniaid i faen gwerthfawr yn y fodrwy, a'r wythfed benod ynddo i ddysgleirdeb perlog y y maen hwnw. I Gristionogion myfyrgar a defosiynol tebyg i Dafydd, brenin Israel, y rhai sydd yn ymgwreinio ac yn ymddigrifu yn nhystiolaethau Duw, y mae y gyffelybiaeth hon yn dderbyniol a chymeradwy, ac nid i neb arall.

Tery yr apostol gyweirnod newydd yn nechreud y benod hon, a hyny mewn sain gorfoledd buddugoliaethus; “Nid oes, gan hyny, yn awr ddim damnedigaeth,” ac yn nghorph y benod, y mae'r gorfoledd yn ymchwyddo ac yn ymddyrfhafu, nes y terfyna mewn herfeiddiad cyffredinol—“Pwy a'n gwahana ni oddiwrt h gariad Crist?” Sail y gorfoledd sydd yn nechreu y benod, a'r anwyldeb herfeiddiol yn ei diwedd, ydyw fod yr apostol wedi dyfod o hyd i iachawdwriaeth oddiwrt h ei unig elyn, sef ei bechod; a thrwy yr iachawdwriaeth hono wedi cael gafael ar obeithion gwynfydedig. Pruddglwyfus ddigon ydyw ei dôn yn y benod flaenorol, lle y cydnebydd ei hun “yn gnawdol, wedi ei werthu dan bechod;” ond yn y benod hon ymfrostia mewn rhyddhad. Yn ol Paul y mae'r gallu llywodraethol sydd mewn dyn “*yn ddeddf,*” ac am hyny fe sonia am ddeddf yn ei aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl, ac y mae hon yn “*ddeddf pechod,*” oblegid y mae yn caethiwo i bechod; ond yn awr y mae deddf

awch a chryfach wedi ei " ryddhau oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth," " fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr ysbryd." I benderfynu pa fodd y mae pob dyn yn rhodio, ni raid ond gwybod y modd y mae yn synio; pa beth yw meddylfryd ei galon, sef ei chwant llywodraethol, neu, yn ol Godet, pa fath yw ei "*aspiration*" neu y *dyhead* sydd ynddo. "Y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn dyheu," h.y., y maent yn ymestyn at hunan-foddhad, a hyny mewn pethau anianol a chorporol, ac y mae'r dyhead yna yn farwolaeth, " oblegid y mae yn elyniaeth yn erbyn Duw, heb fod yn ddarostyngedig i ddeddf Duw." Ymadawiad ydyw oddiwrth Dduw, yr hyn yw hanfod marwolaeth. Ar y llaw arall, y mae "dyhead yr ysbryd," sef yr ymestyniad a gynyrchir gan y dwyfol Ysbryd am bethau yn ol yr Ysbryd, yn ddychweliad at Dduw, 'ac am hyny nid yn unig y mae "yn fywyd" eithr hefyd yn "dangnefedd."

Hyderai Paul am y rhai yr oedd efe yn ysgrifenu atynt, nad oeddynt yn "byw yn y cnawd," sef nad oeddynt yn ymestyn at hunan-foddhad anianol fel amcan eu bod. Ac yr oedd yn sicr o hyn, "od yw Ysbryd Duw yn trigo ynoch;" oblegid yr oedd dylanwad gwahanol yr Ysbryd oedd ynddynt mor gyson a pharhaus a'i breswyliaid ynddynt. Nid oes dim yn ffurfio gwir berthynas a Christ ond trigiad Ei Ysbryd Ef; oblegid "od oes neb heb ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef."

Dro yn ol, mewn cyd-ymddiddan rhwng dau gyfaill, cyhuddai un o honynt gyfaill arall, yr hwn oedd absenol, o anghysondeb. Amddiffynodd yr ail gyfaill yr un oedd yn digwydd bod yn absenol, gan gyfaddef ar unwaith yr anghysondeb, ond gan ychwanegu y gofyniad chwithig a mud-beiriol—"Pwy sydd bob amser yn gyson ag ef ei hun?" Terfynodd yr ymddiddan yn ebrwydd gydag addefiad o bob tu nad oes dyn cyson ar y ddaear. Nid ydyw y rhinweddol yn byw o hyd ar y *level* uchel y mae yn ei gyrhaedd ar adegau;

oblegid pe dilynech ef i'w oriau cudd, gallech glywed alaeth ei enaid ger bron Duw am gwympiadau chwerw. Ar y llaw arall, nid ydyw yr ynfyttyn mwyaf anystyriol a dilywodraeth heb rai munydau o edifeirwch ac addunedu yn ei hanes yntau. Am y cewri hyny mewn drygioni, y rhai oedd cyn y diluw, yn unig y dywedir "fod holl fwriad meddylfryd eu calonau yn unig yn ddrygionus bob amser"—yr hyn sydd ormodiaith i awgrymu mawredd eu drygioni. Ond er ein bod oll yn debyg i'n gilydd mewn anghysondeb ni chyrhaedda y tebygrwydd yn mhellach. Ymwahanwn yn fuan yn ddau ddsbarth pell-gyrchol oddiwrth ein gilydd. Y mae'r dynion sydd yn egwyddorol dda yn cael eu rheoli gan ysbryd sydd yn hanfodol wahanol i'r ysbryd sydd yn ffynu yn y lleill. A'r hyn sydd yn penderfynu y cymeriad yw yr ysbryd yn fwy na'r gweithredoedd. Er dywedyd o'r Athraw anffaeledig—"Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt," ni feddyliai wrth y "ffrwythau" weithredoedd digysylltiol, y rhai o bosibl fyddant achlysurol a damweiniol. Y mae gweithredoedd i'w barnu yn eu hundeb a'u gilydd, ac yn ngoleuni yr ysbryd sydd yn ffurfio yr undeb hwnw. Gall gweithred fod yn ffrwyth gorfodaeth ag y mae deddf cyfiawnder yn rhyddhau y gweithredydd o bob cyfrifoldeb am dani, neu ynte, dichon y bydd yn gynyrch cynhyrriad mewnol fydd yn fyrbarhaol, neu ynte yn ganlyniad chwâ o wynt, yr hon fel yr awelon oll a ebrwydd dderfydd. Nid gweithredoedd anghysylltiol, ond "*rhodiad*" pob dyn, sef y modd neu y llwybr y mae yn arfer gerdded, sydd yn penderfynu ei gymeriad. Gwel i Ioan i. 8, a iii. 6, 8, 9. Y mae ffurf y gair (yr *aorist*) yn dynodi arferiad.

Mae meddu Ysbryd Crist yn y fan yma yn golygu (1) *Crediniaeth ynddo a chariad annherfynol tuag ato, ynghyd ag ymlyniad dibaid wrtho*. Nid oes neb yn ceisio cymedroli na mesur ei deimladau tuag at y Person digyffelyb hwn. Wrth fesur y byddwn yn caru pawb arall, ond nid wrth fesur y byddwn yn Ei garu Ef. Oblegid rhesymau neillduol y credwn mewn

ereill, ac ni a fedrwn rifo a mesur y rhesymau hyny, ond y mae y rhesymau sydd genym am gredu ynddo Ef uwchlaw rhif a mesur. Da genym ddarllen hanes dynion da ereill, y rhai sydd nid yn unig wedi gadael eu dylanwad yma tra yma yn byw, ond wedi gadael eu hanes ar eu hol i gyfoethogi ein byd ni, a deawn i hinsawdd gynnes pan ddeawn i unrhyw gyffyrddiad a hwy; ond deawn dan belydrau uniongyrchol yr haul pan ddeawn i gyffyrddiad ag Ef. Seren mewn ffurfafen ydyw pob dyn da arall, ac ambell un yn seren unig, tra y mae ereill yn glysdwr o sêr; ac yn anfynych y mae'r sêr mor lluosog nes ffurfio "llwybr llaethog" yn y ffurfafen; ond dyma'r haul, yn mhresenoldeb yr hwn y mae'r sêr oll yn diflanu. Wrth Hwn yn unig y bydd genym ddisgwyliadau mawrion, oblegid er cystal y bydd ereill ni feiddiwn ddibynu llawer arnynt, ond am Hwn yr ydym yn caru hongian wrtho.

(2). *Cyfranogiad o'i ysbryd, gan ymdebygu iddo.* Nid mewn efelychiad o'i amryw rinweddau ar wahan y mae'r prif anhawsder, yn gymaint ag mai nid y rhinweddau hyny o'u hystyried ar wahan sydd yn cyfansoddi Ei brif ogoniant, eithr y cyfuniad a'r cymmesuredd ag sydd yn gwneyd i fynu neillduolrwydd Ei berson. Megis na ellir dangos yr enfys wrth ddangos y lliwiau sydd yn ei gyfansoddi, na dangos adeilad St. Paul yn Llundain wrth ddangos ychydig o'r ceryg nâdd sydd ynddo, felly ni ellir mewn desgrifiad roddi syniad o'i "ogoniant anwyl Ef" wrth enwi Ei amryw rinweddau. "Rhosyn Saron" ydyw, ac nis gallwn gael syniad am y Rhosyn hwn wrth ganfod, pe y medrem, y gwyni na'r cochni ar wahan. Llawer gwaith y clywais gynulleidfa yn fy nghyfararch, "heb iaith nac ymadrodd," pan yr esgynwn risiau'r pwlpudd, ac yn dywedyd—"Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu," a hyny yn ddigon diystyr o'r ffaith na fedr neb llai na'r dwyfol Yspryd roddi iddynt yr hyn a geisient. Ar wahan i bob ystyriaeth arall, ni fedr neb ddesgrifio perffeithrwydd mewn unrhyw gyfeiriad; yr unig ffordd i gael syniad cywir am dano ydyw iddo ef ei hunan ymddangos. Anhawdd

ydyw disgrifio person—unrhyw berson—os bydd dyfnder, ac eangder ac amrywiaeth yn perthyn iddo, pa faint anhawddach disgrifio “THE FOREMOST MAN OF THE WORLD,” Un ag y mae goreu-gwŷr ein byd yn caru ymgrymu ger Ei fron a'i addoli, fel y corphoriad perffeithiedig o'r syniad uchel a feddant am ddynoliaeth, yr hwn drachefn *sydd gynyrc'h o'i eiddo Ef!* Ond er wedi methu lawer gwaith, y mae arnaf chwant unwaith eto i roddi amlinelliad bras o hono. Nid Ei ogoneddu ydyw fy amcan, oblegid da y cofiaf am bwy y dywedodd: “*Efe a'm gogonedda i.*” Am hyny tra y byddwyf fi yn ceisio eich helpio i ffurfio syniad am dano, gweddŵch chwithau, am iddo Ef Ei ogoneddu. Fy amcan ydyw galw eich sylw at y prif neu y rhiaint rinweddau—rhinweddau yn Ei gymeriad sydd yn cynwys ac yn rhoddi cyfrif am Ei holl rinweddau ereill:—

Y RHINWEDDAU HYNY Y GELLIR YN BRIODOL EU GALW YN
YSBRYD CRIST.

I. *Ymroddiad i weithredu ac i ddyoddef yn ol ewyllys Ei Dad.* Nid digon ydyw rhoddi hyn fel y blaenaf yn y gyfres rinweddau ag sydd yn hynodi Ei gymeriad, ond angenrhaid ydyw aros i ystyried y peth, i weled a fedrwn ni, yn ein gradd, ymdeimlo a'i bwysfawredd, fel ag i roddi iddo, mewn ystyriaeth beth bynag, y flaenoriaeth ag oedd yn ffaith yn Ei galon Ef. Medr llawer o ddynion fyned trwy fywyd ar y ddaear “heb Dduw yn y byd,” oblegid “nid yw yn eu holl feddyliau;” a medr llawer mwy fyned ag nad ydyw Efe ond un allan o lawer y meddyliant yn achlysurol am dano. Ond am ein Hiachawdwr gallasai ddywedyd, “gyda thi yr ydwyf yn wastad.” Pan y mynega Efe amcan Ei ddyfodiad, fel hyn y dywed—“Myfi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd.” Yn y cynllun-weddi a osododd o flaen Ei ddysgyblion, un o'r deisyfiadau cyntaf ydyw, “Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd.” Yr unig berthynas a arddelir

ganddo ar y ddaear ydyw, "Pwy bynag a wna ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd," yr hwn sydd ar yr un pryd, yn "frawd, yn chwaer, ac yn fam iddo." "Ac nid pob un ar sydd yn dywedyd wrthyf," medd Efe—"Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd," fel canlyniad i'r farn ddiweddaf, "ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Iddo Ef nid oedd dim yn cystadlu, mewn amser nac i dragywyddoldeb, ag "ewyllys Ei Dad;" a mwy na hyny, nid ydoedd yn foddlon cydnabod bod-olaeth dim arall, ond i'r graddau yr oedd hyny yn gydweddol a'r ewyllys hono. Y mae yn anmhosibl i "ewyllys Ei Dad" gael ei gosod genym ni yn y man y gosodid hi ganddo Ef. Yn y "pethau a berthynent i'w Dad" y teimlodd Ei feddwl ieuangaid y dyddordeb cyntaf; megis y dengys Ei ateb i'w rieni, wedi iddynt Ei gael yn y deml ar ol ymchwil flin am dano. "Oni wyddech," meddai, "fod yn rhaid i mi fod yn nhŷ fy Nhad" neu "gyda phethau fy Nhad." O syniad dyrchafedig i fod yn ysbrydoliaeth bywyd i lanc bychan deuddeng mlwydd oed! Megis ag y mae rhai o afonydd y diffaethwch yn ymgolli, gan redeg mewn tan-ddaearol wely allan o'r golwg, ac adgyfodi drachefn yn y pellder draw i wyneb y tir eilwaith, felly y mae hanes yr Iesu ar ol yr ymddiddan a'r doctoriaid yn peidio am ddeunaw mlynedd. Yr unig beth a ddarllenwn ydyw iddo fyned gyda Joseph a'i fam "ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu ostyngedig iddynt. A'r Iesu a gynyddodd mewn doethineb a chorpholaeth, a ffafr gyda Duw a dynion."

Yno mewn dinodedd ac amgylchiadau cyffredin y mae yn arwain bywyd gwladaidd, gan aros yn amyneddgar "hyd yr amser a osodwyd iddo gan y Tad." Arucheledd y cyfnod ydyw ei ddstawrwydd; a phwy a wyr faint ei bris yn y nef ydoedd y gostyngeddrrwydd llednais hwn! Wedi iddo ymgylfwyno i'w waith cyhoeddus yn Ei fedydd, a derbyn yr Ysbryd yn ddfesur, y mae yn cael Ei demtio gan ddiabol. Dibwys hollol ydyw ffurf y deimtasiwn,—pa un ai yn allanol,

neu yn feddyliol yn unig y temtiwyd Ef—yr hyn sydd o bwys i ni ydyw sylweddoli ei gwirioneddolrwydd. Gyda'r ymwybyddiaeth newydd, perthynol i'r cylch newydd, yn gystal a'r gallu newydd a dderbyniodd, daw temtasiynau newyddion. I ereill, mewn cysylltiadau annhraethol is, profodd hyn lawer gwaith yn fagl ac yn gwymp. Ond trwy ymlyniad di-ildio wrth ewyllys Ei Dad, y mae yn gwrthsefyll yn gadarn bob ymosodiad o eiddo'r gelyn. Dechreuau'r temtiwr trwy awgrymu pa mor annaturiol ac anghydwedol ydyw i Fab Duw fod mewn newyn; ac am hyny mai gweddus ydoedd iddo ar unwaith ddangos y gallu newydd oedd ganddo trwy "erchi i'r ceryg fod yn fara." Ond "nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw" ydoedd yr ateb ufudd a roddodd Efe. Wedi methu Ei gael i ddangos anufudd-dod nac anymddiried yn Ei Dad, ceisia y temtiwr Ei wthio i'r eithaf cyferbyniol, trwy fwrw Ei hun i lawr oddiar binacl y deml, fel y dygid Ef "yn nwyllaw angelion." Ond Ei ateb syml ac effeithiol i hyny drachefn ydoedd—"Na themtia yr Arglwydd dy Dduw." Wedi hyny y mae'r temtiwr yn dangos iddo "holl deyrnas-oedd y byd a'u gogoniant," ac yn cynyg y cwbl iddo "os syrthiai i lawr a'i addoli ef," nid yn bersonol yn y fan a'r lle mi goeliaf, oddieithr fod y diafol cyfrwys wedi myned yn amhwylylog gan gynddeiriogrwydd, ond mewn modd llawer mwy anuniongyrchol. Ystyr ei syniad, mi gredaf, ydyw, tâl warogaeth i mi trwy ymostwng i ddefnyddio fy arfau a'm hystrywiau i, fel byr-lwybr i gyrhaedd y gogoniant a chwenychi, megis moethau'r cnawd, llwgr-wobrwyaeath, rhwysg-wychder a thrais. Yr ydwyf fi yn medru gwneyd byr-waith trwy y pethau yna—gwna dithau yr un modd. "Ymaith, Satan," medd yr Iesu—"Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi."

Yn Ei lafur diwyd, a'i wibdeithiau mynych a phell, mewn hinsawdd gynes, yr oedd nid yn unig yn ymgynal ond yn ymadnewyddu wrth gael cyfleusderau lawer i wneuthur

daioni yn ol ewyllys Ei Dad. Wrth ffynon Jacob cafodd gyfle i roddi dwfr bywiol i wraig o Samaria, oblegid yr hyn yr anghofiodd Ei syched naturiol Ei hun, yn gymaint ag nad ymddengys iddo yfed, er gofyn diod gan y wraig; a phan ddychwelodd Ei ddysgyblion o'r ddinas ymddengys yn ddifater ynghylch y bwyd a gyrchasant hwythau, nes gofyn o honynt i'w gilydd, a "ddug neb iddo ddim i'w fwyta?" "A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy mwyd i," sylwer ar y gair, "*Fy mwyd* i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef." Ond y mae y prawf mawr, tostaf, eto yn ol; oblegid "dros amser" y dywedir "i'r diafol ymadael ag ef." "Tywysog y byd hwn sydd yn dyfod," medd yr Iesu, oblegid y mae yn gweled ei ddyfodiad. Cyfyd ei wyntyll yn gyntaf ar Ei ddysgyblion, gan fwriadu "eu nithio fel gwenith," a chan obeithio yn ddiau y buasai rhai o honynt fel ysgafn ũs yn myned ymaith o flaen y gwynt. Y mae un o honynt yn Ei fradychu, un arall yn Ei wadu, ac oll yn Ei adael, ac yntau yn cael Ei arwain o lys i lys gan Ei elynion. Ger bron y llys crefyddol cyhuddir Ef o gabledd; a cher bron y llys gwladol o deyrn-fradwriaeth. Gwneir gwawd-frenin o hono. Coronir Ef a drain, i'w boenydio wrth Ei wawdio; rhoddir gwisg borphoraidd hen filwr am dano, yn ffug-wisg frenhinol, a gosodir corsen yn Ei law yn ffug-deyrn-wialen. Poerir yn Ei wyneb, a tharawir Ef ar Ei gefn, gan geisio ganddo brophwydo a dywedyd pwy wnaeth hyny; a chyn Ei groeshoelio y mae Pilat yn Ei fflangellu. Wedi iddynt Ei groeshoelio mae y rhai sydd o amgylch y fan fel pe byddent wedi cyngreirio i'w watwar. "A'r rhai oedd yn myned heibio a'u cablasant ef, gan ysgwyd eu penau, a dywedyd, Och, tydi yr hwn wyt yn dinystrio y deml, ac yn ei hadeiladu mewn tridiau, gwared dy hun, a disgyn oddiar y groes." Yr un ffunydyr arch-offeiriaid hefyd yn gwatwar, a ddywedasant wrth eu gilydd, gyda'r ysgrifenyddion—"Ereill a waredodd, ei hun nis gall ei wared." Y bobl hefyd oedd yn "sefyll i edrych a watwarasant gan ddywedyd,

Gwareded ef ei hun, os hwn yw Crist, etholedig Duw." "A'r milwyr hefyd a'i gwatwarasant ef, gan ddyfod ato, a chynyg iddo finegr, a dywedyd, Os tydi yw Brenin yr Iuddewon, gwared dy hun." "Ac un o'r drwgweithredwyr a grogasid a'i cabloodd ef, gan ddywedyd, Os tydi yw y Crist gwared dy hun a ninau." O felldigedig ddirmyg! O pwy nad yw yn dychrynu wrth glywed y wawdlyd *fugue*. "Gwared dy hun," medd un i gychwyn, ac yna "gwared dy hun," llu yn canlyn. Bendigedig fyddo Ei enw byth am beidio gwrandio arnynt. Buasai trueni y rhai a erfynient hyny yn cael ei selio yn y man, yn gystal ac eiddo holl hiliogaeth Adda ynghyd. "Eithr efe nid atebodd un gair." Paham? Nid am na fedrai lefaru. Y mae wedi llefaru amryw o weithiau oddiar y groes—ond i'w watwarwyr "dim un gair." Paham? Hyn yn ddiau—"Y cwpan a roddes y Tad i mi i'w yfed, onid yfâf ef!" "Wedi hyny yr Iesu yn gwybod fod pob peth wedi ei orphen, weithian," a ddywedodd "GORPHENWYD." Er Ei fod dan guddiad wyneb Ei Dad, yr hyn oedd yn ddirgelwch ac yn ing iddo, y mae'n "gogwyddo ei ben, ac yn rhoddi i fynu yr ysbryd," gan gysgu cwsg marwolaeth yn dawel yn y dywell nos. Dengys ffydd yn Nuw mewn sefyllfa ddigyffelyb. O werth yr ymgysgriad i wneuthur a dyoddef yn ol ewyllys Ei Dad i'n Ceidwad anwyl! Rhoddodd hyn hyder iddo i wynebu, heb iasau angeuol o ddychryn, ar unigrwydd na bu neb arall ynndo. "Mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur."—Gorphenwyd!

II. *Elfen arall yn "Ysbryd Crist" ydoedd awydd llosgedig am achub dynion, a gwneuthur iddynt bob daioni.* "Canys ymddangosodd daioni a *dyngarwch* Duw ein Hachubwr" (Tit. iii. 4, yn ol y gwreiddiol); a dyma lle yr ymddangosodd gwir ddyngarwch—sef cariad at ddyn yn holl bosiblwydd ei natur a'i gyflwr, a hyny yn ei berthynas a'r ddau fyd. Dwyn "iachawdwriaeth i bob dyn," yn ystyr bwysicaf y gair, ydoedd amcan cyntaf a phenaf gras Duw, eto nid diystyr o'i gyflwr ydoedd yn y fuchedd ddaearol. Oblegid pan anfonodd

Ioan Fedyddiwr ei ddysbyblion ato i ofyn iddo, "Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddysgwyl? Yr Iesu a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch: Y mae y deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed; y mae y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt;" gan gwbl gredu y buasai gan Ioan lygad i ganfod greddf yr Iachawdwr yn y gwrthiol gymwynasau a weinyddai. Dyna Ei holl hanes Ef. Y mae Ei fywyd yn cael ei symio i fynu yn y frawddeg ddesgrifiadol brydferth hono, "Efe a gerddodd oddiamgylch, gan wneuthur daioni." Pa ryfedd fod y llygadgraff a'r tyner Syr James Mackintosh, a'i lygaid yn llenwi gan dagrau wrth glywed darlleniad y frawddeg rasol hon! Hurtni ereill ydyw yr achos na baent oll yn teimlo yn gyffelyb. Hau cymwynasau wrth gerdded rhagddo y byddai Efe, fel hauwr yn hau had. Llygaid i ddeillion fan yma, traed i gloffion fan draw, a bywyd i feirwon fan acw. Ar hyd ochrau'r ffordd y dysgwylid iddo Ef ddyfod y cesglid y gwiwedigion o bob rhyw a gradd, "am fod yr Iesu i ddyfod y ffordd hono." A dyna lle y byddai'r tyrfaoedd am enyd heb ymwasgaru, am fod yn y naill dyrfa ryw ddall yn treio'r llygaid yr oedd newydd eu cael, ac yn y dyrfa draw ryw gloff yn llamu o lawenydd wrth arfer y cluniau a'r fferau newydd a dderbyniasai. A mwy na'r cwbl, yr oedd yn cynhesu calonau y trueiniaid y gwelldd eu hanwylderau a'i wir gydymdeimlad. Braidd nad ydyw haner cymwynasgarwch cyffredin i'w briodoli i awydd am lonyddwch, yn fwy nag i wir dosturi. "Hwda! Cymer hwna am adael llonydd i mi," ydyw ystyr llawer o hono. Ond yr oedd yr Iesu yn ocheneidio o gydymdeimlad a'r byddar truenus cyn dywedyd "Ephphatha" wrth ei glustiau. "Diau efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau," gan eu cario yn Ei fynwes fawr, oblegid tynerwch Ei gydymdeimlad. Diamheuol Ei fod yn arfer cyfranu i gynorthwyo'r tlodion o'r gôd fechan oedd ganddo at

Ei wasanaeth Ef a'i ddysgyblion, neu ni fuasai Ei ddysgyblion yn syrthio i'r amryfusedd o dybied mai "ar rodidi o hono beth i'r tlodion" oedd Ei arch i Judas, pan ddywedodd wrtho, "yr hyn wyt ar fedr ei wneuthur gwna ar frys."

Ond "efe yn caru yr eiddo, y rhai oedd yn y byd, a'i carodd hwynt hyd y diwedd." Caru nes marw drostynt a wnaeth efe; ie,

"Caru a marw yr un pryd."

Sicrwydd truenus ein tragwyddoldeb alaethus gyffrôdd dosturi Ei ras anfeidrol nes yr ymrwymodd i farw drosom cyn ein bod.

"Diolch iddo, &c.,
Byth am gofio llwch y llawr."

Ffrwyth Ei ymweliad Ef a'n byd ni, a'r ysbryd a adawodd ar Ei ol, ydyw holl ffurfiau prydfferth cymwynasgarwch sydd bellach yn britho'r ddaear; y tloctai, yr ysbyttai, a'r claf dai amrywiol sydd yn ymgeleddu cynifer o drueiniaid. "Dail oddiar bren y bywyd," medd rhyw awdwr, "ydyw y rhai yma oll, oblegid," medd efe, "y mae hyd yn nod y dail oddiar bren y bywyd yn iachau y Cenhedloedd." Ffrwyth yr un gras ydyw yr ymdrech i efengyleiddio anwariaid y byd, gan rodidi iddynt hwythau yr un manteision anmhrisiadwy ag a gawsom ni ein hunain. Mawr y gwaith a wnaed yn y ganrif ddiweddaf; dichon lawn cymaint yn y ffordd hon ag a wnaed yn ystod yr holl ganrifoedd blaenorol ynghyd! Os nad ydym yn deall pynciau yn well na'n tadau, yr ydym yn sicr o fod yn deall ysbryd Crist a Christionogaeth, yn llawer rhagorach, ac yn ei ddangos yn helaethach. Ond nid ydyw pawb felly. Ysywaeth y mae llawer eto sydd yn enwi enw Crist, heb "weled gras Duw" na deall ei ddylanwad, yn byw i'w hesmwythyd a'u moethau eu hunain, yn galed a diystyr o bawb ond hwy eu hunain, fel pe yn amcanu yn unig i wneyd *bargain* dda ar eu crefyddolrwydd. Y maent megis pe byddent heb glywed neu ynte heb ystyried geiriau difrifol y Barnwr anffaeledig, yr Hwn sydd wedi ein rhybuddio oll y bydd Efe yn barnu cymeriadau ac yn penderfynu tynged

dynion am byth wrth eu cymwynasgarwch tuag ato Ef, a'i bobl, neu ni fuasent yn dangos y fath ddiwydrwydd i feithrin hunan-gais ag y maent. Ond fe genfydd y meddylgar graffder a doethineb y Barnwr yn newisiad y prawf, oblegid pa beth a ddengys am ddyn,

“O ba radd y bo'i wreiddyn,”

yn well na hyn ?

III. *Yn yr amcan o foddio Ei Dad ar y naill law, ac o lesoli dynion ar y llaw arall, dengys lwyf hunan-ymwadiad.* Dyma'r rhinwedd prinaf a harddaf o holl rinweddau dynolryw—hunan-ymwadiad. Y mae hwn yn hardd hyd yn nod pan na fyddo'r elfen grefyddol yn ei sancteiddio ac yn ei ddyrchafu. Ond y mae cymharu hunan-ymwadiad pawb ag eiddo ein Harglwydd bendigedig yn anghyfreithlon er cydnabod rhagoriaeth yr eiddo Ef, oblegid y mae Efe yn y peth hwn tu allan i derfynau cymhariaeth. Gweithred o hunan-ymwadiad, nad oes ar y ddaear—os oes yn y nef—neb tu allan i'r Drindod a fedr ei phrisio ydoedd iddo ddyfod i gylch bywyd daearol a dynol o gwbl. “Yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd bod yn ogyfuwch a Duw yn beth i ddal gafael diollwng ynddo, eithr efe a'i gwaghaodd ei hun, gan gymeryd arno ffurf gwas, gan ei wneuthur mewn cyffelybiaeth dynion” (Phil. ii. 6, 7), (C.D.) Nid oes neb meidrol, mi goeliaf, a fedr synio yn glir a chyflawn, a pha gymaint yr ymwadodd Efe yn y “*gwaghad*” (*kenosis*) hwn. Gwir fod Dr. A. B. Bruce ac ereill yn traethu yn helaeth arno, ond gyda phob dyledus barch iddynt hwy credaf mai “tywyllu cynghor ag ymadroddion heb wybodaeth,” y maent, a chredaf hefyd mai da iddynt pe y gwnaethent megis ag y gwnaeth Moses ar Horeb. “A Moses a guddiodd ei wyneb, oblegid ofni yr ydoedd edrych ar Dduw.”

Hyn sydd amlwg, nad gweithred derfynol o hunan-ymwadiad ydoedd iddo Ef wisgo natur dyn. Ond wedi “ei gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, i.e., angau y groes” (Phil. ii. 8.) Bywyd o ufudd-dod, yn cyrhaedd ei bwynt uchaf yn Ei angau,

ydoedd yr eiddo Ef. Am nad oedd yn ceisio Ei ewyllys na'i ogoniant Ei hun, yr oedd yn dysgwyl i ddynion gredu yn uniondeb Ei dystiolaeth. "A'm barn i sydd gyfiawn," meddai, "canys nid wyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd." Synai nad oedd yr Iuddewon yn Ei adnabod. "Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun yn ceisio ei ogoniant ei hun"—dyna *brawf a rheol anffaeledig a dieithriad*—"ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnw sydd eirwir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef." Prawf gwastadol a chyfleus y morwr fod ei gwmpawd yn un y gall ymddiried ynddo yw, os bydd ei nodwydd, pan y caiff lonydd, yn cyfeirio yn deg at y seren-ogleddol. Ewyllys a gogoniant fy Nhad ydyw fy seren-ogleddol i, medd Crist. Ac os ydwyf yn cyfeirio yn ddiwyro a sefydlog at hyn, paham nad ydych yn credu i mi? Y penderfyniad y mae wedi dyfod iddo ydyw y rhaid eu bod hwy yn ddrwg eu hunain. Yr achos eu bod yn methu adnabod a gwerthfawrogi yn deilwng Ei burdeb Ef, ydyw eu bod hwy yn byw i'w hewyllys a'u gogoniant eu hunain—hanfod pob llygredigaeth. "Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddiwrth ddynion. Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes genych gariad Duw ynoch. Myfi a ddaethym yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i, os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnw a dderbyniwch. Pa fodd y *gellwch chwi gredu*, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd, ac heb geisio y gogoniant sydd oddiwrth Dduw yn unig?" Mewn gair, y mae fy hunan-ymwadiad yn anamgyffredadwy i chwi, medd yr Iesu. Ond os nad oedd yn ddealladwy ar y ddaear, yr oedd o fawr bris yn y nef. Dyma enaint gwerthfawroca'r nef; ni chydabyddir per-arogl yno, os na bydd hwn yn hanfod iddo. Erbyn ystyried, dyma'r offrwm mwyaf y medr neb ei offrymu byth—offrymu ei ewyllys! Pa faint bynag y byddo wedi ei offrymu, os bydd yr ewyllys ar ol y mae mwy ar ol nag a offrymodd, ond pan offrymo yr ewyllys, y mae yn offrymu ei hunan—ei *hunan i gyd*, oblegid y mae'r

personoliaeth yn yr ewyllys. Pan y mae'r Iesu yn amlygu Ei foddlonrwydd i farw mewn ymostyngiad i ewyllys Ei Dad, nid oes modd iddo ddywedyd mwy. "Fy Nhad, onis gall y cwpan hwn fyned heibio oddiwrthyf, na byddo i mi yfed o hono, *gwneuler dy ewyllys di.*" O ufudd-dod gogoneddus! O eiriau digyffelyb oddiwrth y fath Un, ar y fath awr! Nid ydwyf yn deall holl ddeddfau swm, na pha fodd y mae yn tramwy o'r byd naturiol i'r byd ysbrydol; ond mi goeliaf fod yr holl nefoedd yn clust-ymwrando y funyd hon, a bod adsain y geiriau hyn wedi taro yn erbyn gorsedd Duw, a'r dwyfol aberth oedd ynddynt wedi llenwi yr holl nefoedd a pherargledd digonol i fod yn iawn am bechod y byd. Neu ynte mewn geiriau ereill, yr wyf yn credu, er heb ddeall yn berffaith, mai boddlonrwydd moesol i natur foesol Duw ydoedd hanfod yr iawn. Byddaf yn arswydo rhag ofn i mi synied yn anheilwng am gyfiawnder fy Nuw wrth ymyl Ei groes Ef. Yn sicr, nid dyoddefaint pur, a dim ond dyoddefaint oedd yn boddio Duw, onide, disgyna Ei gyfiawnder i fod yn ddialgarwch, fel na fedraf Ei addoli, er ceisio. Ar yr un pryd nid gwiw anghofio mai fel Machniydd pechaduriaid y dyodd-efodd ein Prynwr. Ond y mae Efe yn rhoddi i holl ofynion Duw yr ateb cyflawna, trwy ymddarostwng o'i fodd, a chyflwyno iddo Ei ewyllys, yn y wedd anhawddaf, "gan fod yn *ufudd hyd angau, ie, angau y groes.*" Diolch iddo! Bellach y mae

"Duw a dyn yn gwaeddu digon,
Yn yr Iesu'r aberth hedd."

Gan hyny, y mae'r iawn yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad hollol i bechod dynolryw, sef hunan-ewyllys. O ddwyfol ddoethineb a gras!

1. Holwn ein hunain a ydym yn meddu ar ysbryd ein Ceidwad. Y mae geiriau yr Ysgrythyr yn rhai diamwys. "Od oes *neb* heb Ysbryd Crist ganddo nid yw hwnw yn eiddo ef." Gwyliwch rhag tybied y gwna *union-gredaeth sych-bynciol* eich gwaredu! Goddefwch i mi gyflwyno gofyniad, a'ch rhybuddio fod eich einioes yn y gofyniad—*I bwy, ac i ba beth*

yr ydych yn byw? Pe byddech chwi farw, pa achos ac amcan da gai golled ar eich ol? Gwyliwch rhag byw i ymfwynhau mewn ymestyniad at eich amcanion hunan-geisiol. Os ydwyf yn deall llyfr Duw, dyna ydyw byw “yn y cnawd.” Y mae'r gwybed yn byw i ymfwynhau mewn hofran yn nhês yr haul; pa faint gwell ydych chi na'r gwybed? A oes elfen ddwyfol yn eich bywydau chwi nad ydyw yn eu bywydau hwy? 'Rwyf yn ofni fod rhai yn troi gras Duw yn drythyllwch—yn dysgwyl cael diangfa trwy gyfrifiad rhyfedd nad ydwyf yn cael ei debyg yn y Beibl. Nid ydyw ond math o gonsuriaeth grefyddol. Sail y cyfrifiad sydd yn y Beibl ydyw undeb a Christ—undeb ysbryd a chalon, ac am hyn ydyw undeb bywyd, i.e., undeb bod.

2. Wrth geisio synio am Ysbryd Crist, gwyliwch rhag gwneuthur cam ag Ef. Nid meddalwch ydyw Ei ledneisrwydd Ef. Addfwyn ydyw a gostyngedig o galon; ond ar yr un pryd, “gosododd ei wyneb fel callestr.” Dyma'r cymeriad mwyaf nerthol a fu yn ein byd erioed.

3. Gochelwch rhag rhoddi cam-ddarluniad o hono. Anfonodd Alexander Fawr at filwr oedd yn digwydd bod yr un enw ag ef—Alexander—a hefyd yn digwydd bod yn filwr sal, llwfr, ac anniben, fod yn rhaid iddo newid ei enw, neu ynte benderfynu bod yn well milwr. Y mae ein Harglwydd wedi anfon cenadwri gyffelyb atom ninau—“Od oes neb yn enwi enw Crist, ymadawed a phob anghyfiawnder.” Yn eich ymdaith trwy fywyd, mewn modd arbenig, nac anghofiwch un peth—“*Crist nis boddhaodd ef ei hun.*” Hanfod Ysbryd Crist ydyw dwfn hunan-ymwadiad mewn ymgysgriad trylwyr i ewyllys Duw, ac awyddfryd angerddol i achub a llesoli pechaduriaid colledig; “Ac od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef.”

PREGETH IV.

—:O:—

HAU A MEDI.

GAL. VI. 7.—“*Na thwyller chwi, ni watworir Duw; canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe.*”

NID ydyw y geiriau yn cyfeirio yn unig at y byd a ddaw. Gwir mai yno y derbyniant eu cyflawniad eithaf, ond y mae mwy o fedi yn y byd hwn o'r hyn a heuir genym nag y mae llawer yn ystyried. Yn wir y mae dyn yn dechreu medi mor fuan ag y mae yn gorphen hau; y foment y cyflawnir gweithred, dda neu ddrwg, bydd yn dechreu dwyn ei chanlyniadau; canlyniadau a fyddant yn ymestyn cyhyd a bodolaeth y gweithredydd. Ebrwydd yr egina yr had; ac ebrwydd y tyf peth o hono, nes corsenu, a dyfod yn dywysenau addfed; tra y bydd rhan arall o'r had a heuir yn gofyn hinsawdd byd arall cyn ymaddfedu. Gwyn ydyw byd y rhai a rodiant ynghyfraith yr Arglwydd, oblegid cynifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd sydd arnynt. Y mae ffyrdd (nid coron, ond ffyrdd) doethineb yn hyfrydwch, a'i llwybrau yn heddwch. Ond y rhai anwir sydd fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid. Ni bydd heddwch (esmwythyd) medd fy Nuw i'r rhai annuwiol. Ffordd troseddwy'r gan hyny sydd galed.

Nid ydyw Duw wedi esgeuluso y byd hwn yn hollol, nac wedi trosglwyddo Ei wobrwyon a'i gampau i gyd i fyd arall. Y mae Duw a farn ar y ddaear; ië, ar y ddaear. Meddai Sefaniah—“Yn foreu,”—ymyl y ddalen, “bob boreu—y dwg ei farn i oleuni.” Ac nid oes eisiau mwy na chraffder cyffredin, a hyny heb gymorth y Beibl, wrth sylwi ar

helyntion personol, cymdeithasol, a gwleidyddol trigolion y ddaear, i ganfod fod y cwbl dan reolaeth Llywodraethwr moesol sydd yn caru rhinwedd ac yn casau pechod. Ond y mae dau rwystr i ddynion adnabod Duw wrth y farn a wna yn y byd hwn. 1. *Disgwyliant Ei ymweliadau yn unig mewn dulliau anghyffredin.* Nid oes dim ond y trystfawr a'r sydyn yn tynu eu sylw; pasia y pethau graddol a dystaw heibio yn ddisylw. Cydnabyddant Dduw yn unig yn y gwyrthiol a'r goruwchnaturiol, gan droi eu llygaid oddiwrth y presenoldeb dwyfol yn y pethau bychain a'r cyffredin. Cydnabyddant law yr Arglwydd yn nyrchafiad sydyn Joseph, o garchar yr Aipht, i fod yn nesaf at y brenin fel llywodraethwr y wlad; ond nid ydynt yn gweled llaw yr Arglwydd yn nyrchafiad graddol rhywun o fewn cylch eu hadnabyddiaeth, sydd trwy fywyd rhinweddol a llafurus wedi dringo i barch ac anrhydedd, ac o ris i ris yn y diwedd wedi cyrhaedd y safle uchaf mewn cymdeithas. Y mae y dyrchafiad hwn yn llawer mwy dystaw a graddol na dyrchafiad Joseph, ond nid yn llai dwyfol. Cydnabyddant mai bys Duw ydoedd y farn a ddisgynodd ar Herod, yr hwn a drengodd gan bryfed yn ei ysu, oblegid iddo yn ngwagedd ei galon dderbyn anrhydedd a mawl dwyfol; ond ni welant fys Duw yn hanes rhywun sydd yn awr yn fyw, fu unwaith yn wrthddrych anrhydedd ac yn destyn mawl dynion, sydd oherwydd ei annuwiol ymarweddiad wedi gwywo gorph ac enaid, a disgyn i anghof ac amharch. "Ie," medd rhywun, "canlyniadau naturiol ydyw y pethau yma." Hollol wir; ond nid ydynt oblegid hyny yn ganlyniadau llai dwyfol eu hordeiniad. Gosodiad Duw a'u gwnaeth yn ganlyniadau naturiol. A phe byddem ninau yn teimlo mwy o'r dwyfol yn y pethau naturiol, ni a ganfyddem fwy o wobrwyo a chospau dwyfol yn y byd hwn.

2. *Cyfyngant eu sylw yn ormodol at yr allanol a'r gweledig, heb edrych ar yr ysbrydol a'r mewnl.* Rhoddir pwys gormodol ar lwyddiant ac aflwyddiant bydol, fel pe na byddai yn bosibl i Dduw wobrwyo na chospi ond yn y dull hwn. Llywyddiant

yr annuwiol, ac aflwyddiant y rhinweddol, sydd wedi bod yn *puzzle* i lawer yn mhob oes a gwlad, nes peri iddynt ofyn yn nyfnder eu trallod o'i herwydd—"Pa le y mae Duw a farn?" Dyma brofedigaeth Asaph—"Cenfigenais wrth y rhai ynfyd, pan welais lwyddiant y rhai annuwiol. Diau mai yn ofer y glanheais fy nghalon, ac y golchais fy nwyllaw mewn diniweidrwydd." Ond dallineb ysbrydol yw yr achos fod dynion yn edrych ar bethau yn y goleuni hwn. Y mae y rhan bwysicaf o ddyn oddimewn iddo, a dyma lle y mae barnau a gwobrwyon Duw yn cael eu gweinyddu gan mwyaf. Nid barn nac anffawd ydyw fod y duwiol yn dlawd neu yn gystuddiol, ond rhan o'r ddysgyblaeth y mae ei Dad nefol yn weled yn ddoeth i'w gweini tuag ato, i'w gymhwysu ar gyfer byd yr ysbrydoedd, lle nad yw llwyddiant na theilyngdod neb yn cael ei farnu wrth bwysau ei bwrs, na gwychder ei ddillad. Ac os yw ei fwrdd yn llwm a'i ddillad yn brin, câ fwy na digon i orbwysu hyn yn agwedd ei fynwes. Perchenoga gydwybodolrwydd sydd yn wledd wastadol, sef cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion. Y mae puredd ei galon yn ei alluogi i weled Duw, ac i fwynhau Duw, yn mhob peth. Tra y mae y bydol-ddyn yn mwynhau bwydydd a diodydd, y mae efe yn bwyta bara angelion mewn cymdeithas a'i Dduw. Galluoga eangder ei gydymdeimlad ef i lawenychu yn mhob da y gwyr am dano; ac felly mewn gwirionedd, y mae yn etifeddu y cwbl; y mae pob peth yn eiddo iddo. Ac o'r ochr arall, pa wahaniaeth fod llygaid y rhai ynfyd yn sefyll allan gan frasder, a bod eu cyfôeth dros feddwl calon? Nesewch atynt i syllu arnynt, y maent yn gwaelu po agosaf yr ewch. Ymgydnabyddwch a hwynt, ac fe ddiffana y *gilt* oedd yn dazolio eich llygaid ychydig yn ol. Pe y dilynech hwy i'w tai, a phe y deuech o hyd i'w *secrets* teuluaid, deallech yn fuan nad oes yno nemawr i eiddigeddu wrtho. Ond beth pe medrech wybod hanes y galon, nyth pob aderyn aflan, ffau y wiber, lle y mae nwydau aflywodraethus fel seirph gwenwynllyd yn ymgordeddu yn eu gilydd,

ac yn cytuno i frathu y dyn. Neu ynte, eu calon wedi crebachu gan *selfishness*, fel nad oes lle i ddim ynddi ond cenfigen ac anghariad, nes y gellir dywedyd am danynt—“Efe a roddes eu dymuniad iddynt, sef cyfoeth lawer, eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid.” Os ydyw y dyn yn llwyddo yn allanol, y mae gweddillion diweddaff dynoliaeth brydferth bron wedi ymadael o hono; y mae culni yn ei enaid. Dyma'r iawn oleuni i edrych ar bethau. Yn y goleuni hwn chwi a gewch weithiau, ysywaeth, y boneddwr yn trigo mewn bwthyn, a gwenau y nefoedd yn tywynu arno yn wastadol; a chwi a gewch weithiau—nid bob amser, trwy drugaredd—y *scoundrel* yn byw yn y palas, a barnau Duw fel mellt yn gwau trwy ei holl natur. Yn awr, ond i chwi dalu sylw i'r naturiol yn gystal ac i'r goruwchnaturiol, i'r cyffredin yn gystal a'r anghyffredin; a thalu mwy o sylw i'r hyn sydd oddifewn i ddyn nac i'r hyn sydd oddiallan, chwi a gewch fod llawer o wobrwyo a chospi yn y byd hwn; neu, yn ngeiriau y testyn, fod yma lawer yn medi o'r hyn y maent wedi ei hau. Ond er fod llawer o fedi yn y byd hwn, nid ydyw hyny ond blaenffrwyth y cynhauaf mawr yn y byd a ddaw. Y mae arosiad dyn yn y byd hwn yn rhy fyr i ddeddfau mawrion, cyffredinol, llywodraeth Duw, gael mantais i ddial rhyw lawer arno am ei gamwedd, na gwobrwyo llawer arno am ei rinwedd; cyn y byddant hwy wedi cael amser i olwyno pethau fel ag i ddwyn canlyniadau gweithredoedd y dyn arno ef ei hun, bydd ef wedi dianc i fyd arall. Ond y maent yn sicr o'i oddiweddyd yno, a cheir digon o amser i wobrwyo ac i gospi mewn byd tragwyddol ei barhad.

Ond cyn sylwi yn mhellach yn y cyfeiriad hwn, dymunwn gywiro un camsynied arall ag yr ydym yn dra thueddol iddo. Nid yn unig yr ydym yn cau ein llygaid ar wobrau a chospau llywodraeth Duw yn y byd hwn, gan drosglwyddo y cyfan o honynt i'r byd arall; eithr yr ydym hefyd yn ceisio dychymygu am y byd a ddaw fel yn hollol wahanol i'r byd presenol, a gwobrau a chospau y byd hwnw heb eu cyffelyb

yn hwn; tra yn ol pob tebyg na fydd yn y byd hwnw ond perffeithiad ar yr hyn sydd i'w gael mewn rhan ar y ddaear yn awr. Y syniad mwyaf cywir yn ddiau, yn gystal a'r mwyaf iachus yn ei ddylanwad arnom, yw y syniad na fydd y fuchedd ddyfodol, o leiaf yn y wedd foesol arni, ond parhad a pherffeithiad ar y fuchedd bresenol. Y syniad cyffredin a chyfeiliornus yw, fod rhyw doriad disymwth ar y trefniant blaenorol yn angau, a rhyw gyfnewidiad ofnadwy yn cael ei wneuthur ar ddyn, nes y bydd ef mewn eiliad llygad, neu o leiaf mewn byr amser, yn hollol wahanol i'r hyn ydoedd o'r blaen. Y mae porth y nef yn cael ei osod yn uchel, yn rhy uchel; a safn uffern yn ddwfn, yn rhy ddwfn, nes y mae dyn, yn ol y syniad cyffredin, yn neidio i fod yn angel neu yn gythraul y foment yr ymadawo a'r corph. Yn awr, yr wyf am eich perswadio fod y syniad yma yn *wrong*. Nid ydyw rhyw gyfnewidiad mawr a sydyn felly yn gyson a threfn gyffredin Duw. "Nid yw natur byth yn rhoddi naid," meddai un o brif feddylwyr y byd. Graddol gynydd ac ymaddfeddiad sydd mewn natur, heb ddim neidio. Ac heblaw nad oes dim cyffelyb i sydynrwydd a mawredd y cyfryw gyfnewidiad ag a dybir yn ngweithredoedd Duw, byddai yn ddinystriol yn ei ddylanwad ar y dyn ei hun. Ni fyddai yn bosibl iddo gadw y teimlad o hunaniaeth ei fodolaeth; mai yr un a fyddai; ac er fod y byd wedi newid, fod ei berson yr un. A phe y collid y teimlad hwn, byddai amcanion llywodraeth foesol yn cael eu colli. Yn ychwanegol at hyn hefyd, byddai y byd a ddaw yn colli ei ddylanwad ar ddyn ar y ddaear wrth edrych yn mlaen tuag ato. Ni fyddai swyn yn y nefoedd, na dychryn yn uffern. Pe y dangosech i ddyn ddesgrifiad o hono ei hunan wedi myned yn berffaith gythraul mewn awr gwedi iddo farw, ni chynyrchai nemawr ddychryn, oblegid ni fyddai yn eich credu, gan nad yw yn gweled ei lun ei hun ynddo. Pe y dangosech i'r sant mwyaf perffaith ar y ddaear ddarlun o hono ei hun wedi myned yn gydstad a Gabriel mewn awr gwedi iddo farw, ni fyddai arno unrhyw

chwant myned i'r nefoedd, oblegid y mae yn amhosibl i ddyn chwenychu bod yn hollol wahanol i'r hyn ydyw. Na, yn hytrach na chredu mewn rhyw gyfnewidiad eithafol felly, gwell genyf fyddai credu yn mhurdan y Pabyddion, oblegid byddai purdan yn addfedu dyn yn raddol, ac am hyny byddai yn debycach i drefn gyffredin y Brenin Mawr. Ond ni a allwn hebgor y purdan, ond i ni beidio tafu y byd a ddaw i ormod pellder oddiwrthym, ac ond i ni gredu y bydd dyn yn dechreu ei fuchedd yn y byd arall yn y fan y terfynodd yn hwn, fel y mae yr hwn sydd yn deffro ar ol noswaith o gwsg yn ail gychwyn bywyd yn y fan yr ymollyngodd i gwsg y nos o'r blaen. Un darn yw bywyd dyn, yn ymestyn o'r naill fyd i'r llall, ac ni fedr angau effeithio dim mwy arno na noswaith o gwsg. Yn wir, braidd na thylbiaf y posiblwrwydd i ddyn fod am ysbaid mewn byd arall cyn deall ei fod wedi newid byd. Yr un egwyddorion a deddfau fydd yn ffynu yn y byd a ddaw ag ydoedd yma, a dichon y bydd mwy o debygolrwydd mewn amgylchiadau nag a ddarfu i ni gredu erioed. Y mae deddfau llywodraeth Duw yn rhai cyffredinol. Y mae *gravitation* a goleuni yn un o ran natur, ac o dan lywodraeth yr un deddfau yn y bydoedd mawrion pellaf ag ydynt ar ein daear ni, medd dysgedigion. Dywedir hefyd gan rai sydd wedi talu sylw i ffurfiad anifeiliaid a llyisiau mai ychydig o *typical forms* sydd iddynt oll; mai amrywiaeth prydferth ar yr ychydig hyny, mai rhyw *variations* gogoneddus ar *simple but grand theme*, sydd yn ffurfio cynghanedd y greadigaeth. Os yw hyn yn wir am y greadigaeth faterol, pa faint mwy am yr ysbrydol? Gellir bod yn sicr fod deddfau moesol llywodraeth Duw yr un yn mhob byd. Ac am hyny yr wyf yn chwenych edrych ar y byd a ddaw yn ngoleuni y byd hwn, a deall y medi fydd yno yn ngoleuni y medi sydd yma, y gwn am dano; gan gredu mae y prif wahaniaeth rhwng y ddau fyd fydd amgylchiadau mwy manteisiol y byd a ddaw, ac amser hwy i weithrediad yr un deddfau ac egwyddorion ag sydd eisioes mewn gweithrediad amherffaith yn ein

byd ni. Yn mysgr y cyfryw dymunwn nodi allan y rhai canlynol :—

I. CYFLAWN FANTAIS I DDADBLYGU NEU I WEITHIO ALLAN Y CYMERIAD.

II. PERFFAITH ADGOF A MEDDIANT O'R HYN A AETH HEIBIO.

III. CYFLAWN SYLWEDDOLIAD O'R HYN SYDD I DDYFOD.

I. *Cyflawn fantais i weithio allan y cymeriad.* Un o ddeddfau sefydlog llywodraeth Duw ydyw Ei fod yn gwobrwyo ac yn cospi dynion trwy roddi iddynt gyfleusderau helaethach i weithio allan yr hyn sydd ynddynt. Y mae yn rhoddi gras mwy i'r gostyngedig, tra y mae yn brashau calon y rhai cildynus. "Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yn myned fwy-fwy hyd haner dydd." O'r ochr arall, y mae yr annuwlion yn cael bwyta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi a'u cynghorion eu hunain. "Canys esmwythra y rhai anghall a'u lladd, a llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha." "I'r hwn sydd ganddo y rhoddir iddo." Dyma ychydig allan o lawer o adnodau y gellid eu difynu, i ddangos fod Duw yn arfer gweithredu oddiar yr egwyddor hon, sef rhoddi manteision helaethach i weithio allan egwyddorion y galon, fel y bydd y da yn myned yn well a'r drwg yn myned yn waeth, a thrwy fyned yn well neu yn waeth y bydd y naill yn cael ei wobrwyo a'r llall yn cael ei gospi. Fel rheol, felly y bydd tad yn ymddwyn at ei blant. Y mae ganddo un bachgen sydd yn meddu ar allu a thuedd i ddysgu. Gwna y defnydd goreu o'r manteision sydd ganddo; llafuria yn galed i gynyddu mewn gwybodaeth. Gwobrwyo y tad y bachgen hwn trwy roddi iddo ysgolion gwell ac uwch o hyd, fel y bydd yn dyfod yn addfed iddynt. Ond, medd fab arall sydd yn gwastraffu ei nerth a'i amser ar oferedd, sydd yn esgeuluso ei wersi; anaml y bydd yn myned i'r ysgol o gwbl, ond yn nghwmni ynyfydion y myn fod. Ar ol hir ymdrech, y mae y tad o'r diwedd yn rhoddi y bachgen hwn i fynu, gan adael

iddo ganlyn ei fypwyon drygionus. A dyna'r gosp drymaf a ddichon tad weinyddu ar blentyn. Felly y mae Duw yn gwneuthur yma, a pherffeithiad ar hyn a fydd yn y byd a ddaw.

1. *Yno fe fydd ein natur wedi ei bywiogi, ac wedi ei rhyddhau oddiwrth bob rhwystrau amgylchiadol i ymddadblygu.* Yma caethiwir yr enaid gan y corph, llesteirir gogwyddiadau ysbrydol a moesol gan y rhan anifeilaidd o honom. Braidd nad yw haner oes dyn yn cael ei chymeryd i fynu gan fwyta ac yfed, a gorphwys a chysgu cymedrol a chyfreithlawn; ac â agos yr haner arall mewn llafur angenrheidiol, nad yw na da na drwg ynddo ei hunan, i gael bywioliaeth iddo ei hun a'i gysylltiadau, fel nad oes ond ychydig o oriau y dydd ganddo i weithio yn uniongyrchol yn ffordd ei galon. Felly nid ydyw mor dda nac mor ddrwg yn y byd hwn ag y buasai oni bai y rhwystrau hyn. Drachefn, y mae rhyw drymder a phylni yn ein natur ag sydd yn codi o'n cysylltiad personol a'r corph; trymder a phylni sydd yn anfanteisiol i bob math o gynydd. Nid gormod dweyd fod tri chwarter dynolryw yn pasio trwy y byd a'u meddyliau heb eu gwir ddeffro trwy holl gydol eu hoes; ac am y chwarter arall, y mae rhyw niwl tew yn amdoi eu meddyliau gan mwyaf, nes y maent yn teimlo eu hunain fel rhai yn breuddwydio. Ambell waith y byddant yn cael gweledigaeth eglur. Cyfid rhyw syrthni a marweidd-dra o gysylltiad yr enaid a phridd y ddaear ag sydd yn atalfa ar ei rwysg. Ond yn y byd a ddaw fe fydd yr enaid wedi colli maglau a phwysau y clai, ac yn medru ehedeg yn chwim yn y cyfeiriad dewisol ganddo, a hyny gyda chyflymdra annirnadwy i ni yn bresenol, nes gwneyd mwy o gynydd fe ddichon mewn daioni, neu ynte mewn drygioni, yn ystod blwyddyn yn nhragywyddoldeb nag a wnelsai yn ystod can mlynedd ar y ddaear.

2. *Nid yn unig bydd ein natur yn fywiog, ond yn gref yn ogystal.* Y mae blinder a lludded yn ein gorddiwes yn fuan yn y byd hwn. Bydd dyn yn bliuo ar feddwl. Nis gellir

cadw y meddwl yn hir ar ei lawn egni. Gwir fod hyn yn amrywio gyda gwahanol gymeriadau, yn ol fel y byddont wedi dysgyblu y meddwl, ac yn ol fel y byddo nerth eu cyfansoddiadau. Ond rhaid i'r cryfaf, fel y dywedai Æsop, lacio y llinyn oddiar fwa y meddwl yn bur fynych, gan ei ollwng i ymsythu méwn segurddod, onide fe wanhâ y bwa, fel na allo daflu ei saethau mor bell ag arferol. Ac nid yn unig y mae yn blino ar feddwl, ond y mae yn blino ar deimlo, yn enwedig ar deimlo yn angerddol. Nid yw yn bosibl i unrhyw deimlad angherddol barhau yn hir iawn; y mae natur yn sicr o luddedu a thafu y baich oddiar ei chefn. Dilynir teimlad angerddol yn ddiethriad gan *exhaustion*, ac yn bur fynych gan *re-action*. Pan fyddo y duwiol wedi ei oddiweddyd gan ryw hwyl nefolaidd sydd yn ei godi uwchlaw holl bethau y bywyd hwn i gymundeb a gogoniant pethau anweledig, yn enwedig ei Geidwad a'i Dduw, a'i fynwes nid yn unig yn gynhes ond yn llosgi gan gariad atynt ac addoliad o honynt, nes dymuno pabellu ar ben y mynydd uchel hwn o weddnewidiad, blin ydyw teimlo mai peth o fyr barhad ydyw; fod yn rhaid disgyn yn ebrwydd oddiar y mynydd yma, ië, fe ddichon i ganol dyffryn tywyll. Yr ysbryd yn ddiau sydd barod i aros ar ben y mynydd, ond y cnawd sydd wan. Y mae angerddoldeb y teimlad crefyddol yn gorfod diflanu oherwydd llesgedd y natur. Bu hyn yn rhwystr ac yn brofedigaeth i lawer o dduwiolion. Yr oedd rhai o honynt yn methu ei ddeall, ac felly cystuddient eu hunain o'i blegid, gan ei briodoli i ddrygioni eu calonau, pan mewn gwirionedd nad ydoedd yn ddim ond natur yn cilio yn ol gan lesgedd. Drachefn, pan fyddo yr annuwiol yn ymollwng i rysedd mewn pechod, gan gyflawni pob aflendid yn un chwant, holl aelodau y corph wedi eu rhoddi yn arfau anghyfiawnder i bechod, a'i fynwes fel ffwrnes boeth wedi ei gwneuthur yn fflam gan uffern, cysurus ydyw meddwl nas gall pethau barhau yn hir fel yna. Y mae drygioni mawr yn profi yn hunan-ddinystriol trwy ddwyn *exhaustion* ar natur. Hwyrach eich bod yn

adnabod rhai dynion sydd wedi pechu eu hunain i eiddilwch corph a meddwl, y cyfryw ag sydd yn rhwystr iddynt i bechu ychwaneg. Da ydyw fod Duw yn gwahardd gweddill cynddaredd dyn, trwy lesgedd ei natur; onide buasai annuwioldeb rhai yn myned a dyogelwch, ac a chysuron bywyd eraill oll i ffwrdd. Ond yn y byd a ddaw—oh, yr wyf yn arswydo wrth feddwl am y syniad—fe fydd pob llesgedd wedi ffoi am byth. Bydd yr annuwiol yn medru cadw i fynu eirias boeth ei fynwes nwyd-gynhyrfiol yn ddiorphwys, a'r meddwl yn parhau mewn bywiogrwydd dilesgedd, gan allu dyfeisio drygioni yn ddiymatal. Oh syniad ofnadwy! Pwy na wnai arswydo rhagddo! Holl naturiaeth dyn, yn ei holl ymadferth, yn ymollwng i bob drygioni, a hyny yn ddibaid! Dyma fydd uffern. Yn y nefoedd drachefn fe fydd cryfder natur yn y saint yn eu galluogi i wasanaethu ddydd a nos, hyny ydyw yn ddiorphwys; bydd yr hwyl nefolaidd yn parhau heb drymder na llesgedd yn canlyn; bydd yno oleuni heb dywyllwch, a gwres heb oerni. Oh, dyna le i weithio allan holl dueddiadau ac adnoddau y cymeriad fydd yn nhragywyddoldeb!

3. *Bydd yno hefyd ddiidoliad llwyr oddiwrth yr annhebyg.* Y mae y byd hwn yn llawn o bob rhyw gymysgedd, oblegid nad yw sefyllfa dyn yma ond un ragarweiniol a rhagbaratoawl i un arall. Mewn sefyllfa gymysgedig ar bethau yn unig y medr dyn gael mantais deg i ddangos gwir benderfyniad ei gymeriad. Dyna i gyd yw amcan bodolaeth dyn yma, rhoddi cyfleusdra iddo i bronuncio ei hunan, i ddweyd pa beth y myn fod; ac wedi iddo wneuthur hyny câ ei symud i sefyllfa wahanol mewn byd arall yn ol y mynu hwnw. Ond tra yma dyoddefa beth anfantais i ganlyn prif ogwydd ei galon oddiwrth y cymysgedd anhydriwiol sydd yn ei amgylchu. Nid ydyw y duwiol mor dduwiol ag y byddai o herwydd dylanwad gwrthweithiol yr annuwiolion a pha rai y mae yn gorfod dyfod i gyffyrddiad. Y mae eu hymddiddanion drwg hwy yn llygru ei foesau da ef. Oblegid peth anhawdd iawn ydyw,

tra yn gorwedd yn mysg y crochanau, cadw yr esgyll fel esgyll colomen wedi eu gwisgo ag arian, a'r adenydd ag aur melyn. Peth tebycach lawer yw y bydd parddu y crochanau wedi glynu wrth y plyf. Fe waredwyd Lot gyfiawn, mae yn wir, tra yn Sodom yn gystal ag allan o Sodom, oblegid dywedir ei fod yn poeni ei enaid cyfiawn o ddydd i ddydd o herwydd eu hanghyfreithlon ymarweddiad hwynt; ac eto, y mae yn fwy na thebyg na ddihangodd yn hollol heb gyfranogi o lygredigaeth y lle, onide ni chawsai ei orddiwes gan yr hyn a'i goddiweddodd yn ei gysylltiad a'i blant ei hun, yr hyn a barodd i ddwyfol ysbrydoliaeth daflu llen o ddystawrwydd dros derfyn ei oes. Anrhydeddir coffadwriaeth Abiah oherwydd caffael ynddo "beth daioni" yn nhy Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu. Blodeuyn tyner a thlws yn ddiau oedd Abiah; gresyn oedd iddo wywo mewn ieuencyd i'r bedd; ond *peth* daioni a briodolir iddo; ond nis gwyddom beth fuasai tyfiant na thlysni y blodeuyn hwnw, pe buasai wedi cael ei blanu mewn *soil* mwy cydnaaws, ac mewn hinsawdd mwy iachus. Nid oes ond yr Hwn a wyr y dirgelion oll a fedr amgyffred pa rwystr ar ffordd cynydd a llwyddiant y duwiol, mewn nefoleidd-dra ysbryd, zêl ac aiddgarwch yn y gwasanaeth dwyfol, ac mewn ffydd, cariad, a gobaith, a phob prydfferthwch crefyddol, ydyw ei fod yn gorfod trigo mewn cydfod a'r hyn sydd wrthwynebwl i hyny. Dichon y bydd yr elfenau croes yn y teulu; os nad yno, byddant yn y cymydogion a'r cyd-deithwyr. Y mae yr awyr foesol yr anadla ynddi yn afiachus. Ar yr ochr arall, nid yw yr annuwiol mor annuwiol ag y dymunai fod oherwydd y dylanwadau sydd yn dyfod oddiwrth y rhai cyfiawn. Gwan ydyw drygioni; bydd yn cywilyddio ac yn toddi ymaith yn mhresenoldeb daioni pendant a chryf. Y mae ambell i ddyn duwiol mor nerthol i'w gael, nes y mae yn fath o gydwylbod i'r ardal y triga ynddi, yn dangos i'r ardalwyr pa beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd ganddynt. Pan fyddo yr ardalwyr yn pechu, gwnant hyny megis heb yn wybod iddo

ef. Gorfu i'r Atheniaid alltudio Aristides y cyfiawn o'u mysg, oblegid fod ei bresenoldeb yn atalfa ar rwysg eu drygioni. Pe y tynid allan yr holl gymeriadau gwych o unrhyw gymydogath neu dref, a phe y gadewid y lleill iddynt eu hunain am saith mlynedd, nid oes neb a wyr i ba raddau yr ymlygrai y gymydogath yn ystod yr ysbaid hwnw. Ond felly y bydd pethau yn y byd a ddaw—yr annhebyg wedi eu hysgar oddiwrth eu gilydd am byth. Ni fydd tad na mam dduwiol yn un atalfa ar lygredd uffernol yr annuwiolion, oblegid byddant yn ddigon pell oddiwrthynt. Ni bydd presenoldeb gweinidog, na blaenor, na sant, yn lleddfu dim ar iasau nwydwyllt y galon; ni cheir gweled yr un o honynt byth mwy. O ryddid ofnadwy! Rhyddid i bechu! Na ato Duw i ni gael ein gollwng yn rhydd y ffordd yma byth! Yma y mae lluniau dynion rhinweddol, nid yn unig yn cynrychu ysbrydoliaeth at yr hyn sydd dda, ond yn rhyw gymaint o allu ataliol ar ffordd gwneuthur drwg. Dan edrychiad llygad rhinweddol bydd meddyliau drwg yn yswyllo ac yn ffoi. Pwy wyr pa faint o ddaioni y mae lluniau hen bregethwyr anwyl Cymru ar barwydydd y tai wedi ei wneuthur? Faint o ddaioni a wnaeth llun ei fam dduwiol anfonwyd i'w bachgen mewn llythyr i Awstralia? Ond nid oes dim cymaint a llun dyn duwiol yn holl uffern. O wlad dlawd o bob daioni; nid oes yno gymaint a'i lun! Ond trwy drugaredd, y mae gwedd ddymunol a hyfryd i'r gwirionedd pwysig hwn. Yn y nefoedd câ y saint dragywyddol ymwared oddiwrth yr holl ddylanwadau croesion. Ni fydd nefolrwydd y naill yn cael ei leddfu gan fydolrwydd y nesaf ato, na haelfrydedd sanctaidd un arall yn cael ei rewi gan gulni ysbryd rhywun fydd yn ei ymyl. Na, fe fydd mwy na môr coch i ysgar yr holl hâd sanctaidd a'r Aiphtiaid oddiwrth eu gilydd am dragywyddoldeb. Trwy y didoliad hwn ceir rhyddid llawn i weithio allan y cymeriad.

4. *Ac nid yn unig ceir yno lwy'r ddidoliad oddiwrth yr annhebyg, ond hefyd holl fantais presenoldeb y cyffelyb. Y*

mae cydgyfarfyddiad elfenau cyffelyb bob amser yn dwyseiddio ac yn angerddoli eu gweithrediadau. Y mae pob marworyn sydd yn y goelgerth danllyd yn llosgi gyda thanbeidrwydd mwy, mewn undeb a marwor eraill, nag a wnelai ar wahan. Dyma ddirgelwch dylanwad cymdeithas y saint. Yn y gymdeithas hono bydd pob aelod yn bwrw i mewn ryw gymaint o grefyddolder i'r drysorfa gyffredinol; ond derbynia fwy allan nag a fwria i mewn, nes y bydd yr holl aelodau yn ymgynhesu mewn zél a chariad, ac yn ymddyrchafu mewn defosiwn a nefoleidd-dra ysbryd, a hyny i raddau na fuasai yn gyrhaeddadwy iddynt ond yn nghymdeithas eu gilydd.

“Y mae'r gymdeithas yma'n gref,
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.”

Mynwes Abraham y galwai yr Iuddewon y nefoedd; a diamheuol fod mynwes Abraham yn un gynes iawn; ond nid gwresogrwydd Abraham ei hunan sydd yno, ond efe a'i holl hâd ysbrydol mewn undeb a'u gilydd. Oh, yn y gymdeithas gynes fendigedig hon, fe ymddadblyga y Cristion mwyaf anaddfed i fod yn seraph tanllyd mewn amser byr, fel y bydd y marworyn sydd bron diffodd yn fflamio yn ebrwydd mewn awyr sydd yn llawn o ufelai (*oxygen*). Bydd ysprydoliaeth ac yni yn dyfod o gymdeithas y nefoedd a dÿn allan holl adnoddau natur y Cristion, ac a bair iddo ymddyrchafu mewn sancteiddrwydd a zél hyd eithaf ei alluoedd. Pa ryfedd eu bod yn ehedeg yn chwim? Onid yw y gwynt o'u tu? Oh gyfleusdra bendigedig i weithio allan holl ddaioni y cymeriad! Ond can sicred ag y byddant yn cynorthwyo eu gilydd yn yr hyn sydd dda yn y nefoedd, byddant yn cynhyrfu ac yn arfogi eu gilydd yn yr hyn sydd ddrwg yn uffern. Yn y byd hwn nid oes eisiau cymaint o gynhyrriad o'r tu allan at yr hyn sydd ddrwg ag at yr hyn sydd dda. Y mae natur lygredig bob amser yn barod at y drwg. Ond er y cyfryw barodrwydd, y mae mwy o eisiau cefnogaeth at y drwg na'r da. Er bod yn barod, bydd y dyn yn aml yn rhy wan i

PREGETHAU.

wneuthur y drwg. Ond mewn undeb ag eraill maga haerllugrwydd i wneuthur drygioni, na allasai ei gyflawni wrtho ei hun. Yr oedd myntai o filwyr arfog, gyda chleddyfau a gwaywffyn a lantarnau, yn myned i ddal yr Iesu yn ngardd Gethsemane, nid o herwydd fod arnynt ofn arfogaeth na gallu yr ychydig ganlynwyr oedd o'i gwmpas, ond o herwydd fod arnynt hwy eu hunain eisiau trwst yr arfau a thramp y lliaws i'w calonogi wrth fyned i gyflawni gweithred mor ysgeler. Yr oeddynt yn wan. Ni wnaeth yr Iesu ond dywedyd "Myfi yw," i beri iddynt syrthio yn wysg eu cefnau. Y mae eisiau *power of number* ar ddrygioni. Ond fe geir hwnw yn uffern, oblegid llawer yw y rhai sydd yn rhodio y ffordd i ddystryw. Yno y mae Cain, Pharaoh, Herod, Judas, Nero, a holl ysbwriol creadigaeth Duw. I ba raddau y bydd i ddyn pechadurus cyffredin oddiar wyneb y ddaear, yn ysbaid blwyddyn, gael ei gythreuleiddio yn y gymdeithas uffernol hon, ni fentraf ddweyd, ac mi obeithiaf na chaf wybod byth. O Arglwydd, "na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid, na'm bywyd gyda dynion gwaedlyd!" Ond nid ymhelaethaf ar hyn; gobeithio fy mod wedi dywedyd digon i ddangos manteision helaethach y byd a ddaw i weithio allan y cymeriad—natur fywiog, gref; didoliad oddiwrth yr annhebyg, a phresenoldeb y cyffelyb—a'ch bod wedi gweled elfenau gwobr a chosb yn nadblygiad helaethach y cymeriad. "Pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe."

II. *Perffaith adgof a meddiant o'r hyn a aeth heibio.* Rhyw allu rhyfedd ac ofnadwy perthynol i ddyn ydyw y gallu i gofio. Trwy y gallu hwn medr ymdeimlo a'i fodolaeth bersonol, mai efe ei hunan ydyw, er pob cyfnewidiadau ac amgylchiadau yr aeth trwyddynt. Hwn hefyd sydd yn cylymu dyn wrth ei weithredoedd, ac yn ei orfodi i fyw yn eu canol, er gwae neu er gwynfyd. Ymddengys nad oes un terfyn i'r gallu yma, ei fod gyfled a bodolaeth y dyn. Neu, mewn geiriau eraill, nad ydyw dyn yn anghofio dim yn ystyr

briodol y gair. Nid ydyw yr hyn a elwir "anghof" yn ddim mwy na bod rhai ffeithiau perthynasol i fywyd megis yn ymguddio yn nyfnderoedd yr enaid, allan o olwg ac allan o afael; ond y maent yno er hyny. A chan sicred a'u bod yno, hwy à ddeuant i fynu ryw ddiwrnod. Y mae adgyfodiad yn eu haros. Gwelir cryn amrywiaeth yn meddau yr hen fynwent wledig, sydd yn gladdfa i genhedlaethau lawer o drigolion y plwyf; rhai beddau yn wychion ac yn newyddion, a cherig drudfawr yn nodi'r fan ac yn mawrygu enw y person bia'r llwch sydd yn gorwedd danynt; tra y mae eraill yn henaidd ac yn dlodaidd, heb gareg na cherfiad i adrodd dim o'r hanes, a dim ond twmpath gwyrddlas yn arwyddo wrth ei lun fod gweddillion dynol yn gorwedd odditanodd. Ac o bosibl fod beddau henach fyth, a'u cerig coffadwriaethol wedi eu dryllio ac wedi malurio, a'r twmpath wedi myned yn gydwastad a'r ddaear las oddiamgylch. Ond yn moreu mawr yr adgyfodiad, pan y bydd

"Dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd,"

fe ddaw preswylwyr y beddau dienw allan, yr un modd a phreswylwyr y beddau cyfan a chyflawn. Diderbyn wyneb a chyffredinol fydd yr adgyfodiad. Felly y bydd yn mynwent yr enaid, sef y côf. Y mae holl ddigwyddiadau, gweithrediadau, ac argraffiadau y bywyd yn cael eu claddu yn ofalus yno, er fe ddichon na fydd *tablet* uwchben pob bedd, ac y bydd y dyn weithiau yn methu cael gafael ynddynt wrth chwilio. Ond cân wired a'u bod wedi eu claddu, hwy a ddeuant allan oll o'u beddau yn y man. Un ddolef o eiddo udgorn y farn a bair iddynt ddeffro ac adgyfodi yn llu mawr iawn; os ydynt yn cysgu yn awr, pair awyr a goleuni byd arall iddynt oll adfywio. Ac yn eu canol y bydd raid i nⁱ dreulio ein tragywyddoldeb. Oh syniad difrifol ac ofnadwy! Cwmpeini y dyn am dragywyddoldeb ydyw argraffiadau ei fywyd i fod! Pan ofynwyd i Hogarth paham yr ydoedd mor fanwl a gorphenol gyda'i ddarluniau, ei ateb oedd: "*I paint*

PREGETHAU.

for eternity." Ac y mae hyn yn wir am bawb ereill, pa un bynag a fyddant yn ystyriol o hyny ai peidio. Pa beth bynag a wnel dyn, efe a fydd byw byth! Ac nid yn unig fe a fydd byth, ond bydd rhaid i'r dyn barhau am byth i edrych arno. Nid oes gan Dduw yr un ddyfais i alluogi dyn i anghofio. Dinystr ar y dyn a fyddai hyny. Na, y mae yn rhaid cofio y cwbl, i.e., y cwbl, byth! Pe y medrai y rhai colledig ddim ond anghofio, lliniarai mwy na haner eu poenedigaeth. Yn ol dychymyg yr hen fyd paganaid, yr oedd afon o'r enw *Lethe* yn rhedeg rhwng gwlad y gwae a gwlad y gwynfyd yn y byd anweledig. Ac wedi i'r rhai anffodus dreulio rhyw ysbaid yn ngwlad y trueni, caniateid iddynt ddrachtio o ddyfroedd yr afon hon, trwy yr hyn yr anghofient y cwbl a fu, a thrwy anghofio yr oedd eu poenau yn cael eu hesmwytho. Gyda chyfeiriad at yr afon ddychymyngol hon y gofynai Lord Byron, pan yr oedd pechodau boreuddydd ei fywyd wedi ei oddiweddyd ac yn ei boenydio yn ddychrynlyd: "*Where is the river that washeth away remembrance?*" Eithr nid oedd i'w chael ond mewn dychymyg paganaid. Nid oes y fath afon mewn bod. Y mae yn rhaid cofio y cwbl byth! Ac nid yn unig bydd hyn yn elfen o drueni yn uffern, ond yn elfen o halogedigaeth yn ogystal. Nid yn unig bydd yr adgofion o ddrygioni yn dwyn euogrwydd poenus, ond hefyd yn parhau i ddifwyno yr enaid. Medd gweithrediadau y côf ddylanwad moesol. Dyna un rheswm paham y dylai pobl ieuainc fod yn ofalus i arwain bywyd rhinweddol mewn ieuencyd, sef fel na byddo i adgofion boreuddydd eu bywyd halogi eu heneidiau wedi iddynt fyned yn hen, pan y byddant gyda *fond delight* yn adolygu helyntion ieuencyd, a'r *distance* o driugain mlynedd yn gosod *enchantment* ar y *view*. Gwylwch, ieuencyd anwyl, rhag y bydd adgofion eich ieuencyd yn halogedigaeth hen ddyddiau. Ond os yw hyn yn wir ac yn bwysig am foreuddydd y bywyd, y mae yn llawn mor wir ac yn llawn mor bwysig am yr holl fywyd, oblegid bydd yn bosibl i

affern ei hunan dderbyn halogrwydd ychwanegol oddiwrth adgofion y bywyd llygredig a dreuliwyd ar y ddaear. Rhaid i ddyn a'i weithredoedd fyw gyda'u gilydd am dragywyddoldeb. Teulu ysbrydol dyn yw ei weithredoedd; efe a'u cenedlodd; efe a'u pia, ac yn eu canol y rhaid iddo fyw yn oes oesoedd. A bydd hyn yn gwneyd tynged yr annuwiol yn drymach yn ogystal ag yn ddylanwad cryf i beri iddo ymlygru yn fwy. Ond am y Cristion, o'r ochr arall, bydd hen gofion y ddaear yn ychwanegu at swm ei ddedwyddwch. Bydd edrych yn ol o fryniau Caersalem, ar droion taith yr anialwch, yn gwneyd mwynhad y nefoedd ei hun yn fwy melus fyth.

PREGETH V.

—:O:—

RHESYMAU DAFYDD AM EI HOFFDER O DY DDUW.

SALM XXVII. 4.—“*Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geistaf; sef caffael trigo yn nhy yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml.*”

AR ryw olwg, y mae yn beth i synu ato fod gan yr Holl-bresenol dŷ o gwbl. Am hyn y mynega Solomon ei syndod addolgar wrth gysegru ei deml yn y weddi gyhoeddus gyntaf a gyflwynodd ynddi, ac y gofyn: “Ai gwir yw, y preswylia Duw ar y ddaear? wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynwys di; pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiledais i!” (1 Bren. viii. 27). Yn yr ystyr o gael Ei gynwys a’i gyfyngu iddo, ni fu gan yr Anfeidrol erioed dŷ yn un lle. Ymwrthyd a’r syniad, gyda dwyfol ddirmyg: “Y nef yw fy ngorseddfainc, a’r ddaear yw troedfainc fy nhraed. Pa dŷ a adeiledwch i mi? medd yr Arglwydd; neu pa le fydd i’m gorphwysfa i? Onid fy llaw i a wnaeth hyn oll?” (Actau vii. 49, 50). Eto, er y lleinw bob lle ar unwaith a’i hanfod diranedig, y mae ganddo, medd y Beibl, Ei drigleoedd neillduol. Y greadigaeth anfesuradwy ydyw Ei fferm fawr, ac y mae yn ei ffarmio yn fanwl, gan Ei fod yn byw arni; ie, yn byw drwyddi oll; er hyny y mae ganddo ar Ei fferm Ei balasdai. 1. Y nef, lle y mae gorseddfainc Duw. Anmhenodol ydyw ein syniad am ganolbwynt yr ymerodraeth ddwyfol; oblegid y mae crefydd y Beibl yn wahanol i grefyddau gau y byd, ni chynwys ond ychydig sydd yn borthiant i chwilfrydedd afiachus. Nacaol a ffugrol gan mwyaf ydyw desgrifiadau llyfr Duw o’r nefoedd; ond dyry

ddigon o sicrwydd fod lle o'r fath yn bod. 2. Y cysegr, yn gyntaf yn y tabernacl, ac wedi hyny yn y deml yn Jerusalem, lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa, a lle yr oedd yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol yn goleuo ystafell a fuasai yn dywyll hebddo, yr hon oedd mewn modd arbenig yn ystafell Duw.

3. Yn nghalonau Ei bobl, y rhai a'u carant ac a'u gwasanaethant. "Canys fel hyn y dywed y Goruchel a'r dyrchafedig (ni raid enwi yr unig Benaeth) yr hwn a breswylia dragwyddoldeb (lle nad ydyw amser a'i ddigwyddiadau yn cael eu dynodi, megis yma) ac y mae ei enw yn Sanctaidd, y goruchelder a'r cysegr a breswyliaf (sef y gwir gysegr, yr hwn sydd fry; O ddwyfol urddas a gostyngeiddrwydd!) a chyda'r cystuddiedig a'r isel o yspryd, i fywchau y rhai isel o yspryd, ac i fywchau calon y rhai cystuddiedig."

Wedi i'r Anfeidrol ymostwng i gael Ei ystyried a'i alw yn Dduw i genedl neillduol gwnaeth "Ei dabernacl yn eu plith," gan neillduo rhan o'r ddaear i'w pherchenogi a'i phreswyllo. Yna Efe a roddodd orchymyn i holl wrywiaid y genedl ymddangos ger Ei fron dair gwaith bob blwyddyn, gan ymrwymo na "chwenychai neb eu tir hwynt," tra yr elent hwy i ymddangos ger bron eu Duw (Exod xxxiv. 23, 24). Ond ffurf o wasanaeth crefyddol ydoedd hyn oll, i barhau am dymhor yn unig, oblegid pan beidiodd a bod yn Dduw un genedl, i gael bod yn Dduw pob cenedl, fe symudodd Ei babell o'u plith, oblegid yr ydoedd wedi sefydlu gwasanaeth crefyddol ag ydoedd yn bosibl ei ddiddymu trwy ddinystrio y lle i addoli. Pan y mae yr adeg hono yn agoshau fe ddywed ein Iachawdwr—"Y mae yr awr yn dyfod pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem. Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd; canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef." Lle bynag yn awr "y mae dau neu dri" o wir addolwyr y Tad wedi cydymgynull, y maent yn llawn ddigon i sicrhau presenoldeb Duw yn eu plith, yn ol Ei addewid; ac

y mae lle eu cynulliad—pa fath bynag fydd—yn cael ei fedyddio a chymeradwyaeth iddynt hwy, megis yr oedd y deml i'r Iuddewon gynt. Y mae yn “dŷ i Dduw, ac yn borth i'r nefoedd.” Y dwyfol ogoniant yn ymddangos arno, a wnaeth un o fynyddoedd cyffredin Palestina yn y fan “yn fynydd sanctaidd” i'r apostol Petr. Felly y mae eto—

“Y man bost ti, boed fryn neu fro,”
 (hardd neu anhardd)
 “Sydd gyflawn o ddyddanwch ;
 Yn dŷ gynteddau'n wastad mae
 Rhyw fôr didrai o heddwch.”

Ac felly y mae holl deimladau pobl Dduw tuag at y babell, neu tuag at y deml gynt, yn cael eu profi gan y saint o hyd tuag at gyrchfan eu haddoliad, am fod y gogoniant dwyfol wedi ymddangos iddynt ynddo.

Dafydd sydd yn amgylchiadau'r testyn yn dyheu am dŷ Dduw, a phan ystyriwn ei gyflwr ar y pryd, sef yn nghanol enbydrwydd a phrofedigaethau rhyfel, ni allwn lai na rhyfeddu at grefyddolrwydd ei ysbryd. Dyhea am dŷ Dduw, gan ddisgwyl cael tri pheth. 1. *Amddiffyniad rhag perygl.* Yr oedd cyrn yr allor yn arfer bod yn ddiinas noddfa i ffoedigion; ond i Dafydd yr oedd mwy na hyny i'w gael ynddo, noddod bwriadol Ei Dduw. “Canys yn y dydd blin y'm cuddia o fewn ei babell; yn nirgelfa ei babell y'm cuddia; a'r graig y'm cyfyd i” adn. 5. 2. *Nerth yn gystal a noddod.* “Cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder” “Ac yn awr y dyrcha efe fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch” adn. 6. 3. *Bodddhad, a hwnnw yn un deublyg.* Gan fod y bodddhad hwn yn briodol amcan i ddeisyfiadau'r saint eto, y mae yn weddus i ni ymhelaethu arno. Cynwysa—

I. OLWG AR HOLL BRYDFERTHWCH (*pleasantness*) EI ODUW;

II. ATEBION I'W HOLL DDYRYS GWESTIYNAU.

I. *Hiraethai am dy Dduw i gael golwg adnewyddol a pharhaus ar Ei brydferthwch digymhar.* Hawdd gweled fod ewyllys Dafydd tua thŷ ei Dduw fel y lle yr ymhyfrydai ynddo. Pan

fyddai yn absenol yr oedd yn adgofio yr adegau ar ba rai “yr aethai gyda'r gynulleidfa, ac y cerddai gyda hwynt mewn sain cân a moliant,” “fel tyrfa yn cadw gwyl,” ac y mae yn tywallt ei enaid,—nid ei ddagrau yn unig—mewn hiraeth. Eiddigedda wrth “aderyn y tô a'r wenol” oedd yn nythu ger allorau Duw. “Arglwydd,” meddai, “hoffais drigfan dy dŷ, a lle preswylfa dy ogoniant.” “Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd.” Dwy ystafell ddigon disyml a diaddurn ydoedd y tabernacl; a gwasanaeth manwl, caethiwus, anhawddgar i lygad daearol, ydoedd ffurf yr addoliad a gyflwynid; rhaid, gan hynny, fod y Salmydd yn canfod prydferthwch uwch, oedd yn codi o ystyr ysbrydol y gwasanaeth, a nodweddion y Duw a addolid. Y mae yr olygfa hon “yn digoni ei enaid, megis a mēr ac a brasder.” Cyrchodd yr arch o Ciriath-jaarim, o dŷ Abinadab, gyda brwdfrydedd mawr, gan “neidio a llemmain o flaen yr Arglwydd,” nes yr oedd yn ngolwg ei wraig, Michal merch Saul, “fel un o'r ynfydion.” Y mae zêl ei galon yn cael ei datguddio hefyd yn maint yr offrymau a gyflwynodd at adeiladaeth y deml, y gwarafunwyd iddo ef ei hun ei hadeiladu. Cofus genyf ddarllen, pan yn blentyn, yn ngeiriadur Mr. Charles, fod swm ei roddion dros dri-ugain-deg o filiynau o bunoedd. Swm aruthrol! Ond paham? A oes cyfrif boddhaol am angerddoldeb teimlad y Salmydd, heblaw penboethni dwyreiniol? O oes y mae. Yr oedd *wedi gweled eiliw gwan, cipdrem frysio, ar y gogoniant penaf sydd mewn bod*—“PRYDFERTHWCH YR ARGWLWYDD.” Dyma ddysgleirdeb y nefoedd, a ffynonell ei dedwyddwch a'i llawenydd. Hwn fydd yn enyn nefol dan na ddiffydd byth, ond a fydd yn eirias tragywyddol o zêl ac ymroddiad yn Ei wasanaeth. Hwn, yn yr adeg foreu hono ar y byd, yr oedd y Salmydd, “trwy ddrych, ac mewn dammeg,” sef tystiolaethau cyfraith Duw, a defodau seremoniol gwasanaeth y deml, wedi cael gweledigaeth arno, er yn anmherffaith, nes yr oedd wedi berwi ei enaid mewn brwdfrydedd a moliant. Nid oedd modd

i'r mawl beidio cael ei chwyddo hefyd gan y cyferbyniad teimladau oedd rhwng "Duw Israel" a duwiau gau y Cenhedloedd, y rhai oeddynt yn blentynaid, ffol, llygredig, a chreulawn. Pa ryfedd eu bod yn tori allan i ofyn: "Pa Dduw sydd fel tydi?"

Yr un datguddiad o Dduw oedd gan y Salmydd ag sydd genym ninau, ond ei fod gryn dipyn yn llai, a dyweyd y lleiaf. Gweddus ac angenrheidiol ydyw i ni sylwi ar y datguddiad a roddodd yr Anfeidrol o hono Ei Hun hyd y pryd hwn, ac oddiyma yn y blaen. Yn y Beibl ymddengys, nid fel nerth neu yni anmhersonol, ond fel un sydd ag ewyllys a chalon ganddo; fel Person Anfeidrol; fel Un y gellir Ei addoli, Ei garu, ac ymddiried ynddo. Ymostynga i ddyfod i berthynas a dynion, gan roddi iddynt afael arno Ei Hun; yn gymaint a'i fod yn ymrwymo ac yn addaw. Mewn ystyr eang, daw megis i gylch teuluaidd wrth ddyfod yn Dduw mewn cyfammod. Bellach byth, dyma lle yr adwaenir Ei bersonoliaeth, a'i wir gymeriad. Geill dynion meddylgar ymgydnabyddu ag athroniaeth ddofn yr athronydd yn ei gyfundrefn athronyddol, a dynion o chwaeth weled medrus-rwydd y celfyddydwr cywrain yn nghynrychion ei law, ond os ydynt am weled calon y naill neu y llall rhaid ymgydnabyddu a hwynt tu fewn i'r cylch teuluaidd. Y mae gan eu gwragedd a'u plant fantais i'w hadnabod nad ydyw gan neb arall. Felly byddaf finau, yn fy ngradd, yn hoffi olrheinio meddyliau eang Duw yn Ei holl weithredoedd. Gan ymdeimlo a'm pellder oddiwrtho, dymunaf fenthyca a chymhwysio ataf fy hun eiriau y Salmydd: "Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! mor fawr yw eu swm hwynt!" Byddaf yn cael mawr bleser wrth edrych a gelfyddydwaith yr Anfeidrol, oblegid—gyda pharch y dywedaf—y mae yn grefftwr heb Ei ail. Gydag edmygedu addolgar byddaf yn edrych arno yn taenu, ac weithiau yn pentyru, y cymylau amryw-ffurflog ac amryw-liwiog, yn paentio'r blodau, yn plethu rhwydwaith esgyll y gwybed, ac yn toddi globyn

perlog llygaid y morgrug. O! y mae yn ben-crefftwr. Crefftwyr sal ydyw pawb yn Ei ymyl Ef! Ac eto nid ydwyf yn cael fy llawn foddhau yn yr olygfa hon. Y mae genyf galon, ac y mae hono yn dyheu am gael golwg ar galon Duw. Yn yr olwg ar hono, os bydd yn foddhaol, y gallaf yn unig ymlonyddu. Wel, yn y llyfr rhyfedd hwn—y Beibl—y mae Duw yn dynoethi Ei fynwes ac yn dangos Ei galon!

Yn ol Ei dystiolaeth Ef Ei Hun, (Exod. vi. 3) dan yr enw "Duw Hollalluog" yr ymddangosodd i Abraham, Isaac, a Jacob. Ond Ei enw cyfammodol ydoedd Jehofah, neu Javeh. YR YDWYF tragywyddol a digyfnewid. I'r Israeliad sathredig a gorthrymedig, pa enw mor mor gyfaddas a'r hwn a fynegai gadernid dianwadal ei Dduw.

"Y graig na syfl yn merw'r lli."

Oblegid yr awgrym grasol sydd yn Ei enw ydyw: "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir; am hyny, ni ddifethir chwi, meibion Jacob." A phan y mae Moses yn canu cân i'r Arglwydd, ar ol gwaredigaeth ryfedd y Môr Coch, dywed: "Pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd, yn mhlith y duwiau? pwy fel tydi yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd." Yr oedd hwn yn air newydd a dyeithr yn hanes y duwiau. Nid oedd neb yn arfer priodoli "*sancteiddrwydd*" i'r duwiau. Pwy fuasai yn dychymygu am y fath beth wrth folianu Baal nac Ashtoreth, Bacchus na Gwener, duwiau poblogaidd y Cenedloedd? Yn ol eu rhaib a'u mympwy y gweithredent hwy: "y neb a fynent a laddent, a'r neb a fynent a gadwent yn fyw." A duwiau mympwyol, hyll, aflan, a chreulawn ydoedd holl dduwiau'r Cenedloedd. Nid oedd cymaint ag un o honynt yn garedig, syber, a glân. Ond dyma Dduw yn gweithredu wrth reol, i.e. mewn uniondeb diwyro tuag at bawb, a hyny bob amser. Dyma neillduolrwydd Hwn, yr hyn a'i gwahaniaetha oddiwrth yr holl dduwiau—Ei sancteiddrwydd. "Sanct yr Israel" ydoedd Ei enw yn mhlith y duwiau. "Teml sanctaidd" oedd Ei deml; ar "fynydd ei sancteiddrwydd" yr ydoedd wedi ei hadeiladu,

ac fel “y Sanct yn dy ganol di” yr adnabyddid yr Hwn a'i preswyliai. Byrdwn addoliad Hwn, a adroddid ac a ailadroddid gan weision Ei lys, ydoedd, “Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd Dduw y lluoedd.” Pan ai Hwn i'w lŵ, i'w sancteiddrwydd y tyngai. Pan gyflawnai Hwn Ei addewidion, “er mwyn ei enw sanctaidd” y gwnai hyny. Ar lewod meirw y gosododd Solomon risiau a chanllawiau ei orseddfainc i orphwys, ond “cyfiawnder a barn yw trigfa gorseddfainc” Hwn. Gweision yn dwyn ffyn, ac urddasolion yn dal arfau, oedd yn cerdded mewn gorymdaith o flaen breninoedd y ddaear, ond “trugaredd a gwirionedd a ragflaenent wyneb” Duw. Pa ryfedd fod plant yr Israel yn dotio ar eu Duw. “Moeswch i'r Arglwydd ogoniant ei enw,” medd y Salmydd; ac fel un yn rhagweled y buasid yn gofyn pa fodd, yr etyb yntau yn y llinell nesaf: “addolwch ef yn mhrydferthwch ei sancteiddrwydd,” oblegid dyma Ei ogoniant penaf.

Duw rhinweddol a phur ydyw Duw'r Beibl, ac yn hyn yr ymogonedda. Y mae Efe yn “ddoeth o galon;” o ran hyny “y Duw unig ddoeth” ydyw. Y mae Efe yn “alluog o nerth,” oblegid yr Hollalluog ydyw. Y mae yn gyffelyb yn mhob rhinwedd a mawredd—yn anfesuradwy ac yn anamgyffredadwy. Dywedai Dörner, yr hwn hyd ei farwolaeth, a ystyrid gan y rhai a'i hadwaenent, yn brif dduwinydd y byd, mai wrth addoli Hwn yn unig y byddai dynion yn addoli yr hyn *oedd annherfynol*; fod pob gwrthddrych addoliad arall oedd wedi eu cynyg i ddynion yn rhai terfynol a mesuradwy. Ychydig yn fwy na'u haddolwyr oeddynt. Dynion wedi eu dwyfoli mewn dychymyg oedd llawer o honynt. Yr Anfeidrol ydyw hwn yn mhob ffurf a gwedd arno; “Cyfuwch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod? Mae ei fesur ef yn fwy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr.” Er hyny, yn “mhrydferthwch ei sancteiddrwydd” y mae Efe yn chwenych cael Ei addoli. A dyma neillduolrwydd yr addoliad

Cristionogol sydd yn galw am ein sylw difrifolaf. Ofni yr ydym fod llawer o bobl ddefosiynol anfeddylgar heb wybod y gwahaniaeth rhwng ymostyngiad paganaidd a dall gerbron mawredd—sef ymostyngiad heb ei adnabod, eithr rhag ei ofn—a'r gwir addoliad Cristionogol, yr hwn sydd yn edmygedd calon o garictor prydfferth y Duw Anfeidrol. “Chwydychi ydych yn addoli y peth ni wyddoch; ninaw ydym yn addoli y peth a wyddom.” Nodwedd amlwg defosiwn ofergoelus ydyw ei fod yn un dall, a'i fod yn gynyrch ofn. Nid ymostyngiad gerbron unrhyw fawredd, er ei adnabod, ydyw y gwir addoliad Cristionogol ychwaith; y mae elfen arall yn anheggorol; rhaid i'r mawredd fod yn *un sanctaidd*; neu fel y byddai yr hen dduwinyddion yn geirio, nad priodoleddau naturiol Duw, eithr Ei briodoleddau moesol sydd yn briodol wrthddrychau addoliad. Ei garictor, ac nid Ei fraich, y mae ein Duw ni yn alw arnom i'w addoli.

A fedrwch chwi addoli cymeriad anfeidrol brydfferth, a hyny ar wahan i bob ystyriaeth arall? Mi ofynaf i chwi gwestiwn llai, fydd yn hawddach i'w ateb na'r un blaenorol, ac a fydd yn gymhorth i chwi ateb hwnw: a fedrwch chwi edmygu cymeriad hardd mewn dyn da er iddo fod yn ddi-dalent ac yn dlawd?

“The rank is but the guinea stamp,
The man is the gold, for a' that.”

Mewn cymhariaeth i'r swydd a'r safle, y rhai a werthfawrogir gan y byd, y dyn ei hunan yw'r peth pwysicaf. Efe ydyw yr aur, ac y mae pob dyn yn aur, er gyda galar yr addefwn fod llawer o hono yn “aur colladwy;” ond y mae y duwiol, er iddo fod “can dloted a Job,” yn aur pur angholladwy.

Yn un o'i weithiau athrylithgar (*Sartor Resartus*) y mae Carlyle yn gwawdie ac yn gwatwar, mewn modd effeithiol, dueddfryd cyffredinol plant dynion i gydnabod allanolion ac amgylchoedd eu gilydd, yn hytrach na'r dynion eu hunain—y dillad yn fwy na'r neb fydd yn eu gwisgo. Y mae ganddo gymeriad dychymyngol o'r enw Professor Teufelsdröckh.

unig destyn siarad yr hwn ar bob achlysur ydyw pwysigrwydd dillad. Ac yn ystod yr ymdrafodaeth faith a'r amryw gysylltiadau y sonir am danynt, y mae'r Professor yn siarad ar ei hoff bwnc, mewn ac allan o amser, yn weddaidd ac yn anweddaidd, nes y mae yn gas genych ei glywed. Dyna'r amcan. Ond gwawdied Carlyle a wawdio, ni wna byth watwar dillad nes gwneyd i'r byd hwn eu dibrisio. Y mae yn sicr o lynu wrth y dillad. Ni wel ragoriaeth o gwbl ond lle y byddo gwaedoliaeth neu safle, cyfoeth neu berthynasau, dylanwad neu glodforedd; rhywbeth heblaw gwir deilyngdod y dyn ei hun. Yn wir, hen ffolog ydyw y byd hwn—dyna a fu, a dyna a fydd—fe groeshoeliodd Arglwydd y gogoniant pan gafodd afael arno heb ddillad llŷs am dano, ac fe wnai hyny drachefn pe cai gyfle. Pan ddyrchafa ei lygaid i'r nefoedd—er mai anaml y gwna—ac y cenfydd yno y Duw sydd yn eistedd oddiarni, dillad hwnw sydd yn tynu ei sylw, sef Ei un-benogaeth ddiderfyn, Ei fodolaeth angenrheidiol, Ei dadogaeth gyffredinol, Ei hollalluogrwydd; mewn gair, Ei ddillad, ac nid Efe Ei Hun. Astudiwch hanes a nodweddion gau-grefyddau'r byd, a phob llygriad ar y wir grefydd, a chwi gewch weled yn fuan mai dyna wneir gan yr addolwyr; addoli dillad Duw yn hytrach na'i garictor Ef Ei Hun.

Anmherffaith o angenrheidrwydd ydyw addoliad Duw o dan yr Hen Destament; oblegid rhanol ac anmherffaith ydyw y datguddiad o hono. Fe ddywedir fod yr hyn a elwir yn "*higher criticism*" yn myned i gynyrchu chwyldroad yn ein syniadau am amseriad y prif ffeithiau, ac awdwyr ei wahanol ranau. Ond pe y medrem, ni a ddymunem rybuddio y mwyaf hyf a beiddgar o'r beirniaid i fod yn dra gwyliadwrus a gochelgar, "a diosg eu hesgidiau oddi am eu traed, oblegid y ddaear y maent yn sefyll arni sydd ddaear sanctaidd." Y mae un ffaith bwysig sydd yn werthfawrusach na swm anferth o "*higher criticism*," sydd yn gyntaf dim yn gofyn am esboniad, sef fod y casgliad sydd genym o lyfrau a elwir yn Hen Destament—pwy bynag ydyw eu hawdwyr, a pha bryd

bynag y digwyddodd y prif ffeithiau—wedi llwyddo i gynyrchu syniad am un Duw, a hwnw yn sanctaidd, na fedd yr holl fyddim cyffelyb iddo. Am hyny gocheler rhag ei ddifwyno, “cans y mae bendith ynddo.”

Ond pan drown i dudalenau y Testament Newydd, y genadwri gyntaf a'n cyferfydd ydyw hon: “Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd.” Bellach dyma Dduw i ni ar ffurf dyn, y ffurf fwyaf manteisiol o bob ffurf i'w adnabod, oblegid trwom ein hunain, mewn rhyw ystyr, y gallwn adnabod pob peth a phawb. O'r blaen, yr oedd yn rhaid i ni ddynoli Duw trwy ffugrau yr Hen Destament, cyn y gallem gael syniad o gwbl am dano. Rhaid i ni ddynoli pob peth cyn ei ddeall. Ond y mae ffugrau yr Hen Destament yn ffeithiau yn y Newydd. Bellach, dyma lygaid a chlustiau ac ymysgaroedd gan Dduw fel ninau. Dyma “asgwrn o'n hasgwrn ni, a chnawd o'n cnawd ni.” Dyma feddyliau a theimladau hollol ddynol. Dyma Fab y Dyn, yr hwn sydd yn trigo yn ein plith, eto yn dywedyd—ac y mae genym bob lle i gredu gwirionedd Ei eiriau—“Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad.” Ond dichon y bydd rhywun yn gwrthwynebu fod y pellder rhwng y dynol a'r dwyfol heb ei groesi eto. Pa fodd y gwneir hyny? Ai trwy ymorchestu i adnabod “y Dyn Crist Iesu” mor berffaith ag y medrwn, ac wedi hyny rhoddi ffrwyn i'n dychymyg, nes Ei ledi a'i chwyddo hyd at anfeidroldeb? Nid felly yr ydwyf yn synied. Y mae genym ddigon o waith i'w wneuthur i weled yr hyn sydd i'w weled, heb alw ein dychymyg i weithredu o gwbl. Os goddefwch i mi eirio felly, y mae dwy wedd i anfeidrolledd. Y gyntaf ydyw ei fesuredd, neu ei faintioli (*dimensions*). Yn yr ystyr hon y mae Duw yn llawer uwch na meddwl dyn, oblegid ni fedr y meidrol gynwys yr anfeidrol. Y wedd arall ydyw purdeb, neu angerddoldeb ei briodoleddau (*intensity*). Yn y wedd hon eto, ni fedr y meddwl ei olrhainio yn berffaith. Y mae ynddo buredd sydd yn myned yn fwy pur, fel y byddwch yn

treiddio i fewn iddo, nes yn fuan y teimlwch fod y purdeb, na chanfyddasoch ond ei gyrau, wedi myned yn rhy danbaid i lygaid eiddil ddal yr olwg arno. Ond er na fedrwch gynwys anfeidroldeb Duw yn y naill wedd mwy nac yn y llall, gellwch deimlo fod Ei fawredd a'i buredd yn anamgyffredadwy. Tuag at addoli, y mae hyny yn ddigonol. Er na fedraf edrych yn llygad yr haul, medraf deimlo fod ei ddysgleirdeb yn ogoneddus. Nid oes dim wedi ei enill trwy yr ymgawdoliad, ynte? Oes y mae. Yr ydym wedi ein galluogi i weled fod priodoleddau Duw yr un rhyw a natur a'r pethau cyffelyb iddynt ynom ni; fod Ei gyfiawnder, Ei dosturi, a'i gymwynasgarwch yn hollol fel yr eiddom ni, er yn anfesurrol eangach, ac i raddau anamgyffredadwy yn fwy pur ac angerddol.

Yn y cysylltiad hwn, yr hyn sydd yn bwysig ydyw ein bod yn medru gwerthfawrogi rhinweddau dynol ein Gwardwr, a thrwyddynt ragoriaethau ein Duw, yn eu symledd pur eu hunain, heb yr amgylchiadau addurnol ag yr ydym ni yn gyffredin yn dibynu cymaint arnynt. Rhaid i ni beidio a bod yn debyg i Professor Teufelsdröckh; oblegid fe wagaodd ein Harglwydd Ei Hun o'r hyn oedd yn briodol iddo "yn ffurf Duw," i gymeryd arno "agwedd gwas." Mewn ystad o "ddarostyngiad" yr oedd Efe yma; ond nid ydyw Ei rinweddau un gronyn yn llai oblegid hyny. Gadewch i mi eich profi, trwy ddangos i chwi dair golygfa, nad oes mo'u bath mewn bod. I weled y cyntaf rhaid i mi eich arwain i westy Bethlehem, ac i le yr anifeiliaid perthynol i'r gwesty hwnw, lle y mae Mair a'i Mab bychan, "am nad oedd le yn y lletty." O syndod! Dyna'r Emanuel, y Duw gyda ni, y baban bach eiddil yna sydd wedi Ei rwymo mewn cadachau, ac ar liniau Ei fam! Byddaf fi yn cael anhawsder dirfawr i synio'r Duw-Ddyn; ond byddaf yn teimlo'r anhawsder yn cynyddu pan fyddaf yn ceisio synio'r Duw-Faban! Ond dyna fe! Nid ffug-faban mo hono ychwaith, oblegid y mae yn anrhaethol rhy bur i ffugio

ymddangos fel baban, heb fod yn faban gwirioneddol mewn corph a meddwl! A fedrwch chwi addoli y Duw-Faban, a hyny yn lletty yr anifeiliaid? I ni yn fynych, angenrhaid yw lle hardd i addoli, ac y mae yn beryglus ambell dro ein bod yn camgymeryd y teimlad neillduol gynyrchir gan hardd-wychder yr addoldy am yr addoliad ei hunan. Profed y rhai hyny eu hunain yn y fan yma, a fedrant addoli mewn ystabl? A fedrant ddwfn-deimlo ffeithiau moesol, ac nid teleidrwydd mewn lliw a llun? Os ydych mewn hwyl addoli, ni a ganwn fan yma dri phenill o eiddo y diweddar Barch. Richard Jones, Wern. Rhodded y Dwyfol Ysbryd gymhorth i ni i'w canu'n iawn!

“ Pwy wela'i 'nawr ar arffed Mair?
 Ai person yr Anfeidrol Air!
 Yn cael Ei feithrin yn y cnawd?
 Tywysog hedd, rhyfeddol iawn!
 Duw cadarn, a'i anfeidrol ddawn,
 I bechaduriaid gwael yn Frawd.

Creawdwr a Chynaliwr nef
 A gair Ei nerth, yn wan Ei lef,
 A môr o gyfoeth mawr tan gudd,
 Dechreuad creadigaeth Duw,
 Llawenydd bywyd pob peth byw,
 Mewn preseb gyda'i fam yn brudd.

Fe gofir am y preseb tlawd
 Lle y gorweddodd Iesu'n brawd,
 Yn faban, mewn cadachau gwael;
 Ond trwy Ei dlodi megis gwas,
 Daeth anchwiliadwy olud gras,
 I bechaduriaid mawr i'w gael.”

I weled yr ail olygfa rhaid i ni eich arwain i Fôr Tiberias, a dangos i chwi gwch bychan lle mae'r hwn fu gynt yn faban Mair, yn awr wedi tyfu i oedran a chorpholaeth dyn, yr hwn ar ol diwrnod o lafur caled mewn dysgu'r tyrfaoedd anwybodus ond sychedig am wybodaeth nefol, ac ymgeleddu'r trueiniaid gwywedig a ddygid ato, sydd yn awr yn lludedig a blinderog yn cysgu tu ol i'r llong. Gwlychir Ef gan dasgion y tonau sydd yn dyfod dros y bwrdd, a chan wliith y nos. Yr Hwn sydd yn cynal y greadigaeth ydyw a gair Ei nerth, er Ei

fod yn awr wedi Ei orchfygu gan ludded, a'i natur wedi ei chloi i fynu gan gwsgr! Disgyna yn ddyfnach atom yn ngwendid ein natur, pan gysga, na braidd un amser. Cerddwch chwithau yn araf ac yn ysgafn dros y bwrdd, rhag ofn i chwi aflonyddu ar gwsgr y dwyfol Gysgadur, ac wrth fyned heibio gan syllu arno, addolwch Ef, os medrwch. Ie, dywedais, os medrwch, oblegid y mae yn llawer haws cydymdeimlo ag Ef na'i addoli yn y fan hon. Tuag at addoli rhaid sylweddoli pwy ydyw, a phaham y daeth i'r wedd sydd arno.

Ond yn y fan acw, ar Golgotha draw, y mae'r olygfa ryfedda' erioed. Yno chwi ganfyddwch dair croesbren, lleidr a llofrudd sydd yn hoeliedig o bob tu, "a'r Iesu yn y canol." Cerddwch dipyn o gwmpas, ac edrychwch yn wynebaw yr hoeliedigion. Un hynod ydyw'r hwn sydd yn y canol! Fe ddywedir fod Simon o Cyrene, yr hwn fu yn cynorthwyo i gario Ei groes, ac ar adroddiad eu tad, fod ei blant, Alexander a Rufus (Marc xv. 21; Rhuf. xvi. 13) wedi credu mai "Arglwydd y gogoniant" ydoedd. Gwyddom fod y canwriad Rhufeinig wedi canfod harddwch tywysogaidd ynddo, ac fe ddichon wedi teimlo ystyr yr amgylchiadau cydfynedol a'r croeshoeliad, nes dywedyd: "Yn wir Mab Duw cedd y dyn hwn." Y mae'r lleidr llofruddiog sydd ar y naill ochr iddo wedi deall nad ydyw Ei groesbren ond ysgol i orseddfainc y nef, ac wedi gweled pen yr ysgol wrth droed yr orseddfainc, ac wedi deisyfu: "Arglwydd, cofia fi pan ddelych i'th deyrnas." Dyma "ddydd barn y byd hwn," lle y bwrir allan o hyd "dywysog y byd hwn," a hyny nid trwy drais gorchfygol. Dyma lle y bu'r "ymladdfa fwya' erioed." Ond nid a "chleddyf a grym arfau." Ei ufudd-dod llednais a ddamniodd rwysg a balchder y byd hwn, ac a fwriodd allan ei dywysog. A fedrwch chwi addoli fan yma? Braidd na fuom o'r blaen yn eich cymhell i addoli brenin heb un orsedd ganddo, na theyrn-wialen na choron. Yn awr gofynwn, a fedrwch chwi addoli Brenin a chroesbren yn lle gorsedd, drain

yn lle coron, corsen wawdlyd yn lle teyrn-wialen. Y mae yn y fan yma uchder ofnadwy; oblegid gyda pharch y dywedaf, *dyma'r man uchaf y dringodd Duwdod iddo erioed!* Cyn ymadael rhaid i ni gael canu penillion anfarwol yr hen Bantycelyn anwyl!

“ Mae enw Calfari,
Fu gynt yn w'radwydd mawr,
Yn ngolwg f'enaïd eu,
Yn fwy na'r nef yn awr.
O ddedwydd fryn! sancteiddiaf le!
Dderbyniodd ddwyfol waed y ne'.

'Rwy'n caru'r hyfryd awr,
Mi gara'r hyfryd le,
Mi garaf bren y groes,
Orweddodd arno 'Fe:
Dyma fy Nuw, dyma fy mhen,
A'r oll a feddaf ar y pren.

Ffarwel deganau'r byd,
Mae'ch blodau hyfryd iawn,
Oll yn difanu 'nghyd
Ar Galfari, brydnawn;
Mae da, mae dyn, er maint eu grym,
Yn ngwydd y groes yn myn'd yn ddim.”

Dyma brif olygfeydd y tŷ, a dyma'r goleuni priodol i edrych arnynt. Lle i'w ddymuno ydyw tŷ Dduw!

II. *Y mae ty Dduw yn lle i gael atebion, mewn modd uniongyrchol, neu ynte anuniongyrchol, braidd i'n holl gwestiynau mawrion a phwysig.* Yn yr olwg ar wir brydferthwch yr Arglwydd y mae yn bosibl deall digon ar bob peth arall, i bob amcan ymarferol. “Gyda thi y mae ffynon y bywyd”—pob bywyd—eu hachos dechreuol a'u hamcan terfynol. Efe ydyw yr Alpha a'r Omega, ac am hyny, ychwanega y Salmydd: “yn dy oleuni di y gwelwn oleuni.” Nid ydyw pethau Duw i'w deall ond yn ngoleuni Duw. “Yn mynydd yr Arglwydd y gwelir.” Hwn ydyw “bryn gweledigaeth.” Oblegid byd y cwmp ydyw y byd hwn, nid yn unig oblegid mai dyma y lle y digwyddodd yr anffawd, ond oblegid fod y weithred wrthryfelgar hono wedi penderfynu ei ogwydd byth er hyny.

“Y mae helynt” neu *gwrs* “y byd hwn, yn ol yr ysbryd sydd yn gweithio yn mhlant yr anufudd-dod.” Os ydych am ddeall Duw a’i lywodraeth, ni ddylech “synied pethau daearol,” na’r “pethau sydd o ddynion,” ond “y pethau sydd o Dduw.” Nac ewch allan a’ch lantern yn eich llaw, yr hon fydd yn gwasgar pelydrau coch a chynryfus y ddaear ar bethau tragywyddol, neu y mae yn beryglus na welwch mo honynt, ac os gwelwch, nad yn eu lliw priodol eu hunain y gwelwch hwynt. Ofer disgwyl i bethau hir-barhaol llywodraeth Duw gael eu trefnu yn ol mympwyon a ffasiynau cyfnewidiol y byd bach hwn; ni wna Duw tragywyddoldeb ond eu diystyru. Braidd na lithrodd traed Asaph, prin na thripiodd ei gerddediad, pan welodd lwyddiant y rhai annuwiol, oblegid yr oedd yn cenfigenu wrth y rhai ynyfyd, hyd nes y daeth i gysegr Duw. Hynodrwydd perthynol i oleuni’r cysegr yw ei fod yn dangos pethau yn eu diwedd; ac nid oes dim yn dda iawn heb ei fod yn diweddu yn dda. Yn ngoleuni “eu diwedd hwynt” y dywed: “Diau osod o honot hwynt mewn llithrigfa, a chwympo o honot hwynt i ddinistr. Mor ddisymwth yr aethant yn anghyfanedd! pallasant a darfuant gan ofn. Mor ynyfyd oeddwn!”

Mae yn dda, gan hyny, fod genym le ar y ddaear i gywiro ein camsyniadau. Gynt, yr oedd yn arferiad gan bobl y wlad i ddyfod i’r trefi i gywiro amser y wlad wrth gloc mawr y dref, neu wrth y *dial*. Yn awr, amser Greenwich ydyw yr amser cyffredinol. Ar adegau penodedig, mae y llywodraeth yn cywiro pwys a mesur y wlad. Onid oes angen am rywbeth cyffelyb mewn ystyr bwysicach? “*The great want of our country,*” meddai Mark Hopkins, America, “*is the rectification of our standards.*” Ac yr ydym yn cwbl gredu ei syniadau. Y mae mawr angen am gywiro ein safonau, yn enwedig o barth i wir deilyngdod a mawredd. Edmygir a chanmolir yn fynych bethau a phersonau amddifad o deilyngdod, tra y diystyriir y gwir deilwng.

Yn ngoleuni y cysegr yn unig y deallir rhagluniaeth neu

tywodraeth Duw, oblegid nid ydyw agos mor dywyll ac anamgyffredadwy ag y disgrifir hi. Dynion sydd yn mynu ei chamddeall. Gwn fod yma lawer o bethau croesion a chwerw; ac un sydd wedi profi yn lled helaeth o'r cyfryw bethau—os caf faddeuant gan fy Nhad am ddyweyd hyn—sydd yma yn dyweyd ei brofiad; *ond nid ydynt yn dywyll*. Ymddengys i mi na raid iddynt fod yn dywyll i neb, ond i'r rhai sydd wedi bod yn disgwyl sefydlogrwydd mewn byd y mae Duw wedi ordeinio iddo fod yn anwadal, ac yn ceisio gwneyd cartref mewn byd yr amcanodd Duw yn unig iddo fod yn rhagbarotoawl. Hyd amser Galileo yr oedd dynion yn methu deall cylchdroadau bydoedd yr wybren, ac achos penaf eu dyryswch ydoedd eu bod yn mynu credu mai y ddaear ydoedd canolbwynt yr holl gylchdroadau. Yr oeddynt yn mapio'r nefoedd fel hyn ac fel arall, ond ni wnai'r bydoedd olwyno yn ol y mapiau. O'r diwedd fe fentrodd Galileo roddi naid ddychymygod i'r haul, ac edrych allan ar bethau oddiyno, gan gymeryd yr haul yn ganolbwynt, ac yna fe welodd y ser a'r planedau yn troi mewn cysondeb. Bellach y mae'r seryddwyr yn medru mapio'r ffurfafen mewn pwyll, ac yna yn cael fod y bydoedd mawrion fel plant ufudd yn troi yn ol y *maps*. Felly y mae gyda llywodraeth Duw. Os tybiwch mai y ddaear ydyw ei chanolbwynt, ni ddeallwch byth mo'i gweithrediadau. Rhaid i chwi roddi gwib i'r byd a ddaw; y byd mawr tragwyddol; ac oddiyno edrych ar bethau; ac fe ddaw'r pethau oedd yn dywyll gynt yn oleu yn y fan. Yr ydym wedi hir gredu eu bod yn deall rhagluniaeth yn well yn y nefoedd nac ar y ddaear. Llauer gwaith y cawsom flas ar ganu'r hen benill:

“O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd;
Pryd hyn y daw troion yr yrfa
Yn felus i lanw ein bryd.”

A chredwn fod yr hen benill yn gywir. Yn ddiamheul y maent yn deall pethau yn well acw nag y gwneir yma, a

hyny nid yn unig oblegid manteision helaethach y nefoedd, ond yn benaf *am eu bod yno*, ac felly mewn cyfle i edrych yn ol o ben y daith ar y ffordd y cyrhaeddwyd hi. Y lle tebycaf i'r nefoedd ydyw cysegr Duw ar y ddaear. O ran hyny goleuni'r nefoedd sydd yn y cysegr. Tebygol fod rhai o honoch wedi bod yn y "*Camera Obscura*" yn Aberystwyth: y tŷ bychan crwn ar risiau sydd yn yr hen gastell a cher y traeth. Wedi myned i fewn mae y drysau yn cael eu cau, a'r ffenestri eu tywyllu, nes y byddwch yn anobeithio gweled dim. Ond os edrychwch i'r canol, chwi a gewch fod yr holl olygfeydd oddiamgylch, trwy adlewyrchiad, yn cael eu cyfleu yn y canol. Felly gwnewch pan yr esgynwch i dŷ Dduw, cauwch y drysau a thywyllwch y ffenestri, gan ofalu na byddo goleuni y ddaear yn eich dyrsu. Nid oes yno oleuni i dywynu ond o'r byd sydd "heb haul na lloer, *ond Duw Ei hun*

Ei ddysglâer haul a fydd."

A chwi a gewch gyda'r dwyfol oleuni ddwyfol nerth!

1. A ydyw "y bod o Dduw" wedi ei sylweddoli genych? "*A welsoch chwi Ef?*" Dywedai Job: "Mi a glywais a'm clustiau sôn am danat; ond yn awr fy llygad a'th welodd." Y mae sylweddoliad byw o'i bresenoldeb yn bosibl, pryd y mae dyn megis yn edrych yn llygaid Duw Ei Hunan!

2. A welsoch chwi Ei ogoniant? Nid yr ysblander tanbaid, "yr hwn nis dichon dyn ei weled, a byw," ond yr un mwyn, ac eto pur, "yn llawn gras a gwirionedd;" gogoniant Ei gymeriad!

3. A garech chwi drigo gydag Ef? Gofynai Dafydd: "Pwy sydd genyf yn y nefoedd ond tydi; ac ar y ddaear ni ewyllysiais neb gyda thi!" Rhaid Ei fod wedi cael golwg foddhaol iawn arno, nes ymddigoni ynddo Ef yn unig.

4. Yn yr olwg ar hawddgarwch Duw (*the pleasantness of the Lord*), a gawsoch chwi eich cymodi "a holl drigfa y rhod," nes gallu dywedyd gyda y Sunamees: "Pob peth yn dda?"

* CYNGOR I BREGETHWYR.

—:0:—

I COR. I. 17.—“*Canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu.*”

ANWYL FRODYR,—

Daeth i'm rhan, yn dra annisgwyladwy, i roddi i chwi ychydig o gyngorion priodol i'r gwaith y'ch gelwir iddo, ar eich neillduad i gyflawn waith y weinidogaeth. Teimlaswn yn dra diolchgar pe buasai y gorchwyl hwn wedi disgyn i ddwylaw rhywun arall, nid yn unig, ac nid yn benaf, oblegid na chefais hamdden a llonyddwch i ymddarpar yn briodol ar ei gyfer, ond oherwydd y teimlad o anghymwysder personol ag y mae y penodiad hwn wedi bod yn achlysur i'w ddeffro. Yr oedd meddwl fod yn rhaid i mi eich cyngchori heddyw yn faich trwm ar fy ysbryd am wythnosau. Ar yr un pryd, yr wyf yn disgwyl llesâd personol i mi fy hun oddiwrth hynyma, oblegid wrth feddwl am ryw bethau cymwys fel cyngchorion i chwi, teimlais yn ddwys oddiwrth fy niffygion a'm beiau gwaedd-fawr fy hun, fel, er fod y teimlad yn boenus ar y pryd, yr wyf yn mawr obeithio y bydd yn eIW rhagllaw.

Yr argraff a ddymunwn adael ar eich meddyliau wrth gychwyn ydyw, mai nid fel un yn medru yn berffaith yr amryw bethau a gymhellaf arnoch chwi y byddaf yn llefaru, ond fel un sydd yn ymestyn, er yn eiddil, am danynt—“nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, eithr yr ydwyf yn cyrchu at y nôd.” A mwy na hyny, dymunaf i chwi gofio fod y nifer fwyaf o'r cyngchorion a roddaf i chwi wedi eu hawgrymu yn fwy gan deimlad o ddiffyg, na chan deimlad o fedr.

* Cafodd y Cyngor hwn ei draddodi yn y Gwasanaeth Ordeinio, yn Nghymdeithasfa Aberystwyth, Awst 11eg, 1880. Argraffwyd ef yn bamphledyn ar gais arbenig y Gymdeithasfa.

Cyfreithlawn ydyw hyn, mi gredaf, i gynghorwr; oblegid nid oes dim yn dysgu dyn yn well i ganfod gwerth pob rhagoriaeth, a maint yr anhawsder i'w chyraedd, na methiant personol. Fel un sydd yn awyddu, ac i ryw raddau yn ymdrechu, ond eto heb gyrhaeddyd, gan hyny yr wyf, gyda phob gostyngaidrwydd, yn rhoddi i chwi ychydig o gyfarwyddiadau. Seiliaf y cyngor a fwriadaf ei roddi ar eiriau Paul: "Ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu" (1 Cor. i. 17).

Mynegu prif amcan ei anfoniad fel apostol i Grist y mae Paul yn y geiriau hyn. Nid am nad oedd ef wedi bedyddio rhyw nifer fechan, ac yr oedd rhai o'r rhai hyny yn Eglwys Corinth; ond yn wyneb yr ymbleidio cnawdol oedd wedi bod yn Corinth, ymfrostia yr apostol yn y ffaith mai bychan oedd eu rhif: "Yr ydwyf yn diolch i Dduw na fedyddiais i neb o honoch, ond Crispus a Gaius; fel na ddywedo neb fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun. Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas; heblaw hyny nis gwn a fedyddiais i neb arall." A'r hyn a roddai gyfrif am fychander y rhif ydoedd y ffaith mai i efengylu y cafodd efe, mewn modd arbenig, ei anfon, sef i fod "yn dyst i Grist wrth bob dyn," "i ddwyn ei enw gerbron y cenedloedd, a brenhinoedd, a phlant Israel," a hyny "trwy bregethu edifeirwch a maddeuant yn ei enw ef ymhlith yr holl genhedloedd." Dyma neges benaf ei apostoliaeth, sef, gwneuthur dysgyblion iddo, trwy bregethu yr iachawdwriaeth sydd yn Ei enw Ef; ac nid oedd yr ordinâd trwy ba un y proffesid ac y cydnabyddid y ddysgyblaeth hono ond eil-beth ac is-raddol yn ei olwg.

Dewisais y geiriau hyn, yn sail fy nghyngor, i roddi arbenigrwydd yn bresenol ar y ffaith a gredir yn ddiameu yn ein plith fel Cyfundeb, sef, mai prif foddion Duw tuag at ddychwelyd ac achub y byd ydyw gweinidogaeth yr efengyl. Oblegid, "pa fodd y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo, a pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano, a pha fodd y clywant heb bregethwr?" "Ffydd sydd trwy

glywed, a chlywed trwy air Duw." Dyma drefn Duw. Ond er ei fod yn wirionedd amlwg ar wyneb yr Ysgrythyr, fel y gall y neb sydd yn rhedeg ei ddarllen, ac na raid i'r ynfyd gyfeiliorni, eto y mae yn cael ei wadu a'i wyrdroi gan lawer yn y dyddiau presenol. Pa fodd y mae yn bosibl i ddynion difrifol a dysgedig syrthio i'r fath amryfusedd cadarn, sydd yn ddirgelwch rhyfedd. Eithr amlwg ydyw i'r rhai sydd yn gydnabyddus a dosbarth neillduol o lenyddiaeth, fod yr ordinhâd ddwyfol o bregethu yr efengyl yn cael ei dirmygu a'i llysenwi, a bod y rhai a ymroant i bregethu yn cael eu difrio a'u gwatwar. Beth ydyw maint y camwedd hwn, ac i ba raddau y mae yn dynesu at y camwedd yn erbyn yr Ysbryd Glân, "nis gwn i, Duw a wyr," "ac efe a brawf waith pawb."

Yn lle pregethu yr efengyl, "gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ymhob doethineb," dibyna y dosbarth hwn am lwyddiant crefyddol ar ryw rasau tybiedig sydd mewn cysylltiad hanfodol a swyddau ac a sacramentau. Yn ol eu tyb-hwy, y mae rhinwedd cyfriniol a swyn-gyfareddol ynglyn a phob gweinyddiad rheolaidd o'r sacramentau—y rhai sydd yn lliosog mewn rhif, ac yn amrywiol o ran natur—a sicra ras i'r addolwyr sydd yn fwy goddefol na gweithredol yn y derbyniad o hono. Nid oes raid i ddynion, gan hyny, wneuthur mwy na gosod eu hunain yn y peiriant sacrament-aid hwn, a bod yn dawel ynddo, i ddiogelu eu cadwedigaeth dragywyddol. Yn ol y ddysgeidiaeth hon, diangenraid ydyw i weinidog yr efengyl "ymboenu yn y gair a'r athrawiaeth." oblegid ni waeth pa mor ddi-ddim y byddo y bregeth, oherwydd nad ystyrir pregethu yn "foddion gras," yn gymaint a bod pob gras wedi ei gysylltu a'r hyn a elwir mewn ystyr gyfriniol yn sacramentau. Yn rhinwedd y grasau tybiedig sydd megis yn gylmedig wrth benau eu bysedd, y mae rhai anhynod fel pregethwyr, ac annhebyg yn mhob modd i'r apostolion, yn rhodio yn drahaus yn ein plith, ac yn dywedyd: "Teml yr Arglwydd, Teml yr

Arglwydd ydym ni." Ni phetrusant ychwaith ddywedyd am weinidogion cymwys y Testament Newydd, y rhai sydd yn wir ddilynwyr yr apostolion, wedi derbyn eu galwad yn gystal ag ysbryd a doniau y weinidogaeth oddiwrth Dduw Ei Hun, ac wedi eu harddel ganddo yn achubiaeth llaweroedd—ni phetrusant, meddaf, i alw y rhai hyn "yn hiliogaeth Corah, Dathan, ac Abiram," a hyny oherwydd eu bod heb feddu rhyw olyniaeth apostolaidd isel o ran ei nodwedd, ac amheus o ran ei tharddiad, yn yr hon yr ymfrostiant hwy. Ond y mae ein tadau ymhell uwchlaw cyraedd "saethau tafodau" yr athrodwyr dirmygedig hyn; ac am danom ninau, eu plant hwy, ni raid i ni bryderu, os byddwn ffyddlawn a theilwng o'r ymddiried pwysig a roddwyd i ni, "gan ymwrthod a chuddiedig bethau cywilydd, heb rodio mewn cyfrwysdra, na thrin gair Duw yn dwyllodrus, eithr trwy eglurhad y gwirionedd yn canmol ein hunain wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw." Dyma ein tarian a'n hastalch, sef tystiolaeth ein cydwybodau ein hunain, a thystiolaeth cydwybodau y rhai a wrandawant arnom. Eithr amlwg ydyw mai nid y syniadau sacramentaidd hyn ydoedd y rhai a goleddid gan Paul; pe amgen, ni fuasai yn ymfrostio ac yn diolch mai nifer fechan a fedyddiwyd ganddo. Ac y mae yn rhaid mai nid ail-enedigaeth ydyw bedydd, onide nifer bychan iawn a achubwyd trwy ei weinidogaeth ef. O na, gallasem brofi o'r Ysgrythyr, pe buasai amser yn caniatáu, mai pregethu yr efengyl ydyw y moddion dwyfol i achub y byd, yn marn yr holl apostolion. Pregethu nerthol roddodd fodolaeth i ninau fel Cyfundeb, a thrwy bregethu yn benaf, dan fendith Duw, y mae ein Cyfundeb yn derbyn ei gynhaliaeth, ac yn llwyddo yn barhaus.

Yn gyson a'r hyn a ddywedwyd yn flaenorol, yr ydwyf wedi dewis y geiriau a ddarllenwyd yn sail i'm cyngor, oherwydd fy mod yn bwriadu cyfyngu fy hun i ychydig o gyfarwyddiadau ynglyn a phregethu yr efengyl yn unig. Da fuasai genyf allu dywedyd amryw o bethau eraill, megis am

gymwysderau anhebgorol eich swydd, yr amrywiol ddyled-swyddau cysylltiedig a hi, ynghyd a'r modd goreu i'w cyflawni, ond yr amser a ballai. Rhaid cymeryd yn ganiataol eich bod oll yn dduwiol, yn ofni Duw, yn caru Ei Fab Ef, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni. Y mae yr holl Gyfundeb wedi cymeryd hyn yn ganiataol am danoch. Gobeithiaf y bydd yr ystyriaeth hon yn difrifoli eich meddyliau, ac yn peri hunanymholiad manwl, rhâg eich bod wedi twyllo eich hunain, ac wedi twyllo eraill, a rhag, "wedi i chwi bregethu i eraill, i chwi eich hunain fod yn anghymeradwy." O frodyr anwyl! cwmp ofnadwy fyddai cwmpo o'r pulpud i fod yn dragywyddol dan ŵg Duw. Arswydwch rhagddo!

Megis rhai a alwyd i fod yn saint, hyderaf y byddwch yn eich adeiladu eich hunain ar eich sancteiddiaf ffydd, gan ychwanegu holl rinweddau y cymeriad Cristionogol, "fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim." Trwy gymundeb agos a Duw, bydded eich ysbryd bob amser yn iraidd, eich teimlad bob amser yn llednais, a'ch meddylfryd bob amser yn nefol. Disgleirdeb eich wynebpryd fyddo yn rhy danbaid hyd yn nod i blant yr Israel ddyfod yn rhy agos atoch, ac yn atal pob coegyn cecrus i ymsythu yn eich gwydd. Cofiwch mai eich amddiffyn penaf yn eich swydd, a gwraidd eich llwyddiant a'ch cysur, fydd graddau uchel o dduwioldeb.

Os mai dynion o'r nodwedd hon a fyddwch, diau y byddwch eiddigus ar fod pob gweinyddiad o'r eiddoch o'r ordinhâd o Fedydd, ac o Swper yr Arglwydd, yn gystal a phob rhan arall o wasanaeth y tŷ, "gyda pharchedig ofn;" ac na byddo un gyfran o wasanaeth Duw yn syrthio yn eich dwylaw i fod yn gyffredin a di-urddas. Duwioldeb personol dwfn hefyd a bar i chwi edrych ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd Efe a'i briod waed, gan eu "porthi a bwrw golwg arnynt; nid trwy gymell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd

meddwl; nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw, ond gan fod yn esiamplau i'r praidd."

Y pethau hyn, a phethau cyffelyb iddynt, a garaswn ymhelaethu arnynt pe caniatasai amser. Ond gan na wna, mi a gyfyngaf fy sylwadau i ychydig o gynghorion i chwi fel pregethwyr yr efengyl. Wrth eich neillduo i holl waith y weinidogaeth, yr ydwyf yn eich cyngori yn benaf fel pregethwyr, oblegid nid i fedyddio yr ydych chwithau, mwya'r Apostol Paul, yn cael eich anfon, ond i bregethu. Fel pregethwyr, mi a hyderaf y derbyniwch oddiwrthyf dri o gynhorion syml, ond eto pwysig.

1. *Myfyriwch lawer ar y Beibl.* Dyma y llyfr y disgwylir i chwi, mewn modd arbenig, ei bregethu. Siars bendant yr Apostol Paul i Timotheus ydoedd: "Pregetha y gair." Od oes galwad ar bob dyn i "chwilio yr Ysgrythyrau," pa faint mwya' dylai gweinidog yr efengyl wneuthur hyny. "Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan Ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith (yn gyflawn), wedi ei berffeithio (ei ddarparu, ei ddodrefnu, "*thoroughly furnished*") i bob gweithred dda." Dyma ddodrefn ac arfau pob pregethwr. Am hyny ymdrechwch i wneuthur ei holl adnoddau yn eiddo personol i chwi, fel y byddont genych bob amser yn arfau cymwys a pharod at eich gwasanaeth.

1. Trysorwch lawer o hono yn eich cof; a bydded eich cynefindra ag ef mor helaeth fel y byddo holl fyfyrdodau eich calon yn cael eu hawgrymu a'u llunio gan ffurf ei ymadroddion. Diameu eich bod oll wedi eich magu yn yr Ysgol Sul, a'ch bod oll, er yn fechgyn, fel Timotheus, yn gwybod yr Ysgrythyr Lân, ac wedi trysori rhanau helaeth o hono yn eich cof. Parhewch chwi sydd yn ieuainc i wneuthur hyny am ysbaid o amser eto. Rhydd hyny gymorth lawer i chwi yn eich gweinidogaeth gyhoeddus. Byddwch yn alluog i lefaru am bethau ysbrydol, nid a'r geiriau a ddysgir gan

ddoethineb ddynol, ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân, gan ategu eich holl osodiadau a chedyrn eiriau yr Ysgrythyr, ac addurno eich holl arddull a'i dlws ymadroddion. Y mae tlyzni dwyfol yn ngeiriau ac arddull y Beibl. Byddwch yn alluog hefyd i arwain defosiwn y gynulleidfa, gan offrwm gweddi a diolch, nid mewn iaith ddaearol, sych, a choeglenyddol, ond mewn ymadroddion eneiniedig sydd eisoes yn adnabyddus i'r gynulleidfa, ac yn gyfryngau cyfaddas iddynt arllwys eu teimladau addolgar gerbron Duw. Bydd felly ryw nefol dynerwch ar yr holl wasanaeth, "fel y gwllith yn disgyn ar fynyddoedd Sion, lle y gorchymynodd yr Arglwydd y fendith, sef bywyd yn dragywydd."

2. Myfyriwch y Beibl mewn trefn, gan grynhoi eich holl alluoedd ynghyd i astudio rhanau neillduol o hono. Na foddlonwch ar fedru cofio ei ymadroddion, heb gloddio i'w ddwfn-gelloedd, a thynu allan ei drysorau cuddiedig. Efrydwch y Testament Newydd o'i ddechreu i'w ddiwedd, gan fyned drosto o lyfr i lyfr, a chan ddefnyddio y cynorthwyon goreu o fewn eich cyraedd tra yn efrydu pob llyfr. Ar ol gorphen eich ymchwiliad i bob llyfr, arhoswch enyd i adolygu eich gwaith, a mynwch gael allan a ydych wedi canfod prif amcan y llyfr, *ynndo ef ei hun*; wedi gweled ei rediad ynghyd a'i nodweddion neillduol. Dyma lafur a fydd yn sicr o dalu yn dda yn ystod eich bywyd gweinidogaethol, a goreu oll po gyntaf yr ymgymeroch ag ef. Y mae yn ofid calon genyf na fuasai rhywun wedi fy nghyfarwyddo a'm gorfodi i ddechreu gwneuthur hyn ddeng-mlynedd-ar-hugain yn ol. Ac wedi efrydu yn fanwl bob llyfr yn y Testament Newydd, i raddau digonol i gael gafael ar ei brif bethau, wrth eich hamdden, ewch dros yr Hen Destament yr un modd. Cesglwch bob gwybodaeth amgylchiadol a deifl unrhyw oleuni ar Lyfr Duw. Na ddibriswch y pethau lleiaf. Mynwch fod yn hyddysg yn naearyddiaeth y gwledydd y sonir am danynt ynndo, arferion a defodau y gwahanol genhedloedd, a hanes yr hen

deyrnasoedd; a chofiwch mai goreu ydyw casglu y gwybodaethau hyn mewn oedran cymharol ieuanc. Y mae y llafur hwn yn sicr o dalu am dano ei hun. Yn wir, y mae pob gwybodaeth yn troi yn fanteisiol i bregethwr, mewn rhyw gysylltiad neu gilydd. Nid oes dim yn myned yn ofer a difudd, yn enwedig os daliant y berthynas leiaf a Gair Duw. Fe ddichon mai ymysg y pethau bychain, sychion, a chymharol ddiwerth yn eich golwg y byddwch rai troion yn cael plyf i hofran eich saethau pan fyddoch yn eu hanelu at galonau eich gwrandawyr.

3. Sylwch yn fanwl ar raddol ddadblygiad trefn yr iachawdwriaeth, yn y datguddiad o honi yn yr Ysgrhythrau. Nid casgliad o ddarnau digysylltiol ydyw y Beibl, ond un llyfr mawr, dwyfol, cyfansoddedig o wahanol ranau, a'r naill ran yn cyflawni diffyg y lleill, a'r oll ynghyd yn gwneyd un datguddiad cyflawn o feddwl Duw, yn y ffurf o hanes trefn yr iachawdwriaeth. Dyddorol iawn ydyw olrhain graddol ddadblygiad y dwyfol gynllun yn yr hanes hon, a gweled y naill feddylddrych ar ol y llall yn dyfod i'r golwg. I'r neb sydd yn ei efrynu yn y goleuni hwn, y mae'r Beibl yn parhau yn llyfr newydd, llawn o ystyr, prydferthwch, a bywyd. Un o'r golygfeydd mwyaf arddunol mewn natur ydyw toriad gwawr y boreu, pan yr edrychir arno oddiar un o uchel fynyddoedd y wlad. Dyna belydr o oleuni yn ymsaethu drwy ganol y tywyllwch, i.e., yn wir, dyna un arall yn fforchogi i gyfeiriad arall, ac mewn eiliad dyna lu o belydrau yn ymledu wrth ymsaethu oddiwrth yr un canolbwynt. Ymhen enyd dyna danbeidrwydd goleu yn arianu copa y mynydd-gwmwl hwn, a'r adlewyrchiad o hono yn cochi y clogwyn-gwmwl draw, a holl liwiau yr enfys yn paentio wyneb y ffurfafen yn y modd mwyaf gogoneddus. Yn ebrwydd ymddengys y dyffrynoedd yn gystal a'r mynyddoedd yn y cymylau, ac nid yn unig uwchben, ond islaw hefyd y mae bryniau a dolydd y ddaear am dentio ein sylw, ac "heb iaith nac ymadrodd" yn llwyddo i ddywedyd: "Wele ni." Y mae y wawr er ys

meityn wedi tori, ac fe ymddengys yr haul yn y man. Nid hawdd, i'r neb a'i gwelodd, anghofio yr olygfa hon. Ond, mwy gogoneddus o lawer, i'r ymchwilydd meddylgar a duwiolfrydig, ydyw toriad gwawr gobraith iachawdwriaeth ar fyd colledig. Y pelydryn cyntaf a dorodd i dywyllwch y byd ydoedd yr addewid fendigedig am "Hâd y wraig;" a'r ail ydoedd yr ordinhâd o aberthu, a sefydlwyd yn fuan wedi y cwmp. Ac heb i ni fanylu ar bob pelydryn fu yn tywynu yn y cyfnod patriarchaidd, fe gynyddodd y goleuni yn ddirfawr trwy gyfamod Duw âg Abraham ac â Moses. Mwyfwy o hyd y mae yn cynyddu, trwy bortread pob cysgod, cân pob salmydd, a gwlediad pob prophwyd, nes y cododd yr Haul yn ymddangosiad Duw yn y cnawd. Dyddorol ac addysgiadol iawn ydyw yr efrydiaeth hon, trwy yr hon yr ydych megis yn edrych ar wirioneddau mawrion yn cael eu geni i'r byd. Ac wedi i chwi agoryd y Testament Newydd, peidiwch a rhoddi heibio efridu y dadblygiad graddol hwn ar wirioneddau; oblegid y mae hyny i'w ganfod yn nysgeidiaeth Crist a'i apostolion, fel y dengys *Bampton Lectures* T. D. Bernard "*On the Progress of Doctrine in the New Testament.*" Ymaflwch o ddifrif, fy nghyfeillion ieuanc, yn yr efrydiaeth hon. Yn ddiau, ni fyddwch yn ysgrifenyddion wedi eich dysgu i deyrnas nefoedd, ac yn abl i ddwyn allan o'ch trysorau bethau newydd a hen, os na fyddwch wedi astudio Llyfr Duw i ryw fesur yn y wedd hon.

4. Ar ol yr efrydiau blaenorol, myfyriwch y Beibl fel ag i dynu allan o hono, yn uniongyrchol i chwi eich hunain, ddefnyddiau cyfundrefn dduwinyddol. Dywedais mai ar ol yr efrydiau blaenorol y dylech wneyd hyn, sef ar ol i chwi feithrin llawer o gydnabyddiaeth a'r Ysgrythyrau yn gyntaf. Yr anffawd ynglyn a John Calvin ydoedd ddarfod iddo gyfansoddi ei "*Institutes of Theology*" pan oedd yn gymharol ieuanc; ac yna fe dreuliodd weddill ei oes, gan mwyaf, i astudio ac esbonio yr Ysgrythyrau. Ac yr oedd yn esboniwr ardderchog. Nid wyt yn dywedyd nad oedd amgylchiadau ei

oes a'i wlad yn galw am iddo wneuthur megis ag y darfu iddo wneuthur; ac nid wyf yn dywedyd y buasai ei *Institutes of Theology*, o ran sylwedd, lawer yn wahanol pe buasai wedi ei gyfansoddi ar ol gorphen ei efrydiau fel esboniwr. Ar yr un pryd, hwyrach y goddefwch i mi ddatgan fy nheimlad personol, mai mwy dymunol fuasai genyf dderbyn cyfundrefn o dduwinyddiaeth, fel addfed ffrwyth oddiar hen bren. Cymhellais chwi i dynu allan "holl" ddefnyddiau eich cyfundrefn dduwinyddol o'r Ysgythyf yn uniongyrchol, oherwydd nad oes genyf ymddiried cryf yn yr hyn a elwir yn "*deductive reasoning*" mewn duwinyddiaeth. Ond trwy ymresymu yn y modd hwn, y mae y nifer fwyaf o gyfundrefnau duwinyddol wedi eu llunio. Yr hen gynllun ydoedd cychwyn yr ymresymiad gydag ychydig o syniadau cyffredinol a ystyrid yn sylfaenol, megis am y bod o Dduw, priodoleddau Ei natur a phersonau Ei hanfod, ynghyd a dull hanfodiad y personau—eu perthynas a'u gilydd, a'u trefn yn yr hanfod ddwyfol. Oddiwrth y gwirioneddau sylfaenol hyn yr oedd cyfundrefn o dduwinyddiaeth yn cael ei rhesymu allan. Fe apelid, y mae yn wir, at yr Ysgrythyrau i gadarnhau y casgliadau hyn, ond casgliadau rhesymeg oeddynt yn y lle blaenaf. Ac y mae apelio at yr Ysgrythyf i gadarnhau ein hymresymiaid yn orchwyl ag y mae cryn berygl ynglyn ag ef. "Y mae awydd cael yr Ysgrythyf o'n plaid, yn un peth," medd Archegob Whateley, "ac y mae awydd bod o blaid yr Ysgrythyf yn beth arall." Yn awr, amlwg ydyw fod y cewri meddyliol hyn yn cychwyn gyda'r hyn y gwyddent leiaf am dano, sef y bod o Dduw; a'u bod, gan hyny, yn cymbwysu rheolau rhesymeg fanol—sydd yn arweinydd sicr yn y gwyddonau a elwir yn "*exact sciences*"—at ddosparth o wirioneddau nad oedd ganddynt ond amgyffred anmherffaith o honynt ar y goreu. Nid oeddynt mewn llawn feddiant o'r hyn yr ymresymant oddiwrtho. Gan hyny, yr oedd eu holl ymresymiaid yn ansicr, pa mor berffaith bynag y resymeg, ac, o bosibl, yn gyfeiliornus. Ond fel hyn y gwnaethant.

Medrent roddi cyfrif am bob peth oddiwrth natur a bodolaeth Duw. Medrent wahaniaethu rhwng tragywyddol genhedliad y Mab, a thragywyddol ddeilliad yr Ysbryd Glân; a medrent hefyd benderfynu paham mai y Mab, ac nid y Tad na'r Ysbryd Glân, a anfonwyd i weithio allan drefn yr iachawdwriaeth, oddiwrth ddull hanfodiad y personau dwyfol yn y Drindod Sanctaidd. Ni raid i mi ddywedyd wrthyhch nad ydwyf yn credu yn y gallu rhesymegol hwn; a goreu oll, yn ol fy marn i, po leiaf y byddo dynion gweiniaid yn ymbyncio ac yn ymgwreinio uwchben dirgelion hanfod Duw. Nid ydwyf yn eich gwarafun i ddarllen cyfundrefnau duwinyddol, ond yn eich cymell ymhob modd i wneuthur hyny. Darllenwch hefyd hanes athrawiaethau mewn gwahanol gyfnodau. Awchlyma hyny eich meddyliau, ac egyr eich llygaid i ganfod gwirioneddau yn y Beibl na fuasech, hwyrach, yn eu canfod heb y ddysgyblaeth feddylol hon. Ond wedi'r cwbl, mynwch dynu allan drosoch eich hunain, yn uniongyrchol o'r Beibl, holl ddefnyddiau eich credo dduwinyddol. Pe cymerech lafur rhywun neu rhywrai eraill, gan esgeuluso gwneuthur hyny eich hunain, chwi gollech y pleser, y budd, a'r sicrwydd dedwydd fod genych feddwl Duw, ag sydd yn codi o ymchwil personol.

Fe ddywedir mai y gwasanaeth mwyaf a wnaeth Arglwydd Bacon i athroniaeth ydoedd diddymu yr hen arfer o athronyddu trwy ymresymu oddiwrth ychydig o osodiadau sylfaenol, a dysgu dynion i holi mwy ar natur, ac ymgynghori mwy ag ymwybyddiaeth eu meddyliau eu hunain. Oddiar amser Arglwydd Bacon, y mae cynydd dirfawr wedi ei wneuthur mewn gwahanol ganghenau o wybodaeth, ac y mae athroniaeth y meddwl wedi ei dwyn i well trefn. Nid ydyw dynion yn ymddifyru cymaint yn awr, ag a fyddent yn yr amser gynt, mewn adeiladu cestyll yn yr awyr. Da fyddai pe codai rhywun nerthol i gyflawni cyffelyb wasanaeth mewn duwinyddiaeth, gan ddysgu dynion i dynu allan eu duwinyddiaeth mewn modd *inductive* o'r Beibl, ac ymddiried

llai yn eu deall eu hunain. Y mae tuedd ddaionus yn y cyfeiriad hwn yn yr oes bresenol, fel y gwelir mewn rhai llyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar; ac ni ellwch gael gwell engraifft o hyny nag yn narlithiau cyntaf Dr. Crawford: "*On the Atonement.*"

Ar ol i chwi dynu allan o'r Beibl ddefnyddiau cyfundrefn syml o dduwinyddiaeth, ymlonyddwch ynddynt, heb ymresymu llawer oddiwrthynt, na gofyn cwestiynau cywrain ac anorphen fel "*theological sophists.*" Peidiwch a gweithio allan bynciau duwinyddol fel pe baech yn gweithio allan *problem* mewn *Algebra*. Boddlonwch ar ychydig o wirioneddau mawrion, syml, fel y maent i'w cael yn y Beibl, ac ymdrechwch eu cymhwysu at anghenion amrywiol eich gwrandawyr. Dyna ddigon o orchwyl am eich bywyd. Llyfr ymarferol ydyw y Beibl—llyfr iachawdwriaeth. Nid haul ydyw yn gwasgar goleuni i bob man, ac ar bob peth; ond *light-house* ar draeth tragywyddoldeb, megis yn tori twll mewn tywyllwch, i ddangos yr hafan ddymunol i'r morwr sydd yn cael ei ddyrysu gan y nos, ac yn cael ei guro gan y tonau. Defnyddiwch chwithau gan hyny y Beibl i'r amcan y rhoddwyd ef gan Dduw, a gadewch lonydd i bob cwestiynau cywrain, nes y cyrhaeddoch ddiogelwch, a hamdden, a goleuni y byd a ddaw.

5. Myfyriwch y Beibl yn ddigonol i allu canfod lle priodol pob gwirionedd a ffaith, ac i deimlo y pwysigrwydd cymhariaethol a berthyn iddynt. Y mae yn bosibl syrthio i gyfeiliornadau ymarferol dirfawr, nid trwy gamsynio am y gwirioneddau a ddysgir yn unig, ond hefyd trwy gamgymeryd am eu pwysigrwydd cymhariaethol. Nid wyf yn sicr nad oes enwadau crefyddol wedi derbyn eu bôd trwy y camgymeriad hwn. Cynefindra mawr a'r Beibl yn unig a'ch ceidw rhag yr amryfusedd hwn—cynefindra ag nad yw yn gymaint o ffrwyth efrydiaeth fanwl ar ranau neillduol o hono, ag o ddarllen llawer arno oll, nes yfed ei ysbryd, a bod yn alluog megis osod eich clust wrtho, i wrando ar y

pwyslais a esyd ef ei hun ar yr amryw wirioneddau cynwysedig ynddo.

II. *Astudiwch ddynton.* Na fydded i chwi gyfyngu eich efrydiaeth i lyfrau, i.e., hyd yn nod i Lyfr Duw; ond ymdrechwch hefyd ddeall dynion, i ba rai yr ydych i bregethu. Cyfyd llawer o aflwyddiant ac anghysur rhai pregethwyr o'r ffaith nad ydynt wedi astudio dynion. Darllenwch yn helaeth y llyfrau a'ch cynorthwyant i wneuthur hyn. Byddwch yn gydnabyddus ag athroniaeth y meddwl, ac ag athroniaeth foesol. Ychydig o wybodaethau sydd yn dal cysylltiad mor agos a'r pulpud, nac yn dyfod mor uniongyrchol wasanaethgar i weinidog yr efengyl, a'r canghenau hyn. Bu rhai o honoch yn eu hefrydu wrth fyned trwy gwrs eich addysg athrofaol; dilynwch eto ymlaen yn yr un cyfeiriad, yn fwy hamddenol a llwyr wedi i orfodaeth y *class* a'r arholiad beidio. Nid gyda'r amcan o fedru ymgwreinio uwchben systemau athronyddol, nac i gymeryd plaid y naill ueu y llall o honynt, ond fel mantais i ddyfod o hyd i'r deddfau mawrion, ysbrydol, sydd yn llywodraethu gweithrediad meddwl, calon, ac ewyllys dyn. I'r un perwyl darllenwch y farddoniaeth oreu. Cewch ynglyn a hyn y fantais o wrteithio eich meddyliau trwy gydnabyddiaeth helaeth a'r hyn sydd brydferth, ac nid diystyr o'r fantais hon a ddylai pregethwr fod, oherwydd y mae perthynas, i ryw fesur, rhwng y prydferth a'r pur. Ond nid at hyn y cyfeiriwn yn bresenol, eithr at y fantais o feithrin cydnabyddiaeth a holl deimladau y galon, ac a holl ffurfiau cymeriad dynol, megis ag y desgrifir hwynt gan athrylith farddonol. Gyda'r un bwriad, darllenwch hanesyddiaeth, bywgraffiadau personau unigol, yn gystal a hanes teyrnasoedd a gwledydd. Yn hanes personau unigol, cewch amrywiaeth lawer mewn cymeriadau, a gwahanol dueddiadau ac egwyddorion, yn ymweithio ac yn cyraedd addfedrwydd yn gyflym; ond yn hanes cenedloedd mawrion, cewch yr un tueddiadau ac egwyddorion, yn ymwthio yn araf, ar raddfa

eang, ac yn cymeryd canrifoedd i ymddadblygu. A phe gwyddwn na wnaech fy nghamddeall, ac na wnai neb arall dynu cam-gasgliadau, cynghorwn chwi i ddarllen ychydig ar ffug-hanesiaeth. Nid yr ysbwrial sydd yn dylifo yn ddi-ddiwedd o'r wasg Seisnig, ag sydd yn diffrwytho meddyliau ac yn llygru calonau ieuenctyd ein gwlad; ond detholiad doeth o weithiau y prif awdwyr. Diau y cynorthwyent chwi i ddadelfenu gwahanol deimladau, a darllen gwahanol gymeriadau fel y deuwch i gyffyrddiad a hwynt mewn bywyd.

Ond cymbellaf chwi i ddarllen dynion, nid yn unig trwy lyfrau, eithr mewn modd uniongyrchol, wrth eu canfod a'ch llygaid eich hunain. Tuag at hyny, astudiwch lawer ar eich meddyliau a'ch calonau eich hunain, a thrwoch eich hunain, darllenwch ddynion eraill. I wneuthur hyn yn gymedrol drwyadl, y mae yn ofynol wrth lawer o sylw, a mesur helaeth o brofiad. Geilw i weithrediad hefyd alluoedd uchaf eich natur. Fe dâl y llafur hwn yn dda am dano ei hun. Bydd adnabyddiaeth helaeth o'r natur ddynol, yn ei gwahanol agweddion, yn fantais ddirfawr i chwi fel gweinidogion yr efengyl.

1. Byddwch yn alluog i ganfod a theimlo drosoch eich hunain, gyfaddasder rhyfedd yr efengyl ar gyfer holl anghenion y ddynoliaeth. Y mae hon yn gyfaddas ar gyfer yr anghenion bychain, yn gystal a'r rhai mawrion, a dymunol iawn ydyw cael golwg ar ei holl gyfaddasder. Boddhaol anghyffredin ydyw yr olwg ar yr efengyl, pan edrychir arni oddiar bob agwedd ar feddwl a chalon, gan ddeall a theimlo fod "Duw pob gras" wedi eu rhagweled oll, a darparu ar eu cyfer. Fel y mae y llygaid mewn darlun da, megis yn edrych ar ac yn dilyn yr edrychydd ymhob safle yn yr ystafell, felly y mae "efengyl gogoniant y hendigedig Dduw" yn edrych ar ddyn ymhob ffurf ac agwedd arno. Os teimlwch chwithau hyn drosoch eich hunain, fe gynyrcha argyhoeddiad yn eich mynwes na fedr dim ei ddilen, o'i tharddiad dwyfol,—mai yr un a ddarparodd yr efengyl ag a luniodd y dyn.

2. Byddwch yn alluog i gymhwyso gwirioneddau y Beibl at anghenion a chyflyrau amrywiol eich gwrandawyr. Pan yn dysgu ei gelfyddyd, y mae pob meddyg yn gorfod astudio cyfansoddiad y corff, ynghyd a natur a ffurfiau pob afiechyd y mae yn ddarostyngedig iddynt, cyn astudio na chymwysu meddyginiaeth. Cyn arloesi y tir na bwrw tail, y mae pob amaethwr deallus yn mynu gwybod natur y tir, a phenderfynu pa hâd a frwr iddo. Ac felly y dylai y pregethwr mewn modd arbenig, gyfaddasu ei weinidogaeth i anghenion neillduol ei wrandawyr. Ar un adeg y mae yn ofynol iddo oleuo yr anwybodus, a phryd arall rybuddio yr anhrofiadol a'r afreolus, neu ynte, ddychwelyd y crwydredig. Brydiau eraill y mae amgylchiadau yn galw am iddo nerthu y gweiniaid, a rhwymo y rhai ysig eu calon. Ond fel un sydd yn meddu ar galon y doeth, y mae yn medru amrywio ei weinidogaeth, a llefaru gair yn ei bryd wrth bawb. Ar un adeg bydd ei eiriau fel y fellten yn rhwygo tywyllwch ysbrydol ei wrandawyr, ac fel y daran yn deffro eu cydwybodau cysglyd; a phryd arall y mae tynerwch ei athrawiaeth a'i eiriau fel mân blu yr eira, yn toddi wrth ddisgyn. Amcana hwn gyfleu gwirioneddau yn y fath fodd ag i ddenu y sylw, enill y serch, a chyffroi i ymdrech. Adnebydd y natur ddynol yn rhy dda i ddywedyd mewn modd trahaus a sychlyd, "gwnewch fel hyn," neu "credwch fel yma;" heb roddi rheswm na chymhelliad i wneuthur y naill na chredu y llall; ond cyflwyna ystyriaethau dengar a chymhellion nerthol, a bwr fod cyflawni yr hyn a orchymynwyd yn myned yn rhagorffaint, a chredu yr hyn a dystiolaethwyd yn myned yn hyfrydwch.

3. Bydd yn eangu eich cydymdeimlad a dynion, oblegid nid yw yn bosibl adnabod dynion yn briodol heb sylweddoli ynom ein hunain, i ryw raddau, holl agweddion eu natur. Y mae yr adnabyddiaeth hon yn gymaint o waith y galon ag ydyw o eiddo y deall. Nid ydyw yn bosibl i ni adnabod anhawsder heb i ni, i ryw fesur, ei deimlo; na deall ofnau ac amheuron,

heb i ni wybod am danynt, i ryw raddau, fel ofnau ac amheuon ynom ein hunain. Dyma ddirgelwch mawredd Solomon; yr oedd ei gydymdeimlad mor eang a'i wybodaeth. Pa beth bynag a ganfyddai ei ddeall, yr oedd ei galon yn ei sylweddoli ac yn ei feddianu. "Duw a roddodd ddoethineb i Solomon, a deall mawr iawn, a helaethdra calon, fel y tywod sydd ar fin y môr." A dyma hefyd oedd un o elfenau llwyddiant yr Apostol Paul. Adnabyddiaeth *sympathetic* o ddynion oedd yn ei alluogi i wneuthur ei hun yn bob peth er mwyn pawb. Trwy gydymdeimlad eang medrai osod ei hun ymhob sefyllfa, a theimlo pob math o deimlad. "Mi a'm gwneuthum fy hun yn was i bawb, fel yr enillwn fwy. Mi a ymwneuthum i'r Iuddewon megis yn Iuddew, fel yr enillwn yr Iuddewon; i'r rhai dan y ddeddf, megis dan y ddeddf, fel yr enillwn y rhai sydd dan y ddeddf. I'r rhai diddeddf, megis diddeddf (a minau heb fod yn ddeddeddf i Dduw, ond dan y ddeddf i Grist) fel yr enillwn y rhai diddeddf. Ymwneuthym i'r rhai gweiniaid, megis yn wan, fel yr enillwn y gweiniaid; mi a ymwneuthum yn bob peth i bawb, fel y gallwn yn hollol gadw rhai." Pa gyflwr bynag yr oedd dynion wedi myned iddo, neu pa agwedd bynag oedd ar eu meddyliau, gallai Paul fyned i mewn iddynt, a gwneuthur ei hun yr un fath a hwynt. Dyn mawr, llydan, fel hyn, a ddylai pob pregethwr fod—dyn cymaint a'i holl gynulleidfa, bydded hono y maint bynag ag y bo—un na fydd ffurf ar eu meddyliau, na theimlad yn eu calonau, na fydd efe yn alluog eu deall a chydymdeimlo a hwynt.

4. Gesyd hyn newydd-deb diddarfod yn eich gweinidogaeth. Nid mynegiad difywyd o bynciau sychlyd a geir yn mhregethu gŵr o fath hwn, ond darlleniad newydd ar galonau ei wrandawyr bob tro. Oblegid nid fel *dogmas* mewn duwinyddiaeth y mae yn cyflwyno gwirioneddau yr efengyl, ond fel dwyfol ddarpariaethau ar gyfer anghenion y byd—yr unig wedd, yr wyf yn credu, ag sydd yn gyfaddas i'r pulpud.

5. Tuedda gweinidogaeth o fath hon i adael argraff ddofn

ar feddyliau y gwrandawyr o ddwyfoldeb yr efengyl. Bydd pawb yn adnabod eu hunain yn nesgrifiadau y pregethwr, ac i ryw fesur yn canfod cyfaddasder y ddarpariaeth. Clywed dirgelion ei hanes yn cael eu mynegu gan yr Athraw Mawr, barodd i Nathanael ddywedyd: "Rabbi, ti yw Mab Duw, ti yw Brenin Israel." Adroddiad syml o'i hanes, barodd i'r wraig o Samaria redeg mewn dychryn i'r ddinas, gan ddywedyd: "Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum; onid hwn yw y Crist!" Ac nid oes dim mor effeithiol i beri i wrandawyr yr efengyl deimlo ei bod o Dduw, na gweled dirgelion eu calonau yn cael eu gwneuthur yn amlwg pan fyddo gweinidog cymwys yn "prophwydo." Argyhoeddir a bernir hwynt y pryd hwnw. Dan weinidogaeth gyfeiriol a threiddgar, yn chwilio calonau y rhai a'i gwrandawant, y mae miloedd lawer "wedi syrthio ar eu wyneb, wedi addoli Duw, gan ddywedyd fod Duw yn wir" yn y weinidogaeth hono. Dyna ddigon o resymau dros i chwi feithrin adnabyddiaeth o ddynion fel cymhwysder anhebgorol i'ch swydd.

III. *Ymdrechwch i ddeall ac i feddu y dull goreu o bregethu yr efengyl i ddynion.* Bydd y pethau blaenorol a grybwyllais yn rhagbarotoadau gwerthfawr tuag at hyny. Ond goddefwch i mi yn awr, i osod pwyslais ar allu i bregethu, ynddo ei hun, fel cymhwysder angenrheidiol i'r weinidogaeth. Ofnwyf fod diofalwch mawr yn bod gyda golwg ar hyn. Y mae amryw o'n dynion ieuainc yn ymdrechu cyraedd addysg o radd uchel, ond yn boddloni bod yn bregethwyr sâl; y maent yn feirdd ac yn llenorion campus, ond yn bregethwyr truenus. Nid anfynych y clywir canmoliaeth uchel i ŵr ieuanc, trwy ddywedyd ei fod yn ysgolhaig gwych, o deulu cyfrifol, yn dduwinydd galluog, yn athronydd medrus, yn bersonol garedig a hynaws, yn bob peth braidd, ond nid yn bregethwr. Canmoliaeth wan i gadben llong, fyddai hōni ei fod yn medru ar bob peth, ond morwriaeth; a chymeradwyaeth amheus i feddyg, fyddai

dwyn tystiolaeth i fanylder ac eangder ei wybodaeth ymhob cyfeiriad, ond yn mherthynas a physigwriaeth. Cofiwch mai i bregethu yr efengyl y cawsoch eich galw. Dyma amcan a gwaith mawr eich bywyd. Ac os na fyddwch yn medru pregethu gyda gradd o effeithiolrwydd, ar ol cael mantais i ddysgu, a mesur o brofiad, ni fyddwch yn ddim amgen na *failures* yn eich perthynas a phrif amcan eich bôd. Ond os felly y byddwch yn cael eich hunain, ar ol ymdrech egniol, a phrofiad digonol, hyderaf y byddwch yn ddigon anrhydeddus a gwrol i ymneillduo, ac i ymgymeryd a rhyw faes llafur arall. Y mae rhai wedi bod yn ddigon gonest a gwrolfrydig i wneuthur hyny, ac y mae eu hymddygiad yn deilwng o ganmoliaeth uchel. Ond fy amcan yn bresenol ydyw eich anog i ymroddi i bob llafur angenrheidiol, tuag at i chwi fod yn bregethwyr grymus.

Gobeithiaf nad oes yr un o honoch mor ffôl a meddwl y byddai hyny yn un darostyngiad arnoch, yn ol tyb rhyw ddosbarth, sef, mai pregethwyr sâl ydyw dynion mawrion bob amser; ac felly, mai arwydd o fychander ydyw bod yn alluog i bregethu. Golygfa ddigrifol, os nad ydyw yn rhy ddirmygedig i fod yn ddigrifol, ydyw gweled llanc ieuanc, prin wedi agoryd ei lygaid ar y byd meddyliol, ar ol cael ychydig o fanteision athrofaol, wedi myned yn rhy fawr, yn ei dyb ei hun, i ymdrafferthu i ddysgu pregethu, er ei fod yn ymgeisydd am y weinidogaeth.

Hyderaf hefyd eich bod yn rhydd oddiwrth esgusodion diogi. Gwisga y rhai-hyn wedd ffug-grefyddol. Nid ydyw y pregethwr diog yn astudio y modd goreu i bregethu, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw—ofn sydd arno ysbeilio Duw o'i ogoniant! Bryd arall ymryddha oddiwrth rwymedigaeth i lafur yn y cyfeiriad hwn, trwy ddywedyd nad ydyw efe yn gyfrifol ond am "gyfranau y gwirionedd;" mai ar y bobl a'u gwrandawant y mae y cyfrifoldeb am ei dderbyn neu ei wrthod, a boed rhyngddynt hwy âg ef. Ac os bydd ei weinidogaeth yn aneffeithiol, ymgysura yn y syniad fod yr

efengyl yn arfer bod, ymhob oes a gwlad, yn "arogl marwolaeth i farwolaeth" i rai, tra y mae yn "arogl bywyd i fywyd" i eraill. Eithr diog ydyw y dyn, ac nid ydyw y syniadau gor-grefyddol hyn ond cochl rhagrith i guddio diogi. Esgusodion ydyw y pethau hyn am gyflwyno ar allor gwasanaeth Duw "boeth offrwm rhad!"

Ni fuaswn yn llefaru mor gryf oni buasai fy mod yn credu yn y posiblwydd i chwi, trwy lafur egniol, ddyfod yn bregethwyr nerthol, pob un yn ei ddull a'i drefn ei hun. A chan y credaf yn y posiblwydd, credaf hefyd fod arnoch rwymau yn gorphwys i arfer yr ymdrech hono. Edrycher ar y prentis yn ymboeni wrth ddysgu ei gelfyddyd, neu y cerddor wrth ddysgu chwareu ar offeryn cerdd. Y mae eu llafur yn anferthol. Pan ddechreua y cerddor redeg ei fysedd dros y *piano* neu yr organ, y mae ei fysedd yn dra anhylaw ac anystwyth, ond trwy ddyfal-barhad a llafur diffino, daw yn ben-chwareuydd, a bydd yr offeryn cerdd megis creadur byw dan ei ddwyllaw. Ai y crefftwr neu yr *artist* yn unig sydd i ymboeni wrth ddysgu eu gwahanol gelfyddydau, a'r pregethwr, i'r hwn yr ymddriedwyd y gorchwyl pwysicaf ar yr holl ddaear, yn unig sydd i fod yn ddiotal am y modd y cyflawna efe ei waith! Ni raid ond crybwyll y fath syniad i beri i chwi deimlo ei wrthuni.

Ymroddwch, gan hyny, fy nghyfeillion ieuainc, i ymdrech tuag at i chwi fedru pregethu yn effeithiol. Nid oes unrhyw lafur a dâl yn well i chwi. Pa un bynag a anrhydeddir chwi gan Dduw, trwy eich defnyddio yn offerynau yn Ei law i achub dynion ymhob pregeth a draddodir genych, ai peidio, cewch gymaint a hyny o foddhad, sef teimlo eich bod wedi denu sylw eich gwrandawyr, ac wedi enill cymeradwyaeth eu meddyliau i'r gwirioneddau a draddodir genych. Byddwch i ryw fesur yn "*cyfranu* y gwirionedd" iddynt, oblegid prin y gellir cydnabod fod dim yn cael ei gyfranu os na fydd hefyd yn cael ei dderbyn.

Dysgwch, nid yn unig gyfansoddi yn dda, ond traddodi

yn effeithiol, a darparu y cyfansoddiad gyda llygad at y traddodiad. Dylanwad rhyfeddol sydd gan draddodiad gweddus. Braidd nad oes rhyw fath o *illusion* ynglyn ag ef. Nid yn unig dengys gryfder a phrydferthwch lle y b'ont, ond ymddengys y cryf yn gryfach, a'r prydferth yn brydferthach. Ac y mae traddodiad da, fel cariad, yn medru "cuddio lliaws o bechodau." Canmolai rhywun un o areithiau Demosthenes, ar ol gwrando darlleniad o honi gan Aeschines; ond atebai y darllenydd—"Beth pe clywech hona yn cael ei thraddodi gan Demosthenes ei hun!" A dymunaf eich adgoffa mai ffrwyth llafur a hunan-ddysgyblaeth galed ydyw pregethu y pregethwyr mwyaf nerthol. Darllenwch hanes John Elias a George Whitfield ac eraill, a chwi a gewch eu bod wedi llafurio, ymysg llawer o bethau eraill, i feddu y modd goreu o draddodi eu cenadwri bwysig.

Fel ychydig o gyfarwyddiadau ymarferol i bregethu yn fuddiol, ni a nodwn y pethau canlynol:—

1. Mynwch wybod y gwahaniaeth rhwng adrodd traethawd a phregethu. Y mae llu o bregethwyr ieuainc heb freuddwydio o gwbl am y gwahaniaeth hwn. Trin pwnc ydyw gwaith y traethodwr, ond "perswadio dynion" ydyw amcan y pregethwr. Am hyny ni raid i'r traethodwr ond astudio ei bwnc, ond rhaid i'r pregethwr feddwl am ei wrandawyr hefyd. Deall cryf a gwybodaeth eang yn unig sydd yn ofynol i'r traethodwr, ond y mae yn rhaid cael yr holl galon yn gystal a'r holl feddwl yn nghyfansoddiad a thraddodiad pregeth effeithiol. Os ydyw cyfansoddi traethawd cymeradwy yn *art*, y mae cyfansoddi pregeth deilwng, a'i thraddodi yn deilwng, yn "*fine art*."

2. Astudiwch reolau amrywiol rheitheg (*rhetoric*). Na ofalwch am ragfarn yr anwybodus a'r cul yn erbyn son am reitheg mewn cysylltiad a'r pulpud, oblegid nid ydyw rheitheg yn ddim amgen na rheolau chwaeth dda. Wedi i chwi feistroli y rheolau hyn, a thrwy hyny goethi eich chwaeth eich hunain, gellwch fforddio eu hanghofio, gan

obeithio y bydd y rheolau wedi ymddodi yn eich mynwes i fod yn deimlad o weddeidd-dra a phriodoldeb.

3. Myfyriwch bregethau a phregethu y pregethwyr goreu. Darllenwch bregethau goreu y prif bregethwyr ymhob oes a gwlad. Mynwch glywed, os yn bosibl, y pregethwyr goreu sydd yn awr yn fyw. Nid gyda'r amcan o ladrata cynwys eu pregethau, ond i geisio canfod, drosöch eich hunain, elfenau eu rhagoriaeth. Wedi i chwi lwyddo i ddarganfod eu holl ragoriaethau, ymestynwch am danynt yn eich dull eich hunain, heb geisio dynwared y personau. Bydd hyny, nid yn unig yn gyfreithlon, ond yn dra llesiol.

4. Astudiwch bregethu fel ag i fedru amrywio yn eich dull yn ol y testyn a'r amcan. Nid yn yr un modd y dylid pregethu ar bob testyn, ac nid yn yr un ffordd y mae cyraedd pob amcan. Fel y mae yr arlunydd a'r cerddor yn astudio eu testynau, fel ag i roddi iddynt y driniaeth sydd yn gyfaddas i'w nodweddion, gwnewch chwithau yr un modd. Nid oes dim a ddengys eiddilwch a thlodi pregethwr yn fwy nag unrhywiaeth poenus o ran arddull a threfn.

5. Meistrolwch yr iaith a arferir genych yn eich gweinidogaeth, fel ag i sicrhau ei holl adnoddau at eich gwasanaeth. Y mae yn bosibl gwneuthur hyny, nid yn unig trwy efrdyu y geiriau ar wahan, ond trwy arfer ysgrifenu ymhob arddull yn yr iaith hono. Bydd genych felly *vocabulary* eang. Dylai pregethwr fod yn gyfoethog mewn geiriau, nid i'w pentyru yn ddiystyr wrth lefaru, ond fel y gallo ddethol o honynt at ei wasanaeth yn ol yr angen. Chwiliodd pregethwr oedd dan ddwyfol ysbrydoliaeth "am eiriau cymeradwy."

6. Ymdrechwch i ddysgyblu ac ystwytho eich llais, fel ag i'w ddwyn yn gwbl dan reolaeth eich teimlad. Anfantais bwysig i bregethwr ydyw llais *stiff*, caled, cräs, a dideimlad; a bai poenus mewn llefarwr ydyw undonyddiaeth. Os yn angenrheidiol, ewch trwy gwrs o ymarferion i ystwytho a thyneru eich llais. Elfen werthfawr mewn pregethwr i bob cynulleidfa ydyw llais da; ond yn arbenig ymysg cenedl

gerddorol y Cymry. Dywedai Garrick y medrai Whitfield floeddio y gair "Mesopotamia" nes gwneyd i dyrfaoedd wylo. Darfu i Arglwydd Chatham ddechreu araith mewn senedd, nad oedd yn tueddu i roddi gwrandawriad iddo, a'r gair "Sugar," ac adroddodd ef dair o weithiau, mewn tŷn amrywiol ac awdurdodol, nes hawlio sylw yr anystyriol, a pheri i'r difater grynu. Ac am Ebenezer Morris, y pregethwr digyffelyb o Sir Aberteifi, clywsoch yn ddiau y byddai efe, yn ei adegau goreu, tua diwedd ei bregeth, yn bloeddio un gair, ueu ddarn o frawddeg neillduol a dewisedig, a hyny mewn goslef wahanol bob tro, nes yn y diwedd fod yn orchfygol ar deimladau ei holl wrandawyr.

7. Byddwch yn naturiol, syml, a gweddaidd yn eich holl ystumiau corfforol. Naturiol ydyw i ystum y corff, fel tŷn y llais, amrywio yn ol yr hyn a leferir. Ni ddylai yr un pregethwr fod fel *statue* yn y pulpud. Ond gochelwch bob peth eithafol a diangenrhaid mewn ystum. Gofalwch am y symledd a'r urddas sydd yn briodol i'r lle cysegredig hwn. Gwelais un pregethwr yn gwneyd llun pont yn y pulpud, trwy osod ei ben i orphwys ar un ochr, a chodi ei goes i fyny i'r ochr arall. Nid oes angen am y fath ddarlun hyll, oherwydd yr oedd pont yn beth eithaf adnabyddus i'r holl gynulleidfa. Clywais am un arall fu yn aredig teimladau ei gynulleidfa, ac yn troseddu yn ddirfawr yn erbyn chwaeth dda, trwy ystumiau i ddesgrifio dyn yn cael ei ddienyddio. Crymai ei ben, ac a chlwr y Beibl yr oedd megis yn llifio ei wddf. A chlywais am un arall, oedd fel ynyd, yn rhedeg i lawr ac i fyny grisiau y pulpud, i ddangos rhywbeth go ryfedd, yn ddiau, i'r gynulleidfa. Ond gochelwch bob peth eithafol a dyeithr mewn ystumiau. Ni raid i bregethwr teilwng wrth ystrywiau o'r fath. Nid ydynt yn ddim amgen na chydabyddiaeth o anallu i gynyrchu effaith, a chadw o fewn terfynau priodol y pulpud.

8. Gochelwch bob math o ffug. Y mae llawer math o hono mewn cysylltiad a'r pulpud. (1). Na fydded genych

ymgais at ffug-hyawdledd. Nid ydyw gwir hyawdledd yn ddim mwy na mynegiad gweddus ar wirionedd cyfaddas. Penderfynwch pa fynegiad sydd yn briodol i bob syniad a theimlad, chwi benderfynwch yr un pryd pa beth sydd yn hyawdl. Ond y mae rhai yn meddwl mai tryst-fawredd mewn geiriau sydd yn ei gyfansoddi. Os bydd pregethwr yn lliosogi ansoddeiriau mawrion, anghynefin, clogyrnog, ystyrir ef yn bregethwr anghyffredin gan ddsbarth o wirioniaid. "Y mae yn bregethwr blodeuog," meddai un ffol: "rhyfedd mor farddonol y mae," medd un arall; "dyna hyawdledd," medd y trydydd; pryd nad oedd na blodeuog, barddonol, na hyawdl. Yr oedd yn drystfawr ac yn wag. Gellid meddwl wrth syniad rhyw ddsbarth, mai yn ol y gallu peirianol i draethu y nifer fwyaf o eiriau o fewn amser penodedig, y mae mesur hyawdledd llefarwr. Ond camsynied dybryd ydyw hyny. Rhaid wrth amser i draethu gwirioneddau mawrion mewn modd effeithiol. Yr oedd, ac y mae holl areithwyr nerthol y byd yn siarad yn araf. "Hyawdledd o radd isel," medd Syr Joshua Reynolds, "ydyw yr un na chynyrcha argraff bellach na bod y llefarwr yn medru siarad llawer."

(2). Gochelwch ffug-fawredd. Cymer hwn wedd drafferthus yn gyffredin. Araf, lawer yn rhy araf, y llefara, yn enwedig yn y dechreu, gan anadlu rhwng pob gair neu ddeuair. Am ysbaid o amser, rhaid i'r gynulleidfa fod yn ddiolchgar "am drugareddau bychain" oddiwrtho. Yn raddol, cyflyma yr olwynion ychydig, eithr parha y brawddegau yn hirion, afrosgo, a chymhlethedig, a'r holl arddull yn amgylchog ac anmhenodol. Myned oddiamgylch ei bwnc y mae, ac nid iddo a thrwyddo. Y mae ei syniadau mor fawrion, fel na fedr, ar ol dirfawr drafferth, ond eu hawgrymu. Nid ydyw byth yn eu dyweyd. Os bydd anhawsder, llwydda i'w ddangos yn hytrach na'i ddatod. Ymogelwch, fy nghyfeillion ieuanc, rhag yr haint ffug-fawreddol hon. Meistrolwch eich syniadau fel ag i fedru eu traethu yn eglur. Peidiwch cam-

gymeryd yr anmhenodol am yr eang, na'r aneglur am yr dwfn; eithr gwybyddwch fod yn llawer haws traethu am ddirgelwch na myned i fewn iddo, a mynegu y peth ei hun. "Nid oes mawredd," medd Archesgob Usher, "mewn gwneyd pethau plaen yn ddyrys. Yr anhawsder ydyw dwyn gwirioneddau dwfn i'r wyneb, a chyfleu gwirioneddau mawrion mewn modd mor eglur ag y gall yr anghyfarwydd a'r gwan eu deall, ac nid yn unig eu deall, eithr i ryw raddau eu teimlo hefyd." Dyma orchest fwyaf y pulpud. Gan hyny ymegniwch, yn benaf dim, i fod yn eglur. Felly yn ddiau y dylai "yr hwn sydd yn cyhoeddi iachawdwriaeth" i rai colledig draethu ei genadwri. "*So preach that servant girls can understand you; that will be good for all,*" medd un cymwys i roddi cyngor. Ymwrolwch gan hyny i fod yn eglur, a byddwch ddiystyr o'r plantos a'ch cyhuddant o fychander oblegid na fyddwch yn peri trafferth ddiangenrhaid i'ch gwrandawyr i ddeall pa beth a ddywedir genych.

(3). Gochelwch ffug-deimlad. Na hir-leisiwch y llafariad mewn modd barbaraid; na chrynwch eich llais; na wnewch seiniau wylofus; ac na rwbiwch eich llaw dros eich grudd, megis i sychu dagrau pryd na b'ont. Nid oes dim yn digio, nac yn caledu cynulleidfa yn fwy, nag arddangosiad twyllodrus o deimlad; ac nid oes dim a adnabyddant yn gynt. Ymhob dim byddwch yn onest a naturiol.

9. Bydded genych amcan ymarferol pwysig i bob pregeth. Gwyliwch rhag i'r gynulleidfa deimlo mai unig ddiben eich ymddangosiad ger eu bron ydyw gweinyddu difyrwch a boddhad iddynt hwy. Arswydwch rhag iddynt edrych ar eich pregethu yn unig fel "*performance.*" Argyhoeddwch hwynt fod genych amcan mawr, a hwnw yn deilwng o weinidogaeth yr efengyl. Dichon y byddai yn fuddiol i chwi nodi yr amcan hwnw, fel ag i'w osod yn benodol o flaen eich meddwl. Cynghorai rhywun bregethwyr i'w ysgrifenu ar ben y papur, yn gystal a'r testyn. Os mai rhybuddio yr afreolus ac argyhoeddi y difraw; neu os mai esbonio rhyw

athrawiaeth, fel ag i ddangos ei chyfaddasder ar gyfer angen neillduol, neu ei defnyddio yn gymhelliad grymus i ryw ymarferiad crefyddol; os mai argymell dyledswydd bwysig sydd yn cael ei hesgeuluso; os mai dyddanu y trallodedig a nerthu y gweiniaid; os mai dangos prydfferthwch neillduol yn y Ceidwad mawr, i demtio rhywrai i'w garu a'i wasanaethu; gosodwch hyny yn nod uniongyrchol o'ch blaen, ac am y tro crynowch eich galluoedd i ymdrech i'w gyraedd, gydag edrychiad gwylaidd, ffyddiog tua'r nef, bid sicr, am fendith ar eich ymdrech. Fe sicrha hyn unoliaeth a chydgordiad yn yr holl bregeth. Cofiwch mai wedi eu casglu i bwynt y mae pelydrau y goleuni yn llosgi. Difudd, yn gystal a diflas, ydyw pregeth wasgarog.

10. Yn benaf dim, byddwch yn ddirifol. Ymddiried mawr a roddwyd i chwi; gwaith ofnadwy sydd genych i'w gyflawni. Yr ydych i fod yn "genhadau dros Grist," ac "i erfyn dros Grist." Y mae Duw yn myned "i ddeisyf ar ddynion" trwoch chwi. O, anrhydedd a chyfrifoldeb digyffelyb! Ymdeimlwch a'i bwysigrwydd! Gwylwch rhag pob ysgafnder a chellwair anghydweddol a'r fath waith cysegredig. Ymgedwch rhag pob "*low wit*" yn y pulpud, a rhag pob hyfdra *flippant* a haerllug. Nid ydoedd yn fwy gwrthun i "Satan ymrithio fel angel y goleuni," i Saul "ymddangos ymhlith y prophwydi," nag i'r hwn a ystyrir yn bregethwr yr efengyl i wneuthur ei hun yn *mountebank* yn y pulpud. Os na fedrwch gyrhaedd poblogrwydd heb gellwair gyda phethau dirifol, penderfynwch fod yn amhoblogaidd byth. Yn wir, ni fydd y fath boblogrwydd yn werth y pris a delir am dano, gan na wna ond trymhau eich barnedigaeth pan eloch i roddi cyfrif i'r Hwn a'ch gosododd yn oruchwylwyr. Oblegid "os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled: eithr efe ei hun a fydd cadwedig; eto felly megis trwy dân."

Yn dra brysiog, yr ydwyf wedi myned dros rai o'r pethau a farnwn yn angenrheidiol galw eich sylw atynt. "Y mae

hyfder fy ymadrodd yn fawr wrthych," mi a wn; ond yr ydwyf yn gobeithio nad ydwyf wedi eich dolurio chwi, nac wedi tramgwyddo neb arall; oblegid yr wyf yn hyderu y medraf ddywedyd fel yr Apostol Paul:—"Ein cynghor ni nid oedd o hudoliaeth, nac o aflendid, nac mewn twyll. Eithr megis y cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru; nid megis yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni."

Yr wyf yn gobeithio, er pob amberffeithrwydd, fy mod wedi llwyddo i ddangos fod y gwaith yn fawr, yr anhawsderau yn lliosog, a'r cyfrifoldeb yn ofnadwy. Ac yr wyf yn gobeithio hefyd mai nid dyma y waith gyntaf i chwi deimlo felly. O na, gwn fod dolef ddofn yn eich calon yn dywedyd ar lawer adeg,—“A phwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?” Y mae holl wir weision Crist wedi arfer teimlo fel hyn, ac wedi teimlo i'r fath raddau fel y buasent wedi ofni ymafiyd ynddo o gwbl, oni buasai iddynt glywed llef o'r nef yn dywedyd:—"Digon i ti fy ngras i; fy nerth i a berffeithir mewn gwendid." Am hyny, fy mrodyr anwyl, na lwfrhewch ac na ddigalonwch:—"Eich digonedd chwi sydd o Dduw." Y mae'r "trysor hwn wedi ei osod mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw." "Ymnerthwch gan hyny yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef." Dysgwch brofiad yr Apostol Paul, a dysgwch ef fel yr oedd y diweddar Evan Richards, Rock, wedi ei ddysgu, yn fath o gynghanedd groes-rywiog:—"Pan yr wyf wan, yr wyf gadarn; a phan yr wyf gadarn, yr wyf wan." Fel yr anogasom chwi i wneuthur, cesglwch bob cymorth allanol, dodrefnwch eich meddyliau, ac arferwch bob dawn a feddwch, neu sydd yn gyrhaeddadwy, yn nghyflawniad eich gweinigogaeth, ond cofiwch wneuthur hyny, "gan weddio a phob ryw weddi a deisyfiad," oblegid Duw yn unig a all roddi y cynydd.

Mawrhewch eich swydd, gan ddiolch i Dduw am iddo eich

cyfrif yn addas i ymddiried i chwi am yr efengyl. Yr unig ymddiried mwy na hyn o eiddo Duw ydoedd yr ymddiried a osododd ar Ei Fab. Yr ydych chi gan hyn wedi cael dyfod i gymdeithas oruchel iawn, yr “*order*” fwyaf anrhydeddus ar y ddaear, sef ardderchog lu y pregethwyr, y rhai sydd fil myrddiwn, o Enoch a Noah hyd y dydd hwn, ac Iesu Grist Ei hun, “yr hwn ni lefarodd dyn erioed fel efe,” yn Ben Pregethwr yn eu plith.

Os bydd eich llafur yn fawr, bydd y pleser cysylltiedig ag ef yn anghymarol. Prin y mae unrhyw lafur arall yn werth y drafferth sydd ynglyn ag ef; ond y mae hwn yn dwyn “llawenydd annhraethadwy a gogoneddus.” Y mae yn amheus genyf a fedd un o angelion y nef hyfrytach gorchwyl nag sydd gan bregethwr yr efengyl, pan fydd ychydig o rwyddineb yn y gwaith, a llewyrch dwyfol ar y gwirioneddau. Nid wyf yn eiddigeddu wrth hapusrwydd neb y pryd hwnw. Yn wir fe deimla rhai pregethwyr yn amharod braidd i fyned i'r nefoedd, er gobeithio am y nefoedd yn y diwedd, rhag ofn na chânt bregethu yno.

A dyma lle y mae gwobr fendigedig! A pha ryfedd? Y mae canlyniadau a ffrwyth y gwaith hwn yn ddigyfelyb. “Gwybyddwch y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lliaws o bechodau.” Os mai mewn dagrau gan hyny y byddwch weithiau yn hau, cewch “gludo eich ysgubau mewn llawenydd.” Rhoddir i chwi eneidiau yn wobr yn nydd Crist. O goron llawenydd anghymarol, cael eneidiau cadwedig yn wobr! O holl deulu y nef yn gryno, dyma y rhai fydd anwylaf genych. Nid yn unig byddant hwy yn eich caru chwi, fel offerynau eu hachubiaeth, ond byddwch chwithau yn eu caru hwythau yn fwy na neb, mi goeliaf, ond Duw Ei Hun. Nid anghofir byth y ffaith o'u cadwedigaeth drwoch. Bydd i chwi eich hunain yn melysu tragywyddoldeb, a bydd yn ddirchafiad i anrhydedd diddarfod yn y nef. Oblegid y “doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y

ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, fel y ser byth yn dragywydd."

"Bellach, frodyr, byddwch wych, byddwch berffaith. Ac Arglwydd y tangnefedd ei hun a roddo i chwi dangnefedd yn wastadol, ymhob modd. Yr Arglwydd a fyddo gyda chwi oll."

PREGETH VII.

—:0:—

YR YNFDYDRWYDD O YMRYSON A DUW.

JOB XXXIII. 13, 14.—“*Paham yr ymrysoni yn ei erbyn ef? oherwydd nid ydyw efe yn rhoi cyfrif am ddim o'i weithredoedd. Canys y mae Duw yn llefaru unwaith, ie, ddwywaith; ond ni ddeall dyn.*”

L LYFR dyddorol i'w ddarllen, ond anhawdd i'w ddeall, ydyw Llyfr Job. *Drama* farddonol ydyw, sylfaenedig ar ffaith. Pa faint sydd yn ffaith hanesiol, a pha faint sydd yn farddoniaeth, nis gwyddom; ac nid yw yn debygol fod ein hanwybodaeth yn golled bwysig i ni. Amlwg yw fod yr awdwr yn wir fardd. Hwyrach mai prif bwnc y llyfr, er fod pethau eraill yn dyfod i mewn, yw egluro amcan ac ystyr adfyd, neu ddyoddefaint; ac ymdrinir a'r mater mewn ysbryd athronyddol, ond ar ffurf dadl rhwng cyfeillion, a hyny gyda golwg ar berson neillduol, sef Job ei hun. Desgrifir Job, i ddechreu, fel y goreu o drigolion ei wlad. Daeth Satan i amheu cywirdeb a gonestrwydd ei gymeriad, ac i awgrymu mai hunan-lês oedd sail a hanfod ei grefydd. I brofi cywirdeb Job, y mae yr hyn oll a feddai yn cael ei roddi yn llaw y diafol. Mewn canlyniad, ysgubir ei gyfoeth a'i deulu oddiarno. Ond daliodd y prawf. Yna daw yr ail demtasiwn, yn yr hon y mae Satan yn cael cenad i ymosod ar Job ei hun, ond gan arbed ei hoedl. Cornwydydd blin a'i gorchuddiant mewn canlyniad; ond parhau yn ei berffeithrwydd a wna efe. Y drydedd demtasiwn oedd ymosodiad ei gyfeillion arno, a methodd Job a dal hon, eithr ymollyngodd i ddywedyd pethau anwedus. Medrodd ymgynal o dan ei brofedigaethau tra y bu yn ddystaw; ond pan demtiwyd ef i siarad, ac i

siarad mewn hunan-amddiffyniad yn ngwyneb yr ymosodiad arno, colodd ei hunan-feddiant, a siaradodd yn anmharchus am Dduw. Bu yn ddigon rhyfygus i osod bai wrth ddrws Duw.

Y mae yn llawer haws i dदन lywodraethu ei deimladau tra y byddo yn ddystaw; enilla teimladau y fynwes nerth trwy fynegiad y genau. Y mae hyn yn wir am deimladau da a drwg. Cynydda y teimlad addolgar wrth ei fynegu, am hyny fe'n dysgir i addoli mewn geiriau: "Cymerwch eiriau gyda chwi." Y mae geiriau y gweddiwr yn dylanwadu arno ef ei hun. Y mae agoriad y genau yn fynych fel pe codid llifddorau, mewn canlyniad i'r hyn y bydd y nwydau, y rhai cyn hyny oeddynt dan reolaeth, yn rhuthro yn aflywodraethus. Oni buasai i Job golli ei dymher, a myned i siarad braidd yn annuwiol dan ddylanwad tymher ddrwg, yr oedd wedi gorchfygu ei gyfeillion yn y ddadl a fu rhyngddynt.

Yr hyn a ddadleua y cyfeillion drosto ar y cyntaf ydyw, fod Duw, fel llywodraethwr cyfiawn, yn gwobrwyo y rhinweddol, ac yn cospi yr annuwiol; ond nid ydynt yn gwneuthur unrhyw gymhwysiad uniongyrchol o'r athrawiaeth hon at Job; gadawant iddo ef dynu ei gasgliadau ei hunan. Ateba yntau trwy ddyweyd fod ffeithiau i'w cael croes i'w hathrawiaeth hwy; sef yr uniawn yn dyoddef, a'r annuwiol yn llwyddo; ac mewn cysylltiad ag ef ei hun profesa ddiniweidrwydd. Yn hyn yn ddiau Job oedd y gorchfygwr. Nid oes dim i'w wneyd bellach ond rhuthro ar Job yn bersonol, gan ei gyhuddo yn bendant o bechodau neillduol. A hyn, mewn dull digon brwnt, a wneir gan y cyfeillion; yn enwedig gan Eliphaz. Ond cawn Job yn fuddugoliaethus drachefn yn ei hunan-amddiffyniad. Yr amryfusedd mawr y syrthiodd iddo oedd ceisio cyfiawnhau ei hun, ar draul cymylu cymeriad Duw; mewn gair, gwneuthur ei hun yn gyfiawnach na Duw. Oddeutu diwedd amryw o'i amddiffyniadau ceir ef yn siarad a Duw Ei Hun, yn ymliw ag Ef; ie, yn ymryson, yn ffraeo a'r Brenhin Mawr. Dyna y prif

gyhuddiad a ddygir yn ei erbyn gan Elihu: "Paham yr ymrysoni ag ef?" Y mae yr Arglwydd hefyd yn dwyn yr un cyhuddiad yn ei erbyn, pan yr atebodd ef allan o'r corwynt: "Ai dysgeidiaeth yw ymryson a'r Hollalluog?" Ac i beri i Job deimlo cywilydd am yr hyn a wnaeth, y mae yn ei gwestiyno: "Pa le yr oeddit ti pan sylfaenais i y ddaear?" &c. "Os wyt ti yn fôd digon pwysig i allu dangos brychau yn fy ngwaith i, y mae yn syn fy mod wedi gallu gwneyd cymaint cyn dy eni. Ac nid yn unig yr ydyf wedi gwneuthur llawer cyn dy fôd, ond yr wyf yn gwneuthur y cwbl eto hebot ti." "A orchymynaist ti y bore er dy ddyddiau? a ddangosaist ti i'r wawrddydd ei lle?" Amcan y *catechism* rhyfedd ag y bu Job dano, ydoedd dangos mawredd a gogoniant y Duw ag y bu yn ddigon rhyfygus i feirniadu Ei waith ac i feio arno; nes yn yr olwg ar ei ddistadledde ei hun, ei ddwyn i deimlo cywilydd oherwydd ei ynfydrwydd. A hyn a wnaeth, gan edifarhau mewn llwch a lludw. Ond i ddychwelyd, amryfusedd Job oedd cyhuddiad y testyn. Yr iawn ddarlleniad ydyw: "Paham yr ymrysoni ag ef am nad yw yn rhoddi cyfrif?" Yn ei ymddiddan a'i gyfeillion, yr oedd wedi bod yn cwestiyno Duw; ac oherwydd na ddarfu i Dduw ateb y cwestiynau hyny, ac eraill cyffelyb iddynt, ymrysona Job yn Ei erbyn fel un sydd yn gweithredu yn fympwyol, direol, a direswm, ac am hyny yn anghyfiawn fel Pen-Arglwydd. Nid ydyw Duw yn rhoddi cyfrif. Y mae yn anfeidrol rhy uchel i hyny. Eto nid ydyw heb lefaru wrth ddyn, trwy weledigaeth nos, a thrwy oruchwyliaeth cystudd. Ceisiwn ddangos

MAI YNPHYDRWYDD YDYW I DDYN YMRYSON A DUW YN NGWYNEB
EI ORUCHWYLIAETHAU PROFEDIGAETHUS, PA MOR DYWYLL
BYNAG Y DIGWYDDO IDDYNT FOD.

I. Y mae yn amlwg nad ydyw Duw yn ymhyfrydu mewn trueni er ei fwyn ei hun. Byddai yn amhosibl i neb wneuthur mwy o gam na phriodoli i'r Brenhin mawr ryw ddifyrwrch creulawn,

ryw *savage delight* mewn trueni. “Daionus yw yr Arglwydd i bawb, a’i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd.” Dywedir am Nero, yr ymherawdwr Rhufeinig, iddo, gwedi darllen hanes difrodiad Caerdroia, orchymyn gosod Rhufain ar dân mewn amryw fanau am naw noswaith yn olynol, er mwyn iddo gael y pleser o’i gweled yn llosgi, a chlywed gruddfanau y rhai a gawsent eu llosgi a’u hanafu. Prin yr ydym yn medru coelio hyn hyd yn nod am Nero, er cynddrwg ydoedd. Oni buasai ein bod wedi darllen yn hanes y chwilyys Pabaidd am lawer o engrheiffiau o beth tebyg iawn i ymhyfrydiad dieflig mewn poen, ni fuasem yn medru credu yn y posibilrwydd i ddyn gael ei ddarostwng mor isel, nes dyfod mor agos at y cythraul, o leiaf yn y fuchedd hon. Yr ydym wedi darllen am ddynion, ac o ran hyny wedi eu gwyled, yn poenydio eu gilydd pan dan ddylanwad nwydau dialeddol neu eiddigus. Ond syniad ofnadwy yw y dybiaeth y geill dyn, heb unrhyw achlysur oddiallan iddo, ymhyfrydu mewn trueni ynddo ei hun. Ond gan y medr dyn ddychymygu y peth, rhaid y geill ei gyflawni. Mewn drygioni y mae’r galon mor alluog a’r dychymyg. Os medr dychymyg dynu yr *outline*, fe fedr calon ddrwg wneyd y llanw i fynu. Ond nid yn unig medr dyn ddychymygu peth o’r fath, a bod felly ei hun, ond y mae wedi trosglwyddo a chymhwysu y dychymyg hwn at Dduw. Nid ydyw Moloch, duw yr Ammoriaid, y duw oedd yn cael ei ddyhuddo a’i foddhau trwy losgiad plant bychain, ond un o lawer o’r duwiau creulawn a addolwyd ac a addolir gan ddynion. Duwiau creulawn, yn ymhyfrydu mewn trueni, ydyw y nifer amlaf o dduwiau y byd. O euogrwydd y gydwybod y mae y syniad caled hwn am Dduw wedi cyfodi. Dengys Iesu Grist hyny yn nameg y talentau. Esgeulusdra y gwas drwg a diog a barodd iddo feddwl mai gwr caled oedd y meistr.

Ond cam ofnadwy fyddai cymhwysu y syniad hwn at y gwir a’r bywiol Dduw. Gwir fod llawer o drueni mewn gwahanol ffurfiau yn y greadigaeth; nid ydym am ei wadu

na'i leihau; ond geill pob un a gymero ychydig o drafferth i astudio cymeriad Duw, fel ei amlygir yn Ei weithredoedd, ganfod nad yw y trueni hwn, o ba le bynag y mae wedi dyfod, wedi cyfodi o ddrwg-ewyllys y Creawdwr. Oblegid nid ydyw maint na swm y trueni sydd mewn bod, ond ychydig o'i gymharu a'r hapusrwydd sydd yn cael ei gynyrchu. Y rheol ydyw hapusrwydd; eithriad ydyw trueni; ac y mae y sylw a delir iddo yn un prawf mai eithriad ydyw. Llawer mwy o sylw sydd yn cael ei dalu i'r adfyd nag i'r hawddfyd, yn hanes person ac yn hanes gwlad; ond eithriad ydyw. Ceir yr awyr weithiau yn ymgynhyrfu yn gorwynt tymhestlog, nes ysgubo gwlad i ddinystyr; ond bydd yn amlach yn dawel. Y mae peth cystudd, ond y mae llawer mwy o iechyd. Y mae peth poen, ond y mae llawer mwy o esmwythdra. Lliaws a faluriwyd dan draed y gorthrymydd, ond llawer mwy yw nifer y rhyddion. Difrodwyd rhai gan y newyn tost, ond cafodd mwy eu digoni. Ie, er fod ychydig o eithriadau fel hyn yn bod, nid ydynt yn ddigon i beri fod dim anmhriddoldeb yn ngeiriau y Salmydd am ddaioni Duw: "Llawn yw y ddaear o'th gyfoeth."

Heblaw hyny, prin y gellir dyweyd fod y trueni yn dyfod o fewn cylch bwriad Duw, yn ystyr briodol y gair; rhywbeth achlysurol, damweiniol, ac nid rhan o gynllun hanfodol Duw ydyw. *Disturbance* ar gynllun daionus yr Anfeidrol ydyw. Fel y sylwa Paley: "Rhoddwyd llygaid i ddyd i weled a hwynt, ac nid i losgi yn ei ben; rhoddwyd danedd iddo i fwyta, ac nid i ddwyn poen y ddanodd; rhoddwyd ystumog iddo i dreulio bwyd, ac nid i fod yn ffynhonell afiechyd trwy ddiffyg treuliad." Gellir deall amcan peth wrth ei ffurf. Nid amcan gwneuthuriad y cryman oedd tori dwylaw yr hwn sydd yn medi, er y digwydda hyny weithiau, ond medi y gwenith. Pe baech yn edrych ar offerynau dirdynol y chwillys, gallech weled mai poen oedd amcan eu gwneuthuriad. Dyna un i ddatod y cymalau; dyna un arall i ddryllio yr esgyrn; a dyna un arall eto i losgi gwadnau y traed. Ond

chwiliwch holl weithredoedd y Creawdwr, ac ni chewch ddim y gellir dyweyd mai gweinyddu poen yw amcan ei wneuthuriaid; dim cymaint ag un aelod na synwyr yn y cyfansoddiad wedi ei fwriadu yn unig i fod yn gyfrwng dyoddefaint. Yn mysg Ei afrifed greaduriaid nid oes cymaint ag un y gellir dyweyd am dano, ei fod wedi ei lunio a'i gymhwyso i fod yn druenus. *Disturbance* ydyw trueni. Bwriadu trueni yn wir! Pe yn ewyllysio hyny, buasai wedi llunio y cwbl yn bur wahanol i'r hyn ydynt. Buasai holl synwyrâu y corph yn gyfryngau anghysur; pob gwrthddrych a welai y llygad yn wrthodedig; pob blas yn chwerw; pob cyffyrddiad yn ddolur; pob arogl yn ddrewdod; a phob sain yn ysgrech (Paley). Am hyny, pa anghysur bynag eill ein goddiweddyd mewn bywyd, dylem fod yn sicr nad yw yn cyfodi oddiar ddrwg-ewyllys yn yr Hwn a'n gwnaeth, ac mai nid o'i fodd—o'i galon—y blina Efe ni, ac y cystuddia blant dynion.

II. *Pa gynddrwg bynag ydyw'r sefyllfa, gallasai fod yn waeth.* Os yw dy ffurfafen yn dywyll, fy nghyfaill, nid ydyw yn dywyllwch eithaf; y mae yna "oleuni dysglaer yn y cymylau." Os ydyw dy gwpan yn chwerw, cwpan cymysgedig ydyw; y mae ynddo beth melusder. Os oes ambell i gawod yn disgyn arnat, yr wyt yn cael peth seibiant; nid ydyw y "cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw" i bistyllo eu cynwys arnat yn ddiordphwys. Os ydwyt yn cael dy "gospi a ffrewyllau," bydd ddiolchgar am nad ydwyt yn cael dy "gospi ag ysgorpcionau." Os oes ambell i don wedi llofos trosot, yn ddiau nid ydyw yn llifeiriant dyfroedd mawrion; nid ydyw Ei holl donau wedi dy orchuddio. Nid ydyw wedi casglu drygau, na threulio Ei "holl saethau" arnat; y mae llawer mwy o saethau yn y cawell nag a ollyngwyd arnat ti. Gyda'r gwyr traed yr wyt wedi cael dy fino, gallasai fod gyda'r meirch. Mewn tir heddychlawn y'th flinwyd, gallest fod yn ymchwydd yr Iorddonen. Ac nid yn unig gallasai fod yn waeth, ond y mae wedi bod yn waeth ar eraill. Dyna hwn a hwn, a hon a hon yn mhlith dy gydnabod; a dyna y rhai'n a rhai'n y

darllenaist am danynt, yr oeddynt oll yn waeth eu cyflwr na thydi. "Ie," medd y dyn, "ond cysur bychan sydd mewn peth fel yna, ar y goreu; ac heblaw hyny, yr wyf wedi ei glywed mor aml, ac yn cael ei ddyweyd mor ddiystyr, fel y mae yn swnio fel *cant* yn fy nghlustiau, ac yn disgyn yn fflat ar fy nheimlad." Dichon hyny; clywais inau ef; ond y mae un ystyriaeth a rydd ystyr a bywyd yn y syniad, ac a duedda i weini i ti beth diddanwch; sef dy fod wedi haeddu i bethau fod yn waeth. Buasai yn gyfiawnder yn Nuw i beri iddi fod yn waeth. Wrth fesur y mae'r Duw mawr wedi bod yn ymddadlau a thi. Ni adawodd i ti gael dy demtio uwchlaw yr hyn a ellit. Os ydyw wedi gollwng arnat Ei ddwyreinwynt mwyaf difaol a dinystriol, nid ydyw wedi ei ollwng yn ei holl ryferthwy, ond wrth fesur. Ataliodd Ei wynt garw hyd yn nod yn nydd dwyreinwynt. "Paham y grwgnach dyn byw;" dyn *byw*; dyn y tu yma i ddamnedigaeth; "gwr am gospedigaeth ei bechod," ac yntau yn *fyw*? Trugareddau yr Arglwydd yw na ddarfu am dano. Gras digymysg yw dy fod yn fyw. Wel, gan fod y Duw mawr wedi cofio trugaredd ynghanol barn, paid ymryson a'r Hwn sydd heb dy ddamnio yn ol dy haeddiant.

III. *Nid yn unig darfu i Dduw gymedroli y trueni a'r adfyd yn y gweinyddiad o hono, ond yn rasol y mae wedi rhagddarparu moddion i leddfu y boen, ac i liniaru y gofid.* Wrth fesur yr oedd yn gosod y baich; dyna ddaioni yn Nuw; daioni arall ynddo yw Ei fod wedi rhagordeinio moddion i esmwythau y baich ar ol ei osod. Y mae'r darpariadau hyn yn amrywiol; ni chawn ond nodi rhai o honynt wrth basio.

Un ydyw, y gallu y mae wedi cynysgaeddu y cyfansoddiad dynol ag ef, i ymgyfaddasu i'r amgylchiadau, a thrwy gyneffindra i ymgymodi i fesur mawr a'r adfyd, nes dod i beidio ei deimlo yn adfyd. Y mae'r dwylaw wrth ddechreu gweithio yn ddolurus, ond wrth barhau i weithio y maent yn caledu. Y mae'r traed wrth ddechreu cerdded, ar ol hir orphwys, yn dyner a phoenus, ond wrth barhau i gerdded y

mae'r croen yn tewychu. Felly gyda golwg ar y meddwl. Y mae y croen sydd am yr enaid, os goddefwch yr ymadrodd, yn tewychu ac yn caledu. Anghofio hyn a bâr i ni wneuthur camsyniadau mynych. Pan yn darllen am yr Esquimaux, y rhai y mae yr eira yn furiau i'w tai, a'r iâ yn ffenestri iddynt; a phan yn meddwl am eu nosweithiau hirion yn wythnosau o hyd, eu bywyd helwriaethol peryglus, a'u hymborth bras; neu ynte, pan yn darllen am y Negro o dan belydrau deifiol ac uniongyrchol yr haul sydd o hyd uwch ei ben; yr ydym yn barod i dybio am y naill a'r llall eu bod yn anhapus iawn. Ond camgymeriad dirfawr ydyw hyn. Ni fyddent yn foddlon cyfnewid a chwi a minau. Braidd na thybia yr hwn a anwyd a'r llwy arian yn ei enau, sydd yn rhodio ar gargedau ac yn ymborthi ar foethau, fod y bachgenyn pen-noeth, coes-noeth, troed-noeth, a bron holl-noeth, sydd a'i draed yn y llaid a'i ben yn y gwllith, a'i grwstyn yn sych, o angenrheidrwydd yn anhapus. Camsynied dirfawr ydyw hyn. Y mae croen ei ben ef yn galetach na gwadnau traed y boneddwr, fel nad ydyw yu teimlo oddiwrth yr oerni. Cwrs mae yn wir yw ei fara, ond medd awch yn ei ystumog ar ei gyfer. Edrychwch arno yn llamu yn y gwynt, yn chwareu, yn chwerthyn, ac yn chwiban, mor llon ac iach a'r awel sydd yn cellwair a'i noethni. Yr un fath gyda golwg ar holl amgylchiadau profedigaethus bywyd. Pan fwrwyd y dyn ar wely cystudd, yr oedd gorwedd yn y gwely yn fwy o brofedigaeth y mis cyntaf na'r ail. Buasai cerdded ar ffyn baglau yn gyfnewidiad dymunol. Ar ol eu defnyddio am wythnosau lawer, braidd nad ydyw yn anfoddlon eu taflu ymaith. Clywais ddyn dall yn dyweyd fod llai o awydd ar hen ddeillion am fedru gweled nag a dybir gan ddynion yn gyffredin. O'r Duw mawr! ni fedraf feddwl am beth fel hyn heb deimlo awydd yn fy ysbryd i dalu teyrnged o fawl iddo, am ddarparu ffordd i liniaru rhyw gymaint ar drueni'r ddynoliaeth, trwy ei chynysgaeddu a gallu i ymgyfaddasu i'w hamgylchiadau, ac i ymgymodi a'i hadfyd trwy ymgynefino

ag ef. Gallasai drefnu pethau yn wahanol iawn. Gallasai osod teimladrwydd (*sensibility*) y ddynoliaeth yn y man uchaf, a hwnw yn sefydlog a digyfnewid, fel na byddai cynefindra dyn yn lleddfu dim ar ei brofedigaeth. Ond fel arall y gwnaeth. Diolch iddo! Y mae hyn yn ddigon o reswm dros i ni beidio ffræo ag Ef.

Yn ychwanegol, y mae y cydymdeimlad, a'r cynorthwy sydd yn cyfodi oddiar gydymdeimlad, yn lliniaru llawer ar adfyd dynolryw. Duw a osododd y gallu a'r duedd i gydymdeimlo yn mynwes dyn, a pha lesiant bynag sydd yn cyfodi o hono, ei eiddo Ef yw y clod dyledus am dano. Anaml y bydd yr un adfyd yn gorddiwes pawb; felly bydd rhai yn rhyddion i gynorthwyo y rhai sydd yn rhwym. Os bydd rhai yn glaf, bydd mwy yn iach ac yn barod i'w cynorthwyo. Os bydd rhai yn dlawd ac yn anghenus, medd eraill beth i'w hebgor i'r rhai sydd ag angen arnynt. Os bydd un wedi cyfarfod a damwain, ceir llu yn barod i weini arno. Heblaw y cynorthwy sylweddol sydd yn cyfodi oddiar gydymdeimlad, y mae y cydymdeimlad ei hun yn cynal ac yn sirioli ysbryd y dyoddefydd. "Y mae yr hwn sydd yn cydymdeimlo a mi," medd Jeremy Taylor, "trwy gydymdeimlo yn cario haner fy maich." Bydd yn rhyw fath o iawn i deimlad y dyoddefydd, am yr anffawd a'i goddiweddodd. Braidd na ddywedaf fod y cydymdeimlad a ddangoswyd yn werth y salwch a ddyoddefwyd. Fel hyn, nid ydyw y Brenhin mawr wedi gadael i feibion dynion ddyhoeni mewn unigrwydd, heb fod gan y naill unrhyw allu na thuedd i gynorthwyo y llall; ond trwy gydymdeimlad y mae yn asio dynolryw yn eu gilydd, ac yn gwrthweithio hunan-gais llygredig eu calonau; fel trwy gynorthwyo eu gilydd y bydd y naill yn gallu lleihau adfyd y llall, a'r hwn sydd yn estyn y cymhorth yn derbyn llawn cymaint o ddaioni ag y mae yn weinyddu i arall. Peidiwch ffræo ag Ef!

Heblaw hyn eto, y mae gobaith yn elfen gref yn natur dyn, ac yn lleddfu llawer ar ei flinder. Duw sydd wedi ein dysgu

i obeithio. Gallasai lunio dyn fel y byddai yn pendrymu yn barhaus uwchben ei ofid, heb allu na thuedd i feddwl am y posiblwrwydd i gael ymwared oddiwrtho. Ond yn lle hyny, y mae yn mynu gobeithio. Medd reddf gref at hyn. Nid oes eisiau llawer o sail i beri i ddyn obeithio; a thra y pery i obeithio nid ydyw wedi myned yn dywell nos arno. Bydd y caeth yn gobeithio am ryddid. Bydd y tlawd yn gobeithio am welliant ar ei amgylchiadau. Bydd y claf yn gobeithio am wellhad. Y mae rhyw feddyg galluog heb ei dreio; neu, y mae rhyw physygywriaeth rinweddol heb ei harfer; neu ynte, y mae rhyw awyr iachusol i fyned iddi. Os yn ddyn crefyddol, medr ymddyrchafu uwchlaw y creadur at Dduw. "Diffygiaswn pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw." Gobaith a'i cadwodd rhag llewygu. Ac os y bydd hi yn cau yn hollol ar dir y rhai byw, i hwn y mae gwawr yn codi o dragywyddoldeb.

"Ni threfnwyd amser maith
I neb i gario'r groes."

Os nad yw y gobaith hwn genit, arnat ti, ac nid ar Dduw, y mae y bai. Y mae Efe wedi rhoddi gallu a thuedd i obeithio, ynghyd a defnyddiau a seiliau gobaith dan bob amgylchiadau. Paid ffraeo ag Ef!

IV. *Y mae amcanion doeth a daionus i'r holl oruchwyliathau profedigaethus.* Yn y goruchwyliathau yma bydd yn llefaru wrth ddyn, ac yn dysgu gwersi pwysig iddo. Y maent yn rhy liosog ac amrywiol i'w henwi; ond ni a nodwn rai o honynt:—

1. *Dysgu i ddyn gofio fod Duw, teimlo Ei hawliau, ac ymostwng i'w ewyllys.*" Meddai Agar: "Rhag i mi ymlenwi a'th wadu di, a dywedyd, Pwy yw yr Arglwydd?" Dyma sydd yn dueddol i ddyn llygredig yn ngwyneb hawddfyd. Felly y dywedir am Israel: "Pan laddai efe hwynt, hwy a gofient yr Arglwydd;" ond yn ngwyneb tipyn o lwyddiant, "yn y fan hwy a anghofient yr Arglwydd." Pechod Nebuchodonosor oedd anghofio Duw. Oherwydd hyn fe'i tarawyd a rhyw

afiechyd rhyfedd, a math o *monomania*, fel y tybiai mai anifail ydoedd. A dechreuad ei adferiad i'w iawn bwyll ydoedd ei edrychiad i fynu at Dduw. Y mae yr hanes yn addysg i ni. Mewn alegori dysga mai i stâd yr anifail y bydd dyn yn darostwng ei hun wrth beidio cydnabod Duw. Gwallgofrwydd moesol yw anghof o Dduw, ac i ddwyn dyn i'w iawn bwyll a'i synwyr, rhaid yn fynych ddarostwng ei ucheldrem. Oblegid y mae cyflawnder hawddfyd fel tew-frigau y goedwig, yn cau allan belydrau yr haul, ar yr hwn y mae eu tyfiant a'u cynyrch yn dibynnu. Pan y bydd Duw yn bwrw dyn ar ei glâf wely, yn cystuddio ei wraig, yn cymeryd un neu ddau o'i blant oddiarno, yn dyrysu ei gynlluniau, ac yn siomi ei amcanion gyda golwg ar ei amgylchiadau bydol, pa beth fydd yn wneuthur? Dim ond teneuo ychydig ar frigau y goedwig, i ollwng y pelydrau dwyfol i lawr i'r gwaelodion; dysgu iddo gofio yr Arglwydd. Ac nid yn unig cofio Ei fodolaeth, ond Ei benarglwyddiaeth. Nid yw yn bosibl cael dysgyblaeth deuluaidd heb i'r penteulu sefydlu ei awdurdod a'i hawl yn nheimlad y teulu. Felly, nid oes dysgyblaeth grefyddol heb i hawliau Duw gael eu sefydlu. Dyma amcan dygiad yr Israeliaid i'r anialwch, eu dwyn at droed Sinai, a'u harwain oddiamgylch; eu gosod dan *training* i beri iddynt adnabod yr Arglwydd. "Tywysaist hwynt fel defaid," meddai y Salmydd. Anghofiodd Israel y wers yn bur fuan, a thrwy brofedigaethau lawer bu raid iddynt ei hail-ddysgu. Y mae Duw yn sefydlu Ei hawliau eto yn ein hanes ni. Efallai fod yma aml un wedi gorfod yfed dyfroedd Mara, wedi bod wrth droed mynydd Sinai, ac wedi cael ei dywys ôl a blaen ar hyd

"Llwybrau culion, dyrus, anhawdd;"

establishio Ei *rights* y mae'r Duw mawr, ac felly dy ddysgu i blygu. Y mae ymostyngiad i'w ewyllys yn beth gwerthfawr yn Ei olwg. Y mae rhinweddau goddefol, amynedd, addfwynder, maddeugarwch, a goddefgarwch, lawn mor werthfawr yn ngolwg Duw a'r rhai gweithredol. Gelwir hwynt

weithiau yn rhinweddau benywaidd (*feminine virtues*), nid oherwydd eu heiddilwch, ond oblegid eu prydfferthwch. Un ffordd i ddangos ysbryd cymeradwy yw trwy ddyoddef. Geill dyn dyoddefgar, sydd ar ei glaf wely er ys deng mlynedd, ogoneddu Duw gymaint a'r gweithiwr ffwdanllyd, trystiog; ië, feallai yn fwy. Ac yn ystyr briodol y gair "gwaith" hwyrach y gall *wneyd* cymaint i ganmol Duw a'i grefydd. Dyma wersi adfyd. Dydewir ddarfod i Gideon ddysgu gwyr Succoth a drain ac a mieri; sef yn ol pob tebyg trwy eu fflangellu a drain a mieri. Y mae Duw hefyd yn dysgu a drain a mieri rai o'i wersi goreu; ac er eu bod yn boenus i gnawd y maent fuddiol iawn.

2. *Dangos i ddyn ei bechodau gynt, a'i atal rhag cyflawni bechodau yn y dyfodol.* Pan fyddo dyn mewn rhyw helynt flin, cymer y gydwybod fantais ar yr achlysur i ddwyn ar gof iddo ei bechodau a'i ddiffygion. Wedi i fab y wraig weddw o Sarephtah glafychu a marw, tarawodd ei chalon hi oblegid ei hanwiredd, aeth i gyfarfod ag Elias, gan ddywedyd: "Beth sydd i mi a wnelwyf a thi, gwr Duw, a ddaethost ti ataf i goffau fy anwiredd, ac i ladd fy mab?" Pan ddaw yr Arglwydd i ymweled a chwithau yn Ei ymweliadau anghysurus, nid hir y bydd eich cydwybodau cyn deffro, a dangos i chwi eich diffygion a'ch beiau. Ac nid yn unig y mae yn adgofio ac yn dangos, ond hefyd yn atal. Analluoga ac annhuedda ddyn i gyflawni rhyw bechodau y mae yn dueddol iddynt; "Yr hwn a ddyoddefodd yn y cnawd a beidiodd a phechod."

PREGETH VIII.

—:0:—

YMLAWENHAU AC YMHYFRYDU YN NHRUGAREDD DUW.

SALM xxxi. 7.—“*Ymlawenhaf ac ymhyfrydaf yn dy drugaredd : canys gwelaist fy adfyd ; adnabuost fy enaid mewn cyfyngderau.*”

LLYFR Hymnau yr hen Eglwys Iuddewig yw Llyfr y Salmau, ac fel y cyfryw y mae yn llawn dyddordeb ac addysg. Y mae fel yr holl Feibl, y llyfr mwyaf dwyfol sydd mewn bod, ac eto y llyfr mwyaf dynol. Canfyddwn ynddo wyneb a chalon dynoliaeth yn eu symledd cynhenid, cyn iddi ddysgu ffugio a gweithio dan ddylanwad yr hyn a elwir yn wareiddiad. Y mae ei hanesyddiaeth yn fyw gan naturioldeb, ac am fod ei ysgrifenwyr yn ddwyfol ysbrydoledig, cynwysa ei farddoniaeth ehediadau uchaf athrylith, a hyny mewn awyr bur.

Byrdwn moliant yr hen eglwys ydyw trugaredd yr Hwn y mae Ei “drugaredd hyd y nefoedd,” ac sydd “yn parhau yn dragywydd;” oblegid traethu “coffadwriaeth amllder ei ddaioni” y mae yn benaf, er nad ydyw yn anghofio Ei “glodfori wrth goffadwriaeth ei sancteiddrwydd.” Peth heb ei ddysgwyl gan bechadur euog ydoedd cyfarfod a thrugaredd yn ei Dduw; oblegid ni wna ei euogrwydd ond ei fygwth, ac ni wna ei galon ei hun awgrymu iddo y posibilrwydd o “diriondeb trugaredd.” Caled a chreulawn ydyw'r dueddfryd bechadurus; hunan-gais ydyw ei hanfod; pa ryfedd gan hyny*fod pob gogwydd haelfrydig a thyner yn rhewi dan ei dylanwad. Y gwas guddiodd dalent ei Arglwydd yn y ddaear, feddyliodd ac a feiddiodd edliw iddo mai “gwr caled” ydoedd, “yn medi lle nis hauodd, ac yn casglu lle ni wasgarodd,” oblegid cynyrch ei ddrygioni a'i euogrwydd,

cydrhyngddynt, ydoedd y syniad—y drygioni a barodd iddo fod yn anffyddlawn i ymddiriedaeth ei Arglwydd, a'r euogrwydd a ddilynodd yr anffyddlondeb hwnw. Y fath ddarllenlydd cywir ar ddynoliaeth yn ei holl agweddion ydyw Mab y Dyn!

I ganfod syniad greddfod dyn am Dduw ymofyner a gau-grefyddau y byd, i weled pa fath dduwiau a addolir ganddo; a buan y canfyddir mai creulawn ydyw holl wrthddrychau ei addoliad yn mhob oes a gwlad. Nid oes gymaint ag un o honynt yn cael ei nodweddu gan dynerwch a charedigrwydd. Edrycher ar luniau y delwau. Ar fwystfilod y marchogant; seirph plethedig sydd am eu gyddfau; a'u dwylaw y lluchiant feltt, gan bwyo y nefoedd a tharanau, neu rwygo y moroedd a'u tryfer; o'u geneuau y chwythant blâau a thymhestloedd, tra y gloddestant ar drueni a gwaed. Nid anhawdd ydyw rhoddi cyfrif am hyn. Ni chyfyd dwfr uwchlaw *level* ei darddiad, na dyn ychwaith yn mhell uwchlaw iddo ei hun, hyd yn nod yn ei syniad am Dduw. "Tybiaist fy mod i fel tydi dy hun," medd yr Arglwydd wrth feio arno; tra ar y llaw arall gweddus ydyw cydnabod nid yn unig fod hyny yn dueddol iddo, ond, o fewn rhyw derfynau ac mewn rhai ffurfiau, y mae hyny yn angenrhaid arno.

Gadawer dyn iddo ei hun, ni wnai ymddyrfhafu at garedigrwydd natur Duw oddiwrth gyfoeth Ei haelioni, oblegid nid natur yn ei gwedd dyner sydd yn peri iddo gofio am dano, ond yn ei gwedd wgus a bygythiol. Y Salmydd duwiolfrydig sydd yn heddwch a chymdeithas Duw, ac yn yfed ysbrydoliaeth yn Ei wyddfod, sydd yn gweled yr Anfeidrol "yn coroni y flwyddyn a daioni," a cherddediad Ei "hael ysbryd" dros wyneb y ddaear yn gyfryw, fel y mae "yn dyferu brasder." "Dyfera ar borfeydd yr anialwch, a'r brynau a ymwregysant a hyfrydwch." "Y dolydd a wisgir a defaid, a'r dyffrynoedd a orchuddir ag yd, am hyny y bloeddiant ac y canant." "Yr hwn sydd yn anfon ei orchymyn ar y ddaear; a'i air a red yn dra buan. Yr hwn sydd yn rhoddi eira fel gwlan, ac a daena rew fel lludw. Yr hwn sydd yn bwrw ei iâ

fel tameidiau ; pwy a erys gan ei oerni ef? Efe a enfyn ei air ac a'u tawdd hwynt, a'i ddeheuwynt y chwyth efe, a'r dyfroedd a lifant." Pan y gesyd y Salmydd ei glust wrth y ddaear, y mae yn clywed "y mynyddoedd yn bloeddio canu, a holl goed y maes yn curo dwylaw" mewn mawl i Dduw, nes y mae yn gyngherdd gyffredinol trwy yr holl ddaear. Ond nid dyn cyffredin—nid cynddrychiolydd dynoliaeth lygredig—ydoedd y Salmydd, ond un sydd yn nghyfrinach Duw. I'r daearol, di-dduw, nid ymddengys yr Anfeidrol o gwbl ond yn y ddaeargryn ac yn yr ystorm, yn rhyferthwy y llif a difrod y tân. Yn y fellten yn unig y cenfydd Ei lygad, ac yn nghrochlef y daran yn unig y clyw Ei leferydd. Mewn dynoliaeth syrthiedig, hyny o weddillion Duw sydd yn aros, yn ei gydwobod, gan mwyaf, yr ymgudd, a phan y mae hono yn cael ei brawychu y dengys arwyddion ei fod yn Ei gofio. "Yr euog a ffy heb neb yn ei erlid." "Trwst deilen yn ysgwyd a'i herlid ef."

Gweddus gan hyny ydyw cofio'r gwahaniaeth pwysig sydd rhwng holl ymddangosiadau ac awgrymiadau natur i'r duw-ïolfrydig ei ysbryd, rhagor y dyn nad ydyw yn chwenych "rhodio gyda Duw," ond sydd yn dywedyd wrth yr Anfeidrol, "Cilia oddiwrthym ; nid ydym chwenych gwybod dy ffyrdd." I'r cristion meddylgar, y mae pob peth yn awgrymu Duw, yn enwedig os byddant yn bethau mawrion. Y mae y "môr mawr, llydan," yn llydanu yn fwy fyth i'w feddwl, nes arwain ei ysbryd at lydanrwydd annherfynol Duw. Y mae y mynydd uchel, sydd a'i ben gwyn yn y cwmwl, yn mhen enyd wrth sefyll o'i flaen, yn troi yn bulpud Duw, megis Sinai gynt, ac yntau fel un yn gwrando ar leferydd Duw oddiarno. Dan raiadr erch y Niagara, a'i sŵn byddarol, y mae rhyw deimlad o ofnadwyaeth yn ymdaenu drosto, yr hwn yn y man a dry yn ddwyfol bresenoldeb, ag y bydd yn hawdd addoli ynddo. Gwir ; ond dichon fod rhywun yn barod i ofyn, onid yw yr annuwiol yn teimlo yn gyffelyb? I hyn yr atebwn mai rhanol iawn ydyw y tebygrwydd. Nid da gan yr annuwiol

gadw Duw mewn ymwybyddiaeth yn hir, am hyny, fel y dywed Isaac Taylor, fe lwydda i wneyd dansoddiant medd-yliol (*abstraction*) o hono. Nid ydyw ond Duw anmhersonol. Priodoleddau y mae yn gydnabod, a hyny o angenrheidrwydd, oblegid ardderchogrwydd Ei waith, ac nid Duw personol. Doethineb, gallu, a daioni anfesurol a genfydd, ond nid ydyw wrth eu canfod yn dyfod i gymundeb byw ag unig gartref y priodoleddau hyn.

Eithr y mae gan y Salmydd Dduw byw a phersonol—yr unig un y clywyd erioed am dano—a pha ryfedd ei fod yn ymlawenhau ac yn ymhyfrydu yn nhrugaredd ei Dduw. Y mae yn y ffaith ryfedd hon brawf mewnol ynddi ei hun fod y syniad hwn am Dduw yn gynyrch datguddiad, ac mai

“O'r nef y daeth i lawr.”

Pan aeth Columbus i hwylio dros y cefnfor mewn ymchwil am fyd mawr y Gorllewin, bu yn morio yn hir, nes o'r diwedd dreulio allan amynedd gyflogedig y morwyr, a'r rhai hyny yn bygwth ei ladd os na ddychwelai o fewn amser penodedig ganddynt hwy. Cyn dyfodiad yr amser terfynol hwnw i ben, y maent yn canfod llys dyeithrol yn nofio ar wyneb yr eigion. Wedi i Columbus gipio hwnw i fwrdd y llong a'i chwilio, crochlefai mewn gorfoledd, “Y mae tir gerllaw!” Sut y gwyddai? Canfod llysiâu marw a wnaeth yn nofio ar y don, nad oeddynt wedi tyfu yn yr hen fyd y daethent o hono. Felly dywedaf finau; y mae yn y llyfr rhyfedd hwn, sef y Beibl, amryw o bethau na thyfasant erioed ar y ddaear, eithr y maent yn gynyrchion byd arall; a dyma un o honynt: “Tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.” Y mae hwn yn dyfiant arall fyd. Ond braint anmhriadiwy ydoedd i ni ei gael. Dyma sydd yn gwneyd bywyd ar y ddaear yn rhywbeth i'w fwynhau, a'r rhagolygon tu draw i'r fuchedd hon yn un y meiddiwn eu gwynebu mewn hyder.

Am hyny ni a ymofynwn—

I. PA LE A PHA FODD Y CAFODD Y SALMYDD Y SYNIAD SYDD GANDDO AM DRUGAREDD DUW?

II. CADARNHAU EI WIRIONEDD.

III. AWGRYMWN MAI GWIRIONEDD RHANOL YDYW.

IV. FOD YR HOLL WIRIONEDD AM DDUW YN GWNEYD I
FYNU BRYDFERTHWCH ADDOLADWY DIGYMHAR.

I. *O ba le y cafwyd y syniad?* Yr ydym eisioes wedi awgrymu mai cynyrch datguddiad ydyw; ond y mae genym eto i nodi allan ffurfiau y datguddiad hwnw. Oherwydd ein hanfeddylgarwch, yr ydym yn dueddol i ddiystyru datguddiadau blaenaf Duw, gan ogoniant dysglaer y datguddiadau diweddaf. Ychydig oedd at wasanaeth yr Hen Eglwys Iuddewig y pryd hwn; Pum Llyfr Moses yn unig; eithr y mae mwy yn y Pentateuch nag a ystyriwyd gan lawer hyd yma. Fe dâl yn dda i chwi am lawer darlleniad meddylgar arall. Dyma lle y mae yr Anfeidrol yn mynegu Ei ogoniant, pan mewn atebiad i Moses, yr hwn a atolygodd arno, gan ddywedyd, "Dangos i mi dy ogoniant," y dywedodd yr Arglwydd, "Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb, a chyhoeddaf enw yr Arglwydd o'th flaen di." Sefwch yn y fan yma, a chymerwch hamdden i ddractio i mewn lonaid eich holl natur o'r syniad bendigedig mai gogoniant yr unig wir Dduw ydyw Ei ddaioni. Yna treiwch gael allan pa faint ydyw gwerth y datguddiad hwn i'r byd: a pha faint o ddylanwad da sydd wedi deilliau oddiwrtho. Yn mhellach, ceisiwch gael allan, os medrwch, pa nifer o gamsyniadau posibl a thueddol i ni am Dduw, y mae y mynegiad hwn wedi eu hatal a'u cywiro. Tebygol nad oedd yr ateb hwn yn ol disgwyliad Moses, ac mai hiraethu am ganfod rhyw wychder gogoneddus, neu ddwyfol ysplander yr oedd, ag a fuasai yn tafu holl ogoniant duwiau yr Aipht i'r cysgod am byth; canys fe fernir fod Moses wedi gweled gogoniant duwiau yr Aipht pan ddygwyd ef i fynu fel mab i ferch Pharaoh. Ac yr oedd efe cyn y pryd hwn wedi clywed yr Arglwydd yn llefaru wrtho "wyneb yn wyneb, fel y llefarai gŵr wrth ei gyfaill." Yr oedd hefyd wedi cael edrych ar yr hyn a elwir

“yn wedd yr Arglwydd” (Num. xii. 8). Ond nid Ei wedd hanfodol ydoedd hon, ond gwedd Ei ymostyngiad wrth ymddiddan a Moses. Gan hyny, yr hyn a chwenychai Moses ei weled yn mhellach, y mae yn debygol, ydoedd y fraint o gael canfod ffurf Ei Dduwdod, neu ddysgleirdeb Ei hanfod. I hyn yr etyb Duw, na allasai ddangos “Ei wyneb,” eithr yr hyn a alwai “Ei gefn.” Ond pan y mae'r Arglwydd yn peri i'w holl ddaioni i fyned heibio, yn lle yr hyn a geisiai, nid rhoddi llai, ond llawer mwy na'i ddymuniad cnawdol y mae, canys dyma Ei briodol a'i wir ogoniant. Ac O! ogoniant bendigedig—*daioni Duw!* Pwy fedr beidio ymgrymu yn awr, wrth feddwl am y fath fynegiad?

Yn llyfrau Moses y cawn ni hanes cyhoeddiad o enw Duw, ac yn y cyhoeddiad hwnw yr oedd daioni y Goruchaf yn myned heibio i Moses. Y mae yn enw gwerth ei goffâu: “A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, JEHOFAH, JEHOFAH, y Duw trugarog, a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd: Yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, a heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn; yr hwn a ymwêl âg anwiredd y tadau ar y plant, ac ar blant y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth” (Exod. xxxiv. 6, 7). O enw ardderchog ar Dduw! Ni ddisgynodd ei fath ar glustiau dynol erioed o'r blaen. “A Moses a frysiodd, ac a ymgrymodd tua'r llawr, ac a addolodd.” Gwnawn ninau yn gyffelyb iddo. Dyma lle y cawn ni hanes yr arweiniad rhyfedd hwnw wnaeth yr Arglwydd ar genedl gyfan a lliosog, gan eu dwyn o'r Aipht i Ganaan, a'u cynal a'u cadw mewn anialwch am ddeugain mlynedd. Ar hyd llwybr rhyfedd yr aeth Efe a hwynt allan o'r Aipht, oblegid ffordd Duw “sydd yn y môr, a'i lwybrau ef yn y dyfroedd mawrion, ac nid adwaenir ei ol.” Y mae Efe yn medru “troi y môr yn sychdir,” a gwneyd i'w bobl etholedig gerdded “trwy yr afon ar draed;” “yr hyn, pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.” “Beth a ddarfu i ti, O fôr!

pan giliaist, tithau Iorrdonen, paham y troaist yn ol?" Gweled Judah a wnaeth "yn sancteiddrwydd" neu yn gysegr i Dduw, ac "Israel yn arglwyddiaeth" iddo. Cael ofn Duw wnaeth y môr a'r afon. Wedi iddo eu dwyn allan i'r anialwch, y mae yn eu tywys hwynt "fel defaid;" hyny ydyw, yn dirion, fel y tywysa un ddefaid, gan eu harwain hwynt "fel praidd yn yr anialwch." Cafodd lawer o drafferth wrth eu tywys, oblegid yr oedd Ei braidd yn afrywiog ac yn anhywaeth iawn. Ond "Duw parod i faddeu" y profodd Efe iddynt yr holl ffordd. Y mae yn "gwlawio arnynt fara o'r nef," gan roddi iddynt yd y nefoedd. "Dyn a fwytaodd fara angelion." "Efe a holltodd y creigiau yn yr anialwch; a roddes ddiod oddiyno megis o ddyfnderau dirfawr." "Gwlawiodd hefyd gig arnynt fel llwch, ac adar asgellog fel tywod y môr. Ac a wnaeth iddynt gwympto o fewn eu gwersyll, o amgylch eu preswylfeydd." "Y dydd y tywysodd efe hwynt a chwmwl, ac ar hyd y nos a goleuni tân." "Felly deugain mlynedd y porthaist hwynt yn yr anialwch, heb fod arnynt eisiau dim; eu gwisgoedd ni heneiddiasant, a'u traed ni chwyddasant;" ac yr oedd yn draddodiad yn mysg yr Iuddewon, fod y dillad a'r esgidiau yn cyd-dyfu a'u tyfiant hwynt, fel yr oedd yr hyn oedd gymhwys iddynt pan yn blant, yn gymhwys hefyd wedi cyrhaedd llawn faintioli; ac am hyny, yr oedd yn wyrth barhaol. "Er hyny chwanegasant bechu yn ei erbyn ef, gan ddigio y Goruchaf yn y diffaethwch. A themtiasant Dduw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blys. Llefarsant hefyd yn erbyn Duw, a dywedasant: a ddichon Duw arlwyo bwrdd yn yr anialwch? Wele, efe a darawodd y graig, fel y pistyllodd dwfr, ac y llifodd afonydd; a ddichon efe roddi bara hefyd? A ddarpara efe gig i'w bobl? Am hyny y clybu yr Arglwydd, ac a ddigiodd; a thân a enynodd yn erbyn Jacob, a digofaint hefyd a gyneuodd yn erbyn Israel, am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei iachawdwriaeth ef." A'r camwedd mawr oedd hwn: "gosodasant derfyn i Sanct yr

Israel." Er hyny, "ni omeddwyd hwynt o'r hyn a flysiasant." Ac heblaw hyny, "efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddifethodd hwynt; ië, trodd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrodd ei holl lid, canys efe a gofiai mai cnawd oeddynt, a gwynt yn myned, ac heb ddychwelyd."

Pan ymdeithient drwy yr anialwch ni chai yr Israëliaid ladd a difrodi pobloedd yn ol eu mympwy a'u creulondeb. Rhydd eu Duw siars bendant arnynt pan yn myned trwy wlad Edom. Er mai bachgen gwyllt ydoedd Esau, a'i hiliogaeth ar ei ol, yr oedd wedi hanu o linach y fendith. Y mae yr Israëliaid yn gorfod ymddwyn yn foneddigaidd tuag at yr Edomiaid. "Yr ydych i dramwyo trwy derfynau eich brodyr, meibion Esau, medd yr Arglwydd, y rhai sydd yn trigo yn Seir, a hwythau a ofnant rhagoch; ond ymgedwch yn ddyfal. Nac ymyrwch arnynt: oherwydd ni roddaf i chwi o'u tir hwynt gymaint a lled troed; canys yn etifeddiaeth i Esau (chwareu teg iddo, er ei holl wylltineb!) y rhoddais fynydd Seir. Prynwch fwyd ganddynt am arian, fel y bwytaoch; a phrynwch hefyd ddwfr ganddynt am arian, fel yr yfoch. Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithiodd di yn holl waith dy law; gwybu dy gerdded yn yr anialwch mawr hwn; y deugain mlynedd y bu yr Arglwydd dy Dduw gyda thi, ni bu arnat eisiau dim." Drachefn pan y maent yn myned "ar hyd ffordd anialwch Moab," ac eilwaith yn dyfod "gyferbyn a meibion Ammon," y mae Duw yn cofio eu bod yn blant "Lot gyfiawn;" ac er y gorfu iddo dynu llen o ddystawrwydd dros derfyn hanes Lot, y mae ganddo barch i'w hiliogaeth er ei fwyn. "Na orthryma Moab," medd Duw, "ac nac ymgynull i ryfela yn eu herbyn hwynt, oblegid ni roddaf i ti feddiant o'i dir ef; oherwydd i feibion Lot y rhoddais ef yn etifeddiaeth." "A phan ddelych di gyferbyn a meibion Ammon, na orthryma hwynt, acn ac ymyr a hwynt; oblegid ni roddaf feddiant o dir meibion Ammon i ti; canys rhoddais ef yn etifeddiaeth i feibion Lot." Beth a

feddyliech oedd syniadau yr Israeliaid am eu Duw, wrth glywed y rhybuddion hyn? Rhaid eu bod yn teimlo fod Ei ffafr yn rhywbeth i'w fawr-brisio, gan fod hen gofion Ei drugaredd yn parhau cyhyd, yn gymaint a'i fod yn noddi hâd Ei bobl yn mhen cenedlaethau lawer ar ol iddynt hwy eu anghofio Ef!

Er fod eu Duw wedi cenadu iddynt ymladd a'r Canaaneaid, y rhai oeddynt wedi cyflawnu mesur eu hanwiredd, ac i gael eu dyfetha fel y gymwynas fwyaf i'r ddaear, y mae'r Arglwydd wedi trefnu eu rhyfeloedd mewn modd teilwng o hono Ei Hun. Y mae pedwar o ddosbarthiadau i gael eu rhyddâu oddiwrth rwymedigaeth i fyned i'r rhyfel; y blaenaf ydynt, y neb oedd wedi adeiladu tŷ ac heb ei gysegru; yr ail ddosbarth ydoedd y rhai a blanasant winllanoedd, ac eto oeddynt heb gael amser i fwynhau ffrwyth eu llafur; y trydydd dosbarth ydoedd y rhai a ddyweddiwyd i wragedd, ond oeddynt heb eu cymeryd hwynt; a'r pedwerydd dosbarth ydoedd y rhai ofnus a meddal eu calon, y rhai a gaent fyned i'w cartrefi, nid yn unig er eu mwyn eu hunain, ond rhag ofn iddynt lwfrhau calonau eu brodyr. Dyna bedwar o ddosbarthiadau na fuasai neb ond un "tosturiol iawn" yn foddllawn gwneyd y fath eithriad yn eu ffafr.

"Pan nesaech at ddinas i ryfela yn ei herbyn, cyhoedda iddi heddwch" yn gyntaf oll, "a bydded, os heddwch a etyb hi i ti, ac agoryd i ti; yna bydded i'r holl bobl a gaffer ynddi, fod i ti dan deyrnged, a'th wasanaethu," ac nid lladd a llarpio, a dim arall. Yna yn mhoethder y rhyfel, ni cheir taro a min y cleddyf ond "yr holl wrywaid." "Y benywaid a'r plant a'r anifeiliaid a yspeili, a thi a fwynhei yspail dy elynion," ond ni cheir eu lladd hwynt. "Pan warchaech ar ddinas lawer o ddyddiau, gan ryfela yn ei herbyn i'w henill hi, na ddifetha ei choed hi, gan daro bwyell arnynt, canys o honynt y bwyte; na thor dithau hwynt i lawr, oherwydd bywyd dyn yw pren y maes." Dyna reolau rhyfel digyffelyb am eu trugarogrwydd! Rhaid bod yr Israeliaid yn teimlo mai un tyner iawn oedd eu Duw hwynt!

Wedi iddynt gyrhaedd gwlad yr addewid y mae yn ymsefydlu fel y Tir-feddianydd. I fod yn atalfa ar raib cyfoeth y mae yn rhwystro iddynt drosglwyddo meddiant o'r naill i'r llall, gan sicrhau yr etifeddiaeth yn y teulu. "Eiddo fi yw'r tir; ni cheir ei werthu yn llwyr ac am byth, oherwydd dyeithriaid ac alltudion ydych gyda mi," meddai Duw. "Goror ei sancteiddrwydd" ydoedd holl wlad Canaan; ac am hyny tenantiaid o dan y Brenin Mawr oeddynt oll, a hyn a dueddai i feithrin tegwch a thynernwch yn eu trafodaeth a'u gilydd. Doethineb Ei drugaredd sydd i'w ganfod yn hyn!

Wedi iddo ranu y wlad yn etifeddiaethau rhwng llwythau a theuluoedd, os digwyddai i ddyn wrth ymdaith ddyfod i "winllan ei gymydog, yna bwyta o rawnwin dy wala, wrth dy feddwl; ond na ddod yn dy lestr yr un. Pan ddelych i yd dy gymydog, yna y cei dynu y tywysenau a'th law; ond ni chei osod cryman yn yd dy gymydog." Mor anrhydeddus, ac eto mor rasol! Yr un graslonrwydd sydd i'w ganfod yn y mân-drefniadau. Ni fuasai neb ond Duw sydd yn hynod am "diriondeb ei drugaredd" yn meddwl o gwbl am danynt. Ni cheir cyplu "ŷch ac asyn ynghyd" i aredig. Ni cheir "cau safn ŷch tra fyddo yn dyrnu." Ni cheir lladd buwch neu ddafad yr un dydd a'i llwdn; na berwi mŷn gafr "yn llaeth ei fam." Y mae wedi gofalu hyd yn nod am nythod adar bychain; ni cheir yspeilio y nyth gan gymeryd y fam ymaith gyda'r cywion. "Gan ollwng ti a ollyngi y fam, a'r cywion a gymeri," fel na byddo'r fam yn ymboeni wrth weled y cywion. Y mae rhyw agosrwydd naturiol a chynesrwydd tirion yn Ei drefniadau, teilwng o'r perchenog a'r Creawdwr. Hawdd gweled mai Efe a'u gwnaeth hwynt.

Ond yr oedd trugaredd Duw megis yn croni ar adegau. Bob saith mlynedd yr oeddynt i wneuthur gollyngdod. "A dyma wedd y gollyngdod. Gollynged pob echwynwr i'w gymydog yn rhydd ei echwyn a echwynodd efe: na ofyned hyny drachefn gan ei gymydog, neu ei frawd; canys cyhoeddwyd gollyngdod yr Arglwydd." Felly, os byddai un

tlawd yn gorfod benthycu gan ei gymydog, ac yn methu gwneyd heb yr hyn a fenthyciodd, fe gai ei gadw o'r seithfed flwyddyn ymlaen; oblegid amcan Duw ydoedd gwastatau meddianau'r bobl, "megis na byddo o honot ti gardotyn!" O ddwyfol Frenin caredig! "Chwe blynedd yr heui dy faes, a chwe blynedd y tori dy winllan, ac y cesgli ei chnwd. Ond ar y seithfed flwyddyn y bydd Sabbath gorphwysdra i'r tir, sef Sabbath yr Arglwydd; na haua dy faes, ac na thor dy winllan. Na chynhauafa yr hyn a dyfo o hono ei hun, ac na chasgl rawnwinn ni theclaiast: bydd yn flwyddyn orphwysdra y tir. Ond bydded firwyth Sabbath y tir yn ymborth i chwi: sef i ti, ac i'th wasanaethwr, ac i'th wasanaethferch, ac i'th weinidog cyflog, ac i'th alltud yr hwn a ymdeithio gyda thi. I'th anifail hefyd ac i'r bwystfil fydd yn dy dir, y bydd ei holl gnwd yn ymborth;" gan gofio am y dosparthiadau parotaf i'w hesgeuluso—y gwas cyflog, yr alltud, a'r bwystfil. Rhyfedd iawn ydyw trugaredd Duw!

Ond os oedd y seithfed flwyddyn yn hynod am orlifiad trugaredd dros yr holl wlad, y mae y seithfed o'r seithfedau hyny, sef y jiwibili, yn hynotach fyth. Dyma flwyddyn fawr trugaredd Duw, pryd y mae yn "llemain" fel Dafydd o flaen yr arch. Ar y flwyddyn hon y mae'r caethion oll yn myned yn rhydd, y dyledion oll yn cael eu maddeu, a'r tlawd oedd yn ei gyfyngder wedi gorfod gwerthu hen etifeddiaeth y teulu, yn cael ail-ddechreu byw yn yr etifeddiaeth, ac megis yn cael ail-gynyg ar fywyd. Hon oedd "blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd," neu flwyddyn anwyl Duw!

Yn awr, pa syniadau am eu Brenin a'u Duw a gynyrchwyd gan y trefniadau doeth a thyner hyn? Maddeuwch i mi am fyned mor helaeth a manwl drostynt; yr ydym wedi bod yn ymddifyru mewn cerdded ar hyd llwybrau sydd wedi eu troedio yn goch gan salmyddion a phrophwydi fu ar hyd-ddynt yn olrheinio eu Duw. Am enyd yr ydym wedi efelychu y Salmydd, "gan ymlawenhau ac ymhyfrydu yn nhrugaredd" y Goruchaf. "Bydded ymadroddion fy ngenau,

a myfyrdod fy nghalon, yn gymeradwy ger dy fron di, O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr."

II. *Cadarnhau syniad y Salmydd mai trugarog iawn yw Duw.* Gallasem wneuthur hyny trwy apelio at ddatguddiad helaethach a chyflawnach sydd yn hanes a phrofiad Dafydd ei hun, yn gystal ag yn hanes cyflawnach a diweddarach y genedl etholedig; ond prin y mae genym amynedd i wneuthur hyny, gan fawredd ein brys i roddi llam i'r Testament Newydd, i wrando'r mynegiad digyffelyb sydd yn synu nef a daear: "Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Nid yn unig y mae "Duw wedi llefaru lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy y prophwydi; ond yn y dyddiau diweddaf hyn, y mae wedi llefaru wrthym mewn Mab," a hyny trwy "ymddangos," ynddo, ac ymddangos i gyd yn Ei holl bersonoliaeth; ac mi a obeithiaf y medrwn ychwanegu "Ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd."

Y mae yn profi gwirionedd Ei undeb a'r ddynoliaeth trwy wneyd ein holl drueni yn eiddo personol. "Diau efe a gymerth ein gwendid, ac a ddug ein doluriau." Y mae ein holl glefydau megis yn ffoi o'i wydd. Ni fu neb farw yn yr un ystafell ag Ef, ac yr oedd yn beryglus i angladd fyned heibio iddo Ef ar y ffordd tua'r gladdfa, rhag ofn i'r hwn oedd yn gorwedd ar yr elor gael dianc adref ar ei draed ei hun. Yr oedd y canwriad Rhufeinig yn ystyried mai gweision iddo Ef dydoedd ein holl anhwylderau, fel tuag at wellhau claf, nid oedd raid iddo ond rhoddi gorchymyn i'w was Ei hun. Ys dywedai yr hynod bregethwr, Titus Jones: "Y mae gwas i ti wedi dyfod i'r tŷ acw, ac y mae wedi ymaflyd yn nghorn gwddf fy ngwas i, ac oddieithr i ti warafun iddo, a hyny yn fuan, y mae yn sicr o'i lindagu—Yn unig dywed y gair a'm gwas a iacheir." Yr oedd y gwahan-glwlyfus hwnw yn deall y medrai wneyd yr hyn na fedrai neb arall, sef iachau ei wahan-glwlyf—"os mynu ti a elli." Ac fe brofodd fod Ei

ewyllysgarwch yn o gymaint a'i allu. Yn y man Efe a ddywedodd: "mynaf, bydd lan. Ac wedi iddo ddywedyd hyny, ymadawodd y gwahan-glwyf ag ef yn ebrwydd, a glanhawyd ef." A phen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn: "Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni." Nid yn unig "fe ddug ein doluriau," ond yr hyn bâr fyth yn syndod, Efe a ddug ein holl ddrygioni hefyd, canys y mae "yn rhoddi ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraid." Prif destyn syndod y diweddar Barchedig a'r cyrhaeddgar William Roberts, o Amlwch, yn ystod rhyw salwch, ydoedd fod y Duw mawr wedi medru troi yr *abuse* gafodd Ei Fab yn ein byd, yn rheswm dros ei achub; ni fuasai yn synu o gwbl pe buasai yn rheswm ychwanegol dros ei ddamnio! Ond yr achos o hyn ydoedd fod y Mab Ei Hun wedi ein "caru yn ein hisel radd"—yn ystyr waethaf y gair!—ac er prawf o hyn, y mae yn gweddio drosom pan yn trengu o dan ein dwylaw! "O Dad, maddeu iddynt!" Yn y fan yma y byddaf yn teimlo fy ysbrydoliaeth benaf i addoli—ac yr ydwyf yn teimlo graddau o hono y munyd hwn. Rhaid i mi gael Ei folianu mewn ysgrifenu

"O gariad! O gariad! anfeidrol ei faint."

Y cariad anfeidrol hwn wnaeth ein iachawdwriaeth yn beth posibl trwy anghu'r groes!

III. *Ond nid ydyw trugaredd yn unig briodoledd yn Nuw.*
 "Gwel am hyny ddaioni a thoster Duw;" oblegid

"Ynddo'n rhyfedd cydlewyrcha,
 Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra."

Nid un-ochrog ydyw Duw'r Beibl, tebyg i syniadau mynych dynion am dano; ond ynddo cyd-gyferfydd pob rhagoriaeth. Nid ymhyfydaf fi yn y duw meddal, di-asgwrn-cefn, a addolir gan ein cymydogion Saesonig—un rhy dyner byth i gopsi, a rhy lednais i ofyn am iawn. Gwell genyf hen Dduw ein tadau, nid o barch iddynt hwy, ond am mai felly y tybiaf

y datguddir Ef ganddo Ef Ei Hun. I mi y mae cyfiawnder yn briodoledd hanfodol yn Nuw, ac nid yn ffurf ar Ei ddaioni. Tybiaf fod yn bosibl i ddyn llygredig gyfranogi yn helaeth o'r teimlad hwn. Pan glywom am weithred ysgeler yn cael ei chyflawni—ni waeth pa mor bell y bydd oddiwrthym—y mae greddf foesol o'n mewn yn gofyn am weinyddiad cosp, a hyny nid er mwyn atal y troseddwr i gyflawni yr un anfadwaith drachefn, nac i fod yn rhybudd i eraill ychwaith, ond mae y teimlad yn gweithredu gyda holl gyflymder greddf, cyn cymeryd i ystyriaeth ddylanwad dymunol y gosp arno ef ei hun, nac o bosibl ar eraill. Ond greddf bur o gyfiawnder ydyw—mor bur ag y gall unrhyw beth fod mewn creadur anmhur. Gwn fod dosbarth o dduwinyddion yn bod, ac athronwyr galluog tu cefn iddynt, yn dadleu mai yr unig reswm dros weinyddu cosp yn mhob llywodraeth ydyw “atal troseddu;” ac y mae y rhai hyn, os yn cydnabod y Beibl o gwbl, yn ymgysgodi tu cefn i'r gair bendigedig hwnw: “Duw, cariad yw.” Ond tra yn dymuno addoli wrth glywed y fath dystiolaeth, ni fedraf anghofio tystiolaeth arall sydd lawn mor bwysig: “Goleuni yw Duw.” Ond pe byddai raid i mi suddo y naill yn y llall, y cariad yn y purdeb, neu y purdeb yn y cariad, gwell fyddai genyf gredu fod holl dynerwch natur Duw yn tarddu o'i burdeb. Mewn pechod y mae culni a chaledrwydd; hunan-gais ydyw ei hanfod, fel y sylwasom eisioes; tra y mae eangder a thyrerwch mewn sancteiddrwydd. Ond tra y credaf fod cymeriad Duw yr un, fel Ei hanfod, credaf hefyd na fedr dynion olrheinio priodoleddau Ei gymeriad yn ol nes dyfod o hyd i'r unoliaeth hwnw, mwy nag y medrant olrheinio trindod o bersonau yn ol i undod Ei hanfod. Gwell gan hyny ydyw i ni dderbyn tystiolaeth syml y Beibl, Ei fod yn gyfiawn ac yn drugarog, a boddloni ar hyna. O leiaf, felly y credaf y cawn dduwinyddiaeth iachus a chyflawn, fydd cyflled a'r holl Feibl.

IV. *Yn y cyfuniad o'i holl briodoleddau y mae “y bendigedig a'r unig Benaeth” yn ymddangos yn ogoneddus o hardd. Y mae Ei*

gyfiawnder yn ymddangos yn harddach yn ngoleuni Ei drugaredd, a'i drugaredd yn ymbrydferthu yn ngoleuni Ei sancteiddrwydd. Y mae holl briodoleddau Duw yn adlewyrchu gogoniant ar eu gilydd. Yn y cydwead hapus o'r hyn sydd yn wahanol, a braidd yn wrthgyferbyniad, y triga gwir brydferthwch. Felly o leiaf y mae mewn natur. Y mae yn ffaith nad oes prydfferthwch mewn llinell uniawn; ond rhaid cael y cylchynol (*curve*) ynddi. Nid yw goleuni digymysg ychwaith yn hardd; rhaid cael y cwmwl i wneyd harddwch. Nid canol-ddydd yn y dwyrain sydd yn hardd, pryd y mae dysgleirdeb llachar brenin y dydd yn gwynu pob peth a thanbeidrwydd ei belydrau, ond diwrnod o hydref mewn hinsawdd gymysg fel yr eiddom ni. Yma yn unig y canfyddir y bwa na fedr neb ond y Creawdwr ei gamu a'i baentio, a lle ar ol gwneyd y gesid ef i orwedd ar ysgwydd rhyw gwmwl cyfagos. Hardd ydyw yn mhob gwlad lle y gwelir ef; ond ni welais liwiau yr enfys mor hardd yn un lle a phan yn pontio mewn tARTH-drochion raiadr gwyllt y Niagara. Os ydych am weled holl ogoniant haul yn machludo, rhaid i chwi aros am ddiwrnod manteisiol yn mis Hydref, pryd yr adeilada gastelli rhamantus a diddiwedd yn y cymylau, ac y corona eu holl adeiladau ag aur-ymylon. Felly y mae pob gwir brydferthwch; gwneir ef i fynu o ddoeth gyferbyniadau. Dyma ogoniant y dwyfol ganol-bwynt, cyd-grynhoad perffaith o briodoleddau cyferbyniol. Y mae yn Nuw ogoniant ofnadwy a gerwin—gyda pharch addolgar dymunaf eirio felly—oblegid y mae Ei eiddigedd dros anrhydedd Ei lywodraeth, ac uniondeb Ei gyfraith, yn ddiderfyn. “Y mae yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, ni all edrych ar anwiredd;” ac eto y mae enfys gogoneddus yn amgylchu y ddwyfol orsedd-fainc, nad ydyw pob enfys arall ond cysgodion gwan o hono. Y mae genym Dduw sydd yn ogoneddusach nag y dychymygodd yr un bardd, nac y breuddwydiodd yr un athronydd! “Addolwch ef, yr holl dduwiau!”

Eto, prif ogoniant y Duw sydd yn anfeidrol mewn nerth a doethineb, urddas a phurdeb, ydyw Ei drugaredd ; oblegid ymddengys fod Ei haelfrydigrwydd yn cyfodi o'i ymwybyddiaeth o'r pellder anfesurrol sydd rhyngddo a phawb arall. Mwyn, gan hyny, ydyw Duw trwy holl derfynau Ei lywodraeth ; er hyny, mwynach yr ymddengys yma nag yn un lle arall—oblegid dyma lle y mae Ei *hospital*. Dyma lle y mae yn iachau y rhai briwedig o galon, ac yn rhwymo doluriau, y rhai

“Trwy y cwmp, gadd farwol friw.”

Golygfa ardderchog a gafodd Esay pan “welodd yr Arglwydd yn eistedd ar eisteddfa uchel a dyrchafedig, a'i odre yn llenwi y deml. Y seraphiaid oedd yn sefyll oddiar hyny ; chwech adain ydoedd i bob un, â dwy y cuddiai ei wyneb, â dwy y cuddiai ei draed, ac â dwy yr ehedai. A llefodd y naill wrth y llall, a dywedodd : Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd Dduw y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef. A physt y rhiniogau a symudasant gan lef yr hwn oedd yn llefaru, a'r tŷ a lanwyd gan fwg.” Dyna adroddiad syml ond mawreddog Esay ei hun o'r amgylchiad ofnadwy ; ac nid ydym am geisio mewn un modd fychanu y gogoniant ; ond mewn gwyleidd-dra mi anturiaf ddywedyd, er hyny, fy mod i fy hun wedi canfod golygfa, sydd yn ngoleuni y Testament Newydd, yn uwch o ran nodwedd na'r hyn a ganfu Esay—a dichon fod llawer o honoch chwithau wedi canfod golygfa gyffelyb. Bernwch chwi gywirdeb fy nghasgliad. Un prydawn-gwaith mi ganfyddais eneth fechan ddiniwed a thlws yn ymddarpar ar gyfer myned i orphwys. Yr oedd wedi diosg ei dillad dydd, ac wedi gwisgo ei dillad nos ; yna plygai ar ei deulin gerbron gliniau ei mam, gan gau eu llygaid a phlethu ei dwylaw mewn ystum addolgar, ac adroddai yn dyner a gwylaidd weddi gymhwys a hwyrol Dr. Watts i blant bychain :

“Gentle Jesus, meek and mild,
Look upon a little child ;
Pity my simplicity,
Suffer me to come to Thee.”

Wrandawyr anwyl! Credais i mi'r funyd hono ganfod gogoniant uwch nag a ganfu Esay—gweled plentyn bychan yn medru cyfarch yr Hwn oedd yn eistedd ar nef y nefoedd, fel “*Gentle Jesus, meek and mild,*” a lispio ei dymuniad am iddo dosturio wrth ei *simplicity*, a goddef iddi ddyfod ato. Os gwn beth ydyw un amser blygu gerbron y Dwyfol Fawredd, mi ymgrymais, ac a'i addolais Ef y funyd hono!

Ymostyngiadau Ei drugaredd sydd yn ein cymhell i fyned ato, ac yn creu hyder ynom i ymddiried yn Ei ffafrau. Oni buasai hyn buasem yn arswydo, fel Dafydd, ac yn dywedyd, “Pwy wyf fi, O Arglwydd! a pha beth yw ty fy nhad?” Yn un o'r cyhoeddiadau Seisonig, darllenais am foneddwr yn Llundain oedd yn arfer pasio yr un ffordd adref, o'r ddinas fawr hono. Un diwrnod, dywedodd ei fod wedi gweled geneth fechan ag oedd wedi denu ei sylw ac enyn ei ddyddordeb yn anarferol; ond mai geneth fechan dlawd a diofal ydoedd, yn gwerthu blodau i bwy bynag a'u prynai. Gan fod ei briod o gyffelyb duedd, cymhellodd ef i ddwyn yr eneth fechan i'w gartref a'i hymgeleddu. Dranoeth, gwelodd yr un eneth, drachefn; gofynodd iddi a fuasai yn foddolawn dyfod i'w gartref, a chymeryd ei rhan o'r byd oedd arno ef. Nid oedd raid gofyn am gydsyniad neb arall; a dyna'r ddau yn myned i balas yn y West End. Wedi ei dangos hi i'w briod, hoffodd hono, fel ei gwr, yr eneth dlawd. Yna fe ddiogwyd ei dillad budron a charpiog, fe dorwyd ac fe gribwyd ei gwallt, ac fe'i gwisgwyd mewn newydd ddillad. Wedi gwneyd syberwyd arni, fe roddwyd rhyddid y ty iddi, ac ar yr un pryd fe ddangoswyd yr ystafelloedd cymhwysaf iddi. Ond yn fuan iawn, hi ddangosodd annhueddrwydd cryf i aros o gwbl o fewn i'r palas; ar y grisiau ac yn y porth y mynai fod. Dyna'r pethau tebycaf i'w hen gynefn. Yn fuan, darfu i rai o blant y ty deimlo dyddordeb ynddi, a cheisio ei denu i fewn i'r ty. Anrhegodd yr henaf hi a *muff* bychan i'w roddi am ei gwddf. Deallodd ei ystyr mewn munyd, a gwyddai pa fodd i'w wisgo; ond allan ar y grisiau yr oedd

hwnw yn cael myned. Rhoddodd yr ail eneth *doll* fechan iddi, yr hon a hoffodd yn ddirfawr, ond allan i'r porth yr oedd y *doll* yn cael myned. O'r diwedd, dyma'r eneth leiaf yn y ty, yn llusgo ei chadair fechan ar ei hol, ac allan i'r porth, gan eistedd yn ei hymyl, gofyn cwestiynau iddi, rhoddi ei braich am ei gwddf a'i chusanu, nes myned yn gyfeillion mawr. O dipyn i beth, hi enillodd ei serch a'i hymddiried nes y boddlonodd drigo yn y palasdy yn nghwmni'r plentyn o'r un oed a hi ei hun. Peidiwch a dibrisio'r gymhariaeth, fy nghyfeillion, y mae yn ddigon mawr i chwi a minau. Nid oedd y pellder oedd rhwng y *street arab* fechan hono, a'r boneddwr a'i deulu a'i balas, ond megis diddim yn ymyl y pellder oedd rhwng Mab y Brenin Tragwyddol a thrueniaid llwm, aflan, a drwg ar y ddaear; ond fe garodd y teulu, fe garodd ein natur, fe'i gwisgodd am dano, i gael marw ynddi drosom ni, ac i gael byw yn ein plith. Fe'i carodd a chariad tu hwnt i gariad gwagedd. Yr ydym ninau wedi Ei garu yn angerddol yn ol, ac wedi myned yn ddigon hyf arno i roddi ein breichiau am Ei wddf, a dywedyd wrtho, "Lle yr elych di yr âf finau; mi a gymeraf fy siawns am byth gyda thi."

"Nef y nefoedd fydd Ei garu,
Ei fwynhau a'i bur folianu."

Yr ydym wedi bod yn tremio hefyd ar y palas mewn dychymyg, yn ol y desgrifiad a gawn o hono. Braidd nad ydym yn arswydo rhagddo ar y cyntaf. Y mae pethau goreu y ddaear yn cael eu dyhysbyddu i ddesgrifio allanolion y nefoedd. Y mae aur yn ei heolydd; y mae perlau yn ei phyrth, a'r meini gwerthfawrocaf yn ei muriau—pa faint raid fod gogoniant y canol? Ond na ddigalonwch, anwyl gyfeillion, yr ydyf wedi bod yn llygadu ar hwnw i'r canolbwynt hefyd; dyma ddigon i'n tawelu byth: "Yr Oen sydd ar yr orsedd-fainc." Ni fuasai yn ddyogel i osod Oen ar orsedd-fainc un wlad arall; ond dyma ogoniant penaf y nefoedd. Fel Oen y mae ein Ceidwad anwyl yn myned i

deyrnasu byth ar Ei bobl. Gydag Ef, mi mentrwn hi, er tanbeidied y gogoniant!

Gwyliwch rhag "llid yr Oen," nid am Ei fod yn peidio, ond am Ei fod yn parhau yn Oen. Newydd ddywedyd yr ydym mai mwyn a thyner ydyw Duw trwy holl derfynau Ei lywodraeth; ac nid ydym am eithrio uffern! Hunanweinyddiedig fydd holl drueni y colledigion! Nid â neb o wrandawyr yr efengyl yno heb fyned trwy dagrau Mab Duw, a'r adgof o hyny fydd y peth poethaf a gyfarfyddi yno—byddant yn disgyn arnat fel dafnau poethion o dân! O bobl, gwyliwch, er pob peth, rhag diystyru a sathru trugaredd Duw!

PREGETH IX.

—:O:—

BYDDWCH BERFFAITH.

MAT. v. 48.—“*Byddwch chwi gan hyny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.*”

ONID oes sŵn rhyfedd a dyeithriol gan y geiriau hyn? Yn gymaint felly fel y mae yn anhawdd i ni eu cymeryd i mewn. 1. Y mae mawredd eu cynwys yn gyfryw fel y mae yn anhawdd i ni eu hamgyffred a'u sylweddoli. Bydd ambell beth yn ddiargraff arnom oherwydd ei fawredd. Y mae'r mawredd yn anamgyffredadwy; nid yw yn bosibl i ni ei gynwys mewn syniad clir a deallus. Er engraifft, geill dyn feddu syniad am fynydd uchaf ei wlad; am fynydd uchaf y byd, am faint y ddaear, er ei bod yn awr yn dechreu myned yn niwlog arno; ond nid oes ganddo un syniad am fawredd yr haul, yr hwn sydd dri-chant-ar-ddeg o filoedd o weithiau yn fwy na'r ddaear; a llai fyth y medda syniad am fawredd un o'r sêr sefydlog, sydd filoedd o weithiau yn fwy na'n haul ni. Geill dyn wneyd y darganfyddiad fod hyn yn ffaith; geill weithio allan y *problem* yn ol deddfau digyfnawid *mathematics*, a phrofi y *sum to a demonstration* yn ol egwyddorion sefydlog rhifyddiaeth. Ond llythyrenau *Algebra*, a ffigyrau rhifyddiaeth yw y mawredd, ac nid syniad yn ei feddwl. Y mae y maint yn ormod i'w gynwys mewn syniad. Felly am bellder. Geill dyn feddu syniad clir am daith a wnaeth ef ei hun; medr ddirnad pellder Abertawe oddiwrth Gaerdydd, pellder Abertawe o Lundain, pellder Abertawe o New York ac o Melbourne, er ei bod yn dechreu myned yn niwlog arno, os na wnaeth y fordaith; ond ni fedr ymsynio o gwbl am bellder Herschel oddiwrth yr haul, yr hwn sydd ddeunaw cant o

filiynau o filldiroedd; na phellder y seren sefydlog agosaf atom, yr hyn sydd dros ugain biliwn o filldiroedd. Y mae y pellder yn anamgyffredadwy. Ni fedr y meddwl ei gwmpasu. Yr un fath gyda phob syniad arall; hawdd yw ei gario y tu hwnt i amgyffred dynol; y syniad am gyflymder, pwysau, oerni, gwres, &c. Bydd yn hawdd profi eu bod yn wir, a siarad am danynt; ond ffigyrau a geiriau a ddefnyddir heb syniadau cyfatebol yn y meddwl. Er hyny, trwy ymdrechu am amser maith, y mae yn bosibl i ddyn synio llawer mwy nag a fedr ar y tarawiad cyntaf. Dyma y syniad o faint—maint y ddaear. Rhodder amser iddo i edrych dros y *map* a'r cwmpas yn ei law, i edrych a mesur y mynyddoedd a'r dyffrynoedd, y llynoedd a'r moroedd sydd arno, ac fe ddaw i gwmpasu yn ei feddwl faint y ddaear. Yn ganlynol, trwy bentru deg o fydoedd o'r un maintoli a'r ddaear ar eu gilydd, daw i feddu syniad am fyd sydd ddeng waith yn fwy na'r ddaear. Yna, geill bentru bydoedd o'r maint hwn ar eu gilydd drachefn, deg o honynt, nes y bydd ganddo fyd can waith mwy na'r ddaear yn ei feddwl. Ac felly yn y blaen, o radd i radd, fe ddaw o'r diwedd i feddu rhyw syniad brith am faint yr haul. Brith a niwlog, yr wyf yn addef, a fydd y syniad; ond y mae yn llawer gwell na'r peth oedd ganddo ar y cyntaf; oblegid mewn gwirionedd dim oedd ganddo y pryd hwnw.

Y mae arnaf ofn fod darlleniad y testyn wedi bod yn ddiargraff arnoch chwithau, ac oherwydd yr un rheswm, sef mawredd anamgyffredadwy ei gynwys. "Byddwch berffaith!" Nid yn gymhedrol dda; nid cystal a'r goreu o'ch cymydogion; ond yn anfesurrol uwch, yn berffaith; ie, "yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Onid yw y geiriau hyn: "Byddwch berffaith," wedi pasio trwy eich meddwl, fel y gwnai mynegiad o'r ffaith fod goleuni yn teithio gyda'r cyflymder o ddeuddeng miliwn o filldiroedd bob mynudd? Nid yw y naill fynegiad na'r llall yn cynyrchu un syniad cyfatebol i'w fawredd. Y maent yn

ormod i ddyn gael gafael o gwbl arnynt; o leiaf, heb lawer o amser i ddringo i fynu atynt. Rhaid i'r meddwl gael amser i gymharu a phentyru, a thrwy hyny ymagor ac ymledu, cyn y geill gymeryd gafael mewn gwirionedd mawr iawn.

2. Ar ol ymdrech feddylol i amgyffred, i ryw fesur er yn anmherffaith, fawredd yr hyn a osodir o'n blaen yn y testyn, y perygl fydd i ni anghredu; anghredu y posibilrwydd i neb gyrhaedd y nôd, ac anghredu difrifwch y neb a lefarodd y geiriau. Beth! Disgwyl i'r hwn a aned o wraig fod yn berffaith! Y mae ei anadl yn ei ffoenau, a'i sail yn y pridd; efe a genhedlwyd mewn anwiredd, ac a ymddyethriodd o'r bru, nes y mae megis peth aflan, heb fan glan na chyfan arno o wadn y troed hyd goryn y pen. Disgwyl i'r fath un a hwn fod yn berffaith! Y mae ei gydwybod eisioes yn halogedig, a'i ewyllys yn wan. Nid ydyw ei safon mor uchel ag y dylai fod; ond nid ydyw yn gweithredu i fynu a'r safon sydd ganddo. Braidd nad yw yr hen arferion drwg a ffurfiwyd ganddo wedi ymblethu am ei natur foesol, ac wedi myned megis yn rhan o hono ei hun, fel ag i wneyd ymddadrys o'u gafaelion y nesaf peth i anmhosiblwrwydd. Ac fel y mae efe, felly y mae pawb o'i amgylch; nes y mae y gymdeithas a'i hamgylchyna yn blwm wrth ei odreu, yn ei rwystro i godi byth uwchlaw ei gymdeithion. Onid yw disgwyl i'r fath un a hwn ymestyn at, a chyrhaedd perffeithrwydd, yn ynfydrwydd? Dyma y syniad a'r teimlad y mae yn beryglus i ddyn eu coleddu, ar ol sylweddoli i ryw radd fawredd anhraethol cynwys y testyn.

Onid y mae Iesu Grist yn berffaith ddifrifol. Y mae yn deall ac yn meddwl yr hyn a ddywed. Gwyr hefyd fod cyrhaedd y nôd yn beth posibl, oblegid daeth i'r byd o bwrpas i'w wneyd yn beth posibl. Teilynga Ei eiriau sylw ac ystyriaeth ddiifrifol. Codi safon crefydd a moesoldeb ydyw un o amcanion neillduol y bregeth ryfedd ar y mynydd. Nid oedd yr Iuddewon yn yr oes hono yn ymdrechu ond yn wanaidd i fod i fynu a'r hyn a ddysgid iddynt gan y "rhai

gynt;" ond dysga ein Hiachawdwr iddynt bethau amgenach. Yn y naill athrawiaeth ar ol y llall y mae yn codi y safon yn uwch ac yn uwch o hyd, nes y mae o'r diwedd yn ei chodi hyd y nefoedd, ac yn uwch na'r nefoedd. "Byddwch berffaith." Y mater fydd

TREFN YR EFENGYL I WNEUTHUR DYN YN BERFFAITH.

Er holl ddirywiad y ddynoliaeth trwy bechod, y mae rhyw reddf yn ei nhatur sydd yn ei harwain at y syniad o berffeithrwydd yn mhob cyfeiriad; ac oddigerth mewn ystyr foesol ac ysprydol i ymestyn at y perffeithrwydd hwnw. Yn mhob cysylltiad arall fe amlygir hyn. Ni all y plentyn chwareu na dysgu heb gyflawni rhyw gampwaith neu crchestwaith, yn mha un y bydd yn rhagori arno ei hun, ac yn ceisio rhagori ar ei gyfoedion. Wedi iddo dyfu i fesur oedran gŵr, daw i deimlo fod yn perthyn i bob gwybodaeth a chelfyddyd ryw ragoriaeth, nad yw efe eto wedi ei chyrhaedd, ond sydd yn bwysig i ymgais am dani. Nid yw yr *actual* byth cystal a'r *ideal* sydd yn ei feddwl. Yr anghyfartaledd sydd rhwng yr *actual* a'r *ideal* sydd yn peri ei fod yn aflonydd ac yn anniddig; a'r aflonyddwch, y *restlessness* hwn sydd wrth wraidd ei gynydd. Gan hynny, myned rhagddynt y mae dynion o oes i oes mewn gwybodaeth, a threfn, a chysur cymdeithasol; ond y mae ganddynt dir lawer eto i'w feddianu. Medd dyn hefyd ryw syniad, er ei fod yn wan ac yn niwlog, am berffeithrwydd moesol ac ysprydol; ond dyma lle y mae effaith y cwmp i'w ganfod yn amlwg, nid oes ynddo yr un ymestyniad at y perffeithrwydd hwn. Cawn ef yn cynyddu, ac yn gwellhau ei hun yn mhob cysylltiad arall; ond os gadewir ef iddo ei hunan, ar ei waeth y bydd yn myned mewn moes a chrefydd. Tra yr oedd ymherodraethau Groeg a Rhufain yn ymberffeithio yn y naill oes ar ol y llall mewn celfyddyd, a phob gwybodaeth; yr oeddynt ar yr un pryd yn ymlygru mewn moesau, nes o'r diwedd i'w llygredigaeth gyrrhaedd eithafoedd a brofodd yn ddinystyr iddynt. O ran gwybodaeth a gallu

celfyddydol, trefn a chysur cymdeithasol, disgwylia pob cenedl amser gwell i ddyfod; ond mewn ystyr foesol a chrefyddol, credant fod yr amser da, yr oes euraidd, wedi bod yn ol yn mhell yn eu hanes. Yn mlaen y mae pob rhagoriaeth i fod, ond rhagoriaeth mewn moes a chrefydd; y mae hono yn ôl. Dywedir gan rai, digon cydnabyddus a hanesiaeth gyffredinol i fod yn gymhwys i farnu, nad oes cymaint ag un engrhaifft i'w chael o genedl wedi gwella o ran ei moesau o honi ei hun, heb gyfryngiad a chymorth dwyfol. Tra y medd dyn ryw syniad am berffeithrwydd mewn moesoldeb a chrefydd, y mae yn y peth hwn, yn wahanol i'r hyn ydyw gyda phob peth arall, yn amddifad o awydd ac egni i feddianu y perffeithrwydd hwnw.

Ond medr yr efengyl godi dyn i ymestyn at berffeithrwydd yn ei ystyr uchaf a goreu. Y mae llawer ymgais wedi bod at wella dynion yn yr ystyr hon; eithr ni feddyliondd neb ond Duw yn Nghrist am wneuthur dynion yn berffaith, gan osod perffeithrwydd y Duwdod Ei Hun yn nôd i gyrchu ato. O ran hyny, ofer ac aflwyddianus ydyw pob ymgais allanol, hyd yn nod i wellhau dynion.

1. *Addysg yw y feddyginiaeth anffaeledig yn ngolwg llawer.* Addysg uchel, ac addysg gyffredinol, yn ol eu barn hwy, a newidiai wyneb y ddaear. Diamheuol y byddai hyny yn gaffaeliad pwysig, yr esgorai ar lawer o gysuron personol a chymdeithasol. Ni charwn ddyweyd gair yn erbyn lledaeniad addysg. Hawlfraint pob dyn ydyw addysg. Er hyny, na ddisgwylir gormod oddiwrth addysg. Meddwn ddigon o brofion yn barod na wna addysg gyfnewid anian ac egwyddor dyn. Hwyrach y gwna gyfnewid rhai o'i arferion. Bydd yn rhoddi heibio, efallai, arferion isel a fyddant yn ei ddarostwng yn gydstdad a'r anifail, er nad oes sicrwydd am hyny bob amser; ond os ymâd â phethau anifeiliaidd, ni wna ymadael a phechod fel y cyfryw; yn hytrach, bydd yn debyg o gymeryd ato mewn ffurfiau mwy *refined*, fel y gelwir hwy, ffurfiau sydd yn gofyn gallu uwch i'w cyflawni,

a ffurfiau mwy cythreulig. Pob cam a gymer oddiwrth yr anifail, a'i gyr yn nes at y cythraul. Dyma yw ffrwyth addysg heb grefydd. Yr oedd rhai o'r dihyrod penaf a welodd y byd erioed wedi cael yr wrtaith feddyliol uchaf, ac yn meddu y wybodaeth eangaf.

2. *Deddfwriaeth dda ydyw y moddion anffaeledig yn nghyfrif ereill.* Trwy ddeddfau manwl a chyfiawn y mae yn bosibl sefydlu trefn ar gymdeithas, gan roddi i bawb eu hiawnderau, ac eto sicrhau pob rhyddid cyfreithlawn. Rhagoriaeth cenedl wareiddiedig ydyw fod ganddi gyfreithiau sefydlog a didderbynwyneb, tra mai yr unig gyfraith yn mysg barbariaid yw mympwy yr hwn sydd yn digwydd bod ar yr orsedd. A pherffeithio y gyfraith ydyw llwybr dewisol rhai pobl i wella'r ddynoliaeth. Ond wedi y cwbl, ychydig o wir foesoldeb sydd i'w ddisgwyl trwy Weithred Seneddol. Nid wyf yn credu mewn *morality by Act of Parliament*. Dyledswydd cyfraith ydyw cospi pechod mor bell ag y byddo y pechod hwnw yn ymyraeth ag iawnderau pobl ereill; dyledswydd llywodraeth yw peidio rhoddi unrhyw gefnogaeth uniongyrchol i bechod. A dyma y cwbl a ellir ddisgwyl. *Police* yn unig yw y llywodraeth; ac ychydig o allu i ddiwyllio a choethi y ddynoliaeth a fedd y *police*. Atalfa, i ryw fesur, ar rysedd mewn pechod ydyw ar y goreu. O ran hyny nis geill unrhyw ddeddf, hyd yn nod deddf Duw Ei Hun, wella dyn; gwaethygu ac nid gwella a wna dyn llygredig wrth ddyfod i gyffyrddiad â deddf.

3. *Gwella amgylchiadau y dyn yw llwybr y trydydd.* Gwella ei dŷ a'i ardd; gwella ei wraig, a choethi ei chwaeth yntau. Rhoddir gwobrau am y cynllun goreu ar dŷ y gweithiwr; sefydlir cymdeithasau er dysgu gwragedd gweithwyr pa fodd i gogino yn y modd mwyaf blasus, ac i drefnu eu tai yn y modd mwyaf cysurus; cynygir gwobrau am y blodau harddaf wedi eu gwrteithio gan weithwyr, er mwyn cynyrchu ynddynt chwaeth at y prydferth, a'u dysgu i ddifyru eu hunain mewn prydferthu amgylchoedd eu cartrefi; a thrwy y pethau hyn a'r cyffelyb eu cadw allan o'r dafarn. Da iawn, mor belled ag y

mae y pethau hyn oll yn myned. Ond nid yw pob un o'r cynlluniau hyn ar wahan, nac i gyd gyda'u gilydd, ond egwan a dinerth iawn i effeithio unrhyw gyfnewidiad o bwys ar y dyn ei hunan, nac ar gymdeithas yn gyffredinol. Yn gyferbyniol i'r cynlluniau yma y mae'r efengyl yn ymgymeryd a chyfnewid y dyn, ac nid ei drwsio; diwreiddio y drwg o hono, ac nid atal y gordyfiant; sychu ffynon llygredigaeth oddimewn, ac nid atal y gorlifad; a'i addurno â phob harddwch a daioni sydd yn natur Duw. Y mae *boldness* dwyfol yn yr anturiaeth hon. Ni fuasai neb ond Duw yn ymgymeryd a gorchwyl mor fawr. Ffordd yr efengyl i wella dyn yw yn

I. TRWY DDANGOS IDDO BERSON GOGONEDDUS SYDD YN GRYNODEB O BOB PERFFEITHRWYDD; ac yn

II. TRWY GYNRYCHU YNDDO YSBRYDOLIAETH I YMDEBYGU IDDO.

I. *Y mae yr efengyl yn dangos i ddyn Berson anfeidrol hardd.* Ysbrydoliaeth yn codi o berson yw y gallu cryfaf i ddiwygio. Ychydig iawn o allu sydd gan ymresymu ac athronyddu. Yr oedd Socrates am guddio ei berson, a gosod yr holl bwys ar ei athroniaeth; ar ei gyfundrefn. Ond camgymeriad ydoedd hyny. Wedi i ddynion golli yr ysbrydoliaeth oedd yn ei berson, nid oedd dim nerth yn ei athroniaeth i'w gwneyd yn rhinweddol. Pa ddyben ymresymu a chnaf er ceisio ei wneyd yn anrhydeddus? Llafur ofer fyddai hyny. Ond dygwch adgofion am ei dad neu am ei fam, neu yr hen weinidog fu yn ei ddysgu pan yn llanc, a hwyrach y daw ysbrydoliaeth er daioni o un o honynt hwy. Trwy ysbrydoliaeth o Berson y mae Duw am wella'r byd. Ond nid oes neb yn ddigon mawr nac yn ddigon perffaith i fod yn ffynonell y cyfryw ysbrydoliaeth ond Iesu Grist. Efe ydyw'r esiampl. Ac fel esiampl y mae yn dysgu yn gystal ag yn cynhyrfu. Ceir yn Nghrist gynllun perffaith o fywyd, ac yr oedd angenrheidrwydd anheborol am hyny. Pe buasai unrhyw ddiffyg yn y patrwn, tebygol mai y diffyg a efelychid ac nid y rhagoriaeth. Yr efengyl yn unig

sydd yn gosod cymeriad dynol perffaith gerbron y byd; Iesu Grist yn unig, o bawb fu yn y byd, a feddyliodd am honi perffeithrwydd dibechod. Gwnaed llawer o honiadau rhyfedd a disail erioed; ond ni chawn neb heblaw Efe yn honi hyn. Peth hawdd ydyw honi, meddai rhywun; ië, ond y mae Hwn yn dal y prawf ar ol honi. Cawn y meddylwyr cryfaf ac iachaf, a'r dynion goreu trwy yr oesau, yn syrthio ger Ei fron, gan gydnabod nad ydynt yn cael ynddo na bai na diffyg; Ei fod yn berffaith. Nid yw yn bosibl rhoddi un cyfrif am hyn, ond yr un a ddyri Efe Ei Hun, sef mai Anfonedig y Tad ydoedd; mai o'r nef y daeth i lawr; ac felly nad cynyrch y ddaear ydoedd, ond Dyn a'r Duwdod ynddo yn trigo. Y mae yn rhydd oddiwrth bob neillduolrwydd a fuasai yn cyfyngu cylch Ei ddylanwad.

1. *Y mae yn rhydd oddiwrth neillduolion personol.* Medd pob dyn arall ar ryw wahanfodaeth, ar ryw unigoldeb sydd yn ei ysgar yn llwyr oddiwrth bawb; medd *individuality* sydd mewn gwirionedd yn *peculiarity*, yn yr hwn nid oes neb yn gyffelyb iddo. I'r graddau y byddo felly y bydd yn anghymwys gyfathrach i neb arall. Gwelwn ryw neillduolrwydd yn nghymeriad Abraham, Isaac, a Jacob, oedd yn eu gwahaniaethu yn amlwg oddiwrth eu gilydd; cawn ryw arbenigrwydd yn Moses, Dafydd, Elias, Petr, Ioan, Paul, ac Iago. Ni wnelai yr un o honynt y tro i fod yn *type* cyffredinol; nid ydyw y cymeriad yn ogyfartal; nid ydyw yn gyfan nac yn gyflawn. Ond y mae Iesu Grist yn rhydd oddiwrth bob neillduolrwydd personol; "yn berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim."

2. *Y mae yn rhydd oddiwrth bob neillduolion prydferthwch.* Bodola dau fath o brydferthwch, sef yr arddunol a'r tlws; y mawreddog a'r tyner. Ceir rhai golygfeydd mewn natur yn cael eu hynodi gan arucheledd mawreddog, lle y mae rhaiadrau gwylltion, creigiau erch a daneddog, a mynyddoedd banog yn tafu eu cysgodion pruddglwyfus i'r dyffrynoedd gwylaidd sydd mewn dystawrwydd ufudd yn llechu wrth eu traed. Hynodir golygfeydd ereill gan y tyner, y tlws, a'r cain; y dolydd yn

cael eu gwisgo a defaid ; y dyffrynoedd yn cael eu gorchuddio ag ŷd ; ac afon Duw, yr hon sydd yn llawn dwfr, yn ymddolenu trwyddynt. Bydd y doeth a'r chwaethus yn chwilio am eiriau cymhwys i ddesgrifio y golygfeydd amrywiol hyn, ac nid yn pentyru geiriau anghydrywiol yn ddiystyr fel y dyn y sonia Coleridge am dano, yr hwn a ddesgrifiai yn briodol olygfa fawreddog ar y môr cynhyrfus, a'r geiriau "*How majestic!*" ac yna ychwanegai "*How pretty!*" Ceir y ddau ddosparth yma o brydferthwch yn y byd moesol. Cryf, mawreddog, aruchel ydyw y naill ddosparth o rinweddau ; ond tyner a swynol yw y llall. Fel y mae y rhinweddau, felly hefyd y neb a'u gwisga. Ceir ambell ddynd fel y mynydd erch a chribog ; nerth a sefydlogrwydd sydd yn ei hynodi ; ofer fyddai disgwyl tynerwch oddiwrtho. Bydd un arall drachefn fel y ddôl yn llawn o feillion tyner a thlws ; ceir ynddo faint a fyner o garedigrwydd, ond dim cadernid. Ond am Iesu Grist y mae y mynydd a'r ddôl ynddo, y cadarn a'r tyner, y mawreddog a'r tlws.

"Ynddo'n rhyfodd cydlewyrcha
Dwyfol fawredd a mwneidd-dra."

3. *Y mae yn rhydd oddiwrth neillduolion rhyw.* Perthyna pob peth byw a wnaeth Duw i un o ddau ryw, gwryw a banyw. Nid yn unig perthyna y pysgod, a'r anifeiliaid, a'r ehediaid i un o'r ddau ryw hyn, ond felly hefyd y coedydd a'r llyisiau. Rhanwyd y ddynoliaeth hefyd i ddau ryw. a pherthyna priodoleddau a rhagoriaethau gwahaniaethol iddynt. Ond yn Nghrist Iesu nid oes na gwryw na banyw, ond cyfuniad mewn dynoliaeth gyflawn o nodweddion neillduol y ddau ryw. Nid rhaid cysylltu Mair Ei fam ag Ef er sicrhau i ddynolryw holl gynhesrwydd a thynerwch banyw sanctaidd ; y mae Iesu Grist yn dynerach na'i fam. Desgrifia y Pabyddion yr Iesu naill ai fel baban y rhaid cael mam i ofalu am dano ; neu ynte fel un caled, creulon, *severe*, ag y mae yn dda i ni fod ganddo fam dyner i leddfu Ei greulondeb, ac i dyneru Ei galedrwydd. Am hyny trwy Ei fam y maent yn ceisio myned

ato, pan fyddant yn myned ato; ond gan amlaf boddlonant yn unig ar fyned at Ei fam. Yn wir, Mair-addoliaeth yw crefydd y Pabyddion, ac nid Cristionogaeth. Mair sydd yn eistedd ar orsedd y greadigaeth ac yn cael ei haddoli fel duwies. Ond, fel y sylwa Robertson, cychwynodd y dirywiad anferthol hwn mewn syniadau amherffaith ac anghywir am ddynoliaeth gyflawn y Gwaredwr. Pob parch i Mair; fel etholedig fam i Waredwr y byd y mae "yn fendigedig yn mhlith gwragedd;" ond byddai yn fil gwell genyf ymddiried i dynerwch a thosturi ei Mab, yr Hwn sydd yn dynerach na'r tyneraf o ferched Efa.

4. *Y mae yn rhydd oddiwrth neillduolion cenhedlaethol.* Medd pob cenedl ar ei hynodrwydd ei hun, yr hyn a'i gwahaniaetha oddiwrth bob cenedl arall. Cyfranoga pob un i ryw raddau o neillduolion y genedl y perthyna iddi, ac y cafodd ei fagu yn ei chôl. Nid oes neb wedi llwyr ddianc oddiwrth y neillduolion cenhedlaethol hyn ond Iesu Grist. Dyma dystiolaeth y beirniaid galluocaf. Y mae Efe yn rhydd. Canfyddir y cymeriadau uchaf ac eangaf a welodd y byd erioed wedi eu llychwino â'r neillduolion yma; nid oes neb yn rhydd oddiwrthynt ond Iesu Grist. Oni bai Ei fod yn rhydd ni wnelai y tro i fod yn batrwn cyffredinol; i fod yn esiampl i bawb o bobl y byd. Fel y sylwa Goldwin Smith, cafodd Ei fagu mewn gwlad ag yr oedd dylanwad tair cenedl wahanol yn cydgyfarfod, sef yr Iuddewon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Pe buasai yn ddyn, a dim ond dyn, "buasai yn anfeidrol annhebygol," meddai yr awdwr hwnw, "iddo allu dianc ar bob adliw o wyllt-grefyddiaeth, a ffurfioldeb, a chulni yr Iuddewon; neu falchder gwleidyddol y Rhufeiniaid; neu ynte falchder meddyliol y Groegiaid." Ond y mae yr Iesu wedi dianc rhagddynt oll. Y mae mor ddifrychau ag yw o ddibechod; yn Fab y dyn, yn ystyr uchaf a goreu y gair.

Ei ragoriaeth digyffelyb Ef sydd yn gynwysedig mewn cydgyfarfyddiad o bob rhagoriaeth, a hyny yn y cydbwysedd a'r cymhesuredd perffeithiaf y gellir ei ddychymygu. Nid oes

un rhinwedd yn sefyll allan mewn arbenigrwydd, a'r arbenigrwydd hwnw i'w briodoli nid yn unig i'r ffaith fod y cyfryw rinwedd wedi gordyfu, ond hefyd fod ei ordyfiant wedi tlodi y cymeriad o'r yni a'r nerth angenrheidiol i gynyrchu rhinweddau ereill; fel pe byddai holl dwf y corff wedi rhedeg i un aelod, a'r aelod hwnw yn ymddangos yn anferth, nid yn unig o herwydd ei fod yn fawr, ond hefyd o herwydd y cyferbyniad sydd rhyngddo a'r aelodau eraill, y rhai sydd wedi eu crebychu o herwydd fod nerth eu twf wedi cael ei ysbeilio gan yr aelod gordyfianol. Nid ydyw Ei burdeb, Ei ostyngedd-rwydd, Ei gymwynasgarwch, Ei ddewrder, Ei uniondeb, Ei amynedd, Ei faddeugarwch, na'i hunanymwadiad yn sefyll allan *in bold relief* yn Ei gymeriad, fel y gwnaent yn nghymeriadau rhai o'r saint; ond y mae y cwbl wedi eu cyfuno yn y eyfartaledd perffeithiaf, heb wyrgamder na chymysgedd, na phrinder na gwendid; yn un cymeriad cyfan, cyflawn, a gogoneddus, fel, oni bai fod dyn wedi cael ei reibio gan uffern, na allasai syllu arno heb gael ei ddotio gan Ei brydferthwch.

Gan hyny, od oes ar neb chwant dal cymdeithas ag unrhyw brydferthwch moesol, ni raid iddo fyned i ymfyn am dano at neb arall; y mae'r cwbl yma yn yr Un. Dywedir am un cerflunydd yn ngwlad Groeg ddarfod iddo benderfynu cerfio allan o'r *marble* goreu ddelw o ddynes brydferth, a fyddai yn cyfuno ynddi ei hun bob prydfferthwch mewn banyw hardd. Er mwyn cyrhaedd ei amcan, sicrhaodd ymweliad oddiwrth holl wragedd a merched prydfferth Groeg, gan fenthycia rhyw gymaint o brydferthwch oddiwrth bob un i'w osod yn y gerfddelw. Erbyn i'r ddelw brydferth hon gael ei gorphen, aeth yn wrthddrych edmygedd ac ymhyfrydiad nid yn unig holl wlad Groeg, ond terfynau eithaf Ewrop. Od oes neb yma a garai gelfio ei gymeriad ar gynllun prydfferth, ni raid iddo wibio yma a thraw am ddefnyddiau prydfferth at saint yr Hen Destament na'r Newydd, y meirw na'r byw, ond y mae'r cwbl wedi eu crynhoi yn nghyd ynddo Ef.

“Pob gras sydd yn yr eglwys fawr
 Fry yn y nef, neu ar y llawr;
 Caf feddu'r oll, eu meddu'n un,
 Wrth feddu d'anian Di dy Hun.”

Gan hyny, dal gymdeithas ag Ef, a thi a sugni allan o hono Ef yr elfen sydd yn ddiffygiol yn dy gymeriad, a'r hyn y mae cymhwysder yn dy natur i'w dderbyn. O hono Ef y mae y cwbl i ddyfod, ond yn ol dy allu i dderbyn y derbyni o hono. O oleuni'r haul y tyn holl wrthddrychau natur eu lliwiau. Ceir pob lliw yn ngoleuni'r haul, ac ynddo ef yn unig y maent, nid yn y gwrthddrychau eu hunain. Sylwch chwi yn ngwyll y dydd, chwi a gewch weled y lliwiau yn diflanu fel y bydd y goleuni yn cilio. Medd pob un, yn ol ei natur a'i wneuthuriad, allu i sugno pelydrau neillduol, ac i wrthod y lleill, allan o'r haul; a dyna fydd yn cyfansoddi ei liw, neu ei liwiau. Paham a pha fodd y maent yn gwneuthur hyny, Duw yn unig sydd yn gwybod. Felly o Grist, Haul y cyfiawnder, y mae holl liwiau yr eglwys i ddyfod. Pan fyddo Efe yn tywynu ar yr enaid, bydd holl rasmusau y Cristion yn blaguro ac yn blodeuo, ac yn gwisgo lliwiau neillduol, yn ol fel y bydd yn derbyn neu yn gwrthod y dwyfol belydrau. Bydd un yn tynu pelydrau sydd yn ymliwio yn amynedd; un arall yn tynu lliwiau cariad brawdol; tra y gwelir un yn cochi fel y rhosyn gan zel ac eiddigedd dros ogoniant Duw, canfyddir un arall yn ymguddio mewn gwyleidd-dra pur fel y lili. Ac felly yn y blaen, gellir

“Ysprydoli pob blodeuyn
 Wrth ei liw ac wrth ei flas,
 Nes gwneyd gardd heb wybod i ni,
 Yn blanhigion dwyfol ras;
 Dyma'r pinc, a thraw'r carnasiwn,
 Dyma'r tulip coch ei liw,
 On'd yw rhai'n (fy mrawd) yn debyg
 I rasmusau dwyfol Duw?
 Dacw'r lili berarogled,
 On'd yw hona megis gras,
 Sydd yn perarogli'r ardal
 Ddedwydd hono tyr ef ma's?”

Ond pa mor brydferth bynag ydyw'r blodeu, cofiwn mai o'r Haul, Haul y cyfiawnder, y maent wedi cael eu lliwiau i gyd.

Yn awr, hwyrach fod rhywun yn barod i wrthddadleu mai athroniaeth a barddoniaeth ydyw peth fel hyn, nad yw yn ymarferol; fod y cymeriad yn rhy berffaith i ni Ei efelychu; fod perffeithrwydd yn creu pellder rhyngom, lle y mae cydymdeimlad yn diflanu. Gan hyny, cyfeiriwn at

II. *Yr ysbrydoliaeth sydd yn cyfodi o'i Berson.* Nid esiampl oer, yn sefyll mewn pellder oddiwrth y pechadur ydyw y perffeithrwydd; ond perffeithrwydd yr Hwn a'i carodd, ac a'i rhoddodd Ei Hun drosto. Ac y mae ffydd ynddo fel Gwardedwr, a chariad ato, yn uno y pechadur â Christ yn y fath fodd nes y mae yn meddianu Ei berffeithrwydd, gan Ei wneuthur yn eiddo iddo ei hun. Nid oes gwirioneddol undeb wedi ei ffurfio hyd nes y byddo y pleidiau wedi myned yn eiddo i'w gilydd. "Fy Anwylyd sydd eiddo fi, a minau yn eiddo yntau." A phriodol iawn y dywed y personau sydd yn priodi, yn ol gwasanaeth Eglwys Loegr, "A'm holl dda yr ydwyf yn dy gynysgaeddu." Nid ydyw yn briodas iawn nes y byddo eiddo y naill yn myned yn berchenogaeth i'r llall. Fe ymunodd ein Gwardedwr bendigedig â'r ddynoliaeth mor llwyr nes gwneyd ei holl ddrwg yn eiddo iddo Ei Hun. Nid yn unig fe wisgodd ein natur am dano Ei Hun, ond fe ymgysylltodd â hi mor llwyr nes meddianu yn Ei deimlad ei holl ddrygioni. Nid yn y fath fodd ychwaith fel ag i deimlo euogrwydd nac edifeirwch o'i blegid, oblegid ni fedr neb deimlo felly ond am ddrwg personol. Ond Efe a gywilyddiodd ac a alarodd o'i blegid mewn modd na fedrai neb ond Efe; am hyny gelwid Ef yn "Wr y gofidiau," a phriodol iawn y gallai ddyweyd, "Gwaradwyddiad y rhai a'th waradwyddant di, a syrthiodd arnaf fi." Nid yn unig cyfrifwyd pechodau y byd arno fel Machniydd, ond cyfrifodd yntau hwy iddo Ei Hun, yn eiddo iddo Ei Hun, nes galaru yn ddwys am danynt. A dyma alar o'r diwedd sydd yn gymaint a'r pechod; galar sydd yn gymaint ag urddas yr orsedd gafodd

ei diystyru; galar sydd yn ddigon gwerthfawr a phwysig i ddyfod yn elfen yn yr anfeidrol iawn.

Megis ag yr oedd Crist yn rhinwedd Ei undeb â'r ddynoliaeth yn meddianu ei holl ddrwg; felly y mae yr hwn sydd mewn undeb a Christ yn meddianu ei holl ddaioni yntau. Oblegid y mae yr hwn sydd yn credu yn Nghrist yn uno ei holl fôd ag Ef. Y mae yr undeb sydd rhyngddo a Christ yn undeb bywiol, yn undeb hanfodol, fel undeb y gangen a'r winwydden, yr aelod a'r pen; i.e., fel undeb y personau dwyfol a'u gilydd. "Megis yr wyt ti y Tad ynof fi, a minau ynot ti, y byddont hwythau yn un ynom ni." Ie, y mae yn bosibl i'r cydymdeimlad fod mor angerddol, nes y bydd y credadyn, mewn rhyw ystyr, yn colli ei bersonoliaeth yn Nghrist, yn gyffelyb i'r Apostol Paul, yr hwn a ddywedai: "Byw wyf fi, eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi."

Yn y gallu unol hwn, gwelir gwahaniaeth pwysig rhwng ffydd mewn person, a chrediniaeth mewn tystiolaeth. Nid ydyw yr hwn sydd yn credu fod y planedau yn olwyno yn entrych nen yn teimlo ei hun yn troi ynddynt a chyda hwy; ac nid ydyw yr hwn sydd yn taflu'r gareg i fynu, ac wrth ei gweled yn disgyn, yn credu ei bod yn disgyn yn ol deddf disgyrchiad sydd yn ei sugno i ganolbwynt y ddaear, yn teimlo ei fod ef ei hun yn syrthio gyda'r gareg. Ond y mae yr hwn sydd yn gweithredu ffydd ar y Ceidwad bendigedig yn trosglwyddo ei fôd iddo Ef, nes y mae yn cael ei groeshoelio gyda Christ, yn marw gyda Christ, yn cael ei gladdu gyda Christ, ac yn cyd-adgyfodi a Christ, mewn cydymdeimlad angerddol sydd yn ddirgelwch anamgyffredadwy i bawb ond sydd yn deall y *secret* trwy brofiad personol. Y trosglwyddiad bôd i Grist trwy ffydd ydyw sail cyfrifiad cyfiawnder Crist i bechadur gan Dduw, yr hyn oedd gwirionedd mawr y Diwygiad Protestanaidd. Nid *legal fiction* ydyw hyn; nid rhywbeth *artificial*, mympwyol, a disail, yw y cyfrifiad hwn; ond cyfrifiad ar sail undeb bôd. Y mae dyweyd fod y credadyn yn meddu cydymdeimlad moesol a chymeriad Crist

yn eiriad rhy wan; dyweder, yn hytrach, ei fod wedi bachu ei fôd wrth y Person bendigedig hwn, fel nad ydyw yn un anmhrïodoldeb na dianrhydedd yn Nuw i roddi iddo holl fanteision perffeithrwydd Crist Ei Hun. Gan hyny, nid oes dim damnedigaeth i'r hwn sydd yn Nghrist Iesu, eithr y mae yn gymeradwy yn yr Anwylyd; i.e., yn gyfiawnder Duw ynddo Ef. Megis ag y bydd lliwiau yn cael eu hadlewyrchu, a gwrthddrychau oherwydd hyny yn gwisgo lliwiau benthyciol, gan fyned yn goch, neu yn felyn, neu yn wyrdd, nid oblegid mai dyna eu lliwiau priodol eu hunain, ond oblegid yr adlewyrchiad oddiwrth bethau coch, melyn, neu wyrdd, sydd yn eu hymyl; felly y mae y credadyn sydd wedi trosglwyddo ei fôd i Grist, yngolwg Duw yn derbyn adlewyrchiad oddiwrth Grist, nes myned yn gyffelyb iddo, yn bur yn Ei burdeb Ef, ac yn hawddgar yn Ei hawddgarwch.

Nid yn unig y mae undeb a Christ yn sail cyfrifiad o berffeithrwydd Crist o du Dduw, ond hefyd yn sail meddiant o hono o du y pechadur. Undeb perthynas bob amser yw sail meddiant. Oherwydd hyn, ymfrostia y plentyn yn holl ragoriaethau ei dad, ac ystyria mai ei eiddo ef ydynt mewn cyferbyniad i bawb arall; ei dad ef ydyw. Yr un modd bydd y tad yn perchenogi holl ragoriaethau y plentyn, ac yn ymlawenychu ynddynt; ei blentyn ef ydyw. Felly hefyd y bydd catrawd mewn byddyn, os bydd un o honynt wedi enwogi ei hun am fedrusrwydd neu ddewrder, y maent oli yn ymfrostio ynddi. Ei heiddo hwy ydyw efe; y maent yn ei gario ar eu hysgwyddau, gan deimlo eu bod wedi enill clod yn ei glod ef. Felly y gwna cenedl yn eu gwroniaid; y mae y Prydeiniaid yn falch o'u Livingstone, yr Italiaid o'u Garibaldi, a'r Americanaid o'u Lincoln. Hawliai deg llwyth Israel ddeg rhan yn Dafydd, pan yr oedd yn cael ei ddwyn mewn rhwysg o Hebron i Jerusalem; ond gwrthodai llwyth Judah ei ranu, gan ddyweyd: "Ein câr ni yw efe." Y mae pob undeb yn sail meddiant. Bydd perchenog ffydd yn teimlo, nid yn unig fod Tywysog y Bywyd wedi dyfod i

mewn i'n teulu ni, nes bod bellach o'n cyfathrach ni, yn asgwrn o'n hasgwrn ni, ac yn gnawd o'n cnawd ni; ond teimla undeb pellach ac agosach ag Ef, sef undeb bôd. Y mae ei ymffrost, nid yn un dynol yn unig nac yn benaf, ond yn ymffrost personol, gan ei fod ef a'i Geidwad wedi myned yn un a'u gilydd mewn cwlwm nas gall bysedd na danedd angau ei ddatod.

“Eiddof fi yw fy Anwlyd,
Gwnawd cyfamod gwerthfawr, rhad;
Nid a pherlau'r byd ei seliwyd,
Ond a dwyfol, nefol waed.
Ac ni chym'rai'r India helaeth
A'i thrysorau sydd heb ri'
Am fy mraint, ac ni chymeraf
Holl feddianau'r nefoedd fry.”

Wel, medd rhywun, dyna'r pechadur yn dawel bellach uwchben ei ddigon. Y mae ei undeb a Christ wedi bod yn sail cyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo gan Dduw, ac hefyd yn sail meddiant o hono yn ei deimlad ei hun; gan hyny, y mae yn boddloni bod fel y mae, gan drigo yn wastad mewn pechod. O na; yn hollol i'r gwrthwyneb y mae y peth. O'r fan yna y cyfid yr ysbrydoliaeth am fod yn berffaith debyg iddo. Pa le y ceir ysbrydoliaeth debyg i'r hyn a geir yn yr undeb hwn? “Yr wyf yn cyfrif pob peth yn dom,” medd yr Apostol, “fel yr enillwyf Grist; ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist; sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd.” Wel, dyna ddigon, Paul; ni fydd eisiau dim yn ychwaneg arnat? O bydd; ni fydd hyna yn ddim ond dechreu; “Ac y'm ceir ynddo ef, fel yr adnabyddwyf ef, a grym ei adgyfodiad ef, a chymdeithas ei ddyoddefiadau ef, gan fod wedi fy nghydfurfio a'i farwolaeth ef. Os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw.” Mi a wn nad yw yn bosibl i mi ei gyrhaedd, ond yr wyf er hyny yn ymestyn am dano. Dywed fy rheswm na chyrhaeddaf berffeithrwydd yr adgyfodiad hyd yr adgyfodiad, ond myn fy

nghalon er hyny ledu dwylaw ato. O awyddfryd angerddol, onide? "Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisioes, neu fod eisioes wedi fy mherffeithio; eithr dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflyd yn y peth hwn yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu;" neu, "fel y gallwyf ymaflyd yn y peth," sef perffeithrwydd, "i'r hyn yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu." Amcan Crist Iesu, pan yr ymaflodd ynof fi, oedd fy ngwneuthur yn greadur perffaith fel Efe Ei Hun; a byth wedi yr ymaffiad hwnw yr ydwyf finau yn dilyn ar ol y perffeithrwydd, yr hwn oedd amcan ymaffiad Crist; ac ni fyddaf yn dawel nes cyrhaedd amcan uchaf Duw tuag ataf. O ysbrydoliaeth fendigedig, onide? Peidiwn a chamgyhuddo na chamdrin yr efengyl, gan droi gras Duw yn drythyllwch; o'r fan yma yn unig y cyfid ysbrydoliaeth i ymestyn at berffeithrwydd, a digon o nerth ynddo i gario ei feddianydd i ben ei daith. Diolch am yr efengyl; efengyl gogoniant y bendigedig Dduw!

Dyma y nôd i gyrchu ato, perffeithrwydd fel perffeithrwydd Crist; bod "yr un ffurf a delw ei Fab ef;" a dyma yr awyddfryd a'r llafur yn cael ei gynyrchu am ei feddianu. Tybed y cyrhaeddir y nôd byth? O gwneir yn y man. Y mae yn dyfod yn debycach debycach iddo bob dydd. Hwyrach nad yw y dyn ei hun yn gweled fawr o gynydd mewn tebygolrwydd iddo; ond y mae y dwyfol *artist*, y cerflunydd anffaeledig, sef yr Ysbryd Glân, sydd yn gweithredu yn y dyhead a'r llafur yna i gyd, yn gweled y cynydd. Dywedai rhywun wrth gerflunydd oedd yn gweithio ar *statue*, nad oedd yn gweled dim ol gwaith ar y cerflun oddiar pan fu yn edrych o'r blaen. "Oes y mae," meddai yr *artist*; "yr wyf wedi tynu y gewyn yna i fwy o amlygrwydd; yr wyf wedi newid rhyw gymaint ar blygion y dillad, ac yr wyf hefyd wedi newid yr *expression* yn y wefus." "Nid yw y pethau yna ond *trifles*," meddai yr edrychydd. "Hwyrach hyny," meddai yr *artist*, "ond o *drifles* y gwneir i fynu berffeithrwydd." Fe allai mai anhawdd fyddai i ninau ganfod llawer o gynydd y flwyddyn hon rhagor y flwyddyn o'r blaen;

nemawr o wahaniaeth yn yr amynedd, y cariad brawdol, y maddeugarwch, yr ymroddiad i wasanaeth Duw, a'r ffydd yn Ei addewidion; ond y mae yr *artist* dwyfol yn gweled; ac os mai *trifles* yw y gwahaniaeth, bendigedig fyddo Duw, fod yn bosibl iddynt fod yn *drifles* fydd yn gwneyd i fynu berffeithrwydd yn y man.

Ac O! dyna fydd yn olygfa hardd, dyn perffaith; eglwys berffaith. Yr oedd Adda ac Efa yn hardd yn mharadwys; y mae pob *artist* yn eu paentio yn hardd; ond mil harddach fydd y saint perffeithiedig. Harddwch diniweidrwydd plentynaid, harddwch nacaol, harddwch bod yn ddibechod yn unig oedd hwnw gynt; ond harddwch dynoliaeth gyflawn, wedi ymddadbygu ac wedi ymdrwsio yn y grasusau mwyaf addfed, fydd harddwch y saint; harddwch uwch o lawer iawn. O! fe fydd yn werth eu gweled! Fe fydd yn werth gan Dduw i greu diwrnod o bwrpas er mwyn eu dangos. "Byddant eiddof fi, medd Arglwydd y lluoedd, y dydd y gwnelwyf briodoledd;" neu fel y darllenir gan rai: "Byddant yn eiddo i mi, ac yn briodoledd, yn y dydd a wnelwyf;" y dydd yr ydwyf yn myned i'w wneuthur o bwrpas er mwyn eu harddel. Dyna ddyben mawr y diwrnod hwnw, cael Ei ogoneddu yn Ei saint, a bod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu. Fe fydd diwrnod neithior yr Oen yn ddiwrnod o wyl gyffredinol; yn *holiday* trwy holl greadigaeth Duw, pryd y bydd y cyrau pellaf yn ymgasglu ynghyd i weled y briodasferch, dynoliaeth berffeithiedig, yn cael ei chyflwyno iddo. Bydd oll yn ogoneddus o fewn, gemwaith aur fydd ei gwisg hi, mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y brenin! Y maent wedi eu dyweddio i'w gilydd er tragywyddoldeb; bellach dyma ddiwrnod y briodas. Fe'i carodd hi yn ei hisel radd; fe lafuriodd yn galed am dani, fe'i rhoddes Ei Hun drosti fel y sancteiddiai Efe hi, a'i glanhau a'r olchfa ddwfr trwy y Gair, fel y gosodai Efe hi yn eglwys ogoneddus iddo Ei Hun, heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond yn sanctaidd a difeius. Braidd na ddywedwn y

bydd y briodasferch mor ogoneddus a'r Priodfab, ac ni fydd dywedyd hyny yn cymylu dim ar Ei ogoniant, oblegid Ei dlysau Ef fydd am dani. O olygfa hardd! Clwyfedigion codwm Eden wedi eu gwneuthur yr un ffurf a delw Ei Fab Ef!

“Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn debyg idd eu Harglwydd
Yn dod i'r lan o'r bedd.”

Pwy na ddymunai fod yn eu plith? “Bendigedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen.” A chan mai gwir eiriau Duw yw y rhai hyn, ni a'u dywedwn drachefn: “Bendigedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen.” Gadewch gibau gweigion ffol, y byd yn ei holl rwysg, a'i gyfoeth, a'i feluswedd. Clindarddach drain dan grochan yw y cwbl i gyd. Gweddïwch gyda'r Apostol: “Ac y'm ceir ynddo ef.” Byddwn, gan hyny, berffaith, fel y mae ein Tad yr Hwn sydd yn y néfoedd yn berffaith.

PREGETH X.

—:O:—

Y GWAS DA A FFYDDLAWN.*

MAT. XXV. 21.—“*Da, was da a ffyddlawm, buost ffyddlawm ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.*”

BUOM heddyw yn hebrwng corph ein hanwyl a'n hybarch frawd ymadawedig i dy ei hir gartref; ac yr ydwyf yn dra hyderus ein bod, mewn myfyrdod a dychymyg, wedi hebrwng ei ysbryd anfarwol yn llawer pellach na'r bedd. Yn y byd mawr ysbrydol yr aeth efe enyd fer o'n blaen iddo, nyni a'i gwelsom yn ymddangos gerbron ei Arglwydd, ac a glywsom eiriau'r testyn, neu eiriau cyffelyb, yn cael eu dywedyd wrtho. Erbyn hyn, y mae efe ei hun wedi diflanu o'n golwg, yn anrhydedd a llawenydd ei Arglwydd; ac wrth ddychwelyd ar ol ei hebrwng mor bell ag y medrem, ni a chwenychem fyfrio ar yr hyn a welsom ac a glywsom. Pa beth a fydd iddo ef yn y dyfodol diderfyn sydd o'i flaen; ac os bydd i ni, yn ein gradd, fyw yn gyffelyb iddo, pa beth a fydd i ninau? A ydyw y testyn yn cynwys awgrymiadau ac egwyddorion a'n galluoga i dremio i dragywyddoldeb, a deall hanfodion dedwyddwch y saint, er nas gallwn wybod ei ffurfiau penodol?

Pwnc ag y bu dadlu mawr arno yn Nghymru, yn gystal ag mewn gwledydd eraill, ydyw natur y cymhellion a ddylem eu defnyddio fel anogaethau i gyflawni ein gwahanol ddyledswyddau; ai iawnder neu briodolder y dyledswyddau, wrth eu hystyried ynddynt eu hunain, neu a allem hefyd gymeryd i

* Pregeth draddodwyd ar yr achlysur o gladdedigaeth y Paroh. Lewis Edwards, D.D., Bala.

ystyriaeth y fantais a'r enill a ddeilliai i ni o'u cyflawni. Gyda mawr sel y gwrthwynebai rhai i ni apelio at ddim ond y rhwymedigaethau sydd yn codi oddiar wahanol berthynasau; tra yr oedd eraill gyda llawn cymaint o sel yn dadleu y gallem gyfeirio ein sylw at y wobr sydd yn dilyn ufudd-dod; i.e., elent mor bell a thaeru mai buddiant (*utility*) ydyw sail a hanfod pob rhinwedd. Hyn yn unig a fwriadwn ei ddweyd ar y pwnc yn awr ydyw, ein bod yn cael y ddau fath gymhellion yn Llyfr Duw. Llyfr mawr a llydan yw Llyfr Duw; nid ydyw yn eithafol nac yn unochrog; y mae gweddau cyferbyniol pob-gwironedd i'w cael ynddo. Y mae mor llydan ac amryw-weddog a'n dynoliaeth. Cynwysa y ddau fath gymhellion i ddyledswydd. Yn wir, y maent yn y ddameg y perthyna ein testyn iddi; cawn yma rwymedigaeth gweision i wasanaethu eu harglwydd, yn gystal a gwobr y gweision ffyddlawn. Ni fwriadwn sylwi yn awr ar wedd gyntaf y pwnc hwn, mwy nag ar ranau ereill y ddameg a'i haddysgiadau, ond esgyn ar unwaith at y wobr gynwysedig yn y testyn. Y mae o leiaf dri pheth yn gwneyd i fyny y wobr hon.

I. *Cymeradwyaeth a chanmoliaeth ei arglwydd i'r gwas ffyddlawn.* "A dywedodd ei arglwydd wrtho, Da, was da a ffyddlawn." Am hyn yr oedd wedi llafurio yn benaf. Dyma'r prif gymhelliad i ffyddlondeb yn nefnyddiad ei dalentau. I hyn eto, yn ddiau, y mae pob duwiol yn byw. Y mae ganddo amcanion ereill mewn bywyd, ond nid oes yr un nad ydyw yn cael ei gynwys yn, a'i sancteiddio gan, yr amcan goruchaf o ryngu bodd Duw. Tuedda ambell ddyn i amheu y posibl-rwydd o wasanaethu Duw bob amser, o herwydd yr anhmosibl-rwydd sydd bob amser i feddwl am dano. Ond fellir Ei wasanaethu Ef heb fod mewn modd uniongyrchol yn meddwl am dano. Er mwyn ei deulu y mae'r penteulu yn llafurio mor galed gyda'i orchwyl, fel y byddai i'w enillion droi yn gysgod uwchben ei wraig a'i blant, yn ymborth ar eu bwrdd, ac yn ddrillad clyd am danynt. Y mae cyd-ddealltwriaeth i'r amcan hwn wedi ei sefydlu rhyngddynt, er fod

prysurdeb ei waith yn ei rwystro yn fynych i feddwl am danynt. Neu, a newid y gydmariaeth am un arall o eiddo Dr. Caird, fe ellir gwasanaethu Duw a dynion ar yr un pryd, fel y mae y ddaear yn troi o gylch yr haul. Y mae ganddi ddau gylchdro—un cylchdro bychan ar ei hechel ei hun, yn rhinwedd yr hwn y mae yn troi y naill wyneb i'r ddaear ar ol y llall tuag at yr haul o fewn y pedair awr ar hugain, gan wneuthur dydd a nos bob yn ail; ac eto, wrth wneuthur y cylchdro bychan hwn, y mae yn gwneuthur hefyd ei chylchdro mawr blynyddol o gwmpas yr haul fel ei chanolbwynt. Felly y dyn duwiol; nid ydyw yn esgeulus yn nghyflawniad ei ddyledswyddau tuag at ei gyd-ddynion yn holl berthynasau ac amgylchiadau bywyd; eithr pa beth “bynag a wna, y mae yn ei wneuthur o'r galon, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion, gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbynia daledigaeth yr etifeddiaeth, canys yr Arglwydd Crist y mae yn ei wasanaethu.”

Rhyngu bodd Duw oedd unig amcan bywyd Paul. Am hyn yr ymorchestai. Chwenychai fod ei lafur a'i gymeriad yn gymeradwy gan y saint; eithr ni allwn ddywedyd ei fod yn ymorchestu i gyrhaedd hyny. “Pa un bynag ai gartref ai oddicartref y byddai, ymorchestai i fod yn gymeradwy gyda Duw.” Os methai enill cymeradwyaeth y saint, yr oedd yn medru clecian ei fysedd, a difateru mewn teimlad, a dweyd, “Bychan genyf fi yw fy marnu gan farn dyn—ein gorfoledd ni ydyw tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn symlrydd a phurdeb duwiol yr ymddygasom at bawb.” Ie, y mae wedi ei lyncu gan frwdfrydedd angerddol i'r amcan hwn, fel nad oes dim arall yn werth ymestyn ato mewn bywyd. Taflai ddiystyrwch ar raddau graddoledig sefyllfaoedd y ddaear. Anogai bawb i aros yn dawel yn y fan lle y gosodwyd hwy gan Ragluniaeth, a gwasanaethu Duw yn ffyddlawn yn y fan hono, fel yr unig beth pwysig mewn bywyd. “Pob un yn yr alwedigaeth y galwyd ef, yn hono arosed. Ai yn gaethwas y'th alwyd? na fydded gwaeth genyt, ie, pe gallet fod yn

rhydd, mwynha hyny yn hytrach." Hyny ydyw, aros lle yr ydwyt. Dyma'r darlleniad a gymeradwyir gan y nifer fwyaf o'r esbonwyr goreu. Hwn hefyd sydd yn ffitio'r cysylltiad. Nid gwarafun i'r caethion druain i ymdrechu yn gymedrol i wellhau eu sefyllfaoedd, ac i enill eu rhyddid, y mae'r apostol fel *peth sydd yn bechadurus*—oblegid nid ydyw felly, yn ol holl rediad yr Ysgrythyr—ond dyddanu a chalonogi y caethion y mae, trwy ddangos fod amcan uwchaf bywyd yn gyrhaeddadwy iddynt hwy, ac am hyny nad oedd yn werth y drafferth iddynt i geisio newid eu sefyllfaoedd. "A hyn," hefyd, "yr ydwyf yn ei ddywedyd, am fod yr amser yn fyr." Ber fydd eich arosiad yma; na fydded gwaeth genych am eich cyflwr blin fel caethion—"gwŷr rhyddion i'r Arglwydd ydych." Yn nheimplad brwdfrydig yr apostol, nid oes dim yn bwysig mewn bywyd, ond ein bod yn gwasanaethu Duw.

Y mae digon o ogoniant yn ngwasanaeth Duw i osod urddas ar y swydd a'r gwasanaeth distadlaf a gyflawnir drosto Ef:—

"—a servant with this cause,
Makes drudgery divine;
Who sweeps a room, as for Thy laws,
Makes that and the action fine."

Dywedai John Newton, pe buasai i Dduw anfon dau angel ar negesau drosto i'r byd hwn, un i ysgubo *crossing* mewn dinas fawr, a'r llall i lywyddu teyrnas eang, na fuasai gwahaniaeth gan yr angelion pa un o'r ddau orchwyl hyn a ymddiriedid i'r naill neu y llall; ei gyflawni yn ffyddlaw a theilwng fuasai eu pryder a'u hawydd. Dichon fod yma rai na alwyd mo honynt i lenwi cylchoedd uchel. Ychydig sydd felly. Un Dr. Edwards oedd yn y Bala ac yn Nghymru. Ond y mae yn bosibl i ni oll, yn y fan y gosodwyd ni gan Dduw, Ei wasanaethu Ef mewn ffyddlondeb. Gochelwch fod dim a wneloch hyd yn nod yn y galwedigaethau mwyaf cyffredin; ai aredig yn y maes, ai trwsio'r cloddiau, ai tori glo dan y ddaear, neu unrhyw orchwyl arall; yn cael ei wneuthur i neb llai na Duw. "Er gwerth y'ch prynwyd, na fyddwch weision dynion."

Dyma ydyw gwir uchelgais mewn bywyd, ac nid yr hyn a elwir felly yn gyffredin. Nid ydyw *ambition* plant y byd hwn ond cais am y gogoniant sydd oddiwrth ddyinion. Y rhai sydd yn uchelgeisio ydyw y rhai sydd a'u llygaid ar, ac yn ymestyn am, "y gogoniant sydd oddiwrth Dduw yn unig."

Ar ol crynhoi ein caion a'n bywyd i'r amcan o ryngu Ei fodd Ef, a rhoddi ein holl nerth yn yr ymgais, O mor felus fydd cael y cyfarchiad fydd yn sicrhau Ei gymeradwyaeth! Y mwyaf a'r goreu o bawb; y Bendigedig a'r Unig Benaeth yn dywedyd "Da"—"Well done!" Un na raid i ni betruso am ddiragrithrwydd Ei gymeradwyaeth! Prin y meiddiwn fwynhau cymeradwyaeth dynion yn fynych, gan ofn nad ydynt yn ddiwenaith. Ond fe esyd sobrwydd a phurdeb "y Cywir hwnw" ni yn ddi-bryder wrth dderbyn Ei ganmoliaeth. Mōr werthfawr fydd! Yr Hwn a'n carodd yn ein hisel radd, gydymdeimlodd â ni yn ein holl wendidau, eiriolodd drosom na ddiffygiai ein ffydd; Hwn o bawb i'n canmol; a'n canmol hefyd ar gyhoedd, yn nghlywedigaeth gweision ffyddlawn eraill, y rhai y bydd eu *loyalty* i'w Harglwydd yn peri iddynt gyd-lawenhau â ni, a thrwy hyny fwynhau ein llawenydd. "A phen ar y pethau a ddywedwyd," yn eu perthynas a'r achlysur presenol ydyw hyn; y llawenydd hwn yn ein brawd ymadawedig a gyflawnwyd er boreu dydd Mawrth diweddaf. Ac yr wyf yn tueddu i gredu iddo gael mwyniant yn nghyfararchiad cyntaf ei Arglwydd saif yn rhywbeth ar ei ben ei hun byth. Derbyniodd barchedigaeth uwchaf ei frodyr tra yma, ond ni chafodd ddim i'w gystadlu â hwn. Fe gâ lawer eto, dan wenau cymeradwyol ei Arglwydd, ond mi goeliaf y bydd *thrill* y cyfarchiad cyntaf yn un a gofir byth ar wahan i bob peth arall yn y nefoedd. Y sicrwydd sydd genym fod hyn oll wedi digwydd ydyw y sicrwydd mai i'w Arglwydd yr oedd Dr. Edwards wedi byw. Yr oedd ei dduwiolfrydedd yn fwy amlwg na'i dalent feddyliol. Cafodd barch mawr gan ddyinion, ond i'w Arglwydd yr oedd yn byw. Bu yn trigo yn hir yn y

Bala, eithr pererin oedd efe yn y tir. Yr ydoedd fel Abraham —“ yn dywysog Duw yn eich plith.”

II. *Cyfranogiad o lawenydd ei Arglwydd.* “ Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.” Yn nameg y testyn, perchenog etifeddiaeth sydd yn dychwelyd adref ar ol bod mewn gwlad bell yn ei meddianu, yn gwneuthur gwledd orfoleddus ar yr achlysur, ac yn gwahodd y gweision fu yn ffyddlawn iddo yn ei absenoldeb i gydgyfranogi o lawenydd y wledd. Yr hyn a awgrymir ac a bortreadir yma mewn rhan, ydyw Iachawdwr mawr y byd yn gorfoleddu yn nghorpheniad Ei waith ac yn nghyrhaeddiad Ei amcan, a'r saint, y rhai a fuant ffyddlawn iddo, yn cael eu gwahodd ganddo i gydgyfranogi o'i lawenydd. Wrth feddwl am fawredd ac anhawsderau neillduol Ei waith, ac yn arbenigol yr aberth digyffelyb a wnaeth, tueddir ni i ofyn pa faint o ad-daliad a fydd yn ddigon iddo am y draul yr aeth Efe iddi. Nid ychydig a fedr ddiwallu un o fath Hwn. Gellir boddloni meddyliau bychain â phethau bychain; ond rhaid i feddwl mawr gael pethau mawrion, yn enwedig os bydd wedi gwneyd aberth mawr. Ond pa faint bynag o ad-daliad a ofyna, fe'i câ. “O lafur ei enaid y gwel ac y diwellir.” Hoffa llawer fychanu y ddynoliaeth, a thrwy hyny ddibrisio cadwedigaeth dynion; ond nid felly y sieryd y Beibl—“Y mae ysbryd mewn dyn, ac anadliad (ysbrydoliaeth) yr Hollalluog sydd yn gwneuthur iddo ef ddeall.” Y mae wedi hanu—yn *emanation* o'r Duwdod mewn ystyr ddofn na fedrwn ei hesbonio; “oblegid ei hiliogaeth ef ydym ni.” Pa faint o sêr sydd yn gydbwys o ran gwerth ag un enaid a fedr ymresymu a dychymygu, a charu a gobeithio, iê, a fedr eu rhifo a'u mesur a'u clorianu hwy? Fe gynysgaeddwyd hwn ag anfarwoldeb gan Awdwr ei natur, a dyna ystyriaeth sydd ynddi ei hun yn ddigon i osod pwysigrwydd a dyddordeb ofnadwy ar ei fodolaeth. Cysyllter anfarwoldeb â'r creadur distadlaf, ac fe'i gwneir yn bwysig yn y fan. Dychymyga un ysgrifenydd fod y Creawdwr wedi gwneyd un aderyn anfarwol, ac yna wedi ei ollwng i fyned ar dragywyddol hynt drwy yr

eangder. Tybier fod y fath aderyn mewn bod, a'i fod yn wybyddus y deuai i olwg y ddaear hon rywdro ar ei daith, gallaf sicrhau y byddai holl yspienddrychau y byd yn disgwyl am ei ddyfodiad. Paham? Yn unig am ei fod yn anfarwol. Eithr pa faint gwell ydyw dyn nag aderyn? A'r hyn sydd yn chwyddo pwysigrwydd bodolaeth dyn yn ddifedur ydyw ei fod fel pechadur yn llywodraeth Duw wedi myned dan Ei wg, a thynu arno ddialedd a bery cyhyd ag yntau. Nid oes un ystyriaeth yn enyn dyddordeb pruddglwyfus yn fwy na'r ystyriaeth o ddyoddefaint. Dychymyga yr ysgrifenydd y cyfeiriwyd ato eisioes fod rhywun wedi gollwng saeth oddiar fwa at yr aderyn anfarwol, a bod y saeth wedi glynu dan ei fron. Y mae o hyd yn fyw, ac eto yn marw, ac i fod felly byth. Pwy na roddai y geiniog ddiweddaf ar ei elw i dynu y saeth o fynwes yr aderyn anfarwol! Yn awr, crynhoer y syniadau hyn at eu gilydd—dyn yn blentyn Duw, yn greadur galluog, yn anfarwol, ac yn ddyoddefydd—Ai anghredadwy genych i'r dwyfol Dad deimlo ei fod yn ddymunol ac yn werth ei achub? Ai annerbyniol genych dystiolaeth yr unig lyfr sydd yn adrodd yr hanes? “Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.”

Beth bynag a feddylia dynion celyd ac anystyriol, yn y gobaith o gyrhaedd y llawenydd o fod yn Iachawdwr byd colledig, y mae ein Gwardwr ni yn gwregysu lwynau Ei feddwl at yr orchest. Yf ysbrydoliaeth digon nerthol o'r amcan oedd ganddo i wroli Ei fryd, nes y mae “yn *diystyru* gwaradwydd, ac yn dyoddef y groes.” Y mae yn awr “yn eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw,” ac yn myned i mewn i'w llawenydd. Ac O llawenydd! teilwng o'r Duw sydd yn gariad i gyd—y *luxury* o achub colledigion! Pe caem olwg briodol ar y Dwyfol llawenydd, ni allasem lai na'i addoli yn gynhes ar y llawr.

Ond acw, fry, yn y wledd-ystafell, pwy mor gymwys i gyd-

lawenhau ag Ef a chyfranogion o'i iachawdwriaeth Ef? Nid oedd lle i'r syniad hwn yn y ddameg; eithr anmhriodol ydyw i ni ei anghofio. Cyn tynu yn ol y wahanlen sydd rhwng y byd hwn a'r byd anweledig, y mae Ioan y Difynydd yn tori allan i ddywedyd "Iddo ef, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef; *iddo ef* y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd." Wedi i'r llen gael ei thynu yn ol, pa ryfedd ei fod yn gorfoleddu wrth glywed preswylwyr y nef yn cyduno mewn dywedyd, "Teilwng ydyw yr Oen." Yno mae holl syniad y saint am deilyngdod yn cael ei foddhau. Nid ydyw felly bob amser yma. Yr hyn sydd yn diflasu anrhydedd y ddaear, ac yn ei wneuthur yn ddiwerth ydyw fod yr annheilwng yn llwyddo yn fynych i'w gipio, tra y mae'r gwir deilwng yn cael eu diystyru a'u sathru. Triniaeth arw gafodd Mab Duw Ei Hun ar y ddaear. Fel un wedi Ei daro gan Dduw, a'i gystuddio, y cyfrifwyd Ef yma. Gwreiddyn o dir sych, heb bryd na thegwch iddo, ydoedd. Er iddo weinyddu cymwynasau dirif, ceryg a godwyd yma i'w labyddio. Ys dywedai rhywun, trwy ystabl y daeth Efe i mewn, ac oddiar groes yn grogedig arni yr aeth Efe allan, o'r byd hwn. Ond pan yr esgynodd i'r nef, gosodwyd Ef ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd, ac y mae Ei holl saint yn gorfoleddu yn Ei lawenydd.

Llawenydd digymysg ydyw llawenydd y saint yn y nef; oblegid y mae Pwrcasydd eu dedwyddwch yno yn cyd-lawenhau â hwy. Pe buasai Efe yn absenol, ni fuasai gwerth, mi goeliaf, ar y dedwyddwch. Efe yw ei ffynhonell a'i ogoniant. Y mae llawenydd llawer buddugoliaeth enillwyd ar y ddaear wedi ei rhanu a'i hanurddo gan y ffaith fod llawer, oedd yn rhanog yn y frwydr, a'u lleoedd yn weigion yn y wledd. Mewn dystawrwydd y cofir am danynt. Ond am y nefol wledd, bydd yr Hwn enillodd y brwydrau i gyd yn bresenol fel Llywodraethwr y wledd, a phrin y gallasem gymeryd ein lleoedd wrth y bwrdd, pe buasai mab y Brenin

Tragywyddol wedi myned yn aberth bythol i'n cadwedigaeth. Mor werthfawr ydyw tystiolaeth y Beibl. Y mae'r Hwn fu farw er ein mwyn, yn awr yn fyw. Ei lawenydd *Ef* ydyw y llawenydd, a'i bresenoldeb *Ef* fydd yn ei goroni.

Hawdd iawn genym goelio y gall ein hanwyl frawd ymadawedig gymeryd rhan yn y llawenydd hwn. Yr oedd yr Arglwydd Crist yn cael lle mawr yn ei fyfyrdodau a'i serchiadau, canys yr oedd fel Ioan yr Efenglydd, "wedi gweled ei ogoniant ef; gogoniant megis yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." Gyda threiddgarwch eryraidd y chwiliodd i holl gelloedd duwinyddiaeth, a chyda nerth cawraidd yr ymaffodd yn ei holl ddyrus bynciau; ond firwyth ei astudiaeth ef ydoedd cael allan mai Person Crist ydyw canolbwynt duwinyddiaeth, a'i swyddau cyfryngol ydyw ei therfyngylch. Iddo ef, fel yr Apostol Paul, "Crist sydd bob peth, ac yn mhob peth." O! mor felus iddo fydd "llawenydd ei Arglwydd."

III. *Cyd-gyfranogiad yn anrhydedd ei Arglwydd.* "Buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer." Anhawdd ydyw i ni roddi ystyr bendant i'r geiriau hyn. Pa bethau wnant i fyny "y llawer" y gosodir y saint arnynt, nis gwyddom. Megis yn y ddameg gyfochrog—dameg y punoedd—y mae'r neb a fu yn ffyddlawn ar bum' punt, yn cael ei osod ar bum' dinas, a'r neb a fu yn ffyddlawn ar ddeg punt, yn cael ei osod ar ddeg dinas. Ond pa bethau a etyb yn y byd a ddaw i'r "dinasoedd" hyn nis gwyddom. Yr hyn a awgrymir ydyw y bydd yno ymddiried uwch, a chylch eangach o wasanaeth. A dyna ydyw hanfod pob anrhydedd—ymddiried. Felly y gwobrwyd Duw y rhai sydd wedi bod yn ffyddlawn mewn cylch bychan, trwy ymddiried iddynt gylch eangach. Dafydd, y bugail medrus a ffyddlawn, a farna Duw yn gymwys i'w osod yn frenhin ar Israel. Rhoddodd iddo ddynion i'w bugeilio yn lle praid. Gan fod Paul wedi pregethu cystal yn Jerusalem, ca yr anrhydedd o bregethu eto yn Rhufain (Actau xxiii. 11). Ar yr un egwyddor y gweithredir yn y byd

tu draw i'r bedd; rhoddi ymddiried uwch i'r neb sydd wedi bod yn ffyddlawn mewn ymddiried llai; oblegid nid awn byth yn rhydd oddiwrth rwymau i wasanaethu Duw. Fe ddichon mai y wedd hon ar y nefoedd ydyw y mwyaf iachusol ei dylanwad arnom.

Y mae yn wir y desgrifir y nefoedd weithiau fel gorphwysfa dawel, lle y gorphwys y rhai lluddedig. Pa ryfedd fod rhai blinderog y ddaear yn dyheu am dani fel y cyfryw? Dywedai Robert Hall pan yn dyoddef dan ddirdyniadau corphorol, mai nefoedd Richard Baxter, sef y "dragywyddol orphwysfa," yr oedd efe yn ei chwenych. Sonir bryd arall am dani, fel "dinas ag iddi sylfaeni, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Diamheu fod yr hen batriarchiaid yn blino ar fywyd crwydrol. Pan yn tynu y lloest i lawr mewn un lle a'i chludo yn drafferthus i'w gosod i fyny mewn lle arall, chwenychent y ddinas ansymudol a dyogel. Da gan lawer eto gofio am y ddinas hon. Ond amgylchiadau perthynol i'r nefoedd ydyw y pethau hyn; sefydlogrwydd y ddinas, a thawelwch yr orphwysfa. Heddyw yr ydym wedi bod yn siarad am bethau nis gallwn lai na'u hystyried yn *hanfodol* i'r nefoedd; cyfranogiad o gymeradwyaeth, llawenydd, ac ymddiried Duw.

Yn y nefoedd, yn ddiau, y bydd yr ymddiried mawr, a'r cylch eang o wasanaeth. Bychan ydyw y byd hwn, yn dda yn benaf i boblogi byd arall a phreswylwyr, ac yn lle i dreulio prentisiaeth mewn bywyd. Yn y byd ysbrydol y cawn ni fyw býwyd ar ei hyd. Acw mae mwyafrif mawr ein hiliogaeth ni. I'r byd hwnw y mae ein daear ni yn arllwys ei wyth can' miliwn trigolion bob rhyw ddeg-mlynedd-ar-hugain. A phwy a wŷr nad oes bydoedd ereill yn nghreadigaeth Duw yn arllwys eu poblogaeth yno hefyd, ac felly fod y byd mawr anweledig yn eangach na'r holl fydoedd gweledig yn nghyd, o gymaint ag y mae ysbryd yn bwysicach na chorff. Pe na chyfrifem ond cenedlaethau dynolryw trwy holl oesau y ddaear, a fu ac a ddaw, y mae yn rhaid ei fod yn ofnadwy mewn maint i dderbyn y fath arllwysiad. Tybed ai nid oes

yno amrywiaeth mawr yn nghyrhaeddiadau ei breswylwyr? Pa fodd y treulir ei faith dragywyddoldeb? Oni bydd yr hen drigolion yn dysgu y newydd-ddyfodiaid, y rhai mwyaf gwybodus yn dysgu rhai llai? Onid yw yn debygol fod yno athrofeydd mawrion; athrofeydd nad yw Coleg y Bala ond megis ysgol i blant yn eu hymyl? Onid yw yn bosibl, os nid yn debygol, mai i'w osod yn athraw yn un o brif golegau y nefoedd y symudwyd Prifathraw y Bala, ac mai dyma y "llawer" a ymddiriedwyd iddo gan ei Arglwydd? Beth bynag, byddai yn iachus i ni goelio, mai nid rhai hawddaf i'w hebgor yma sydd yn gymhwys i lenwi lleoedd pwysig y nefoedd. Dichon fod rhai o honoch yn anfoddlawn i'r fath destyn—"ffyddlawn ar ychydig"—i gael ei ddarllen yn nglyn ag angladd Dr. Edwards; ond yr oedd eich anfoddogrwydd yn codi oddiar syniad daear. Iaith Duw ydyw'r testyn. Ychydig yr ystyria Duw yr ymddiried mwyaf a roddodd i neb ar y ddaear; y pum' talent yn gystal a'r ddwy. Pwy fedr ddywedyd mesurau yr hyn a ystyrir yn "llawer" gan Dduw? Ar "lawer" Duw y mae ein hybarch frawd wedi ei osod bellach.

Nid ydym yn ol i neb mewn prisio yn uchel wasanaeth ein brawd, nac ychwaith mewn galaru ar ei ol, o herwydd maint ein colled. Credaf y cyd-addefem oll ein bod wedi colli y goreu a'r mwyaf a feddem fel Cyfundeb; ac o bosibl, a chymeryd pob peth i ystyriaeth, y mwyaf a fu gyda'r Methodistiaid erioed, ac y mae hyn yn ddywediad mawr, oblegid yr oedd ein tadau yn gewri. Creodd gyfnod newydd yn hanes Methodistiaeth, os nid yn hanes Cymru. Iddo ef yn benaf mai i'w briodoli safle bresenol addysg fel rhag-gymhwysder i'r weinidogaeth. Efe a ddechreuodd ddyrchafu, eangu, a choethi ein llenyddiaeth. "Fy Nhad, fy Nhad, cerbyd Israel a'i farchogion."

Yr unig gysur sydd genym, wrth feddwl am ein colled fawr, ydyw cofio fod Pen yr Eglwys wedi dywedyd na fydd "i byrth uffern orchfygu" yr eglwys sefydlwyd ganddo Ef.

Er cael colledion mawrion drwy angau mewn llawer oes a gwlad, y mae Sylfaenydd yr eglwys wedi gofalu, mewn rhyw ffurf neu gilydd, adferu'r colledion. Os esgynodd Moses i'r Ganaan nefol cyn arwain Israel i'r Ganaan ddaearol, cafwyd Joshua i orphen ei waith. Os aeth Elias mewn cerbyd o dân i ogoniant, disgynodd mwy na deuparth ei ysbryd ar Eliseus ar ei ol. Pan y mae seren danbaid yn ffurfafen eglwys Dduw yn machludo, yn y dwyrain cwyd un arall i'w lle; ac er na bydd cylchdro y seren newydd yn hollol yr un a'r flaenorol, mae yn llawn mor wasanaethgar. Felly y mae wedi bod hyd yn hyn yn hanes y Methodistiaid. Yr ydym wedi cael o hyd ddynion anfonedig Duw i wneuthur gwaith angenrheidiol i'n dydd dros ein Duw. Tra y pery Duw i anfon i ni ddynion nerthol, ysbrydoledig i'w gwaith, ni raid i ni bryderu am ddyfodol y Cyfundeb. O Dduw! na âd i ni fyned "yn dlawd o ddynion." Anfon eto "weithwyr i'th gynhauaf!"

Wel, rhaid i ni bellach ffarwelio. Eithr dros enyd fer yr ymadawn. "Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd." Ac O! mor felus fydd "cwrddyd yn y nef." Un o freintiau penaf bywyd ydyw cael cyfarfod â dynion y carem fod byth yn eu cymdeithas. A hyny a gawn, yn ol addewid ein Harglwydd, yr Hwn trwy Ei ymgnawdoliad sydd nid yn unig wedi dynoli y Duwdod i ni, ond sydd hefyd wedi dynoli y nefoedd.

PREGETH XI.

—:O:—

YR ARGLWYDD A'R ACHUBWR.

II PETR II. 20.—“*Yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist.*”

EIN hamcan ydyw sylwi ar gyfuniad y ddau enw a roddir, a'r ddwy swydd a briodolir yma i Iesu Grist. Wrth ddarllen a myfyrio y Beibl nid oes dim yn cael ei esgeuluso yn fwy na'r amrywiol enwau a geir ynddo. Ymddygwn tuag atynt fel pe baent yn hollol ddiystyr a diamcan, ac yn cael eu dewis gan y gwahanol ysgrifenydd, megis ar ddamwain. Dylem gofio fod i bob enw, ar y cyntaf, ei ystyr neillduol a'i amcan penodol. Mae yn wir ein bod ni erbyn heddyw wedi lliosogi enwau, ac yn eu harfer yn ffurfiol a diystyr. Ond nid ydyw Duw un amser yn gwneuthur felly. Ceir fod ysgrifenydd sanctaidd y Beibl bob amser yn rhoddi enwau pwrpasol i bawb ac i bob peth, ac yn neillduol i Fab Duw. Mae pob enw a roddir arno yn gyfaddas i oes, amgylchiadau, ac amcan yr ysgrifenydd, yn nghyd ag angenion neillduol y neb yr ysgrifennai er eu mwyn. Gallasai fod yn destyn ymchwil buddiol, yn gystal a dyddorol, i ni ymofyn am yr holl enwau a roddir ar Iesu Grist, o ddechreu yr Hen Destament i ddiwedd y Newydd, yn nghyd ag ystyr a chyfaddasrwydd neillduol pob un o honynt i'r amser a'r amcan. Y maent yn awr wedi eu rhoddi yn gyfanswm i ni i wneyd pob defnydd o honynt, ac yn eu lliosogrwydd a'u hamrywiaeth y maent wedi eu bwriadu i gyfateb i holl amrywiaeth meddyliau, i ddiwallu holl amrywiol angenion dynolryw, mewn amrywiol amgylchiadau, yn mhob oes a gwlad, hyd ddiwedd y byd, ac o herwydd eu nifer a'u hamrywiaeth, y maent o ran eu cynwys a'u defnyddioldeb yn anhysbyddadwy.

Cyfarfyddwn weithiau a chyfuniad o ddau neu dri o enwau. Nid yw hyn eto yn beth damweiniol a diystyr, eithr y mae gwirionedd newydd yn cael ei ddysgu trwy y cyfuniad, gwahanol i'r hyn a geid wrth ystyried pob un o'r enwau ar wahan; tebyg i'r hyn sydd yn cymeryd lle mewn fferylliaeth pan fyddo dau ddefnydd gwahanol yn cael eu cymysgu, a defnydd newydd yn cael ei gynyrchu nad yw ei natur yn un o'r ddau ddefnydd a'i cyfansoddodd. Gan nad ydyw enwau Crist yn cael eu pentyru ar eu gilydd yn ddireswm yn y Beibl, ni ddylem ninau fod yn ddiystyr o honynt. Dyma ychydig o'r cyfryw—Iesu Grist; y ddau hyn sydd yn cael eu cyplysu fynychaf, ac o herwydd eu bod yn cael eu cyplysu mor fynych, yr ydym wedi myned i edrych arnynt fel un, ond y maent yn ddau. "Iesu Grist ei Fab ef," "Iesu Grist y Cyfiawn," "Yr Iachawdwr Iesu Grist;" pan fyddo dau yn cael eu hieuo y mae gwirionedd newydd yn cael ei genedlu. "Arglwydd Iesu Grist," "Yr Arglwydd Iesu Grist Maby Tad," "Alpha ac Omega," "Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd," "Apostol ac Archoffeiriad," "Bugail ac Esgob ein heneidiau," &c. Ond y mae yr Apostol Petr yn ymddangos yn dra hoff o'r cyfuniad sydd yn y testyn. Yr ydym yn ei gael bedair neu bump o weithiau yn ei epistolau, a dwywaith mewn dwy bregeth. Er ei fod yn cael ei gynwys yn rhinweddol yn rhai o'r enwau sydd yn y rhestr a adroddasom, megis yn "Yr Arglwydd Iesu," eto yn y ffurf neillduol sydd yn y testyn, nid oes neb yn y Testament Newydd yn gwneyd defnydd o hono ond yr Apostol Petr. Hwyrach fod amrywiol wirioneddau yn cael eu dysgu trwy y cyfuniad o enwau y testyn, ond y gwirionedd mawr yr amcanwn ni sylwi arno ydyw:—

POD ARGLWYDDIAETH Y BYD YN LLAW YR HWN SYDD WEDI
YMGYMERD AG ACHUB Y BYD.

I. Mae pob cymhwysder yn yr Achubwr i fod yn Arglwydd.

1. Mae ynddo bob cymhwysder teimlad ac egwyddor. Yn hanes y byd nid ychydig ydyw yr arglwyddi a'r breninoedd

oedd yn anghymwys eu teimladau a'u hegwyddorion i'r ymddiried a roddwyd iddynt. Dybenion personol yn unig oedd ganddynt mewn golwg; ychwanegu eu hanrhydedd, mwyhau eu cyfoeth, porthi eu blysiâu a'u nwydau â moethau ac â phleserau, ac nid lleshau y deiliaid; eithr yn hytrach eu gorthrymu a'u hysbeilio fel bleiddiaid yn ysgleifio y defaid. Pan oedd y wlad yn tloedi, olwynion masnach yn arafu, pob anwybodaeth ac anghysur yn ffynu, dibris oeddynt hwy nes yr effeithiai hyn yn uniongyrchol arnynt hwy eu hunain. Yr oedd mantais y brenin a lles y deiliaid heb eu cysylltu; o ganlyniad ni theimlai ddim dyddordeb yn eu lleshad, ac nid oedd dim o'i hapusrwydd ef yn dibynu ar eu llwyddiant hwy. Ond yr Achubwr yw yr Arglwydd hwn. Mae Ei galon wedi Ei hamlygu mewn awyddfryd angerddol i achub. Gwnaeth bob aberth, hyd yn nod offrymu Ei Hun i'w gwaredu. Wylodd ddaagrau yn hidl uwchben eu trueni a'u hanghrediniaeth. "Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant yn nghyd, megis y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd, ond nis mynech." Nid oes dim niwed i'r deiliaid i'w ofni oddiwrth Hwn pan yn arglwyddiaethu arnynt; Ei lawenydd a'i ogoniant Ef ydyw lleshad dynion.

2. Mae ynddo bob cymhwysder gallu, sef gallu llywyddol. Nid pob achubwr sydd yn meddu gallu i fod yn llywodraethwr. Yr oedd Garibaldi yn meddu ar allu i achub ei wlad, ond nid oedd yn medru ei llywodraethu. Gallasai daflu ysbrydoliaeth anorchfygol i'w filwyr ei hun, a dychrynu y gelynion, a thrwy hyny achub ei wlad, gan beryglu ei fywyd ei hun yn yr ymgyrch. Wedi gwneyd hyn ofnid nad oedd yn alluog i lywyddu y deyrnas oedd wedi ei henill. Yr oedd yn ymwybodol o hyny ei hun, ac felly ymneillduodd i Caprera. Da oedd fod Cavour a Bricisoli i lywodraethu y wlad achubwyd gan Garibaldi. Nid oedd yr arglwydd a'r achubwr wedi cydgyfarfod yn yr un person. Mae yr anhawsder i lywyddu yn cynyddu gydag eangder llywodraeth a nifer yr *interests* sydd i ofalu am danynt. Hawsach ydyw llywodraethu teyrnas

fach na theyrnas fawr, a llywyddu byddin fach na byddin fawr. Mae rhai byddinoedd weithiau yn myned yn aflywodraethus o herwydd eu maint. Yr oedd byddin Xerxes felly am ei bod yn bum' miliwn a chwarter, a byddinoedd bychain Groeg yn medru ei threchu am ei bod yn *unwieldy*. Ond beth oedd byddin Xerxes at fyddin yr Arglwydd Iesu? Rhifwch yr aneirif greaduriaid sydd ganddo ar y ddaear, yn ymlusgiaid, pysgod, ehediaid, anifeiliaid a bwystfilod (Salm civ. 27, 28). Edrychwch gynifer o lysiau yn hadu had, a phrenau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth wrth eu rhywogaeth, sydd yn perthyn iddo. Pe y pallai un llysiuyn, nid oes ond Efe yn gwybod y canlyniadau. Dichon fod had y llysiuyn hwnw yn ymborth i ryw aderyn, neu ei wreiddiau yn fwyd i ryw drychfilyn, sydd yn gwasanaethu dybenion pwysig. Tybiodd y Ffrancod unwaith, o herwydd fod adar y to yn blino rhyw bobl, ac yn niweidio rhyw *interest* neillduol, y gallasant eu hebgor, a gwnaed darpariaethau i'w difetha; ond nid cynt y darfu i'r Ffrancod ddechreu eu lladd, nag y darfu iddynt ddarganfod fod aderyn y to yn ddolen bwysig mewn cadwen hir o achosion ac effeithiau hanfodol i lwyddiant a chysur y wlad, fel y gorfu i'r llywodraeth osod pris uchel ar ei fywyd, a chosp drom ar bwy bynag a feiddiai ei ddifetha. Gwers go dda i wlad mor falch oedd dangos iddi pa mor rhwymedig ydoedd i aderyn y to, ac yr oedd hyn yn enghraifft nodedig o eangder a manyldra llywodraeth yr Achubwr. Sylwch hefyd gynifer o ddynion sydd ganddo i'w llywodraethu, yn holl amrywiaeth eu cymeriadau a gwahaniaeth eu hamgylchiadau. I gyflawni hyn oll craffwch ar y miliynau deddfau sydd ganddo yn ymwau trwy eu gilydd fel gwe y prif-gopyn, ac sydd yn llaw y Brenin fel ffrwynau y meirch yn llaw y cerbydwr. Byddent yn sicr o ddrysu rhwng bysedd pob dyn ond y Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo. Nid yw y ddaear chwaith ond talaeth yn Ei ymherodraeth. Mae y ser, sydd yn ysmician yn y nos yn heidiau, filoedd o weithiau yn fwy na'r ddaear; ac i gyd, o bosibl, yn cael eu

poblogi gan greaduriaid sydd yn ymarferol yn aneirif. I'w lywodraeth Ef, drachefn, y perthyn y byd ysbrydol, yr hwn sydd o bosibl yn eangach nag yw y greadigaeth faterol, o gymaint ag y mae enaid yn bwysicach na chorff; ac y mae holl thrônau, tywysogaethau, ac arglwyddiaethau y byd hwn yn ddarostyngedig iddo, ac wrth Ei lywyddiaeth Ef. Y mae yn gofyn gallu anfeidrol at hyn oll. Ond y mae hwnw ganddo, o herwydd fod cyflawnder y Duwdod yn trigo ynddo, yn gorfforol. Cawn hyd y nod Socinus yn cydnabod dwyfoldeb y Crist dyrchafedig. Yn sicr, y mae yr Achubwr yn meddu pob cymhwysder i fod yn Arglwydd.

II. *Gwobr am Ei waith fel Achubwr ydyw Ei Arglwyddiaeth.* Dringo i'r orsedd yr ydoedd wrth ymddarostwng. Hyn sydd yn cysoni Ei sefyllfa isel ar y ddaear, a'i honiadau uchel wrth ymadael a'r ddaear. Ffrostiai bethau mawrion yn nghanol dirmyg a gwarth; nid fel ynfyd-ddyn yn brolio pethau disail o herwydd dyrswch synwyrâu, ond mewn tawelwch dirodres a pherffaith hunanfeddiant. Y Gŵr fu yn byw ar elusengarwch ychydig gyfeillion tlodion, heb le i roddi Ei ben i lawr; fu yn gorfod benthycu oddiar bysgodyn ddefnydd talu treth; y Gŵr y tynwyd blew Ei gernaui, ac y poerwyd yn Ei wyneb, a wisgwyd mewn gwawdwisg freninol i'w wneyd yn wrthddrych digrifwch digymysg; y Gŵr y bu merched Jerusalem yn wylu mewn tosturi wrth Ei weled yn dwyn Ei groes, a'r fforddoliau Iuddewig tua'r wyl yn ysgwyd eu penau mewn gwawd wrth Ei ganfod yn ngrôg ar bren, ac oedd heb gymaint a beddrod i osod Ei gnawd marw i orphwys; ac heb ganddo na maes na thŷ; y Gŵr hwn, cyn pen deugain niwrnod ar ol yr amgylchiadau gwaradwyddus hyn, amgylchiadau na buasai dyn cyffredin yn medru codi ei ben byth ar eu hol, ddarfuo ymddangos ar ben mynydd yr Olewydd yn berffaith ddigywilydd a dirodres fel Arglwydd pawb oll. Sylwch ar Ei holl ysgogiadau; mae Ei osgo yn berffaith naturiol; edrychwch i fyw Ei lygad, a gwelwch Ei fod yn eithaf tawel, heb ddim gwylltineb gorphwyllog, dim ond serch angerddol at y dysgyblion mae yn

adael ar ol. Nid oes modd camsynied am dano; yr un ydyw ag a fu rhwng y lladron; mae ol yr hoelion yn Ei draed a'i ddwyllaw; ond gwrandewch beth a ddywed—"Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." Pa fodd y cysonir yr honiad a'r fath amgylchiadau? Wrth gofio ma'i gweithio Ei ffordd at y goron yr oedd yn mharthau isaf y ddaear. "Er mwyn hyn y bu Crist farw, fel yr arglwyddiaethai ar y meirw a'r byw hefyd. O herwydd pahan Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad." Fe adfeddianodd Ei ogoniant cyntefig fel Person dwyfol, ac fe gyd-ogoneddwyd Ei ddynoliaeth. Dysgeidiaeth amlwg y Testament Newydd yw fod y Mab, yn y dechreuad, yn gydradd a'r Tad, ac iddo ddyfod dros dymhor yn is-radd, ac yna iddo gael Ei adsefydlu yn y cydraddoldeb gwreiddiol. Yr Hwn ac Efe yn ffurf Duw, agwedd Duw, sefyllfa Duw; yn etifeddu hawliau, yn derbyn anrhydedd, yn mwynhau dedwyddwch Duw; ac o ran Ei sefyllfa yn Dduw; nid oedd yn ystyried hyny yn drais, Ei hawl wreiddiol ydoedd, ac nid oedd neb yn ei hameu. Efe a'i gwaghaodd Ei Hun, sef o ffurf Duw i gymeryd arno agwedd gwas. Newidiodd sefyllfa Duw am eiddo dyn. Ni pheidiodd a bod yn Dduw; newid y ffurf neu sefyllfa yn unig a wnaed, i'w wneyd mewn cyffelybiaeth dynion, ac yna bu ufydd hyd angau, i.e., angau y groes. Dyna y disgyriad.

Wedi bod yn mharthau isaf y ddaear, a gorphen fel gwas y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur ar y ddaear, cawn Ef yn son am ddychwelyd. Wrth glywed hyn mae y dysgyblion yn anfoddlon ac yn tristau. Cysura yntau hwy trwy ddweyd y byddai hyny yn llesol iddynt hwy, y gofalai am danynt drachefn, ac y dychwelai i'w cymeryd ato Ei Hun. Parhau i dristau y maent hwy er hyny; y mae yntau yn rhoddi sen iddynt yn dawel am eu *selfishness*, am nad oedd eu cariad yn

anhunanol. Os ydych yn parhau i gredu, er pob peth yr wyf yn ddywedyd wrthych, y bydd fy ymadawiad yn golled i chwi, dylech foddloni a llawenhau er fy mwyn i. Bydd yn ddyrchafiad mawr i mi, o sefyllfa o israddoldeb, i sefyllfa o gydraddoldeb a'r Tad. Y mae fy Nhad yn awr yn fwy na myfi; ond nid yw i barhau felly. Wedi i mi esgyn ato, byddaf yn cyd-eistedd mewn cyd-anrhydedd, ac yn cael fy ngogoneddu gyda'r Tad a'r un gogoniant. Llawenhewch ynte er fy mwyn i. Braidd na ddywedwn Ei fod mewn rhyw ystyr, a thros dymhor, wedi Ei ddyrchafu i sefyllfa uwchraddol i'r Tad. Oddiwrth amrywiol awgrymiadau gellid dychymygu fod y Tad yn awr yn dibrisio Ei Hun er mwyn anrhydeddu y Mab; yn gwaghau Ei Hun o ryw bethau perthynol i ffurf Duw, ac yn eu trosglwyddo i'r Mab, yn wobr iddo yntau am gymeryd arno agwedd gwas; yn tynu rhai o'r perlau gwerthfawrocaf yn Ei goron Ei Hun, ac yn eu planu yn ychwanegol at y perlau sydd yn nghoron y Mab. "Y mae y Tad yn caru y Mab, ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef. Canys y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab. Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." Nid fod y Tad wedi Ei ddarostwng i'r Mab, y mae hyny yn cael ei wadu: "Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg yw mai oddieithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo;" ond y personau dwyfol sydd yn anrhydeddu Eu gilydd. Nid oes dim anghydweddol a holl ysbryd yr iachawdwriaeth yn y syniad fod y Tad, am dymhor, yn ymwadu yn wirfoddol a rhyw *prerogative* perthynol iddo fel Duw, er mwyn anrhydeddu y Mab yn Ei deyrnasiad cyfryngol. Ond wedi i'r Mab orphen Ei waith a chyflawni Ei amcan, mewn darostwng Ei holl elynion a dileu pob pendefigaeth a phob awdurdod a nerth, yna y rhydd y deyrnas i Dduw a'r Tad; fe eistedd y personau dwyfol yn Eu trefn gyntefig, mewn cydraddoldeb diddiwedd, a bydd Duw fel Duw, yn Drindod mewn undod, oll yn oll am byth.

Gan mai o herwydd yr hyn a wnaeth fel Achubwr y mae Efe wedi enill llywodraeth y byd, fe ddylai y Cristion edrych ar yr holl fendithion sydd yn cael eu cyfranu gan y Brenin, fel bendithion sydd wedi dyfod trwy y groes. Nid yn unig prynedigaeth trwy Ei waed Ef, sef maddeuant pechodau; nid yn unig mabwysiad trwy ffydd yn Ei waed Ef, a sancteiddiad yn enw yr Arglwydd Iesu; ond bwyd a dillad, aelwyd a chysuron y bywyd hwn, yn llawn cystal. Nid oes hawl gan drugaredd, o unrhyw natur, i ddyfod i'n byd ni i ymgeleddu pechadur euog, ond trwy y groes. Dyma'r *pass* sydd dros *Alps* euogrwydd y byd. Mae annuwiolion y byd yn ffortunus iawn mai yr Achubwr sydd ar yr orsedd, ac fe ddylent fod yn ddiolchgar iawn iddo, oblegid oni bai mai Efe sydd yn llywodraethu, ni chawsent ddyferyn o ddwfr oer ar y ddaear mwy nag yn uffern.

III. *Gorphen Ei waith fel Achubwr y mae Efe wrth arglwyddiaethu.* Nid oedd Efe wedi gorphen Ei holl waith fel Achubwr pan yr ymadawodd a'r byd, ond yr oedd wedi gorphen gwaith y ddaear. "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear, mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur." Yr oedd ganddo waith fel offeiriad heb ei orphen; gwaith y rhaid ei gyflawni yn y cysegr nefol. Pe buasai yn aros ar y ddaear, ni buasai ganddo le na hawl i offrymu; llwyth Levi a theulu Aaron yn unig oedd i fod yn yr unig le awdurdodedig ar y ddaear. Ond Efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, a lle mwy rhagorol, i weinyddu gwaith Ei swydd. "Canys nid i'r cysegr o waith llaw, portreiad y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i ymddangos gerbron Duw trosom ni." O'r nefoedd hefyd y mae fel Brenin yn llywodraethu Ei eglwys, ac yn llywodraethu pob peth arall mewn cysylltiad â'i eglwys; oblegid Pen uwchlaw pob peth i'r eglwys ydyw; o ganlyniad, hanes Iesu Grist yn ei llywodraethu ydyw hanes gweithrediadau yr eglwys. Dyna oedd syniad Luc wrth ysgrifenu y llyfr a elwir "Actau yr Apostolion." Camsynied oedd ei alw ar yr enw hwn, ac y mae yr

enw wedi rhwystro llawer i ganfod y drychfeddwl. Ysgrifennodd Luc yn ei efengyl am yr holl bethau y dechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu hyd y dydd y derbyniwyd Ef i fynu. Yna y mae yn myned yn mlaen, yn ei ail draethawd, sef Llyfr yr Actau, i adrodd y pethau y bu yr Iesu yn eu gwneuthur a'u dysgu wedi iddo fyned i'r nef; o ganlyniad nid Actau yr Apostolion, ond Actau Crist ydyw y llyfr. Efe oedd yn Paul, a Phetr, a Barnabas, yn gwneyd y cwbl. Efe oedd yn dylanwadu trwy Ei Ysbryd er achub; ac y mae holl amgylchiadau y byd a'r amseroedd mewn rhyw gysylltiad â'r eglwys. Hi ydyw canolbwynt hanes y byd, mor wirioneddol ag y mae yr haul yn ganolbwynt y *solar system*. Diau fod trigolion y byd ysprydol yn sylwi ar amgylchiadau y byd yn unig yn y cysylltiad hwn; nid oes dim arall yn werth eu sylw hwy; a hwyrach fod gallu ganddynt hwy i ganfod cysylltiad ag y mae ein llygaid ni yn rhy bŵl i'w weled.

IV. *Gan mai yr Arglwydd yw yr Achubwr rhaid fod y byd yn cael ei achub yn gyflym iawn.* Nis gwn paham na allwn feiddio dweyd ei fod yn cael ei achub mor gyflym ag sydd yn bosibl. Paham lai? Hwyrach fod rhyw un yn barod i ateb, am nad ydyw fel Pen-Arglwydd yn ewyllysio. Wel, yr ydwyf finau yn credu yn mhen-arglwyddiaeth Duw, ac yn dal nad ydyw fel y cyfryw yn gyfrifol i neb. Yr wyf yn gallu ymgysuro yn hyny ar y cyfan, er bod llygredigaeth falch fy nghalon weithiau yn gwrthryfela yn erbyn. Yr wyf hefyd yn teimlo y fath eiddgedd dros ben-arglwyddiaeth y Brenin Mawr, fel nad wyf yn foddlon i ddynion ei defnyddio fel *lumber-room* i daflu iddi bob peth nas gallant, ac y credant nad yw yn bosibl, rhoddi cyfrif am dano. Nid chwim ddireol ydyw Ei ben-arglwyddiaeth; ond y mae yn gwneyd y cwbl fel Pen-Arglwydd yn unol â'i briodoleddau ereill; sef yn gyfiawn, doeth, a grasol. Does dim achos dadleu Ei ewyllys a'i ben-arglwyddiaeth yn nglyn â'r pwnc hwn, oblegid y mae fel Pen-Arglwydd, sydd wedi ymgymeryd a'r gwaith o achub y byd, wedi *delivero* Ei hunan arno; "Fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, ni

ymhoffaf yn marwolaeth yr annuwiol, ond troi o'r annuwiol oddiwrth ei ffordd, a byw." "Canys nid oes ewyllys genyf i farwolaeth y marw, medd yr Arglwydd Dduw. Dychwelwch, gan hyny, a byddwch byw." "Yr hwn sydd yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd." "Ond hir-ymarhous yw efe tuag atom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch." Dyna eiriau y Pen-Arglwydd. Y mae croes Calfaria fryn yn sefyll, fel pyramid yn hanes y byd, yn gofgolofn dragywyddol o *earnestness* y Duwdod yn y gwaith. Y mae Esaiah hefyd, wrth brophwydo am bethau gogoneddus y dyfodol, yn tystio fod Duw yn zelog yn y mater; "Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd, ar orseddfa Dafydd ac ar ei frenhiniaeth ef, i'w threfnu hi, ac i'w chadarnhau a barn ac a chyfiawnder, o'r pryd hwn a hyd byth. Zêl Arglwydd y lluoedd a wna hyn." Dyna'r cwestiwn o ewyllysgarwch y Pen-Arglwydd wedi ei benderfynu. Nis gall fod o ddiffyg gras i ewyllysio.

Wel, a ydych yn myned i amheu gallu yr Arglwydd ynte? Na ato Duw i ni wneuthur hyny chwaith. Ond pa allu a feddyliwch? "Pa allu! Onid yw Duw yn hollalluog?" Ydyw, y mae yn hollalluog mewn ystyr naturiol, ond nid y gallu hwnw sydd yn achub y byd. Peidiwch a cymysgu pethau a'u gilydd. Nid oes neb yn tybied y byddai yn sarhad ar allu Duw i ddywedyd na allasai Duw faddeu heb Iawn, oblegid nid Ei hollalluogrwydd naturiol sydd yn cyfiawnhau ac yn maddeu, ac nid hwnw sydd yn achub y byd ychwaith. Yr oedd rhyw angenrheidrwydd moesol am Iawn er maddeuant, ac y mae rhyw angenrheidrwydd moesol hefyd am amser i achub y byd, ond nid yw y naill na'r llall yn ymyraeth dim â hollalluogrwydd Duw. Y syniad mwyaf cyffredin am natur y gallu sydd yn achub, ydyw *physical force*. Dichon ein bod yn anfoddlon i gydnabod hyn, a dichon ein bod yn anymwybodol o hyn. Mae y syniad hwn yn sylfaen i lawer o'n syniadau ereill ni, er ei fod, fel pob sylfaen, yn

gyffredin o'r golwg. Cynwysir ef weithiau yn ein gweddiau. "Bydded i'r fraich barthodd y môr gael ei dynoethi mewn achub." Brawddeg farddonol, ond nid hollol lythyrenol, oblegid nid y fraich hono sydd yn achub. Yr un Duw, ond gallu arall yn Nuw. Fe ellir cyfrif a mesur y gallu naturiol, angenrheidiol i bob peth y mae yn briodol iddo, fel yr oedd Stephenson yn cyfrif gallu angenrheidiol y *tubular bridge*, a Brunel yn cyfrif gallu y Great Eastern; ond ni fedr neb wneyd y *sum* i ddangos faint o allu sydd yn angenrheidiol tuag at achub. Mae hwn yn rhy ysprydol i gael ei gyflwyno rhwng llinellau *mathematics*, ac i gael ei ddarostwng dan reolau rhifyddiaeth, na'i bwyso yn nglorianau y greadigaeth anianol.

Y mae yn rhaid i hwn, yn ol ei natur, gael amser i weithredu. Edrychwch cyhyd y bu y byd yn cael ei addfedu i dderbyn yr iachawdwriaeth iddo. Cyfnod maith o bedair mil o flynyddoedd yn rhagbarotoad; ac ni allasai ddyfod yn gynt. Rhaid wrth amgylchiadau pwysig yr oesau patriarchaidd. Mae Duw yn alluog i greu a difodi byd mewn moment, ond nis gallasai yr Hollalluog achub y byd mewn diwrnod. Rhaid wrth amser yma. Mae dysgyblaeth y genedl Iuddewig, a phrofiad y byd paganaidd, yn rhan angenrheidiol o'r cynllun. "Pan ddaeth cyflawnder yr amser y danfonodd Duw ei Fab." Nid yn unig amser yr arfaeth a'r brophwydoliaeth, ond yr oedd rhyw ddwyfol briodoldeb yn yr adeg y ganwyd ac y bu farw Gwardedwr y byd, ag oedd yn rheswm iddi gael ei phenodi yn yr arfaeth, a'i hysbysu drwy y brophwydoliaeth. Fe fu farw *mewn pryd* dros yr annuwiol. Wedi iddo ddyfod yn y cnawd, ac iddo gyfansoddi efengyl yn Ei fywyd a'i angau, ac i'r efengyl hono gael ei phregethu a'i hysgrifenu, edrychwch cyhyd y bu ei hamrywiol wirioneddau yn eu cyfanrwydd yn cael eu deall, a'u sylweddoli gan yr eglwys. Dywed Dr. Edwards, y Bala, fod yr athrawiaeth am berson Crist wedi cymeryd canrifoedd i'w gweithio allan. Yn ysgrifeniadau Awstin y daw yr athrawiaeth am sefyllfa dyn drwy y cwmp y eglurder yn nuwinyddiaeth yr eglwys. Yn amser Anselm,

yn niwedd yr unfed-ganrif-ar-ddeg, y mae athrawiaeth yr Iawn i gyfiawnder dwyfol yn cael ei dadblygu. Yn amser Luther, yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, y daeth yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd i'r amlwg. Cymer amser maith iawn i wlad neu genedl i sylweddoli pob gwirionedd mawr; am hyny na thybier fod Duw yn oedi Ei addewid. Nid wrth ddiwrnodau, na misoedd, na blynnydoedd, y mae Efe yn mesur amser. Y mae un dydd gyda'r Arglwydd megis mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megis un dydd. Nid yw amser yn bod, yn yr ystyr yma, i'r Hwn sydd yn preswyllo tragwyddoldeb. Nid wrth *figures* unrhyw ddeial, nac wrth gylchdroadau planedau, hyd y nod y blaned bellaf oddiwrth yr haul, sydd a'r flwyddyn hwyaf, ond wrth ddadblygiad egwyddorion a chynydd eneidiau, y mae Efe yn cyfrif amser, ac y mae hyny yn cymeryd lle mor gyflym ag sydd yn bosibl. Yr Achubwr ydyw yr Arglwydd.

Nid ydym yn amheu y posiblwydd iddo gyfryngu yn wyrthiol i rwystro rhai amgylchiadau a chyflymu y lleill; ond y cwestiwn ydyw, a fyddai hyny yn wirioneddol enill yn y pen draw. Y mae Efe yn sicr o fod wedi dewis y llwybr goreu. A chan nad ydyw wedi dewis cyfryngu yn wyrthiol, ond gadael i'w deyrnas ymeangu yn ol dadblygiad graddol amgylchiadau, gallwn fod yn sicr fod hyn yn cymeryd lle mor gyflym ag sydd yn ddichonadwy. Heb ymyraeth wyrthiol, nid oedd yn bosibl ysgoi y canol-oesoedd tywyll; yr oeddynt yn gorwedd rhwng yr oes apostolaidd a'r Diwygiad Protestanaidd mor wirioneddol ac angenrheidiol ag ydoedd Samaria rhwng Judea a Galilea. Pe buasai yn bosibl i'w hysgoi, y mae yn gwestiwn a fuasai hyny yn llesiol ar y cyfan. Nid *blank* perffaith yn hanes yr eglwys ydynt, eithr fe gafodd yr eglwys, hyd ddiwedd y byd, addysg a rhybudd nad oedd modd eu cael ond trwy y profiad chwerw hwn. Ni allasai y Diwygiad Protestanaidd ddyfod ganrif yn gynt nag y daeth. Rhaid oedd i lygredigaeth a chyfeiliornadau yr oesoedd tywyll gyraedd eu *climax*, a chyflawni mesur eu

hanwiredd. Yr oedd nerth y Diwygiad yn ol graddau llygredigaeth yr oesau blaenorol. Rhaid oedd hefyd wrth wasanaeth rhagbarotoawl Huss, Jerome, Wycliffe, John o Goch, John o Wessel, a John Laillier ac eraill; a phan ddaeth cyflawnder yr amser, Duw a ddanfonodd Luther i gwblhau y gwaith a ddechreuwyd mor rhagorol gan ei ragflaenwyr. Y mae i'r holl adfywiadau crefyddol eu hamserau a'u prydiau, a chynygiwch eu gwneyd cyn eu hamser, ni wnewch ddim ond cynrchu bastard, a wna fwy o niwed nag o les. Fe ddaw y diwygiad yn amser Duw Ei Hun, sef yn yr adeg briodol.

Ceir fod amgylchiadau blinion wedi cymeryd lle yn hanes yr eglwys, y rhai ar eu penau eu hunain nad oeddynt ond drygau digymysg; ond sylwch yn hir arnynt, yn eu holl gysylltiadau am oesau dilynol; cymerwch olwg eang ar bethau, a chewch weled fod gwirionedd yn y dywediad—*"Whatever is—is best."* Parodd erledigaeth fawr Madagascar i lawer ofni fod yr Achubwr wedi esgeuluso Ei Arglwyddiaeth, ond byrtra deall oedd hyny; fe droes yr erledigaeth yn fantais i grefydd dan deyrnasiad y mab a'i olynwyr. Y *mae* y byd yn cael ei achub, ac y mae yn gysur i ni wrth weddio i gofio ein bod yn cyfarch Un sydd yn gweithio. Wrth weddio, peidiwch dynwared prophwydi Baal. Nid un difater y rhaid Ei gynhyrfu; nid un a gormod o waith ar Ei ddwyllaw, fel y rhaid iddo esgeuluso y naill beth i gyflawni y llall, ydyw ein Harglwydd ni. Sylwch ar hanes y byd, y mae fel pe bai rhyw ddealltwriaeth rhwng Cristionogaeth a'i holl amgylchiadau; pob amgylchiad naill ai yn achlysur llwyddiant uniongyrchol, neu yn ddefnydd bendith a llwyddiant yn y dyfodol. Pan ddaeth yr amser i ben i'r Beibl gael ei ryddhau o'r caethiwed pabaidd, a chyfiawnhad trwy ffydd yn barod i gael ei gyhoeddi trwy y gwledydd, yr oedd yr argraff-wasg wedi ei dyfeisio, a chwmpawd y morwr wedi ei ddarganfod. Mae pob darganfyddiad yn cael ei droi yn wasanaethgar i'r efengyl. Mae y moroedd eisioes yn cludo

yr addewidion, a diamheu y cyflawnir y rhan arall o ddy-muniad y prydydd :—

“Hed fel mellten, bur efengyl.”

* Mae y *telegraph* osodwyd yn groes i'r *Atlantic* wedi dryllio ar ol cyhoeddiad y geiriau :—

“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.”

Yr ydym wedi cael byw i weled gwawr y “Nefol Jiwbil.” Daw y dyddiau yn fuan pan y bydd y seithfed angel yn udganu, a llefain uchel yn y nef yn dywedyd: “Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef; ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd.” Yna y rhwymir Satan dros fil o flynyddoedd proffwydoliaethol; ac os saif un dydd am flywyddyn, yn ol y farn gyffredin, bydd yn gyfnod bendigedig o faith, i'r Achubwr gael llwyr Arglwyddiaeth ar ein daear ni.

V. *Wedi gorphen Ei waith fel Achubwr, fe rydd i fynu Ei Arglwyddiaeth.* “Yna y bydd y diwedd wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad, wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.” Ond fel “Brenin y Saint,” Efe a deyrnasa yn oes oesoedd. Mae y llywodraeth hon wedi ei sylfaenu ar gariad, ac nid ar apwyntiad. Pan y darfu i Garibaldi enill y deyrnas trwy y cleddyf, cyflwynodd hi i'w llywodraethu i Victor Emanuel; ond ar ol iddo ei chyflwyno, gwaeddai y byddinoedd, yn mhresenoldeb y brenin: “Byw fyddo Garibaldi.” Gwaeddwch “byw fyddo Victor Emanuel,” meddai Garibaldi; ond gwaeddi “byw fyddo Garibaldi” wnaent hwy yn barhaus. Victor Emanuel a'i hatebai, gyda chraffder a synwyr teilwng o wir frenin: “Na, gadawer iddynt waeddi, 'byw fyddo Garibaldi,' oblegid efe yw eu brenin gwirioneddol hwy; nid wyf fi ond brenin swyddogol. Bydd gorsedd eu calonau hwy byth yn eiddo Garibaldi.” Felly, tra byddo coffa am Bethlehem, Gethsemane, a Chalfaria, Iesu fydd brenin y saint. “Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd.”

* Cyfansoddwyd y bregeth hon oddeutu 1860-1862, pan yr oedd yr awdwr yn byw yn Aberdar.

1. Ymdaweled y saint yn eu holl amgylchiadau. Yr oedd Israel yn trigo yn dawel a hyderus tra yr oedd Joseph yn llywydd yn ngwlad yr Aipht. Os cyferfydd y Cristion a gofidiau, blinderau, croesau, cystudd, a thlodi, nid oes dim niwed i'w ofni, am fod yr Iesu wedi ymgymeryd a'i holl ofal hyd foreu yr adgyfodiad. "A mi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf." Paham y sonir am yr adgyfodiad? O herwydd mai oddiyma i'r adgyfodiad mae y peryglon i gyd; ti elli gymeryd dy siawns oddiyno yn mlaen.

2. Gobeithiwn yn llwyddiant Ei achos. Peidied neb gosod eu gwynebau ar eu gwegil, ac edrych yn barhaus trach eu cefnau, gan ddywedyd yn barhaus fod y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn. Yn mlaen y mae yr "oes euraidd" yn ol y Beibl. Gobeithiwch o hyd, gan mai yr Achubwr yw yr Arglwydd.

3. Gocheled neb rhag myned yn rhwystrau ar ffordd y Brenin, neu byddant yn sicr o gael eu mathru dan olwynion Ei gerbyd, a bod am byth yn mysg y gelynion sydd i gael eu darostwng dan Ei draed Ef.

PREGETH XII.

—:O:—

GWASANAETHU DUW YN UNIG AMCAN BYWYD.

MAT. VI. 19-24.—“*Na thrysorwch i chwi drysorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd ac yn lladratta; eithr thrysorwch i chwi drysorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd ac nis lladrattant. Canys lle y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd. Canwyll y corph yw y llygad: am hyny o bydd dy lygad yn syml, dy holl gorph fydd yn oleu. Eithr os bydd dy lygad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll. Am hyny os bydd y goleuni sydd ynot yn dywyllwch, pa faint fydd y tywyllwch! Ni ddichon neb wasanaethu dau arglwydd; canys naill ai efe a gasa y naill, ac a gar y llall; ai efe a ymlyn wrth y naill, ac a esgeulusa y llall. Ni ellwch wasanaethu Duw a mammon.”*

GAN fod dyn yn gyfansoddedig o gorff ac enaid, a chan ei fod hefyd yn breswlydd dau fyd, y mae yn amlwg fod ei ddyledswyddau yn dra amrywiol. Ac nid ychydig ydyw yr anhawsder a deimlwyd o bryd i bryd wrth geisio dosparthu ei ddyledswyddau, a'u rhestru yn ol eu pwysigrwydd. Amcana rhai ysgoi yr anhawsder trwy wadu y naill haner neu y llall o'r dyledswyddau; un dosparth yn gwadu ei ddyledswyddau ysprydol, a dosparth arall yn gwadu ei ddyledswyddau daearol. Dywed y daearolwyr y dylai holl sylw y meddwl, a holl ymadferthoedd yr enaid, gael eu cyfyngu at bethau y byd a'r bywyd hwn; oblegid, meddant, nad oes sicrwydd digonol o fodolaeth dim ond y pethau sydd yn gwneuthur eu hunain yn hysbys trwy synwyrâu y corff. Gan na welodd neb Dduw erioedd, hona y dosparth yma nad oes sicrwydd o'i fodolaeth; a'r un modd nad oes sicrwydd ychwaith y bydd dyn yn parhau i

fyw wedi iddo ddarfod anadlu mewn corff. Nid ydynt yn cymeryd arnynt dystio nad oes yr un Duw, ac nad oes sefyllfa ddyfodol; byddai hyny yn rhyfyg hunan-ddinystriol; yn unig maentymiant fod eu bodolaeth yn dra amheus, a bod y dadleuon yn eu herbyn yn gryfach na'r rhai o'u plaid. Maentymiant yn mhellâch, hyd yn nod pe y caniateid bodolaeth Duw a sefyllfa ddyfodol, mai y llwybr dyogelaf i sicrhau cymeradwyaeth Duw, ac ar yr un pryd ymgyfaddasu at fuchedd ddyfodol, yw trwy anghofio y naill a'r llall, gan gyfyngu ein hunain yn gyfangwbl i'r gweledig a'r presenol. Nid dyma y lle na'r amser i ddangos geudeb y rhesymau hyn; ac ni a obeithiwn nad oes rhaid ond eu crybwyll, i sicrhau iddynt gondemniad yn mhob mynwes. Yn bresenol, digon yw dywedyd mai ofer ydyw yr ymgais i geisio darostwng dyn i stâd yr anifail, trwy grebachu galluoedd uchaf ei natur, a gostegu dymuniadau dyfnaf ei galon; oblegid er fod trueni dyn yn fawr arno, ac er ei fod wedi ei ddarostwng i oferedd, a hyny o'i fodd, ni oddef ei garcharu o fewn gweledig, cyfnewidiol, a therfynol bethau y bywyd hwn. Na, fe ddryllia farau y carchar hwn, boed a fyno; fe fyn gredu yn modolaeth Duw, ac fe fyn obeithio am anfarwoldeb, pa anghysondeb bynag a ddichon fod rhwng hyny a'r bywyd y mae yn awr yn ei ddilyn. Gan hyny y mae syniadau y daearolwyr, a dweyd y lleiaf, yn ddiwerth.

Dywed dosparth arall, yn yr eithafion cyferbyniol, ei bod braidd yn anmhosibl arfer y byd hwn heb ei gamarfer; ac am hyny, mai buddiol ydyw i ddyn ymddidoli yn gyfangwbl oddiwrth ei holl drafferthion, ac ymneillduo i unigedd, gan yno ymroddi i weddiau, myfyrdodau, ymprydiau, a phenydiau, trwy ba rai y bydd yn cospi ei gorff ac yn ei ddwyn yn gaeth. Honant, ond iddo wneuthur felly, y bydd yn dianc oddiwrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant; y bydd ei ymarweddiad yn y nefoedd, fel y gwedda i etifedd anfarwoldeb. Y ffurf uchaf, meddant hwy, ar berffeithrwydd dynol cyrhaeddadwy yn ein byd ni, ydyw y ffurf fynachaidd. Ond nis

gall y meddylgar lai na theimlo fod y syniadau hyn yn taflu anfri ar drefniadau yr Anfeidrol Ddoeth, a Da, yr Hwn sydd wedi ein gosod yn y byd hwn, ac wedi ein cylymu â rheffynau lawer wrth y byd hwn. Nid ydyw yn bosibl coledd y syniad fod Duw yn disgwyl i ni ymestyn at berffeithrwydd an-nynol, trwy dreisio y natur a pha un y cynysgaeddwyd ni ganddo Ef Ei Hun, a dryllio y cysylltiadau a ffurfiwyd ganddo Ef Ei Hun. Ac heblaw hyny, gwyddom mai nid yn y byd oddi-allan, yr hwn a wnaethpwyd gan Dduw, y mae ffynhonell drygioni; ond yn y byd sydd oddifewn, sef chwant y cnawd, a chwant y llygad, a balchder y bywyd. Pe yr ymdrechem arwain bywyd y meudwy, a phe y trigem mewn mynachdy, ni fyddai muriau tewion ac uchel y mynachdy yn cau allan y byd; gan ei fod trwy ei egwyddorion a'i chwantau drwg wedi cymeryd meddiant o'r galon. O herwydd y pethau hyn, a llawer o bethau ereill y gellid eu hychwanegu, ofer, a gwaeth nag ofer, ydyw y cynllun mynachaid ar fywyd. Y mae y bydol-ddyn a'r meudwy yn cyfeiliorni.

Tybia eraill drachefn, gan fod dyn yn greadur deublyg, y dylai ei fywyd hefyd fod yn ddyblyg; ac am hyny ymdrechant wasanaethu Duw a mammon; ceisiant gyflawni eu dyledswyddau yn eu perthynas a'r byd hwn a'r hwn a ddaw, a hyny trwy gysylltu heb gyfuno'r gwasanaeth. Y maent yn eu gwasanaethu bob yn ail, y naill ar ol y llall. Amcanant wasanaethu Duw heddyw, a gwasanaethu y byd yfory. Y maent yn grefyddol ar y Sabbath, ac yn fydol yn yr wythnos. Os byddant yn aiddgar a zelog wrth wasanaethu mammon, tybiant fod hyny yn iawn, os bydd gorfanylder cyffelyb yn nghyflawniadau defosiynol y Sabbath. Braidd nad ydynt yn barod i ddweyd wrth y Brenin Mawr, fel y gŵr a'r un dalent: "Wele yr wyt yn cael yr eiddot dy hun." Yn fynych cyfreithlonant eu hymddygiadau trwy ddefnyddio yr ymadrodd Ysgrythyrol: "Pa beth bynag yr ymafflo dy law ynndo, gwna a'th holl egni;" a dadleuant mai dyledswydd dyn yw bod yn egniol yn trin ei orchwylion bydol, fel y mae yn ddyledswydd

arno i fod yn egniol gyda ei ymarferion crefyddol. Ni raid ; mi fanylu wrth ddesgrifio y dosbarth hwn, oblegid y maent yn dra adnabyddus, yn gymydogion agos i bawb o honom. I'r dosparth hwn y mae corff poblogaeth ein gwlad yn perthyn; i.e., corff y gynulleidfa hon, heb eithrio lliaws mawr o broffeswyr crefydd, am y rhai y gellir dywedyd fel am y rhai hyny gynt: "eu calon hwynt a ranwyd."

Yn awr, yr hyn sydd yn wallus yn syniadau ac arferion y bobl yma ydyw yr ysgariaeth sydd wedi cymmeryd lle rhwng y byd a chrefydd; rhwng mammon a Duw. Y mae y naill fel y llall wedi myned yn arglwydd, a'r naill fel y llall yn derbyn rhyw gymaint o wasanaeth fel arglwydd. Ond canlyniad anocheladwy yr ymgais hwn i wasanaethu dau arglwydd, medd Crist, yw fod y naill arglwydd yn sicr o enill goruchafiaeth ar y llall. "Ni *ellwch* wasanaethu Duw a mammon; canys naill ai efe a gasa y naill (dyweder Duw) ac a gâr y llall (dyweder mammon); ai efe a ymlyn wrth y naill (Duw) ac a esgeulusa y llall." Y mae y peth ynddo ei hun yn anmhosiibl. Ni *all* calon dyn gydnabod a gwasanaethu mwy nag un arglwydd. Yn ddiethriad, y mae y *compromise* hwn rhwng y byd a Duw, a rhwng y byd hwn a'r byd a ddaw, wedi troi allan yn fethiant, am ei fod yn anmhosiibl. Yn awr, naturiol i ni yw gofyn, sut y dylai fod? Gan fod y tri chynllun blaenorol ar fywyd yn wallus; cynllun y daearol-ddyn, ar y naill law, yr hwn sydd yn amcanu gofalu yn unig am y presenol a'r gweledig ar draul esgeuluso yr ysbrydol a'r tra-gywyddol; cynllun y meudwy crefyddol, ar y llaw arall, yr hwn sydd yn ymroddi i ddarpar ar gyfer byd arall, gan lwyf esgeuluso y byd hwn; a chynllun y rhagrithiwr crefyddol, yn y canol rhyngddynt, yr hwn sydd yn amcanu rhanu ei hun rhwng dau arglwydd anghymodlawn; sut, gan hyny, y mae i fod? Y mae yr ateb yn y testyn. Un amcan mawr a ddylai fod mewn bywyd, ar ba un y dylid edrych yn wastadol gyda llygad syml, sef gwasanaethu Duw; ac fe gynnwys hyn bob peth buddiol a chyfreithlon mewn bywyd, heb gau allan ddim ond

rhagofalon anfuddiol a phaganaidd. Ond gyda hyn o wahan-iaeth, y bydd cyflawniadau daearol dyn, bellach, yn troi yn ffurfiau amrywiol ar yr un gwasanaeth dwyfol; ac y bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ganlyn a'r fantais anmhrisiadwy, y bydd y neb a'i cyflawno yn trysori iddo ei hun drysor yn y nefoedd. Galwaf eich sylw oddiwrth y geiriau at ddau fater.

I. Y BYWYD A ARGYMHELLIR : BYWYD O WASANAETH I DDUW
GYDA LLYGAD SYML.

II. MANTAIS FAWR Y BYWYD HWN ; TRYSOR YN Y NEFOEDD.

I. *Y bywyd a argymhellir ; bywyd o wasanaethu Duw gyda llygad syml.* Llygad syml ydyw llygad iach ; llygad yn gweled un gwrthddrych, a dim ond un. Y mae y llygad hwn yn goleuo yr holl gorff. Y llygad drwg ydyw y llygad afiach sydd yn gweled yn ddyblyg ; nid yw hwn yn medru cyfarwyddo neb ; a pha le bynag y mae, y mae yr holl gorff yn dywyll. Nid rhaid dywedyd mai am lygad y meddwl y lleferir yma, trwy gyffelybiaeth llygad y corff ; gallu y meddwl i dderbyn gwybodaeth, ac i ymsynio am bethau moesol ac ysbrydol. Os bydd hwn yn' syml, yn iach, yn gweled un amcan mawr i fywyd, sef gwasanaethu Duw, fe fydd yr holl enaid yn oleu ; ond os bydd hwn yn ddrwg, yn afiach, yn gweled yn ddyblyg, yn canfod Duw a mammon, fe fydd yr holl enaid yn dywyll. "Ac os bydd y goleuni sydd ynot"—gallu y meddwl i synio am ei ddyledsdyddau, y *practical reason*—"yn dywyllwch, pa faint fydd y tywyllwch?"

Yn y testyn, a'r adnodau dilynol, dengys ein Harglwydd ynfydrwydd yr ymgais i wasanaethu dau arglwydd. Yn mlaenaf, fel yr awgrymwyd eisioes, o herwydd fod y peth ynddo ei hun yn anmhosibl;" "Ni ddichon neb wasanaethu dau arglwydd." Yn nesaf, dengys fod rhagofalon a phryder bydol yn hollol ddiles; "A phwy o honoch gan ofalu, a ddichon chwaneu un cufydd at ei faintioli?" Sef at faintioli bywyd; at ei hyd; y mae rhifedi ei fisoedd gyda Duw, yr Hwn sydd wedi rhagderfynu amser dyn i fyw, ac ni ellir trwy

y gofal mwyaf aiddgar, chwanegu cymaint ag un cufydd at ei oes. Yna dengys fod y gorofal hwn yn ddiangenrhaid; os byddwn yn ymroddedig yn ngwasanaeth Duw, fe ofala Efe am danom. Y mae yn gofalu am bethau llai. "Edrychwch ar adar y nefoedd"—y brain, meddai Luc—yr adar mwyaf anhoff, y rhai nad oes neb dynion byth yn gofalu am danynt, yr adar aflan, ag yr oedd pob rhywogaeth o honynt yn waharddedig yn ol y gyfraith i fod yn fwyd; heb brydferthwch mewn lliw, na llun, na llais; yr adar ysglyfaethus ag y mae trigolion pob gwlad yn teimlo yn atgas atynt—"Ac y mae eich Tad nefol yn eu porthi hwy. Onid ydych chiwi yn rhagori llawer arnynt hwy?" "Ystyriwch lili y maes"—y llysiuyn digwrtaith hwnw, sydd yn tyfu heb ofal na llafur yn mysg y drain; nid un o flodau yr ardd, ac nid y winwydden ffrwythlawn a hir-hoedlog—"nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu; eithr yr ydwyf yn dywedyd i chiwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." Nid yn unig gofala am bethau islaw i chiwi, ond gofala am danoch chiwi. Y mae eisioes wedi gwneuthur y pethau mwyaf, ac y mae hyn yn wystl o bob peth arall sydd yn angenrheidiol. "Y mae y bywyd yn fwy na'r bwyd;" a chan ddarfod iddo eisioes roddi bywyd, y mae yn sicr hefyd o ddarparu bwyd. "Y mae'r corph yn fwy na'r dillad;" a chan ddarfod iddo lunio corff i chiwi, bydd yn sicr o ddarparu dillad hefyd. Gan hyn, peth cwbl ddiangenrhaid ydyw eich pryder afiachus.

Heblaw hyn oll, y mae rhagolygon bydol yn darostwng dyn i *level* y paganiaid. "Canys yr holl bethau hyn"—bwyd, dillad, arian—"y mae y Cenhedloedd (y paganiaid) yn eu ceisio;" "yn eu hargeisio" meddai Luc; oblegid y byd hwn yn unig, druain, sydd o flaen eu golygon hwy; y maent yn cael eu gadael i gymeryd eu siawns ynddo heb unrhyw gymhorth oddiwrth eu duwiau; y rhai sydd yn ymloddesta yn mhell oddiwrthynt, ac yn hollol ddiotal am danynt, os na fedrant aflonyddu ar eu heddwch a hir-weddïau amleiriog, ac ag aberthau gwaedlyd. Ond yr ydych chiwi yn cael eich

cymhell i wasanaethu Tad nefol, sydd yn gwybod fod arnoch eisiau yr holl bethau hyn. A'r rhesymau yma y cymhella ein Hiachawdwr Ei wrandawyr i "geisio yn gyntaf deyrnas Dduw," gan sicrhau y rhoddid yn ychwanegol iddynt y pethau yr oeddynt hwy yn tueddu i bryderu yn eu cylch. Pan yr oedd Mungo Park, y teithiwr enwog, wedi cael ei adael gan ei gwmpeini yn anialwch blin Affrica; pob peth a feddai wedi ei yspeilio oddiarno gan y brodorion, ac yntau yn cael ei amgylchynu gan fwystfilod rheibus, ac yn nghanol gwlawogydd digyffelyb y parth hwnw o'r byd; bron a diffygio gan flinder, a newyn, ac ofn, fe dynwyd ei sylw at damaid bychan o fwsogl tlws. Gwedi sylwi ar gywreinrwydd ei wneuthuriad ac ar ei dlysnï, ymresymodd ynddo ei hun, a dywedodd yn ei galon, "Tybed nad yw y Bod mawr sydd wedi llunio hwn mor brydferth; sydd wedi ei blanu, a'i ddyfrhau, ac wedi ei ddwyn i'r fath berffeithrwydd yn yr anialwch anghyfanedd hwn, yn sylwi arnaf finau, ac yn gofalu am danaf?" Yna ymgysurodd i fyned yn mlaen ar ei daith, er gwaethaf ei ludded a'i newyn, ac nid hir y bu cyn cyrhaedd y pentref a ddisgwyliai, a goddiweddyd ei gyfeillion, a chael pob cysur angenrheidiol. Dyma ymresymu oddiwrth y llai at y mwy, ac yr oedd mewn cydweddiad hollol a dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu yn y bregeth hon. Nid yw y Duw sydd yn gofalu am y brain, ac sydd wedi gwisgo y lili yn y fath dlysnï, yn debyg o esgeuluso creadur anfarwol sydd yn ymddiried ynddo. Baich mawr y rhan yma o'r bregeth yw y gwirionedd pwysig, ond anghymeradwy gan lawer, mai gwasanaethu ddylai fod unig—nid prif, ond unig—amcan bywyd, at yr hyn y dylid edrych yn wastadol gyda llygad syml.

A hyn y cytuna holl ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr. Gorchymyn mawr y gyfraith, fel ein hysbysir yn Deut. vi. 5, ydyw: "Câr di gan hyny yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl nerth." Gwelir ei fod wedi ei eirio yn y modd cryfaf a fedr iaith; fod geiriau wedi eu pentyru yn nghyd yma er mwyn rhoddi nerth yn y geiriad. Y mae Duw

yn sicr o fod wedi meddwl yr, adnod hon, a hyny yn yr ystyr gryfaf a fedrwn roddi iddi. Gwyliwn gan hyny rhag ceisio esbonio ymaith na lleddfu dim ar ei chynwysiad. Y mae yn gofyn yr holl ddyn, a'r dyn ar ei eithaf. Nid ydyw dyn i wneuthur dim ond caru Duw. Pa le y mae gorchymynion eraill y gyfraith? Y maent oll yn hwn; hyd yn nod yr ail, yr hwn sydd gyffelyb iddo, "A'th gymydog fel ti dy hun." Pa le y mae holl gyflawniadau bywyd y dyn, yr hwn nis gall fod ar ei liniau o hyd yn addoli, ond sydd wedi cael ei osod ar y ddaear, i lafurio y ddaear ac i'w chadw, gan Dduw Ei Hun? Y maent oll yn y gorchymyn mawr. Nid ydyw holl orchwylion bywyd, pa mor ddaearol bynag y byddont, os cyflawnir hwy yn briodol, ond gwahanol ffurfiau ar garu a gwasanaethu Duw. Y mae cariad at Dduw i dreiddio trwy, ac i gynwys, y cwbl, fel y mae y goleuni yn treiddio ac yn llanw lle; ac megis nad ydyw y goleuni yn ymlid dim allan, wrth dreiddio a llanw, ond tywyllwch, felly y mae cariad at Dduw yn abl cynwys pob peth sydd yn briodol i ddyn, heb gau allan ddim ond pechod. Nid oes un eithriad i hyn i fod. Y mae hawliau moesol Duw mor hollbresenol a'i hanfod. Dyna ddysgeidiaeth yr Hen Destament. Wrth droi i'r Testament Newydd drachefn ni a gawn yr Arglwydd Iesu yn hawlio serchiadau a gwasanaeth dyn yn gyfangwbl iddo Ei Hun; lleinw yr un lle yma ag a leinw Duw yn yr Hen; yr hyn sydd yn anmhosibl rhoddi cyfrif boddhaol am dano, ond ar y dybiaeth Ei fod Ef Ei Hun yn Dduw. Ei eiriau ydynt, "Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun,"—pob peth sydd yn *centro* ynddo Ef Ei Hun,—ymwaded a'r cwbl, "a chyfoded ei groes a dilyned fi." Fi, a dim ond Fi, sydd o hyny allan i fod yn nod i gyrchu ato. "Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi; a'r neb sydd yn caru mab neu ferch yn fwy na myfi, nid ydyw deilwng o honof fi." Ni fedraf ddarllen y geiriau hyn a'u cyffelyb heb deimlo fod Iesu Grist yn gwneyd Ei Hun yn Dduw. Y mae y *demands* a wna ar galon dyn yn ddwyfol.

Ond heb i mi liosogi adnodau, dyma holl ddysgeidiaeth y Beibl, fod Duw yn gofyn yr holl galon, ac mai unig amcan ein bywyd ddylai fod Ei wasanaethu Ef.

“Wel,” meddai rhywun, “onid ydym i garu ein hunain?” Onid yw y Beibl yn apelio at ein hunangariad, yn ei addewidion ac yn ei fygythion? Ac onid yw yn gorchymyn i ni garu ein cymydog fel ni ein hunain?” Ydyw, ond nid yw yr hunangariad hwn ond un o ffurfiau y cariad dwyfol, ac am hyny y mae yn sanctaidd. Y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng hunangariad cyfreithlon a hunangais pechadurus; nid gwahaniaeth mewn graddau, ychydig yn ormodol o'r hyn sydd gyfreithlon yn ei wneuthur yn anghyfreithlon; ond gwahaniaeth pendant. Y mae yr hwn sydd yn caru ei hun yn iawn yn derbyn ei hun oddiwrth Dduw; yn caru ei hun wrth garu Duw; yn caru ei hun yn Nuw, ac yn caru Duw ynddo ei hun; ac megis yn caru ei hun dros Dduw. Ond bydd un arall yn ysgar ei hun oddiwrth Dduw; yn gosod ei hun i fyny yn *rival*, yn gystadleuydd â Duw; yn caru ei hun ar wahan oddiwrth, yn wrthwynebol i Dduw; i.e., yn lle Duw. Y mae y ddau gariad yn bethau hollol wahanol. A pha le bynag y byddo gwir gariad at yr Arglwydd, pair fod Ei wasanaethu Ef yn unig amcan mewn bywyd.

Dymunol fyddai i mi eich adgoffa mai dyma *unig* amcan bywyd. Nid fe ellir gwasanaethu Duw wrth wasanaethu ein hunain, a gwasanaethu ein gilydd; ond er mwyn Ei wasanaethu Ef y dylai pob peth arall gael ei wneuthur; ffurfiau ar y gwasanaeth dwyfol ydynt i fod. Fe ellir Ei wasanaethu Ef, meddwl am dano, a galw arno Ef wrth wneuthur pethau eraill. Medd meddwl dyn y fath allu a chyflymdra, fel y medr gymysgu myfyrdodau a deisyfiadau crefyddol, a'i orchwylion mwyaf daearol. Fel hwnw oedd yn cael ei ddysgu i weddio yn ddibaid; wrth olchi'r corff, gweddio am olchiad enaid; wrth borthi y corff, gweddio am borthiant enaid; wrth wisgo a thrwsio y corff, gweddio am i'r enaid gael ei addurno. Fe ellir gwneuthur hyn. Nid oes yr un alwedigaeth na

gorchwyl daearol cyfreithlon, na fedr y meddwl felly ei ysbrydoli; ac nid oes yr un o honynt yn gofyn y meddwl mor llwyr iddo ei hun, fel na all gael hamdden i dafu myfyrdod crefyddol a gweddi i fewn megis rhwng cromfachau. Sonia un awdwr am "*the parenthesis of prayer.*" Fel Nehemiah gynt yn mreninllys Susan, rhwng gofyniad y brenhin a'r atebiad uniongyrchol yr oedd yn orfod roddi iddo, yn medru gweddi ar Dduw y nefoedd. O! fe a gweddi i le cul iawn. Fe ellid, ac fe ddylid, gwneuthur fel hyn.

Eithr nid dyma y gwirionedd yr ydym am ei gymhell yn awr, ond y ddyledswydd o gysegru yr holl fywyd yn wasanaeth ac yn addoliad i Dduw; y gorchwyl daearol a gyflawnir yn dyfod yn *act* o ddefosiwn mor wirioneddol a'r weddi sydd wedi ei gosod megis rhwng cromfachau yn ei ganol. Fel y mae y ddaear yn troi oddiamgylch yr haul. Nid yn unig gwna y tro bychan, ar ei hechel ei hun, sydd yn ffurfio dydd a nos bob yn ail bob pedair-awr-ar-hugain, wrth droi o gwmpas yr haul fel canolbwynt, ond trwy wneyd y cylch bychan y gwna y cylch mawr oddiamgylch. Felly y dylai Duw fod, yn ganolbwynt yr holl fywyd; a'r cylchdro mawr yn cael ei wneuthur o gwmpas y canolbwynt dwyfol, trwy wneuthur y cylchdro bychan yn nghyflawniad dyledswyddau cyffredin bywyd er Ei fwyn Ef. Y mae yr alwedigaeth i fod mor grefyddol a'r weddi; y mae triniaeth y fferm a'r fasnach, toriad y glô a gwneuthuriad yr haiarn, i fod yn salm o fawl i Dduw, mor wirioneddol a'r penill a genir yn nhŷ yr Arglwydd gyda'r gynulleidfa fyddo yn addoli. Fel hyn yr argymhellir dyledswyddau cymdeithasol yn y Beibl: "Pa beth bynag a wneloch, gwnewch o'r galon, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion; gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbyniwch daledigaeth yr etifeddiaeth; canys yr Arglwydd Crist yr ydych yn ei wasanaethu." Rhag ofn i neb dybio fod ei alwedigaeth neu ei orchwyl ef yn rhy gyffredin neu isel, y mae Paul yn ei epistolau yn dysgu dyledswyddau y caethweision. Cymhellai hwynt i beidio a blino yn ormodol o herwydd eu sefyllfa, a

pheidio ffwdanu yn ormodol am ymryddhau. Yr oedd pwysig-rwydd ofnadwy y sefyllfa dragywyddol wedi llanw meddwl yr apostol i'r fath raddau, nes yr oedd amgylchiadau y byd hwn wedi myned yn ddim yn ei olwg. Fel y dywed Jeremy Taylor, mewn ffug-chwareuaeth nid ydyw o un pwys pwy fydd yn chwareu rhan y brenhin, na phwy ran y *beggar*; fe ddichon mai yr *actor* galluocaf fydd yn chwareu rhan y cardotyn; ond bydd y chwareu drosodd yn y man, a'r *actors* yn myned i'w lleoedd eu hunain mewn cymdeithas, a hyny yn ol eu medrus-rwydd. Felly yn nghyfrif yr apostol, *all the world's a stage*; platform i ni chwareu ein rhan arno am ychydig oriau yw y ddaear; y mae'r edrychwyr yn y byd arall; ac ni fydd a fyno y rhan a chwareuwn yma â'n sefyllfa dragywyddol yn y byd a ddaw. Yr hyn a benderfyna ein tynged fydd *pa fodd* yr ydym yn chwareu; nid y *part* sydd yn bwysig ond y modd ei chwareuir. Y mae dull y byd hwn yn myned heibio. Meddai yr apostol: "Ai yn was y'th alwyd? na fydded gwaeth genyt; . . . yn yr hyn y galwyd pob un, frodyr, yn hyny arosed gyda Duw." Dyma sancteiddio a nefoleiddio hyd yn nod *drudgery* y caethwas; ac erbyn yr awn i gymeryd ein safle yn y gymdeithas dragywyddol, sydd wedi bod yn edrychwyr arnom, fe fydd yr hwn a fu yn chwareu rhan y caethwas yn dda, y gwas yn y fferm neu yn y siop, yn uwch na'r hwn a fu yn chwareu rhan y brenhin yn wael.

Gwelir felly fod gwir dduwioldeb yn gwella ei pherchenog yn holl amgylchiadau bywyd, a bod pawb sydd yn dyfod i gyffyrddiad ag ef yn elwa ar ei grefydd. Y mae crefydd y wraig yn elw i'w gwr, a chrefydd y gwr yn elw i'w wraig. Mantais i was neu forwyn yw cael meist'r a meistres dduwiol, sydd yn gwasanaethu Duw fel amcan mawr eu bywyd; y maent yn sic'r o ymddwyn atynt gyda thynerwch a pharch. A mantais i feistr yw cael gwas neu forwyn dduwiol, y maent yn ffyddlawn yn nghyflawniad eu dyledswyddau. Dywedai morwyn wrth Mr. Spurgeon, mai yr unig gyfnewidiad a wnaed arni gan grefydd, mor bell ag y gwyddai, oedd ei bod

byth oddiar hyny yn ysgubo o dan y *mats*. Ni roddai Rowland Hill ddiolch am grefydd neb os na fyddai y ci a'r gath yn manteisio arni. "Y cyfiawn a fydd drugarog wrth ei anifail."

Fel hyn, eraill sydd yn manteisio ar grefydd dyn yn hollol? Nage; efe ei hun sydd yn cael y fantais fwyaf. Ie, yn y byd arall? Nage; ond yn y byd hwn hefyd. Onid ydych wedi ei dlodi, a'i wneuthur yn ddim ond gwas o dan y Brenhin Mawr? Gwir, ond y mae yn cael mwy o wir fwyniant mewn bywyd, ac yn derbyn y cwbl yn ol mewn ffurf arall. Meddai yr Iesu: "Nid oes neb ar a adawodd dy, neu frodyr, neu chworiydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, o'm hachos i a'r efengyl, a'r ni dderbyn y càn cymaint yr awrhon, y pryd hwn . . . ac yn y byd a ddaw fywyd tragywyddol." Rhaid i bawb adael y cwbl wrth ddyfod at Grist, ond derbynia y cwbl yn ol ar eu canfed; nid cant y cant (*cent. per cent.*) a olygir, ond cant yr un (*cent. per one*); bydd y bunt yn myned yn gant. Cyn iddo gael crefydd efe oedd pia ei wraig a'i blant, ei dad a'i fam; a mawr oedd ei helbul yn eu cylch; yr oedd gofal am eu cynal ac ofn eu colli bron ei orchfygu. Ond wedi iddo gael crefydd, Iesu Grist bia ei deulu; ond y mae yn rhoddi eu benthyg am ychydig iddo ef; ac y mae yntau yn eu derbyn bob dydd o law Iesu Grist, ac yn mwynhau eu cymdeithas yn anghyffredin. Nid ydyw yn disgwyl i hyn barhau mewn byd y bwriadodd Duw iddo fod yn gyfnewidiol; ond tra y maent ganddo cyflawna ei ddyledswydd yn ffyddlawn tuag atynt, gan gredu yn mendith Duw ar ei lafur; a phe y digwyddai i angau symud rhai o honynt, fel y gwna yn sicr yn y man, medr goleddu y gobaith gwynfydedig am fwynhau eu cwmni byth mewn gwlad sydd well. Nid eu colli a wna; hwy fydd yn ei ragflaenu; "*Not lost, but gone before.*" Ni fyddant ond wedi myned ychydig o'i flaen, i wlad dda odiaeth o dragywyddol haf, lle y bydd yntau yn gobeithio eu canlynn, i ganu gyda'u gilydd

"O! hyn fydd yn hyfryd"

oddeutu'r bwrdd, "heb byth ymadael mwy." Cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear y rhagora y teulu hwn ar y teulu oedd ganddo o'r blaen.

Cyn iddo gael crefydd efe oedd pia'r tai ; tipyn o *speculation* oedd eu hadeiladu ; nid ydyw wedi gorphen talu am danynt ; a mawr oedd ei bryder o bob math yn eu cylch. Neu efallai mai fferm oedd ganddo ; ond efe oedd y perchenog ; arno ef y pwysai yr holl ofal a'r cyfrifoldeb gyda golwg arni, ac yr oeddynt yn mron a'i lethu yn fynych. Ond ryw ddiwrnod, o dan weinidogaeth onest, y mae yn cael ei wysio o flaen ei Farnwr ; y mae'r llyfrau yn cael eu hagog, a'i achos yn cael ei drin ; a dyma yntau yn cael ei hun yn bechadur euog a damniol. Y mae y tai a'r fferm wedi eu hanghofio ; i.e. wedi cael eu colli ; y mae'r cwbl wedi eu fforffetio ganddo fel *rebel* yn erbyn y llywodraeth. O'r diwedd, pan yn y cyfyngder mwya' erioed, y mae yn cael gollyngdod trwy daliad Machnïydd ; yn cael diangfa mewn iawn ; a mawr ydyw ei orfoledd wrth deimlo y cortyn damniol yn cael ei dynu oddiam ei wddf. Am enyd, nid oes.ganddo hamdden i feddwl am ddim ond am y waredigaeth a gafodd ; ond pan ddaw ato ei hun, canfydda fod y Machnïydd wedi ei bresentio yn ol a'r tai a'r fferm oedd wedi fforffetio ; gyda hyn o wahaniaeth, Ei fod yn cadw y meddiant yn Ei law Ei Hunan ; gydag Ef y bydd y *title deeds* o hyn allan. Ar yr Iesu o hyn allan y gorwedd y cyfrifoldeb am driniaeth y fferm ; am y gwynt, y gwlaw, a'r gwres, a'r trethoedd a'r taloedd ; ond ei fod yntau o dan yr Iesu yn *farm bailiff*, yn cael mwynhau holl gysuron y fferm, heb ddim o'i hanghysuron ; y rhai hyny i gyd wedi eu cymeryd oddiarno. Dyma'r "cân cymaint yr awrhon, y pryd hwn ;" a bernwch chwi ai nid yw y cyfrif yn gywir ?

II. *Mantais fawr y bywyd hwn ; " trysor yn y nefoedd."* Nid ydym i wasanaethu er mwyn trysori ; ac eto trwy wasanaethu y mae trysori. Oblegid gwobrau ac nid cyflogau a fydd yn y nefoedd. A chan mai gwobrau a fyddo yno, nid yn ol gwerth masnachol y gwasanaeth y cyfrenir hwy, ond yn ol cyfoeth ac

anrhydedd yr Hwn sydd yn eu cyfranu. Ni fydd dim cyfar-
taled rhwng maint y wobr a maint y gwasanaeth; bydd y
punoedd wedi myned yn ddinasoedd. Iē, rhoddir teyrnas i
rai am gyflawni gwasanaeth mor fychan, fel na fyddant yn ei
gofio (Mat. xxv. 35). Efallai mai bod yn onest yn yr alwedig-
aeth dros Dduw, dyweyd y gwir pan mewn temtasiwn i
ddweyd celwydd, gofalu am amgylchiadau yr achos, glanhau
tŷ yr Arglwydd a'i gwmpasoedd, neu ynte letya y pregethwr,
fydd y gwasanaeth; ond ni fentraf ddyweyd beth fydd maint
y wobr. Pan fyddo Iesu Grist yn gwobrwyo, y mae yn
gwneuthur hyny yn ol Ei urddas anfeidrol fel Duw.

PREGETH XIII.

—:O:—

CREADIGAETH NEWYDD.

2 COR. v. 17.—“*Gan hyny od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele gwnaethpwyd pob peth yn newydd.*”

YR oedd Paul, pan yn ysgrifenu at y Corinthiaid, dan angenrheidrwydd i wneyd crybwyllion mynych am dano ei hun. I ddyn priodol ei deimlad y mae yr angenrheidrwydd hwn, bob amser, yn un blin. Yr oedd plaid wrthwynebol iddo wedi cyfodi yn eglwys Corinth. Er mai efe a blannodd yr eglwys hon, a bod ei lafur yno wedi bod yn dra llwyddianus, daethai gau athrawon yno o Judea ar ol ei ymadawiad, gan hudo llawer o'r Corinthiaid i fyned ar gyfeiliorn, ac i synio yn isel iawn am Paul, eu tad yn yr efengyl. Am hyny, pan yn ysgrifenu ei lythyr cyntaf at yr eglwys gymysg hon, i'w chyfarwyddo pa fodd i benderfynu amryw faterion dyrus o'i mewn, y rhai oedd yn rhaid eu dwyn i ryw derfyniad, ni a'i cawn mewn modd gochelgar yn cyfeirio at eu syniadau am dano ef, a'r cyhuddiadau maleisus a ddygid i'w erbyn, ac yn amddiffyn ei hun. Canlyniad hyn ydoedd i'r rhai gwrthwynebus gymeryd achlysur oddiwrt h ei lythyr i'w gyhuddo o wagedd meddwl, a hunan-ganmoliaeth, fel pan yn ysgrifenu ei ail lythyr y mae dan orfodaeth i amddiffyn hyd y nod ei hunan-amddiffyniad.

Dywed unwaith nad ydyw, ac nas gallai fod, yn canmol ei hun wrth y Corinthiaid yn anad neb, gan mai hwy oedd y bobl ddiweddaf y buasai yn tybied fod angen am iddo ganmol ei hun wrthynt. “Ni raid i mi wrth lythyrau canmoliaeth i ddyfod atoch chwi,” meddai, “nac oddiwrt hych chwi at eraill, megis i rai,” gan roddi hergwd wrth basio i ddynionach

anhysbys oedd wedi dyfod atynt yn ddiweddar, ac wedi eu harwain ar gyfeiliorn. Llwyddiant ei weinidogaeth yn Corinth, yr hyn oedd mor gyffredinol hysbys, oedd llythyr canmoliaeth Paul at eglwysi eraill, pe mewn angen llythyr canmoliaeth o gwbl, "yr hwn a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn." Wrth ysgifenu, teimlai Paul awydd angerddol am ddweyd rhyw gymaint o'i hanes ei hun wrthynt. Gan eu bod wedi gwrandao ar honiadau trystfawr y gau-athrawon, ac wedi cael eu llithio ganddynt, dymunai iddynt wybod yr hyn oedd ganddo yntau i'w draethu, fel y gallent fod mewn mantais i wneyd cymhariaeth. "O na chyd-ddygech â myfi ychydig yn fy ffolineb, eithr hefyd, cyd-ddygwch â myfi;" i.e., yn wir, gwnewch. "Canys eiddigus wyf trosoch ag eiddigedd duwiol." Yna y mae yn dechreu dweyd ychydig, ond yn petruso wrth fyned yn mlaen: "Na thybied neb fy mod yn ffol; os amgen, derbyniwch fi fel ffol, fel y gallwyf finau hefyd ymffrostio ychydig." "Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd, nid wyf yn ei ddywedyd yn ol yr Arglwydd (sef, dan ysprydoliaeth ddwyfol), eithr megis mewn ffolineb yn hyn o fost hyderus." "Gan fod llawer yn ymffrostio (sef, y gau-athrawon), minau a ymffrostiaf hefyd." Yna, dechreua adrodd hanes ei lafur gorchestol, ei erledigaethau poethion, ei beryglon gwastadol ac amrywiol, ei barodrwydd i gydymdeimlo â phawb; ond pan yn traethu, dywed rhwng cromfachau: "Mewn ffolineb yr wyf yn dywedyd." Gwn nad yw ymffrostio yn fuddiol i mi, eto yr wyf dan angenrheidrwydd i wneyd hyny er eich mwyn chwi, er fy mod wedi ymatal yn fawr. Rhwng difrif a gwatwareg finiog llwydda i ddweyd cryn lawer am dano ei hun, nes dyfod at weledigaethau a datguddiedigaethau yr Arglwydd. Ond wedi gorphen efe a ddywed: "Mi a aethum yn ffol wrth ymffrostio;" ond y mae ei amddiffyniad ganddo wrth law: "Chwychwi a'm gyrasoch." Eich ymddygiadau chwi a wnaeth hyny yn angenrheidiol; er eich mwyn chwi y gwnaethum; oblegid er fy holl orchestion, "nid wyf fi ddim."

Yn amgylchiadau'r testyn ni a gawn Paul yn ffurfio ymresymiad cadarn i brofi'r ffaith, ac i egluro paham nad ydyw yn cael ei gynhyrfu gan wagedd cyffredin meibion dynion, ac nad ydyw yn canmol ei hun yn ei galon. Y mae wedi profi cyfnewidiad mor llwyr a thrwyadl ag sydd wedi ei ddyrchafu allan o fyd gwagedd. Y mae yn greadigaeth newydd. Dygasai Paul dystiolaeth iddo ei hun yn adn. 11: "Eithr i Dduw y'n gwnaed yn hysbys; ac yr ydwyf yn gobeithio ddarfod ein gwneyd yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd." Pan yn ysgrifenu y geiriau, diau ei fod yn rhagweled y ffoenwawd (*sneer*) fyddai yn ngwynebau ei elynion pan glywent hwy yn cael eu darllen; ac y mae yn rhag-glywed yr hyn oedd yn barod i ddylifo dros eu gwefusau: "Ie, dyna hi eto; wrth yr hen grefft o ganmol dy hun, byth a hefyd;" am hyny achuba y blaen arnynt yn adn. 12, trwy ddywedyd: "Nid ydym yn ein canmol ein hunain drachefn wrthyh." Y mae yn gyfreithlon i chwi orfoleddu ynom, er nad i ni orfoleddu ynom ein hunain, ac i ogoneddu Duw ynom; yr wyf am roddi i chwi ddefnyddiau i hyny; ac fe wna yr un defnyddiau y tro i'ch galluogi i "ateb yn erbyn y rhai sydd yn gorfoleddu yn y golwg, ac nid yn y galon." Nid yw eu holl ymffrost hwy, druain, ond tinsel tlawd; mwy o ymddangosiad nag o sylwedd. "Canys pa un bynag ai anmhwylllo yr ydym" (adn. 15) gan gyfeirio naill ai at ei ymarweddiad cyffredin, yr hwn nid oedd ddim amgen na gwallgofrwydd yn nghyfrif llawer; neu ynte at anmhwyllledd mewn anghymedroldeb a diffyg gwyleidd-dra wrth siarad am dano ei hun: "I Dduw yr ydym." Iddo Ef y mae yr holl glod yn myned; trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf. "Ai yn ein pwyll yr ydym;" os mai mewn sobrwydd yr ymddygn bob amser, ac os mai geiriau gwirionedd a sobrwydd a lefarwn am danom ein hunain; "i chwi yr ydym;" er eich lles chwi y mae hyny; nid oes mantais na chlod personol yn cael ei enill.

"Canys y mae cariad Crist yn ein cymhell ni" (adn. 14);

yn ein dal yn nghyd; yn ein cau i fewn; yn ein gorfodi; "gan farnu o honom hyn, os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb;" neu yn hytrach, "meirw a fu pawb." Yn nghyfrif Paul, yr oedd y rhai y bu Crist farw trostynt wedi cydfarw ag Ef, wedi eu cydgroeshoelio, eu cydgladdu, a chydadgyfodi ag Ef. Y mae undeb cyfriniol (*solidarity*) rhwng Crist a'i bobl. Ceir y syniad hwn yn amlwg yn nysgeidiaeth Paul. Ac nid yn unig mewn ystyr gyfriniol, fe fu pawb farw yn Nghrist ag y bu Efe farw drostynt; ond yr oedd ganddo amcan pendant wrth farw; amcan i'w sylweddoli yn ymarferol yn mywyd pob un o honynt (adn. 15). Tybia hyn safon newydd i farnu, ac i fesur teilyngdod: "Am hyny, nyini o hyn allan nid adwaenom neb yn ol y cnawd" megis cynt; nid adwaenwn hwy wrth eu cenedl, eu cyfoeth, eu safle cymdeithasol, eu cwrtaiith meddyliol; "ac os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd;" ac ni a fuom; buom yn Ei ddisgwyl fel Messiah tymhorol ac Iuddewig; "eto yn awr, nid ydym yn ei adnabod ef mwyach." "Gan hyny," fel casgliad anocheladwy; "Od oes neb yn Nghrist;" mewn undeb yspryd a chalon ag Ef; yn credu ynddo; i.e, ac yn byw trwyddo fel elfen a chylch bywyd; "y mae yn greadur newydd," neu, "yn greadigaeth newydd." Nid oes nemawr wahaniaeth rhwng y ddau ddarlleniad, oblegid pa le bynag y ceir creadur newydd ceir creadigaeth newydd yn ogystal; ond gan mai pwysleisio ar y cyfnewidiad a wna yr apostol, dichon mai creadigaeth yw y gair goreu. "Yr hen bethau a aethant heibio;" oddimewn ac oddiallan; yr hen egwyddorion, yr hen amcanion, yr hen syniadau, a'r hen arferion: "Wele," meddai, fel un a edrychai ar y pryd ar yr olygfa brydferth; "gwnaethpwyd pob peth yn newydd." Nid ein harchelyn ydyw Duw, ond ein Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd; nid gelynyon i'w darostwng yw dynion o'n cwmpas, na slafiaid i'w gormesu, ond brodyr ag y mae arnom rwymedigaeth i wneyd ein goreu i'w hachub. Nid ydyw cyfoeth ond gallu a chyfleustra i wasanaethu Duw, na bywyd yma ar y goreu ond prentisiaeth

ar gyfer byd arall. Pa le bynag y cyfarfyddir a Christion, sydd yn byw yn Nghrist, gellir dweyd am dano: "Dyma beth newydd."

Y MAE POB CRISTION GWIRIONEDDOL YN GREADIGAETH
NEWYDD; YN BETH HOLLOL WAHANOL I'R HYN YDOEDD
GYNT.

1. *Y mae yspryd a hanfod ei fywyd yn wahanol.* Ni raid wrth well disgrifiad o hyn na'r hyn a nodir yn adn. 15 fel amcan marwolaeth Crist: "Fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd." O'r blaen nid oedd Duw yn bod i'r dyn. Yn ymarferol yr oedd fel yr Ephesiaid, "heb Dduw yn y byd." Er mai Efe a wnaeth y cwbl, a bod pob peth a wnaeth yn cyfeirio ato, medr beidio meddwl am Dduw. Y mae yn cau Duw allan o'i greadigaeth Ei Hunan. "Pob tŷ a adeiladwyd gan rywun; ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw." Dyma dystiolaeth synwyr cyffredin; i.e., dyma dystiolaeth y rhaid i bob dyn ei dwyn o herwydd angenrheidrwydd ei natur. Rhaid treisio natur cyn y medr dynion synio yn wahanol. Dywedai dyn ieuanc wrthyf yn ddiweddar ei fod yn methu cael sicrwydd am fodolaeth Duw. Gofynwn inau, A oedd efe yn medru meddwl am ddyfais a chynllun yn rhywle heb gynllunydd? nad oeddwn i yn synio felly. Y gwyddwn fod yr *argument from design* yn annigonol yn nghyfrif rhai, ond ei bod i mi yn bob peth angenrheidiol; na fedrwn edrych ar oriawr heb deimlo fod iddi wneuthurydd; na fedrwn gredu fod *Coll Gwynfa* Milton wedi dyfod i fod heb ddyfeisydd; ac mai felly yr edrychwn ar yr aneirif bethau sydd o'm cwrpas; na fedrwn feddwl am gywreinaeth y llygad, a'r myrdd cyfluniadau sydd wedi cydgyfarfod ynddo, a'r cwbl yn nghyd yn galluogi dyn i wneyd peth mor ofnadwy o ryfedd a gweled, heb deimlo fod iddynt oll Ddyfeisydd, anafsurol ddoeth a da, ac mai i mi Duw oedd hwnw. Addefai yntau yn rhwydd a gonest ei fod yntau yr un fath; ond gofynai, Pa sicrwydd oedd ganddo nad caeth-

iwed a bychander ei natur oedd yn ei orfodi i feddwl felly ? mai nid efe oedd mesur y greadigaeth, nac i benderfynu beth sydd yn bosibl nac yn anmhosibl. I hyn yr atebwn, mai nid efe, bid sicr, na neb dynion, sydd i fesur terfynau posibilrwydd yn y greadigaeth ; ac eto fod ei natur ef ei hun yn gosod terfynau ansymudadwy ar weithrediad ei feddwl ef ei hun ; na fedr neb feddwl y tu allan i gylch deddfau ei natur. Ac os oedd ef yn ceisio gwneyd hyny, na allai yn rhesymol ddisgwyl cael sicrwydd am fodolaeth Duw ; fod y sicrwydd hwnw yn anmhosibl yn y llwybr yr oedd efe yn deithio. Ond ychydig neu neb sydd yma o'r bobl hyny, " y rhai pan dybient eu bod yn ddoethion a aethant yn ffyliaid," nes gwadu y peth amlycaf i bob natur bur a didwyll, sef bodolaeth Duw. Pobl yn cydnabod Ei fod sydd yma ; ac eto, pobl, rai o honoch, sydd yn llwyddo i beidio a meddwl byth am dano : " Nid ydyw Duw yn eich holl feddyliau ;" " cas genych ei gadw yn eich gwybodaeth." Yr ydych yn medru byw yn nghanol cyfaddasiadau mor brydferth a daionus heb gofio am dano. Yr ydych yn fwy anfoesgar tuag Dduw na thuag at neb. Pan yn edrych ar waith dyn, mewn adeiladwaith neu beirianwaith, arlun neu gerflun, os byddwch yn cael eich boddhau yn fawr, rhaid talu gwarogaeth a chanmol y neb a'i gwnaeth. Beth a welsoch yn debyg i waith Duw ? Nid ydych byth yn Ei ganmol Ef ! Paham yr ydym yn fwy anfoesgar tuag at Dduw na neb ? Ai nid yw yn cael ei beri gan ofn llechwraidd fod ganddo Ef hawliau arnom nad ydym yn dewis eu cydnabod ? Ac yr ydym yn medru peidio cydnabod y rhai hyny, er mai ynddo Ef yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod. Bydd y dyn yn tynu ei gynlluniau, ac yn arfaethu ei fwriadau, heb ymgynghori ag Ef. " Heddyw neu yfory, ni a awn i'r cyfryw ddinas, ac a aroswn yno flwyddyn, ac a farchnatawn ac a enillwn, heb ddywedyd, Os yr Arglwydd a'i mŷn, ac os byddwn byw, ni a wnawn hyn neu hyny." Y maent heb Dduw yn y byd !

I bwy ynte y maent yn byw ? Iddynt eu hunain. Anhawdd

cael gwell desgrifiad o fywyd bydol, na gwell dosparthiad ymarferol ar bechodau, nag a geir gan Ioan (Ioan ii. 16) : “Canys pob peth a'r sydd yn y byd, megis chwant y cnawd, a chwant y llygaid, a balchder y bywyd, nid yw o'r Tad, eithr o'r byd y mae.” Mewn un eithaf ceir chwant y cnawd; dyna'r blysiâu a'r nwydau anifeilaidd; yr awydd am ymbleseru yn mhob ffurf. Mewn eithaf arall ceir balchder y bywyd, yn mhob ffurf arno, a'i appeliadau llygredig. Ac yn y canol, rhwng y ddau, y mae chwant y llygaid; yr awydd i feddianu a'i gywaid ystrywgar. Gosodir hwn yn y canol, medd un esboniwr, am y medr ymgyfathrachu a'r rhai o bob tu iddo. O ran hyny, fe all y ddau eithaf ddyfod at eu gilydd, geill y rhai sydd wedi bod yn dyfaisio, i.e., yn treisio eu ffordd i wneyd ymddangosiad gwych, fod yn ddarostyngedig i flysiau isel. Darllenwn am y cythreuliaid yn trigo mewn moch; ac nid yn ngwlad Gadara yn unig y bu hyny.

Heb Dduw i roddi atalfa arnynt, bydd y nwydau anifeilaidd, a'r egwyddorion diefflig hyn, yn eu llawn rwysg a'u rhyseidd. Fel y profwyd yn Ffrainc, yn chwildroad diwedd y ganrif o'r blaen, pan wnaed y cyhoeddiad : “Nid oes un Duw; ac ni chaiff un Duw fod!” Beth a fu y canlyniad? Holl nwydau bwystfilaidd y natur ddynol yn gyru yn chwyrn, heb ddim i'w dofi, na'u rhwystro; pob dinystr ac aflwydd mewn cymdeithas, na welwyd ei fath, ac ni a obeithiwn na welir ei gyffelyb—y mae un *experiment* o'r peth yn ddigon byth!—fel y gorfodwyd un o brif arweinyddion y chwildroad i grochlefain—drachefn yn ynfyd fel Ffrancwr—“Os nad oes Duw yn bod, bydded i ni wneyd un!” Yr unig atalfa ar hunan dyn, a'r uffern bosibl sydd o'r tu fewn iddo, ydyw Duw. Ac y mae gwrtheithio rhinwedd o gwbl mewn dynoliaeth, heb gydnabod bodolaeth Duw, allan o'r cwestiwn. Am ddeuddeg mlynedd darfu i Chalmers ddrwgliwio yn rymus holl ffurfiau pechod, a thraethu yn hyawdl ar brydferthwch pob rhinwedd; ac nid oedd ar y duwinydd galluog brinder dawn na brwdfrydedd; ond nid oedd dim yn tycio; nid oedd neb yn gadael ei bechod nac yn

cymeryd at rinwedd; nes y torodd ei galon yn lân. Yna, fe feddyliodd mai gwreiddyn yr holl ddrwg oedd fod dynion mewn anghymod â Duw, ac fe newidiodd ffurf ei weinidogaeth; "Cymoder chwi a Duw" oedd baich ei bregethu o hyny allan.

Ond pa fodd y cymer hyny le? Ni ddaw dynion sydd wedi dechreu encilio byth yn ol o honynt eu hunain. Pe bai comed yn tori yn rhydd oddiwrth yr haul ni ddeuai yn ei hol byth. Dichon yr elai yn mhellach, nes dyfod at ryw haul arall, yr hwn o bosibl a'i sicrhâai wrtho ei hun. Comedau crwydredig, ser cyfeiliornus, wedi tori yn rhydd oddiwrth eu Haul, ydyw dynion; ond yn yr adnodau blaenorol ni a welwn y Dwyfol Haul wedi dyfod ar ol y ser crwydredig: "Efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain." Dyma enghraifft hapus yn y testyn, sef hunan-ymwadiad Paul. Rhydd i fyny obeithion dysglær heb ad-daliad daearyl; hen gyfeillion, gan eu troi yn elynion marwol; hen syniadau ac arferion cysegredig ei ieuenctyd, i ganlyn Person a fu unwaith yn ddirmygus yn ei olwg, ac a fu yn gasâu yn fwy na neb. Ymgymerrodd a bywyd o dlodi, gwaradwydd, anghysur, llafur, peryglon o bob rhyw, a hyny bob amser; oblegid yr oedd yn wastad yn cael ei roddi i farwolaeth. Ni wnaeth hyny yn ddirybudd, ychwaith; yr oedd yr Ysbryd Glân yn tystio iddo yn mhob dinas fod rhwymau a blinderau yn ei aros. Ond nid gwerthfawr ganddo ei einioes ei hun yn ngwasanaeth Crist. Dyma hunan-ymwadiad trwyadl; ymddengys i mi nad oes ynddo ddim hunangais. Dyma hunan-ymwadiad iachus, fel sydd yn angenrheidiol yn ngwasanaeth Crist; nid un mympwyol mo hono, wedi ei ddyfeisio er ei fwyn ei hun, fel sydd gan y Pabyddion. Byddant hwy yn fynych heb ddiddosrwydd am eu penau neu am eu traed; ymprydiant yn aml; fflangellant eu hunain; bydd boneddigesau cyfoethog yn golchi'r lloriau ar eu gliniau noethion; ysgriwiant gadwyn yn dyn o gwmpas eu cyrff noeth, fel y bydd eu dolenau yn suddo i'w cnawd.

Onid oes hunan-ymwadiad mewn peth felly? Oes, o ryw fath. Ond cyflea syniad gwrthun am Dduw, sef Ei fod yn cael Ei foddloni yn mhoenedigaeth Ei greaduriaid. Math sâl ydyw, yn golygu manteisio trwyddo mewn rhyw ffurf. Am hyny, nid yw ond ffurf gyfrwys a thwyllodrus ar hunangais. Ond wrth wasanaethu Crist yr oedd Paul yn hunan-ymwadu. Teithiai'r gwledydd dros dir a môr i bregethu Crist i Iuddewon a Chenhedloedd; dadleuai a'r rhai gwrthwynebus; cadarnhâa: y saint; planai eglwysi ac ysgrifennai lythyrau atynt, a hyny er mwyn gwneyd; ac wrth wneyd y pethau hyn yr oedd yn hunan-ymwadu. Cewch chwithau ddigon o gyfleuserau felly. A ydych chwithau yn eiddo'r Ceidwad, ac yn ymwadu o wirfodd calon, gan gyfrif hyny yn fraint? Os felly, dyna beth newydd. Yr oeddych chwithau yn rhodio yn ol helynt y byd hwn. Nid dadblygiad na chwarteithiad yw y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle arnoch ac ynoch, ond creadigaeth newydd.

2. *Y mae gobethion ac uchelgais y bywyd hwn hefyd yn newydd.* Y mae ymestyniad at ryw berffeithrwydd yn perthyn i bob bywyd sydd o natur gynyddol. Creadur cynyddol ydyw dyn, am hyny y mae yn anfoddog. *Man never is, but always to be blessed.* Y mae y bywyd newydd hefyd yn un cynyddol ac ymestynol. Meddai yr Apostol Petr: "A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth," &c. Ond y maent i ymestyn at yr amryw rinweddau hyn, yn eu gwedd ddwyfol, ac nid er elw personol, onide byddant yn euog o'r un amryfusedd a'r Pabyddion, sef hunan-ymwadu er mwyn cael elw oddiwrtho. Ceir iechyd ysprydol fel un corfforol wrth gyflawni gorchwylion angenrheidiol yn yr awyr agored. Cynghorir dynion gan y meddyg i ddilyn ymarferion corfforol, a rhodio yn yr awyr, er mwyn iechyd; a bydd llawer yn gwneyd. Ond blin yw cerdded llawer, a dringo'r mynyddoedd, er mwyn bod yn iach; rhoddir i fyny yn fuan. Y modd goreu yw ceisio gorchwyl buddiol ac angenrheidiol i'w gyflawni.

yn yr awyr, ac yna fe ddaw iechyd. Gwna waith dros Dduw, yn awyr ysprydol Duw, ti a ddeui yn iach a chryf. Paid astudio dy iechyd yn uniongyrchol.

Nid fel hyn yr ymestyn plant y byd hwn. Y mae y nifer fwyaf o honynt hwy am fod yn gyfoethog, ac am ymgyfoethogi yn gyflym. Y bobl lwyddianus yn eu cyfrif hwynt yw y cyfoethogion. Rhai wedi methu yw y lleill. Ac os nad am gyfoeth, awyddant am sylw, a pharch, a bri, sef y gogoniant a ddeillia oddiwrth ddynion, ac nid oddiwrth Dduw yn unig. Yr oedd ymestyniad Paul am yr un pethau ag y gweddiâi am danynt i ereill.

3. *Y mae colledion a niweidiau y bywyd hwn, ac am hyny ei beryglon a'i ofnau, yn newydd.* Medd pob bywyd ei beryglon; medd hefyd allu a thuedd reddfol i amddiffyn ei hun; naill ai mewn adenydd i hedeg, neu draed cyflym i redeg, craffder llygad, teneurwydd ffroen a chlust, neu gragen i ymlusgo iddi, neu ynte gyrn ar ei ben. Y maent oll yn gwybod pa fodd i ddefnyddio eu harfau amddiffynol. Medd bywyd daearol dyn hefyd ei beryglon, a rhwygir llawer gan ofnau o bob math. Yr ofn mawr yw ofn colli angenrheidiau a chysuron bywyd; ofnant dlodi; ac y mae llawer yn ofni tlodi yn fwy na phechod. Yn nesaf ato ei hun ofna gyda golwg ar ei deulu a'i berthynasau; ofna am iechyd ei anwyliaid, rhag iddynt gyfarfod â damweiniau, gan losgi yn y tân neu foddi yn y dwfr. Yspeilia yr ofnau hyn ran fawr o gysuron bywyd. Y mae gan y Cristion hefyd ei ofnau, ond y maent yn gydweddol â natur y bywyd newydd; ofn cael ei lithio i bechu; ofn methu cyrhaedd nôd ac amcan ei galon. Ychydig o ofnau oedd yn mywyd Paul; yr oedd llawer mwy o obeithion ynddo: "Ni roddes Duw i ni yspryd ofn," meddai. Eto byddai yn ofni weithiau. Byddai saint yr Hen Destament yn ofni drygau tymhorol; a phethau tymhorol yn benaf yr oedd Duw wedi addaw bendithio yr ufudd. Ofnent hwy ddrygau tymhorol, nid fel y mae pawb yn eu hofni, oblegid nid oes neb yn cashau ei gnawd ei hun, ond fel arwydd o anfoddlonrwydd Duw. Ond hyd y

nod dan yr Hen Destament dechreuent ganfod y posiblwrwydd i groesau ac adfyd ateb dybenion daionus. "Atebi i ni trwy bethau ofnadwy yn dy gyfiawnder." Er mai cyfeiriad cyntaf y geiriau ydyw at farnau Duw ar elynion Ei bobl, tybia Matthew Henry y posiblwrwydd iddynt ganfod y posiblwrwydd i'r barnau ateb amcanion daionus wrth ddisgyn arnynt hwythau. "Cynorthwyed dy farnedigaethau fi," meddai Dafydd, heb eu cyfyngu i'r dialeddau ar ei elynion, ond gan gymeryd i mewn y pethau blinion, croesion, a allai ei orddiwes yntau. Gan droi i iaith fugeiliol, dywed: "Cyfeiliornais fel dafad; cais dy was." Cais fi â'th farnedigaethau, ie, anfon dy gŵn ar fy ol; o dan dy lygad ni wna dy gŵn ddim ond lles i mi. Rhydd Iago hefyd fynegiad i'r un syniad. Er mwyn cyfanu a chyflawni eich cymeriadau, ymostyngwch i bob triniaeth chwerw, gan gyfrif hyny yn bob llawenydd. Chwi a fyddwch wedi cael bargaen dda arnynt, os perffeithir chwi mewn amynedd, oblegid, medd un awdwr, y mae amynedd yn athrylith a llygad ganddo bob amser i weled y fantais fwyaf. Dyna hanfod ofnau a gobeithion y bywyd newydd.

4. *Gan hyny, bywyd priodol i fyd arall ydyw.* Nid ar gyfer y byd hwn y mae wedi ei gyfaddasu yn arbenig; er fod duwioldeb yn talu yn dda yma; y mae ganddi addewid o'r bywyd sydd yr awrhon; er fod troell naturiaeth yma fel pe yn fwy ffafriol i fywyd daearol nac i un nefol. Y mae helynt y byd hwn dan lywodraeth ei dywysog; y diafol sydd yn cynhyrfu ei wynt, ac yn rheoli ei ffasiynau. Dyeithriaid a phererinion yw y saint ar y ddaear. I arall fyd eu ganed hwy. Eu dinasyddiaeth, neu eu gweriniaeth, sydd yn y nefoedd. Am fynyd awr y maent i fod yma, am byth acw. Cyhudda rhai anffyddwyr Gristionogaeth o anghymhwysio dynion at y byd hwn. Nid yw y teulu yn cael digon o le, na'r dyledswyddau priodol iddo; na'r wladwriaeth ychwaith, a'r rhwymedigaethau priodol iddi hithau. Nid yw Cristionogaeth yn anog neb i gasglu cyfoeth, nac yn dysgu neb y ffordd i wneyd; ac y mae yn llwyr ddiystyru celfyddyd (*art*), a'r amryw

gyfaddasiadau buddiol a phrydferth a gynyrchir ganddi. Efallai fod peth gwir yn hyn. Pe buasai dyn i aros yma yn llawer hwy nag y mae, ac i beidio a byw mewn un lle arall, buasai y pethau hyn yn ddiffygion pwysig. Ond gan mai ymdeithydd ydyw yma, a'i fod i orphen y daith cyn pen ychydig flynnydoedd, a'i fod i gartrefu byth mewn byd ar ol hwn, y mae yr efengyl yn ei lle wrth roddi y pwyslais i gyd ar y fuchedd dragywyddol. Ar yr un pryd, rhydd ddigon o gyfarwyddyd i ni ar gyfer yr enyd fechan y byddwn yma. Cawn fod pob peth yma yn edrych yn mlaen : "Awyddfryd y creadur sydd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw." Ni byddi di gredadyn yn dy ddeall dy hun, na phob peth cuddiedig yn dy fywyd newydd, nes y cyrhaeddi dy awyr a'th wlad dy hun. Bydd pob peth yno yn cydgorodio, ac yn is-wasanaethgar i'r bywyd tragywyddol. Nid yw y cyw yn yr ŵy yn deall gwasanaeth ei adenydd tra y byddo o fewn yr ŵy; ond wedi i'r plisgyn dori, a'r aderyn ddechreu ehedeg yn yr awyr, y mae amcan yr adenydd yn amlwg. Credaf fod o'ch mewn chwithau ddymuniadau eang, a galluoedd nerthol, nad ydych yn eu deall; ond wedi cyrhaedd eich gwlad eich hun, chwi a ddeallwch mai magu esgyll angelion yr oeddych, i ehedeg byth yn nefoedd Duw. I'r byd hwnw y mae y creadur newydd wedi ei gyfaddasu.

CASGLIAD.

(A) *O fywyd rhydd, mor rhydd a bywyd Duw!* Efallai y dywedir nad yw Duw yn rhydd; mai bôd o angenrheidrwydd y mae; ac nad yw y Cristion ychwaith yn rhydd, ond ei fod mewn hualau caethion. Ydyw, y mae y naill a'r llall yn rhydd. Sicrheir y rhyddid hwn gan y ffaith mai cariad ydyw yn y naill a'r llall; y cariad yn gweddnewid y rheidrwydd, yn rheidrwydd gogoneddus.

(B) *O fywyd dedwydd!* Ei hunan-ymwadiad llwyr yn perffeithio ei ddedwyddwch. Dywedai Payson: "O ddedwydded ydyw bywyd wedi rhoi fy ewyllys i Dduw!"

(c) *O fywyd newydd, fresh, na heneiddia byth, ond a bery yn dragywyddol ieuanc a newydd!* Wrth feddwl am dragywyddoldeb byddwn bron a llesgâu weithiau wrth feddwl am ei feithder; ond y mae y syniad hwn yn ein cymodi ni; yr ydym yn foddlon bôd byth ond cael bod yn ieuanc; bod fel Duw yn hen di-hen.

A wyddoch chwi am y cyfnewidiad? Y mae y geiriau "rhaid eich geni chwi drachefn" mor wir ag erioed. Ac er sicrhau creadigaeth newydd nid oes dim i'w wneyd ond dangos y groes; ac fe ofala Duw na fydd hyny yn ofer.

PREGETH XIV.

—:0:—

YR IESU BYW.

IOAN XIV. 19.—“*Eto enyd bach, a'r byd ni'm gwel mwy; eithr chwi a'm gwelwch: canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.*”

DICHON nad oes dim yn crynhoi ac yn cyfyngu holl sylw dyn arno ei hun, yn gymaint a thrallod, neu boen personol. Ar adegau eraill nid oes neb yn medru byw yn hollol iddo ei hun. Er fod pechod wedi culhau a chrebychu ysprydoedd pawb i raddau pell, y mae rhyw dynerwch a serch wedi aros yn y fynwes ddynol, sydd mewn amgylchiadau cyffredin yn gwneuthur eraill yn wrthddrychau ei ofal yn gystal ag ef ei hunan. Y mae yn meddwl am ei deulu, ei gyfeillion, ei gymydogion, a'r wlad a'r byd. Ond pan fyddo yn ddyoddefydd, pa un bynag ai oddiwrth drallod meddyliol neu boen corffordol, bydd ei yspryd yn ymgrynhoi i'w gragen ei hun, ac yn anghofio pawb a phob peth arall. Mewn gofid, bydd y mwyaf haelfrydig ac eang ei gydymdeimlad yn myned yn *selfish*; gwaredu ei hun o'r perygl, esmwytho ei boen, a lleddfu ei drallod ydyw yr unig bethau y meddylia am danynt. Ar y pryd, nid oes dim mewn bod ond hyny iddo ef. Ystyria a chydnebydd pawb fod gofid personol yn ddigon o esgus dros anghofio pawb eraill. Dyma yr arfer gyffredin. Y mae rhai eithriadau godidog yn bod. Yn mhlith yr eithriadau hyn, a'r hynotaf o honynt oll o lawer iawn, y saif yr Arglwydd Iesu. Pan y dyoddefai ingol loes ar y pren croeshoeledig, dan guddiadau wyneb Ei Dad, yn wrthddrych ymosodiadau cythreuliaid a gwawd dynion, ymddangosai fel pe yn meddwl mwy am eraill nag am dano Ei Hun. Gweddïai dros Ei boenydwyr; gwrandawodd weddi y lleidr llofruddiog oedd yn Ei ymyl; a

chyda thynerwch mabaidd cyflwynodd Ei fam i ofal y dysgybl anwyl. O hunan-ebargofiant heb ei gyffelyb! Dyma amlygiad o gariad a hunan-aberthiad, a saif byth ar ei ben ei hun yn nghreadigaeth Duw, yn destyn syndod a mawl am dragywyddoldeb.

Cyffelyb ydyw Ei ymddygiad yn amgylchiadau'r testyn. Ffarwelio a'i ddysgyblion a wna yma yn y rhagolwg ar Ei ymadawiad. Y mae yn barod wedi golchi eu traed fel esiampl o ostyngedd'rwydd, ac fel amlygiad o'i gariad tuag atynt; y mae wedi bwyta'r pasg, a sefydlu y swper coffadwriaethol; ac yna, fel pe byddai yn anghofio Ei ofid Ei Hun, y mae yn ymroddi i gysuro y dysgyblion trallodedig. Y mae Judas wedi myned allan i wneuthur ar frys yr hyn oedd ar fedr ei wneuthur. Gwyr yr Iesu ei fod yn awr yn ymlwybro at yr Iuddewon i'w werthu Ef, ac y daw yn fuan a mintai o filwyr i'w ddal. Y mae yn gweled Ei angau ofnadwy yn ymyl; ac eto, dyddanu y dysgyblion yw Ei waith. Nid yw eu trallod hwy yn bwysig o gwbl mewn cymhariaeth i'r eiddo Ef. Achlysurir eu trallod hwy, gan mwyaf, gan eu hanwybodaeth; anwybodaeth sydd i raddau yn feius, am na fynent ddeall geiriau eu Hathraw. Ac fe ã heibio yn fuan, heb wneuthur niwed mawr i un o honynt. Priodol iawn fuasai i Petr ddweyd wrtho yn awr: "Iesu anwyl, paid meddwl am danom ni, trugarha wrthyt dy Hun; meddwl am dy ofidiau dy Hunan. Yr ydym yn gwybod fod rhywbeth ofnadwy o dy flaen, nad ydym ni yn deall dim arno; ond ni ymdarawn ni rywsut, goreu y medrwn; paid meddwl am danom ni." Ond nid felly y gwnaeth Efe. Y mae megis yn anghofio Ei ofid mawr Ei Hun yn eu trallod bychan hwy. Dyddanu y dysgyblion yw Ei waith Ef. "Na thralloder eich calon," meddai; "yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau;" a fy amcan i yn ymadael yw "myned i barotoi lle i chwi." Ni fyddwch yn fyr o drigfa yn nhŷ fy Nhad, oblegid Myfi yw y ffordd tuag yno. Nid yw neb yn dyfod at y Tad, nac i'w dŷ, ond trwof Fi. Peidiwch meddwl ychwaith y bydd i Fy

ngwaith gael ei rwystro na'i atal trwy Fy mynediad ymaith; chwi ga yr anrhydedd wedi hyny o weithio yn Fy lle; "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe." Ni adawaf mo honoch ychwaith yn ddigysur, ond mi a anfonaf atoch Ddyddanydd arall, ac Un a erys gyda chwi yn dragywyddol; Un na chewch byth y chwerwder o orfod ymadael ag Ef. A mwy na'r cwbl, Myfi a ddeuaf atoch Fy Hun (adn. 18, 19).

Rhan o'r dyddanwch a weinyddai yr Iesu i'w ddysgyblion trallodedig yw geiriau y testyn; ac i'w teimladau hwy ar y pryd, hwyrach mai dyma y geiriau llawnaf o ddyddanwch o'r cwbl a lefarwyd ganddo. Nid at Ei ail-ymweliad â hwynt ar ol Ei adgyfodiad y cyfeiria yma yn unig nac yn benaf, er efallai fod hyny yn gynwysedig yn Ei eiriau, ond at Ei ddyfodiad yn a thrwy Ei Ysbryd. Am hyn y llefara yr Iesu yn yr adnodau cylchynol. Heblaw hyny, y rheswm a rydd Efe dros y ffaith a'r achos o honi yw, "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." "Chwi fyddwch wedi derbyn bywyd oddi-wrthyf fi a'ch galluoga chwi i'm gweled, pan fydd y byd yn methu fy ngweled." Ac i benderfynu y mater, dengys atebiad Crist i gwestiwn Judas, yn adn. 22, fod y geiriau i'w deall yn ysprydol.

"Byw *wyf* fi." Nid byw a fyddaf yn mhen enyd bach, wedi i mi adgyfodi o'r bedd; ond "byw *wyf* fi." Gyda chyfeiriad at yr amser dyfodol y llefara, ond gan mai am Ei fywyd Ei Hun y mae yn sôn, llefara yn yr amser presenol; "byw wyf fi." Y mae genyf fi fywyd na wna yr amgylchiadau sydd o'm blaen, yr angau sydd genyf i fyned trwyddo, gyffwrdd dim ag ef; ni fyddant ond megis cymylau yn gorchuddio wyneb yr haul wrth fyned heibio. Pan fyddai yr Iesu yn llefaru am Ei fywyd a'i hanfodiad Ei Hun, yr amser presenol a ddefnyddiai am yr amser a eth heibio. "Cyn bod Abraham yr *wyf* fi." Nid yr oeddwn i. Nid yr un gair a ddefnyddia yma am fodolaeth Abraham ag am yr eiddo Ei

Hun; “cyn dyfod Abraham i fôd yr wyf fi.” Dyfod i fôd a wnaeth Abraham, ond bôd wyf Fi, heb ddyfodiad i fôd erioed. Wrth wneuthur fel hyn, amlwg yw Ei fod yn honi mawredd dwyfol, oblegid nis gallai lai na galw i gôf Ei wrandawyr yr enw wrth ba un yr hysbysodd Duw Ei Hun i Moses: “Ydwyf yr hwn ydwyf.” “Ydwyf a’m hanfonodd atoch.” Y Bôd diddechreu, a diddiwedd, a digyfnwid; Un heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes, ac nad ydyw yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau amser, ond sydd ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd; Un sydd y cwbl ag ydoedd, â’r cwbl a fydd, nas gellir chwanegu ato na thynu oddiwrtho—tragywyddol Ydwyf. Gan hyny, pan y sieryd yr Iesu fel hyn, llefara yn iaith Duw, ac nid yn iaith y ddaear.

Ac eto y mae yn fywyd ar ol marw; oblegid nid at Ei fywyd hanfodol fel Duw y cyfeiria y Gwardedwr yma, yn unig nac yn benaf, ond at Ei fywyd fel Cyfryngwr. “Yr hwn wyf fyw, ac a fûm farw,” meddai yn Llyfr y Datguddiad, “ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd.” Trwy farw y cyrhaeddodd y bywyd hwn. Gwobr am farwolaeth ydyw. Rhaid felly ei fod yn fywyd ar ol marw. Y mae llawer wedi marw, ond nid neb wedi byw ar ol marw, yn ystyr neillduol y geiriau hyn, oddi-eithr Iesu Grist. Pan yn ateb y Saduceaid, o herwydd fod Duw yn dywedyd, “Myfi *yw* Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob,” dadleua yr Arglwydd Iesu y rhaid gan hyny eu bod yn fyw pan y llefarai Duw felly, gan nad ydyw Dduw y meirw, ond y byw. Mewn cyferbyniad i’r geiriau hyn, y mae pawb a fu farw wedi parhau yn feirw, ond Iesu Grist. Y mae Ef yn fyw; yn fyw i deimlo dyddordeb yn amgylchiadau y byd hwn; yn fyw i ddal cymundeb a phreswylwyr y byd hwn; yn fyw i ymyraeth yn, ac i reoli, holl helyntion y byd hwn. Gellir dweyd Ei fod yn fyw i ni. Am Abraham, Isaac, a Jacob, y maent hwy yn fyw i Dduw, ac yn fyw hefyd i breswylwyr y byd ysprydol. Y maent yn dal cymundeb â hwynt. Ond i breswylwyr y ddaear, meirw ydynt. Y mae yr Iesu yn fyw i ni. Y mae pob bywyd dynol arall yn rhy fach i

beri i ddim ond un byd deimlo oddiwrtho. Pan fyddom yn byw ar y ddaear, bydd ein cymydogion ar y ddaear yn teimlo rhyw gymaint oddiwrthym, a byddwn yn dal cymundeb â hwynt. Ond nid yw preswylwyr y byd mawr ysprydol yn gwybod am danom. Yr ydym heb ein geni iddynt hwy. Nid oes cyfathrach rhyngom â hwynt. Pan fyddwn feirw ni a gawn fyned atynt, i ddal cymundeb â hwy, gan fyw yn eu plith; ond ni a enillwn hyn ar draul colli ein gafael ar y ddaear. Meirw fyddwn i drigolion y ddaear. Ond y mae bywyd yr Emmanuel yn ddigon mawr i lanw y ddau fyd â bywyd; y byd anweledig a'r byd gweledig. "Y mae yr Iesu yn fyw," medd Ei saint, sydd yn siriol edrych yn Ei wyneb yn y nefoedd. "Y mae'r Iesu yn fyw," medd Ei saint, sydd yn dal cymundeb ag Ef ar y ddaear.

Wedi i'r Iesu farw, ac adgyfodi, ac esgyn at Ei Dad, yr oedd yn angenrheidiol i'w eglwys gael profion diymwad Ei fod yn fyw; fod rhyw wahaniaeth pwysig rhyngddo a phawb a ymadawodd a'r byd hwn; prawf na ddarfu i'w esgyniad i'r nefoedd dori y cysylltiad rhyngddo a'i eglwys ar y ddaear; mewn gair, Ei fod yn fyw. Gwyddai yr Iesu hyny yn dda. Gwyddai na fyddai y dysgyblion yn gymhwys i'w bregethu ar hyd y gwledydd heb iddynt sylweddoli yn eu calonau Ei fod yn fyw. Gorchymynodd Crist iddynt aros yn Jerusalem hyd nes y derbynient addewid y Tad, yr hon a glywsant ganddo Ef; sef yr addewid am yr Ysbryd; am y Dyddanydd. Ac ar ddydd y Pentecost, dyma dywalltiad rhyfeddol o hono ar dair mil o bobl, nes yr oedd y dysgyblion yn llawenhau yn eu calonau, gan deimlo yn sicr fod yr Iesu yn fyw; "Oblegid efe a dywalltodd y peth yma, yr ydym ni yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed." Yr un argraff yn ddiau a adawai y doniau gwyrthiol ar feddwl pawb a'u gwelent. Dywedent: "Nid yn unig y mae cenadwri y bobl hyn yn wir, fe fu y fath Un a Iesu o Nazareth, ac fe adgyfododd Hwnw o'r bedd, ond y mae yn awr yn fyw; Ei waith Ef yw hyn oll." Iaith pob lachad a roddid i gleifion, pob bwriad allan ar gythreuliaid,

pob pregeth ddysgedig mewn tafodau dyeithr gan ŵr anllythrenog; iaith y cwbl ydoedd, "Y mae yr Iesu yn fyw." Yr oedd y rhinwedd iachaol oedd yn nghysgod Petr, ac yn y napcynau a'r moledau a ddygid oddiwrth gorff Paul, yn llefaru yn uchel fod yr Iesu yn fyw. Dygodd Stephan dystiolaeth pan dan y gafod geryg, ei fod yn gweled y nef yn agored, a Mab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw Duw. "Y mae yn fyw," medd y Cristionogion, "er fod Stephan wedi ei labyddio." Gwardwyd Petr o garchar gan angel yn y nos, mewn atebiad i weddi daer yr eglwys; a theimlai y Cristionogion fod yr Iesu yn fyw, er fod Iago wedi ei ladd. Ond yn mhen blynyddoedd dacw erlidigaeth gyffredinol yn cyfodi; y saint oedd yn Jerusalem, ac yn Rhufain, ac yn yr holl brif drefydd, yn cael eu gwasgaru; Jerusalem ei hun yn cael ei dinystrio; yr apostolion yn meirw ac yn cael eu merthyru; y doniau gwyrthiol yn dechreu lleihau; a rhwygiadau a chyfeiliornadau yn dyfod i mewn i'r eglwys. Tybed fod yr Iesu eto yn fyw? Nid oes o'r holl apostolion ond Ioan yn aros, ac y mae yntau wedi cael ei alltudio i fwngloddiau Ynys Patmos. Ond cafodd ef weledigaeth ryfedd yno, a siars bendant i ysgrifenu yr hyn a welodd (Dat. i. 10-20). Dirgelwch neu ystyr y weledigaeth ydyw fod yr Iesu yn fyw, a'i fod yn nghanol y canhwylbrenau aur, yn gofalu am ac yn rheoli Ei eglwys. Gweledigaeth i sicrhau fod yr Iesu yn fyw ydyw gweledigaeth Llyfr y Datguddiad.

Byw hefyd fydd Efe. Nid arglwyddiaetha marwolaeth mwyach arno. "Wele byw ydwyf yn oes oesoedd; ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." Enillodd goncwest dragywyddol ar angau a'r bedd; gan hyny, ganddo Ef y mae'r allweddau. Pan fyddo y gorchfygwr yn dwyn arfau y gorchfygedig, ffurfia hyny brawf sicr o oruchafiaeth lwyr. Rhoddi yr arfau i fyny yw yr arwydd o ymostyngiad. Pa sicrwydd sydd fod Dafydd wedi gorchfygu Goliath y cawr? Onid yw ei gleddyf ef ganddo? Pa sicrwydd sydd fod yr Iesu wedi gorchfygu ceidwad carchar y bedd? Onid yw yr

agoriadau ganddo? Byw, gan hyny, fydd Efe. Cafodd llawer golledion pwysig trwy farwolaeth perthynasau a chyfeillion. Mynych y clywir rhai yn dywedyd: "Pe buasai tad y bachgen yn fyw; pe buasai mam yr eneth yn fyw, nid fel y mae yn bresenol y buasai." Yr oedd Israel yn dda eu byd yn yr Aipht tra y bu Joseph byw; efe oedd llywydd y wlad, ac yr oedd yn gofalu am ei gyfnasafiaid. Eithr bu Joseph farw, a chyfododd brenin arall, yr hwn ni adwaenai Joseph ac ni pharchai ei frodyr, ond a'u gorthrymodd yn dost. Ond nid oes gan eglwys Crist ddim i'w ofni byth trwy farwolaeth ei Phen, oblegid "Byw fydd Efe." "Gweddiant hefyd drosto," meddai y Salm, sef ar iddo barhau i fyw. Yr oedd y fföedigion i'r noddfa yn Israel gynt yn dymuno marwolaeth yr archoffeiriad, oblegid ar ei farwolaeth yr oedd rhyddid iddynt fyned allan o'r noddfa, a dychwelyd i'w tai eu hunain, ac at eu perthynasau eu hunain. Am hyny, dywedir y byddai perthynasau yr archoffeiriad yn anfon rhoddion i berthynasau y fföedigion, i sicrhau eu hewyllys da, fel na byddai iddynt weddio am ei farwolaeth. Ond am y fföedigion i'r noddfa ysprydol, nid oes yr un o honynt yn dymuno marwolaeth yr Archoffeiriad. Yn Ei fywyd Ef y mae eu llwyddiant a'u dyogelwch hwy. Gweddiant drosto ar iddo barhau i fyw. Ac y mae yn sicr o fyw, oblegid gwnaed Ef yn Offeriad, nid yn ol gorchymyn cnawdol, ond yn ol nerth bywyd annherfynol. "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Golyga hyn—

I. *Dyogelwch eu bywyd naturiol.* Ni cha yr un o honynt farw, ond yn ol ewyllys yr Hwn sydd yn byw. Er byw bob amser yn nghanol peryglon, a bod ar lawer pryd yn agored i ymosodiadau enbyd oddiwrth elynion, ni dderfydd am danynt, oblegid wrth wregys yr Iesu byw y mae agoriadau uffern a marwolaeth. Ystyriai Paul fod ei ddyoddefiadau a'i waredigaethau ef yn rhyw ddangosiad bychan o farwolaeth a bywyd yr Arglwydd Iesu. "Gan gylch-arwain yn y corph bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu, fel yr eglurir hefyd

fywyd Iesu yn ein corph ni" (2 Cor. iv. 10). Fel pe y dywedai: "Nid yw fy nghorff marw yn ddim amgen nag *exhibition* o farweiddiad yr Iesu yn myned oddiamgylch i gael ei ddangos, fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn fy marwol gnawd." Rhaid fod ei ddyoddefiadau yn anghyffredin cyn y buasai ei deimlad yn goddef iddo eu cymharu ag eiddo y "Gŵr gofidus, cynefin â dolur." "Ond can sicred a fy mod i yn ddangosiad o'i farwolaeth, y mae fy mod yn fyw yn brawf Ei fod yntau hefyd yn fyw. Buaswn wedi marw er ys llawer dydd oni bai fod yr Iesu yn fyw." Diau ond i chwi edrych yn frâs dros hanes ei fywyd, y gwelwch nad gormodiaeth ydyw ei eiriau. Noda gyfres o'i ddyoddefiadau wrth ysgrifenu at y Corinthiaid: "Tair gwaith y'm curwyd â gwiail," sef cospedigaeth Rufeinig, nad oedd i gael ei gweinyddu ar Rufeinwr, ond a ddyoddefwyd gan Paul er fod dinasfrait Rufeinig ganddo. Nid oedd rhifedi penodol ar y gwialenodau, dibynai ar greulondeb a mympwy y swyddog gweinyddol. O'r tair gwaith hyn, ni chyfeirir ond at un yn Llyfr yr Actau. "Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais ddeugain *gwialenod* ond un." Ni sonir yn yr Actau am un o'r rhai hyn. "Unwaith y'm llabyddiwyd;" sef yn Lystra, pryd ar ol ei labyddio y llusgwyd ef allan o'r ddinas, gan dybio ei fod wedi marw. "Teirgwaith y torodd y llong arnaf;" ni sonir am yr un o'r rhai hyn yn yr Actau, oblegid ar ol hyn y bu y llong-ddrylliad yn Melita. "Mewn teithiau yn fynych; yn mheryglon llif-ddyfroedd; yn mheryglon lladron; yn mheryglon gan fy nghenedl fy hun; yn mheryglon gan y cenhedloedd; yn mheryglon yn y ddinas; yn mheryglon yn yr anialwch; yn mheryglon ar y môr; yn mheryglon yn mhlith brodyr gau; mewn llafur a lludded; mewn anhunedd yn fynych; mewn newyn a syched; mewn ymprydiau yn fynych; mewn anwyd a noethni" (2 Cor. xi. 24-31).

Dyma ddyoddefiadau, onide? Ac nid oedd eto wedi cyflawni ond oddeutu haner tymhor ei weinidogaeth. Pe buasai yn ysgrifenu cyfres yn niwedd ei ddyddiau, yn mhen

oddeutu deuddeng mlynedd, diau y buasai lawer yn hwy, ac amryw bethau newyddion ac ychwanegol ynddi. Ymddengys hefyd mai corff eiddil oedd gan Paul, ac mai gwanaidd oedd ei iechyd. Pa fodd y cadwyd ef yn fyw, ynte? “Fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn fy marwol gnawd i.” “Paham na buasai y gwialenodau Rhufeinig yn angau i ti? Ymddengys nad oes genyt un cyfrif am eu nifer, ond i ti gael dy guro nes myned yn ddideimlad, a cholli pob gallu i gyfrif.” Ei ateb yn ddiau fyddai: “Am fod yr Iesu yn fyw.” “Pa fodd na thafwyd careg angeuol atat yn Lystra?” “Am fod yr Iesu yn fyw.” “Paham na’th foddwyd yn y môr?” “Am fod yr Iesu yn fyw.” “Sut na’th welwyd gan y milwyr a wyliai fur Damascus? Sut na thorodd y rhaff, ac na ddrylliodd y fasedg?” “Am fod yr Iesu yn fyw; fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn fy marwol gnawd i.”

Yr oedd ei hyder yn ddiysgog yn yr Iesu byw. Dacw ef yn garcharor yn Rhufain pan yn ysgrifenu yr Epistol at y Philippiad; dywed fod arno chwant i’w ddatod, ond mai aros yn y cnawd—byw am dipyn drachefn—oedd fwyaf angenrheidiol o’u plegid hwy. Credai y gallai fod o wasanaeth pwysig i’r eglwys ar y ddaear eto. “A chenyf yr hyder hwn,” meddai, sef mai aros yn y cnawd oedd fwyaf angenrheidiol, “yr wyf yn gwybod yr arosaf ac y cyd-drigaf gyda chwi oll, er cynydd i chwi, a llawenydd y ffydd.” Tybed ei fod yn gwybod mai Nero yw yr ymherawdwr, yr anghenfil cymysgryw o fwystfil a chythraul? Ai nid yw yn gwybod fod yr anghenfil hwn wedi ymadael a’i wraig, ac wedi priodi putain o’r enw Poppaea, yr hon a broseltywyd i’r grefydd Iuddewig; ac yn ei haflendid sydd yn dwyn mawr zêl dros y grefydd hono, fel iawn am ei phechodau; ei bod yn elynol ofnadwy i’r Cristionogion, yn enwedig i Paul, a bod ganddi ddylanwad rhyfeddol ar yr anghenfil o’r sydd ganddi? Tybed fod Paul yn gwybod hefyd fod y barnwr sydd i eistedd ar ei achos wedi ei newid yn ddiweddar, ac mai Tigellinus fydd yn ei brofi; burgyn aflan sydd wedi enwogi ei hun mewn annuwioldeb, ac

un a wna unrhyw arch oddiwrth yr ymherawdwr neu ei butteinwraig, os bydd hyny yn fantais bersonol iddo, heb ofyn dim er mwyn cydwybod? A ydyw Paul yn gwybod, ac yn ystyriol o hyn? Digon tebyg ei fod. Ond nid y ffordd yna y mae yn meddwl; nid o'r cyfeiriad yna y tardd ei obaith, ond oddiwrth yr Iesu byw.

Gwedi amser Paul y mae llawer o waredigaethau wedi cymeryd lle o herwydd yr un achos. Pwy a gadwodd Luther yn fyw nes cyflawni ei waith, yn nghanol cynifer o waedgwn oedd yn sychedu am ei waed, ac yn barod i'w larpio a'i lyncu? Yr Iesu byw. Beth oedd hanes y *Spanish Armada*, y llynges a'r fyddin anferthol hono a ddarparwyd gan Frenin Ysbaen, dan ysprydoliaeth y Pab, i ddarostwng Prydain ac i ddifrodi y Protestaniaid? Pwy darawodd y prif lywyddion ag angau cyn cychwyn, nes yr aeth y llywyddiaeth i ddwylaw anmhriodol ac anfedrus? Pwy gyfododd yr ystorm ar y môr i wasgaru y llongau oddiwrth eu gilydd, gan ddyrysu yr holl gynlluniau, nes yr oedd llynges fechan Lloegr yn abl eu gorchfygu, gan gymeryd amryw o honynt yn yspail rhyfel, a gyru y lleill yn eu holau mewn dychryn? Pwy luchiodd amryw o'r llongau fföedig yn ddrylliau yn erbyn creigiau yr Iwerddon, fel na weddillwyd ond ychydig i ddychwelyd adref i adrodd yr hanes gofidus wrth eu cyfeillion? Pwy hefyd, ond yr Iesu byw? Pan anfonodd Mari waedlyd gommissiwn i ladd a difrodi Protestaniaid yr Iwerddon, pwy gyfryngodd i'w hatal? Pwy ddefnyddiodd offerynloliaeth ddynol i newid y commissiwn uffernol am beth mwy diniwed, fel, erbyn i'r llysgenhadr gyrhaedd pen ei daith, ac agor ei flwch, nad oedd ganddo yn lle'r commissiwn ond bwndel o gardiau? Pwy drachefn a berodd dywydd dryc-hinog, nes llesteirio taith y cenhadr i adnewyddu y commissiwn hwnw, ac a ohiodd, trwy gydgyfarfyddiad amgylchiadau, ei weinyddiad hyd nes yr oedd y frenines wedi marw, a'r commissiwn, mewn canlyniad, wedi myned yn ofer? Yr Iesu byw. Yr amser a balla i mi fanylu ar waredigaethau sydd yn digwydd i'w saint fel

personau unigol, ond gallwn yn ddyogel ddweyd fod pob un o honynt yn anfarwol hyd nes y byddo yr Iesu wedi cyrhaedd Ei amcanion oll tuag atynt a thrwyddynt. “Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.”

II. “*Byw fyddwch*” mewn ystyr ysprydol. Hwyrach mai hyn yw prif feddwl y geiriau. Yr Iesu yw ffynonell bywyd ysprydol y saint; gan hyny tra y byddo Efe byw, byw a fyddant hwythau. Rhy faith i mi fyddai enwi yr holl adnodau sydd yn y Testament Newydd, yn dangos fod bywyd ysprydol y Cristionogion wedi hanu o fywyd Crist, ac yn dibynu arno. Y mae yr undeb sydd rhwng Crist a'i bobl yn undeb tebyg i'r undeb sydd rhwng y canghenau a'r winwydden; y mae yn undeb bywyd. Ië, â Paul mor bell a dweyd am ei fywyd ei hun, mai nid efe a'i pia; mai Crist sydd yn byw ynddo: “Byw ydwyf, eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw yno f i.” Ac o'r fan yma y tardd y sicrwydd am barhad y bywyd hwn. Oblegid bywyd ansicr ar y goreu ydyw pob bywyd mewn creadur. Y mae pob bywyd anianol, yn ol deddf sefydlog, yn derfynol. “Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn.” Ac y mae chwythiad yr anifail yn disgyn i'r ddaear. Darfodedig yw y bywyd hwn wrth ei naturiaeth. Y mae ganddo yrfa i'w rhedeg, ac wedi iddo gyrhaedd ei phen, y mae yn diflanu. A dweyd y lleiaf, ansicr ydyw hyd y nod y bywyd ysprydol mewn creadur; nid yw yn anmhosibl iddo ddarfod, tra y byddo yn dibynu ar ei adnoddau ei hun. Fe ddiffoddodd yn ein rhieni cyntaf; ac fe ddiffoddodd yn yr angelion ni chadwasant eu dechreuad. Gwir y gellid dweyd am y bywyd ysprydol, ei fod mewn un peth pwysig yn wahanol i'r bywyd anianol; sef mai pa hwyaf y bydd byw, tebycaf oll ydyw o barhau i fyw. Wrth heneiddio, bydd y bywyd naturiol yn myned yn fwy brau, tra y bydd y bywyd ysprydol, gyda threigliad amser, yn myned yn ieuangach ac yn gadarnach. Trwy weithrediad ac ymarferiad y mae yn enill cryfder. Yn nechreuad eu ffordd y syrthiodd dyn a'r angel, tra yr oedd eu bywyd ysprydol mewn ystâd fabanaidd; ond

am yr angelion a gadwasant eu ffordd, y maent wedi dyfod yn wŷr ieuainc cryfion erbyn hyn. Nid oes dim tebyg y syrthiant mwy. Ond er mor annhebygol ydyw, os nad yw eu dyogelwch yn dibynu ar rywbeth uwch a chryfach na hwy eu hunain; os nad ydynt trwy gyfryngdod Crist, neu ryw ddyfais rasol arall nas gwyddom am dani, wedi eu dyrchafu i ddibynu am barhad eu bywyd ar ras eu Pen a'u Duw, nid ydyw yn beth anmhosibl iddynt eto syrthio ymaith. Ond am y credadyn gwanaf, mwyaf ei brofedigaethau a'i ofnau, y mae ganddo wreichionen o fywyd ysprydol mor anfarwol a Duw Ei Hun. Nid ydyw ond cyfranogiad o'r bywyd sydd yn Ei Fab Ef. "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Onid ydych yn teimlo craig o danoch? Ac oni ddylai preswylwyr y graig hon ganu? Diolch iddo, am osod bywyd creaduriaid mor wam mewn lle mor ddyogel.

Yn rhinwedd y bywyd ysprydol hwn, a dderbyniasant o fywyd Crist, y maent yn medru Ei weled yn fyw pan fyddo y byd wedi colli golwg arno. "Eto enyd bach, a'r byd ni'm gwel mwy." Trwy Ei farwolaeth a'i esgyniad i'r nefoedd Fe aeth yn anweledig i'r byd. Gan y byd fe'i cyfrifir yn mhlith y meirw; yn mhlith y rhai a fu. Cofrestrir Ei enw yn mysg enwogion yr amser gynt, gydag Abraham, Moses, Dafydd, ac Esaiiah; neu ynte gyda Lycurgus, Socrates, Seneca, neu Bacon; a hwyrach y cydnabyddir Ei fod yn rhagori arnynt oll; eto megis yr enwogion hyn, y mae wedi peidio a bod iddynt hwy, ond yn unig mewn hanesyddiaeth. Ond y mae y Cristionogion hyn yn Ei weled yn fyw yn awr.

1. *Y maent yn Ei weled trwy sylweddoliad ffydd mewn tystiolaeth.* Y mae ffydd gref yn troi yn weledigaeth feddyliol. Bydd y peth a gredir yn gryf yn dyfod yn beth mor *real*, mor fyw i deimlad dyn, nes y bydd megis yn edrych arno. Trwy ffydd yr oedd seintiau yr Hen Destament yn sylweddoli y Presenoldeb, nes yr oeddynt megis rhai yn gweled, yn clywed, ac yn teimlo Duw. "Enoch a rodiodd gyda Duw," megis y rhodia gŵr gyda'i gyfaill. "A chyfaill Duw y galwyd"

Abraham. Fe welodd Moses yr anweledig; fe'i gwelodd nid ar Sinai, ond yn yr Aipht cyn gadael y wlad. Meddai Dafydd: "Gosodais yr Arglwydd ger fy mron yn wastad: am ei fod ar fy neheulaw"—wrth fy mhenelyn—"ni'm hysgogir." Yr oedd yr Hollbresenoldeb dwyfol yn beth teimladwy iddo ef, fel nas gallai ffoi o wydd Duw. "Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa;" "Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen, a gosodaist dy law arnaf." Yr oedd yn teimlo y cyffyrddiad dwyfol; llaw Duw ar ei ysgwydd. Ac yr oedd Duw wedi addaw cyfarwyddo y Dafydd hwn, mewn dull nad oes neb ond y sydd wedi cyrhaedd agwedd meddwl gyffelyb iddo, yn alluog i dderbyn cyfarwyddyd yn y ffordd hono. "Cyfarwyddaf di a dysgaf di, yn y ffordd yr elych; a'm llygaid arnat y'th gynghoraf." Yn ol y Saesneg, "*I will guide thee with mine eye;*" fel tad yn cyfarwyddo ei blentyn ag amnaid ei lygad. Rhaid gan hyny ei fod yn byw, gan edrych megis yn Ei wyneb. Fel yna y gwnai seintiau yr Hen Destament.

Ond y mae genym ni fwy o fantais i sylweddoli presenoldeb y Gwardedwr, oblegid ynddo Ef y mae yr Yspryd anfeidrol wedi tabernaclu mewn cnawd, ac wedi cymeryd ffurf megis un o honom ni. Llauer haws i ni yw cael gafael ar Dduw, a chael golwg arno yn y Dyn Crist Iesu. Ei eiriau Ef wrthynt ydynt: "Wele, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Fel y dywedai y diweddar Barch. Henry Rees, medr y cristen byw a fyddiog gymeryd yr Iesu gydag ef i daith diwrnod. Gellwch gydgychwyn gyda'ch gilydd yn y boreu, cydgerdded trwy y dydd, bwrw ymadroddion at eich gilydd wrth rodio, a gorphen y daith yn nghyd yn gytun yn y pryd-nawn, wedi cael diwrnod pleserus yn Ei gwmni. Treiwch Ef ryw ddiwrnod. Gwahoddwch Ef i daith. Chwi a gewch weled, os cymhellwch Ef un filltir y daw Efe gyda chwi ddwy. Y mae hanes yr amgylchiadau yr aeth Efe trwyddynt gynt wedi eu croniclo, yn un peth, er ein galluogi i sylweddoli Ei bresenoldeb mewn amgylchiadau cyffelyb eto. A dyma'r

defnydd goreu ellir ei wneyd o'r Efengylau. Ni a gawn felly *repetition* o honynt; bydd yr Iesu yn eu byw, ac yn eu *hactio* drosodd drachefn, yn ein profiadau a'n hamgylchiadau ni. Bu unwaith mewn priodas yn un o'r gwahoddedigion, a phriodol fyddai Ei gael i briodas eto. Os oes yma rywun neu rywrai yn bwriadu priodi yn fuan, anfonwch wahoddiad iddo i ddyfod i'r wledd; fe wella y cwbl a'i bresenoldeb. Fe fu yn wylo uwchben bedd cyfaill yn Bethania gynt; ac o bosibl fod yma ryw Lazarus a fydd yn fuan yn clafychu i farwolaeth; anfoned y perthynasau gyfarchiad prydawn ato, trwy ddweyd fod yr hwn a hoffai Efe yn glaf, a bydd yn sicr o ddod i'r angladd, os nid i adgyfodi y marw yn fyw, i ail-adrodd mewn modd rhinweddol Ei eiriau Ei Hun: "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd."

2. *Y maent yn sylweddoli Ei bresenoldeb, ac yn Ei weled, trwy ymwybyddiaeth o'i weithrediadau ar eu calonau.* Meddant brofion o'u mewn Ei fod yn fyw. Adnabyddant Ei bresenoldeb wrth arwyddion, fel yr adnabyddir tymhorau y flwyddyn. Nid yw y gwanwyn i'w weled a'r llygaid, ond i'w deimlo a'i adnabod wrth ei arwyddion. Ciliodd y rhew a'r eira oddiar wyneb y ddaear, ymestynodd y dydd a byrhaodd y nos, y mae'r cymylau wedi dyfod yn fwy teneu a gwlanog, y mae'r awel yn fwynach ac yn fwy peraroglaidd, y cafodydd gwlaw sydd yn ysgafnach ac yn dynerach; gwelir yr ychain ar y meusydd yn aredig, a'r hauwr allan yn hau; ac uwch eu penau y mae'r ehedydd yn canu, allan o olwg yn yr awyr las, fel na wyddis yn iawn pa un ai i drigolion y ddaear neu i breswylwyr y bydoedd eraill y bwriada y bychan ei gân. Gwisga natur ei harddwisg, gan roddi ei mantell newydd werdd am dani, ac ymdrwsio a blodau. Clywir llais y ddurtur yn y wlad. Dyma arwyddion digamsyniol y gwanwyn. Sut y gwyr y cristion anwybodus ar y ddaear fod yr Iesu yn fyw? Y mae wedi myned yn wanwyn yn ei fynwes. Y mae ganddo arwyddion y *spring* yn ei galon. Ar amserau ymsaetha adnodau y Beibl i'w feddwl gyda dysgleirdeb

a nerth anorchfygol, nid fel ffrwyth ei fyfyrdod ei hun, ond ar draws pob cysylltiadau, megis ar adenydd y gwynt. Y maent yn cario eu hesboniad gyda hwy, yn llewyrchu yn eu goleuni eu hunain; ac y mae'r esboniad hwn, yn wahanol i esboniadau yr esbonwyr dynol, yn treiddio trwy y deall i'r galon, ac yn cyffroi ei serchiadau. Ar amserau bydd y gydwybod yn cael ei phuro trwy ryw ddylanwad anweledig i'r fath raddau, nes y bydd yn newynu ac yn sychedu am ryw gyfiawnder, pell uwchlaw moesoldeb cyffredin ei gymydogion. Ymestyna at berffeithrwydd na feddienir mo hono yn llwyr hyd yr adgyfodiad oddiwrth y meirw. Ar amserau, bydd ei galon yn cael ei lledu a'i chynhesu gan gariad cyffredinol; cariad at Dduw a dyn, at bawb a phob peth ond pechod; nes y bydd bron myned, fel Duw Ei Hun, yn gariad i gyd. Ar ambell fynydd bydd heddwch fel yr afon yn llifo i'w fynwes, yn glir fel y grisial i'r gwaelod; tangnefedd sydd uwchlaw ei ddeall ei hun; liawenydd sydd anrhaethadwy iddo. Y gradd uchaf mewn gorfoledd ydyw tangnefedd. Dyma y gwin sydd yn llawenhau calon Duw; ac y mae yntau yn cael ychydig ddyferynau o hono, nes cael syniad am y nefoedd trwy fwynhad o'i ddedwyddwch. Wel, beth yw yr adegau a'r mynyddau hyn? Pa gyfrif sydd i roddi am danynt? Ai ffrwyth llafur y dyn ei hun ydynt? Nage, nage. Disgyn y maent arno o rywle; cael ei hun ynddynt heb yn wybod iddo ei hun y mae. A'r unig gyfrif i roddi am danynt wedi yr ant heibio, ydyw, mai ymweliadau ydynt oddiwrth yr Iesu byw. Efe a ddaeth yno i swpera yn ddi-rybudd; ond nid oedd hyny o gymaint pwys, oblegid daeth a defnyddiau y swper gydag Ef.

“P'le'r enynodd fy nymuniad?
 P'le cadd fy serchiadau dân?
 P'le daeth hiraeth i'm am bethau
 Oeddwn yn gasáu o'r bla'n?
 Iesu, Iesu,
 Hyn i gyd yw gwaith Dy law.”

Diolch iddo am tyw trosom. Byddwn yn ceisio diolch iddo

am farw trosom, ond hwyrach nid mor aml am fyw trosom. Byddaf yn arfer meddwl fod hyn yn dangos agos cymaint o gariad a'i farwolaeth. Er ein mwyn ni y mae Efe yn byw. Y mae wedi cysegru Ei holl fywyd i'r amcan o fod yn ffynonell a dyogelwch bywyd i'r rhai oll a gredant ynddo. Sicrhewch *interest* yn Ei fywyd, trwy gael rhan yn gyntaf yn Ei farwolaeth.

PREGETH XV.

—:O:—

ADNABYDDIAETH YR IESU O DDYN.

IOAN II. 23-25.—“*Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasc yn yr wyl, llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe. Ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano ei hun, am yr adwaenai efe hwynt oll ; ac nad oedd raid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn ; o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.*”

“**P**A ddyn a edwyn bethau dyn, ond yspryd dyn yr hwn sydd ynddo ef?” medd yr Apostol Paul, ac fel rheol, y mae pob dyn yn ddirgelwch i bawb ond iddo ei hun. “Y galon a wŷr ei chwerau ei hun ; a’r dyeithr ni fydd gyfranog o’i llawenydd” ychwaith. Pan fyddom yn edrych yn ngwynebau ein gilydd, yn sylwi ar ysgogiadau ac yn gwrando ar eiriau ein gilydd, tybiwn ein bod yn adnabod ein gilydd ; ac eto y mae yna fyd o anweledig bethau yn mynwes pob un nad oes ond Duw, tu allan iddo ef ei hun, yn gwybod am danynt. Nid y rheswm am hyn yw nad ydyw y mewnl i’w adnabod i ryw fesur wrth yr allanol. Bydd ffurf a gwedd y wynebpryd, ystum y corff, a thôn y llais, yn arddangosiadau o ryw bethau ydynt o’r tu fewn i’r llen, a bydd y craffus a’r deallgar yn abl i’w dehongli. Y mae’r cymeriad naturiol i raddau helaeth yn cael ei fynegu yn y wynebpryd. “Doethineb sydd yn wyneb y deallgar, ond llygaid y ffol sydd yn nghyrau y byd.” “Doethineb gwŷr a lewyrcha ei wyneb, a nerth ei wyneb a newidir.” Pa un bynag a ydyw manylion penofyddiaeth a gweddofyddiaeth (*phrenology and physiognomy*) yn gywir ai peidio, y mae geiriau yr Ysgrhythyr yn sicr o fod yn wirionedd, ac y mae rhyw allu naturiol gan bob dyn i ddarllen cymeriadau eraill wrth eu hymddangosiad

allanol, er efallai na feddant yr un *system*, ac na fedrant roddi rhesymau boddhaol dros eu holl gasgliadau. Bid sicr, cawn rai yn fwy hynod nag eraill yn hyn. Ac nid y cymeriad cyffredin, ond y teimlad goruchaf ar y pryd, a ddangosir gan y gwynebpryd. Os bydd y galon yn llawen bydd y wynebpryd yn siriol; eithr os bydd y galon yn drom, bydd y wyneb yn brudd. "Paham y mae dy wynebpryd yn drist, a thithau heb fod yn glaf?" meddai Artaxerxes wrth Nehemiah; a chywir oedd y casgliad a dynodd, sef fod y prudd-der yn cael ei achosi gan dristwch calon.

Heblaw yr arwyddion sydd i'w canfod ar y wynebpryd, gwyddom fod pawb yn gyffelyb i'w gilydd yn y pethau mawrion, hanfodol i ddynoliaeth gyffredin. Ac yn y pethau hyn y mae yn bosibl i ni adnabod eraill drwom ein hunain. Am fod pawb felly, gallwn deimlo yn sicr am unrhyw berson unigol y deurn i gyffyrddiad ag ef, ei fod yn hoffi hawddfyd yn hytrach nag adfyd, parch yn hytrach nag anmharch, esmwythyd yn hytrach na phoen, goleuni yn hytrach na thywyllwch, a chymdeithas ei ryw yn hytrach nag unigrwydd gorfodol. Gallwn fod yn sicr hefyd am bob un a gafodd ei fagu ar aelwyd gynhes, gan rieni crefyddol, pa beth bynag ydyw ei hanes presenol, ai gwych ynte gwael, tlawd ai cyfoethog, pur ai anmhur, aelod parchus o gymdeithas ai y burgyn ffeiddiaf yn yr holl wlad, fod yn ei fynwes adgofion melus am helyntion boreu ei oes, ac y byddai coffa enw yr hon a'i hymddug, i.e., a'i magodd ac a'i dysgodd i weddio pan yn blentyn tyner ar ei gliniau, yn sicr o gyffwrdd a llecyn tyner yn ei galon. Gallem gyfeirio at lu o bethau cyffelyb i'r rhai hyn; ond wedi'r cwbl, cyffredinol iawn ydyw'r wybodaeth hon; nad oes dim neillduol a phersonol yn perthyn iddi; adnabyddiaeth o ddyn yn hytrach nag o ddynion ydyw; adnabyddiaeth o ddynoliaeth gyffredinol yn hytrach nag o bersonau neillduol.

Heblaw hyn eto, medd athrylith allu arbenig i adnabod gwahanol fathau o gymeriadau, i'w disgrifio, ac i fynegu y

meddyliau a'r teimladau sydd yn nodweddiadol o honynt. Medd yr un athrylith allu i ddesgrifio amrywiaeth mawr o gymeriadau. Rhyfedd gynifer o amrywiol fathau o gymeriadau sydd yn cael eu darlunio yn ngweithiau Syr Walter Scott ac Oliver Goldsmith. Ac am athrylith Shakespeare fe ddywedir, ei fod wedi ysgubo holl gylch y nefoedd, ac wedi desgrifio pob math ar ddyn, nes peri ei bod yn anmhosibl braidd i unrhyw ddyn meddylgar ei ddarllen drwyddo heb deimlo ei hun mewn rhyw ran o hono yn cael ei ddarllen a'i fynegu, fel bron y gwneir gan y Beibl ei hun. Medr athrylith fywiog fynegu meddyliau a theimladau nad ydyw eraill ond yn rhyw haner ymwybodol o honynt. Yn mynwesau dynion eraill bydd y meddyliau a'r teimladau hyn fel rhyw ysprydion diffurf a diafael, ond medr y dyn athrylithgar roddi ffurf ac enw arnynt wrth eu dwyn hwy allan, megis ag y mae Duw yn dwyn allan lu y nefoedd gan "eu galw wrth eu henwau." Ond wedi'r cwbl, *happy guessing* ydyw athrylith, ac nid sicrydd gwybodaeth; a *happy guessing* am *fath* o gymeriad, ac nid gwybodaeth sicr am berson neillduol. Pe y gofynasid i Shakespeare adrodd hanes fewnol a phersonol y cymydog nesaf ato, ni fuasai ei holl athrylith yn ei alluogi i wneuthur hyny.

A mwy na hyn oll, y mae crefydd dda yn cynysgaeddu ei pherchenog â gallu uwch nag athrylith i adnabod cymeriadau personol wrth ddyfod i gyffyrddiad â hwynt. Medd y dyn gwir dduwiol a nefolfrydig ryw dynerwch, neu ryw reddf foesol, sydd yn ei alluogi i adnabod nid yn unig ei debyg ond hefyd ei annhebyg; nid yn unig y rhai da, ond y rhai drwg yn o gystal. Gosoder dau ddyn da yn nghymdeithas eu gilydd am ychydig amser, ac nid hir y byddant cyn adwaen eu gilydd. Gosoder y dyn duwiol yn nghymdeithas yr annuwiol, nid hir y bydd cyn teimlo oddiwrth yr anian groes, a'i hadnabod, fel yr adnabydda y ddafad ddiniwed y blaidd, a'r golomen ddôf yr hebog. Y mae ambell i gristion, bychan ei gyrhaeddiadau, wedi synu llawer o herwydd treiddgarwch ei drem i gymeriad

un arall oedd yn tybio ei hun yn ddigon galluog mewn drygioni i droi y bychan o'i gwmpas a'i fys. Ond os oedd y bychan yn analluog i amgyffred y drygionus, yr oedd yn ddigon galluog i adnabod ei ddrygioni, ac i wybod mai ei ddoethineb penaf oedd ffoi oddiwrtho.

Ond y mae y testyn yn cyfeirio at allu neillduol yn y Gwardedwr i adnabod dynion ag oedd yn anfesurool uwch na'r holl bethau hyn. Nid gallu cyffredin i adnabod y mewnlol trwy yr allanol; nid dirnadaeth trwy brofiad personol o'r hyn a berthyn i ddynoliaeth gyffredin yn mhawb; nid dawn athrylith i daflu ei fôd megis am enyd mewn dychymyg i wahanol fathau o gymeriadau, nes y byddo y dychymyg yn ymylu ar fod yn weledigaeth; ac nid y reddf ysprydol sydd yn meddiant y pur i adnabod ei debyg a'i anhebyg, oedd gallu y Gwardedwr, ond peth anrhaethol uwch. Nid rhyw ddawn goruwch-naturiol ydoedd chwaith, cyffelyb i'r un y cynysg-aeddwyd rhai o brophwydi yr Hen Destament, a rhai o aelodau yr eglwys apostolaidd, â hi, yr hon a'u galluogai i ganfod mwy ac yn mhellach nag a allasant a'u llygaid naturiol. Yn rhinwedd y gallu hwn y gwelai Eliseus ei was dichellgar a thrachwantus Gehazi, pan yr aeth efe ar ol Naaman y Syriad i geisio anrhegion ganddo heb yn wybod i'w feistr. Trwy rinwedd y gallu yma y medrai Eliseus fynegu i frenhin Israel y fan yr oedd brenhin Syria yn gwersyllu, pan yr oedd yn rhyfela yn ei erbyn, a thrwy hyny alluogi brenhin Israel i gadw allan o'i grafangau, nes o'r diwedd i'w wrthwynebydd dybio fod bradychwyr iddo yn ei wersyll, yn mynegu ei gyfrinach, hyd oni ddarfu i'w weision ei ddarbwylllo yn wahanol, trwy ddweyd y buasai Eliseus, y prophwyd yr hwn oedd yn Israel, yn mynegu i frenhin Israel, hyd y nod y geiriau a lefarai efe yn nghanol ei ystafell wely. Yr oedd rhyw ddawn arbenig hefyd yn yr oes apostolaidd, yn galluogi y neb a'i meddianai i wahaniaethu yr ysprydion; sef y rhai a broffesent eu bod yn gweithredu ac yn llefaru tan ddylanwadau neillduol yr Ysbryd Glân, yr Hwn oedd yn cael ei roddi yn

ddoniau goruwch-naturiol yn yr oes hono. Yr oedd y neb a feddai y cyfryw ddawn yn medru gwahaniaethu y gwir oddiwrth y gau, y dwyfol oddiwrth y dynol, a'r dwyfol oddiwrth y cythreulig. Ac y mae yn ddiamheuol nad oedd yn ddawn heb ei hangen yn yr oes ryfeddol hono.

Ond y mae y gallu y cyfeirir ato yn y testyn yn ymddyrchafu yn anesurol uwch na'r holl bethau a enwyd. Cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear y rhagora arnynt oll. Nid ffrwyth ymresymiad dynol, ond canfyddiad dwyfol, ydoedd Ei wybodaeth Ef. Gwybod trwy ganfod ac nid trwy ymresymu a wna Duw. Y mae Duw yn llygad i gyd, meddai Charnock, yn hollbresenol, ac am hyny yn hollwybodol; oblegid Ei fod yn llygad i weled yn mhob man lle y mae. Felly yr oedd yr Iesu yn gweled, ac am hyny yn gwybod. Nid gwybodaeth ddynol, a enillodd yn raddol, ydoedd hon; ond gwybodaeth oedd yn trigo ynddo erioed, fel y Gair tragwyddol yn yr Hanfod ddwyfol. Nid cynhyrriad ar amserau ydoedd, ond gallu yn preswyllo ynddo yn wastadol. O herwydd y wybodaeth neillduol hon oedd ganddo, nid ymddiriedodd am dano Ei Hun i'r rhai oeddynt wedi credu ynddo yn ystod yr wythnos—yr wyl gyntaf y bu ynddi wedi dechreu ar Ei weinidogaeth gyhoeddus, yr wyl gyntaf y canlynwyd Ef iddi gan ddysgyblion—o herwydd mai ffydd ar ol gweled arwyddion ydoedd. Nid oedd ganddo ffydd yn y fath ffydd. Gwyddai nad oedd yn un i bwyso arni. “Nid ymddiriedodd iddynt am dano ei hun;” ni chaniataodd iddynt ddyfod i'w gyfrinach. Yr oedd Efe yn eu habnabod hwy; ac nid yn unig hwy, ond pawb. Nid “rhaid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn, o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.”

Fel y dywed Meyer, ac fel yr oeddwn inau wedi tybio flynyddoedd lawer cyn darllen Meyer, y mae adnabyddiaeth Iesu Grist o ddyn mewn ystyr gyffredinol, ac hefyd o ddynion neillduol, yn wirionedd mawr sydd yn rhedeg trwy holl Efengyl Ioan. Ymddengys fod rhoddi enghreifftiau a phroffion o hyn yn amcan neillduol ganddo wrth ysgrifenu ei efengyl. Y mae rhyw

nodweddion gwahaniaethol yn perthyn i'r pedair efengyl; a da i ni ydyw hyny, oblegid rhyngddynt oll y mae amryw weddai Ei gymeriad a'i hanes yn cael eu dwyn i amlygrwydd. Dyma un o nodweddion gwahaniaethol Efengyl Ioan, ei fod yn amcan ganddo i ddangos a phrofi y gŵyr Iesu Grist beth sydd mewn dyn. Profodd Ei fod yn adnabod dynion wrth alw a derbyn Ei ddysgyblion cyntaf. Wedi iddo edrych ar Petr Efe a ddywedodd, "Ti yw Simon mab Ionah," ac yna rhoddodd iddo enw nodweddiadol, gan brofi Ei fod yn ei adnabod trwyddo, ac yn gweled nid yn unig y presenol ond y dyfodol hefyd—"Ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir careg." Pan ganfu Nathanael yn dyfod ato, Efe a ddywedodd am dano, "Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll." Y mae Nathanael mewn mynyd yn teimlo cywirdeb y desgrifiad, oblegid pa rinweddau bynag y dichon dyn fod yn feddianol arnynt heb yn wybod iddo ei hun, nid yw gonestrwydd yn un o honynt. Gŵyr pob dyn gonest ei fod felly. "Pa fodd y'm hadwaenost?" meddai Nathanael. Oh, meddai yr Iesu, yr wyf yn hen gynefin a dy hanes; "Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddyt tan y ffigysbren, mi a'th welais." Felly yr un modd cyn ymadael a'r wyl hon yn Jerusalem, y mae yn rhoddi trem i waelodion calon Nicodemus, ac yn gweled ei fod yn hyderu yn ei hunangyfiawnder; am hyny pasia heibio i gyfarchiad moesgar, os nad gweniaethus Nicodemus, a thraetha iddo y gwirionedd mawr y safai mewn angen am ei wybod; fod yn rhaid iddo, er cystal ydoedd ei feddwl am dano ei hun, gael ei eni drachefn. Adrodda ei holl hanes wrth y wraig o Samaria, nes y mae hono yn dychrynu wrth Ei glywed, a chan redeg i ffwrdd yn galw ei chymydogion, gan ddywedyd, "Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wnaethum: onid hwn yw y Crist?" Gwrthoda fyned gyda'r pendefig o Capernaum, yr hwn a ddaeth ato ar ffwrst, gan atolygu arno ddyfod i waered i iachau ei fab ef am ei fod yn mron a marw, gan ddywedyd wrtho: "Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch."

A phan aeth y pendefig i geisio Ei frysio trwy ddywedyd; "O Arglwydd, tyred i waered cyn marw fy machgen," gŷr ef ymaith mewn dull swta, ceryddol; "Dos ymaith, y mae dy fachgen yn fyw." Pan oedd pendefig arall yn gofyn cymhorth ganddo ar ran ei was, aeth i dŷ hwnw heb Ei ddisgwyl, pan nad oedd yn ystyried ei hun yn deilwng i'r Iesu ddyfod o dan ei gronglwyd. Ond gwrthyd fyned gyda'r pendefig cyntaf er eiriolaeth daer, ac amlwg yw fod yr ymddygiad yn ffrwyth adnabyddiaeth o'r dyn. Pan yr oedd y bobl y darfu iddo arlwyo bwrdd iddynt mewn anialwch yn dangos mawr zêl i'w ganlyn, ac yn tori dros rwystrau i fyned ar Ei ol, trwy hwylio mewn llongau i chwilio am dano yr ochr arall i'r môr, ac wedi Ei gaffael yn dyfod ato gyda brwdfrydedd llon; gan ddywedyd: "Rabbi, pa bryd y daethost ti yma?" y mae Efe yn dangos mai beddau wedi eu gwyngalchu oeddynt, a bod y zêl oedd yn ymddangos yn brydferth oddi-allan yn bydredd oddimewn. "Yr ydych chwi yn fy ngheisio i," meddai, "nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o herwydd i chwi fwyta o'r torthau, a'ch digoni." Y mae yn eu lladd yn y fan a chleddyf Ei enau. Pan ddygwyd ato wraig a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu, cawn Ef gan burdeb calon a lledneisrwydd teimlad yn methu edrych yn ei gwyneb; am hyny ymgryma tua'r llawr i ysgrifenu rhywbeth â'i fys ar y ddaear, gan gymeryd arno ar y cyntaf, ni a feddyliem, nad oedd yn eu clywed, nac yn talu sylw iddynt. Ond fel y parhaent i ofyn iddo pa beth i'w wneyd i'r wraig, meddyliodd, pa fath bynag ydoedd, nad oedd yn waeth na'i chyhuddwyr haerllug, er nad oeddynt hwy o bosibl wedi cael eu dal yn cyflawni eu hysgelerderau; am hyny Efe a ymun-iawnodd, ac a ddywedodd: "Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf gareg ati hi." Yr oedd Ei eiriau fel goleuni y fellten a thwrf y daran yn eu cydwybodau euog, a chan *slinkio* allan o un i un hwy a adawsant yr Iesu yn unig gyda'r wraig. Yntau wedi ei rhybuddio i beidio pechu mwyach a'i gollyngodd ymaith.

Wrth ymgyfathrachu a'i ddysgyblion deallai fod achos pob cynen, sef y gofyniad pwy fydd fwyaf, yn asgwrn cynen yn eu mysg hwythau. Am hyny, gyda'r holl ddwysder teimlad ag oedd yn Ei nodweddu, fel Un yn gwybod Ei awr i ymadael a'r byd hwn a myned at y Tad, y mae yn rhoddi gwers anwyl iddynt ar ostyngaidrwydd trwy olchi eu traed i gyd, er iddo gael trafferth gyda Phetr cyn golchi ei draed ef. Ac yna wedi gorphen Efe a ddywedodd wrthynt: "Yr ydych chiwi yn fy nghalw i, Yr Athraw a'r Arglwydd: a da y dywedwch, canys *felly* yr ydwyf. Am hyny os myfi, yn Arglwydd ac yn Athraw, a olchais eich traed chiwi, chwithau a ddylech olchi traed eich gilydd." Yr un noson drachefn, pan yr oedd Petr yn ffrostio pethau mawrion, trwy ddatgan ei baródrwydd i rododi ei einioes drosto er mwyn Ei ganlyn i ba le bynag yr elai, profa yr Iesu Ei fod yn adnabod Petr yn drwyadl; ac nid yn unig yn ei adnabod ond yn rhagweled yr hyn a ddigwyddai iddo. Rhoddodd hefyd iddo bob mantais allasai ddeilliaw o ragfynegiad trwy ddywedyd: "Ni chân y ceiliog nes i ti fy ngwadu dair gwaith." Pan wasgarwyd y praidd hefyd o herwydd taro'r Bugail, deallodd gyflwr ac agwedd annymunol Thomas, yr anghredadyn pruddglwyfus, yr hwn yn ngwyneb pob tystiolaeth a ddygid iddo fod yr Athraw wedi adgyfodi a ddywedai: "Oni chaf weled yn ei ddwylaw ef ôl yr hoelion, a doddi fy mys yn ôl yr hoelion, a doddi fy llaw yn ei ystlys ef, ni chredaf fi." Diamheu fod y dysgyblion ereill wedi cymeryd trafferth fawr gydag ef, ac wedi cael cryn flinder oddiwrtho; ond ryw noson, pan yr oeddynt wedi ymgynull yn nghyd, a Thomas gyda hwynt, yr Iesu a ddaeth, a'r drysau yn gauad, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd, "Tangnefedd i chiwi." Wedi hyny Efe a ddywedodd wrth Thomas, heb i neb adrodd dim o'i hanes wrtho: "Moes yma dy fys, a gwel fy nwyllaw, ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys; ac na fydd anghredadyn, ond credadyn." A dyna yr anghredadyn yn myned yn gredwr yn y fan, ac yn dywedyd, "Fy Arglwydd a'm Duw." Fel hyn, chwythodd ar y llin

myglyd, nes ei wneyd yn fflam. Ond y mae yma hefyd gorsen wedi ei hysigo, ac eisiau ei rhwymo. Gwyddai yr Iesu yn dda y buasai profedigaeth Petr a'i gwmp yn ysigiad tost iddo; am hyny, cyn ymadael, adsefydla yr apostol yn ei swydd a'i le yn mhlith y dysgyblion trwy ddywedyd, "Portha fy ŵyn;" "Bugeilia fy nefaid." Nid yw Petr i gael ei ddiarddel o'r seiad, nac ychwaith i golli ei swydd, am iddo mewn awr o wendid wadu ei Arglwydd; ond y mae i ddangos y ffyddlondeb, ac i dderbyn yr anrhydedd o farw drosto yn ei henaint. "Pan elych yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain lle ni fynit. A hyn a ddywedodd efe gan arwyddo trwy ba fath angau y gogoneddai efe Dduw."

Dyma ni wedi myned yn frysio ac yn frâs trwy Efengyl Ioan, i ddangos fod syniad y testyn, sef fod yr Iesu yn gwybod beth sydd mewn dyn, yn llinyn arian sydd yn rhedeg trwyddi oll. Gallasem nodi amryw enghreifftiau eraill, o'r Efengylau eraill, i egluro a phrofi yr un peth; ond yr amser a ballai.

Y mae Efe eto yn gwybod beth sydd mewn dyn. Nid ydyw Ei symudiad i fyd anweledig yn gwneuthur un gwahaniaeth iddo Ef. Y mae Efe yn gweled trwy y llen sydd rhwng y byd hwn a'r byd ysprydol. Ni chuddia tywyllwch y nos rhagddo Ef; "Ond y mae pawb yn noeth, ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn sôn." Y mae Efe yn gwybod ein holl ddrygau a'n trueni. Cenfydd ysgogiadau cyntaf ein meddyliau, yn nghyd â'r egwyddorion a'r amcanion sydd yn ein hysgogi. Gŵyr Ef am blygiau dyrus ein calonau, sydd i ni yn anamgyffredadwy, ac yn anobeithiol o ddrwg. Gwel Ef holl agweddion ein trueni, y trueni sydd yn hysbys i ryw fesur i eraill, a'r trueni nad oes neb ond ni ein hunain yn gwybod am dano, sef y trueni yr ydym yn ymwybodol o hono, ac yn ei ddeall, a'r trueni nad ydym ond haner-ymwybodol o hono, a llai na haner ei amgyffred. Ac nid yn unig gŵyr am yr holl ddrygioni a'r trueni ag sydd yn wirionedd yn ein hanes; ond hefyd am y posibilrwydd o ddrygioni a thrueni sydd yn guddiedig yn ein natur. Oblegid y mae pob un sydd yn

gydnabyddus ag ef ei hun, yn gwybod fod ynddo hadau drygioni a thrueni yn guddiedig yn ei natur, na chawsant gyfleustra eto i flaguro a ffrwytho. Y mae amgylchiadau Rhagluniaeth, a'r dylanwadau ysprydol sydd yn ei amgylchynu, wedi llwyddo hyd yn hyn i'w cadw i lawr. Dywedai un o'r dynion duwiolaf nad oedd efe, ar ol iddo ddyfod i adnabod ei galon ddrwg ei hun, byth yn cael ei siomi yn anghyffredin, nac yn synu yn ddirfawr, pan yn clywed hanes am ddrygioni gwaradwyddus yn tori allan mewn dynion y tybiai yn dda am danynt yn flaenorol; a'i fod wedi colli pob ymddiried mewn dynion, oddiar pan gollodd ymddiried ynddo ei hun. Meddai yr hen John Bradford, wrth weled drwgweithredwr yn cael ei gymeryd i'r dienyddle: "*There goes John Bradford, were it not for the grace of God.*" I ras ataliol Duwy dylai pawb briodoli y wedd sydd arnynt heddyw. Ond y mae Iesu Grist yn gweled yr uffern o ddrygioni sydd yn guddiedig yn mynwes pob un. Trwy drugaredd gŵyr hefyd am bob daioni sydd ynom; a hwyrach nad oes neb tu yma i golledigaeth, heb ryw gymaint o ddaioni ynddo; ac ni cha "peth daioni," hyd y nod pe y digwyddai iddo fod yn nhŷ un cyffelyb i Jeroboam, byth ei esgeuluso ganddo. Gŵyr nid yn unig am y daioni gweithredol, ond am y posibilrwydd o ddaioni a dedwyddwch ag sydd yn guddiedig ynom. Y mae holl adnoddau ein natur, a'r hyn a ellir ei wneuthur o'r adnoddau hyny, yn hysbys iddo Ef.

Y mae ein dyfodol yn hysbys iddo. Nid yn unig posibilrwydd ein bodolaeth, ond ein dyfodol mewn gwirionedd. Buasem i gyd yn edrych gyda dyddordeb mawr ar aml un, na theimlwn ddim dyddordeb ynddo yn awr, pe buasai ei ddyfodol yn y golwg. "Beth fydd y bachgenyn hwn?" medd ambell un, wrth edrych ar ambell i blentyn. Ond ar ol gofyn y cwestiwn 'does yr un ateb i'w gael. Byddwn yn edrych yn ol gyda hoffder weithiau ar gyfnod ieuencyd dynion hynod, gan garu clywed eu hanes, a gweled eu lluniau, pan oeddynt yn blant. Y mae llyfrau wedi cael eu hysgrifenu "*On the childhood of great men.*" Ond rhy anhawdd i ni yw dychymygu y plentyn

fel pe byddem yn ei weled. Eithr y mae Iesu Grist yn medru edrych yn mlaen, ac y mae y dyfodol mor glir iddo a'r presenol. Am hyny medr weled y presenol yn ngoleuni y dyfodol. Yr oedd maes, a ffrwyth llafur, yr Apostol Paul yn amlwg yn Ei olwg Ef pan yr oedd yn ei neillduo o groth ei fam. Yr oedd yn canfod y Diwygiad Protestanaidd yn Luther pan y dechreuai ddysgu siarad; a *Paradise Lost* yn John Milton pan yr oedd yn dechreu dysgu yr *alphabet*. Gwelai y *theory of gravitation* yn Sir Isaac Newton, pan yr oedd Isaac bach yn chwareu gyda phlant ei gymydogion.

Mwy na hyny, y mae Efe yn gweled dyfodol dynion, nid yn unig yn y byd hwn, ond draw, draw, ar gyfandir diderfyn tragywyddoldeb, pryd y byddant wedi ymagor a thyfu i fesurau anamgyffredadwy i ni yn bresenol. Yr oedd Paul yn fawr ar y ddaear; ond pa fath a fydd yn mhen myrdd myrddiynau o oesoedd yn y nefoedd? Yr oedd John Milton yn haner seraph ar y ddaear; ond fath un a fydd yn nghanol cerubiaid a seraphiaid y drydedd nef, yn ehedeg yn uwch, uwch, am dragywyddoldeb? O! olwg ryfedd ofnadwy y mae Iesu Grist yn gael ar ddyn, yn gymaint a'i fod yn gweled nid yn unig yr hyn ydyw, ond yr hyn a fydd byth! Blin genym orfod troi i'r ochr arall, ond rhaid i ni wneuthur hyny. Y mae dyfodol dynion mewn drygioni a thrueni yn ngolygon Iesu Grist. Methodd Eliseus y prophwyd edrych yn ngwyneb Hazael heb golli dagrau, wrth weled, a gweledigaeth prophwyd, y galanastra a gyflawnai Hazael wedi iddo fyned yn frenhin ar Syria, er mai gwas cyflog oedd y pryd hwnw. Pe byddai dim ond tragywyddoldeb ambell un, ag yr ydym yn ein hanwybodaeth yn siriol wenu yn ei wyneb, yn y golwg, fe syrthiai ein hwynebpryd, ac fe rwygid ein calonau yn ddrylliau. Felly yr edrycha Iesu Grist ar ddynion; pa ryfedd ynte Ei fod yn "Wr gofidus, cynefin a dolur?" Y mae'r dyn wedi disgyn i fod yn gythraul yn mysg cythreuliaid uffern, yn ngolwg Ei lygaid, pan y mae yn edrych arno yn siriol ddiiniwed blentyn ar arffed ei fam, ac yn gwenu yn ei gwyneb.

Oh olygfa ofnadwy y mae'r Iesu yn gael ar ddynoliaeth! Y mae hanes pawb, a holl hanes pawb, yn awr a byth, gerbron Ei lygaid Ef. Gŵyr beth sydd mewn dyn, ac yn mhob dyn, wedi i'r oll sydd ynddo gael ei dynu allan mewn hanes tragywyddol.

YR ADDYSG.

I. *Rhyfeddwn Ei gariad a'i ras at ddyn.* Fe'n carodd er ein hadnabod. Mewn anwybodaeth am eu gilydd y bydd dynion yn caru eu gilydd. Dechreuodd llawer garu eu gilydd pan oeddynt yn gymharol ddyeithr i'w gilydd; a pheidiasant garu, ac aethant i gashau eu gilydd, pan gawsant gydnabyddiaeth helaethach. Yn wir, y mae yn amheus a fyddai dim cariad gan ddynion y naill at y llall, pe y gwyddent y cwbl am eu gilydd. Y mae yn amheus a fyddai yr un gŵr yn caru ei wraig, na'r un wraig yn caru ei gŵr, na'r un cyfaill yn caru ei gyfaill, pe y byddai dirgelion mynwesau pawb yn cael eu gwneuthur yn amlwg. Mewn anwybodaeth y bydd dynion yn caru eu gilydd. Ond bendigedig fyddo Ei enw, fe'n cofiodd ac fe'n carodd ni yn ein hisel radd. Efe a aeth heibio i ni yn y rhagwelediad tragywyddol, oedd yn briodol iddo fel Person dwyfol, ac fe'n gwelodd yn gorwedd yn ein gwaed; fe fu yr amser hwnw yn amser serchawgrwydd iddo Ef; fe'n hoffodd ni yn nghanol ein trueni. Do, fe'n carodd nes ymlawenychu yn nghyfaneddle ein daear cyn ei chreu, ac yr oedd Ei hyfrydwch gyda meibion dynion er tragywyddoldeb. Nid oes neb ar y ddaear, a phrin y tybiaf fod neb yn y nef-oedd, yn gwybod paham. Efe yn unig a ŵyr paham. Bid sicr, fe welodd y posibilrwydd i'n gwneuthur yn bethau gwahanol, trwy ein caru yn nghanol ein drygioni a'n gwarth; ac fe benderfynodd wneuthur hyny.

“Diolch iddo,
Byth am gofio llwch y llawr.”

II. *Gwelwn Ei gymhwysder i fod yn Geidwad dyn.* Am Ei fod yn gwybod beth sydd mewn dyn, fe fedr drefnu yr ymwared, a chymhwyso y feddyginiaeth. Rhaid i feddyg, cyn gallu

cymhwyso meddyginiaeth mewn modd effeithiol, adnabod y dolur. I'r dyben hwnw, bydd yn gorfod holi llawer ar y claf ei hun, er dyfod i wybod y *symptoms*. Nid anmhosibl i hwnw gadw oddiwrtho ryw arwyddion neu *symptoms* pwysig, naill ai mewn anwybodaeth neu o fwriad, a thrwy hyny gamarwain y meddyg. Ond dyma Feddyg nad yw yn dibynu am Ei wybodaeth o'r dolur ar dystiolaeth y claf ei hun. Er Ei fod yn ceisio genyt ddweyd dy gŵyn a desgrifio dy ddolur, eto pe baent yn digwydd methu, ni fyddai hyny yn camarwain dim arno Ef. Y mae yn gweled dy ddolur yn llawer gwell nag y medru di ei ddesgrifio, ac y mae Ei wybodaeth mor berffaith fel na fethodd feddyginiaethu neb erioed. "Efe a ddichon yn gwbl iachau."

Fel Ceidwad hefyd, y mae nid yn unig yn estyn cymhorth ac yn trefnu ymwarded, ond yn amlgu cydymdeimlad. Credaf fod llawer o ddiffyg cydymdeimlad yn codi o ddiffyg gwybodaeth. Eithr y mae gwybodaeth Iesu Grist am lawer o ofidiau dyn yn wybodaeth brofiadol, y wybodaeth debycaf o bob gwybodaeth i gynyrchu cydymdeimlad. "Nid oes i ni Arch-offeiriad heb fedru cyd-ddyoddef gyd â'n gwendid ni; ond wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau." Hwyrach y darostyngir chwi weithiau i ingoedd yspryd, mewn cyfyngderau neillduol ag y byddwch yn cael gollyngdod yspryd wrth apelio at Ei ddynoliaeth, gan lefain arno fel Bartimēus ddall, "Iesu, Mab Dafydd, trugarha wrthyf." Pan yn wylo dagrau heilltion uwchben bedd eich cyfeillion anwylaf, bydd yn gysur genych gofio fod yr Iesu wedi bod yn wylo uwchben bedd. Pan yn arswydo wrth feddwl am fyned i'r bedd eich hunain, a dirgelwch ac ofnadwyaeth angau yn gwasgu yn drwm ar eich ysprydoedd, gallwch gofio er eich cysur fod ofn angau wedi bod bron a llethu yr Iesu Ei Hun, nes iddo gael Ei wrando yn yr hyn a ofnodd mewn llefain cryf a dagrau. Oh, fe a ddichon gynorthwyo ein gwendid ni!

**"Iesu, gwyddost fy nghystuddiau,
'Rwyf yn rhifo pob yr un;**

Pob rhyw w'radwydd, pob rhyw groesau,
 Fe'u dyoddefaist hwynt dy hun;
 Dal fi fyny,
 Man bo 'meichiau fwyaf trwm.

"Paid a'm gadael yn yr anial
 Dyrus, mawr, wrthyl fy hun;
 'Rwyf ti'n adwaen aml ofnau,
 A gwendidau natur dyn:
 Dal dy afael,
 Y mae'r gelyn mawr gerllaw."

Iâ, ac fel Ceidwad fe fedr amddiffyn ein cam. Er cyn-ddrwg ydym nid yw yn anmhosibl i ni gael cam; cam ar law y diafol, hen gyhuddwr y brodyr, yr hwn sydd yn dadleu nad oes ynom ddim da yn trigo; cam ar law ei blant, y rhai sydd yn drwgliwio ein holl weithredoedd; a cham yn wir ar law ein brodyr, y rhai a fyddant yn priodoli i ni bethau anwir, ac yn camesbonio ein hymddygiadau. Oh, mor felus yw apelio at Un hollwybodol, a dywedyd, "Ti a wyddost bob peth!" Os bydd ein cyfeillion yn troi yn ein herbyn, fel cyfeillion Job, mor hyfryd yw medru dywedyd fel yntau, "Wele yn awr, fy nhyst yn y nefoedd, a'm tystiolaeth yn yr uchelder!" Os mai gelynyon fydd yn ymosod arnom, O! 'r ymwared sydd mewn teimlo, a gallu dywedyd gyda'r Salmydd: "Fy holl elynion ydynt ger dy fron di!" Ac am hyny, fel pe y dywedai, yr wyf yn gadael rhyngot Ti a hwynt.

III. *Efe, o herwydd Ei fod yn gwybod beth sydd mewn dyn, a fydd y Barnwr yn y dydd diweddfaf.* Felly y dywed Efe Ei Hun: "Myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arenau a'r calonau, ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd" (Deut. ii. 23). Yr Hollwybodol fydd y Barnwr; felly ti a gei berffaith chwareu tég. Dadleua rhai na ddylid gweinyddu cosb marwolaeth gan un llys daearol; fod y ddedfryd yn rhy bwysig i gael ei chyhoeddi ond gan lys sydd uwchlaw y posibilrwydd o wneuthur amryfusedd; y dylid cael llys anffaeledig i weinyddu cosb o'r fath. Ond o bob dedfryd, dedfryd y farn ddiweddfaf a fydd y bwysicaf. Barn dragywyddol a weinyddir yno; ni cheir ail drin yr achos byth.

Ond dyma lys anffaeledig, a Barnwr hollwybodol. Ti gei degwch. Ond tegwch yn dy erbyn a fydd, os mai yno y byddi yn trin dy achos gyntaf. Dos ato, i setlo'n awr. Ac yna ti a fyddi yn y farn a ddaw, fel y dywedai yr Hybarch William Morris, Cilgeran, ei fod ef yn sassiwn Aberteifi, yn ŵr rhydd, heb yr un achos i'w brofi; y cwbl wedi setlo *out of court*.

PREGETH XVI.

—:0:—

YR ANGENRHEIDRWYDD AM AIL-ENEDIGAETH.

IOAN III. 6, 7.—“*Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Ysbryd sydd ysbryd. Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.*”

YN fuan ar ol i'r Iesu ddechreu ar Ei weinidogaeth gyhoeddus, Efe a aeth i wyl y Pasg yn Jerusalem. Yno Efe a ganfu dŷ Ei Dad yn cael ei halogi: tŷ gweddi wedi cael ei droi yn ogof lladron. Wrth ganfod yr olygfa fe'i hyswyd gan zêl ac eiddigedd dwyfol. Yn ystod yr wyl hon ymddengys hefyd iddo gyflawni llawer o wyrthiau, oblegid dywedir, “Llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe.” Ond eglur yw fod syniadau y rhai a gredent ynddo yn bur anaddfed, a bod eu ffydd ynddo mewn canlyniad yn dra amherffaith. Yr oedd yr olwg ar wyrthiau Crist wedi gadael effaith ryfeddol arnynt, ac wedi cynyrchu graddau o ffydd ynddynt; ond prin yr oeddynt yn deall eu meddyliau eu hunain am dano, mi a dybiwn; ac nid rhyfedd na ddarfu i'r Hwn a wyddai beth sydd mewn dyn ymddiried i'r fath rai. Fel enghraifft o'r rhai a gredasant ynddo ar yr wyl hono, yr ysgrifenis hanes dyfodiad Nicodemus at yr Iesu; ac fel enghraifft a phrawf o wybodaeth drwyadl Iesu Grist o'r hyn oedd mewn dyn yr ysgrifenis hanes yr ymddiddan rhyngddo Ef a Nicodemus. Felly, y mae i'r hanes ddau amcan; dangos amherffeithrwydd ffydd Nicodemus fel un o'r lliaws, ac fe ddichon un o'r rhai goreu, a gredasant ynddo ar yr wyl hono; a dangos hefyd adnabyddiaeth berffaith yr Iesu o'r natur ddynol.

“Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos.” Nid damwain, neu amgylchiad heb ystyr, oedd hyn, oblegid coffeir hynyma am

dano bob tro yr enwir ef yn y Testament Newydd. Pe na buasai unrhyw achos i'r peth heblaw anghyfleustra, prin y gallwn dybio y buasai y fath goffâu am hyny. Y mae yn amlwg fod yr efenglydd yn ystyried ei ddyfodiad "liw nos" yn arwyddocaol o stad ei feddwl. Nid ydoedd wedi dyfod i oleuni hollol am yr Iesu fel Messiah. Teimlai Ei fod yn rhywun mawr, ac yn genad anfonedig oddiwrth Dduw; ond pa un ai Efe oedd y Messiah, nid yw yn ymddangos ei fod yn sicr. Fel ymofynydd pryderus gan hyny y mae yn myned ato, i'r dyben o gael ymddiddan personol, a chael mantais oddiwrth yr ymddiddan hwnw i ddeall ychwaneg am dano. Yr oedd ansicrwydd ei feddwl hefyd yn ei wneuthur yn fwy darostyngedig i'r teimlad o ofn; ofn cael ei weled yn myned at yr Iesu. Pe buasai yn llwyr benderfynol ar y pwnc, ac yn deall yn drwyadl gymeriad ac amcanion y Messiah, buasai ei ymddygiad yn myned liw nos yn feius. Ond nid yw yr Ysgrythyr yn beio dim arno o herwydd hyny; yn unig crybwyllir am hyny fel peth arwyddocaol o stad ei feddwl. Yr oedd ei fod yn myned at yr Iesu o gwbl yn beth canmoladwy iawn. Yr ydym yn deall oddiwrth Efengyl Ioan fod yr un amheuaeth pryderus yn meddyliau amryw o'r penaethiaid eraill, ond nid yw yn ymddangos i neb o honynt hwy fod yn ddigon gonest i fyned at yr Iesu i ymholi. Yr oedd yn gryn ymostyngiad ar ran "penaeth yr Iuddewon," aelod anrhydeddus o'r Sanhedrim, a llywydd synagog, i fyned at un arall, a'i gydnabod fel un uwchlaw iddo ef ei hun. A chan ei fod mewn swyddogaeth uchel, nid oedd ond dynol iddo ymdeimlo ag anrhydedd ei sefyllfa, ac iddo ofni colli y ffafr a'r poblogrwydd oedd mor felus i'w deimlad. Dyma un o brofedigaethau neillduol rhai mewn swydd, neu sefyllfa anrhydeddus; y mae clod gerbron dynion yn myned yn anhebgorol i'w dedwyddwch, ac yn fynych y mae yn ormod o beth ganddynt wneuthur aberth o hono er mwyn cydwybod i Dduw. Ond gan nad oedd Nicodemus yn sicr yn ei feddwl am y Messiah, nid oedd dyfod at yr Iesu liw nos yn beth mor feius, oblegid pe y gweithredai

yn wahanol byddai yn peryglu ei enw da yn achos peth nad oedd yn sicr yn ei gylch.

Yn ei gyfarchiad i'r Iesu rhydd Nicodemus awgrym iddo am yr hyn a ddisgwyliai oddiwrtho (adn. 2). Eisiau clywed Ei ddysgeidiaeth oedd arno; eisiau cyfarwyddiadau pellach gyda golwg ar yr hyn oedd angenrheidiol ei wneyd i'r dyben o etifeddu bywyd tragywyddol. Yr oedd ei gais gan hyny yn debyg i eiddo y gŵr ieuanc y cyfeirir ato yn Matt. xix. 16. Ni ddisgwyliai y buasai yr Iesu yn diystyru ei gyrhaeddiadau blaenorol; y cyfiawnder Phariseaidd yn yr hwn yr ymfrostitai. Ond yr oedd yn tybio y posibilrwydd iddo fod yn ddiffygiol mewn rhai pethau, ac yr oedd yn barod i wneyd yr ymdrech angenrheidiol i'w cyrhaedd. Hysbysa Ioan ni mai un o'r Phariseaid ydoedd, i'r dyben o awgrymu stad ei feddwl. Yn ol athrawiaeth y Phariseaid, nid oedd y fath beth ag ail enedigaeth yn angenrheidiol; yr oedd yn ngallu dyn i ymgyrhaedd at, a llwyr feddianu, yr hyn oll a ofynid gan ddeddf Duw. Nid oedd bywyd tragywyddol, yn ol eu tyb hwy, yn ddim ond taliad cyfiawn am weithredoedd da. Gan hyny, nid oedd crefydd yn ddim ond masnach ysprydol rhwng dyn a Duw. Nid oedd masnach y gwerthwyr colomenod, a'r cyfnewidwyr arian, yn ddim ond arwyddlun gweledig o'r syniadau oedd yn ffynu am natur crefydd; masnach oedd y cwbl. Gyda y syniadau hyn yn ei feddwl, a chyda yr hunan-dyb hwnw a gyfodai yn naturiol oddiarnynt yn llenwi ei fynwes, y mae Nicodemus yn dyfod at yr Iesu i ymgynghori ag Ef. Ymddengys i mi fod ysbryd ei gyfarchiad yn debyg i hyn: "Athraw, yr ydwyf fi fel llawer eraill wedi sylwi yn ystyriol ar y gwyrthiau rhyfedd a gyflawnwyd genyt yn ystod yr wyl hon, ac y maent wedi cynyrchu argyhoeddiad yn fy meddwl mai cenad anfonedig oddiwrth Dduw ydwyf. Fel y cyfryw yr ydwyf wedi dyfod i ymgynghori â thi; y mae arnaf eisieu gwybod a ydwyf yn ddigon da i etifeddu bywyd tragywyddol; os nad ydwyf, a bod genyf ddiffygion, pa rai ydynt? Yr ydwyf yn teimlo yn bur hyderus nad yw fy

niffygion yn bwysig, oblegid yr wyf yn fab i Abraham, ac yn Pharisead manwl. Gan hyny, fy ngofyniad ydyw, pa weithredoedd ychwanegol sydd raid i mi eu cyflawni?"

Y mae atebiad yr Iesu yn berffaith gyfaddas iddo; nid i ffurf geiriau y cyfarchiad, ond i'r yspryd a'r amcan oedd danynt. "Yr ydwyf yn camgymeryd yn hollol," meddai Crist, "nid eisiau ychwaneg o ffrwythau sydd arnat, ond gwreiddyn newydd; nid gweithredoedd ychwanegol, ond natur wedi ei chfynewid." A gair Ei enau y mae yn difwyno holl obeithion a balchder Nicodemus. Dyma yr holl gastell o hunan-gyfiawnder dychymyngol wedi ei wneuthur yn garnedd ag un tarawiad. Rhaid fod ei siomedigaeth yn fawr; ond yn hytrach na rhoddi i fyny ei holl obeithion melus ar unwaith, try i wrthddadleu (adn. 4). Teimlir cryn anhawsder i ddeall yr wrthddadl. Os cymerir hi yn ei hystyr lythyrenol ac anianol, rhaid i ni dybio un o ddau beth am Nicodemus; naill ai ei fod yn hynod anwybodus a gwirion, neu fod ei eiriau yn cynwys gwatwareg (*sarcasm*) anghrediniol. Ond pe buasai felly, nid yw yn debyg y buasai yr Iesu yn cario yr ymddiddan yn y blaen. Esmwythach ydyw i ni dybio nad yw yr wrthddadl, "Pa fodd y dichon dyn ei eni ac efe yn hen?" ond ffugr a ddefnyddiai i gyflwyno i'r Iesu yr anhawsder a deimlai. Y meddwl yw, "Pa fodd y mae yn bosibl effeithio y fath gyfnewidiad mewn cymeriad sydd wedi heneiddio, ac wedi ymsefydlu? Onid y tebygolrwydd yw, mai pa beth bynag ydyw dyn wedi iddo heneiddio, mai hyny a fydd efe byth? Anhawdd iawn newid meddylfryd ac arferion hen ddyn, mor anhawdd ag iddo fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni." Ffugr yw y geiriau, a'u hunig amcan yw datgan yr anhawsder a berthynai i'r pwnc.

Wrth ei ateb yntau drachefn nid ydyw Iesu Grist yn amcanu lleihau dim ar yr anhawsder; eto cyfeiria at yr Awdwr Hollalluog, ac ail-dystiolaetha yn y modd cadarnaf yr angenrheidrwydd am y cyfnewidiad (adn. 5). Yna, fel rheswm i ddangos yr angenrheidrwydd, daw y testyn i mewn. Gan fod

yr hyn a aned o'r cnawd yn parhau yn gnawd, er pob diwygiad a thrwsiad; ac nad oes ond yr hyn a enir o'r Ysbryd yn ysbrydol, y mae yn canlyn fod yn rhaid wrth enedigaeth newydd, ac am hyny, "Na ryfedda." Y gwirionedd pwysig a gyflwynir i sylw yn y geiriau difrifol yma ydyw hwn—

NAD OES DIM LLAI NA GWEITHREDIAD YSBRYD DUW YN DDIGONOL
I GYFNEWID HOLL NATUR DYN, AC I'W DDYRCHAFU A'I GYM-
HWYSO I FWYNHAU Y DEYRNAS; A BOD Y NATUR DDYNOL YN
PARHAU YN GNAWDOL AR WAHAN ODDIWRTH Y DYLANWAD.

Dyma un o athrawiaethau sylfaenol y grefydd Gristionogol. Gyda yr athrawiaeth hon y saif neu y syrth yr holl wirioneddau neillduol a berthynant iddi, y rhai a'i gwahaniaethant oddiwrth yr hyn a elwir yn grefydd naturiol. Rhaid sylweddoli yn llwyr y gwirionedd mawr hwn cyn y gall y meddwl rodidi derbyriad calonog i'r athrawiaethau mawrion ereill perthynol iddi; megis, dwyfoldeb person Crist, yr iawn, cadwedigaeth o ras trwy fydd, &c. Fel canlyniad naturiol cawn y rhai sydd yn anghredu yn hollol, neu yn rhanol, y gwirionedd mawr hwn, yn cyfeiliorni hefyd yn eu syniadau ar y pynciau eraill. Dyma hefyd un o athrawiaethau tramgwyddus y grefydd Gristionogol; fod yn rhaid i bawb yn ddiwahaniaeth gael eu geni drachefn, gan nad beth fyddo eu cyrhaeddiadau mewn rhinweddau naturiol; y doethwr dysgedig a dichlynaidd ei ymarweddiad, yn gystal a'r oferddyn llygredig; y foneddiges *accomplished* a *refined*, yn gystal a'r bechadures fawr; canys nid oes gwahaniaeth, "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd." Y mae dynolryw trwy yr oesau wedi bod yn gwrthryfela yn erbyn yr athrawiaeth hon.

Nid yw y testyn, na'r adnodau o gwmpas y testyn, yn esbonio natur y cyfnewidiad hwn; yn hytrach cydnebydd ei ddirgelwch; eithr trwy gymhariaeth gref dysga ei fod yn gyfnewidiad trwyadl a gwreiddiol; cyfnewidiad yn ngwreiddyn cymeriad; yn y rhan fwyaf mewnol a dwfn yn natur dyn, y meddylfryd, y galon, y rhywbeth hwnw o fewn y dyn sydd

yn ysgogi ei holl weithredoedd, ac yn llunio y rhai hyny ar ei ddelw ei hun. Pan fyddo y cymeriad yn cymeryd rhyw ffurf bendant a neillduol, yr ydym yn arfer ystyried fod rhywbeth dwfn yn natur y dyn yn rhoddi cyfrif am y ffurf allanol a gweledig; fod rhyw feddylfryd, neu *disposition*, yn achos o'r cyfryw yn y dyn ei hunan, ac yn rhoddi cyfrif i ninau am ei weithredoedd. Pan welom feddyliau a gweithredoedd y cybydd, y balch, neu yr hael, yr ydym ar unwaith yn tynu y casgliad fod yna ryw feddylfryd o danynt yn eu hachosi; fod yna ryw wreiddyn i'r cymeriad, allan o'n golwg ni, oddiar ba un y tyf y canghenau a'r ffrwythau sydd yn y golwg. Yr enw cyffredin yn yr Ysgrythyr ar y peth yw calon; "Cadw dy galon yn dra diesgeulus," &c. Fe ddichon nas gallwn ninau gael un syniad eglurach na dyfnach am ail-enedigaeth, na chyfnewid yr elfen lywodraethol yn nghymeriad y dyn, yr hyn a eilw yr Ysgrythyr mewn manau eraill yn "galon"—creu calon lân; tynu ymaith y galon gareg, a rhoddi calon dyner yn ei lle.

Ond nid ein hamcan yn bresenol yw traethu yn helaethach ar natur, nac Awdwr y cyfnewidiad hwn, ond dangos yr angenrheidrwydd am dano, a hyny yn benaf ar sail y syniad sydd yn y testyn, sef fod yr hyn a aned o'r cnawd yn parhau yn gnawd heb rhyw ddylanwad goruwch-naturiol. Tuag at wneyd hyny i bwrpas rhaid i ni geisio gwneyd *survey* ar y natur ddynol, gan ofyn pa elfenau sydd ynddi, drwg a da; ceisio cael allan pa faint o welliant sydd yn bosibl ei wneyd arni, ar wahan oddiwrth y dylanwad dwyfol; ac yna edrych a ydyw y gwelliant hwnw yn ddigonol. Anmherffaith a bras iawn y rhaid i hyn fod mewn cyngor byr.

Wrth dreiddio i mewn i blygion dirgelaidd llygredigaeth dyn, yr ydym yn dyfod o'r diwedd o hyd i'r ffurf fwyaf syml a gwreiddiol arno. Pe y gofynid i mi beth ydyw hwnw, nis gallwn mewn un gair roddi gwell enw arno na hunan-ewyllys, neu hunanoldeb. Nis gellir dadansoddi hwn, na dangos ei fod yn gyfansoddedig o elfenau mwy syml nag ef ei hun.

Dyma y man pellaf y gallwn fyned yn ein hymchwiliadau ; fe gynwys hwn, ac fe rydd gyfrif am, holl ffurfiau llygredigaeth yn nghalon a buchedd dynion. Dyma hanfod pob pechod. Ffurfiau gwahanol ar hunanoldeb y galon ydyw pob pechod a gyflawnir genym, yn eu perthynas â Duw, ac yn eu perthynas â dynion. Hon yn dyfod i gyffyrddiad ag awdurdod Duw yn Ei ddeddf, neu yn Ei efengyl, sydd yn troi yn wrthryfel neu yn anghrediniaeth ac yn elyniaeth at Dduw yn y naill a'r llall. Nid y ffurf gyntaf ar lygredigaeth dyn yw gelyniaeth at Dduw ; oblegid nid yw yn ymwybodol o elyniaeth hyd nes y byddo awdurdod ac ordeiniadau Duw wedi dyfod i groesi ei hunanoldeb ef. Nid ydyw cybydd-dod ond gwanc hunanoldeb mewn cyfeiriad daearol ; nac afradlonedd ond moethusrwydd hunanoldeb. Nid ydyw twyll a chelwydd yn ddim ond y canlyniad o osod mantais bersonol o flaen pob peth arall. Ië, arweinia hyn i'r pechodau mwyaf erchyll ac ofnadwy. Pan y rhydd yr apostol ddesgrifiad o'r cymeriadau erchyll sydd i ymddangos yn amseroedd enbyd y dyddiau diweddaf, dechreua y desgrifiad gydag ymadrodd arwyddocaol iawn : "Canys bydd dynion a'u serch arnynt eu hunain." Dyma y pechod mawr sydd mewn gwirionedd yn dad yr holl gyfres ddu a ddilyna. Y mae dyn wedi tori yn rhydd o'r cylch y bwriadwyd iddo droi ynddo o gwmpas Duw fel canolbwynt, ac wedi gosod ei hun yn *centre* yn Ei le, a dyma wraidd ei holl ddrygioni yn gystal a'i holl drueni. Dyna y cwbl a ddywedwn yn bresenol am lygredigaeth a dirywiad y ddyनियाeth. Yn awr, ni a ymfynwn pa elfenau sydd ynddo i'w gosod ar gyfer y llygredigaeth, ac ni a geisiwn gael allan hefyd a ydyw y rhai hyny, ar wahan neu mewn undeb a'u gilydd, yn alluog i wrthweithio hunanoldeb gwreiddiol y galon, ac i adfer y dyn yn ol i'r berthynas gyntefig a fodolai rhyngddo a Duw.

I. *Dylem sylwi ar y duedd addolgar sydd wedi ei gadael yn ngweddill.* Nis gallwn lai na gweled fod mewn dynion yn gyffredinol ryw syniad dwfn ac angenrheidiol am Dduw, a thuedd hefyd i dalu rhyw fath o warogaeth iddo. Nid ydyw

deall dyn yn cael gorphwysdra ond yn y syniad am Dduw. Y mae yr arwyddion amlwg o gynllun a rhagfwiad, sydd yn ganfyddadwy yn y cwbl o'i amgylch, yn ei orfodi i gredu fod rhyw feddwl mawr a goruwch-ddynol wedi bod yn cynllunio. Wrth olrhain achos ac effaith tuag yn ol, gorfodir ef gan gyfansoddiad ei natur i aros gyda rhyw achos cyntaf a gwreiddiol i'r oll. Y mae serchiadau y galon hefyd yn dyheu am Dduw, o herwydd ei bod yn methu cael gwrthddrych teilwng, sydd yn boddhau ei holl ddymuniadau, yn yr hyn sydd gyfnewidiol a therfynol. Bydd y galon yn myned yn drallodus wrth weled pob peth o'i chwmpas yn cyfnewid ac yn darfod; o herwydd hyny metha gael dim i gymeryd gafael gref a sefydlog ynddo, ac felly gael gorphwysdra. Terfynol ydyw pob peth gweledig, tra y dyhea hi am y diderfyn. Ond pa un bynag a allwn ni roddi cyfrif am ffurfiad y syniad yn y meddwl, erys y ffaith yn amlwg ac yn hysbys, fod dynolryw yn mhob oes a gwlad wedi bod yn addoli rhyw fath o Dduw. Efallai ei fod yn amheus a fu y fath beth a *real atheist* erioed. Rhywfath o addolwyr Duw yw y gynulleidfa yma oll, yr annuwiol yn gystal a'r duwiol. Ond pa beth ydyw natur yr addoliad a delir, a pha beth yw gwerth y teimlad addolgar crefyddol sydd mewn dyn, yw y cwestiwn. Mewn ystyr foesol, a chyda golwg ar iddo fod yn allu i ddychwelyd dyn i fod yn ddarostyngedig i ddeddf Duw, bychan yw ei nerth. Y mae gwrthryfel hunanol y galon yn llawer iawn cryfach nag ef. Dacw y pagan addolgar yn newid gogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar carnol, ac ymlusgiaid; i.e. yn creu duwiau sydd yn cyfateb i chwantau llygredig ei galon, nes y mae yn cael addoli ei dduw a boddio ei chwantau anifeilaidd ar unwaith. Trwy odineb yr oedd y dduwies Gwener yn cael ei haddoli. Meddwdod oedd gwasanaeth crefyddol y duw Bacchus. Yn ngwlad efengyl nis gall addoliad gymeryd y ffurfiau ofnadwy hyn, oblegid yr ydym ni wedi ein dysgu yn am-angenach am y gwir a'r bywiol Dduw, deddfau sanctaidd yr

Hwn sydd wedi cael eu gwneyd yn hysbys i ni. Ond o herwydd fod Ei gyfraith bur Ef yn croesi tueddiadau llygredig ein natur, y mae yr addoliad a delir iddo yn amddifad o ysbryd a chalon. Nid oes dim bywyd ynddo. Gwarogaeth allanol yn unig ydyw. Fe wrendy yr anghredadyn yn ddefosiynol ar ddarlleniad Gair Duw; fe gyduna a'r gynulleidfa i ganu Ei fawl; fe gydymostwng ger Ei fron; ac ar yr un pryd bydd y gwrthryfel dwfn yn yr ysbryd mor gryf ag erioed. Nid yw y warogaeth a delir genym i'r Arglwydd ond cyffelyb i'r warogaeth a roddwn i un o frenhinoedd y cyfandir pan ar ymweliad a'r wlad hon. Gwelir y lliaws yn rhedeg yn awyddus i'r *procession*, a phan fyddo y teyrn yn myned heibio iddynt y maent yn tynu eu hetiau, ac yn ymgrymu ger ei fron. Ond nid ydynt o herwydd hyny yn gosod eu hunain dan ei gyfreithiau, nac yn ymostwng i'w awdurdod fel brenhin. Yr un fath, nid yw addoliad y di-ailenedig yn ddim ond *compliment* gwag i'r Brenin Mawr, heb unrhyw fwriad i ostwng y galon at Ei ddeddfau. Na, nid oes digon o nerth yn y teimlad defosiynol greddfod sydd mewn dynion i gyfanu y rhwyg sydd wedi ei wneuthur rhyngddynt â Duw.

II. *Nid ydyw dysgeidiaeth a chymhellion y gydwbybod ychwaith yn ddigonol i ddwyn oddiamgylch adferiad y ddynoliaeth.* Y mae bodolaeth y gydwbybod, yn ddiâu, yn un o'r pethau hyny sydd yn gwneuthur adferiad pechadur yn beth posibl, am hyny dylem fod yn ddiolchgar am dani. Trwy hon, medd Duw afael ar y dyn, i.e., hyd yn nod yn ei wrthgiliad pellaf oddiwrtho. Y mae y gydwbybod, nid yn unig yn dangos i ddyn beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd ganddo, ond hefyd yn ei orchymyn i'w gyflawni; ac nid yn unig y mae yn dangos y drwg, ond hefyd yn ei warafun. Ond y mae yn gwbl analluog i sicrhau ufudd-dod y galon, fel y mae hanes y byd, a phrofiad personol pob un o honom wedi ein dysgu. Y mae cariad y galon yn llawer cryfach. Dyna y gallu mawr sydd mewn dynion, gallu cariad. Yr hyn a fyddo dyn yn ei garu, dyna a fydd debycaf o gyflawni. Nid yw pob rhwystr ar ffordd pob

math o gariad, ond achlysuron iddo i ymgryfhau ac angerddoli, nes treisio ei ffordd yn y diwedd i gyrhaedd ei amcan er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Gwelwn yr afon yn ymlithro yn ddystaw tua'r môr, yn ymddoleni yn hamddenol ar y gwas-tadedd, ac yn bolheulo fel sarff, os na fydd dim yn ei hatal; ond yn ngwyneb rhwystr cewch ei gweled yn ymroni yn ddigofus, ac yn casglu nerth i ymwithio drwy neu dros yr atalfa, ac yna yn cyflymu ei rhedfa tua'r môr, gan ddwrddio pob peth a fyddo am ei rhwystro. Nid ydyw y môr mawr llydan byth yn ymddangos mor gynddeiriog ag ydyw yn ymyl y lân, lle y cyferfydd â rhwystrau; yno yr ymderfysga ei donau, gan ymluchio yn erbyn y creigiau, nes crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef, ac y chwythir poeredd ei gynddaredd i entrych yr awyr. Felly, nid yw atalfeydd y gydwybod yn ddim ond achlysuron deffroad a chynhyrriad nwydau llygredig y galon. Sonia yr apostol am "wyniau pechodau y rhai oeddynt trwy y ddeddf," a dywed fod pechod, oedd gynt yn farw, yn cymeryd achlysur oddiwrth y gorchymyn i weithio ynddo bob trachwant, nes yr oedd trwy y gorchymyn yn myned yn dra phechadurus, ac yntau yn gorfod teimlo ei hun yn gaeth, wedi ei werthu dan bechod. Goleuer a chryfhaer y gydwybod, ac ni wna hyny ond ychwanegu at boethder y rhyfel oddimewn, heb sicrhau unrhyw gyfnewidiad yn y cymeriad. Trwy gyfnewid cariad y galon yn unig y gellir newid carictor dyn. Fe bery dyn yr un o hyd, mewn stâd o wrthryfel yn erbyn Duw, oni newidir serchiadau ei galon.

III. *Nid ydyw y teimladau caredig, ychwaith, sydd yn ngweddill yn y ddynoliaeth, yn ddigonol i ddwyn oddiamgylch ei hadferiad.* Y mae y rhai hyn yn hardd iawn, ac yn ychwanegu llawer at ein cysuron cymdeithasol, ond fel gallu i adfer dyn yn ol at Dduw, y maent yn gwbl ddiwerth. Medd rhai dynion a merched ryw ledneisrwydd ac addfwynder naturiol hynod o dlws, sydd yn enill cymeradwyaeth a serch pawb a'u hadwaenant; ond mewn ystyr foesol nid oes mwy o nerth ynddo nag sydd yn

instincts amrywiol gwahanol fathau o greaduriaid. Nid oddiar barch i Dduw y mae y dyn neu y ddynes yn llednais, ond o herwydd mai dyna ei naturiaeth anianol. Peth prydferth iawn hefyd ydyw y serchiadau teuluaidd; cariad rhieni tuag at eu plant, a chariad y plant at eu rhieni. Gwelir y tad yn gweithio yn galed, ac yn dyoddef llawer o anghysuron, er mwyn i'w enillion droi yn ymborth blasus ar fwrdd, ac yn ddillad cysurus am, ei wraig a'i blant; nes yn eu cysur hwy y bydd yn anghofio ei flinder ei hun, ac yn teimlo yn falch o hono. Pan ddychwel adref yn yr hwyr, bydd y plant yn rhedeg am y cyntaf i'w groesawi; chwareuant rhwng ei liniau, dringant i fyny ar hyd-ddo, gan dynu ei wallt a'i gernflew, a'i gusanu bob yn ail. Yn eu gwres hwy y mae yntau yn toddi; teimla ei hun yn dyfod eilwaith yn ddyn ar ol bod yn bren, yn lŵ, yn haiarn, neu yn frethyn, trwy y dydd. Y mae y fam yn dotio ar ei phlant. Gwylia ar bob ysgogiad; a chenfydd brydferthwch anghyffredin yn mhob ystum o'r eiddynt. Ymdraffertha lawer er eu mwyn, cyll ei chwsg yn ei gofal am danynt, gan gyfrif pob traferth yn bleser. Oh, y mae y pethau hyn yn hardd, ac yn gweini llawer o gysur. Ond wedi y cyfan, nid oes ynddynt ddim rhinwedd moesol a chrefyddol; o ran hyny, canfyddir hwy mewn anifeiliaid.

Hardd iawn yw y cyfeillgarwch cynhes, hunan-aberthol, sydd yn ffynu yn fynych rhwng cyfeillion. Mor brydferth yr ymddengys y cyfeillgarwch oedd rhwng Jonathan a Dafydd. Er y gwyddai Jonathan mai Dafydd ydoedd yr hwn a ddior-seddai ei dad, ac a gymerai oddiarno ef ei hun yr orsedd hono, i'r hon yr ydoedd efe yn etifedd naturiol, eto y cyfryw ydoedd ei gariad ato fel yr oedd yn ei amddiffyn rhag dialedd ei dad, ac yn gwneyd hyny ar draul peryglu ei fywyd ei hun. Yr oedd yn teilyngu galarnad gynhes pan laddwyd ef ar faes y rhyfel, ac efe a'i cafodd gan Dafydd. Y mae llawer o enghreifftiau cyffelyb wedi digwydd erioed, ac y maent yn hardd iawn. Oni buasai am y cariad a'r tynerwch yma byddai y ddaear megis uffern, a dynion fel ellyllon creulawn yn

rhodio ar hyd-ddi. Ond pa faint yw gwerth y rhai hyn oll fel gallu i gyfanu y rhwyg sydd wedi ei wneuthur rhyngom a Duw? Dim. Nid ydynt ond blodau yn tyfu mewn anialwch gwag, erchyll. Gwir eu bod yn gwrthweithio rhyw gymaint ar hunanoldeb gwreiddiol y galon ddynol, ac o herwydd hyny y maent yn hardd. Ond os ydynt yn symud y canolbwynt o'r dyn ei hun i rywun arall sydd yn ei ymyl, nes y bydd yn byw er mwyn hwnw, nid ydynt yn ceisio troi'r dyn yn ol at y canolbwynt mawr cyntefig, sef Duw. Y mae y gwrthryfel sydd mewn dyn yn erbyn Duw yn parhau yr un. Gallwn enwi ychwaneg o bethau prydfferth, a gwerthfawr mewn rhyw ystyr, sydd wedi aros mewn dynoliaeth syrthiedig; ond nid ydynt ond cyffelyb o ran natur, a llai eu pwys, na'r rhai a enwyd fel enghreifftiau. Y penderfyniad yr ydym yn gorfod dyfod iddo ar y diwedd ydyw hwn: "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd." "Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn." Er nad ydwyf wedi eich cyfarch mewn dull uniongyrchol, am danoch chwi yr wyf wedi bod yn siarad. Pan yn llefaru am y natur ddynol, neu ddynolryw yn gyffredinol, yr amcan oedd taflu ein hunain i ryw gymaint o bellder oddi-wrthym ein hunain, i ni gael gwell golwg arnom ein hunain. Am danoch chwi, ac wrthyhych chwi, yr oeddwn yn llefaru, er ceisio gweithio ynoch argyhoeddiad fod drygioni eich natur yn anwelladwy heb ail-enedigaeth.

Ond meddai rhywun: "Pa fudd a fyddai mewn argyhoeddiad o'r fath?" Pa ddyben ymarferol a ellir ei gyrhaedd? Pa les a ddeillia oddiwrth bregethu o'r natur hyn? Yn ol eich dysgeidiaeth chwi eich hun, Duw a bia ail-eni. Pe buasai yn rhywbeth o fewn ein cyrhaedd ni, buasem yn ymdrechu ymostwng; ond gan nad ydyw, pa beth sydd a fyfno y son am yr angenrheidrwydd am dano â ni? "A ddaethost i'n poeni cyn yr amser?" Wel, fy nghyfeillion, y mae atebiad i'r holl gwestiynau yna i gyd yn nghymydogoeth ein testyn. Ar ol i Iesu Grist yn y modd difrifolaf draethu ac ail-draethu yr angenrheidrwydd am ail-enedigaeth, nid yw yn gollwng

Nicodemus ymaith ar hyny; ond cyn terfynu, y mae yn codi trostan y groes gerbron ei lygaid; "Canys megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn; fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Yr oedd tynerwch a doethineb yn Ei ymddygiad. Y mae Ei eiriau yn cynwys awgrym ymarferol i ninau. Os yw y gwenwyn marwol wedi treiddio trwy dy holl naturiaeth, a holl physigwyr y ddaear yn analluog i'th feddyginiaethu, edrych ar sarph bres yr efengyl. Gwel Geidwad dyn yn grogedig ar groesbren melldigedig. Edrych tuag yno fel un a fyddai yn disgwyl meddyginiaeth, ac fe ddaw iachad trwy yr edrychiad hwnw. Ffo at Fab Duw fel yr ydwyf.

PREGETH XVII.

—:O:—

DYDDANWCH DUW.

- SALM XCIV. 19.—“*Yn amllder fy meddyliau o'm mewn, dy ddyddanwch di a lawenycha fy enaid.*”

UN o'r Salmau dialeddol ydyw hon, ac un o'r rhai penaf o honynt. Cychwyna gyda chyfeiriad at yr Arglwydd fel Duw y dial. “O Arglwydd Dduw y dial, O Dduw y dial, ymddisgleiria. Ymddyrycha, Farnwr y byd: tâl eu gwobr i'r beilchion.” I'r anghyfarwydd mewn llenyddiaeth Feiblaidd y mae y Salmau hyn yn fagl ac yn brofedigaeth. Edrychant ar yr ysbryd dialgar a dybiant sydd yn y Salmau hyn, fel yn anghyson â moesoldeb uwch y Testament Newydd, ac am hyny yn anghydwedol â dwyfol ysbrydoliaeth; oblegid yr un yw Duw o angenrheidrwydd tan bob goruchwyliaeth. “Clywsoch ddywedyd,” meddai Crist, “llygad am lygad, a dant am ddant;” ond nid gan y Deddfroddwr y clywsent hyn, eithr gan “y rhai gynt,” sef y Rabbiniaid oedd yn comesbonio cyfraith Duw, ac yn gwyrdroi y rheol a roddwyd i farnwyr gwladol mewn achosion o gam i fod yn gefnogaeth i ddialgarwch personol. Y rheol i farnwyr mewn achosion o ymrafael a niwed oedd “einioes am einioes, llygad am lygad, dant am ddant, troed am droed, archoll am archoll, a chlais am glais.” Nid oedd cyfraith Moses yn cyfreithloni i ddyn gymeryd taledigaeth cyfiawnder yn ei law ei hun, ond “rhodded ef trwy farnwyr” oedd y dwyfol gyfarwyddyd. Yn bersonol, yr anogaeth oedd: “Na ddiala, ac na chadw lid i feibion dy bobl; ond câr dy gymydog megis ti dy hun” (Lev. xix. 18). Cyffelyb hefyd yw anogaeth llyfr y Diarebion: “Na ddywed, Mi a dalaf ddrwg” (xx. 22); “Pan syrthio dy elyn, na lawenycha: a phan dramgwyddo, na orfoledded dy

galon : rhag i'r Arglwydd weled, a bod hyny yn ddrwg yn ei olwg ef." "Na ddywed, Mi a wnaif iddo ef fel y gwnaeth yntau i minau; mi a dalaf i'r gŵr yn ol ei weithred" (pen. xxiv. 17, 18, 29). Yn mysg y pechodau mwyaf ysgeler y rhestrai duwiolion yr Hen Destament ddialgarwch, a chawn Job a Dafydd yn datgan eu boddlonrwydd i farnau Duw ddisgyn arnynt, os oeddynt wedi bod yn euog o'r camwedd hwn. Yn wir, o'r Hen Destament y difynir ymadroddion cryfion a phrydferth yn y Testament Newydd i warafun dialgarwch, ac i anog i ysbryd goddefol a maddeugar. "Nac ymddielwch, rai anwyl, ond rhoddwch le i ddigofaint : canys y mae yn ysgrifenedig, I mi y mae dial ; myfi a dalaf, medd yr Arglwydd. Am hyny, os dy elyn a newyna, portha ef ; ossycheda, dyro iddo ddiod ; canys wrth wneuthur hyn ti a bentyru farwor tanllyd ar ei ben ef. Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni" (Rhuf. xii. 19—21). Difyniadau tlws o'r Hen Destament yw yr holl ymadroddion hyn.

Ar yr un pryd, nid ydym am honi nad yw y goleuni yn fwy tanbaid ar y pwnc hwn, fel ar lawer o bethau eraill, yn y Testament Newydd. Graddol oedd cyfraniad y datguddiad dwyfol i'r byd ; rhoddid ef fel yr oedd y byd yn dyfod yn alluog i'w dderbyn. A dyna ydyw yr Hen Destament, hanes cenedl yn cael ei dysgu yn raddol gan Dduw, trwy gyfreithiau cyfaddas i'r cyflwr yr oeddynt ynddo, heb ofyn y perffeithrwydd uwch oedd yn bosibl, ond yn goddef rhyw bethau o herwydd caledwch eu calonau, am nad oeddynt wedi eu dysgyblu yn ddigonol i ddisgwyl mwy oddiwrthynt. Eto, hyd y nod gyda golwg ar y pwnc dan sylw, y mae llai o angen yr ystyriaeth hon nag a dybir gan lawer. Y mae dau fath o deimlad, pell oddiwrth eu gilydd, a gamgymerir gan rai fel yr un a'r unrhyw deimlad. Nwyd lygredig ydyw y naill, yn edrych ar gam tybiedig neu wirioneddol yn ei berthynas a'r person ei hun, ac mewn ffyrnigrwydd yspryd yn dymuno talu yn ol i'r neb a wnaeth y cam. Yn y teimlad llygredig hwn,

yn nghyd a'i allu i'w foddio, yr ymffrostiai Lamech yn y fawlgân iddo ei hun yn nghlywedigaeth ei wragedd: "Canys mi a leddais wr i'm harcholl, a llanc i'm clais." Yn awr, y mae yr holl Feibl—yr Hen Destament yn gystal a'r Newydd—yn condemnio y teimlad hwn, a phob amlygiad o hono. Ond bodola teimlad arall, yr hwn y gellir ei alw yn eiddigedd neu ddigllonedd moesol, sydd yn cael ei ddefro gan yr olwg ar yr annuwiol yn frigog, a rhyfyg herfeiddiol yn llwyddianus, pan yn sathru rhinwedd a chrefydd dan ei draed. Appelia y teimlad hwn at Dduw, Barnydd yr holl ddaear, gan ofyn iddo wneyd barn ar y ddaear, trwy atal rhwysg y balch annuwiol, a gwaredu a dyrchafu Ei bobl Ei Hun a'i achos sydd yn cael eu sathru dan draed. Er mai efe ei hun, efallai, a fydd y dyoddefydd, nid oddiar deimlad hunanol a phersonol yr appelia at Dduw, ond zêl tros rinwedd a chrefydd ei Dduw sydd yn ei ysu. Y mae y teimlad hwn nid yn unig yn gyfreithlon, ond yn iachus a rhinweddol, fel nad oes yr un cymeriad yn gyflawn sydd yn amddifad o hono. Ac os gwnewch ymchwiliad i'r Salmu a ystyrir yn ddialeddol, chwi a gewch mai y teimlad yma sydd wrth eu gwraidd, sef zêl dros Dduw, a'i achos, a'i bobl.

Felly am y Salm hon. Cwyno a wna y Salmydd fod yr annuwiol yn gorfoleddu ac yn dywedyd yn galed; fod gweithredwyr anwiredd yn ymfawrygu pan yn dryllio pobl yr Arglwydd, ac yn cystuddio Ei etifeddiaeth. Yna, "Y weddw a'r dyeithr a laddant, a'r amddifad a ddieneidiant. Dywedant hefyd, Ni wel yr Arglwydd, ac nid ystyria Duw Jacob." Ond ymgysura y Salmydd (adn. 14) yn y syniad na âd yr Arglwydd Ei bobl; cofio Duw yn Ei ffyddlondeb i'w bobl sydd yn ei nerthu. Yn y cysylltiad hwn y llefara eiriau y testyn: "Yn amler fy meddyliau o'm mewn, dy ddyddanwch di a lawenycha fy enaid." Un o'r Salmu galarnadol ydyw hon, sydd wedi bod o wasanaeth i eglwys Dduw mewn llawer amgylchiad blin. Nid yn unig yr oedd wedi dyfod i mewn i'r gwasanaeth Iuddewig yn ei dyddgylch, ond ar adegau neillduol o orthrym-

der byddent yn ei defnyddio yn ychwanegol. Dywedir mai y Salm hon a genid gan y Lefiaid o'u pwlpuadau, pan ddinystriwyd Jerusalem a'r deml adeg y caethgludiad i Babilon. Pan ruthrai y gelynyon i'r deml, yr oeddynt yn canu adnodau olaf y Salm; ond cawsant eu rhwystro i'w gorphen, ac i ddweyd y frawddeg olaf: "Yr Arglwydd ein Duw a'u tŷr hwynt ymaith." Ystyr bendant, a chyfyng braidd, sydd i'r testyn yn y cysylltiad y llefarwyd ef, ond yr ydym am gymeryd mantais oddiwrtho i alw sylw at yr holl ddyddanwch, o bob math, sydd yn dyfod oddiwrth Dduw, yn űgoleuni clir a chyflawn yr efengyl, ar gyfer profedigaethau bywyd.

Gellir defnyddio y testyn mewn llawer math o amgylchiadau, heblaw amgylchiadau tebyg i'r rhai a roisant fōd iddo. Y mae yn amlwg i bob dyn meddylgar fod llawer o flinderau, o bob math, yn goddiweddyd dyn yma. "Dyn a aned i flinder." Os yw ei ddyddiau yn fyr, y maent yn llawn o helbul. Profa y gwahanol ddarpariadau a wneir i leddfau trueni fod llawer o hono. Y mae llawer o'r darpariaethau hyn ar gyfer y tlodion, megis tlotai ac ysbytai o bob math. Bodola llawer o gymdeithasau dyngarol sydd yn gwynebu ar wahanol fathau o drueni, ond y mae swm mawr o drueni nas gall unrhyw gymdeithas gyffwrdd ag ef. Daw llawer o drueni i'r amlwg, ond diau fod llawer mwy yn guddiedig, nad oes neb yn gwybod am dano ond yspryd dyn yr hwn sydd ynddo, a'r Hollwybodol. Daw rhyw gymaint o flinder i ran pawb ar y ddaear; nid oes neb yn dianc; y mae rhyw ofid yn mhob teulu; *a skeleton in every house*. Ceir rhyw nifer o ddyddiau blin, os nad misoedd o oferedd, ac yn wir, blynyddoedd o ddrygfyd, yn mhob teulu. Y mae swm mawr o drueni yn y byd, a bydd rhyw gymaint yn sicr o ddyfod i ran pob dyn. Rhyw Ramah yn llywodraeth yr Anfeidrol ydyw y byd hwn; galar ac wylofain ac ochain mawr a glywir uchaf yma. Nid rhaid ymdrafferthu i brofi hyn, gan fod y ffaith yn amlwg ac yn deimladwy i bawb. Nid awn i ymofyn o ba le a phaham y daeth trueni i'r byd—gofyniadau na lwyddwyd eto i gael

atebion boddhaol iddynt—ond ni a ofynwn a oes dim dyddanwch ar gyfer y poen a'r gofid hwn? Cawn fod y Salmydd wedi dyfod o hyd iddo—dyddanwch Duw—ac yr oedd hwn yn felus i'w galon, ac yn llawenychu ei enaid. Am hyny, naturiol ydyw gofyn: Pa fodd yr ymdarawa y didduw? Cyn galw eich sylw at gysuron crefydd, ni a ymofynwn pa faint o gysur sydd gan y digrefydd mewn tywydd blin; rhydd hyny fantais i ni i brisio gwerth dyddanwch y Salmydd, dyddanwch Duw.

I. A OES DYDDANWCH HEB DDYDDANWCH DUW?

Gyda dyddordeb pruddglwyfus yr ydym wedi bod yn gwylio yr annuwiol a'r digrefydd, mewn gwahanol brofedigaethau, i weled a feddent ddyddanwch yn eu tralod. Y mae llawer o amrywiaeth yn mysg meibion dynion; cawn y cyfoethogion a'r tlodion, y cwrteithiedig eu meddyliau a'r anghwrteithiedig; ond wrth chwilio nid ydym wedi cael ond dau beth a gynygir ganddynt fel dyddanwch.

1. *Y doethineb o ymostwng i'r anocheladwy.* Cyfarfyddir llawer o brofedigaethau nad oes modd eu hysgoi, am ba rai nad yw dynion yn cystuddio eu hunain a'r syniad eu bod wedi gwneyd dim i'w tynu arnynt; ac yn gymaint ag nad oes modd eu hysgoi ceisiant ddyddanu eu hunain, a dyddanu eu gilydd â'r syniad, nad oes dim i'w wneyd ond plygu yn dawel i'w derbyn a'u dwyn. Yr oedd hyn yn y byd yn foreu iawn. Yn mysg yr hen Stoiciaid, cafodd hyn ei weithio allan yn athroniaeth rodresgar, ac yn rhyw fath o grefydd. Yn ol eu tyb hwy, nid ydyw dynion ond creaduriaid amgylchiadau uwchlaw eu llywodraeth; bodola rhyw fath o angenrheidrwydd digyfnewid am y cwbl; ac am hyny oferedd ydyw llawenychu yn ngwyneb hawddfyd, na thristhau yn ngwyneb adfyd. Ynfydrwydd, meddent, yw pob teimlad angerddol o lawenydd a thristwch; doethineb dyn ydyw cerdded yn wastad mewn hunanlywodraeth hollol, gan gymeryd amgylchiadau fel y digwyddo iddynt ddyfod, heb unrhyw gynhyrriad mewnol o gwbl. Gan mai ffawd neu angenrhaid sydd yn teyrnasu, ffolineb yw i

ddyn gael ei gynhyrfu gan ddim i chwerthin neu i wylo. Yr oedd rhai o'r Stoiciaid yma wedi ymorchestu yn anghyffredin i fod fel hyn, ac wedi gadael hanes ar ol sydd yn destyn syndod. Ond annaturiol iawn oedd eu bywyd; ac y mae yn amheus a oeddynt yn medru cadw cymaint o lonyddwch mewnlol ag a ddangosent yn allanol. Achos syndod y byd at eu hanes ydoedd yr annaturioldeb, yr anferthwch (*monstrosity*) a berthynai iddynt.

Y mae llawer o'r filosoffi Stoicaidd yma yn y byd eto, ac yn cael ei ddysgu gan ddynion i'w gilydd. Clywir ef mewn siarad cyffredin. Pan fyddo blinder wedi digwydd—archoll i gorff, niwed i amgylchiadau, cystudd personol, neu angau yn y teulu—bydd pobl yn dweyd yn aml wrth y dyoddefydd nad oes modd galw ddoe yn ol, fod y peth wedi digwydd bellach, *it is idle to cry over spilt milk*, nad oedd dim arall i'w ddisgwyl, ac am hyny y dylai blygu yn dawel a pheidio gofidio. Clywsoch hyna ganwaith. Ac yn wir, y mae gan ddyn allu i blygu i'r anocheladwy. Tybiwch am ddyn wedi cyfarfod â damwain sydd wedi anurddo ac anafu ei gorff, gan ar yr un pryd ei ddarostwng i dlodi. Yn mhen amser dyna ef wrth un glun, ac un llygad, ac un fraich, mewn congl ar ymyl y ffordd, a'i gefn ar y mur, ffyn baglau tan ei geseiliau, a het rhwng ei ddanedd i dderbyn cardod gan bwy bynag a êl heibio. Pwy ydyw? Y dyn oedd gynt y cryfaf, yr iachaf, a'r siriolaf yn y gymydogeath. Pa beth ydyw agwedd ei feddwl? O, y mae ei ysbryd wedi ei dori, ac agwedd ei wyneb wedi ei newid, ond y mae yna lai o ing nag a ellid ddisgwyl. Cyn pen rhyw dair neu bedair blynedd bydd wedi plygu i'r ffaith. Dyna un arall yn ngafael clefyd angeuol; ar y dechreu gwinga yn fawr; treia y naill feddyginiaeth a'r naill feddyg ar ol y llall; ond yn y man daw anobaith am wellhad i mewn; nid yw yn treio dim mwy ond rhywbeth i leddfu ei boen; ac o'r diwedd dyna ef yn marw. Pa fodd y mae yn gwneyd? Y mae yn plygu i'r angenrheidrwydd blin. Nid yw wedi gwneuthur unrhyw ddarpariaethau ar gyfer yr amgylchiad na'i ganlyniadau; ond y mae yn gwynebu angau a'r tragwyddoldeb ofnadwy yn fwy

tawel nag y mae'r anifail yn marw, am ei fod yn gwybod na fedr waredu ei hun. Rhaid myned, felly â yn weddol dawel, er ei fod yn annuwiol. Nid oes dim o dangnefedd y credadyn yn ei fynwes, ond y mae yn plygu i'w dynged. Medd dynion allu o'r fath hwn. Ond os gofynwch faint o ddyddanwch sydd yn y teimlad yma, rhaid addef nad oes dim; ei fod yn hollol wag o hono. *Helplessness* yn ymdawelu ydyw. Fel yr Indiad yn ei gwch ar y *rapids*, ar ol deall fod pob ymdrech yn aflwyddianus, yn bwrw y rhwyfau ymaith, ac yn eistedd yn ngwaelod ei gwch i fyned dros y dibyn erch, i fyned i'r llynclyn berwedig i gael ei lethu a'i chwalu. Dyna ddibrisdod tawel anobaith; *the resignation of despair*.

Dadleuir gan rai mai syniadau am bethau, ac nid y pethau eu hunain, sydd yn poeni dynion. Efallai fod peth gwir yn hyn. Clywsom am ddynion wedi chwerthin wrth gael eu poenydio, yn ddigynhwrf mewn colled, ac yn ddideimlad wrth gollu eu rhai anwylaf. Amrywia pethau i raddau yn ol ein syniadau am danynt. Yr oedd Cicero yn dychrynu rhag marw, Cato yn dymuno hyny, a Socrates yn ddifater. Ond gwirionedd rhanol ydyw hwn, ac efallai fod y dideimladrwydd yn fwy ar y gwyneb nag yn y galon. Fel y gwna y rhosyn aroglu yr un mor swynol o dan enw arall, felly bydd poen a cholled yn parhau yr un dan wahanol enwau. Ac ni wna y syniad fod yn rhaid dyoddef peth newid dim llawer arno i'r dyoddefydd, na fforddio iddo ddim dyddanwch. Ond dyma ddyddanwch yr annuwiol. Oh, mor dlawd ydyw!

2. *Dywedir mai dyledswydd a braint pob dyn ydyw dyoddef er mantais i'r hiliogaeth yn gyffredinol.* Nid ydyw efe ei hun i fanteisio dim, oblegid yn ol y gredo anffyddol nid yw yn bod ar ol marw, ac yn y ffaith nad oes mantais bersonol i ddeilliaw iddo y tybir fod rhagoriaeth y peth. Nid ydyw i ymgysuro yn y syniad o anfarwoldeb, a rhyddhad oddiwrth y blinderau personol, oblegid nad oes anfarwoldeb yn ei aros ef; ond bydd yr hiliogaeth ddynol yn parhau am byth yn y naill genhedlaeth ar ol y llall. Pa fodd, neu pa bryd, y try

dyoddefaint presenol yn fantais i'r hiliogaeth, nid ydynt yn aros i egluro. Dichon i ffurfiau cystudd ac afiechyd fod yn foddion i symbylu ymchwiliad, nes y deuir o hyd rywbyrd i feddyginiaeth effeithiol rhagddynt, ac felly fod ein dyoddefaint ni yn fantais i oesoedd dyfodol. Ond os gwir y ddysgeidiaeth hon, bydd eu hanfantais yn fwy na'r esmwythyd a'r iechyd. Ac eto nid ydynt yn dweyd na bydd oesoedd dyfodol yn marw, a dyna y bwgan mawr sydd yn ein byd. Ond rhywbeth felly yw yr hyn a argymhellir, sef fod cenhedlaethau lawer i ymaberthu er mwyn oesoedd dyfodol. Yn debyg fel y darllenais am fyddin yn llwyddo i fyned trwy ddinas warchaedig, wedi i nifer digonol o'i milwyr gael eu lladd i lanw y *tranches*, fel y gallai y lleill gerdded trostynt wrth ymladd a'r gelynyon. Ond cysur bychan i'r rhai a laddwyd gyntaf, fuasai gwybod eu bod hwy i farw fel y byddai eu celaneddau yn sathrfa i eraill, ac fel trwy eu hangau hwy y byddai i eraill gael y clod o enill buddugoliaeth.

Ond dyma yr ysbwrial a gynygir yn ddyddanwch i ddynion trallodus y dyddiau hyn. Llauer o ddysg sydd wedi gyru y dysgawdwy'r yma yn ynyd; ac ychydig yw eu nifer, y mae y philosophi hon yn rhy *refined* i'r werin bobl gael gafael arni. Syniad Cristionogol wedi tyfu yn wyllt ydyw. Yr oedd Iesu Grist yn gosod hunan-ymwadiad yn brif-orchwyl bywyd, ond nid yw y Beibl yn dysgu yr ynyfdrwydd y dylai dyn hunan-ymwadu nes boddloni ar ddifodiant personol, ac i holl elw y dyoddefaint fyned i eraill. Nis gall neb gyrhaedd hyn. Y mae cariad dyn at ei fodolaeth bersonol mor ddwfn a'i natur. Nid anfarwoldeb yr hiliogaeth a wna foddhau dyn, ond ei eiddo ei hun. Ffugiol iawn yw y ddysgeidiaeth yma; careg sydd yn cael ei chynyg yn lle bara i'r newynog. Ond nid wyf yn gwybod am ddim ond y ddau beth hyn a gynygir fel dyddanwch gan athroniaeth ddidduw; plygwch yn dawel a didwrw i'r hyn nis gellir ei ysgoi, i.e. cyfrifwch yn fraint gael myned yn aberth hollol a bythol er mwyn eraill, y rhai, rywbyrd draw, wedi i chwi beidio a bôd, a fydd yn manteisio ar

eich dyoddefaint. O gysurwyr gofidus, fel cyfeillion Job, pe y deuech i draethu pethau felly i ddyn ar dori ei galon gan ofidiau! *Nonsense* ydyw y pethau hyn. Nid rhyfedd, gan hyny, fod athroniaeth ddiidduw yn terfynu yn y dyddiau diweddaf yma, mewn dweyd nad yw bywyd yn werth ei gael, mai gwell fuasai bod hebdo; ac mai diwrnod ymwarded fydd dydd marwolaeth, pan y suddir i ddifodiant tragwyddol.

II. CYFADDASDER PERFFAITH DYDDANWCH YR EFENGYL.

Mor felus ydyw troi at hyn, ar ol gweled hollol aneffeithiol-rydd pob peth arall! Y peth cyntaf a ddywedwn yw—

1. *Y mae Duw yn bod.* Dyma syniad dedwydd! Onid oeddych yn teimlo fel y Salmydd wrth weled dynion mor druenus o ddigysur pan yn ceisio byw hebdo, heb ddim ond ffawd galed neu ddeddfau oerion yn eu hamgylchu; “Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw!” “Pa bryd y deuf ac yr ymddangosaf gerbron Duw?” O, y mae yn dda genym fod Duw yn bod; buasem wedi tori ein calon yn nghanol ein profedigaethau oni buasai ein crediniaeth yn Ei fodolaeth. “Pallodd ein calon a’n cnawd, ond nerth ein calon a’n rhan yw Duw yn dragywydd.” Gwir fod yr ynyf y dywedyd yn ei galon “nid oes un Duw;” yn dymuno na byddai yr un; ond yr ynyf ydyw hwnw. Gwir hefyd fod ynyfion wedi ymuno a’u gilydd i wadu Ei fodolaeth; a’u bod wedi ceisio trefnu cymdeithasau ar gynllun oedd yn sylfaenedig ar wadiad cyhoeddus o’i fodolaeth; ond ofer a fuont yn eu hymresym-iaidau, a’u cynghor a droes yn ffolineb. Profodd yr *experiment* yn fethiant yn Ffrainc. Ar ddechreu un gwrthryfel cyhoeddwyd yn rhyfygus, gyda beiddgarwch na ddangosodd hyd y nod y Ffrancod ddim mwy eithafol: “Nid oes un Duw, ac ni chaiff un Duw fod.” Fe drefnwyd myned yn mlaen hebdo; ond nid hir y buont cyn gweled na fedrai cymdeithas ddim dal yn nghyd heb gydnabyddiaeth ymarferol o Dduw. Darfu i arweinwyr y gwrthryfel wneyd cyhoeddiad arall: “Y mae Duw yn bod; ac os nad oes, rhaid i ni wneyd Duw.” Druain o

honynt! Nid rhaid oedd iddynt wrth y fath drafferth rhyfygus. Y mae Duw yn bod, ac Efe a'n gwnaeth ni, a phob peth oll. O, y mae yn dda genym hyn! Haul bywyd yw Duw. Heb yr haul naturiol, ni fuasai ond tywyllwch ac oerni ac angau yn teyrnasu; efe ydyw ffynhonell bywyd a chynydd a llawenydd yr holl ddaear. Felly heb Dduw, ni fyddai ond deddfau oerion, neu ddamweiniau deillion, neu ryw nerth, anymwybodol o hono ei hun na dim arall, yn gyru pob peth yn y blaen, yn ddiystyr o hawddfyd ac adfyd pawb; ac ni fyddai gan ddynion ddim ond cymeryd eu siawns a threngu pan fyddai raid. Pa ŵr doeth a garai fyw ar delerau o'r fath? Gwell yn wir fyddai bod heb y cyfryw fywyd. Byddai yn well genyf deithio mewn cerbyd, ar hyd ffordd beryglus, yn cael ei lusgo gan beiriant heb yr un peirianydd arno, na threio byw mewn byd heb Dduw. Ond trwy drugaredd y mae Duw yn bod; Duw mawr, anfeidrol, nad ydym ni ond tameidiau o hono, ac eto nad yw y Sylwedd anfeidrol, yn ddim llai gwedi i'r tameidiau fyned o hono; Duw a'n creodd ni ar Ei lun Ei Hun, ac y gallwn ddringo i fyny ato, a ffurfio dirnadaeth am dano, trwy gyfrwng ein natur ein hunain. Un tebyg i ni ydyw, ond anfeidrol fwy a gwell. Y mae yn Ddwyfol Feddwl, yn treiddio trwy y cwbl, uwchlaw y cwbl, ac yn goruch-reoli y cwbl, wrth gynghor Ei ewyllys Ei Hun. Nid peiriant heb beirianydd yw y greadigaeth, ond y mae Duw yn eistedd arni ac yn llywodraethu. Diolch am hyny!

2. *Y mae y Duw hwnw yn Dad.* Dyma fwy. Nid yn unig y mae Duw yn Feddwl, ond y mae ganddo hefyd galon sydd yn gymaint a'i feddwl. Y mae yn Dad; yn Anfeidrol Dad. Iesu Grist sydd wedi Ei ddadguddio felly, ac Efe yn unig; a rhaid cael ffydd yn Nghrist cyn cael gafaél arno yn y cymeriad hyfryd hwn. Tu allan iddo gallem weled Duw fel Creawdwr galluog, a Llywodraethwr doeth, i.e., yn ddaionus yn Ei holl weithredoedd; ond nid yn Dad. Yn y cymeriadau hyn nid oes digon o ddaioni; nid yw y daioni hwnw yn ddigon cynhes, nac yn dyfod ddigon agos atom; nid yw yn ein canlyn yn ein

holl drallodau, yn drugaredd ar gyfer trueni, ac yn faddeuant ar gyfer trosedd, ac nid yw yn gwisgo y fath ffurf o anwylded, fel y gallem lefain Abba Dad. Geill brenin fod yn dda i bawb, ond y teulu sydd yn ei gael yn dad. Ond yr Unig-anedig Fab, oedd yn Ei fynwes, a ddaeth i'r byd, a thrwy air a gweithred a hysbysodd i ni y Tad; fel mewn ystormydd mawrion y gallwn edrych i fyny ato, a dywedyd Abba Dad. Ac nid â yn gyfyngder mawr ar neb y byddo ganddo Dduw yn Dad ar gyfer pob rhyw wae.

Fel Tad, tosturia wrth blant afradlon a gwrthryfelgar, fel, er fod rhan fawr o'r trueni gwedi ei dynu genym arnom ein hunain trwy bechu, y trefna ffordd i faddeu'r camwedd, ac i estyn ymwared. "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei Unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." O, adnod fawr, adnod fwyaf y Beibl! Gwareded Duw ni rhag cynefino â'i swm, fel ag i fyned yn ddiystyr o'i chynwys. "Y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau," fel, er pob chwerwder oedd yn y cwpanau a yfywd eisioes, a chwerwder mwy eill fod mewn cwpanau sydd yn aros, y mae cwpan y felldith wedi ei yfed gan y Machniydd. Nid oes i ni ddim damnedigaeth i'w hofni, am hyny—

" Mae'th waed yn nyfnder culni a gwae
Yn abl fy rhoi i lawenhau."

"Cymer gysur," meddai'r Iesu wrth y claf, "maddeuwyd i ti dy bechodau," cyn gwella ei barlys; ac mewn derbyniad o faddeuant gallasai ymgysuro, pe heb wellhad, ar ei glaf wely. Maddeuant wedi ei roddi i mewn yn y cwpanau chwerw a ddyri Duw i'w blant a newidia eu blas yn hollol. Pa mor anesmwyth bynag y geill yr iau a osodwyd arnat fod, y mae yn anrhaethol ysgafnach na'r ddamnedigaeth a haeddwyd. Pa mor arw a throm bynag yw y groes, y mae yn llawer esmwythach na'r un a gariwyd gan ein hanwyl Geidwad, ac yr hoeliwyd Ef arni. O, bydd y cristen yn plygu yn ddiolchgar i ddwyn ei holl brofedigaethau bychain, gan fod y

rhai mawrion wedi eu cymeryd ymaith. Meddai rhywun : Nid yw y rhai hyn ond syniadau hen a chyffredin. Y pethau a ddarparodd Duw i ddyddanu Ei blant, na alw di yn hen, nac yn gyffredin. Y maent yn bethau byw a sylweddol; byth yn parhau yn newydd; gwelsom hwy yn ddiweddar yn gweini gwir ddyddanwch, ac yn llawenychu eneidiau tralodedig. Diolch am danynt!

3. *Fel Tad y mae wedi ordeinio ein holl brofedigaethau er ein lleshad tragwyddol.* Nid o'i fodd y blina nac y cystuddia Efe nyni; angenrheidrwydd blin ydyw hyn, er mwyn ein golchi oddiwrth ein hafliendid. Nid prif amcan Duw tuag atom yma yw ein dedwyddu, ond ein cael yn lân. Y mae ganddo well byd na hwn at ein dedwyddoli, a hyny am byth, ar ol ein cael yn lân. Crochan golchi Duw yw y byd hwn a'i brofedigaethau; wedi iddo ein golchi a'n gwisgo a newydd ddillad, y mae ganddo ddwyfol gartref i'n gogoneddu a'n dedwyddu am byth. Nid yw yn golygu i ni aros yma yn hir; rhyw ddeng mlynedd a thriugain, neu bedwar ugain mlynedd, dyna i gyd. Nid yw y byd hwn ond lle i ddysgu byw ynddo, prentisiaeth ar gyfer tragwyddoldeb. Oh, yn ngoleuni Duw ar fyd arall, ni a blygwn i brofedigaethau, gan ymddyddanu yn ngobaith gwynfydedig y byd hwnw. Nis gellir cael dyddanwch heb y goleuni hwn; ond gydag ef gellir meddu tangnefedd dwyfol. "Wedi iddo fy mhrofi, mi a ddeuaf allan fel yr aur," meddai Job, tan ganu yn y tân. "Cyfrifwch yn bob llawenydd, fy mrodyr, pan syrthioch mewn amryw brofedigaethau," meddai Iago, mewn anogaeth gynhes sydd yn dangos ei fod yn gwneyd ei hun yr hyn a gymhellai ar ereill. Nid oedd Paul yn pallu nac yn digaloni yn ei holl brofedigaethau; er fod y dyn oddiallan yn ymlygrt, yr oedd y dyn oddimewn yn ymadnewyddu, yn myned yn fwy bywiog, siriol, a nerthol, o ddydd i ddydd. Yr oedd yn mhob peth yn gystuddiol, mewn cyfyngderau, yn cael ei erlid, ei fwrw i lawr, yn ddarlun byw o farwlaeth Crist yn myned oddiamgylch; ond wrth gymharu hyd ei gystudd a meithder tragwyddoldeb, ei bwysau, a'r

gogoniant a ddisgwyliai, yr oedd yn fyr ac yn ysgafn gystudd: yr oedd yn cael ei weddnewid nes dyfod yn dra rhagorol. Paham? Edrych yr oedd ar y pethau ni welir. Y mae gobeithion byd arall yn cynal ac yn dyddanu tan gystuddiau hwn. Ni ein hunain a gaiff fanteisio ar ein dyoddefiadau. Nid y ni yn unig ychwaith, ond eraill hefyd, a ninau yn eu canol. "Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw," meddai Job, "ac y saif yn y diwedd ar y ddaear. Yr hwn a gaf i mi fy hun ei weled." Y gobaith hwn sydd yn cynal y duwiol ar ei daith; ië, wrth farw; pan y mae canwyll yr annuwiol yn diffodd. Clywais am gristion wrth farw, yn ceisio gan y *nurse* droi dillad y gwely yn ol, fel y gallai gael ei law yn rhydd; ac wedi ei chael yn ei throï o gwmpas ei ben, fel arwyddlun o fuddugoliaeth, ac o lawenydd anrhaethol.

CASGLIAD.

1. *Na furiwch ymaith eich hyder, yr hwn y mae iddo fawr wobr.* Nac ymwrthodwch â dyddanwch yr efengyl. Nid oes dim arall i'w gael a wna y tro yn ei le.

2. *Mynwch ddigon o ffydd i sugno i chwi eich hunain holl ddyddanwch yr efengyl.* Mynwch ddyddanwch, nid i lonyddu eich meddwl yn unig, ac i ysgafnhau eich baich; y mae hyn-yna yn syniad rhy hunan-geisiol; ond i fod yn nerth i fyw ac i weithio. "Llawenydd yr Arglwydd yw eich nerth." Y mae trallod mawr yn parlysu at waith. Ceir rhai dynion crefyddol yn rhy bruddglwyfus i weithio; nid ydynt dda i ddim; y maent yn ddiffirwyth gan ofid. Ymlawenhewch yn Nuw, fel y caffoch nerth i weithio, ac fel y galloch fod yn gyfryngau dyddanwch i eraill.

3. *Na ddiystyrwch ddyddanwch yr efengyl.* Wrth yr annuwiol dywedwn eiriau Job: "Ai bychan genyt ti ddyddanwch Duw?"

*CYNGOR I BREGETHWYR—XVIII.

—:O:—

PORTHWCH BRAIDD DUW.

I PEDR V. 2-4.—“*Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg arnynt, nid trwy gymhell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw, ond gan fod yn esiamplau i'r praidd. A phan ymddangoso y Pen-bugail, chwi a gewch dderbyn anniflanedig goron y gogoniant.*”

FEL sail ychydig o gynghorion sydd ar fy meddwl i'w rhoddi i chwi ar eich neillduad i gyflawn waith y weinidogaeth, i fod o hyn allan yn “henuriaid” neu “yn esgobion” yn eglwys Crist, ni fedraf ddewis geiriau cymhwysach na geiriau'r henadur Pedr wrth ei gyd-henaduriaid. Er ei fod yn apostol, nid yw yn seilio ei hawl i gynghori ar ei apostoliaeth, ond ar y ffaith ei fod yn gyd-henadur. Fel apostol gallasai ddywedyd, fel Paul, fod ganddo “hyf-dra lawer yn Nghrist, i orchymyn y pethau sydd yn weddus,” eto, megis yntau, “y mae o ran cariad yn hytrach yn atolwg;” ac felly dyry esiampl brydferth o'r tynerwch a'r gostyngeddwydd a gymhella arnynt hwy. Prin yr wyf yn credu, fel y tybia rhai, fod cyfeiriad gwylaidd at ei awdurdod apostolaidd yn y crybwylliad ei fod “yn dyst o ddyoddefiadau Crist,” eithr yn hytrach mai mynegiad syml ydyw o'r hawl foesol oedd ganddo i gynghori, yn seiliedig ar y ffaith hon, a hyny gyda'r amcan o barotoi eu meddyliau i dderbyn ei gynghorion. Dyna yn ddiau ydyw ystyr ac amcan yr ymadrodd dilynol, “Yr hwn hefyd wyf gyfranog o'r gogoniant a ddatguddir.” Gesyd ei hun yn eu canol, megis un o'honynt, wedi ei neillduo i gyf-

* Traddodwyd y Cyngor hwn yn Ngwasanaeth yr Ordeinio yn Nghymdeithasfa Llanrwst, Mehefin, 1884.

fawni yr un gwaith, ac felly yn disgwyl yr un wobwr. Pa hawl well i gynghori na hyn?

Tuag at iddynt fod yn "fugeiliaid wrth fodd calon Duw," cymhella hwynt i "borthi'r praidd" â gwybodaeth ac â deall; a chyda hyny anoga hwynt i esgobaethu, neu arolygu drostynt. Yn y ddau gynghor hyn, "porthi," a hyny "gan fwrw golwg," diau y cynwysa'r apostol bob gwasanaeth ysprydol, posibl i fugail tuag at ei braidd. Fel cymhelliad yn gystal a rhybudd, i gyflawni y gwaith hwn yn deilwng, dywed mai Duw a bia'r praidd. Efe a'u pwrcasodd a'i briod waed, ac Efe sydd yn eu harwain trwy anial dyrus i'r gorlan nefol. "Llygaid yr Arglwydd eu Duw sydd bob amser arnynt, o ddechreuad y flwyddyn hyd ei diwedd" i'w gwylio gydag eiddgedd, ac i weled pa fodd yr ymddyga pawb, yn enwedig y bugeiliaid tuag atynt. Yna mewn tri phâr o ymadroddion rhybuddia'r apostol hwynt ar y naill law i ochelyd moddau annheilwng o gyflawni eu gwaith; ac ar y llaw arall, dengys iddynt y moddau cymeradwy.

1. "Nid trwy gymhell," neu orfodaeth; oblegid y mae'r gair cymhell yn y fan hon, fel braidd yn mhob man arall yn y Testament Newydd, yn gyfystyr â gorfod. Y mae pob math o orfodaeth yma yn cael ei warafun; nid oes angenrhaid i fod ond angenrhaid cariad. Yr anogaeth wrthgyferbyniol ydyw "yn ewyllysgar," fel rhai wrth fodd eu calon.

2. "Nid er mwyn budr-elw." Teilwng, y mae yn wir, ydyw i'r llafurwr ei gyflog; ac felly yr ordeiniodd yr Arglwydd, fod i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl; eto nid cyfreithlawn ydyw i neb ymofyn am ran yn y weinidogaeth hon oddiar yr un amcan ag y dywedai gŵr i Dduw wrth Eli y byddai i'w blant ef fyned at yr offeiriaid ffyddlawn: "gan ymgrymu iddo ef am dderbyn o arian a thamaid o fara, a dywedyd, Gosod fi yn awr mewn rhyw offeiriadaeth, i gael bwyta tamaid o fara." Pan y mae y bugeiliaid professedig yn gwasanaethu er mwyn elw, medd Luther, nid yn unig y maent wedi disgyn i fod yn "weision cyflog," eithr y maent

yn debyg o wisgo cymeriad y "bleiddiaid" hefyd, gan ysglyfio a tharfu y defaid. Na, nid felly, medd Pedr, "eithr o barod-rwydd meddwl," rhai yn derbyn eu gwobr yn hyfrydwch eu gwaith.

3. "Nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw" yn yspryd ac yn ol arfer rhai mawrion yn mhlith y Cenedloedd; oblegid deddf teyrnas nefoedd ydyw mai y mwyaf sydd i fod yn weinidog. Peidiwch arglwydda o gwbl mewn rhodres gwag, ac awdurdod trahaus; eithr mewn ffyddlondeb a gwyleidd-dra gosodwch eich hunain "yn esiamplau i'r praidd."

Heb fwriadu caethiwo fy hun i ffurf yr ymadroddion a ddarllenais fel testyn, amcanaf gadw o fewn eu terfynau a'u hyspryd. Ni raid i mi ddyweyd wrthy, anwyl frodyr, fy mod yn ystyriol o'r ffaith fod llawer o honoch, feallai eich bod oll, wedi bod o dan addysg uwch nag sydd yn fy nghyrrhaedd i, nac ychwaith fy mod yn teimlo'r posibilrwydd a'r tebygolrwydd eich bod yn medru yn llawer gwell na mi y pethau a gymhellaf arnoch. Yn gymaint a bod fy mrodyr wedi ymddiried i mi y gorchwyl o'ch cynghori ar yr adeg bresenol, nid oes genyf ond cyflwyno i chwi rai pethau sydd yn ffrwyth ychydig brofiad a sylw, a hyny yn y wedd yr ymddangosasant i mi, a gofyn mewn gwyleidd-dra diffuant genych chwithau i "oddef gair y cynghor."

Er mor bwysig ydyw, nid ydwyf yn ystyried mai fy nyledswydd ydyw eich cynghori i ymofyn am dduwioldeb personol. Y mae y Cyfundeb wedi cael boddlonrwydd ar y pwnc hwn, onide ni fuasai yn caniatáu i chwi ddringo i'r lle ac at y gwaith mwyaf cysegredig a feddwn. Ni fedraf oddef y dybiaeth wahanol am danoch. Gwn fod hyny yn bosibl, ond y mae yn bosiblrwydd rhy ofnadwy i mi ei ddal yn hir o flaen fy meddwl: mab i Belial wedi dringo i bulpud Crist! Ond er yr addefwn y posibilrwydd, credwn nad yw y tebygolrwydd yn gryf; oblegid ychydig ydyw y demtasiwn yn ein plith ni i rai annuwiol ymestyn at y weinidogaeth; a phe y temtid neb, y

mae llawer o rwystrau yn ein trefniadau cyfundebol. Byddaf weithiau yn gorfoleddu mewn diolchgarwch i Dduw mai ychydig o bregethwyr annuwiol a fu gyda'r Methodistiaid erioed. Pa ddiffygion bynag oedd neu sydd ynom o ran talent neu ddawn, y mae ein holl weinidogion, gydag ychydig o eithriadau, wedi gadael tystiolaeth yn nghydwybodau pawb a'u hadwaenent nad oeddynt annuwiol. Ar lawer adeg yr ydwyf wedi mwynhau arogledd coffadwriaeth dda yn yr ardal lle y trigai un o'n brodyr lleiaf. Pe cawswn afael ynddo, buaswn yn sicr o'i goffeidio yn gynhes. Os nad ydoedd yn fawr, yr ydoedd yn bur; os nad ydoedd yn dalentog, yr ydoedd yn ffyddlaw.

Nid ydwyf ychwaith mewn modd uniongyrchol yn myned i'ch cynghori i feithrin duwioldeb *uchel*, mewn cysegredigaeth lwyr i Grist, a chymundeb dibaid ag Ef, er y credaf y bydd eich llwyddiant gweinidogaethol, yn y graddau uchaf, yn dibynnu ar eich bod felly. Chwi a welwch y rheswm pan ddywedaf y bydd rhai o'r pethau a gymhellaf arnoch yn ffordd unionaf i faethu duwiolfrydedd, a bydd yn anmhosibl i chwi gyflawni'r dyledswyddau eraill a nodaf heb i chwi ei feddu. O fewn cylch yr amser sydd yn rhesymol ar adeg fel hon, rhaid i mi gyfyngu fy hun at y ddwy anogaeth sydd yn y geiriau a ddarllenwyd: Porthi praidd Duw, gan fwrw golwg arnynt, ac o bosibl at y blaenaf yn unig.

Ni raid i mi ddyweyd wrthy chwi yn mha le y cewch ddefnydd ymborth a'ch galluoga i borthi'r praidd â gwybodaeth ac â deall. Y mae pawb o honoch yn gwybod yn barod mai yn ngelloedd y Datguddiad Dwyfol y mae'r ymborth hwn wedi ei drysori. Ei dynu allan o gelloedd Duw, a'i drefnu yn bob rhyw luniaeth cyfaddas, gan hyny a fydd gorchwyl mawr eich bywyd. "I lafurio yn y gair, ac mewn addysgu" (1 Tim. v. 17—cyfieithiad Seisonig diweddfaf), y galwyd chwi mewn modd arbenig. Rhaid i chwi, yn anad neb, fod â'ch ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd a myfyrio ynddi ddydd a nos. Dichon y goddefwch ychydig o gyfarwyddiadau gyda golwg ar hyn.

1. Ymdrechwch i ddyfod yn gydnabyddus iawn, a hyny yn fuan, a hanesyddiaeth y Beibl, a deall ystyr yr hanesyddiaeth hono. Na foddlonwch ar groniclo yn eich cof brif ffeithiau ei hanesyddiaeth, heb fod pob ffaith ar wahan, ac yn fwy fyth y ffeithiau mewn undeb a'u gilydd, mor fyw o flaen eich meddyliau nes bod yn weledigaeth feddyliol, a chwithau yn medru ei deongli. Siaredir llawer yn ddiweddar am "*philosophy of history*," a gosodir bri mawr ar hyny. Dymunol fyddai i chwi gofio mai yn hanesyddiaeth y Beibl mewn modd arbenig y mae *philosophy*. Dyma'r hanesyddiaeth a fwriadodd Dwyfol Ddoethineb i fod yn gyfrwng addysg i'r byd holl ddyddiau'r ddaear. Nid gorchwyl ysgafn a dibwys fydd meddianu yr aethroniaeth ysprydol hon; ond geilw i weithrediad alluoedd uchaf eich eneidiau. Peidiwch ei dibrisio, rhag eich cael yn euog o dybied eich hunain yn ddoethach na Duw. Dyma ffurf y Datguddiad Dwyfol. Myfyriwch ef yn mlaenaf fel hanesyddiaeth, gan edrych ar bob rhan o hono yn y goleuni hwn. Astudiwch Salmau a Phrophwydoliaethau yr Hen Destament, yn gystal ag Epistolau y Newydd, yn eu lleoedd a'u perthynasau hanesyddol.

2. Bydd hyn yn gymhorth i chwi wneuthur yr ail beth a awgrymaf, sef, mynu gafael ar brif wirioneddau ac amcanion pob llyfr sydd yn gwneyd i fyny y Datguddiad Dwyfol. Gochelwch orfanylder beirniadol yn eich ymchwiliadau cyntaf. Fel y gwna yr arlunydd wrth wneyd y darlun, a'r cerflunydd wrth wneyd y cerflun, sef sicrhau amlinelliad (*outline*) cywir yn mlaenaf cyn amcanu gosod y darnau mân i fewn, felly chwithau yn eich efrydiaeth o bob llyfr sydd yn y Beibl. Yn mlaenaf meddienwch *outline* pob llyfr, a'i brif amcanion. Darllenwch *Introduction* da i'r llyfr fydd ar y pryd yn destyn eich efrydiaeth; ac yna darllenwch drosodd laweroedd o weithiau y llyfr ei hun, yn yr iaith wreiddiol os medrwch, yn y Gymraeg os na fedrwch hono, gan ei gymharu â'r cyfieithiad diweddaf o'r Saesoneg, ond heb ymgynghori ag unrhyw esboniad, oddigerth yn bur achlysurol er mwyn cael goleuni ar ambell air

neu frawddeg dywyll. Fel hyn ewch dros yr holl Feibl, yn enwedig y Testament Newydd. Cewch hamdden i astudio yn fanylach yn mhellach yn mlaen yn eich bywyd gweinidogaethol. Heb i chwi ddilyn y drefn hon, credaf yr â llawer o'ch amser a'ch llafur yn ofer, ac na fydd genych afael gref byth ar y Beibl. Am na ddilynir y drefn hon ond yn anfyfnych, yr wyf yn credu fod llawer o lafur esboniadol yn yr ysgol Sul a'r dosbarth Beiblaidd yn myned yn ddifudd. Y maent yn gorfanylu nes colli'r pethau mawr.

3. Wedi casglu cryn dipyn o wybodaeth ysgrythyrol, ymfynwch am drefn a pherthynas y gwahanol wirioneddau a'u gilydd; neu, mewn geiriau ereill, astudiwch hwynt mewn trefn dduwinyddol. Ni fedr y meddwl ymlonyddu yn y meddiant o unrhyw wirionedd heb iddo ei ganfod hefyd yn ei le a'i drefn, yn ol ei berthynas â gwirioneddau ereill. Y mae hyn yn angenrheidrwydd meddyliol; ac y mae duwinyddiaeth yn gynyrch yr un ddeddf ag sydd wedi rhoddi bôd i bob cangen arall o wybodaeth. Ar yr un pryd, gweddus ydyw cofio fod anhawsderau neillduol i gyfundrefnu duwinyddiaeth rhagor llawer o bethau eraill. Cyfyd un anhawsder o natur y gwirioneddau; oblegid y mae llawer o honynt yn wirioneddau am Dduw nad yw yn bosibl i ni feddu ond amgyffrediad amherffaith o honynt ar y goreu. Y mae'r holl wirioneddau eraill yn foisol ac ysbrydol, ac am hyny yn anhawdd eu trefnu. Cyfyd anhawsder arall o ffurf y datguddiad, sef mewn iaith agos a phoblogaidd—iaith y galon yn hytrach na'r deall—fel pe byddai Duw wedi amcanu y datguddiad i gyflawni anghenion calon a chyflwr dyn yn fwy na boddhau ei duedd-fryd athronyddol. Anmhosibl, gan hyny, ydyw gwneuthur duwinyddiaeth yn *exact science* megis gwyddoniaeth naturiol. Mewn cyferbyniad i anhrefn y gellir ei galw yn gyfundrefn.

Wrth eich cymhell i astudio duwinyddiaeth mewn trefn, nid wyf heb wybod am y rhagfarnau cryffion sydd wedi bod, ac yn parhau i fod mewn rhai cylchoedd, yn erbyn pob cyfundrefn dduwinyddol; ac nid wyf am ddyweyd fod pob rhagfarn

bob amser yn ddiachos a diesgus, er nad wyf yn cydnabod digonolrwydd y dadleuon a ddygir i'w herbryn. Nid gwiw celu ffaith mor amlwg a bod duwinyddiaeth Gristionogol yngystal a'r grefydd Gristionogol, wedi treiglo atom ni drwy y canol-oesoedd llygredig. Cydnabyddwn mai yn y cyfnod *scholastic*, rhwng dechreu yr unfed ganrif ar ddeg a diwedd y bymthegfed, y rhoddwyd am y waith gyntaf, ffurf wyddonol neu athronyddol ar athrawiaethau proffesedig Cristionogaeth. Peter Lombard, meddir, oedd y cyntaf i wneuthur cyfundrefn gyflawn o dduwinyddiaeth, a hyny yn ol y cynllun drwg a ddilynwyd am ganrifoedd lawer. Dechreuai Lombard gyda'r priodoleddau a'r bwriadau dwyfol, yn nghyd â natur y berthynas sydd rhwng y Drindod, ac ymresymai oddiwrth y pethau hyn at bob peth arall, trwy y *deductive* a'r *sophistical reasoning* ag oedd yn nodweddu y cyfnod. Cyndyn a chywrain ddadleuon yn mhlith y doctoriaid oedd nodwedd y cyfnod hwn, tra yr oedd pob llygredigaeth yn ffynu yn mhlith y werin a'u harweinwyr eglwysig. Y mae yn wir ddarfod i rai o bynciau pwysicaf y ffydd gael eu gweithio i ymwybyddiaeth yr eglwys o fewn y cyfnod hwn, megis athrawiaeth yr iawn gan Anselm, fel iawn i Dduw ac nid i'r diafol. Gwir hefyd fod dadleuon gwerthfawr wedi bod o fewn yr un cyfnod am natur yr iawn, pa un ai haeddiant ai dyhuddiant (*merit or satisfaction*) ydoedd. Eto rhaid addef mai hollti blew duwinyddol oeddynt gan mwyaf, ac "ymryson yn nghylch geiriau;" a rhaid addef hefyd mai nid oddiar safle ysgrythyrol yr ymddadleuent. Anghynefin â gair Duw ydoedd hyd y nod y cewri, medd Dr. Cunningham; ac anfynych y cyfeirient ato yn eu dadleuon. Eu hymgais hwy ydoedd ieuo dysgeidiaeth y tadau eglwysig, yn enwedig Awstin, ag athroniaeth Aristotle neu Plato. Ni cheisient ddeall Cristionogaeth yn ngoleuni ei Llyfr, ond yn ngoleuni Awstin a'r tadau eraill. Dyma'r cyfnod a roddodd fôd i'r llu mawr o dermau duwinyddol sydd yn parhau mewn arferiad hyd y dydd hwn, yn gystal a'r llu mwy sydd wedi syrthio allan o arferiad. Diamheu pe byddai i lawer hen frawd sydd yn

eiddigeddus dros ychydig o dermau duwinyddol adnabyddus iddo, wrth ba rai y mae wedi arfer barnu iachusrwydd athrawiaeth y pregethwyr, fedru olrhain ei hoff dermau yn ol nes gweled eu genedigaeth yn *Sentences* Lombard, neu yn *Summas* Alexander Hales, Albertus Magnus neu Aquinas, y collent lawer o'u swyn iddo, os nad aent yn wrthodedig yn ei olwg, yn enwedig os medrai gredu fod eu genedigaeth i'w briodoli i'r briodas a wnaed rhwng Awstinaeth ac Aristoteliaeth. Mewn gair, nid oedd mwy o debygrwydd rhwng yr hyn a elwid yn *Systematic Theology* yn y cyfnod Ysgoloraidd â Christionogaeth syml y Testament Newydd, nad oedd rhwng *Mishna* a *Gemara* y Rabbiniaid Iuddewig â Chyfraith Moses. Hawdd fyddai cyfaddef hyn oll, ac eto ddal yn gryf nad oedd y gormod rhyseidd a ddangoswyd yn y cyfnod Ysgoloraidd wrth gyfundrefnu duwinyddiaeth yn ddim ond firwyth llawenydd meddyliol dynion wedi taro ar faes llafur newydd oedd yn ddifyrus iddynt, tra yr oedd ar yr un pryd yn gwisgo gwedd grefyddol. Ofer fyddai dwyn y rhyseidd hwn yn wrthddadl yn erbyn i ddynion difrifol drefnu eu syniadau crefyddol, yn enwedig os bydd y syniadau hyny wedi eu tynu allan yn deg a phwylllog o Lyfr Duw.

Addefwn eto fod peryglon yn nglyn â gwneyd cyfundrefn dduwinyddol ag y byddai yn ddoeth i bawb fod ar eu gocheliad rhagddynt. Gwyliwch rhag i'r gyfundrefn dduwinyddol y boddlonwch eich hunain arni fod yn atalfa i chwi feddwl yn ymchwilgar o hyny allan. Nid ydym yn sicr na welsom rai o'r dosbarth hwn. Yr oedd y gyfundrefn wedi parlysu eu meddyliau. Ni ddarfu iddynt feddwl llawer wrth eu gwneuthur, oblegid eu dysgu a wnaethant; ac yn sicr ni ddarfu iddynt feddwl dim ar ol hyny. Cysgent yn dawel o'i mewn, a theimlent yn anfoddog wrth y neb a'u haffonyddent. Yr wyf yn gobeithio pethau gwell am danoch chwi. Gwyliwch hefyd rhag iddi fod yn gaethiwed arnoch, yn garchar meddyliol, heb gymaint â ffenestr yn y mur i ganfod dim tu allan iddi. Penderfynwch y mynwch i'ch cyfundrefn dduwinyddol gynwys

pob gwirionedd dwyfol y gwyddoch am dano. Os na fydd yn ddigonol eisoes, gwnewch â hi fel y bwriadai y gŵr goludog yn y ddameg wneyd â'i ysguboriau; tynwch hi i lawr, ac adeil-edwch un fwy. Lledwch hi o hyd fel y bydd eich amgyffred yn ymeangu. Wrth wneuthur felly, ni fyddwch yn llai Calфинаidd, ond yn fwy; oblegid y gyfundrefn eangaf y gwn am dani ydyw yr un Galфинаidd, os iawn ddeallir hi. Y mae yn ddigon eang i gynwys y gwirioneddau cyferbyniol, gwirioneddau a ymddangosant braidd yn anghydweddol, nes peri i'r annysgedig dybied fod y neb a'u coleddont yn anghyson. Beth bynag, penderfynwch fod yn *illogical* yn ngolwg dynion, i.e., yn eich golwg eich hunain, yn hytrach na chau allan unrhyw wirionedd dwyfol. Os na fedrwch ar y pryd ganfod y cysondeb rhwng dau wirionedd, a chwithau yn sicr am y naill a'r llall eu bod yn wirioneddau, glynwch wrthynt gan fod yn ffyddlawn iddynt; ac fe dyfwch yn y man yn ddigon tâl i ganfod y cysondeb rhyngddynt, neu, o leiaf i ganfod na fedr neb brofi anghysondeb. Gofelwch rhag eich cymeryd yn gaeth gan ran o'r gredo Galфинаidd, ond meistrolwch hi yn ei chyfanrwydd, fel ag i fod at eich rhyddid i bregethu holl gynghor Duw, heb atal dim o'r pethau buddiol. Mewn erthygl yn yr hen *Eclectic Review*, soniai Dr. Chalmers am ryw bregethwr oedd yn grynedig iawn o flaen ei gynulleidfa pan yn cymhell arnynt rinweddau y bywyd Cristionogol. Ymes-gusodai yn fynych, ac yn fynych tystiai ei fod yn iach yn y ffydd. Yr oedd fel dyn yn cerdded ar iâ yr ofnai ei fod yn rhy wan i'w gynal. Condemniai Dr. Chalmers hyny yn ddiarbed. Pwy a fedr bregethu pob dyledswydd fel yr hwn sydd yn teimlo fod holl gyfoeth gras yr efengyl wrth ei gefn, yn gymhelliad ac yn nerth iddo ef i'w pregethu, yn gystal ag i'w wrandawyr i'w cyflawni? Meistrolwch y gyfundrefn dduwinyddol fel y mae y pen siaradwr neu yr ysgrifenydd buan wedi meistroli gramadeg yr iaith, nes y mae llythyren pob rheol wedi ei llyncu gan ei hysbryd; neu fel y mae y cerddor athrylithgar wedi meistroli y gramadeg cerddorol, nes ei droi

yn deimlad o briodoldeb o'i fewn, ac yntau at ei ryddid i ddarganfod drychfeddyliau cerddorol prydfferth, a dyfeisio symudiadau cynghaneddol newydd a hyfryd.

Wrth astudio duwinyddiaeth, ni ellwch wneuthur yn well na chymeryd rhyw lawlyfr galluog o fewn cylch y blaid y perthynwch iddi. Nid all neb eich beio; oblegid felly y gwna pawb. Wrth ei ddarllen, byddwch yn galed wrtho, gan ei osod dan fath o *cross-examination*. Craffwch yn fanwl a ydyw yn rhesymu yn deg, ac a ydyw ei brofion yn ddigonol. I wneuthur i fyny am yr unochredd sydd yn newisiad eich llawlyfr, darllenwch hanes pob athrawiaeth yn y dadleuon a fu arni mewn gwahanol gyfnodau. Ac eto peidiwch ystyried hyn oll yn ddim amgen na rhagbaratoad i ymchwiliad gonest eich meddyliau eich hunain. Mynwch weled a'ch llygaid eich hunain feddwl Duw yn Ei Air. Gwna y darlleniadau blaenorol a nodwyd eich deall yn fwy bywiog, ac egyr eich llygaid i gynwysiad yr Unig Lyfr a gydnabyddwch yn awdurdod. Perchwch bob teilyngdod, ymgrymwch ger bron hynafiaeth; ond cofiwch, bob amser, mai Gair Duw sydd i fod yn uchaf. Wrth astudio unrhyw athrawiaeth yn ngoleuni hwn, na foddlonwch ar holi beth a ddywed y prawf-adnodau, ond gofynwch hefyd beth a ddywed yr holl Lyfr. Gwrandewch ar ei awgrymiadau anuniongyrchol; i.e., ymgynghorwch â'i ddystawrwydd. Pan mewn petrusder, rhoddwch ddarlleniad newydd i'r Testament Newydd, gan ddal y pwnc o flaen eich meddwl o hyd. Y mae yn dra thebyg y cyrhaeddwch sicrwydd felly i chwi eich hun ar y pwnc.

Wrth bregethu, cyflwynwch y gwahanol wirioneddau, nid yn ffurf a diwyg y gyfundrefn dduwinyddol, ond mewn gwisg Feiblaidd. Cedwch y *dogmas* a'r *system* yn y fyfyrgeall at eich gwasanaeth eich hunain; ond yn y pulpud pregethwch y Gair, gan brofi i bawb craffus eich medr duwinyddol yn eich gallu i gyfleu gwirioneddau mawrion yr efengyl mewn modd syml a byw o flaen eich gwrandawyr. "Ymadroddion bywiol" y gelwir oraclau Duw. Na adewch i'ch duwinyddiaeth na'ch

athroniaeth ladd y gwirioneddau, fel y mae y *botanist* yn lladd y blodeuyn wrth ei *dissectio* i wybod i ba ddosbarth y perthyn. Credaf i mi glywed rai troion wirioneddau Beiblaidd yn cael eu pregethu, ond yr oeddynt wedi eu *dissectio* nes bod yn gelaneddau meirwon. Yn fyw y maent yn y Beibl fel blodau mewn gardd. “Fy ngeiriau i,” medd y Pen-bugail, “ysbryd ydynt a bywyd ydynt.”

Nac anghofiwch y cyfarwyddyd sydd yn y cynghor: “Porthwch braidd Duw.” Yr ydych wedi eich gosod i roddi cyfluniaeth mewn pryd i’w deulu Ef. Osgofyn y plant iddynt fara, na roddwch iddynt *fossils* duwinyddol o’r canol-oesoedd, y rhai iddynt hwy nid ydynt ddim amgen na chareg. Bwyd, a hwnw yn bob rhyw luniaeth gyfaddas, ydych chwi i’w drefnu—lluniaeth parod wedi ei goginio genych chwi. Nid defnyddiau at wneuthur bwyd yr ydych i’w roddi—hyn a hyn o’r peth yma, a hyn a hyn o’r peth arall, a’r cwbl yn ddefnyddiau cymhwys at fwyd ond i’r dyn eu berwi. Na, rhaid iddynt ei gael yn barod ac yn gynhes genych chwi. Neu, a newid y gymhariaeth, nid siopwr i werthu lliwiau yn sypynau ydyw pregethwr i fod, ond *artist* i ddefnyddio y lliwiau i gyd, yn ol yr anghen, ar ei *frush* ei hun wrth wneyd darluniau celfydd. A choeliwch fi, peth annhraethol uwch ydyw bod yn *artist* i wneyd *paintings* da na bod yn werthwr lliwiau i brynwyr anfedrus.

4. Ymdrechwch i ganfod perthynas a dylanwad yr holl wirioneddau dadguddiedig ar eneidiau a bywydau dynion, ac felly ddeall nodweddion moesol ac ysprydol y grefydd Gristionogol. Bydd hyn yn canlyn yn naturiol yr efrydiau blaenorol, a byddwch yn gweled perthynas y gwirioneddau, nid yn unig a’u gilydd, ond â dynion. Dyma efrydiaeth sydd yn cael ei hesgeuluso gan lawer, er colled ddirfawr iddynt eu hunain ac i eraill. Cyfarfyddais ag aml un a ystyridd yn dduwinydd medrus, ond oedd yn dra amddifad o ddirnadaeth foisol ac ysbrydol. Nid oedd ganddo syniad o foesoldeb o gwbl ond a gynwysid yn gryno yn neddf y deng air a gyhoeddwyd ar

Sinai: ni chlywodd y gyfraith newydd a gyhoeddir ar Galfaria. Prin y mae wedi agoryd ei lygaid i brydferthion moesol ac ysbrydol y Ceidwad yr ymddirieda ynddo. Blin ydyw gorfod teimlo weithiau fod ambell i anffyddiwr yn gweled ac yn cydnabod mawredd a phrydferthwch cymeriad yr Iachawdwr yn fwy nag ambell un sydd yn disgwyl bywyd tragywyddol trwyddo. Ymddengys hwn ambell waith yn ddiotal a dall i hawddgarwch cymeriad ei Brynwr; ei unig bryder sydd am ddiogelu ei gadwedigaeth ei hun. Dichon iddo fod yn dra defosiynol, eithr y mae yn llawn mor hunangeisiol, a hyny, feallai, heb ystyried erioed fod dim anweddu yn hyny. Os ydyw yn hyddysg yn y *scholastic theology*, nid ydyw wedi deall Cristionogaeth; oblegid ni ellir dywedyd hyny am neb sydd heb ganfod ei nodweddion moesol ac ysprydol.

I feddianu y canfyddiad moesol hwn, ymofynwch am wedd ymarferol pob gwirionedd ysgrythyrol; a braidd na feiddiaf eich annog i edrych mwy ar y wedd hono nag un wedd arall. Nodaf ychydig o honynt. Dyna'r gwirionedd cyntaf a sylfaenol, sef Personoliaeth Duw. Y mae hwn yn bwysig, nid yn unig fel sylfaen pob athrawiaeth Gristionogol arall, ond fel ffynonell bywyd crefyddol. Heb Dduw personol yn wrthddrych, ni fyddai yn bosibl addoli, ac ni fyddai ffydd, gobaith, a chariad mewn bod. Y mae i holl briodoleddau Duw—naturiol a moesol—berthynas â chydwybodau ac â chalonau dynion. Mynwch ddeall pob perthynas, a'i theimlo ynoch eich hunain. Y mae i athrawiaeth y Drindod wedd ymarferol, fel y dengys y fendith apostolaidd. Ymdrechwch ddeall pob rhan o'r fendith hono yn eich calonau eich hunain. Y mae i athrawiaeth yr iawn ei pherthynas, nid yn unig â Duw, ond â chydwybodau, calonau, a bucheddau dynion. Y ffordd oreu i'w deall ydyw trwy ei theimlo. Ac felly, yr holl wirioneddau eraill. Iachawdwriaeth oddiwrth bechod ac i sancteiddrwydd, ydyw iachawdwriaeth yr efengyl.

Buddiol fyddai i chwi hefyd gymharu dysgeidiaeth foesol yr efengyl â chyfundrefnau moesol yr hen fyd paganauidd.

Trwy y gymhariaeth hon, caech gymhorth i ganfod ei hystyr a gweled ei rhagoriaeth. I'r amcan hwn darllenwch dair cyfrol Martensen ar *Christian Ethics*—Boyle *Lectures*—Wace on *Christianity and Morality*, yn gystal a llyfr bychan ond cynwysfawr Prebendary Row On *the Moral Teaching of the New Testament*. Trwy bob math o efrydiau cymhwys, astudiwch Gristionogaeth, nid yn unig yn ei dadguddiad allanol, ond yn ei hanes fewnol yn eneidiau dynion, a phrofiad mewnol yn ymweithio allan mewn sancteidd ymarweddiad a duw-ioldeb. Mynwch ddeall crefydd yn gystal a'i meddu. Bydd ei meddu, a sylwi yn fanwl arnoch eich hunain, a thrwoch eich hunain ar eraill, yn gymhorth mawr i'w deall. Darllenwch lyfrau da sydd yn esbonio crefydd yn ei deddfau mewnol ac ysbrydol, yn gystal a hanes dynion enwog mewn crefydd. Bydd hyn o wasanaeth mawr i chwi yn y pulpud; try yn fedr i gymhwyso yn ymarferol y gwirioneddau a bregethwch. Hyderaf na fydd i chwi bregethu yr un gwirionedd heb ei gymhwyso i amcan ymarferol, ac na fydd i chwi bregethu ymarferion Cristionogol ond yn eu perthynas â'r athrawiaethau hyny yn unig a fedr eu cynyrchu. Nid ymarferion heb athrawiaethau tu cefn iddynt, mwy nag athrawiaethau anymarferol, sydd i fod yn y pulpud, ond y naill a'r llall mewn undeb byw.

Bydd deall Cristionogaeth yn ei hanes a'i deddfau mewnol o wasanaeth mawr i chwi, hefyd, tu allan i'r pulpud, yn eich hymweliadau â phersonau unigol, yn gystal ag yn yr ymddyddan eglwysig. Byddwch yn deall sefyllfa pob un, y fan lle y mae, a'r modd y mae dyfod allan o'r fan hono, trwy fyned yn mlaen ac i fyny, a thrwy fyned yn ol ac i lawr. Byddwch yn gwybod pa beth i'w ddywedyd, a pha fodd i ymddwyn tuag at bob un, fel y mae y meddyg doeth yn cymhwyso'r feddyginiaeth yn ol natur yr afiechyd. Nac esgeuluswch yr efrydiau hyn oddiar y dybiaeth mai pethau ysgafn a dibwys ydynt, ac nad ydynt yn gofyn galluoedd mawrion i'w meistrolï. Os nad wyf yn camgymeryd yn fawr, y mae yn gofyn gallu uwch i

ganfod ysbryd Cristionogaeth nac i feistroli ei *dogmas*. Gwna talent gref a diwydrwydd gonest amgyffred pob peth sydd yn amgyffredadwy yn y gyfundrefn dduwinyddol; ond rhaid wrth beth uwch nag athrylith, os na elwir ef yn athrylith ysprydol, i ganfod a theimlo ei nodweddion moesol ac ysprydol.

Ac ar ol casglu trysor gwerthfawr i chwi eich hunain, trwy efrydiau diffino o'r fath a grybwyllwyd, y peth nesaf fydd dwyn allan o'r trysor hwnw "bethau newydd a hen," a hyny yn y fath fodd ag y bydd eich gwrandawyr yn eu derbyn. I wneuthur hyn bydd yn rhaid i chwi astudio y modd goreu i bregethu yr efengyl. Bydded genych syniad uchel am y weinidogaeth. Mawrhewch eich swydd. Ymroddwch iddi gyda holl frwdfrydedd eich natur megis at orchwyl mawr eich bywyd. Na fydded yr un celfyddydwr wedi ei feddianu gan ysprydoliaeth ei gelfyddyd yn fwy nag y byddwch chwi gan yspryd y weinidogaeth. Gwyddoch pa mor lwyf a drud ydyw efrydiaeth yr arlunydd sydd yn meddu athrylith ei gelfyddyd, ac sydd wedi ymroddi iddi o lwyrffryd calon. Nid yn unig gwrendy ar ddarlithiau galluog, a darllena draethodau dyfnion ar egwyddorion a deddfau ei gelfyddyd, eithr treulia flynyddoedd yn y "*picture galleries*" drwy holl Ewrop, i astudio yn ddyfal weithredoedd y prif arlunwyr, gan syllu yn aiddgar ar eu holl nodweddion fel un a fyddai yn chwenych myned i fewn i ysprydoedd y rhai a'u gwnaethant. Heb lwyrffrydedd i unrhyw gelfyddyd, nid yw yn bosibl cyrhaedd rhagoriaeth ynddi. Cofus genyf ddarllen cynghor i efrydwyr meddygol ar ddechreu un o'r *medical terms* yn Llundain, yn yr hwn y cymhellai y cynghorwr yr holl efrydwyr i ymgolli mor llwyr yn y gelfyddyd feddygol, fel ag i beidio darllen y newyddiaduron dyddiol, na braidd ddim ar lenyddiaeth gyfnodol. Dywedai fod yn anmhosibl i neb ragori fel meddyg os nad oedd wedi penderfynu ymroddi i hyny, a hyny yn unig. Os ydyw llwyr-ymroddiad yn hanfodol i lwyddiant mewn celfyddydau daearol, pa faint mwy yn y gelfyddyd ysprydol o "berswadio dynion?" ac os oes digon o ddefnydd ysprydol-

iaeth i feddianu holl alluoedd ac amser dynion mewn celfyddydau cymharol isel, pa faint uwch a mwy ysprydoliaeth sydd yn nyfais fawr tragwyddol gariad Duw, yr hon sydd hefyd yn ffrwyth Ei fawr a'i amryw ddoethineb ?

Trwy lafur diarbed, a thrwy ras y nef, penderfynwch fod yn bregethwyr grymus, gan gysegru eich holl fodolaeth i'r gwaith gogoneddus hwn. Ofnir gan rai fod y dalent hon yn cael ei hesgeuluso gan lawer o ymgeiswyr at y weinidogaeth. Cydnabyddir ein bod yn yr oes hon, o herwydd manteision helaeth, yn rhagori ar rai o'r tadau mewn cynnysgaeth feddylol ; ond dywedir nad ydym yn agos cystal pregethwyr. Addefwn yn rhwydd fod i ni dadau lawer oedd yn bregethwyr nerthol, a bod gras wedi ei dywallt yn helaeth ar eu gwefusau ; eithr nid oeddynt hwythau oll yn ymadroddus—yr oedd ambell un o honynt yn safndrwm fel Moses. Ond honwn hefyd, fod cynifer o Aaroniaid a fedrant lefaru yn groew yn ein pulpudau heddyw ag a fu erioed. Fe ddichon fod y cyfartaledd yn llai.

1. Teflwch eich holl ddynoliaeth i'r bregeth, wrth ei chyfansoddi ac wrth ei phregethu. Nid rhan o honoch a fyddo yn pregethu, eithr pregethwch i gyd—eich holl enaid, calon, a nerth. Dywed Buffon mai “ yr arddull yw y dyn.” Dichon fod hyna yn wirionedd cyffredinol, ac felly fod y dyn i'w weled yn ei arddull. Eithr prin y mae hyna yn wirionedd am ambell i bregethwr. Y mae'r bregeth yn fynych yn llai na'r dyn, ac yn annhebyg iddo o ran nodwedd. Adwaenasom rai pregethwyr oeddynt yn ddynion cyflawn yn mhob man ond yn y pulpud. Pan esgynent risiau hwnw, gadawent ranau helaeth o honynt eu hunain ar ol. Cysegrwch chwi bob talent a dawn a theimlad at wasanaeth yr efengyl. Os oes genych ddychymyg bywiog, defnyddiwch ef i roddi bywyd yn ffeithiau hanesyddol y Beibl. Os meddwch allu cryf i ymresymu, defnyddiwch ef fel Paul, i “ ymresymu allan o'r Ysgrhythrau.” Ie, os oes *humour* yn eich natur, fel y dywedir fod lle bynag y mae gwir athrylith, rhoddwch ffrwyn yn ei ben, ac ysgrifewch, “ Sancteiddrwydd i'r Arglwydd ” arno, a

bydd at eich gwasanaeth. Penderfynwch fod yn naturiol, a hyny trwy fod fel chwi eich hunain oll. Dyma yr unig ffordd i chwi ragori, yn gystal a bod yn ddefnyddiol. Ni ellwch fod yn fawr ond trwy i chwi eich hunain dyfu. Am hyny ysgorniwch geisio dynwared neb, yn enwedig mewn llais neu ystum. Nid yw yr hwn sydd yn breuddwydio y rhagora trwy ddynwared ystum neu lais pregethwr arall, nemawr gwell na'r hurtyn hwnw yn ngwlad Groeg gynt oedd yn tybied y meddianai hyawdledd rhyw ben-areithiwr trwy briodi ei weddw.

2. Trwy offrymu eich holl ddynoliaeth felly, y gellwch wneuthur y cynghor dilynol, sef, pregethu i holl ddynoliaeth eich gwrandawyr. Nac ymfoddlonwch ar gyfeirio eich gweini-dogaeth bob amser at ran oddynoliaeth foesol eich gwrandawyr, er i'r rhan hono fod y bwysicaf yn eich golwg. Pregethwch i'r dyn i gyd—ei ddeall, ei galon, a'i gydwybod. Telynr salw y bernid hwnw na fedrai chwareu ond ar ychydig o dânau yr offeryn fyddai rhwng ei ddwyllaw. Dylai yr holl delyn fod at ei wasanaeth. Felly chwithau; dysgwch fedru rhedeg eich bysedd yn gelfydd dros holl dânau dynoliaeth eich gwrandawyr, a thynu allan o honi gerddoriaeth gyflawn, a hwnw yn fawl, nid i chwi, ond i Dduw. Gochelwch yr ymfrost gwag o fod yn bregethwyr deallol, *intellectual*, yn unig, heb fedru dim ond egluro, dadansoddi, ac ymresymu, a'r bregeth o angenrheidrwydd yn oer, a chwithau yn syrthio i'r camgymeriad mawr o dybied mai prawf o'ch mawredd ydyw ei hoerni, a'i bod yn fwy esgyrnog a chadarn oblegid ei bod yn foel a llwm. Dywed rhywun mai yr un nifer o esgyrn sydd yn y *skeleton* yn nghwbpwrdd y meddyg ag sydd yn ngorff y dyn byw. Y perygl sydd iddynt fod yn llai. Na thybiwch chwithau fod "*skeletons of sermons*" yn gadarnach am eu bod yn noethlwm. Pregethwch bob amser nid yn unig fel rhai fyddo yn credu y gwirioneddau, ond yn eu caru hefyd â'ch holl galon. Gwisgwch y *skeleton* â gïau ac â chnawd ac â chroen; ac os meddwch yr athrylith gysegredig angenrheidiol, anadlwch yn ei ffroenau anadl einioes, fel y byddo eich pregeth

yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw a dynion. Na thybiwch ychwaith fod y bregeth yn fwy crefyddol am ei bod yn foel a diaddurn. Y mae mawl a "gweddïau Dafydd mab Jesse," yn gystal a phrophwydoliaethau Esaiah ac eraill, oeddynt yn cario beichiau trymion a difrifol, yn llawn o'r farddoniaeth ardderchocaf. O na, nid "bodau deallol" yn unig fydd eich gwrandawyr; nid ysgolorion wedi ymgasglu i'ch gwrando yn traethu ar *gywrain* bwnc y teimlant ddyddordeb athronyddol ynddo, ond dynion truan a thlodion, blinderog a llwythog gan ofidiau a phechodau,

"Trwy y cwmp ga'dd farwol friw,"

nes y mae eu holl natur foesol wedi ei hanmharu. Rhaid i wres yr efengyl ddadmer y rhew sydd yn eu calonau cyn y gellwch ddeffro a bywiocâu eu deall na chael gafael yn eu cydwybodau. Er mai y gydwybod ydyw y rhan barotaf yn natur dyn i gyd-dystiolaethu â'r efengyl, eto mewn llawer enghraifft y mae wedi cyfranogi mor ddwfn o'r dirywiad cyffredinol nes myned ei hunan yn halogedig a chaeth, fel y dywedir fod y gwres-fesurydd yn tewi mewn oerni mawr, am ei fod ef ei hun wedi rhewi. Yr efengyl yn gynhes sydd yn gyfaddas i bechaduriaid, a chofiwch chwithau gyflwyno eich cenadwri yn holl wresogrwydd a chariad eich calonau.

3. Pregethwch ar gyfer holl anghenion a theimladau eich gwrandawyr, yn holl amrywiaeth eu cymeriadau a'u hamgylchiadau. Yr wyf yn cymeryd yn ganiataol y bydd amcan penodol, a hwnw yn deimladol, yn mhob pregeth o'r eiddoch. Nid oes dim yn fwy annymunol na phregeth ddiamcan. Dywedai Archesgob Whately am ryw bregethwr, "*He aimed at nothing, and hit it.*" Dylai pob pregeth wneuthur rhywbeth i'r gwrandawyr; o leiaf, fod ynddi amcan cywir at hyny. "*Preaching is an action,*" medd Vinet; y mae i fod yn weithred o du y pregethwr. Y rhan fynychaf, byddwch yn pregethu gwirioneddau mawrion yr efengyl sydd yn gyfaddas i bawb yn ddiwahaniaeth; ac wrth wneuthur hyny hyderaf na fyddwch

yn eu gosod mewn pellder awyrawl, ond yn eu cyfleu yn agos, gan ddangos eu cyfaddasder, i.e., gan ddyfeisio pob moddion cyfreithlawn i wneuthur y cyfaddasder hwnw yn deimladwy i'ch gwrandawyr. Fy mrodyr anwyl, bydd yn rhaid i chwi wrth fedrusrwydd o radd uchel i wneuthur hyn yn effeithiol. Gelwir ef gan rai yn "*spiritual tact.*" Ymdrechwch yn ddiffino i gyrhaedd y *tact* hwn. Na ddigalonwch ar ol methu ganwaith; os cyrhaeddwch ar ol blynyddoedd o lafur caled, fe dâl yn dda am dano ei hun.

Brydiau eraill, bydd yn briodol i chwi amrywio eich gweini-dogaeth i gyfarfod â dosbarthiadau neillduol yn eich cynulleidfa. Rhaid i chwi, gan hyny, astudio eich cynulleidfa; ac os byddwch yn pregethu yn aml yn yr un fan, bydd genych fantais i wneuthur hyny. Nac ymddangoswch un amser ger bron unrhyw gynulleidfa fel rhai anneallus o'r bobl fydd o'ch blaen, nac fel rhai amddifad o gydymdeimlad â hwynt. Ond odid na fydd yno rai wedi blino ar wagedd a thlodi y bywyd daearol, ac yn tueddu i feddwl nad oes dim yn werth byw er ei fwyn, tra y bydd yno eraill yn meddu syniad am fywyd annhraethol uwch, ond yn teimlo yn anobeithiol o wan i sylweddoli y syniad hwnw yn eu bywyd eu hunain. Dichon y bydd yno rai yn brwydro yn galed â themtasiynau bywyd, ac eraill, o bosibl, yn ffeiddio eu hunain o herwydd eu bod wedi eu gorchfygu ganddynt, yn ddolurus o euog oblegid methiant neu bechod gwaradwyddus. Fe fydd yno rai yn chwervw arnynt gan "driswch y byd;" eu cynlluniau wedi dyrysu, a'u hamcanion wedi erthylu; ac eraill yn galaru yn archolledig ar ol eu cyfeillion a'u perthynasau anwylaf. Gellwch fod yn sicr am bob cynulleidfa yr ewch iddi, braidd, y bydd yno swp o drueni amrywiol o'ch blaen. Gweddwiwch am galon i fedru cydymdeimlo mor eang, er nad mor ddwfn, a'r Gwaredwr Ei Hun; ac am "dafod y dysgedig i lefaru gair mewn pryd wrth y diffygiol."

Ar un adeg byddwch yn ceisio deffro y difraw, a dwyn yr anystyriol i ystyried ei gyflwr gresynol. Ar adeg arall

byddwch yn ceisio porthi y bywyd ysprydol yn y rhai sydd yn ei feddu, gan ddwyn holl adnoddau gras yr efengyl i fod yn nerth mewn gwendid, ac yn ddyddanwch mewn trallod. Bydd i chwi, yn ddiamheuol, wrth ystyried fod bywyd tragywyddol rhai o'ch gwrandawyr, a chynydd eraill yn y bywyd crefyddol, yn dibynu mewn rhan ar wirioneddolrwydd ac effeithiolrwydd eich gweinidogaeth, lefain mewn arswyd sanctaidd ar lawer adeg, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?"

4. *Trwy gymundeb agos a Duw yn Nghrist, pregethwch fel rhai wedi derbyn eu hanfoniad a'u hysbrydoliaeth oddiwrtho Ef, ac yn cyflawni eich gweinidogaeth yn Ei wydd.* Yn hyn, fel mewn llawer o bethau eraill, byddwch yn ddilynwyr i'r Apostol Paul. Fel hyn y dywedai ef am dano ei hun a'i frodyr: "Nid ydym ni, megis llawer, yn gwneuthur masnach o Air Duw (neu yn llygru, yn cymysgu gair Duw), eithr megis o burdeb, eithr megis o (neu oddiwrth) Dduw, yn ngwydd Duw, yr ydym yn llefaru yn Nghrist" (2 Corinthiaid ii. 17). Nid yn unig y mae yn sicr fod yr efengyl a bregethai yn bur a digymysg, eithr y mae efe ei hun wedi dyfod oddiwrth Dduw, nid yn unig trwy enedig-aeth, eithr trwy anfoniad ac eneiniaid. Gweinidogaetha hefyd "yn ngwydd Duw," yn y teimlad parhaus o'i bresenoldeb. Llefara hefyd "yn Nghrist" fel cylch ei fodolaeth a'i gartref anwyl. O agwedd meddwl dyrchafedig! Pa ryfedd fod un felly yn medru cyfarch cynulleidfaoedd ac eglwysi mewn geiriau sydd yn ofnadwy yn eu harucheledd? "Yr ydym ni yn genadau dros Grist, megis pe byddai Duw yn deisyf trwom ni; yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymoder chwi â Duw" (2 Cor. v. 20). I'r graddau y byddwch yn debyg i Paul yn y pethau blaenorol, y byddwch yn gallu dywedyd fel yntau: "Perarogl Crist ydym ni i Dduw, yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig." Beth bynag a ddaw o'n gwrandawyr—hwynt-hwy sydd i edrych at hyny—y mae ein gweinidogaeth yn gymeradwy gyda Duw. Byddwch hefyd, megis yntau; gyda phob difrifwch, yn ngolwg Duw, yn medru apelio at gydwybodau eich gwrandawyr. "Trwy eglurhad y gwirionedd

yr ydym yn ein canmawl ein hun wrth bob cydwybod dynion, yn ngolwg Duw" (2 Cor. iv. 2). Ac megis yntau, cyn bod yn hir, bydd eich gweinidogaeth yn sicr o gael ei harddel a'i bendithio gan Dduw, fel y bydd genych ddwyfol seliau i'ch gweinidogaeth, ac y byddoch chwithau mewn canlyniad yn medru profi eich anfoniad i'r weinidogaeth yn yr un modd ag oedd Paul yn profi ei osodiad yn yr apostoliaeth (1 Corinthiaid ix. 1—13). Dyma beth effeithiol i "ostegu anwybodaeth dynion ffolion;" zél Duw ar eich gweinidogaeth, mewn achubiaeth rhai, ac mewn adeiladaeth ysprydol eraill. Ac O daledigaeth digyffelyb! eneidiau cadwedig yn goron eich llawenydd.

Wrth gychwyn, bwriadwn ddywedyd ychydig eiriau ar y rhan arall a nodir yn y testyn o'ch swydd bwysig, sef arolygu y praid, "gan fwrw golwg;" ond bum yn rhy annosbarthus gyda'r amser. Rhaid i mi yn awr derfynu. Torais allan lawer o waith i chwi, a gosodais arnoch feichiau lawer. Ond er eich cysur cofiwch hyn, y bydd mesur helaeth o yspryd y weinidogaeth yn sicr o wneuthur pob iau yn esmwyth, a phob gwaith yn ysgafn. Truenusaf o bawb ydyw yr hwn a osodwyd yn y weinidogaeth ac heb ei hyspryd; ond er maint ei waith, y dedwyddaf ar yr holl ddaear ydyw "gweinidog da i Iesu Grist;" un sydd yn credu ynddo, ac yn Ei garu â'i holl galon, ac yn ymffrostio yn Ei groes, gan deimlo fod Ei groes wedi "croeshoelio y byd iddo ef, ac yntau i'r byd." Amcan ac ysprydoliaeth ei holl fywyd ydyw Ei wasanaethu, ac y mae pob gwasanaeth yn llafur cariad. Y mae yn llafurio, ac "yn llefaru yn Nghrist." I eraill fe ddichon yr ymddengys ei lafur yn fawr ac yn drwm, ond iddo ef—

" Mae mwy o bleser yn Ei waith
Na dim a fedd y ddaear faith."

Cyfran helaeth o'r pleser goruchel hwn a ddymunaf finau i chwithau, fy mrodyr anwyl. Bydded i ogoniant a melusder gwirioneddau yr efengyl, ac agosrwydd eich cymundeb â'r Gwaredwr bendigedig, wlychu eich pregethau "â dagrau

melus iawn" wrth eu darparu yn eich myfyrgelloedd; a bydded y pulpud yn nefoedd i chwi ar y ddaear wrth eu traddodi. A phen ar y pethau a ddywedwyd: "Pan ymddangoso y Pen Bugail, chwi a gewch dderbyn anniflanedig goron y gogoniant."

ANERCHIAD—XIX.

—:O:—

GWAITH Y WEINIDOGAETH YN EI GYSYLLTIAD AG AMGYLCH-
IADAU PRESENOL Y CYFUNDEB.

FRODYR A THADAU,—

Mewn ufudd-dod i gais y Gymanfa Gyffredinol ddiweddaf yn Liverpool, addewais y buaswn yn darllen papur yn y Gymanfa hon ar destyn a benodasid ar gyfer brawd arall, heb ystyried ar y pryd fod y testyn, tra yn gyfaddas iddo ef, oherwydd ei addfedrwydd mewn oedran, profiad, a barn, yn anghyfaddas i un sydd yn llawer ieuangach. Gobeithiaf y medrwch briodoli fy myrbwylldra i barodrwydd i ufuddhau, ac nid i wagedd meddwl, ac y bydd i chwi felly edrych heibio iddo. Nid oeddwn yn digwydd bod yn bresenol pan benodwyd y testyn, ac felly, ni chefais y fantais o wybod, trwy glywed y sylwadau a wnaed ar y pryd, yn mha gyfeiriad y dysgwylid i mi fyned. A hwyrach y byddai cystal i mi wneyd yr addefiad cyn cychwyn, nad ydwyf yn bwriadu caethiwo fy hun i eiriad y testyn, ond cymeryd achlysur oddiwrth yr hyn a elwir yn “yspryd y testyn,” i draethu pa beth bynag a farnwyf yn angenrheidiol, ar ol cryn dipyn o ystyriaeth bryderus. Bwriadaf hefyd gyfyngu fy sylwadau ar “waith y weinidogaeth,” i'r ran fwyaf arbenig o'r gwaith hwnw, sef pregethu yr efengyl, a'i gysylltiadau.

Yn ol fel yr ydym wedi arfer meddwl, fel Cyfundeb, dyma brif ordinhad Duw i achub y byd; ac am hyny, y mae yn teilyngu y sylw blaenaf. Tybir yn amgen, y dyddiau presenol, gan lawer. Nid ychydig ydyw yr ymdrech i ddarostwng pregethu yr efengyl, ac i ddyrchafu pethau eraill yn ei le. Braidd na ellir dywedyd mai dyma duedd gyffredin llen-

yddiaeth Seisonig. Gwneir hyn gan ddau ddosbarth, y naill yn ddosbarth anghrefyddol, a'r llall yn grefyddol. Amcana y dosbarth crefyddol ddyrchafu rhanau eraill o wasanaeth crefydd, megis darlleniad o Air Duw, canu a gweddio, ynghyd a'r ddwy ordinhad a elwir yn sacramentau. Ychydig o le sydd ganddynt i'r bregeth; goreu po leiaf a fyddo ei hyd, a pho fwyaf diymadferth a fyddo o ran cynwysiad a thraddodiad. Y mae rhai, a fedrant bregethu yn dda, fel pe byddent yn ymdrechu pregethu yn wael, er mwyn darostwng y rhan yma o'r gwasanaeth crefyddol yn ngolwg eu gwrandawyr; ac y mae ymddygiad y dynion galluog hyn yn gochl dros anallu mintai y gweiniaid. Gosodir yr holl bwys ar ymgroesi ac ymgyrnu yn ol cyfarwyddiadau diweddfaf *etiquette* defosiwn, a derbyn yn wasaidd y sacramentau o law "olynwyr cnawdol yr apostolion." Ni wneir ymdrech, ond ar amserau nodedig, "i bregethu'r Gair, gan fod yn daer" i "berswadio dynion" trwy gyflwyniad gwirioneddau dwyfol i'w sylw, er agoryd eu deall, a deffro eu cydwybodau fel creaduriaid moesol; ond dysgwylir y bydd i holl rinwedd yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist ddylifo i ddynion trwy ryw swyn-gyfaredd offeiriadol—rhyw fath o *spiritual magnetism* cuddiedig yn nghorff yr olynwyr cnawdol—yr hyn a gam-enwir yn "ras y sacramentau." Nid oes gydfod rhwng sacramentiaeth a phregethu effeithiol. Y mae yn wir fod rhai eithriadau wedi bod yn yr oesoedd gynt, a bod eithriadau rai yn ein dyddiau ni; ond fel gwirionedd cyffredinol, credwn y deil y gosodiad hwn ei chwilio, pa un bynag a fedrwn ni roddi cyfrif boddhaol am yr eithriadau ai peidio.

Dosbarth arall angharedig tuag at bregethu ydyw bydol-ddynion digrefydd. Cri gwastadol y dosbarth hwn ydyw fod yr argraffwasg yn ein dyddiau ni wedi disodli y pregethu; nad oes galwad yn awr ar y pregethwyr i ddysgu cynulleidfaoedd fel y gwnelai yr hen bregethwyr, gan fod hyny yn cael ei wneuthur yn llawer mwy effeithiol a chyffredinol trwy yr

argraffwasg; ond mai eu gwaith penaf hwy bellach ydyw bod yn arweinyddion i ddefosiwn y gynulleidfa. Caniateir iddynt, y mae yn wir, os ymrwymant i fod yn fyr, dim uwchlaw pymtheg mynyd, i draddodi cynghor caredig a brawdol, rhywbeth a fydd o duedd i goffhau eu prif ddyledswyddau i'w cynulleidfaeodd.

Ond yr hen syniad Methodistaidd sydd yr un a syniad yr Apostol Paul, sef, mai pregethu yr efengyl ydyw prif foddion Duw i aflonyddu ac i achub y byd. Mewn pregethu effeithiol y cychwynodd Methodistiaeth; ar bregethu effeithiol y mae wedi bod yn byw; a chredaf yn ddiysgog y diflana Methodistiaeth yn ebrwydd, pan dderfydd y pregethu grymus o'n plith. Hwyrach ein bod yn rhy ddifater ac esgeulus ynghylch llawer o bethau eraill, yn enwedig ynghylch y rhanau mwyaf addoliadol o'r gwasanaeth crefyddol. Dymunol, gan hyny, ydyw gweled pob ymdrech i berffeithio caniaadaeth y cysegr, i ddyfod yn fwy prydlon i'r addoliad, ac i dalu mwy o sylw i ddarllenriad syml a difrifol o Air Duw. Ond gwnele'r holl ymdrechion hyn, heb geisio darostwng pregethu o'r safle arbenig a roddwyd iddo gan Dduw, fel Ei brif offeryn i argyhoeddi a dychwelyd y byd. Ni ddaw llyfrau byth i lanw lle pregethu. Ni all llyfrau hebgor gwasanaeth y llais dynol ar faterion sydd yn dal llawer llai perthynas a chalon dyn na phregethu yr efengyl. Er holl ddarpariaeth yr argraffwasg, y mae yn rhaid wrth athrawon mewn ysgolion ac mewn colegau. Ofer ydyw dywedyd fod y ddysgeidiaeth angenrheidiol i'w chael yn y llyfr. Yn y llyfr yn unig y bydd, oddieithr i'r dyn ieuanc gael cymborth yr athraw byw, i'w sugno i'w feddwl ei hun. Pa faint mwy angenrheidiol ydyw llais byw y pregethwr byw i draddodi gwirioneddau dwyfol cyfeiriol at galonau y gwrandawyr, a gwirioneddau ag y mae yn eu calonau hefyd wrthdarawiad dwfn yn eu herbyn! Na, y mae pregethu yr efengyl yn ordinhad ddwyfol sydd i aros yn ddiglyfnewid drwy holl gyfnewidiadau amser. Nid ydwyf yn dywedyd y pethau hyn, oherwydd fod tuedd gref eisioes wedi

ymddangos yn llawer o'r Cymry i ddarostwng pregethu yr efengyl, ond y mae llenyddiaeth haner-anffyddol a choelgrefyddol y Saeson yn ffynu yn fawr yn Nghymru, ac o angenrheidrwydd yn lefeinio ein gwlad. Ac, ysywaith, y mae llawer o'r Cymry yn ddigon penysgafn i dybied mai arwydd anffaeledig o fawredd ydyw efelychiad dall o'r Saeson y digwyddont fod yn gydnabyddus a hwynt, heb ymofyn yn gyntaf, ai rhagoriaeth, ai ynte ddiffyg, ydyw yr hyn a efelychir ganddynt.

Mynych yr ysgrifenis ac y siaredir am yr "oes," ac am "yspryd yr oes," ac yn mysg pethau ereill, am "bregethu cyfaddas i'r oes." Gan fod y testyn yn son am "waith y weinidogaeth yn ei gysylltiad ag amgylchiadau presenol y Cyfundeb," hwyrach y dysgwylir i minau ddyweyd gair yn y cyfeiriad hwn. Ond yn anffortunus, rhaid i mi gyfaddef mai ychydig iawn o barch sydd genyf i "yspryd yr oes," os ydwyf yn ei iawn adnabod. Yr ydwyf yn rhy ieuanc i gymharu y "dyddiau o'r blaen" a'r "dyddiau hyn," fel i gael fy rhestru, pe bawn yn ewyllysio, yn mysg y rhai a elwid gan Mr. Jay o Bath yn "*Croakers*;" ac nid oes ynwyf y dymuniad lleiaf i ymuno a'r frawdoliaeth, er nad ydwyf mewn cariad a'r *abstraction* hwnw a elwir yn "yspryd yr oes." Rhag i mi grwydro yn rhy bell oddiwrt h ei amcan, yr unig grybylliad am yr "oes" a wna, fydd datgan fy nghrediniaeth ddifrifol mai y pregethu sydd yn gyfaddas i'r oes, ydyw yr un croes i archwaeth a dymuniad yr oes. Os ydwyf wedi iawn ddeongli "arwyddion yr amserau," dau fath o bregethu sydd yn gymeradwy gan yr oes, sef math o bregethu ymarferol, a math o bregethu cynhyrfus. Na thybied neb fy mod yn tueddu i feio pob math o bregethu ymarferol a chynhyrfus, oblegid y mae'r pethau hyn yn elfenau hanfodol mewn gwir bregethu. Y pregethu ymarferol, ag sydd yn gymeradwy gan "yspryd yr oes," ydyw y pregethau hyn ag sydd braidd yn amddifad o bob peth arall. Nid yw esboniadaeth ysgrythyrol yn gymeradwy, oblegid y mae hyn yn gofyn astudrwydd

a sylw o du y gwrandawyr sydd yn flinderus ganddynt; ac y mae lle i ofni nad ydyw llawer o honynt yn ddigon cynefin a Gair Duw, nac ychwaith yn ddigon awyddus am wybod ei ystyr, i allu gwerthfawrogi pregethu o'r natur hyn. Nid oes awydd ychwaith mewn llawer am glywed perthynas y naill wirionedd a gwirioneddau eraill yn nhrefn yr iachawdwriaeth, fel ag i fedru amgyffred pob gwirionedd yn ol "cysondeb y ffydd." Annyddorol hefyd ydyw pob ymgais o eiddo y pregethwr i ddangos y "paham a'r pa fodd," sef angenrheidrwydd a chymhwysder pethau yn y trefniant dwyfol, fel ag i alluogi y gwrandawyr i ganfod doethineb a daioni Duw. Am hyny, goreu po leiaf o eglurhadaeth ysgrhythrol, o dduwinyddiaeth, ac o athroniaeth grefyddol a fyddo yn y bregeth gan ddisbarth rhy luosog o wrandawyr, y rhai sydd wedi dyfod i wrando yn unig er mwyn "clywed pa beth sydd *raid* iddynt ei wneuthur fel y byddont gadwedig," ac i gael ychydig o gyfarwyddiadau ar y ffordd oreu i fyw yn gysurus yn y byd hwn. Rhai wedi cyfranogi yn helaeth o yspryd anturiaethus a masnachol yr oes ydyw y dosbarth hwn o wrandawyr; ac oblegid hyny, a edrychant ar grefydd ei hun fel math o anturiaeth fasnachol. Y mae gwledda ar wirioneddau yr efengyl, er eu mwyn eu hunain, yn beth hollol ddyeithriol iddynt. Nid ydyw duwioldeb yn ddim iddynt hwy ond "elw." Teimplant ogwydd weithiau i wneuthur *bargain* a'r Brenin Mawr am fywyd tragwyddol, am ryw nifer o gyflawniadau o'r eiddynt hwy; a deuant i'r oedfa yn unig i wybod "pris y farchnad." Dysgwylant i'r pregethwr fedru gwneuthur hyn mewn modd byr a chryno, tebyg i'r crynodeb byr o brisiau marchnadoedd a welir mewn newyddiaduron. Ac felly y mae deg neu bymtheg mynyd o bregeth yn llawn digon o hyd. Os nad ydwyf wedi camgymeryd yn hollol, dyma'r "pregethu ymarferol" sydd yn fwyaf cymeradwy gan yspryd daearyl a masnachol yr oes.

Ond y pregethu mwyaf poblogaidd yn yr oes hon ydyw pregethu cynhyrfus, sef pregethu sydd yn apelio at deimladau

a thymberau y gwrandawyr, heb drethu ond ychydig ar eu meddyliau. Ni theimlir y dymuniad lleiaf gan lawer am gael ychwanegiad at eu gwybodaeth; yr unig beth dymunol ganddynt mewn pregethu ydyw cyflwyniad o hen wirioneddau adnabyddus mewn modd gogleisiol neu gynhyrfus. Dyma'r dosbarth sydd yn Nghymru, yn dyfod i'r capel i ymofyn am yr hyn ag y maent yn Lloegr yn myned i'r *theatre* i'w gael, sef cynhyrfiad. Ni ddeuant i'r oedfa gyda'r dymuniad i gyfoethogi eu meddyliau a gwirioneddau a fyddont yn destynau myfyrdod iddynt ar ol myned adref, ac yn gyfarwyddiadau pa fodd i ymddwyn yn eu hachosion pwysicaf, ond deuant yno yn hytrach i fyned o dan *operation* o eiddo'r pregethwr, a hyny ar cyn lleied o drafferth iddynt hwy eu hunain ag a fyddo yn bosibl. Dysgwyliant iddo ef eu goglais neu eu cyffroi. Eisteddant yn yr agwedd fwyaf ddioglyd o'i flaen, neu ynte crymant eu penau i hepian, hyd nes y byddo yn dechreu dyrchafu ei lais. Pan gyfodo ei lais ymddadebrant hwythau, a dechreuant dalu rhyw gymaint o sylw i'r hyn a ddywedir ganddo. Ac i draethu yr holl wirionedd yn y cyfeiriad hwn, fe ddichon fod *rhai* o'n tadau fel pregethwyr, wedi dysgu y cynulleidfaoedd yn ddrwg, trwy beidio dywedyd dim wrthynt ag oedd yn werth eu sylw am yr ugain mynyd cyntaf. Pan gyfodent eu llef, dyna'r pryd yr oedd y bregeth mewn gwirionedd yn dechreu. "Y tadau a fwytasant rawnwin surion, ac ar ddanedd y plant y mae dincod." Un o brif elfenau dylanwad cynhyrfus neu ogleisiol ar wrandawyr Cymreig ydyw llais soniarus. Ofer ydyw i neb ddisgwyl fod yn boblogaidd iawn yn Nghymru heb lais da. Rhaid i bregethwr poblogaidd fod fel "cân cariad un hyfrydlais, ac yn canu yn dda." Peth naturiol a phriodol ydyw barnu cerddor wrth ei lais: ond nis gwn pa beth i'w ddywedyd am farnu pregethwr wrth felusder tôn a nerth ei lais. Oddeutu blwyddyn yn ol clywais ryw ŵr yn canmol rhyw bregethwr yn anghyffredin; a sylwedd y ganmoliaeth ydoedd "fod ei ddawn fel tânau telyn." Hawdd gweled beth oedd syniad y

brawd hwnw am ddawn—sef llais da. Dyna syniad miloedd eraill. Rhy debyg ydyw llawer o'n gwrandawyr i wrandawyr Ezeziel. Y mae eu dyfodiad i'r addoldy fel pobl Dduw, "gwrandawant ein geiriau," os byddwn yn eu canu yn dda, "ond nis gwnant hwy." Nid ydyw yn ymddangos i mi fod llawer o honynt wedi dychymygu fod eisiau iddynt eu gwneyd. Y mae *expression* llawer cynulleidfa, "wedi dywedyd o fewn fy nghalon" na ddarfu i'r syniad fod y pregethau yn bethau i'w gwneyd, ddim ar dramwy alw heibio i'w meddyliau erioed. *Entertainment* ydyw gwrandawyr pregethau, a dim ond hyny, tebyg i ddarlenniad *novel*. A dyna sydd yn dorcalonus, fod miloedd o'n gwrandawyr anwyl bob blwyddyn, o ganol yr *entertainment* Sabbothol ac wythnosol hwn, yn myned i gollledigaeth. Oh, na chynysgaeddid ni yn helaethach a gallu dwyfol i dori ar eu breuddwydion trwy eu deffro o'u cwsg!

Y mae hanfodion gwir bregethu i fod yr un yn mhob oes. Gan mai "efengyl dragywyddol" a bregethir, y mae pregethu o ran sylwedd yn ddigyfnewid. Dichon fod ychydig o wahaniaeth o ran ffurf rai prydiau, rhagor prydiau eraill. Hwyrach hefyd fod galwad neillduol ar rai amserau i rodidi arbenigrwydd i ryw wirioneddau, rhagor gwirioneddau eraill. Er hyny, y mae pregethu yr efengyl yn mhob oes, yn hanfodol yr un. Yr ydym yn defnyddio y gair efengyl, yn y cysylltiad hwn, yn ei ystyr eangaf, fel yn gyflod a'r holl ddatguddiad dwyfol—oblegid "yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." Rhaid i bregethwr yr efengyl "fynegu holl gynghor Duw." Eto fe ellir symio cynwysiad y pregethu mewn tri gair—*Ffeithiau*, *Athrawiaethau*, a *Dyledswyddau*." Ffeithiau braidd yn unig ydoedd swm a sylwedd pregethu yr apostolion. Gosod y sylfeini i lawr ydoedd eu gwaith hwy; ac felly yr oedd yn rhaid iddynt hwy ddechreu gyda'r ffeithiau. Genedigaeth, bywyd, marwolaeth ac adgyfodiad Crist, yn ol yr

Ysgrythyrau, ydoedd baich eu gweinidogaeth. Yr oedd yn angenrheidiol cadarnhau gwirionedd y prif ffeithiau cyn deongli eu hystyr; a dynodi eu hamcan mewn athrawiaethau. Wedi cadarnhau y ffeithiau, yr oedd yr athrawiaethau a'r dyledswyddau yn cyfodi yn naturiol oddiarnynt. Angenrhaid yw pregethu yr athrawiaethau a'r dyledswyddau yn gystal a'r ffeithiau sylfaenol, yn y dyddiau presenol; a'r pregethu perffeithiaf ydyw yr un sydd yn cyfuno mewn cyfartaledd priodol yr holl bethau hyn. Y mae'r pregethu Cymreig wedi bod hyd yn hyn yn gyfoethog mewn athrawiaethau, a dymuniad ein calon ydyw iddo barhau felly. Clywais Dr. Wright, o Southampton, un o'r gweinidogion Ysgotaidd ag sydd amryw weithiau wedi bod yn ein Cymanfaoedd, yn dywedyd ei fod wedi ei siomi yn foddhaol yn ein pregethu. Yr oedd ef wedi cyfranogi o'r dybiaeth gyffredin sydd yn mhlith ein cymydogion am y pregethu Methodistaidd Cymreig, sef nad oedd ond appeliad cynhyrfus at dymherau y gwrandawyr; ond er ei syndod, cafodd fod haen drwchus o athrawiaeth o dan yr appeliadau at gydwybodau a chalonau y gwrandawyr. Ond mewn pregethu athrawiaethol dylid bod yn ofalus—

I. *Am gyflwyno y gwirionedd mewn ffurf syml ac eglur.* Nid yn yr un ffurf y dylai y pregethwr gyfleu athrawiaethau yr efengyl o flaen lluaws ei wrandawyr—llawer o ba rai na chawsant fanteision addysg erioed—ag y derbyniodd efe hwynt mewn athrofa oddiwrth athraw duwinyddol. Hwyrach y dylai yr athraw yn y *class-room* ddeffino a phrofi i fanylrwydd; ond nid doeth fyddai gwneuthur hyny yn y pulpud. Gall yr athraw ddefnyddio ac egluro lluaws o dermau duwinyddol na fyddai yn ddoeth i'r pregethwr eu defnyddio o gwbl. Nid ydyw yn angenrheidiol ychwaith tuag at gyfleu y gwirionedd. Fe gyhoeddwyd yr efengyl ar y cyntaf hebddynt; ac ni theimlwyd eu heisiau hyd yr amser y daeth yn angenrheidiol i gyfodi gwrthgloddiau yn erbyn cyfeiliornadau neillduol. Heblaw hyny, fe ddichon fod llawer o'r gwrandawyr yn gydnabyddus a llawer o dermau duwinyddol, ond heb erioed

feistrolï y gwirioneddau cynwysedig ynddynt. Fe ddywed Isaac Taylor, yn un o'i ysgrifeniadau, os ydwyf yn iawn gofio, fod *gravitation* meddyliau yn llawer iawn cryfach na *gravitation* geiriau, ac felly fod perygl mawr mewn hir ddefnyddio hen dermau, i'r meddyliau fu unwaith yn gynwysedig ynddynt, gael eu sugno allan o honynt gan nerth *gravitation*, fel na byddai yn aros mwyach ddim ond geiriau gweigion yn nofio ar y wyneb. Beth bynag am hyny, yr ydym yn sicr ein bod wedi adwaen rhai dynion ag oeddynt yn dra medrus mewn trin termau duwinyddol, na fu eu heneidiau erioed mewn ymdrech a'r gwirioneddau eu hunain; oblegid ni fedrent gymaint ag adnabod y gwirioneddau wedi iddynt gael eu dihatru o'u gwisg dermyddol. Yn mhob modd, gan hyny, gwell ydyw i'r pregethwr ymgadw, hyd ag y byddo yn bosibl, o fewn geiryddiaeth y Beibl ei hun; ac os chwenycha ddangos ei fedrusrwydd a'i wybodaeth dduwinyddol ac ieithyddol, gwell fyddai iddo ymofyn am gyfleusderau eraill i wneuthur hyny, ac nid pan fyddo yn pregethu yr efengyl i dlodion, ac yn cyhoeddi i eneidiau colledig fod "Crist Iesu wedi dyfod i'r byd i gadw pechaduriaid."

II. *Dylid bod yn ymdrechgar hefyd i gyfleu gwahanol athrawiaethau yn eu lleoedd ac mewn cyfartaledd priodol.* Heb ddysgu unrhyw gyfeiliornad uniongyrchol, y mae yn bosibl gwneyd i'r efengyl ymddangos fel "efengyl arall," yn unig trwy gyfleu yn anghyfartal ei gwahanol wirioneddau. Ac nid oes dim ond cynefindra dwfn a Gair Duw, a chyfranogiad helaeth o'i yspryd, a'n galluoga i roddi yr un pwysigrwydd cymhariaethol ar ei holl wirioneddau ag a osodir arnynt yn yr Ysgrhythrau. Y mae yn bosibl i yspryd sectawl, ac i'r zêl boethlyd a enynir gan ddadleuon duwinyddol, gamarwain dynion yn y cyfeiriad hwn. Yn yr un cyfeiriad cyfeiliornus y'n harweinigir gan y dueddfryd i wneuthur *hobbies* o ryw ddosbarth neillduol o wirioneddau ar draul esgeuluso gwirioneddau eraill, pa un bynag ai o ogwydd naturiol neu ynte o ddiogi meddyliol y bydd hyny yn cyfodi.

III. *Dylid bod yn wyliadwrus hefyd i ymofyn pa argraff a gynyrchu.* Yn sicr fe ddylai fod rhyw argraff yn cael ei gynyrchu. Nid oes yr un o wirioneddau mawrion y Beibl i'w bregethu ond gyda'r amcan o gynyrchu rhyw argraff neillduol. Nid eglurhad a phrawf i'r dyben o foddio deall y gwrandawyr yn unig ydyw gwir bregethu. Nid ydyw hyn ond ffordd i gyrhaedd y gydwybod a'r galon. Tuag yno y dylai cyfeiriad pob saeth fod. Y mae traddodi pregeth heb un amcan iddi, yn beth ffolach, meddai John Newton, nag anfon llythyr i ffwrdd heb un cyfeiriad arno. Dylem fod yn wyliadwrus hefyd rhag i ni gynyrchu argraff annymunol trwy ryw ddrwg yspryd ynom, neu ynte trwy ein hanfedrusrwydd. Soniai Robert Hall am ryw bregethwr oedd wedi ei feddianu i'r fath raddau gan Dduwdod Crist, nes yr aeth yn brif bwnc pob pregeth o'i eiddo, naill ai mewn ffordd o gadarnhad ar yr athrawiaeth, neu ynte o atebiad i wrthddadleuon. Y canlyniad fu i'r nifer fwyaf o'i wrandawyr fyned naill ai yn Ariaid neu yn Undodiaid. Diamheuol hefyd ddarfod i lawer bregethu y gwirionedd mawr gogoneddus o benarglwyddiaethol ras Duw yn achubiaeth dynion yn y fath fodd ag oedd naill ai yn digaloni neu yn ystyfnigo yspryd eu gwrandawyr. Cymhellai y diweddar Mr. Charles, o Gaerfyrddin, bawb na fedrai bregethu y pynciau a elwir yn Galfinaidd heb niweidio eu gwrandawyr eu gadael yn llonydd i'r sawl a fedrant.

Dylid amcanu bob amser cynyrchu dau argraff; (1) *Anesmwytho y pechadur yn y lle y mae.* Mewn atebiad i'r gofyniad: "Pa beth sydd yn cymhell y meddwl i ymlonyddu neu ysgogi?" dywed John Locke mai y "teimlad o foddlonrwydd sydd yn ei berswadio i ymdawelu yn y fan y mae, ac mai anesmwythder sydd wrth wraidd pob ysgogiad neu symudiad." Dylem ninau gymeryd awgrym oddiwrth hynyma i'n cyfarwyddo pa fodd i weithredu. Dyledsdydd gyntaf y pregethwr ydyw ceisio anesmwytho ei wrandawyr. Os na fedrwn roddi edifeirwch a ffydd iddynt, dylem wneuthur ein goreu i aflonyddu arnynt. Dan fendith Duw, fe wna hyny esgor ar

ryw ysgogiad. (2) Gwisgo holl gymeriad y Duw mawr mewn gwedd ddengar i bechadur edifeiriol—gosod holl drefniadau yr efengyl yn y wedd fwyaf *inviting* i yspryd cystuddiedig—yn yspryd y geiriau yn Llyfr y Datguddiad: “Y mae'r Yspryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dywedod Tyred. A'r hwn sydd â syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered o ddwfr y bywyd yn rhad.”

Nid ydym wedi pregethu athrawiaethau yr efengyl yn y wedd nac yn yr yspryd priodol, os na fydd yn hawdd i ni fyned oddiwrthynt i gymhell dynion at eu gwahanol ddyledswyddau, yn eu perthynas â Duw, ac yn eu perthynas â'u cyd-ddynion. Felly yr oedd yr apostolion yn cyfleu gwirioneddau—athrawiaethau yn mlaenaf, a'r dyledswyddau yn canlyn. Athrawiaethau gogoneddus yr efengyl ydoedd y cymhellion mawrion a ddefnyddient hwy i berswadio dynion i gyflawni eu gwahanol ddyledswyddau. Nid ydyw pregethu dyledswyddau neu argymhell rhinweddau, ond oddiar y cymhellion hyn, yn bregethu Cristionogol. Er ys ychydig o flynyddau yn ol, beid y pregethwyr Cymreig yn gyffredinol, ac yn arbenig pregethwyr y Methodistiaid, am beidio dysgu mwy o foesoldeb i'w gwrandawyr. Cyhuidd hwy o ddysgu “*metaphysics of theology*” i'w gwrandawyr iselradd; ac o esgeuluso dysgu iddynt foesau Cristionogol. Dywedir yn awr nad ydym yn dysgu “duwinyddiaeth” o gwbl, a bod ein gwrandawyr yn gydstad a'r anwariaid paganaidd o ran eu dirnadaeth o athrawiaethau Cristionogaeth. Camdystiolaeth ydyw y naill a'r llall o'r tystiolaethau hyn. Hyd yma, beth bynag, y mae yn mhulpudau y Methodistiaid gyfuniad, lled agos a bod yn apostolaidd, o athrawiaethau a moesau; a byth na wawrio'r boreu y caffont eu hysgar oddiwrth eu gilydd!

Llawer o siarad sydd am y dymunoldeb o bregethu yn erbyn pechodau yr oes; a thrwy hyn y geisio diwygio moesau dynion. Y mae Dr. Owen yn dywedyd geiriau pwysig iawn ar y mater hwn. Methais a dyfod o hyd i'r fan lle y maent fel ag i fedru eu


dyfynu. Ond dyma'r ystyr. Unig ffordd Duw i ddiwygio'r byd ydyw trwy ei achub; ac y mae pob ymgais i'w ddiwygio o eiddo pobl Dduw, ond trwy yr efengyl, yn weithrediad croes i gynllun ac amcan Duw. Awgryma efe na ddylid pregethu yn erbyn pechodau neillduol, ond yn unig i gario'r argyhoeddiad adref i fynwes y pechadur, fod ei gyflwr yn drwyadl ddrwg, a'i sefyllfa yn wirioneddol druenus. Cael gan y pechadur i ddarfod ag ef ei hun ac i ffoi i gysgod yr Hwn a osododd Duw yn Iawn ydyw amcan mawr gweinidogaeth yr efengyl; ac y mae ei bechodau amlwg yn fanteisiol i gynyrchu y teimlad hwn. Pe llwyddid i gael ganddo i adael heibio ei bechodau, byddai yn debyg o lochesu mewn ffurfioldeb a rhagrith, a myned yn fwy anhawdd i gael gafael arno nag o'r blaen. Ond gyda phob dyledus barch i Dr. Owen yr wyf yn tybied fod un pechod, beth bynag, y gellid gwneyd eithriad o hono, sef meddwdod. Yn mlaenaf, anianol yn benaf ydyw y pechod hwn. Ffrwyth blys annaturiol ydyw. *Importation* ydyw, heb fod yn rhan o'r pechod gwreiddiol. Yn ail, y mae yn bosibl tynu ymaith ei holl achlysuron. Dilëer y fasnach ac fe dderfydd y pechod. Nis gellir gwneuthur hyn ag un pechod arall. Yn drydydd, ei ganlyniadau dinystriol mewn cymdeithas. Y mae yn atal llawer rhag dyfod o dan ddylanwad gweinidogaeth yr efengyl, ac yn dileu yn llwyr bob argraff ar eraill. Felly, hyd y nod a chaniatau fod sylw Dr. Owen yn gywir, y mae y pechod o feddwdod o herwydd y pethau a nodwyd yn eithriad cyfreithlon. Y mae yn bur debyg fod llwyddiant masnach y dyddiau hyn yn debyg o droi yn borthiant i'r pechod hwn, fel ag y bydd galwad am egni adnewyddol i'w wrthwynebu.

Tuag at i'r pregethu Cymreig gynal yn mlaen gyda'r un nerth a chyfoeth athrawiaethol ag sydd wedi ei nodweddu hyd yn hyn, y mae dau beth yn angenrheidiol. (1) I'r ysgol Sabbothol barhau yn ei heffeithiolrwydd. Y mae lle i ofni nad ydyw y sefydliad hwn mor llwyddianus ag y bu. Y mae yn hollol sicr nad ydyw felly mewn rhai parthau o Gymru.

Mewn ardaloedd eraill, hwyrach ei bod hyd yma heb lesghau. Ni fuasai y pregethu Cymreig yr hyn ydyw yn awr oni buasai yr ysgol Sabbothol; a phan wanycho hono, bydd rhaid i'r pregethu newid ei gymeriad. Yna gorfydd i'r pregethwr gymeryd yn ganiataol na wŷr ei wrandawyr nemawr ddim am dduwinyddiaeth, ac nad ydynt ychwaith yn gynefin iawn â'r Beibl; ac fe bair hyny chwyldroad hollol yn y pregethu.

(2) Rhaid dyfeisio rhyw foddion i gael darllen mwy cyffredinol ar lyfrau crefyddol. Y mae lle i ofni mai ychydig o hyn sydd yn bod. Hwyrach fod llawer mwy o ryw fath o ddarllen yn awr, yn enwedig ar newyddiaduron a ffug-hanesion, nag oedd ddeg-ar-ugain mlynedd yn ol. Nid oes mewn llawer cymydog-aeth yr un ddarpariaeth o gwbl i wasgaru llyfrau crefyddol, na neb yn eu cynyg, heb sôn am demtio dynion i'w prynu. Onid oes llawer llai o ddarllen ar lyfrau crefyddol er pan ataliwyd gwerthu llyfrau crefyddol o gwmpas y capeli? Hwyrach nad oedd hyny y ffurf fwyaf dymunol ar bethau; eithr os gwir yr hyn a ofnwn, fe lyncwyd camel wrth hidlo gwybedyn. Wrth ddileu yr hen arferiad, dylasid trefnu rhyw foddion effeithiol a fuasai yn cyflawni yr un gwasanaeth. Dylai ein blaenoriaid a'n pregethwyr ofalu am hyn.

Vertical text on the left margin, possibly bleed-through or a page number.





GENERAL LIBRARY - U.C. BERKELEY



8000882832

